School of Theology at Claremont
1001 1328275

The Library

SCHOOL OF THEOLOGY AT CLAREMONT

WEST FOOTHILL AT COLLEGE AVENUE
CLAREMONT, CALIFORNIA

Digitized by the Internet Archive
in 2026

https://archive.org/details/traethawdamyrysb0000john

John Hughes

Factory

Llanuwchllyn

Jonawr 1 1845

BT
120
08119
1840

TRAETHAWD

John Hughes Factory Llanuwchllyn

AM

YR YSBRYD GLAN;

Ionawr 1 — 1845

YN YR HWN YR YMDRINIR AM

EI ENW, EI NATUR, EI BERSONOLIAETH,

EI ORUCHWYLIAETH, EI WEITHREDIADAU,

A'I EFFEITHIAU;

Ac y gwneir sylwadau eglurhaol ac amddiffynol
ar ei holl waith

YN YR HEN GREADIGAETH A'R NEWYDD;

GAN Y PARCH. JOHN OWEN, D.D.,

Gynt Is-Ganghellydd Athrofa Rhydychain.

WEDI EI GYFIEITHU YN BENAF O DALFYRIAD

Y PARCH. G. BURDER,

GAN OWEN JONES.

WYDDGRUG:

ARGRAFFWYD, A CHYHOEDDWYD, GAN

HUGH AC OWEN JONES.

MDCCCXL.

fyriad Seis'nig, ac i adael ambell un allan, pan farnai hyny yn oreu er amlygu meddwl yr Awdwr yn well.

Er gwneuthur y Traethawd hwn yn fwy perffaith, ychwanegid dan yr ARDDAWD amryw ddyfyrion tra rhagorol o Draethiadau eraill a gyfansoddasai y Dr. OWEN ar ranau o waith yr Ysbryd, ar yr hyn nid ymdrinid cymmaint yn ei *Pneumatologia* gwreiddiol ef; a meddyliwyf fod y rhanau hyn yn chwanegu gwerth y Llyfryn hwn yn ddirfawr.

Tra mae y Cyfieithydd yn dymuno dychwelyd ei ddiolchgarwch diffuant i'w gydgenedl am y gefnogaeth ragorol a gafodd efe i ddwyn y Llyfr hwn allan, trwy fod uwchlaw *dwy fil* yn ei dderbyn yn rhifynau, heblaw rhai cannoedd a roisant eu haddewidion yn barod i'w gymeryd yn Gyflyfr ar ei orpheniad; y mae efe yn dymuno eu hysbysu hefyd ei fod yn bwriadu, os estynir iechyd ac einioes iddo, gyhoeddi rhai rhanau eto o waith yr un Awdwr dysgedig yn gyfrolau cyffelyb i hon, yn enwedig ei Draethawd ar GYMMUNDEB A DUW, o'r hwn y mae swrn wedi ei gyfieithu yn barod; ac amcenir dilyn hwnw gan yr eiddo ar *Feddylfryd ysbrydol,* ar *Ogoniant person Crist, &c.;* pa fodd bynnag, y mae cyflawniad y bwriadau hyn yn ymddibynu, mewn mesur mawr, ar yr amnaid a gâ y Cyfieithydd o lais ei gydgenedl gyda golwg ar hyny.

Gyda golwg ar y Cyfieithiad presenol, ymdrechwyd i osod meddwl yr Awdwr allan mewn iaith ddirodres hyd y gellid; eto ar ei derfyn y mae y Cyfieithydd yn addef fod ynddo amryw wallau ac anmherffeithderau amlwg i lygaid beirniaid craffus. Ond, medda yr hyfrydwch pa fodd bynnag o ystyried ei fod wedi cael bod yn offerynol i ddwyn un Llyfr tra buddiol yn ychwanegol o'r Wasg Gymmreig, yn yr hwn y gobeithia y caiff cannoedd o'i gydgenedl hyfrydwch a llesäad ysbrydol mewn oesoedd dyfodol, wedi ei symmud ef i fyd yr ysbrydoedd.

Wrth derfynu, dymuna yn ostyngedig, eto yn daer, ar fod i'w gydwladwyr ddarllen y Traethawd hwn yn fanwl a diragfarn; gan weddïo am wybodaeth brofiadol o waith yr Ysbryd Glan ar eu heneidiau hwy eu hunain: ac am fod iddynt gael eu cyfarwyddo trwy offerynoldeb y Llyfr hwn i ffurfio barn gywir am yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb, eu gwreiddio a'u seilio yn y gwirioneedd, a'u hadeiladu yn y sancteiddiolaf ffydd, y gweddïa

eu gwas anwiw,

OWEN JONES.

Wyddgrug, Awst 1, 1840.

Y CYNNWYSIAD.

LLYFR I.

TU DAL.

Pen. I. Gosodiadau cyffredinol, mewn perthynas i'r Ysbryd Glan a'i waith 9

Pen. II. Enw a theitlau yr Ysbryd Glan 24

Pen. III. Dwyfoldeb a phersoneliaeth yr Ysbryd Glan yn cael ei brofi a'i amddiffyn 28

Pen. IV. Gweithredoedd neillduol yr Ysbryd Glan yn y grëedigaeth gyntaf 42

Pen. V. Dull y gweinyddiad o'r Ysbryd Glan 46

LLYFR II.

Pen. I. Gweithrediadau neillduol yr Ysbryd dan yr Hen Destament, yn rhagarweiniol i'r grëedigaeth newydd 54

Pen. II. Goruchwyliaeth gyffredinol yr Ysbryd Glan gyda golwg ar y grëedigaeth newydd 68

Pen. III. Gwaith yr Ysbryd Glan ar natur ddynol Crist, Pen y grëedigaeth newydd 73

Pen. IV. Gwaith cyffredinol yr Ysbryd Glan ar aelodau y corff dirgeledig o'r hwn y mae Crist yn Ben. 87

LLYFR III.

Pen. I. Gwaith yr Ysbryd yn y grëedigaeth newydd trwy adgenhedliad 99

Pen. II. Gweithredoedd yr Ysbryd Glan yn rhagbarottoawl i ailenedigaeth 116

Pen. III. Llygredigaeth y meddwl trwy bechod 125

TU DAL.

Pen. IV. Bywyd a marwolaeth, naturiol ac ysbrydol, yn cael eu cydmaru 149
Pen. V. Natur, achosion, a moddion ailenedigaeth 151
Pen. VI. Dull dychweliad yn cael ei egluro trwy anmghraifft yn hanes Awstin 173

LLYFR IV.

Pen. I. Natur sancteiddäad, a sancteiddrwydd efengylaidd yn cael ei egluro 196
Pen. II. Sancteiddäad yn waith cymyddol 207
Pen. III. Credinwyr yn unig wrthddrychau sancteiddäad, a deiliaid sancteiddrwydd 223
Pen. IV. Halogedigaeth pechod; yn mha beth y mae yn gymwysedig; yn nghyd a threfn puredigaeth oddiwrtho 231
Pen. V. Halogedigaeth pechod yn cael ei dynu ymaith trwy Ysbryd a gwaed Crist 241
Pen. VI. Gwaith awdurdodol yr Ysbryd yn sancteiddäad Credinwyr 257
Pen. VII. Am weithredoedd a dyledswyddau sancteiddrwydd 277
Pen. VIII. Marweiddiad pechod, ei natur, a'r achosion o honaw 283

LLYFR V.

Pen. I. Yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd yn cael ei brofi oddiwrth natur Duw 301
Pen. II. Ein hetholedigaeth dragywyddol yn achos o, a chymhelliad i sancteiddrwydd 316
Pen. III. Sancteiddrwydd yn angenrheidiol oddiwrth orchymynion Duw 327
Pen. IV. Yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd yn cael ei brofi drwy waith Duw yn anfon Iesu Grist .. 338
Pen. V. Yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd yn cael ei brofi oddiwrth ein cyflwr ni yn y byd hwn.... 349

YR ARDDAWD.

TU DAL.

Gwaith yr Ysbryd Glan mewn gweddi 361
Gwaith yr Ysbryd fel Dyddanydd 370
Am breswyliad yr Ysbryd 371
Am Enneiniad yr Ysbryd 373
Yr Ysbryd yn sêl 375
——— yn ernes 379
Y Cymhwysiad 381
Am ddoniau ysbrydol 384
Swyddau a doniau annghyffredinol 385
Yr achosion, y ffyrdd, a'r moddion, o ddeall meddwl Duw yn yr Ysgrythyrau 398

TRAETHAWD

AM

YR YSBRYD GLAN.

LLYFR I.

GOSODIADAU CYFFREDINOL, MEWN PERTHYNAS I'R YSBRYD GLAN A'I WAITH.

PENNOD I.

Y Rhaglith.

Cyfarwyddai yr apostol Paul y Corinthiaid, yn y 12fed bennod o'i epistol cyntaf attynt, i ddefnyddio Doniau Ysbrydol, o'r rhai y cawsent helaethrwydd, ac yn nghylch yr hyn yr ymgynghorasent âg ef; canys yn gymmaint a bod gan yr Arglwydd "bobl lawer yn ninas Corinth, y rhai yr amcanai eu galw, efe a gymhellodd yr apostol i fyned yno a phregethu iddynt,—a barodd lwyddiant mawr i'r gair,—ac a addurnodd y dychweledigion cyntaf â'r cyfryw ddoniau anarferol, ag a allai fod yn offerynol yn nychweliad rhai eraill. Yn yr arferiad o'r doniau hyn, ymddygasai llaweroedd yn dra anmhriodol, a cham ddefnyddient hwynt er gwasanaethu eu huchelfrydedd. Ar hysbysiad rhyw rai a garent wirionedd, tangnefedd, ac iawn-drefn, ac a flinid yn fawr o herwydd hyn; ac mewn attebiad i lythyr oddiwrth yr holl eglwys, o barth hyn ac amgylchiadau eraill,

mae yn rhoddi cynghor iddynt er uniawni y cyfryw gamarferion: ac mewn trefn i barottôi eu meddyliau i dderbyn addysg, trwy gyffroi gostyngeiddrwydd a diolchgarwch ynddynt, y mae efe yn dwyn ar gof iddynt y cyntwr yr oeddynt ynddo, cyn eu dychwelyd at Grist, "Chwi a wyddoch mai Cenhedloedd oeddych, yn eich arwain ymaith at yr eilunod mudion, fel y'ch tywysid,"—gan gael eich ffrystio dan ddirgymhelliadau oddiwrth y diafol i wasanaeth eilunod. Efe a grybwyllai hyn, nid er edliw iddynt, ond er galw eu sylw at yr ansawdd meddwl a ddysgwylid mewn rhai wedi derbyn y ffaith gyfnewidiad yn eu cyflwr; ac efe a ddarlunia y cyfnewidiad yma yn nhellach wrth yr awdwr a'r effeithiau o honaw: "Am hyny yr wyf yn hysbysu i chwi, nad oes neb yn llefaru trwy Ysbryd Duw, yn galw yr Iesu yn ysgymmun-beth: ac ni all neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu, eithr trwy yr Ysbryd Glan." Dadl fawr yr oes hono oedd yn nghylch yr Iesu. Anngheredinwyr a gablent gan ddywedyd fod yr Iesu yn anathema. Hwy a'i cyfrifent ef fel un i'w ffieiddio, ac am hyny pan sonid am dano, hwy a arferent ddywedyd, "Iesu anathema!" "y mae, neu bydded felldigedig, ffieiddiedig!" A hyn oedd cyflwr y Corinthiaid eu hunain unwaith; ar y llaw arall, y credinwyr a'i galwent ef yr Arglwydd; hwy a'i cydnabyddent ef yn Jehofah, "uwchlaw pawb yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd;" a hwy a addefent ei fod ef yn Arglwydd iddynt hwy, yn Arglwydd eu heneidiau a'u cydwybodau, megis y dywedai Thomas yn ei gyffes fawr, "Fy Arglwydd a'm Duw." Y cyfnewidiad mawr yma a wnaed yn y Corinthiaid gan yr Ysbryd Glan; canys "ni all neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu," neu, mai yr Iesu yw yr Arglwydd, *(Saes.)* ond trwyddo ef. Dynoda yr ymadrodd yma ein *ffydd* ni ynddo ef, a'n *proffes* ni o'r ffydd hono; yr hyn bethau ydynt yn canlyn eu gilydd pan yn ddiffuant bob amser; canys megis yr oedd dywedyd fod yr Iesu yn *ysgymmun-beth*, yn cynnwys gwadiad amlwg o hono ef,—felly yr oedd ei alw ef yn *Arglwydd*, yn arwyddocau proffes

o'u ffydd yuddo ac ymostyngiad iddo ef; ac mai gwaith yr Ysbryd Glan yw hyn, i'r hyn nid oes neb yn ddigonol o hono ei hun, a brofir yn helaeth rhagllaw.

Wedi darlunio dechreuad a sylfaeniad yr eglwys fel hyn, mae efe yn eu hysbysu yn mhellach mai yr unrhyw Ysbryd hefyd yw awdwr y doniau hyny trwy y rhai yr ydoedd i'w hadeiladu a'i heangu; "Ac y mae amryw ddoniau, eithr yr un Ysbryd;" ac er dynodi unoliaeth yr Awdwr, er amrywiaeth y doniau, mae efe yn ei alw ef, yr un Ysbryd—yr un Arglwydd—yr un Duw. Megis y'i gelwir ef *yr Ysbryd*, er dangos pa un o'r personau a olygid, felly efe a elwir yn *Arglwydd*, a *Duw*, i arwyddocau ei awdurdod benarglwyddiaethol ef yn ei holl weithrediadau, ac i gynnyrchu yn ein calonau barch priodol iddo ef. adn. 4—7.

O ran eu natur yn gyffredinol, y mae yr apostol yn eu dosbarthu i ddoniau, gweinidogaethau, a gweithrediadau; ac yna yn dangos dyben yr Ysbryd yn y cyfraniad o honynt i'r eglwys: "eithr eglurhad," neu ddatguddiad "yr Ysbryd, a roddir i bob un er lleshâd;" hyny ydyw, y doniau hyny, trwy y rhai yr amlyga efe ei ofal am yr eglwys; a'i bresenoldeb, ei allu, a'i weithrediadau effeithiol, a ganiatteir i rai fel y'u defnyddier er adeiladaeth craill.

Gwahaniaethir y doniau hyn yn mhellach trwy naw o wahanol enwau;—Doethineb, Gwybodaeth, Ffydd, Dawn i Iachau, Gweithur Gwyrthiau, Proffwydoliaeth, Gwahaniaeth Ysbrydoedd, Tafodau, a chyfieithiad Tafodau. Adn. 8—10.

Ond, gan fod cymmaint o amrywiaeth doniau, pa fodd y gellir attal ymraniadau ac amrafaelion yn mhlith y rhai a dderbyniasant y doniau hyn?

Mae yn ddiau y gall y cyfryw amrafaelion gymeryd lle, a'u bod wedi cymeryd lle mewn gwirionedd yn eglwys Corinth. Y naill a fawrygai un ddawn, y llall, arall, ac felly yn mlaen; ac yn mysg y rhai a gawsent y doniau cu humain, ymffrostiai un o'r ddawn neillduol yma, ac arall o'r llall; a chwenychid y doniau hyny a ducddent i gyffroi syndod

y bobl, yn fwy na'r rhai a dueddent i fod yn fwy defnyddiol. Fel hyn, megid ymraniadau yn yr eglwys;—mor ffol yw meddyliau dynion; mor dueddel yw eu chwantau i "droi barn yn wermod," ac i gam ddefnyddio doniau gwerthfawrocaf Duw! Er attal y drygau hyn rhagllaw, ac amlygu unoliaeth y doniau hyn o ran eu ffynhonell a'u tueddiad, yr ymadroddai yr apostol yma am yr awdwr o honynt, a rheol eu gweinyddiad; "A'r holl bethau hyn y mae yr un, a'r unrhyw Ysbryd yn eu gweithredu, gan ranu i bob un o'r neilldu megis y mae yn ewyllysio."

Nid ymdröaf gyd a'r geiriau hyn yn bresenol, gan y bydd raid i ni wneyd cyfeiriad mynych attynt fel yr elom rhagom; canys yr ydwyf yn amcanu drwy gymhorth Dwyfol ymdrin oddiwrth y geiriau hyn am Enw, Natur, Bôd, a holl Waith yr Ysbryd Glan; yr hyn sydd yn orchwyl rhy fawr i mi i ymafael ynddo, a thu hwnt i'm gallu i'w gyflawni er gogoniant i Dduw na daioni dynion; canys "pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?"—Ond eto ni's beiddiaf lwyr ddifygio, tra yr edrychaf at yr hwn sydd yn rhoddi doethineb yn haelionus a heb ddannod i'r rhai sydd hebddi. Pwysfawredd a defnyddioldeb y testyn, yn nghyd a'r angenrheidrwydd presenol i sylwi arno, yn unig a'm tueddodd i ymafael yn y gwaith. Gan hyny, myfi a geisiaf ddangos y pethau hyn mewn rhai ystyriaethau cyffredinol.

Yn gyntaf, Nyni a allwn sylwi fod yr athrawiaeth am Ysbryd Duw, yn *ail brif Erthygl* o'r gwirioneddau efengylaidd hyny, â'r rhai y mae gogoniant Duw, a lles eneidiau yn dwyn perthynas benaf; ac heb adnabyddiaeth o hwn, ni fyddai y cyntaf o unrhyw ddefnydd. Canys pan raglunodd Duw y gwaith gogoneddus o adferu dyn colledig, efe a drefnodd ddau foddion mawr i hyny:—Y naill oedd rhoddi ei Fab drostynt hwy; a'r llall oedd rhoddi ei Ysbryd iddynt. A thrwy hyn agorwyd ffordd i amlygu gogoniant y Drindod fendigedig, yr hyn yw cithaf-nod holl weithredoedd Duw. Trwy hyn y gwnaed amlygiad gogoneddus, o gariad, gras, a doethineb y Tad yn y lluniaethiad

o'r cyfan; cariad, gras, a gostyngeiddrwydd y Mab, yn ngweinyddiad trefn Iachawdwriaeth; a chariad, gras, a gallu yr Ysbryd, yn nghymmhwysiad y cyfan at eneidiau dynion. Felly, er pan ddaeth pechod gyntaf i'r byd, yr oedd dau ben cyffredinol i addewidion Duw o barth iachawdwriaeth; y naill mewn perthynas i anfoniad ei Fab i gymeryd ein natur, a dyoddef drosom ynddi; a'r llall mewn perthynas i roddiad ei Ysbryd, i wneuthur ffrwythau ei gnawdoliaeth, ei ufudd-dod, a'i ddyoddefaint yn effeithiol i ni. Addewid fawr yr Hen Destament, oedd yr un am ddyfodiad Mab Duw yn y cnawd; ond wedi cyflawni hono, y brif addewid sydd yn aros dan y Testament Newydd, a berthyna i ddyfodiad yr Ysbryd Glân. Am hyny y mae yr athrawiaeth am ei berson, ei waith, a'i ras ef, yn perthynu yn arbennig i'r Testament Newydd, ac yn nod ffydd y cristion mewn modd neillduol; ac y mae yn ofynol i ni fanylu peth ar hyn, gan fod a wnelom â rhai nad addefant o'r braidd, ei fod ef yn deilwng o nemmawr o ystyriaeth yn y pethau hyn.

1. Mae yr ystyriaeth o fod Iesu Grist, pan oedd ar adael y byd hwn, wedi addaw anfon ei Ysbryd Sanctaidd, i lanw ei le gyd a'i ddysgyblion, o'r pwys mwyaf. Nyni a allwn ddirnad mewn mesur, o ba ryw wasanaeth yr oedd presenoldeb Crist iddynt hwy; canys cu calonau a lanwyd o dristwch pan soniodd efe am eu gadael. Gan amcanu eu cynnal a'u cysuro yn yr amgylchiad yma, efe a wnaeth yr addewid hon iddynt: gan sicrhau iddynt drwy hyny ryw beth gwell na pharâad ei bresenoldeb corfforol ef yn eu mysg, "A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn dragywyddol; Ysbryd y gwirionedd, yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled, nac yn ei adnabod ef: ond chwi a'i hadwaenoch ef; o herwydd y mae yn aros gyda chwi, ac ynoch y bydd efe. Ni's gadawaf chwi yn amddifaid, (neu yn annyddanus) mi a ddeuaf attoch chwi," hyny yw, trwy ei Ysbryd. "Y pethau hyn a ddywedais

wrthych, a mi yn aros gyda chwi. Eithr y Diddanydd, yr Ysbryd Glan, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi yr holl bethau, ac a ddwg ar gof i chwi yr holl bethau a ddywedais i chwi. Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith; canys onid âf fi, ni ddaw y Diddanydd attoch. A phan ddel, efe a argyhoedda y byd o bechod, ac o gyfiawnder, ac o farn. Efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd; a'r pethau sydd i ddyfod a fynega efe i chwi. Efe a'm gogoneddа i, canys efe a gymer o'r eiddof fi ac a'i mynega i chwi." Ioan 14. 16, 17, 18, 25, 26, a'r 16. 7, 8, 13, 14. Dyma y gymmun-rodd fawr a adawodd yr Iesu i'w ddysgyblion galarus; ac o herwydd ei phwysfawrogrwydd efe a'i hadroddai drachefn a thrachefn, gan ymhelacthu ar y buddioldeb a dderbynient hwy trwy hyny.

Oferedd yw haeru na pherthynai yr addewid hon namyn i'r apostolion, neu y cyn-gristionogion; canys er ei gwneuthur iddynt hwy mewn modd *neilldnol*, eto mae yn perthynu i gredinwyr yn gyffredinol, a hyd ddiwedd amser. Yr hyn a weddïai Crist dros ei apostolion, can belled ag y perthynai i'w *weithrediadau grasol ef*, a weddïai efe hefyd dros y rhai a gredent ynddo ef trwy eu hymadrodd hwynt. Ioan 17. 20. A'i addewid ef yw, mai pa le bynnag y bydd o dau neu dri wedi ymgynnull yn ei enw ef, y bydd efe yno yn eu canol hwynt. Matt. 18. 20. a 28. 20; a thrwy ei Ysbryd yn unig y mae efe felly; ac y mae yr unig ystyriaeth yma yn ddigon i ddangos pwysfawredd yr athrawiaeth: canys a yw yn ddichonadwy i un cristion fod mor ddiofal, fel nad ymofyno pa beth a addawodd Crist i lanw ei le ei hun gyda ni, ac i'n dwyn o'r diwedd atto ei hun? Nid oes i'r hwn a fyddo yn ddïystyr o'r pethau hyn, na rhan na chyfran yn Nghrist ei hunan; canys "od oes neb heb Ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef." Rhuf. 8. 9.

Mae gwaith mawr yr Ysbryd Glan yn ngoruchwyliaeth yr efengyl, yn brawf arall i'r un perwyl. Ac o herwydd hyn y gelwir yr efengyl ei hunan yn "weinidogaeth yr Ysbryd," yn gyferbyniol i weinidogaeth y ddeddf, yr hon

a elwir "Gweinidogaeth angau, a damnedigaeth." 2 Cor. 3. 6—8. Wrth weinidogaeth yr Ysbryd y golygir, naill ai y weinidogaeth a wneir yn effeithiol gan yr Ysbryd; neu y weinidogaeth hono, trwy yr hon y mae yr Ysbryd yn ei ddoniau a'i rasau yn cael ei gyfrannu i ddynion; a hyn yn unig sydd yn gwneuthur yr efengyl yn effeithiol. Cymerwch yr Ysbryd o'r efengyl, ac yna, nid yw yn amgen na "llythyren farw;" mor hollawl annefnyddiol i gristionogion, ag yw yr Hen Destament i'r Iuddewon. Gan hyny, dychymyg niweidiol, yn deillio oddiar anwybodaeth ac annghreddiniaeth, yw nad oes dim mwy yn yr efengyl, nac a gynnwysir dan gyhoeddiad o unrhyw wirionedd arall; nad yw yn ddim amgen na llyfr i ddynion roddi eu rheswm i weithredu arno. Ysgaru yr Ysbryd oddi wrthi yw hyn, yr hyn yw ei dinystrio mewn gwirionedd; a gwrthod cyfammod Duw, sef y byddai i'w eiriau a'i Ysbryd gyd fyned· Esa. 59. 21. Gan hyny, nyni a brofwn fod holl effeithioldeb gweinidogaeth yr efengyl yn ymddibynu ar weinidogaeth addawedig yr Ysbryd, â'r hon y'i dilynir. Ac felly, os oes un gofal genym am yr efengyl, wele ddyledswydd arbenig i ni o'n blaen, yn y testyn dan sylw.

3. Nid oes un *daioni ysbrydol* yn cael ei gyfranu *i ni* o'r dechreu i'r diwedd, ond a ddatguddir ac a gyfrennir i ni, gan yr Ysbryd Glan. Yr hwn ni theimlodd waith neillduol Ysbryd Duw arno erioed, ni's derbyniodd unrhyw drugaredd neillduol oddiwrth Dduw. A pha fodd y gall? canys pa beth bynnag a weithredir gan Dduw ynom, trwy ei Ysbryd y'i gweithredir: gan hyny ni dderbyniodd yr hwn nad yw gwaith Ysbryd Duw ar ei galon, na thrugaredd na gras oddiwrth Dduw. Felly y mae gwadu gwaith yr Ysbryd, yn ymwadiad â phob cyfran yn nhrugaredd a gras Duw.

4. Nid oes dim a wneir genym yn sanctaidd a chymeradwy gan Dduw, oddicithr yr hyn fyddo yn effaith gweithrediad yr Ysbryd. Hebddo ef ni's gallwn ni wneuthur dim, Ioan 15. 5; canys heb Grist ni's gallwn ni wneuthur

dim, a thrwy yr Ysbryd yn unig y mae gras Crist yn cael ei gyfranu. Trwyddo ef y'n *hadgenhedlir;* trwyddo ef y'n *sancteiddir;* trwyddo ef y'n *glanheir;* trwyddo ef y'n *cynnorthwyir* yn mhob gwaith da. Gan hyny yn ddiau, nyni a ddylem ymholi i achos a ffynhonell yr holl ddaioni sydd ynom.

5. Mae Duw wedi sicrhâu i ni, mai yr unig bechod anfaddeuol yw y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân. Gallai hyn yn unig ein hargyhoeddi o'r angenrheidrwydd dirfawr i ni fod yn hyddysg yn ei gylch ef. Fel hyn y dywaid ein Harglwydd, "Maddeuir pob pechod i ddynion, a pha gabledd bynnag a gablont; eithr yr hwn a gablo yn erbyn yr Ysbryd Glan, ni chaiff faddeuant." Marc 3. 28, 29. Math. 12. 32. Dyma y pechod i farwolaeth, am yr hwn nid oes gweddi i'w gwneuthur, 1 Ioan 5. 16. Oblegid gan ei fod ef wedi cymeryd arno gymhwyso attom ni y rhinwedd mawr sydd yn ngwaed Crist er maddeuant ein pechodau os y dirmygir ac y ceblir ef yn y cyflawniad o'r gwaith hwnw, yna nid oes faddeuant wedi ei adael mwyach am y pechod hwnw; canys, o ba le y gellid ei gael? gan nad oes gan Dduw Fab arall i gyflwyno aberth arall dros gamwedd, fel nad oes aberth wedi ei adael dros y neb a ddirmygo ei aberth ef; felly, nid oes ganddo Ysbryd arall i gymhwyso yr aberth attom ni, os dirmygir yr Ysbryd Glan. Gan hyny, amlwg yw, na's gallwn fod yn rhy ddiwyd yn ein hymchwiliadau i'r datguddiad a wnaeth Duw am ei Ysbryd, gan na's gall dynion wneyd camgymeriad mor niweidiol mewn dim ag yn eu gwrthwynebiad iddo ef.

Yn ail;—Mae cyfeiliornadau a fuant yn ffŷnu yn mhob oes yn yr eglwys, dan rith enw a gwaith yr Ysbryd Glan yn peri fod yn dra angenrheidiol i ni fyfyrio ar yr athrawiaeth hon. Pe na buasai y pethau hyn yn ardderchog ynddynt eu hunain, ni ffugiasid hwynt mor fynych. Yn ol gwerth pethau, y maent yn ddarostyngedig i'w camddefnyddio; a pha ragoraf y byddo unrhyw beth, mwyaf niweid-

iol a fydd y cam ddefnyddiad o'r cyfryw. Nid oes dim yn yr holl fyd mor ffiaidd â'r hyn sydd yn cymeryd arno fod yn Dduw, ac nid yw; na dim arall y gellir gwneyd camddefnyddiad mor niweidiol o honaw. Er esampl, ystyriwn; mai y ddawn ysbrydol fwyaf nodedig dan yr Hen Destament, oedd y ddawn i *broffwydo*. Ystyrid y ddawn hon yn deilwng, yn un o tri mawr, fel un yn dwyn argraffiad arni o *awdurdodiad* Duw, ac o'i *agosrwydd* at ddyn; heblaw hyny, ymddiriedasid i'r proffwydi lywio meddyliau a chydwybodau dynion; canys hwy a lefarent yn enw yr Arglwydd a thrwy ei awdurdod ef. Am hyny yr ymhonodd llawer yn y ddawn hon, o'r rhai nad ysbrydolasid gan yr Ysbryd Glan; ond a gynhyrfid mewn gwirionedd gan ysbryd celwyddog ac allan; canys y mae yn dra thebyg y byddai diafol yn defnyddio dynion i gyflawni ei amcan ei hun, pan fyddent yn gau ymhoni o *Ddwyfol ysbrydoliaeth;* ond nid yw yr ymhoniadau gweigion hyn yn bwrw un an-fri ar y wir ddawn o'r Ysbryd Glan: ond yn hytrach yn achlysuro arddangosiad dysglaeriach o'i rhagoroldeb; canys nid anrhydeddodd Duw ei wir broffwydi yn fwy un amser, na phan fyddai lluaws o gau-broffwydi; ac ni's gwna unrhyw gau-ymhoniadau o Ysbryd y gras, ei wneyd yn llai hoff gan grediuwyr, neu leihau defnyddioldeb ei ddoniau yn yr eglwys.

Fel hyn y bu hefyd dan y Testament Newydd. Yr efengyl a gyhoeddwyd ar y cyntaf trwy ddatguddiad di-gyfrwng yr Ysbryd; hi a bregethid trwy ei gynnorthwy, a effeithiolid trwy ei allu, a ddylynid â gwyrthiau yn aml. Gan fod pawb a gyhoeddent gau athrawiaethau yn cydnabod y pethau hyn, ni's gallent ddyfeisio gwell ffordd i attcb eu dybenion pennodol eu hunain, na thrwy gymeryd arnynt eu bod wedi derbyn datguddiad digyfrwng oddiwrth yr Ysbryd. Am hyny y dywedai Pedr, "Bu gau brophwydi hefyd ym mhlith y bobl, megis ag y bydd gau athrawon yn eich plith chwithau." Ac o herwydd hyn y rhoddai yr apostol Ioan y gocheliad a'r rhëol werthfawr hono i ni, "Anwylyd, na

chredwch bob yspryd, eithr profwch yr ysprydion ai o Dduw y maent; oblegid y mae gau brophwydi lawer wedi myned allan i'r byd. Wrth hyn adnabyddwch Yspryd Duw; Pob yspryd ar sydd yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, o Dduw y mae. A phob yspryd a'r nid yw yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, nid yw o Dduw." 1 Ioan 4. 1, 2. Rhybuddir cristionogion yma, i ochelyd rhoddi coel i bob athrawiaeth a ymhonn mewn datgaddiad digyfrwng, ond, i brofi yr ysbrydion eu hunain. Gelwir gau athrawon, yn gau broffwydi, ac ysbrydion, mewn cyfeiriad at y gau broffwydi gynt, y rhai a dadogent eu rhagfynegiadau ar Ddwyfol ysbrydoliaeth; ond y rhai mewn gwirionedd a gyffröid gan y diafol ei hunan. Gan hyny fe'n hannogir i brofi eu honiadau; nid trwy eu rhoddi ar ryw waith anughyffredinol er cadarnäad o'u honiad,—ond trwy yr athrawiaeth a ddysgir ganddynt. Profer eu hathrawiaeth wrth yr ysgrythyrau; ac os bydd yn gyson â'r rhai hyn, gellir ei derbyn yn ddiogel; ond os bydd yn ngwrthwyneb i'r ysgrythyr, rhaid ei gwrthod yn y fan, pa mor uchel bynnag a fyddo yr awdurdod a honir ganddynt drosti. Mae yn angenrheidiol hefyd ein bod wedi cael argyhoeddiad trwyadl o rai *egwyddorion sylfaenol*. Felly yn gymmaint a bod rhyw ddychymygion dyeithriol am berson a chyfryngdod Crist yn ffynu yn y dyddiau hyny, cyfarwyddai yr apostol y credinwyr i brofi yr ysbrydion wrth yr egwyddor sylfaenol hon:—"Ddyfod Iesu Grist yn y cnawd;" yr hyn a gynnwysai addefiad o'i berson a'i gyfryngdod ef. Parai iddynt ofyn gan bob rhyw athrawon newyddion, "A ydych chwi yn credu fod Iesu Grist wedi dyfod yn y cnawd?" ac oni's gwnaent yr addefiad yma, nid oeddynt i ymdroi i wrando unrhyw honiadau eraill o'r eiddynt, ond troi oddiwrthynt, heb ddywedyd "Duw yn rhwydd iddynt:" a'r cyfryw ydyw dyledswydd pob credinwyr eto, i brofi yr ysbrydion; a'r neb a fynnai eu hysbeilio o'r rhyddid hwn, a fynent wneyd afresymolion yn lle cristionogion o honynt. Mae y gocheliad yma yn dra angenrheidiol yn neillduol pan fyddo tywalltiadau helaeth o'r

Ysbryd ar ddysgyblion Crist; oblegyd pan fyddo doniau ysbrydol mewn arferiad a bri mawr, y mae Satan yn sier o ddefnyddio yr adeg i ddwyn cyfeiliornadau i fewn. Felly y bu tuag amser y diwygiad oddiwrth Babyddiaeth; ac yn y dull yma yr â rhagddo yn fwy-fwy ymdrechgar i dwyllo dynion, fel y byddo i Ddiaw gymmyddu doniau a grasusau ei Ysbryd yn yr eglwysi.

Yn drydydd. Mae gwrth-ysbryd yn cael ei osod i fynu yn ein dyddiau ni, yn erbyn Ysbryd Duw, yn ei fod, a'i holl weithrediadau; canys y mae yr ysbryd newydd yma yn cymeryd arno wneuthur yr hyn oll sydd addawedig i'w wneuthur gan Ysbryd Duw. Gelwir hwn gan rai, "Y golcuni oddi fewn," er nad yw mewn gwirionedd ddim amgen na chyfeiliornad tywyll o gymmyrchiad Satan ar eu dychymygion hwy; neu, ar y gorau, golau naturiol cydwybod, yr hyn a alwai rhai o'r paganiaid bcfyd yn Ysbryd. Hyn a'u dysgu hwy, a'u hyfforddia, a'u goleua; a thrwy hyn y dysgwyliant gymeradwyaeth gyda Duw, a hyny yd tragywyddol. Yn awr, gan fod y drwg yma ar gymmydd, mae ein dyledswydd i Grist, a thesturi at eneidiau dynion, yn gofyn i ni ymdrechu i'w wrthdaro; nid trwy wawdiaith nac erledigaeth, fel y gwnaeth rhai, ond trwy ddarluniad cyflawn, eglur, ac ysgrythyrol o natur a gweithrediadau yr Ysbryd Glan. A thrwy hyny y dangosir y fath estron yw y rhith oleuni yma, i wir Ysbryd Crist; mor anmigonol ydyw i fod o un gwir wasanaeth i eneidiau dynion; ïe, ei fod yn cael ei osod i fynu mewn gwrthwynebiad iddo ef a'i waith.

Yn bedwerydd. Mae llawer o farnau niweidiol ar led yn y byd, mewn perthynas i'r Ysbryd Glan, ac y mae llawer yn derbyn y cyfryw gan dybiau, er dymchweliad eu ffydd. Y cyfryw ydyw goiygiadau y rhai hyny a wadant ei Dduwdod a'i Bersonoliaeth. Bu llawer o ymddadleuon yn nghylch y pethau hyn, ond dygid y cyfryw ddadleuon yn nlaen yn y cyfryw fodd yn gyffredin, fel, er i'r gwirionedd gael ei amddiffyn, nad adeiledid nemmawr ar feddyliau credinwyr; canys nid yw y nifer fwyaf o ddynion

difrifol, yn hyddysg yn ansoddion dadlyddiaeth, yr hyn a amcenir i ddystewi gwrthddywedwyr yn hytrach nac i gyfarwyddo ffydd eraill. Heblaw hyny, mae ein hadnabyddiaeth o bethau yn gyffredinol, yn deillio yn fwy oddiar eu gweithrediadau a'u heffeithiau, nac oddiar eu natur eu hunain; ac felly y mae yn arbenig gyda golwg ar Dduw ei hunan. Yn ei fod gogoneddus ei hunan, y mae efe yn trigo yn y goleuni na's gellir dyfod ato: ond yn effeithiau ei ewyllys, datguddiedig yn ei air a'i weithredoedd, yr ydym ni i'w geisio ef: ac fel hyn nyni a gyrhaeddwn well adnabyddiaeth o honaw ef, na thrwy y dyfeisiau mwyaf diwyd am ei natur ef yn ddigyfrwng. Ac felly y mae gyda golwg ar yr Ysbryd Glan a'i bersonoliaeth. Efe a arddangosir i ni yn yr ysgrythyrau drwy y darluniad a wneir o'i briodoliaethau a'i weithredoedd; trwy ein dyledswyddau tuag ato ef, a'n troseddau i'w erbyn. Gan hyny er yr amcanaf roddi eglurâad byr ar y tystiolaethau Ysgrythyrol a ddygir o'i Dduwdod a'i bersonoliaeth ef, myfi a ymhelaethaf yn benaf ar ei weinidogaeth a'i weithrediadau ef, iawn ystyriaeth o'r hyn a'n harweiniai i'r wybodaeth sicr, a'r farn ddiysgog hono am ei fodoliaeth ef, sydd mor angenrheidiol er cyfarwyddo ein ffydd a'n hufudd-dod; a'r hyn hefyd a adlewyrcha oleuni grymmus i'n meddwl, ar holl drefn Duw yn ein iachawdwriaeth.

Yn bummed. Y prif achlysur o'r gorchwyl presenol, ydyw y gwrthwynebiad a wneir yn y dyddiau hyn, i Ysbryd Duw a'i ddoniau. Dirmygir a cheblir pob peth a berthyn iddo ef; ïe, y mae enw yr Ysbryd yn cael ei ystyried yn waradwydd. A buai's yn synu at hyn lawer gwaith, gan fod pob peth da a sanctaidd, yn cael ei briodoli i'r Ysbryd yn hollol yn yr efengyl, a chyflwr y rhai ydynt hebddo ef, a ddarlunir fel rhai di Grist a gwrthodedig; eto y mae llawer a gymerant arnynt eu bod yn credu yr efengyl, mor bell o ddymuno cyfrannogi o'r Ysbryd yma eu hunain, fel y dirmygant y sawl a addefant eu bod yn ymdeimlo yn fywiog yn achos yr Ysbryd a'i waith; ond, y cyfryw oedd

ei groesawiad ef yn y byd ar y dechreu! a hyd yn hyn nyni a ganfyddwn na's dichon i'r byd ei dderbyn ef. Mae yn ddiddadl mai yr addewid o'r Ysbryd oedd y gynnaliaeth a adawodd Crist i'w eglwys, i gyflenwi y diffyg o'i bresenoldeb corfforol ef, ac i wneuthur ei gyfrwngwriaeth ef yn effeithiol; ond y mae yn ansier gan rai yn y dyddiau hyn, pa un a yw Ysbryd Duw o ryw wasanaeth i'r eglwys a'i nid yw! ac ni rusant haeru yn ddi gryn, mai y pethau hyny a briodolir yn eglur iddo ef yn yr Ysgrythyr Lan, ydynt yr achos o'r holl drallodau a'r ymrysonau yn y byd. Rhoddwch y gair iddynt hwy, yn cymmwys datguddiad allanol o ewyllys Duw (fel y medda yr Iuddewon hyd heddyw) ac yna, bod iddynt ei iawn ddefnyddio trwy eu rheswm eu hunain, yw y cwbl sydd yn angenrheidiol i wneuthur eu personau a'u dyledswyddau yn gymeradwy gyda Duw, meddynt hwy; gan hyny o ba ddefnydd y mae Ysbryd yr Arglwydd? O ddim oll debygid yn ol hyn, ond yn unig i beri trwst yn y byd; ac i lanw meddyliau dynion á rhyw dybiau annëalladwy. Pe na's dywedasid pethau fel hyn ni buaswn yn eu hail adrodd; canys y mae angau yn gorwedd wrth y drws ynddynt. Felly gan hyny, gall dynion weddïo hebddo ef, pregethu hebddo ef, troi at Dduw hebddo ef, a chyflawni pob dyledswydd yn eithaf hebddo ef, ac eto er hyn oll, mynnent gael eu cyfrif yn gristionogion!

Yn erbyn unigolion y rhoddir y cyfeiliornadau hyn yn bresenol, pan y'u coffeidir gan eglwysi, parant ymadawiad ofnadwy oddiwrth y ffydd.

Y prif ddatguddiad a wnaethai Duw o honaw ei hun o ddechreuad y byd, oedd unoliaeth ei natur, a'i freiniaeth ar bob peth; ac yn hyn yr arddangosid person y Tad yn uniongyrchol. Yn yr ansawdd yma ar bethau, yr unig gyfeiliornad y gallai yr eglwys gwympo iddo, oedd amlddduwiaeth, neu eilun-addoliaeth; ac am hyny y cawn ni fod pobl Israel mor dueddol i'r ffieidd-deraw hyn yn barnau, er amled y'u cosbwyd o'r herwydd. O'r diweddi, yn [illegible]

Duw ben ar eu heilun-addoliaeth trwy eu rhoddi yn nwylaw y Caldeaid, i lwyr annrheithio eu gwlad, a'u caethgludo hwythau i Babilon.

Trachefn, hwy a brofwyd, â goruchwyliaeth newydd; —anfonwyd Mab Duw mewn cnawd attynt. Ei dderbyn ef ac ufuddâu iddo, oedd i fod yn awr yn brif brofiad eu ffydd. Yma hefyd y cwympodd y rhan fwyaf o'r eglwys hono yn ol drwy annghrediniaeth. Wedi gwrthod yr Iuddewon, galwodd Mab Duw eglwys arall; gan ei seilio ar ei berson ei hun, ffydd yn yr hwn; a phroffes o honaw fel sylfaen yr eglwys, sydd hanfodol i aelodaeth o honi, Matt. 16. 18, 19. Yn yr eglwys newydd hon, mae y sylfaen yma yn osodedig, "Bod Iesu Grist, Mab Duw i'w anrhydeddu fel yr ydym yn anrhydeddu y Tad;" ac y mae pawb a elwir yn brïodol yn gristionogion, yn cyd uno yn hyn; ond yn bresenol, wedi i Grist esgyn at ei Dad, efe a draddododd yr hyn oll sydd ganddo i'w wneuthur yn yr eglwys a'r byd, i'r Ysbryd Glan i'w gyflawni, Ioan 16. 7, &c.; a hyny gyd a'r bwriad, y byddai i berson yr Ysbryd Glan gael ei dra dyrchafu yn yr eglwys;—gan hyny, y mae dyledswydd yr eglwys yn bresenol, yn dwyn perthynas union-gyrchol âg Ysbryd Duw, yr hwn sydd yn gweithredu tuag atti yn enw y Tad, ac yn enw y Mab. A chyda golwg ar ei pherthynas âg ef y mae yr eglwys yn ei chyflwr presenol mewn perygl i wrthgilio oddiwrth Dduw; a pha radd bynnag o wrthgiliad a ganfyddir mewn person unigol, neu mewn eglwys, dan yr oruchwyliaeth bresenol, rhaid olrhain ei ddechreuad hyd yma; canys y mae y pechod o ddirmygu ei berson, ac ymwrthod a'i waith ef yn bresenol, o'r un natur ag oedd eilun-addoliaeth gynt, a gwrthodiad y Iuddewon o berson y Mab.

Hwyrach y bydd i ryw un wrth-ddadleu, Bod yn rhaid cyfyngu yr hyn a ddywedir am weithrediadau yr Ysbryd Glan i amserau cyntaf yr efengyl, pan y'u hamlygid drwy effeithiau gweledig; ac o ganlyniad nad ydynt yn dwyn dim mwy o berthynas i ni nac fel tystiolaeth gofnodawl i

wirionedd yr efengyl. Mae hyn yn wirionedd gyda golwg ar ei weithrediadau gwyrthiol ac anrhyfredinol; ond, os awn i gyfyngu ei holl waith fel hyn, mae yn amlwg y byddem drwy hyny yn gwadu gwirionedd addewidion Crist, ac yn dymchwelyd ei eglwys ef; canys nyni a brofwn yn ddiwad, na's gall neb gredu yn Nghrist, neu addoli Duw ynddo ef, ond trwy yr Ysbryd; ac am hyny, os palla ei gryfhaniadau ef, yna rhaid y derfydd am ffydd yn Nghrist, ac am gristionogaeth hefyd.

Pregethwyd llawer yn y byd ar athrawiaeth yr Ysbryd, ei waith ar eneidiau dynion, mewn argyhoeddiad o bechod, duwiol dristwch, mewn adenedigaeth a sancteiddiad, a'i gymmorthwy mewn gweddi. Dysgwyd dynion fod y pethau mawrion a berthynent i'w heddwch a'u dyddanwch yn ymddybynu ar ei ddylanwadau sanctaidd ef. Dwy a annogwyd i hunan-ymholi am eu profiad personol o'r pethau hyn; a sicrhawyd hwynt yn y modd difrifolaf na's gallant fyned i mewn i deyrnas nefoedd, heb waith effeithiol yr Ysbryd ar eu calonau. Derbyniwyd y pethau hyn fel gwirioneddau sanctaidd gan dorfeydd yn mhob rhyw oes; y rhai a ddarbwyllid yn drwyadl eu bod wedi cael sicraad o'u gwirionedd yn eu profiadau eu hunain; ond, cyfodir amrhefnon yn erbyn hyn oll yn bresenol; ac edrychir ar y cyfryw syniadau fel yn afresymol i'r eithaf. Am hyny y mae yn angenrheidiol anhebgorol i ni chwilo yr Ysgrythyrau, a yw y pethau hyn felly. Myfi a wn yn dda, fod y rhan fwyaf o grediniwyr wedi eu haddoloni mor drwyadl am y gwirionedd o'r pethau hyn, fel na sigla eu cred gan un gwrthwynebiad na gwawd; oblegid y mae gan yr hwn sydd yn credu, dystiolaeth ynddo ei hun; eto y mae yn ddyledswydd arnom ni deimlo cymmaint oddiwrth y gwrthwynebiad trystfawr a wneir i'r gwirionedd, fel ag i'n cyffroi i ddiwydrwydd adnewyddol yn chwilio yr Ysgrythyrau, er cadarnäad ychwanegol i'n meddyliau. Ac er ystyriaeth bwyllig o'r cyfan dan sylw, myfi a adawaf y darllenydd at ei ddewisiad, fel y gwnaeth Elias gynt; "Os yr

Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei ol ef; ond os Baal, ewch ar ei ol yntau." Os ydyw y pethau y mae crefyddwyr yn gyffredin yn eu credu mewn perthynas i'r Ysbryd, wedi eu datguddio yn yr Ysgrythyrau, glynant yn y broffes sanctaidd o honynt, ac ymlawenychant yn y cysuron a gair o honynt; ond os "chwedlau cyfrwys," neu ddychymygion gweigion a di les ydynt; yna y mae yn llawn bryd i feddyliau dynion gael eu rhyddâau o honynt.

PEN. II.

Enwau a Thitlau yr Ysbryd Glân.

E fydd yn rheidiol i ni cyn dechreu ar y gwaith ei hunan, ymadroddi ychydig am yr enw wrth yr hwn y dynodir y Trydydd person yn y Drindod yn fwyaf neillduol yn yr Ysgrythyr Lan.—Yr YSBRYD, yr YSBRYD SANCTAIDD, neu yr YSBRYD GLAN.

Addefir yn gyffredin fod y geiriau Hebraeg a Groeg a gyfieithir *Ysbryd*, yn arwyddocau *awyr mewn ysgogiad, awel, anadl, gwynt;* yr hyn a ysgoga ac ni's gwelir. Defnyddir y geiriau hyn yn yr Hen Destament a'r Newydd, i arwyddocau amrywiaeth mawr o bethau, a hyny o herwydd rhyw bethau cyffredinol yn y rhai y cydunant; ond nid oes nemmawr o anhawsdra i ganfod eu gwir ystyr, mae yr amcan a'r amgylchiadau cysylltiedig a'r testyn dan sylw, yn penderfynu eu harwyddocäad yn y fan. Er mor anmhenodol ydyw y defnyddiad o'r geiriau hyn, y mae yn ddigon eglur fod yn yr Ysgrythyrau ddatguddiad cyflawn o Ysbryd Duw, fel un nodedig, ac yn mhôb modd yn wahaniaethol oddiwrth bob peth arall a ddynodir trwy yr enw hwnw; a bod yr hyn oll a ddywedir am yr Ysbryd hwn, yn perthynu i'w berson neu ei weithrediadau. Weithiau, efe a elwir yr Ysbryd; weithiau, yr Ysbryd Glan; weithiau Ysbryd Duw; weithiau, yr Ysbryd Daionus; weithiau

Ysbryd sanctaidd, ac weithiau Ysbryd Crist, neu Ysbryd y Mab. Yr enw cyntaf, *Ysbryd*, a ddynoda ei berson; a'r ychwanegiadau at yr enw yma, a ddynodant ei briodoliaethau, a'i berthynas â'r Personau eraill.

Mae yr enw YSBRYD, wedi ei amcanu i ddynodi ei natur, neu ei hanfod; fel y mae yn sylwedd pur, ysbrydol; ac felly y dywedir am Dduw, Ioan 4. 24. "Yspryd yw Duw,"—mae efe o natur bur, ysbrydol, heb fod yn gyfyngedig i le, na derbyn wyneb y naill mwy na'r llall yn ei addoliad; yr hyn yr amcenir ei osod allan yn y testyn. Hwyrach y dichon i ryw rai ddadleu o herwydd hyny, nad yw yr enw hwn yn perthynu yn neillduol i'r trydydd Person; ond ei fod yn hytrach yn cynnwys darluniad o'r natur Ddwyfol fel y cyfryw. Addefaf, nad yw yr enw *Ysbryd*, yn y lle cyntaf, yn nodweddiadol o'r trydydd Person: ond gan ei fod yn cael ei arfer am dano ef yn neillduol, y mae yn ddarluniadol o'i ddull ef o fodoli; yn gymmaint, fel pa le bynnag y sonir am yr Ysbryd Sanctaidd, cynnwysir golyg-ddrych ar ei berthynas ef â'r Tad a'r Mab, yn y crybwylliad hwnw; canys Ysbryd Duw yw efe. Ac y mae yn yr enw hwn hefyd gyfeiriad at anadl dyn; ac am hyny yr arwyddocäai yr Arglwydd Iesu roddiad yr Ysbryd i'w ddysgyblion, trwy anadlu arnynt hwy, Ioan. 20. 22. Mae y cyffelybiaethau hyn yn weiniaid ac anmherffaith yn ddïau, gan fod pethau sylweddol yn cael eu harddangos ynddynt trwy bethau damweiniol, pethau anfeidrol trwy bethau meidrol, a phethau tragywyddol trwy bethau amserol: mae eu hannghyffelybrwydd yn llawer mwy na'u cyffelybrwydd; eto y mae y cyfryw gyffelybiaethau yn angenrheidiol i'n gwendid ni, ac yn dra phriodol fel cyfryngau addysg i ni.

Trachefn, Efe a elwir mewn modd o ragoriaeth, yr YSBRYD GLAN, neu yr YSBRYD SANCTAIDD, ac efe a elwir felly, am mai iddo ef y priodolir y gwaith o'n sancteiddio ni. Dyma ei waith arbennig ef; pa un bynnag a fyddo yn gynnwysedig yn neillduad pethau aflan neu gyffredin i

wasanaeth sanctaidd, neu, mewn rhoddiad sancteiddrwydd gwirioneddol mewn dynion. Mae y gwaith hwn yn profi ei fod ef yn Dduw; canys Duw yn unig sydd yn sancteiddio ei bobl: ond, nid hyn yw yr holl reswm am yr enwad yma. Efe a elwir Ysbryd sanctaidd Duw, Sal. 51. 11; ac Ysbryd sancteiddiad, Rhuf. 1. 4; a gelwir ef wrth yr enwau hyn, i ddynodi ei natur yn mlaenaf oll, ac nid ei weithrediadau yn unig. Gan hyny, megis y darlunir Duw wrth y briodoledd yma o eiddo ei natur ef, fel "y Sanct," a "Sanct Israel," felly y gelwir yr Ysbryd yn *Ysbryd Sanctaidd*, i ddynodi sancteiddrwydd tragywyddol ogoneddus ei natur, ac ar y cyfrif yma y'i gwrth gyferbynir i ysbryd aflan, neu ansanctaidd, Marc 3. 29, 30. "Eithr yr hwn a gablo yn erbyn yr Yspryd Glan, ni chaiff faddeuant yn dragywydd, am iddynt ddywedyd, Y mae yspryd aflan ganddo." Ac yma gwelwn ei bersonoliaeth yn cael ei hôni; canys y mae yr ysbryd aflan yn berson, a phe na byddai Ysbryd Duw namyn rhyw briodoledd, fel y breuddwydia rhai, ni's geliid gwneuthur cyferbyniad cymmhwys rhyngddo ef a'r ysbryd aflan; sef y diafol. Gwrth gyferbynir y ddau hefyd o barth natur; ei natur ef sydd sanctaidd, tra mae natur yr ysbryd aflan yn ddrwg. Gelwir yr Ysbryd Glan hefyd wrth yr enw yma, gyda golwg ar ei holl weithrediadau: canys gan mai efe yw gweithredydd union-gyrchol pob gweithrediadau Dwyfol, a bod y cyfryw oll yn *sanctaidd*, efe a elwir yr Ysbryd Glan.

Yn mhellach. Efe a elwir yn *Ysbryd daionus Duw*, "Tywysed yr Arglwydd daionus fi i dir uniondeb," Salm 143. 10. Neh. 9. 20. Neu, yn hytrach, "Dy Ysbryd sanctaidd a'm tywys" Efe a elwir felly, am ei fod yn dda o angenrheidrwydd natur; "Nid da neb ond un, sef Duw." Matth. 19. 17; a hefyd oblegid fod ei holl weithrediadau yn dda; ac yn gyflawn o ddaioni yn eu heffeithiau i gredinwyr.

Trachefn. Efe a elwir yn gyffredin, *Ysbryd Duw*, ac *Ysbryd yr Arglwydd*, felly y'i gelwir pan y'i crybwyllir gyntaf yn y Bibl, Gen. 1. 2. "Ac Yspryd Duw yn ym-

symmud ar wyneb y dyfroedd." Ac nid ydwyf yn ammeu nad yw yr enw *Elohim*, yr hwn a gynnwys luaws-rif yn yr unrhyw natur, yn cael ei arfer yn y darluniad o'r grëadigaeth i ddynodi gwahaniaethiad y Dwyfol bersonau. Gelwir yr Ysbryd yn Ysbryd Duw, yn bennat ar yr un cyfrif ag y gelwir y Mab yn Fab Duw, canys megis y'i gelwir ef felly ar gyfrif ei dragywyddol genhedliad—felly y gelwir yr Ysbryd yn Ysbryd Duw, ar gyfrif ei dragywyddol ddeilliad. Efe a elwir ar yr enw hwn hefyd, i'w wahaniaethu ef oddiwrth bob rhyw ysbrydoedd eraill; ac oblegid ei fod ef wedi ei addaw, ei roddi, a'i anfon gan Dduw, er cyflawni ei ewyllys ef tu ag attom ni.

Ar yr un cyfrif hefyd y'i gelwir ef *Ysbryd y Mab;* ac Ysbryd Crist:—"Ac o herwydd eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Yspryd ei Fab i'ch calonnau." Gal. 4. 6.—"Eithr chwychwi nid ydych yn y cnawd, ond yn yr Yspryd, od yw Yspryd Duw yn trigo ynoch. Ac od oes neb heb Yspryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef." Rhuf. 8. 9, 10. Gan hyny mae yn amlwg mai yr un a'r unrhyw, ydyw Ysbryd Duw, ac Ysbryd Crist; felly yn yr un ystyr ag y dywedir ei fod yn Ysbryd Duw, hyny yw, fel y mae yn deillio o'r Tad, felly hefyd y dywedir ei fod yn Ysbryd y Mab, canys y mae yn deillio o'r Mab hefyd. Yr ydwyf yn addef ei fod ef yn cael ei alw Ysbryd Crist hefyd, oblegid ei addaw a'i anfon ganddo ef, i wneuthur gwaith ei gyfryngdod ef yn effeithiol tuag at ei bobl; ond ni's gallasai fod y cyfryw, oni buasai ei fod yn gyntaf yn Ysbryd y Mab trwy ddeilliad o honaw ef hefyd. Yr Apostol Pedr wrth lefaru am y prophwydi, a ddywedai, eu bod yn chwilio yn fanol yn nghylch addewidion yr iachawdwriaeth oedd i'w chyflawni.—"Am yr hon iachawdwriaeth yr ymofynodd, ac y manwl-chwiliodd y prophwydi, y rhai a brophwydasant am y gras a ddeuai i chwi: Gan chwilio pa bryd, neu pa ryw fodd yr oedd Yspryd Crist, yr hwn oedd ynddynt yn ei hysbysu" (1 Pedr. 1. 10, 11:) felly gan hyny y gelwir yr Ysbryd hwnw a lefarai yn y prophwydi [illegible],

cyn ymgnawdoliaeth Crist, yn Ysbryd Crist. Yn awr, y mae yn eglur, na's gallai gael ei alw felly, am i Grist gael ei enneinio ganddo ef, neu, oblegid i Grist ei roddi ef wedi hyny i'w ddysgyblion; canys nid oedd ei natur ddynol ef (yr hwn a enneiniwyd wedi hyny) yn bod y pryd hyny. Y prif resymau dros alw yr Ysbryd Glan yn Ysbryd y Mab, ac Ysbryd Crist, yw ei ddeilliad o'i Berson ef. Ac nis gellid yn briodol ei alw ef yn Ysbryd Crist, oddieithr yn y golygiad yma. Fel hyn y gelwir yr Ysbryd yn yr Ysgrythyrau: y rhai hyn ydynt yr enwau drwy ba rai y darlunir y trydydd Person yn y Drindod Sanctaidd. Nyni a sylwn wrth fyned rhagom, ar yr enwau a roddir arno ar gyfrif ei swyddau a'i weithrediadau.

PEN. III.

Dwyfoldeb a phersonoliaeth yr Ysbryd Glan, yn cael ei brofi a'i amddiffyn.

Nyni a awn rhagom bellach at y prif beth mewn golwg, sef Goruchwyliaeth Ysbryd Duw tuag at yr eglwys; ac ymdrechaf i osod yr hyn sydd genyf i'w gynnyg, ar ei egwyddorion priodol; ac oddiyno gasglu yr holl athrawiaeth berthynol iddo; a hyny yn y fath fodd ag a ddangoso berthynas bwysig ein ffydd, ufudd-dod, ac addoliad, i bob rhan o honi. I'r perwyl yma, sylwer ar yr egwyddorion canlynol:—

1. *Mai natur a bod Duw yw sylfaen pob gwir grefydd ac addoliad crefyddol yn y byd.* Y dyben mawr i'r hwn y'n gwnaed, yw i addoli a gogoneddu Duw; a'r hyn sydd yn gwneuthur yr addoliad hwn yn ddyledswydd anesgusodawl arnom, yw natur a bod Duw ei hunan. Mae yn wir fod rhai gweithrediadau o addoliad crefyddol, yn y rhai y golygir yn benaf yr hyn ydyw Duw i ni, neu yr

hyn a wnaeth efe erom : ond y prif reswm am bob addoliad dwyfol, a'r hyn a'i gwna yn addoliad *dwyfol*, yw yr hyn ydyw Duw ynddo ei hunan. Am ei *fod ef*,—am ei fod yn Fod anfeidrol ogoneddus, da, doeth, sanctaidd, galluog, cyfiawn ac oll-ddigonol ; yr achos cyntaf, y dyben olaf, ac Arglwydd goruchaf pawb oll ;—am hyny y mae efe i'w addoli : am hyny y dylem ei fawrhau a'i garu ef ; ei foliannu, ymddiried ynddo, a'i ofni ef. Hyn ydyw ei ogoneddu ef fel Duw ; canys megys y mae pob peth o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef ;—iddo ef y rhaid fod gogoniant yn oes oesoedd.

2. *Mai y datguddiad a wnaeth Duw o hono ei hun, yw rhëol pob addoliad ac ufudd-dod crefyddol.* Ei *Fod* yn yr ystyriaeth noeth o honaw, yw y rheswm am ein haddoliad ; ond y mae yr addoliad hwnw i gael ei lywio wrth y datguddiad a wnaed o'r Bod hwnw i ni ; a'r prif ddyben o'r datguddiad Dwyfol yw, ein hyfforddi pa fodd i dalu yr ufudd-dod dyledus arnom i'r Natur Ddwyfol.

3. *Bod Duw wedi ei ddatguddio ei hun i ni, fel Tri yn Un* ;—fel Tri o Bersonau gwahaniaethol yn hanfodi yn yr un sylwedd anwahanol, ac am hyny, fel y cyfryw y mae efe i'w addoli. Gellid cadarnhau yr egwyddor hon yma, ond fel yr wyf wedi gwneuthur hyny mewn man arall ; canys y mae yr holl Draethawd canlynol yn cymeryd gwirionedd yr egwyddor hon yn ganiatàol, ac yn ymddibynu arni hi : ac yn wir yr ydwyf yn ofni fod adfeiliad crefydd rhai yn dechreu gyda'u hesgeulusiad o'r sylfaen yma. Hyn a fu camgymeriad niweidiol y bobl a elwir Crynwyr ; a buasai yn dda genyf pe na buasai neb ond hwy yn gyfeiliornus yn hyn ; canys y mae llawer eraill yn ymwrthod âg athrawiaeth y Drindod, fel pe byddai gyfeiliornad, neu yn ei dirmygu fel yn annealladwy, neu yn ei hesgeuluso, fel yn annefnyddiol. Myfi a wn fod y cornwyd hwn yn gorwedd yn guddiedig yn meddyliau llaweroedd, ac yr ydwyf yn dysgwyl y bydd iddo dori allan a gorchuddio yr holl gorff, o'r hwn y maent yn aelodau, â'i halogrwydd ; ond

gadawn y pethau hyn i ofal Iesu Grist. Hyn a ddywedaf yn bresenol, bod Duw, oddiar y dybiaeth o'i fod wedi ei ddatguddio ei hun fel Tri yn Un, i'w olygu felly yn ein holl addoliad; ac am hyny, yn ein derbyniad i fewn i broffes ac ymarferiad o addoliad Duw, fe'n rhwymir i'r gwaith yma, *yn enw y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glan.* Hyn yw dechreuad ein "gwneuthur pob peth a orchymynodd Crist i ni:" ac i wasanaethu Duw trwy ei addoli fel Tad, Mab, ac Ysbryd Glan, y'n cyflwynir mewn modd neillduol.

4. *Bod y Personau Dwyfol hyn mor wahaniaethol yn eu hymfodoliaeth neillduol, fel y prïodolir gweithrediadau gwahaniaethol i bob un o honynt.* Mae rhai o'r cyfryw weithredoedd yn dufewnol, ac yn brïodol i'r naill fel y llall. Felly, y mae y Tad yn "adnabod" y Mab ac yn ei "garu" ef; a'r Mab yn "gweled," yn "adnabod," ac yn "caru" y Tad; Ioan 3. 15. a 5. 20. a 6. 46. Felly hefyd y dywedir fod y Tad yn "rhoddi," yn "anfon," ac yn "gorchymyn" y Mab, gyda golwg ar ei ymostyngiad ef i ddyfod yn ddyn ac yn Gyfryngwr; a dywedir fod y Tad a'r Mab yn "anfon yr Yspryd," gyda golwg ar ei ymostyngiad ef i fod yn Sancteiddydd yr eglwys. Y mae hefyd weithrediadau gwahaniaethol o eiddo pob un o'r Personau Dwyfol tuag at y crëaduriaid; yr hyn sydd mor amlwg trwy yr holl ysgrythyr, fel nad oes angen nodi anghreifftiau neillduol: heblaw hyny, gwelir hyn yn amlwg wrth ystyried amryfal weithrediadau yr Ysbryd.

5. O ganlyniad, *mae yn rhaid fod yr Ysbryd ynddo ei hunan yn Berson Dwyfol, bywiol, galluog, a doeth*, canys ni's gallai neb amgenach fod yn awdwr y gweithrediadau Dwyfol hyny a brïodolir iddo ef. Gan hyny, y mae yn angenrheidiol i ni ymholi pwy, a pha beth, yw "yr un a'r unrhyw Yspryd" hwnw, ar ewyllys yr hwn y mae yr holl bethau hyn yn ymddibynu; canys os ffŷna dynion yn eu gwrthwynebiad i'w Berson, ni bydd ond ofer i ni ymdroi gyd a'i waith ef; canys os symmudir sylfaen unrhyw adeiladad, mae yr oruwch-adail yn sicr o gwympo.

Gellir darlunio y gwrthwynebiad a gyfodir yn erbyn Ysbryd Duw dan ddau ben. Addefa rhai ei *Bersonoliaeth*, ond gwadant ei *Ddduwdod*. Hwy a haerant mai Ysbryd crëedig meidrol ydyw, y penaf o'r holl ysbrydion crëedig, a phen yr holl angelion; a'i fod yn cael ei alw yr Ysbryd Glan, ar gyfrif ei waith. Dyma oedd barn y cyfeiliornwyr Macedonaidd, y rhai a ddilynwyd wedi hyny gan y Mahometaniaid, a chan rai yn ddiweddar yn ein mysg ninnau; ond y mae y golygiad hwn mor ffol, fel y mae yn cael ei wrthod yn gyffredinol yn bresenol; canys tystiolaethir y cyfryw bethau am yr Ysbryd Glan yn yr Ysgrythyrau, fel y mae addef ei *Bersonoliaeth*, a gwadu ei *Ddduwdod*, yn wallgofrwydd i'r eithaf. Gan hyny, y mae y Sosiniaid, prif elynion athrawiaeth y Drindod yn yr amseroedd diweddaf hyn, yn llwyr ymwrthod â'r gau honiad yma; eto nid yw y golygiad a ddygant hwy yn ei le, yn ronyn llai ei niweidiolrwydd, canys gan addef fod y pethau a briodolir iddo ef yn effeithiau gallu dwyfol, hwy a wadant ei *bersonoliaeth;* ac a haerant nad yw yr hyn a elwir Ysbryd Duw, yn ddim amgen na *chynneddf* yn y natur ddwyfol, neu y *gallu* a ddyru Duw ar waith i ryw amcanion arbennig. Nid ydwyf yn bwriadu ymryson â hwy yma yn nghylch pob peth a berthyn i'w golygiad hwn; canys nyni a gyfarfyddwn â phob peth pwysig yn y ddadl fel yr elom rhagom. Yn unig ymröaf yma i gadarnhau y golygiad dros *Bersonoliaeth Dwyfol* yr Ysbryd trwy un rheswm; yr hwn ni rusaf haeru, sydd y cyfryw, fel na ffyna pyrth uffern byth i'w erbyn. Ond y mae yn ofynol i ni rag-grybwyll un peth, sef bod y gair Ysbryd yn cael ei arfer weithiau i ddynodi Ysbryd Duw ei hunan, ac weithiau, ei ddoniau a'i rasusau, a gyfrennir i ddynion; ac wedi addef hyn yma, yr ydwyf yn meddwl fod yn anmhossibl profi y Tad neu y Mab yn Berson, mewn unrhyw ffordd amgenach nac y gellir profi fod yr Ysbryd Glan yn Berson; canys rhaid fod yr hwn y mae pob priodoliaethau, rhagoriaethau, a gweithrediadau personol yn cael eu priodoli iddo, ac i'r

hwn ni phrïodolir dim ond a berthyna o brïodolder i berson, yn Berson; ac felly y'n dysgir i gredu am dano ef. Fel hyn nyni a wyddom fod y Tad yn Berson, a'r Mab hefyd; canys y mae ein hadnabyddiaeth o wrthddrychau yn ïwy drwy eu prïodoliaethau na thrwy eu hanfodoliaeth. Amddiffynaf y ddadl hon, nid cymmaint trwy unrhyw dystiolaeth neillduol, na thrwy brïodoli unrhyw ragoriaeth personol unigol iddo ef, a thrwy ddull unffurf yr Ysgrythyr yn prïodoli yr holl ragoriaethau hyn iddo ef; ac nid oes unrhyw brïodoledd bersonol yn perthynu i'r natur ddwyfol, na's prïodolir iddo ef yn y naill ran neu y llall.

Pe dywedai dyn doeth a didwyll wrthych, fod mewn rhyw wlad lle y buasai efe, lywydd rhagorol, yr hwn a gyflawnai orchwylion pwysig ei swydd mewn doethineb; yr hwn a wrandawai gwynion, a weinyddai gyfiawnder, ac a gysurai y trallodedig,—oni chredwch chwi ei fod ef yn golygu rhyw berson cyfiawn, doeth, a deallus, trwy y cyfryw ddarluniad?—Pa beth yn amgen a allai neb ei ddychymygu? Ond tybier bod rhyw ddyeithr-ddyn, neu un o nodweddiad ammheus yn dyfod ac yn dywedyd fod y mynegiad blaenorol yn ddïau yn wir, ond na's golygid unrhyw ddyn neu berson, eithr yn hytrach yr haul, neu y gwynt, trwy ddylanwad dymunol y rhai y gwnelid y wlad yn ffrwythlawn a thymherus, ac y tueddid y trigolion i fod yn hynawsaidd, ac am hyny nad oedd yr holl ddarluniad o lywydd, namyn *cyffelybiaethol*,—oni fyddai yn rhaid i chwi gredu, naill ai bod y cyntaf yn gellweiriwr gwageddol, neu fod yr olaf, yr hwn y byddai genych le i amman ei eirwiredd, wedi ymdrechu gwneuthur cam â phob un o honoch? Fel hyn y mae yn hollol yn y gosodiad dan sylw. Mae yr Ysgrythyr yn tystiolaethu i ni fod yr Ysbryd Glan yn llywodraethu yr eglwys,—yn gosod goruchwylwyr arni,—yn canfod ac yn barnu pob peth,—yn dyddanu yr annyddanus,—yn cryfhau y gweiniaid,—ei fod yn cael ei dristau gan bechod; a'i fod yn y pethau hyn a llawer o'r cyffelyb, yn trefnu ac yn llywio pob peth yn ol ei ewyllys

ei hun. A all neb gredu y dystiolaeth hon, a golygu yr Ysbryd yn amgen nac fel Person sanctaidd, doeth, a da! Ond, tra yr ydym eto dan ddylanwad y golygiadau hyn, tybiwn fod rhyw ddynion yn dyfod attom, y rhai y byddo genym achos cyfiawn i'w drwg dybio, a'u bod yn dywedyd wrthym fod yr hyn oll a ddywaid yr Ysgrythyr am yr Ysbryd Glan, yn ddïau yn wirionedd, eto na olygid y fath Berson trwy yr ymadroddion hyn, eithr yn hytrach, naws, neu ddylanwad gallu dwyfol yn unig, yr hwn a wna yr holl bethau hyn yn *allegawl*, neu gyffelybiaethol;—bod ganddo ewyllys cyffelybiaethol,—a deall cyffelybiaethol,—bod pechu yn ei erbyn yn gyffelybiaethol, ac felly am yr hyn oll a ddywedir am dano ef. Pa beth a allai neb na's byddai wedi ei amddifadu o reswm naturiol cystal a goleuni ysbrydol, ei gasglu oddiwrth hyn, ond, naill ai bod yr Ysgrythyr wedi ei hamcanu i'w dynu i gyfeiliornadau niweidiol, neu fod y rhai a briodolant y cyfryw ystyr iddi, yn dwyllwyr llygredig, y rhai a fynent ei yspeilio o'i ffydd a'i gysuron?—Mae yn ddïau mai y cyfryw y gwelir eu bod o'r diwedd. Bellach âf rhagof, i gadarnhau y ddadl yddiaeth hon.

1. Mae y cwbl sydd yn angenrheidiol i'r perwyl yma yn gynnwysedig yn y ffurf o fedydd cristionogol. Gorchymynai ein Harglwydd i'w apostolion "ddysgyblu yr holl genhedloedd; gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glan." Yn awr, fe addefa pawb fod y Tad a'r Mab yn Bersonau gwahaniaethol;—ond pa mor fawr y dyryswch y'n harweinir iddo, wrth ychwanegu attynt, a chyssylltu yn gyfartal â hwy, o ran pob peth a berthyn i i ffydd ac ufudd-dod, yr Ysbryd Glan, os nad yw efe yn Berson Dwyfol!—A c os ydyw efe yn Berson, ond heb fod yn Ddwyfol, yna yr ydys yn prïodoli i grëadur, yr un anrhydedd ag i Dduw, yr hyn sydd yn eilunaddoliaeth ffiaidd!—ac os nad yw yn Berson, namyn rhyw rinwedd, neu gynneddf yn Nuw, pa synwyr a all neb ei wneyd o'r geiriau?

Heblaw hyn, y mae yr hyn oll a brïodolir i'r Personau

eraill, yn cael ei briodoli mor hollawl iddo ef;—pa beth bynnag a olygir wrth *enw* y Tad a'r Mab, mae yr unrhyw yn perthynu iddo yntau. Nid yr enw *Tad*, a'r enw *Mab*, ond yr *enw Duw*, (yr hwn a roddir i'r naill a'r llall) a olygir;—ac wrth enw Duw y golygir, naill ai ei Fod, neu ei awdurdod. Os y'i defnyddir yn yr ystyr gyntaf, yna rhaid mai yr un yw Bod yr Ysbryd â'r eiddo y Tad; os yn yr ystyr olaf, y mae iddo yr un awdurdod ag ef; a rhaid fod yr hwn sydd yn meddu enw ac awdurdod Duw, yn Dduw,—yn Berson Dwyfol.

Trachefn; Dywedir ein bedyddio *i'w enw ef (eis to onoma)* ac ni's gellir cyssylltu unrhyw olygiad â'r geiriau hyn, na byddo yn cynnwys ei bersonoliaeth ef; canys y maent yn cynnwys ein haddefiad crefyddol o Dad, Mab, ac Ysbryd Glan, yn ein haddoliad, ein ffydd, a'n hufudd-dod. Megys yr addefwn y naill, yr ydym hefyd yn addef y llall; ac os addefwn ni y Tad fel Person gwahaniaethol, felly hefyd yr addefwn yr Ysbryd Glan; canys fe'n bedyddir i enw y naill fel y llall, gan ymostwng i awdurdod y naill fel y llall, a chymeryd proffes o enw y naill fel y llall, arnom. A byddai tybied fod rhyw un na byddai yn Dduw, wedi ei gyssylltu â'r Tad a'r Mab i'r perwylion hyn, heb un awgrym o wahaniaeth o ran Dwyfoldeb neu bersonoliaeth, yn cynnwys tybiaeth lwyr ddinystriol i bob crefydd, a thueddol at aml-dduwiaeth.

2. Mae ei ymddangosiad dan *arwydd gweledig*, yn brawf o'i bersonoliaeth. Efe a gymmerth ffurf neu wedd colomen, i wneuthur cynnrychioliad gweledig o honaw ei hun drwyddo; canys yr oedd arwydd gweledig i gael ei roddi o ddisgyniad yr Ysbryd ar y Messiah, yn ol yr addewid; a thrwy hyny y cyfarwyddwyd ei rag-redegwr enwog i'w adnabod ef. Megis ar ddechreuad yr hen grëedigaeth, yr oedd Ysbryd Duw yn ymsymmud ar y dyfroedd, gan feithrin a chyfrannu naws fywioccäol i'r cyfan, fel yr ymsymmuda colomen yn esmwyth ar ei hwyau, gan weinyddu gwres bywiol iddynt, Gen. 1. 2, felly yn y grëedigaeth newydd, efe a ddeuai megis colomen ar yr

awdwr cyntaf o honi. Nid colomen wirioneddol a ymddangosai, ond rhyw sylwedd awyrawl, rhyw beth o natur danllyd, ar lun colomen, debygaf fi, a hyn a wnelai yr ymddangosiad yn fwy eglur a gogoneddus;—a chyffelybir yr Ysbryd Glan i dân yn fynych, oblegid ei fod yn cael ei gysgodi drwy dân gynt; canys ar amryfal achlysuron pan offrymmid aberthau, deuai tân i waered o'r nef ac a u hysai hwynt. A phan y crybwyllir am ei ymddangosiad gweledig nesaf, dywedir yn eglur ei fod yn *danllyd*;—"Ymddangosodd iddynt dafodau gwahanedig, megis o dân," Act. 2. 3; yr hyn oedd yr arwydd gweledig o ddyfodiad yr Ysbryd Glan arnynt;—felly hefyd y dywedir fod Crist yn "bedyddio â'r Yspryd Glan ac â thân," Math. 3. 11: hyny yw, â'r Ysbryd Glan, gras puredigawl yr hwn a ellir ei gydmaru i dân. Mae yr ymddangosiad yma o eiddo yr Ysbryd Glan, yn yr hwn y'i gosodid allan trwy yr hyn sydd sylweddol, yn dangos ei fod ef ei hunan yn sylwedd; canys os nad yw efe namyn effaith ddylanwadol gallu Duw yn unig, ni'n dysgir ni i iawn synied am dano trwy yr ymddangosiad hwn. Y rhai hyn a'u cyffelyb ydynt y tystiolaethau a ddygir i bersonoliaeth ddwyfol yr Ysbryd Glan. Yn nesaf, myfi a ystyriaf y *rhagoriaethau personol* a briodolir yn bennodol iddo ef.

Yn gyntaf. Deall, neu ddoethineb, priodolder anysgaredig bod deallus, a briodolir iddo ef:—"Mae yr Yspryd yn chwilio pob peth, ie dyfnion bethau Duw," 1 Cor. 2. 10. Gwyddis mai gweithred y deall ydyw chwilio, a dywedir fod yr Ysbryd yn chwilio, am ei fod ef yn gwybod: "Canys pa ddyn a edwyn bethau dyn, ond yspryd dyn," yr hwn sydd hysbys o'i holl feddyliau ei hun; "felly hefyd, pethau Duw, nid edwyn neb ond Yspryd Duw," Ni's gellir llefaru y pethau hyn am un person ond a fyddo yn feddianuol ar ddeall; am hyny, mae yn rhaid fod yr hwn sydd fel hyn yn chwilio "dyfnion bethau Duw," dirgelion ei ewyllys, ei gynghor, a'i ras, yn Berson Dwyfol, yr hwn y mae ei ddeall yn anfeidrol. Sylwch hefyd, mai yr Ysbryd yw awdwr

doethineb a deall mewn eraill; am hyny rhaid ei fod yn eu meddu ynddo ei hunan; ac am hyny y'i gelwir, "Yspryd doethineb a deall, Yspryd cynghor a gwybodaeth." Esa. 11. 3. 1 Tim. 4. 1. 1 Pedr 1. 11.

Yn ail. Priodolir Ewyllys iddo ef; a hyn yw nodwedd amlycaf person. Pa beth bynag a fyddo yn feddiannol ar ewyllys ddëallawl, y mae hwnw yn berson; ond, fe briodolir hyn i'r Ysbryd Glan, 1 Cor. 12. 11. "A'r holl bethau hyn y mae yr un a'r unrhyw Yspryd yn eu gweithredu, gan ranu i bob un o'r neilldu, megis y mae yn ewyllysio." Ni's gwn pa fodd y gellid ymadroddi yn fwy cyflawn i ddarlunio person deallawl, yn gweithredu yn wirfoddol, yn gyflawn rydd, ac wrth ei ddewisiad ei hun; a gallaf ychwanegu, fod yr hwn sydd yn meddu awdurdod benarglwyddiaethol i gyfrannu pob doniau ysbrydol fel y gwelo efe yn dda ei hunan, heb rëol arall, onid ei ewyllys ei hun, o angenrheidrwydd, "uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd."

Yn drydydd. Rhagoriaeth arall briodol i berson byw, yw Gallu. Y mae gallu, trwy yr hwn y gall un weithredu wrth gyfarwyddyd ei ddeall, a phenderfyniad ei ewyllys, yn dangos ei fod ef yn berson. Fel hyn y dywaid Job, "Yspryd Duw a'm gwnaeth i, ac anadl yr Hollalluog a'm bywiocäodd i." pen. 33. 4. Gwaith gallu dwyfol yw creu, a'r uchaf y gallwn feddwl am dano.

Ac megis y'i gelwir ef yn Ysbryd doethineb a deall, felly hefyd, y'i gelwir yn Ysbryd cadernid, Esa. 11. 2; a phe tybiem fod y pethau hyn yn dynodi effeithiau ei weithrediadau yn hytrach na phriodoliaethau ei natur, eto rhaid fod yr hwn a gynnyrcha ddoethineb a chadernid mewn eraill, yn eu meddu yn gyntaf ynddo ei hunan. I'r un perwyl hefyd y mae y gofyniad hwnw, "A fyrhawyd Yspryd yr Arglwydd?" Mic. 2. 7, hyny yw, yn ei allu, fel na's gallo weithredu yn ei brophwydi ac yn ei eglwys fel yn yr amser gynt. Ac y mae yr un prophwyd yn cadarnhau yn pen. 3. 8, ei fod ef "yn llawn o rym gan Yspryd yr

Arglwydd," neu, yn ol iaith yr apostol, "wedi ymgadarnhau mewn nerth, trwy ei Yspryd ef, yn y dyn oddi mewn." Eph. 3. 16.

I gwblhau y ddadl hon, myfi a ychwanegaf yr ystyriaeth o'r gweithredoedd hyny a briodolir iddo ef; a'r rhai ni's gellid gyd ag un cymhwysder eu priodoli iddo ef, oddieithr ei fod yn Berson, meddiannol ar allu a doethineb Dwyfol. Ac yma sylwn nad oddiar unrhyw esampl unigol o'i weithredoedd y bydd i ni gadarnhau ein dadlyddiaeth; canys dichon i rai o honynt, o'u hystyried yn unigol, gael eu priodoli yn gyffelybiaethol i achosion craill, y rhai uid ydynt o herwydd hyny yn profi eu bod hwythau hefyd yn bersonau (yr hyn yw swm gwrth-ddadleuon ein gwrthwynebwyr.) Ond gan nad yw rhai o honynt o leiaf, ac na's gallant fod yn briodoledig i ddim ond Person Dwyfol,—felly nyni a gymmerwn ein dadlyddiaeth oddiar ystyriaeth o honynt yn nghyd; neu y priodoliad unffurf, cyson o honynt oll iddo ef yn yr Ysgrythyrau, yr hyn sydd yn ei gwneuthur yn anwrthwynebadwy. Cawn egluro natur y gweithredoedd eu hunain drachefn.

Yn gyntaf. Dywedir ei fod yn ein *dysgu*. "Yr Yspryd Glan a ddysg i chwi yn yr awr hóno, beth sydd raid ei ddywedyd." Luc. 12. 12. "Y Dyddanydd—yr hwn a ddysg i chwi yr holl bethau." Ioan. 14. 26. Efe yw yr Enneiniad, yr hwn a ddysg i ni am bob peth, 1 Ioan 2. 27. Efe yw Athraw mawr yr eglwys, i'r hwn yr ymddiriedwyd cyflawniad yr addewid fawr hono, "A phawb a fyddant wedi eu dysgu gan Dduw." Ioan 6. 45.

Darllened unrhyw ddyn na's byddo wedi ei ragfeddiannu gan ragfarn, bregeth ein Hiachawdwr wrth ei ddysgyblion, yn yr hon y'u dysgai yn fwriadol yn natur a gwaith Ysbryd Duw, ac ni raid iddo am ychwaneg o gadarnhäad am hyn. Efe a elwir yno, y Dyddanydd, enw person; enw un wedi ei osod mewn swydd; a Dyddanydd *arall*, i'w wahaniaethu ef oddiwrth Grist, yr hwn oedd yn Ddyddanydd ac yn Berson fel yr addefa pawb. Efe a dystiolaethai y byddai i'w

Dad ei anfon ef; ac y byddai iddo yntau mewn canlyniad ddyfod; a hyny i'w dysgu, eu harwain, a'u tywys hwynt, ac i ddwyn pethau i'w cof;—gan addaw y byddai iddo dystiolaethu am dano ef, y byddai iddo argyhoeddi y byd, y byddai iddo wrandaw, llefaru, derbyn o'r eiddo Crist, a'i fynegu iddynt hwy. Dywedir yr holl bethau hyn am dano ef, nid yn achlysurol; ond mewn un traethawd olynol, yn yr hwn yr amcanai efe ddysgu ei ddysgyblion am dano ef, sef pwy ydoedd a pha beth a wnai efe erddynt hwy; a phe na's dywedasid dim ychwaneg am dano ef yn yr holl ysgrythyr, buasai hyn yn unig yn ddigonol i argyhoeddi pawb di ragfarn o'i fod ef yn Berson Dwyfol.

Y mae dau destyn arbenig arall i'r un perwyl. Y cyntaf a nodaf sydd yn Act. 13. 2, 4. "Ac fel yr oeddynt hwy yn gwasanaethu yr Arglwydd, ac yn ymprydio, dywedodd yr Yspryd Glan, Neillduwch i mi Barnabas a Saul, i'r gwaith y gelwais hwynt iddo." Yma sylwer ar y darluniad a ddyru yr Ysbryd Glan o hono ei hun, fel y person, i'r hwn, ac i waith yr hwn yr oedd Barnabas a Saul i gael eu neillduo. Mae yn sicr fod rhyw berson yn cael ei olygu yn y rhagenw *mi;* ac y mae yn ddiau mai yr Ysbryd Glan, awdwr y gorchymyn, a gwrthddrych y ddyledswydd a ofynir, yw yr un a olygid. Y mae galw dynion i waith y weinidogaeth, yn weithred o awdurdod a dewisiad rhydd, cyfaddas i berson yn unig; ac nid yw y Tad na'r Mab, wedi eu gwisgo â phriodoliaethau personol yn fwy pendant nac y mae yr Ysbryd Glan yn y geiriau hyn. Cadarnheir y golygiadau hyn eto yn adn. 4, "A hwythau wedi eu danfon ymaith gan yr Yspryd Glan, a ddaethant i Seleucia." Efe a'u galwodd hwynt i'r gwaith, a orchymynodd i'r eglwys eu neillduo hwynt; ac a'u hanfonodd hwynt ymaith dan argraffiad o'i awdurdod ar eu meddyliau.

Y testyn arall y cyfeiriaf atto, sydd i'r un pwrpas—"Edrychwch gan hyny arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Yspryd Glan chwi yn

olygwyr, &c." Yma y mae yr hyn a adroddid yn y testyn blaenorol mewn amgylchiad anrhyffredinol fel ffaith, yn cael ei gymhwyso yn athrawiaethol mewn amgylchiad cyffredinol. Mae yr unrhyw weithred o ddoethineb ac awdurdod yn cael ei phriodoli iddo, canys efe sydd yn gwneuthur goruchwylwyr yr eglwys. Ac os gwnai efe felly y pryd hyny, y mae efe yn gwneuthur felly yn bresenol; canys nid personau wedi eu doniaw âg ysbrydoliaeth anrhyffredinol oedd y rhai hyn, ond swyddogion cyffredinol yr eglwys; ac y mae yn gweddu i weinidogion yr oes hon ymholi, pa beth sydd ganddynt yn eu holl orchwylion gweinidogaethol, a ellir ei briodoli i'r Ysbryd Glan. Nid hawdd fydd i rai ydynt yn amddifaid o ddoniau a chymhwysderau ysbrydol, yn ymwneyd â'r gwaith yma er mwyn clw bydol, gael atteb boddhâol i'r holiad yma, pan y'u gorfyddir i'w wneyd o'r diwedd.

Math arall o dystiolaeth i'r un perwyl sydd genym i'w hystyried, yw, Fod yr Ysbryd Glan yn cael ei gryfhwyll yn aml fel gwrthddrych y cyfryw weithredoedd o eiddo dynion, ar a ellir eu cymhwyso at berson yn unig. Fel hyn dywedir ei fod yn cael ei demtio; "Pa ham y cyttunasoch i demtio Yspryd yr Arglwydd?" Act. 5. 9. A pha briodoldeb a fyddai i neb ddywedyd ei fod ef yn cael ei demtio, pe na byddai yn Berson? Ni's gellir temtio neb ond yr hwn y byddo ganddo ddeall i ystyried y cynnygiadau a wneir iddo, ac ewyllys i benderfynu ar hyny. Felly y temtiai Satan ein rhieni cyntaf; felly y mae dynion yn cael eu temtio gan eu chwantau eu hunain;—felly y dywedir ein bod ni yn temtio Duw, pan yn ei gythruddo ef drwy ein hanghrediniaeth, neu yn ceisio prawfion anweddus o'i allu ef. Fel hyn y temtiai Ananïas a Sapphira yr Ysbryd Glan, pan y beiddiasant ymhyfau ar ei hollwybodaeth ef, fel pe na's gallasai efe gael eu pechod allan; neu ar ei sancteiddrwydd, fel pe buasent yn dysgwyl iddo ef gefnogi eu twyll. Yn y golygiad yma hefyd y dywedir ddarfod i Ananias ddywe[illegible] *celwydd* wrth yr Ysbryd Glan, a'n. 3,

yr hyn sydd yn cynnwys tybiaeth o berson galluog i wrando a derbyn tystiolaeth; canys gau dystiolaeth yw *celwydd.* Felly hefyd, y dywedir ei fod ef yn cael ei *wrthwynebu,* Act. 7. 51, yr hyn yw gwrth-weithrediad moesol y naill berson i arall. Gorchymynir i ni hefyd na thristäom Lan Yspryd Duw, Eph. 4. 30; ac am y rhai gynt dywedir, "Hwythau oeddynt wrthryfelgar, ac a ofidiasant ei Yspryd sanctaidd ef," Esa. 63. 10. Mae y pethau hyn mor eglur a phendant, fel na syflir ffydd credinwyr gan dwyll-ddadleuon ein gwrthwynebwyr.

Mae y gwirionedd yma yn eglurach fyth yn mhregeth ein Gwaredwr, Matt. 12. 24, yn nghylch y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan; yn yr hon y gwahaniaethir yr Ysbryd oddiwrth y Mab yn bennodol; a llefarir am y naill a'r llall, gyda golwg ar yr unrhyw bethau, yn yr un dull.

Yn awr pe na byddai yr Ysbryd yn ddim amgen na *gallu* Duw yn bresenol gyda Christ, ni's gellid llefaru yn erbyn Crist a'r gallu hwnw ar wahân. Cablai y Pharisead, gan ddywedyd, ei fod ef yn bwrw allan gythreuliaid trwy bennaeth y cythreuliaid. Fel person y golygent hwy ef, ac felly y'i darlunient o ran enw, natur, a swydd. I hyn, attebai yr Iesu, ei fod ef yn bwrw allan gythreuliaid trwy Ysbryd Duw; Person Dwyfol ar gyfer un diaflaidd;—ac yna efe a'u rhybuddiai i ochelyd cablu yr Ysbryd hwnw, trwy briodoli ei weithrediadau i'r diafol;—ac y mae cabledd yn ei erbyn ef, yn amlygu yn uniongyrchol pwy yw efe. Addefir y dichon fod cabledd yn erbyn y Tad, Lef. 24. 11. Dywedir yma fod y Mab, fel Person gwahaniaethol yn cael ei gablu; ac ychwanegir y dichon i'r Ysbryd Glan yn wahaniaethol hefyd, gael ei gablu, neu fod yn wrthddrych union-gyrchol y pechod anfaddeuol. Gan hyny, nid yw tybied nad yw yr Ysbryd Glan yn Berson Dwyfol, ond megis pe byddai dynion yn breuddwydio tra yn ymddangos yn effro.

Gobeithiaf ein bod trwy y tystiolaethau hyn, wedi profi yn ddigon helaeth, fod yr Ysbryd Glan yn Berson Dwyfol,

sanctaidd, doeth, hunan-hanfodol, a hunan-ddigonol, gogydgyfrannogol â'r Tad a'r Mab o'r natur Ddwyfol; yr hyn a ymddengys yn eglurach wrth ystyried y tystiolaethau canlynol;—

1. Efe a elwir yn Ddaw mewn modd pendant; a chan fod enw Duw yn cael ei roddi arno ef yn union-gyrchol, gyda golwg ar bethau ysbrydol, neu bethau a berthynant yn arbennig i Dduw; rhaid ei fod ef yn feddiannol ar natur Duw hefyd. Dywedir fod Annanias yn dweyd celwydd wrth yr Ysbryd Glan; ac ychydig yn mlaen yn y bennod eglurir hyn trwy ddywedyd, "Ni ddywedaist gelwydd wrth ddynion ond wrth Dduw." Yr un person a ddynodir yn y naill le a'r llall, o ganlyniad, mae yr Ysbryd Glan yn Dduw. Felly hefyd y'i gelwir ef yn Arglwydd, mewn ystyr briodol i Dduw yn unig. "Eithr yr Arglwydd yw yr Yspryd." 2 Cor. 3. 17, 18; "ac nyni a uewidir o ogoniant i ogoniant, megis gan Yspryd yr Arglwydd;" felly gwelwn yma hefyd, weithrediadau dwyfol yn cael eu priodoli iddo ef. Cesglir hyny hefyd yn gymhwys trwy gydmaru y naill ysgrythyr â'r llall yn deg, lle y canfyddwn fod yr hyn a leferir am Dduw yn *hollol* felly mewn un lle, yn cael ei briodoli yn *union-gyrchol* i'r Ysbryd Glan mewn lle arall: —Er esampl, "Rhoddaf hefyd fy nhabernacl yn eich mysg; ac ni ffieiddia fy enaid chwi; A mi a rodiaf yn eich plith, a byddaf yn Dduw i chwi, a chwithau a fyddwch yn bobl i mi." Lef. 26. 11, 12. A'r apostol a dystiolaetha fod yr addewid hon wedi ei chywiro, "Canys teml y Duw byw ydych chwi, fel y dywedodd Duw, Mi a breswyliaf ynddynt, ac a rodiaf yn eu mysg," &c. 2 Cor. 6. 16. Ond, pa fodd, a chan bwy y gwneir hyn? "Oni wyddoch chwi mai teml Duw ydych, a bod Yspryd Duw yn trigo ynoch? —canys sanctaidd yw teml Duw, yr hwn ydych chwi." 1 Cor. 3. 16, 17. Gan hyny, os Duw a addawid gynt i breswylio yn ei bobl, ac i'w gwneuthur yn deml iddo ei hun, yna mae yr Ysbryd Glan yn Dduw; canys efe yw yr

hwn sydd yn ol yr addewid hon yn preswylio ynddynt hwy.

Sylwch, yn y lle olaf, fod rhagoriaethau Dwyfol yn cael eu priodoli iddo ef; megis *tragywyddoldeb*,—efe yw yr "Yspryd tragywyddol," Heb. 9. 14. *Anfeidroldeb*,—"I ba le yr âf oddiwrth dy Yspryd? ac i ba le y ffoaf o'th wydd?" *Hollalluogrwydd*, Mic. 2. 7. cymh. Esa. 40. 28. —*Rhag-wybodaeth*,—Yr oedd yn rhaid cyflawni yr ysgrythyr yma a rag-ddywedodd yr Yspryd Glan trwy enau Dafydd am Judas, Act. 1. 16.—*Hollwybodaeth*,—"Canys yr Yspryd sydd yn chwilio pob peth, ïe, dyfnion bethau Duw hefyd," 1 Cor. 2. 10, 11.

Arferir dadleu y gweithredoedd dwyfol a briodolir iddo i'r un perwyl yn gyffredin, ond, gan y cawn ni achlysur i sylwi arnynt yn wahaniaethol eto, nid ymhelaethwn ar hyny yma. Gall y sylwadau uchod fod yn ddigonol i ddangos pwy yw efe, am weithredoedd a gras yr hwn yr amcanwn ymdrin.

PEN. IV.

Gweithredoedd neillduol yr Ysbryd Glan yn y Greadigaeth gyntaf.

Gan fy mod yn amcanu ymdrin am y gweithredoedd hyny, a briodolir yn neillduol i'r Ysbryd Glan, gallai fod yn fuddiol i ni yn gyntaf ymadroddi am y gweithredoedd ydynt yn gyffredin i'r Duwdod. Mae pob gweithrediadau dwyfol, mewn natur a gras, yn cael eu priodoli i Dduw yn hollol felly, gan fod yr amryfal bersonau dwyfol yn anwahanol yn eu gweithrediadau, yn gweithredu trwy yr un ewyllys, yr un doethineb, yr un gallu. Gan hyny, mae pob un o'r personau yn awdwr pob gwaith o'r eiddo Duw, gan fod pob person yn Dduw, a'r natur ddwyfol yw yr achos mawr anwahanol o bob gweithredoedd dwyfol. Mae

y personau dwyfol yn *un* mewn sylwedd, ond yn eu dull o ymfodoli, y mae gwahaniaethiad a threfn yn eu mysg. Am hyny y mae pob gwaith dwyfol yn cael ei briodoli yn bennodol i bob person, ac mewn modd arbennig i un: fel y mae crëadigaeth yn cael ei briodoli i'r Tad, Act. 4. 24.—i'r Mab, Ioan 1. 3.—ac i'r Ysbryd, Job 33. 4; ond mewn modd arbennig fe'i priodolir i'r Tad, ac yn hollol i Dduw, yn Dad, Mab, ac Ysbryd.

Priodolir gweithredoedd dwyfol mewn modd arbennig i un person yn neillduol, pan y mae argraffiad neillduol o briodolderau rhagoriaethol y Person Dwyfol hwnw, yn cael ei wneyd ar y gwaith ei hunan; megis o allu ac awdurdod y Tad ar yr hen grëadigaeth; ac o ras a doethineb y Mab yn y newydd; neu, pan y mae ymostyngiad neillduol mewn un person i waith, i'r hyn y bydd personau eraill yn cydunaw drwy gymeradwyaeth a chydsyniaeth. Y cyfryw oedd cymeriad y natur ddynol gan y Mab, a'r cyfryw ydoedd ymostyngiad yr Ysbryd Glan i'w swydd, yr hyn sydd yn rhoddi hawl arbennig iddo o'i weithredoedd neillduol ei hunan.

Yn gymmaint a bod trefn y gweithrediadau gwahanol bersonau yn ymddybynu ar drefn eu hymfodoliaeth, priodolir y gweithredoedd cwbllhaol a pherffeithiol i'r Ysbryd Glan, ac yn hyn hefyd y mae cryn ddirgelwch. Priodolir dechreuad y gweithrediadau dwyfol i'r Tad; "canys o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef y mae pob peth." Priodolir sefydlu a chynnal pob peth i'r Mab: "canys y mae efe cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll;" a phriodolir perffeithiad yr holl bethau hyn i'r Ysbryd Glan, fel y gallwn weled wrth fyned rhagom.

Wedi rhag nodi y pethau hyn, nyni a awn rhagom i ystyried *gweithrediadau neillduol* yr Ysbryd Glan mewn natur a gras, neu yn yr hen grëadigaeth a'r newydd.

Y rhanau cyffredinol o'r grëadigaeth ydynt y nefoedd a'r ddaiar, a'u lluoedd hwynt; ffurfiad a pherffeithiad yr hyn a briodolir yn neillduol i Ysbryd Duw. Am y nefoedd

y dywedir. "Efe a addurnodd y nefoedd a'i Yspryd; ei law ef a luniodd y sarph dorchog;"—ganddo ef y'u cyweiniwyd, ac y'u trefnwyd; efe a'u haddurnodd â'r lloer a'r ser, ac a'u gwnaeth yn brydferth a gogoneddus, i arddangos ardderchawgrwydd ei allu a'i ddoethineb.

Yn gyffelyb hefyd y dywedir am y ddaiar, Duw yn y dechreuad a grëodd y byd isod yma o ddim, yn dryblith cymmysg o ddaiar a dwfr. Wedi gwneuthur y defnydd cymmysg yma, "Yspryd Duw a ymsymmudodd ar wyneb y dyfroedd." Mae y gair MERACHEPHETH, a gyfieithir *ymsymmud*, yn dynodi ysgogiad tyner, cyffelyb i ymsymmudiad colomen ar ei nyth er gweinyddu gwres bywiol i'w hwyau, neu i feithrin ei rhai bach. Hebddo ef, yr oedd y cyfan yn dryblith *(chaos)* di drefn; ond trwy ymsymmudiad Ysbryd Duw arno, efe a gyfrannodd allu ffrwythloni i'r byd. Gweinyddodd egwyddorion yr holl rywiau a ffurfiai o bethau, y rhai mewn amrywiaeth annirnadwy a gyfansoddant lu a harddwch y byd; ac y mae yr hanes yma am ddechreuad pob peth, yn tra rhagori ar ddim a gawn ni gan neb o'r philosophyddion, hen na diweddar:—ac, megis yn y greadigaeth gyntaf, felly yn barhaus yn ngoruchwyliaeth rhagluniaeth, mae y gwaith o feithrin y creaduriaid, yn cael ei briodoli i'r Ysbryd Glan: "Ti a guddi dy wyneb, hwythau a drallodir, dygi ymaith eu hanadl, a threngant, a dychwelant i'w llwch." Sal. 104. 29, 30. Mae pob rhyw greaduriaid yn difianu ac yn marw; y ddaiar sydd yn ymddangos bob blwyddyn fel pe byddai yn nychu; ond "Pan ollyngych dy Yspryd y crëir hwynt, ac yr adnewyddi wyneb y ddaiar." Mae Ysbryd Duw, swydd yr hwn yw cynnal y grëadigaeth, yn dwyn arlwy newydd o greaduriaid i fod, yn lle y rhai ydynt yn cwympo ymaith, megis dail oddiar y coed, gan ddychwelyd beunydd i'r llwch. Trwy ei ddylanwad effeithiol ef, y mae pob peth yn ymadnewyddu; a wyneb natur yn cael ei addurnaw o newydd; ond, rhaid i ni ystyried gwaith yr Ysbryd Glan yn ei berthynas â chrëadigaeth dyn.

Gellir golygu dyn, naill ai yn naturiol, gyda golwg ar rannau cyfansoddol ei fod; neu yn foesol, gyda golwg ar ei egwyddorion o ufudd-dod. Am y cyntaf, dywedir, "A'r Arglwydd Dduw a luniasai y dyn o bridd y ddaear, ac a anadlasai yn ei ffroenau ef anadl einioes; a'r dyn a aeth yn enaid byw." Gen. 2. 7. Pridd oedd y defnydd o'r hwn y'i lluniasid; a chrybwyllir hyn, er arddangos gallu a doethineb yr Awdwr mawr, yr hwn o'r fath ddefnyddiau salw, a allai ffurfio y fath adail ardderchog a'r corff dynol; ac i ddarostwng dyn trwy yr adgoffäad o wacledd ei ddefnydd dechreuol. Ac i'r pridd lluniedig yma, Duw a anadlodd anadl einioes; —ysbryd anfarwol; rhyw beth o honaw ei hunan yn union-gyrchol, ac nid o unrhyw ddefnydd rhag-greadigol. Fel hyn gwnelid dyn yn rhyw fath o grëadur canol, rhwng yr angelion frŷ, a'r anifeiliaid isod. Ei gorff a luniwyd yn gyffelyb i'r anifeiliaid, o ddefnydd; a'i enaid oedd gynnyrchiad union-gyrchol gallu dwyfol, fel yr angelion. Gwaith yr Ysbryd Glan ydoedd hyn, canys yr un ydyw Ysbryd Duw ac Anadl Duw, ond bod y naill yn enw priodol, a'r llall yn gyffelybiacthol. Priodolir creadigaeth y corff a'r enaid iddo ef. "Yspryd Duw a'm gwnaeth, ac anadl yr Hollalluog a'm bywioccäodd i." Job 33. 4. Ac fel hyn y lluniwyd dyn, perffeithiad y grëadigaeth isod, ganddo Ef, i'r hwn yr ymddiriedwyd perffeithiad pob rhyw weithredoedd dwyfol mewn modd arbennig.

Ond, y mae yn angenrheidiol i ni ystyried dyn, gyda golwg ar ei *gyflwr moesol* hefyd; ac y mae hyn yn cael ei ddynodi yn Gen. 1. 26, 27,—"Duw hefyd a ddywedodd, Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain.—Felly Duw a grëodd y dyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y crëodd efe ef." Yn feddiannol ar uniondeb natur trwyadl, a chymhwysder i ddirnad ewyllys Duw gyda golwg ar y ddyledswydd ofynol ganddo ef; a thueddfryd rhydd, di attalfa tu ag at y ddyledswydd hono. Hyn oll oedd effaith gweithrediadau union-gyrchol yr Ysbryd Glan; canys yn adferiad y gallucedd hyn i'n heneidiau

trwy adenedigaeth, tystiolaethir yn amlwg mai efe yw yr Awdwr o honynt. Eph. 4. 24. Trwy hyn y mae efe yn adferu ei waith ei hun, ac fel hyn y gellir dywedyd fod Adda wedi derbyn Ysbryd Duw yn ei ddiniweidrwydd.

Nid yw gweithredoedd Duw wedi eu gorphen fel hyn yn cael eu gadael gan yr Ysbryd Glan. Canys megis y mae cadweidiaeth y byd yn ymddibynu ar ddylanwad grymmus rhagluniaeth Ddwyfol, felly y mae i'r Ysbryd ei weithrediadau neillduol yn mhob peth, naturiol ac anifeilaidd, rhesymol a moesol. Mewn perthynas i'r cyntaf, nyni a welsom fod olyniad o greaduriaid, ac adnewyddiad blynyddol wyneb y ddaiar oddiwrtho ef. Ac yn y gweithrediadau moesol a rhesymol, y cyfryw ag y trefnir amgylchiadau pwysig y byd trwyddynt, y mae ganddo ef law fawr hefyd. O'i weithrediadau grymmusawl ef y mae doethineb, ymröad, a gwroldeb yn deillio, y rhai a gynnyrchasant y cyfryw effeithiau grymmusawl. Felly y daeth Ysbryd Duw ar Othniel, i'w feddiannu â doethineb i lywodraethu, ac â gwroldeb i ryfela. Fel hyn yr anfonodd Duw ei Ysbryd ar Cyrus, ei enneiniog, i'w gymhwyso ef i'r gwaith mawr yr oedd efe i'w gyflawni. Esa. 45. 1. Fel hyn hefyd y galluogid Sorobabel i adeiladu y deml er y gwrthwynebiad cryfaf, fel y byddai yn amlwg i bawb, fod y gwaith wedi ei gyflawni, "nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy Yspryd yr Arglwydd." Zech. 4. 6.

PEN. V.

Dull y gweinyddiad o'r Ysbryd Glan.

Cyn yr ymdrinom am waith yr Ysbryd yn y *grëadigaeth newydd*, mae yn ofynol i ni ystyried natur y gweinyddiad o honaw gan Dduw; ac o'i ymroddiad yntau ei hunan i'r gwaith; ac y mae yr hyn oll sydd genyf i'w gynnyg i'ch sylw ar hyn yn gynnwysedig yn yr eglurhad o'r testunau

hyny yn y rhai y'i datguddir. Gan hyny rhaid i ni ystyried, 1. Pa beth a ddysgir i ni ar du y Tad, mewn perthynas i'r Ysbryd a'i waith; ac yn 2. Yr hyn a berthyna yn union-gyrchol iddo ef ei hunan.

I. Dynodir gosodiad yr Ysbryd gan Dduw i'w waith, mewn pump o ffyrdd gwahanol:—Dywedir ei fod ef yn ei *roddi* ef; yn ei *anfon* ef; yn ei *dreſnu* ef; yn ei *dywallt* ef; yn ei *roddi*, neu ei *osod arnom ni*.

1. Dywedir fod Duw yn ei *roddi* ef: "Pa faint mwy y *rhydd* eich Tad o'r nef, yr Yspryd Glan i'r rhai a ofyno ganddo." Luc 11. 13. "Sef o'r Yspryd a *roddes* efe i ni." 1 Ioan 3. 24; ac mewn llawer o fannau eraill. Yn awr, mae y rhoddiad yma o'r Ysbryd yn dynodi *awdurdod*, *rhyddid*, a *haelioni*, ar du Duw.—Mae yn dynodi *awdurdod*; canys mae yn rhaid i'r sawl a fyddo yn rhoddi unrhyw beth, fod yn meddu awdurdod i'w roddi. Mae hyn yn arwyddocau *rhyddid* hefyd; canys am yr hyn a roddir, gellid ei attal. *Dawn* Duw yw hyn,—nid pwrcas ein hymdrechion ni, na gwobrwy ein teilyngdod. Sonia rhai dynion am bwrcasu gras a gogoniant; ond y mae y pethau hyn i'w prynu "heb arian a heb werth." Ni chydnebydd yr Ysgrythyrau ddim a all dynion ei deilyngu iddynt eu hunain ond marwolaeth; "dawn Duw yw bywyd tragywyddol." Mewn cyfattebiad i'r golygiad yma, dywedir fod credinwyr yn ei dderbyn ef; "A hyn a ddywedodd efe am yr Yspryd, yr hwn a gai y rhai a gredent ynddo ef ei dderbyn." Ioan 7. 39; a thrachefn, "A nyni a dderbyniasom, nid yspryd y byd; ond yr Yspryd sydd o Dduw." 1 Cor. 2. 12. Mae rhoddi a derbyn yn ymadroddion perthynasol, y naill yn tybied y llall;—ac megis y mae yr ymadrodd yma yn arwyddocau rhyddid o du y rhoddwr, felly hefyd y mae yn dynodi braint a mantais o'n tu ni. Mae yr ymadrodd yma hefyd yn arwyddocau *haeledd;* mae y fath ddawn ag sydd yn deillio o haelfrydedd dwyfol: canys dywedir fod Duw yn ei roddi i ni yn *helaeth*. Mae mawredd y rhodd, rhyddid y rhoddwr, a'r diffyg o deilyngdod yn

y derbyniwr, yn cyd-dystio mai haelfrydedd yw y ffynhonell y deilliai o honi; ac O! mor fawr yw y fraint a'r fantais o du y rhai a dderbyniant y rhodd hon! Mae rhai yn wir yn ei dderbyn ef i ryw ddyben neillduol, heb dderbyn gwir les i'w heneidiau yn y diwedd. Maent yn derbyn ei *ddoniau* yn unig, heb dderbyn ei *ras;* fel y rhai hyny a broffwydent, ac a fwrient allan gythreuliaid, eto a barhäent yn "weithredwyr anwiredd," ac felly yn wrthodedig yn y diwedd; ond nid oes dim rhoddiad o'r Ysbryd Glan, nad yw yn ddaionus yn ei natur ei hunan, yn tueddu i ddyben da, a chymhwysder ynddo i wneuthur lles i'r derbynydd;—canys er y dichon na byddo dyben union-gyrchol rhai doniau i wneuthur daioni ysbrydol i'r derbynydd, ond adeiladaeth eraill;—eto mae yr ardderchawgrwydd hwnw ynddynt, a all dueddu i les mawr. Ac yn y cyffredin, mae gwneyd yn gyfrannog o'r Ysbryd Glan, yn rhagorfraint annhraethol werthfawr.

2. Dywedir fod Duw yn ei *anfon* ef. "Eithr y Diddanydd, yr Yspryd Glan, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i," Ioan 14. 26. A dywedai Crist, "Eithr pan ddel y Diddanydd, yr hwn a anfonaf i chwi oddiwrth y Tad." Ioan 15. 26. Mae hyn hefyd yn dynodi awdurdod, rhyddid, a hacledd. Nid yw y gair yn *naturiol* yn arwyddocau namyn *ysgogiad llëawl;* megis y mae y neb a anfonir yn symmud o'r naill le i'r llall; ond, fel y mae newidiad llëawl yn annghyson â *holl bresenoldeb* yr Ysbryd, mae yn rhaid i ni addef fod *cyffelybiaeth* yn y gair hwn; felly dywedir fod Duw yn "cyfodi allan o'i le;" ei fod ef yn "gostwng y nefoedd ac yn disgyn;" ei fod ef yn "disgyn i weled y ddinas a'r twr" a adeiladai dynion. Ac y mae yn eglur nad rhyw ysgogiad llëawl a olygir yn y geiriau hyn, namyn cyffelybiaeth oddiwrth ddull marwolion; canys ni all crëadur gynnyrchu unrhyw effeithiau lle na's byddo. Felly y mae anfoniad yr Ysbryd yn arwyddo nad ydyw efe yn cynnyrchu yr effeithiau bendigedig o'i allu a'i ras, ond yn y rhai yr anfonir ef attynt, Nid oedd efe

o'r blaen yn, neu gyda y person hwnw, i'r dyben neillduol, i r hwn y'i hanfonir gan y Tad; ac y mae hyn yn profi, wrth fyned heibio, nad yw ef yn *gyffredinol i bawb;* neu yn *oleuni* sydd yn *goleuo pob dyn*, ac yn yr hwn y *gallai pawb fod*, pe mynnent, canys yn ol y golygiad hwnw, ni byddai le i'r weithred neillduol yma o'i anfon ef; yr hyn sydd yn arwyddo dewisiad o'r gwrthddrych i'r hwn y'i hanfonid.

3. Dywedir fod Duw yn *trefnu* yr Ysbryd. "Yr hwn gan hyny sydd yn trefnu i chwi yr Yspryd," Gal. 3. 5. Yr hwn sydd yn cyfrannu o'r Ysbryd yn helaeth a pharhaus i chwi. Felly hefyd y dywedir yn Phil. 1. 19. "Canys mi a wn y digwydd hyn i mi er iachawdwriaeth, trwy eich gweddi chwi a chynnorthwy Yspryd Iesu Grist;" neu yr *arlwy ychwanegol* o Ysbryd Iesu Grist; fel y dynoda y geiryn *(epichoregia)* Mae ar y rhai a ddelerbyniasant yr Ysbryd angen cyfrannogi o'i ddoniau yn helaethach beunydd; a hyn a roddir trwy drefniad yr Ysbryd gan Dduw i'r credinwyr.

4. Dywedir fod Duw yn rhoddi ei Ysbryd yn, neu ar ddynion, "Rhoddais fy Yspryd arno." Esa. 42. 1. Gweithrediad effeithiol Duw yw yr hyn a olygir yma. Mae efe, nid yn unig yn rhoddi, ac yn anfon ei Ysbryd i'w bobl, ond yn ei osod arnynt hwy mewn gwirioneedd, fel y maent mewn gwirioneedd yn gyfrannogion o honaw ef. Mae efe yn doniaw eu calonau a'u meddyliau âg ef yn effeithiol, i'r gwaith a'r dyben amcanedig i'w gyflawni ganddo.

5. Dywedir yn fynych fod Duw yn ei *dywallt* ef: "Wele, mi a dywalltaf fy Yspryd i chwi." Diar. 1. 23. Mae yr ymadrodd pwysig hwn, pa le bynnag y'i canfyddir, yn cyfeirio yn union-gyrchol at amseran yr Efengyl; canys er fod Duw wedi rhoddi ei Ysbryd mewn rhyw fesur o'r blaen, ni's tywallfwyd ef hyd amser gorucheyliaeth yr efengyl. Cynnwysa yr ymadrodd hwn dri pheth; 1. Gwaredu o nodedig o haelfrydedd dwyfol. Mae *tywallt* yn arwyddo cyflawnder oll-ddigonol, fel y tywallt y cynnyllau wlaw;

ac am hyny y dywedir fod adnewyddiad yr Ysbryd Glan yn cael ei dywallt arnom yn helaeth. Dychwelid pechaduriad at Dduw gynt trwy gyfrannogiad helaeth o'r Ysbryd; a pha beth bynnag a hono rhai i'r gwrthwyneb, mae yn rhaid i ddynion gael y cyffelyb driniaethau, neu feirw yn eu pechodau. 2. Mae y tywalltiad yma o'r Ysbryd, yn golygu doniau a grasau yr Ysbryd, ac nid ei Berson,—canys lle y rhoddir ef, efe a roddir yn hollol, heb na mwy na llai; ond gall ei ddoniau a'i rasau ef gael eu rhoddi yn helaethach i'r naill na'r llall, ac i'r un person y naill bryd ragor y llall. 3. Mae yr ymadrodd yn golygu ei ddylanwadau puredigaethol a dyddanusol. Cydmerir ef i ddwfr yn aml;—"Ac a daenellaf arnoch ddwfr glan, fel y byddoch lan." Ezec. 36. 25. Felly y galwai ein Harglwydd ef, "afonydd o ddwfr;" a chyda golwg ar yr adfywiad a bair efe ar y rhai y'i tywelltir arnynt, efe a gydmerir i wlaw, "Canys tywalltaf ddyfroedd ar y sychedig, a ffrydiau ar y sychdir;" hyny yw, "Tywalltaf fy Yspryd ar dy had, a'm bendith ar dy hiliogaeth." Mae efe yn dyfod ar ddaiar sychlyd ddiffrwyth calonau dynion, gan beri iddynt flaen-darddu a chynnyrchu ffrwythau sancteiddrwydd a chyfiawnder; ac fel hyn y mae Crist trwy ei Ysbryd, yn dyfod "fel gwlaw ar gnu gwlan, fel cawodydd yn dyfrhau y ddaear."—Yr Arglwydd da a roddo beunydd i ni o'r dyfroedd a'r cawodydd gwerthfawr hyn!

2. Nyni a awn rhagom i ystyried yr hyn a briodolir i'r Ysbryd ei hunan gyda golwg ar ei ymroddiad i'r gwaith, oddiwrth yr hyn y gwelir yn eglur ei fod ef yn ymddwyn yn y cyfan fel gweithredydd gwirfoddol.

Yn gyntaf, Y mae efe yn deillio oddiwrth y Tad; ac yn gymmaint a'i fod ef yn Ysbryd y Mab hefyd, y mae efe yn deillio oddiwrth y Mab yr un modd: "Yspryd y gwirioneedd, yr hwn sydd yn deillio oddiwrth y Tad, efe a dystiolaetha am danaf fi." Ioan 15. 26.

1. Mae i'r Ysbryd Glan, ddeilliad *naturiol* neu *bersonol*; yr hyn a ddynoda ei berthynas dragywyddol i'r Tad a'r

Mab. Y mae efe o honynt hwy trwy dragywyddol ddeilliad; ond y mae dull y deilliad yma yn annirnadol i ni tra yn y fuchedd hon.

2. Mae i'r Ysbryd ddeilliad gweinyddol hefyd; sef ei ddyfodiad oddiwrth y Tad, yn ei ymroddiad i'w waith, yr hyn oedd weithred wirfoddol o'i ewyllys da ei hun yn unig. Fel hyn y mae efe yn deillio oddiwrth y Tad, o'i ewyllys da ei hunan, mewn cydsyniad a'i anfoniad ef o honaw i gyflawni bwriadau ei ewyllys, a chynghorion ei ras.

Yn ail. Yn gyffelyb hefyd y dywedir am dano ef ei fod yn *dyfod*:—"Onid af fi ni ddaw y Diddanydd attoch chwi." Ioan 16. 7. Mae ei *ddyfodiad* yn arwyddocau ei fod ef o'i wir ewyllys a'i gydsyniad ei hunan, yn gweithredu er cyflawni ewyllys y Tad, yn y lle, neu y modd, na's gwnai o'r blaen, ac fel hyn y cyfarwyddir ein ffydd i weithredu gyda golwg ar yr Ysbryd. Canys nyni a allwn weddïo ar iddo ei roddi a'i anfon ef i ni, yn ol ei addewidion; a gallwn weddïo arno ef, am ddyfod o honaw attom ni, i'n sancteiddio a'n dyddanu ni, yn ol ei swydd a gymerodd efe arno ei hun.

Yn drydydd. Dywedir ei fod yn *syrthio* ar ddynion; "A Phedr eto yn llefaru y geiriau hyn, syrthiodd yr Yspryd Glan ar bawb a oedd yn clywed y gair." Act. 10 44. Yn yr ymadrodd yma dynodir mawredd a sydynrwydd; megis pan ddisgynodd y tân, yr hwn oedd yn gysgod o'r Ysbryd, ar aberth Elïas, synai y rhai a'i gwelent, gan waeddi allan, "Yr Arglwydd, efe sydd Dduw!" Pa le bynnag y defnyddir y gair yma am dano ef, fe lefarir am ryw weithrediadau annghyffredinol er amlygiad o'i bresenoldeb a'i allu; a hyny yn neilldnol pan na ddysgwylid y fath fendith.

Yn bedwerydd. Wedi dyfod, dywedir ei fod yn *gorphwys* ar y personau i'r rhai y'i rhoddir, ac y'i hanfonir; megis yn Esa. 11. 2. "Ac Yspryd yr Arglwydd a orphwys arno ef;" hyny yw, efe a *erys* neu a *breswylia* arno ef.

Felly y gorphwysodd Ysbryd yr Arglwydd ar Eliseus, 2 Bren. 2. 9; ac yn 1 Pedr 4. 14, dywedir fod "Yspryd y gogoniant, ac *Yspryd* Duw yn gorphwys" ar y saint. Mae y gair yn arwyddo hyfrydwch a pharäad; ac y mae efe yn aros lle y mae yn gorphwyso. Dywedai y Gwaredwr y byddai iddo aros gyd a'i bobl yn dragywyddol. Ioan. 14. 16. Efe a ddaeth at ryw ddynion i'w cyffroi at ryw orchwyl neillduol yn unig; ond, lle y mae efe yn gorphwyso, fel yn y gwaith o sancteiddio a dyddanu, y mae efe yn aros yno gyd ag ymhyfrydiad.

Yn bummed. Dywedir ei fod ef yn *ymadael* oddiwrth ryw rai. Fel hyn y ciliodd Ysbryd yr Arglwydd oddiwrth Saul, 1 Sam. 16. 14; a Dafydd a weddïai ar Dduw, gan ddywedyd, "Na chymmer dy Yspryd Sanctaidd oddiwrthyf," Sal. 51. 11. Wrth ei ymadawiad oddiwrth ddynion y deallir, ei fod yn rhoddi i fynu weithredu ynddynt fel cynt; a chan belled ag y byddo hyn yn gosbawl, dywedir ei fod yn cael ei gymeryd ymaith. Fel hyn yr ymadawodd efe â Saul, pan na's cynnorthwyai ef mwyach â galluoedd i lywodraethu fel brenin. Mae ymadawiad Ysbryd yr Arglwydd, naill ai yn hollawl neu mewn rhan. Gwnaethpwyd rhai yn gyfrannogion o'i ddoniau ef, derbyniasant oleuni oddiwrtho, buant yn proffesu yr efengyl, a chyflawnasant lawer o ddyledswyddau; eto maglwyd hwy gan eu temtasiynau, gorchfygwyd hwy gan eu chwantau, a throisant drachefn at ynfydrwydd:—mae yr Ysbryd Glan yn llwyr gilio oddiwrth y cyfryw; yn eu rhoddi i fynu iddynt eu hunain, ac i chwantau eu calonau eu hunain; mae eu holl ddoniau yn gwywo; eu goleuni yn diffoddi; a hwythau yn cael tywyllwch yn lle gweledigaeth. Mae cyflwr y cyfryw yn wir druenus! Efe a all gilio hefyd oddiwrth y credinwyr eu hunain; ond mewn rhan yn unig, ac am dymhor; canys yn gymmaint a'i fod wedi ei roddi iddynt yn y cyfammod gras, mae yr addewid yn bendant, na bydd iddo byth ymadael â hwy, yn hollol a thrwyadl, Esa. 59. 21. A'n Hiachawdwr

bendigedig a'n hysbysa, am bwy bynnag a yfai o'r dwfr a roddai efe iddynt, gan olygu ei Ysbryd sancteiddhaol, na sychedent yn dragywydd; hyny yw, na byddai iddynt byth mwyach fod yn hollol amddifaid o honaw ef. Y mae hwn "yn ffynnon o ddwfr, yn tarddu i fywyd tragywyddol:" ond efe a all gilio dros amser, o rau graddau, ac effeithiau teimladwy dwyfol ras. Gall credinwyr gael eu gollwng dan nychiadau ysbrydol, a llawer o lesgrwydd; a gall fod y petnau a fyddo yn ol, neu yn weddill ganddynt, yn barod i farw. Efe a all ymguddio, neu adael ei bobl dros ychydig, am ba achos y dichon iddynt hwythau feddwl ei fod ef yn eu llwyr adael a'u gwrthod; ond nid yw efe byth yn cilio yn hollol oddiwrth y cyfryw rai.

LLYFR II.

GWEITHREDIADAU NEILLDUOL YR YSBRYD DAN YR HEN DESTAMENT, YN RHAG ARWEINIOL I'R EIDDO DAN Y NEWYDD.

PENNOD II.

Proffwydoliaeth—Ysgrifenu yr Ysgrythyrau—Gwyrthiau.

Nid oes dim yn ardderchog yn mysg dynion nad yw yn briodoledig i'r Ysbryd Glan; pa un bynnag a fyddo ai rhywbeth anarferol, a goruwch cynnyrchiad egwyddorion naturiol, neu ynte cynnwysedig mewn defnyddiad rhagorol o'r egwyddorion hyny; a pha beth bynnag yn nodedig a weithredai efe dan yr Hen Destament, yr oedd yn dwyn rhyw berthynas yn gyffredin, os nid bob amser, â Christ a'r efengyl, ac felly yr ydoedd yn rhag-barottawl i'w gwblhad o waith mawr y greadigaeth newydd.

Gweithredoedd anarferol yr Ysbryd, oeddynt, *prophwydoliaeth*, *cyfansoddi yr Ysgrythyrau*, a *gwyrthiau*. Ac am y gweithredoedd hyny o'i eiddo, y rhai oeddynt yn gynnwysedig mewn cyfaddasu y galluodd naturiol at amgylchiadau bywyd, a gwasanaeth yr eglwys, nyni a'u canfyddwn dan y pennau canlynol, mewn pethau *gwladol*, yn fedrusrwydd i drin achosion gwladol; mewn pethau *moesol*, megis gwroldeb neu ddewrder; mewn pethau *naturiol*, megis cynnydd nerth corfforol; neu mewn doniau *dëallawl*, naill ai mewn pethau cyssegredig, megis pregethu gair Duw; neu yn y celfion, fel Bezaleel ac Aholïab.

Y ddawn ardderchawg gyntaf o eiddo yr Ysbryd dan yr hen Destament, a'r hon a berthynai yn fwyaf union-

gyrchol i Grist, oedd *Proffwydoliaeth*; prif ddyben yr hon oedd ei rag-hysbysu ef, ei ddyoddefiadau, a'i ogoniant; neu i ordeinio y cyfryw bethau mewn addoliad dwyfol, ag a fyddent yn gysgodau a rhagddarluniau o honaw ef; canys rhagor-fraint uchelaf yr hen eglwys gynt, oedd clywed newyddion am y pethau yr ydym ni yn eu mwynhau yn bresenol. Fel y cafodd Moses weled tir Canaan oddiar ben Pisgah, a rhagweled yn yr Ysbryd, y prydferthwch sancteiddrwydd a adeiledid yno, felly prif lawenydd y saint hyn oedd craffu ar Frenin y Saint, yn y tir oedd eto yn draphell oddiwrthynt hwy. "Am yr hon iachawdwriaeth yr ymofynodd ac y manwl chwiliodd y prophwydi, y rhai a brophwydasant am y gras a ddeuai i chwi. Gan chwilio pa bryd, neu pa ryw amser, yr oedd Yspryd Crist yr hwn oedd ynddynt, yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhag-dystiolaethu dioddefaint Crist, a'r gogoniant ar ol hyny. Pr rhai y datguddiwyd, nad iddynt hwy eu hunain, ond i ni, yr oeddynt yn gweini yn y pethau a fynegwyd yn awr i chwi." 1 Pedr 1. 10, 11, 12. Mae swm a sylwedd y gwaith proffwydoliaethol yn cael ei osod allan yn y geiriau hyn, Duw ei hun a roddes yr addewid gyntaf o Grist, yr hyn oedd sylfaen yr eglwys. Trachefn, efe a gadarnhaodd yr addewid hano, trwy ddatguddiad i'r proffwydi, i r rhai y rhoddes efe amlygiadau newyddion o oes i oes, o'i Berson, ei ddyoddefiadau, a'i ogoniant. Tra y'u defnyddid fel hyn, yr oeddynt hwythau yn ymdrechu yn ddyfal i ymgydnabod à'r pethau eu hunain; eto yn ystyried mai oes oedd ddyfodol, ac nid hwynt hwy, a gaent fwynäad o'r amlygiad gweithredol o'r pethau. Chwilient hefyd yn nghylch yr amser yr oedd eu proffwydoliaethau yn debyg o gael eu cyflawni, sef pa bryd, a *pha ryw amser* fyddai; neu pa fath a fyddai ansawdd yr eglwys yn y dyddiau hyny.

Dechreuodd y cyfranniad o'r ddawn yma yn foreu yn y byd, a pharhäodd dros holl yspaid ansawdd rag-barottöawl yr eglwys. Anferai Duw lefaru "trwy enau ei sanctaidd

brophwydi erioed," medd yr apostol. Datguddiodd Duw lawer o bethau i Adda ei hunan, heb yr hyn ni's gallasai efe ei addoli ef yn iawn; canys er y gallasai ei oleuni naturiol fod yn ddigonol i'w arwain ef yn y gwasanaeth crefyddol a ofynai deddf creadigaeth ganddo; eto yr oedd yn llwyr annigonol i'w gyfarwyddo am y dyledswyddau perthynol i'r cyflwr y'i dygasid iddo drwy ddyfodiad pechod i'r byd. Am hyny, efe a gyfarwyddid at y cyfryw ordeinhadau o addoliad ag oeddynt yn gymeradwy gan Dduw, ac o'r cyfryw yr oedd yr ebyrth. Cofnodir proffwydoliaeth Enoch gan yr apostol Judas; ac nid yw yn anhawdd dangos a phrofi fod yr holl batrieirch cyn y Dylif, yn cael eu tywys gan Ysbryd proffwydoliaethol yn nodiad enwau ar eu plant hyny oedd i'w holynu yn y llinach gyssegredig; a gelwid Abraham yn brofiwyd gan Dduw ei hunan, Gen. 20. 7.

Yr oedd y ddawn brofiwydoliaethol yn effaith union-gyrchol gweithrediad yr Ysbryd Glan. Felly y tystiai Pedr, "Gan wybod hyn yn gyntaf, nad oes un brophwydoliaeth o'r ysgrythyr o ddeongliad priod; canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth; eithr dynion sanctaidd Duw a lefarasant, megis y cynhyrfwyd hwy gan yr Yspryd Glan." 2 Pedr 1. 20. Nid ffrwyth dychymygion dynion eu hunain ydoedd, ac nid ydoedd yn ddarostyngedig i ewyllysiau dynion, fel y gallent ei chyrhaeddyd neu ei harferyd trwy eu medr eu hunain; ond fe'i rhoddid drwy ysbrydoliaeth Duw. Yr Ysbryd Glan a gynhyrfai ac a gyfarwyddai eu meddyliau. Pa le bynnag y dywedir fod Duw yn llefaru trwy y proffwydi, neu fod gair Duw wedi dyfod attynt hwy, y golygir gweithrediad digyfrwng Ysbryd yr Arglwydd. Am hyny y dywedai Micah, "Yn ddiau llawn ydwyf fi o nym gan Yspryd yr Arglwydd." Mic. 3. 8. A Dafydd a ddywedai, "Yspryd yr Arglwydd a lefarodd ynof fi, a'i ymadrodd ef oedd ar fy nhafod." 2 Sam. 23. 2. Efe a lefarai *wrthynt*, neu *ynddynt hwy*, trwy eu ysbrydoliaeth sanctaidd; ac efe a lefarodd *trwyddynt*

hwy, yn ei arweiniad effeithiol, anffaeledig o honynt, i dracthu ac i ysgrifenu yr hyn a dderbyniasent ganddo ef yn ddi gyfeiliorn.

Gellir ystyried proffwydoliaeth ddwy ffordd; mewn ystyr fanol, dynoda ragfynegiad o bethau i ddyfod; ond yn gyffredinol, mae y gair yn dynodi dëongli a datgan meddwl neu ewyllys un arall. Felly y dywedai Duw wrth Moses, "Gwel, mi a'th wneuthum yn Ddduw i Pharaoh," i ynwneyd âg ef yn enw ac yn lle Duw, "ac Aaron dy frawd fydd yn broffwyd i tithau," i ddëongli ei feddwl, a thracthu ei eiriau i Pharaoh, o herwydd fod Moses wedi cwyno am dano ei hun, ei fod yn ddiffygiol mewn ymadroddi. Ac yn gyson a hyn, y cawn ni yn y Testament Newydd, fod y rhai a ddëonglent yr Ysgrythyrau i'r eglwys yn cael eu galw yn Broffwydi, a'u gwaith, Proffwydo, o herwydd eu bod yn egluro, neu yn mynegi meddwl, ewyllys, neu air Duw i eraill.

Yr oedd y ddawn neilldual yma o eiddo yr Ysbryd yn gynnwysedig mewn ysbrydoli, neu anadlu, ac fe'i gelwid felly oddiwrth natur ac enw yr Ysbryd Glân. Mae yr enw drwy yr hwn y'i datguddir i ni yn arwyddocâu *Anadl;* ac am hyny pan roddai y Gwaredwr ef i'w ddysgyblion, "efe a anadlodd arnynt hwy." Mae yr ymadrodd yma hefyd yn dynodi tynerwch a rhwydd-deb ei weithrediadau ar eu meddylian, trwy yr hyn yn dyner ac esmwyth, yr anadlai efe iddynt, megis, y wybodaeth o bethau sanctaidd.

Effeithiau union-gyrchol yr anadliad yma oedd, fod y rhai yr anadlid iddynt yn cael eu cynhyrfu "gan yr Ysbryd Glân, 2 Pedr i. 21; hyny yw, efe a barottódd alluoedd eu meddylian, i dderbyn a chadw ei argraffiadau dwyfol; yn gyffelyb i ddyn yn cyweirio tanau ei offeryn cerdd, fel y derbynio argraffiad ei fys, ac y rhoddo allan y swn a amcana. Nid llefarai ynddynt, a'i adael i'w galluoedd naturiol hwy i ddeall, cofio, ac adrodd yr hyn a lefarasai, a wnaeth efe;—ond efe ei hunan a weithredai ei galluoedd,

gan eu defnyddio fel ei beiriannau i adrodd ei eiriau ei hunan, ac nid eu dychymmygion hwy ; ac efe a wnaeth hyn gyd a'r fath eglurder a phrawf o'i allu, fel na's gadewid un amheuaeth yn eu meddyliau pa un a oedd eu synïadau dan ei ddylanwad ef ai peidio. Mae dynion mor dueddol i syrthio dan awdurdod eu dychymygion eu hunain, a Satan wedi cymeryd mantais ar hyny i dwyllo meddyliau rhai mor aml, fel y'u cam-gymerasant am ddatguddiadau goruwch-naturiol ; ond rhoddai yr Ysbryd Glân sicrhâd di feth i'r rhai a ysbrydolid ganddo ef, mai efe yn unig oedd yn eu cynhyrfu. Os gofyn neb, pa beth oedd yr arwyddion anffaeledig hyn ? Rhaid i mi atteb yn y fan, nas gallaf ddywedyd ; canys ni chafodd neb o honom ni brofiad o'r cyfryw beth. Ac nid ymhonir mewn dim o'r natur yma gan y rhai ydynt yn proffesu eu bod yn brofiadol o ddylanwadau cyffredinol yr Ysbryd ; er fod rhai wedi priodoli hyny ar gam iddynt ; ond hyn a ddywedaf, bod yr Ysbryd yn amcanu rhoddi i'r rhai a ysbrydolai mewn modd annghyffredinol, sicrwydd digonol i'w cynnal yn y cyflawniad o'u dyledswydd, mai efe ei hunan oedd yn eu cynhyrfu. Gelwid hwy i gyfarfod âg amrywiol beryglon yn aml, a rhai o honynt i roddi eu heinioes i lawr yn y gwaith, yr hyn ni's gwnaethent heb y sicrwydd cyflawnaf a allai y natur ddynol ei feddu, o'u bod dan ysbrydoliaeth Ddwyfol, a'r cyfryw ar a'u diogelai rhag ofn cael eu twyllo. Yr oedd y cyfryw arwyddion o wirionedd Dwyfol ar y gair a draddodent i eraill, fel yr oedd yn deilwng o'i gredu, ac na's gellid ei wrthod heb fod yn gyfrannog o'r euogrwydd mwyaf ; pa faint cryfach gan hyny oedd y profion o'i wirionedd i'r rhai a ysbrydolid i'w draddodi ? Mae hanes Abraham yn gadarnäad trwyadl o'r golygiad yma. Yr oedd yr Ysbryd Glân hefyd yn arwain hyd yn nod aelodau eu cyrff, trwy y rhai y traddodent ei datguddiadau. Efe a arweiniai eu tafodau, fel y mae meddwl dyn yn arwain ei law pan yn ysgrifenu ; am hyny y dywedai Dafydd, " Fy nhafod sydd bin ysgrifenydd buan." Sal. 45. 1. Ac

felly hefyd y dywaid efe gyda golwg ar y deml, a holl drefn yr addoliad ynddi, "Hyn oll a wnaeth yr Arglwydd i mi ei ddeall mewn ysgrifen, trwy ei law ef arnaf fi, sef holl waith y portreiad hwn." 1 Cron. 28. 19. Yr oedd yr Ysbryd yn ei gyfarwyddo ef i'w ysgrifenu mor eglur a phe buasai wedi ei ddarlunio mewn ysgrifen gan fŷs Duw.

Bellach, mae yn gweddu i ni ystyried y moddion trwy y rhai y datguddiai Ysbryd Duw ei feddwl i'r proffwydi; a'r prif o'r rhai hyn oeddynt lleisiau, breuddwydion, a gweledigaethau, y rhai a ddylynid weithiau a gweithrediadau, neu gyfnewidiadau llëawl cyffelybiaethol, neu rag-gysgodol.

1. Byddai Duw weithiau yn defnyddio *llais hyglyw*. Felly y "llefarodd efe wrth Moses wyneb yn wyneb, fel y llefarai gwr wrth ei gyfaill." Exod. 33. 11. Ac hwyrach mai yn y dull yma y cafodd efe yr oll o'r datguddiad Dwyfol a wnaed iddo ef. Felly hefyd y llefarodd Duw wrth Elïas, Samuel, Jeremiah, ac, efallai, wrth yr holl broffwydi ar ddechreuad eu gweinidogaeth.—Yr oedd y lleisiau hyn, naill ai yn cael eu crëu gan Dduw ei hun yn ddigyfrwng, neu trwy weinidogaeth angelion: ond y sicrwydd Dwyfol ar eu meddyliau hwy, oedd trwy weithrediad tufewnol digyfrwng yr Ysbryd, heb yr hyn, gallasent gael eu twyllo trwy leisiau allanol.

2. Gwneid defnydd o freuddwydion hefyd dan yr Hen Destament, ac o'r cyfryw yr ydwyf yn cyfrif y gweledigaethau a gäent hwy pan yn nghwsg, er na's gelwir hwynt yn freuddwydion; am hyny y dywedid yn yr addewid hono, "Tywalltaf o'm Hyspryd ar bob cnawd: a'ch meibion chwi a'ch merched a broffwydant, a'ch gwŷr ieuainc a welant weledigaethau, a'ch hynafgwyr a freuddwydiant freuddwydion." Act. 2. 17. Nid am fod Duw yn bwriadu gwneyd rhyw ddefnydd mawr o'r rhai hyn dan y Testament Newydd; ond arwyddocäad yr addewid yw y rhoddid tywalltiad helaeth o'r Ysbryd a weithredai drwy y moddion hyny dan yr Hen Destament. Eto arferid y dull yma

weithiau dan y Newydd hefyd, felly cafodd Paul weledigaeth liw nos, Act. 16. 9, 10:—Ond yr oeddynt yn llawer amlach gynt. Gwnaeth Duw ddatguddiad nodedig i Abraham, pan oedd trymgwsg, a dychryn, a thywyllni mawr wedi syrthio arno ef, Gen. 15. 12. Clywodd Daniel sain geiriau pan oedd efe mewn trymgwsg. Ond myfi a debygwn nad cwsg naturiol oedd hwn, ond ei fod wedi ei achosi gan Dduw mewn modd neilldnol, fel y gallai yn y cyfryw amgylchiad ddarlunio delweddau pethau i'w meddyliau; ac yr oedd y dull yma o ddatguddiad mor gyffredin, fel y byddai y sawl a gymerai arno broffwydo, yn gwaeddi yn y fan, "Breuddwydiais, Breuddwydiais!"

3. Byddai Duw yn ei ddatguddio ei hun trwy weledigaethau i'r proffwydi; ac am hyny y'u gelwid hwy *Gweledyddion*. Felly y darluniai Esaiah ei holl broffwydoliaeth ogoneddus, fel gweledigaeth; mewn rhan o herwydd y darluniad a wneid iddo ef, pen. 6; ac mewn rhan o herwydd gwirionedd y pethau a ddatguddid iddo ef; yr hyn oedd mor eglur i'w feddwl a phe buasai wedi cael golwg arnynt a'i lygaid. Y gweledigaethau hyn oeddynt, naill ai *darluniad allanol* o bethau i lygaid eu cyrff, neu *ddarluniad tufewnol* i'w meddyliau. (1.) Yr oedd weithiau ymddangosiadau o bersonau, neu bethau, yn cael eu gwneuthur i'w synhwyrau allanol, yn y rhai y defnyddiai Duw weinidogaeth angelion yn aml.—Fel hyn, ymddangosodd tri o wŷr i Abraham, Gen. 18. 2; un o ba rai oedd Mab Duw ei hun, y ddau eraill oeddynt angelion gweinidogaethol. Un o'r cyfryw weledigaethau oedd y berth danllyd, a welodd Moses,—y gwr a welodd Josuah gerllaw Jericho;—y crochan berwedig, y wïalen almonau, a'r ffigys a welodd Jeremïah, &c.

2. Gwneid y darluniadau hyn i'w meddyliau yn unig weithiau. Pan welodd Pedr y llen llïan yn cael ei gollwng i waered o'r nef, dywedir yn Act. 10. 10, ei fod ef mewn llewyg, trwy yr hyn yr amddifadid ef am yspaid o wasanaeth ei alluoedd corfforol. A thau y pen yma yr

ydwyf yn cyfrif gweledigaethau Daniel, a'r rhai a gafodd Ioan yn ynys Patmos; ac yn enwedigol yr holl weledigaethau hyny, yn y rhai y gwnelid unrhyw ddatguddiad o Dduw ei hun a'i orsedd ogoneddus; fel yn 1 Bren. 22. 19. Esa. 6. 1. Ezec. 1. 3, &c. Mae yn amlwg nad oedd synhwyrau corfforol y proffwydi ar waith yn yr un o'r rhai hyn; ond argreffid ar eu myddyliau ddrychiolaethau o'r pethau: eto gwnelid hyny mor effeithiol, fel na's gwyddent yn amgenach na'u bod wedi gweled y gwrthddrychau â'u llygaid, Rhoddid y gweledigaethau hyn i'r proffwydi, er cadarnhâu eu meddyliau, a nawseiddio eu calonau, ag amgyffrediad eglur a gryminus o'r pethau hyny yr oeddynt i'w mynegi a'u dysgu i erail! ; ond, mewn trefn i wneyd y gweledigaethau hyn yn rhanau union-gyrchol o ddatguddiad Dwyfol, yr oedd yn angenrheidiol i feddyliau y proffwydi gael eu cynhwyso mewn modd dyladwy gan yr Ysbryd Glân i'w derbyn; a'u galluogi i gadw yn ffyddlawn, a datgan yn anffaeledig, pa beth a ddarlunid felly iddynt.

4. Gofynid i'r proffwydi fyned trwy weithredoedd arwydd-luniol weithiau; felly, gorchymynid i Esay rodio yn noeth, ac heb esgidiau; yr oedd yn rhaid i Jeremiah guddio gwregys llian; ac Ezeciel orwedd ar ei ystlys yn amser y gwarchae. Ond gan fod rhai o'r pethau hyn yn erbyn goleuni natur, cystal a chyfraith Duw, ni's gellir meddwl iddynt gael eu gwneuthur mewn gwirionedd, ond eu cynnrychioli iddynt hwy mewn gweledigaethau, er gwneuthur argraff ddwysach ar eu meddyliau. Ond am y rhan fwyaf o'r gweithredoedd cyffelybiaethol a grybwyllir, y rhai ni byddent yn wrthwyneb i oleu natur a datguddiad Duw, e ddichon eu bod wedi cael eu cyflawni mewn gwirionedd, ac nid eu darlunio mewn gweledigaeth yn unig.

5. Yr oedd y datguddiadau a wnelid iddynt yn cael eu dilyn a symmudiadau llcawl weithiau, fel Ezeciel, pen. 8. 3. a 11. 24; a dywedir yn bennodol, mai mewn gweledigaethau trwy Ysbryd Duw, yr oedd efe yn cael ei gymeryd

felly o'r naill le i le arall. Syrthiant i lewyg weithiau, yn yr hwn yr attelid gweithrediadau y synhwyrau allanol, cludid eu meddyliau mewn per-lesmair sanctaidd o un lle i le arall; yr hyn a wnelid yn unig trwy gynnrychioliad Dwyfol o bethau a fyddent mewn gweithrediad mewn lleoedd, o'r rhai y byddent hwy mewn gwirionedd yn absenol. Yn awr y mae yr holl bethau hyn yn perthynu i lawer gwaith, a llawer modd datguddiad, am y rhai y crybwyllir yn Heb. 1. 10.

Ysgrifenu yr Ysgrythyr hefyd, oedd un arall o'r hyn a gynnyrchid gan yr Ysbryd Glân. Dywedai yr apostol i ni, fod yr Ysgrythyr, neu yr ysgrifen ei hun *(e graphe)* trwy yspryddoliaeth Duw; 2 Tim. 3. 16. Y weinidogaeth hon a gyflwynwyd gyntaf i Moses. Yr oedd llaweroedd o broffwydi wedi bod o'i flaen ef: ond efe oedd y cyntaf a ysgrifenodd ewyllys Duw; heblaw Duw ei hunan, yr hwn a ysgrifenasai y gyfraith ar lechau o gerrig, yr hyn oedd dechreuad a chynllun yr Ysgrythyr.—Nid ydys yn hysbys pwy oedd ysgrifenwyr llyfrau hanesyddol yr Hen Destament; ond y mae yn sicr eu bod o nifer y dynion sanctaidd a lefarasant ac a ysgrifenasant fel y'u cynhyrfwyd gan yr Ysbryd Glân. Ac am hyny y'u gelwir yn broffwydi; canys er mai yn hanesyddol yr ysgrifenasant hwy, amlwg yw, nad oddiar gof-lyfrau, er y dichon eu bod yn meddu y rhai hyny, ond trwy arweiniad yr Ysbryd.

Cydgyfarfyddai tri pheth yn y gwaith hwn; 1. Ysbrydoliad meddyliau y proffwydi, â gwybodaeth o'r pethau a ddatguddid iddynt. 2. Rhoddiad geiriau addas iddynt i ddarlunio eu meddyl-ddrychau ynddynt. 3. Arwain eu dwylaw i ysgrifenu y geiriau hyny yn gywir. Pe buasai y naill neu y llall o'r pethau hyn yn ddiffygiol, ni allasai yr Ysgrythyrau fod yn hollol Ddwyfol ac anfaeledig.

Mae yn wir fod rhai wedi meddwl oddiwrth y gwahanol ysgrif-ddull *(style)* a ganfyddir yn yr Ysgrythyrau, mai y sylwedd yn unig a roddid iddynt, a bod y geiriau wedi eu hymddiried i'w galluoedd hwy eu hunain i'w cael allan.

Yr unig beth a ddywedaf fi ar hyn yw, fod yr amrywiaeth yma yn cael ei achosi yn benaf trwy amrywiaeth y testunau â'r rhai yr ymdrinir, ac na all hyn fod yn un prawf o'r golygiad cableddus uchod; canys nid yw yr Ysbryd Glân yn gweithredu yn dreisgar ar feddyliau dynion; ond yn y modd mwyaf cyson â'u natur ac â'u galluoedd; felly yr oedd y geiriau a roddid ganddo ef, yn gyfryw ag oeddynt yn fwyaf cynnefin iddynt hwy eu hunain. Nyni a addefwn eu bod hwy yn arfer eu galluoedd eu hunain yn y dewisiad o eiriau; ond yr oedd yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn fwy cyfarwydd ar feddyliau dynion nac ydynt hwy eu hunain, yn eu harwain hwy yn y cyfryw fodd, fel yr oedd y geiriau a arferent oddiwrtho ef mor wirioneddol a phe buasent wedi eu llefaru ganddo ef wrthynt mewn llais hyglyw; pe amgen, ni's gallesid dywedyd eu bod hwy yn llefaru megis y'u cynhyrfid gan yr Ysbryd Glân; ac ni's gallasai eu hysgrifeniadau fod o Ysbrydoliaeth Ddwyfol. O herwydd hyny, y mae synwyr mawr yn ymddibynu ar un lythyren weithiau yn iaith wreiddiol yr Ysgrythyrau, megis yn nghyfnewidiad enw Abram i Abraham; ac fe sicrhäodd ein Iachawdwr ei hunan, fod pob iot a thipyn o'r gyfraith dan ofal arbenig Duw. Matthew 5.

Y trydydd math o weithrediadau annghyffredinol yr Ysbryd Glân, ydynt *gwyrthiau*, y cyfryw a wnaed gan Moses, Josuah, Elïas, Eliseus, &c. Y rhai hyn oll oeddynt effeithiau union-gyrchol gallu Dwyfol yr Ysbryd Glân; canys wrth wyrthiau yr ydys yn golygu y cyfryw effeithiau ag ydynt mewn gwirioneddu tu hwnt, ac uwchlaw gallu achosion naturiol, pa fodd bynnag y'u cymhwysid. Dywedir yn bennodol am Grist ei hunan ei fod ef yn gwneuthur gwyrthiau (megis bwrw allan gythreuliaid) trwy yr Ysbryd Glyn; ac os oedd eu cynnyrchiad union-gyrchol trwy ei allu ef yn natur ddynol Mab Duw, pa faint mwy y rhaid addef mai trwyddo ef yn unig y'u gwnelid gan y rhai nad oeddynt onid dynion yn unig; gan hyny, pan ddywedir eu gwneuthur gan *law*, neu *fys* Duw, mae yn eglur mai per-

son yr Ysbryd a olygir, ac ni bu y personau trwy y rhai y'u gwnelid, erioed yn wir berchenogion y gallu trwy yr hwn y'u gwnelid, fel pe buasai yn trigiannu ynddynt, neu yn perthynu iddynt hwy, Act. 3. 12, 26; yn unig hwy a gyfarwyddid yn anffaeledig gan yr Ysbryd Glân, trwy air neu weithred, i rag arwyddo y gweinyddiad o honynt. Felly, pan orchymynai Josuah i'r haul a'r lleuad sefyll, nid oedd ynddo ef allu i ddylanwadu holl gylch naturiaeth: yn unig, yr oedd ganddo awdurdod Ddwyfol i ddweyd yr hyn a wnelai Duw ei hunan; am ba achos y dywedid fod Duw wedi gwrandaw ar lef dyn.* Felly yn mhob gweithredoedd gwyrthiol craill, yn y rhai y byddai aelodau corfforol dyn yn offerynau cyflawniad y wyrth, megis yn y ddawn o allu i lefaru â thafodau; nid oedd y rhai a dderbynient y ddawn hono yn llefaru felly oddiar unrhyw fedr

* Rhai o'r ysgrifenwyr Iuddewig a esponiant yr hanes hon, fel ped arwyddai yn unig, gyflymder Josuah i ddarostwng ei elynion cyn diwedd y dydd; a'u dyben yn ceisio eglaro yr ymadroddion hyn felly yw, rhag bod Josuah yn casi ei olygu wedi gwneuthur gwyrth fwy na Moses. Sylwa ein hawdwr hefyd fod rhai ysgrifenwyr Cristionogol yn cofnogi y golygiad yma. Tuag at symmaid lluaws o wrthddadleuon a gyfodwyd mewn cyssylltiad â'r hanes nodedig hon, eidduna y Golygydd ganiattäad i adysgrifiaw y sylwadau canlynol, allan o *Pike's Philosophia Sacra. p.p.* 47:—"Dygir y rhan yma o'r hanesyddiaeth sanctaidd yn mlaen yn gyffredin fel gwrthddadl yn erbyn y golygiad o, y goddefa yr Ysgrythyrau y dyb o fod y ddaiar yn ysgogi, a phwysir arni fel prawf o fod yr Ysgrythyrau yn arhoni ysgogiad yr haul o amgylch y ddaiar; ond tebygaf fod y camgymeriad yma yn deillio oddiar grybwylliad anmherffaith o'r ymadrodd—Fel hyn y dadleuir yn gyffredin,—"Onid yw Josuah yn dywedyd, "Haul aros?" a gadewir y geiriau nesaf allan yn gyffredin: pan mai fel hyn y mae y geiriau i'w darllen, "O haul, aros yn Gibeon; a thithau, leuad, yn nyffryn Ajalon. "Gofynaf yn awr, A oedd corff yr haul yn Gibeon, neu gorff y lleuad yn Ajalon? Nac oeddynt yn ddiam meu: ond yr oedd y goleuni a ddylifai o'r haul, ac a adlewyrchid o'r lleuad, yno. Nid cyrff yr haul a'r lleuad a olygai Josuah; ond eu goleuni, yr hwn a barwyd i aros dros ryw yspaid yn yr un man yn Gibeon ac yn Ajalon; a hyn a wnaed mewn modd gwyrthiol, heb beri un cyfnewidiad yn nghyrff yr haul, y lleuad, na'r ddaiar. Mae y geiriau Hebraeg, SHEMESH, ac YARAH, yn arwyddocâu goleuni yr haul a'r lleuad, &c."

rhagorach ynddynt eu hunain, ond offerynau yr Ysbryd Glân oeddynt yn unig, yn cael eu defnyddio ganddo ef wrth ei ewyllys ei hunan; ac amcan yr holl weithrediadau hyn oedd cadarnhau eu gweinidogaeth. Felly pan anfonodd Duw Moses i fynegi ei cwyllys i Israel, efe a barodd iddo ef wneuthur gwyrthiau, fel y credent mai Duw a'i hanfonasai ef; Exod. 4. 8: a gelwid y rhai hyn yn "Arwyddion;" am eu bod yn nodau o bresenoldeb yr Arglwydd; a'r rhai hyn ydynt brif benau gweithrediadau anngbyffredinol yr Ysbryd, y rhai ydynt yn tra rhagori ar ddim a ddichon galluoedd dynol, ac anianol eu cyflawni.

Ond heblaw y rhai hyn, yr oedd gweithrediadau eraill o eiddo yr Ysbryd, trwy y rhai y gwellâai, ac y dyrchafai efe alluoedd naturiol dynion i ryw ddybenion neillduol; a'i gweithrediadau hyn ydynt yn dwyn perthynas a phethau gwladol, moesol, anianol a dëallawl.

1. Dónid rhai â chymhwysderau neillduol i weithredu yn llŷwodraethiad eu cyd-ddynion. Mae llywodraeth yn mysg dynion yn dwyn perthynas agos â gogoniant Duw, ac à lles y gymdeithas ddynol; hebddi ni byddai yr holl fyd namyn diffaethwch llawn o drais, drygioni, ac annrhefn. Fe addefa pawb fod cymhwysderau neillduol yn ofynol i'r perwyl yma; a dylai y rhai ydynt mewn awdurdod ofalu am feithrin y cyfryw gymhwysderau, neu, fe deimla y byd, a hwythau eu hunain yn fuan hefyd, effeithiau niweidiol eu hesgeulusdra; ond, gan nad yw yr hyn oll a all dynion ei gyrhaeddyd trwy foddion cyffredin yn ddigonol i ryw ddybenion arbenig, y rhai yr amcana Duw eu cwblhau trwy eu llywodraethiad, bu yr Ysbryd Glan cyn hyn, yn bywiogi galluoedd meddwl y cyfryw ddynion, yr hyn a amlygid weithiau trwy arwyddion allanol. Felly, pan benodwyd y Sanhedrim o henuriaid gyntaf i gynnorthwyo Moses, dywedodd yr Arglwydd, "Casgl i mi ddeng wr a thriugain o henuriaid Israel,—a mi a gymeraf o'r yspryd sydd arnat ti, ac a'i gosodaf arnynt hwy; felly y dygant

gyda thi faich y bobl;—a'r Arglwydd a gymerodd o'r yspryd oedd arno, ac a'i rhoddes i'r deg henaf gwyr a thriugain." Num. 11. 16, 17, 25.

Felly hefyd pan fynai Duw sefydlu ffurf newydd o lywodraeth yn eu plith, ac y bwriadai i Saul fod yn frenin arnynt, efe a roddes galon arall iddo ef; gan ei fod ef yn cael ei alw o gyflwr isel i urddas breninol, cymhwysid ef gan Ysbryd Duw â doethineb a mawrfrydigrwydd cymhwys i'w swydd uchel; a dylynid hyn gan arwydd gweledig anarferol, fel yr ymostyngai y bobl iddo ef. 1 Sam. 10. 9. I'r un dyben hefyd y trefnodd Duw yr ordinäad o enneiniad breninoedd; canys yr oedd hyny yn arwydd o gyfrannogiad o ddoniau yr Ysbryd; ac mor fawr yw y baich sydd yn gorffwys ar lywodraeth gyfiawn a da,—mor lluosawg ydynt y temtasiynau a ddeilliant oddiar awdurdod a golud, fel y mae dynion yn sicr o suddo dan bwys y gwaith, neu gyfeiliorni gyd a'r gorchwyl, heb gynnorthwyon neillduol. Hyn a barodd i Solomon ddewis doethineb (i lywodraethu) o flaen pob bendith arall; a phe dylynai llywodraethwyr y ddaiar ei siampl ef yn hyn, a gweddïo yn daer am eu llenwi o'r Ysbryd, byddai yn well gyda hwy, a chyd â'r byd nac ydyw hi yn gyffredin. Yr oedd Duw yn dwyn yr oruchwyliaeth yma yn mlaen o'r tu allan i gylch yr eglwys weithiau; ac nid ammheuaf nad yw efe yn parhau i wneuthur felly. Fel hyn, efe a enneiniodd Cyrus, Esaiah 45. 1, i'r hwn yr oedd gwaith mawr i'w wneuthur dros Dduw; yn gymmaint a'i fod i gyflawni ei farnau ef ar Babilon, ac i waredu ei bobl, i'r hyn orchwylion, yr oedd yn rhaid iddo wrth gymhorth neillduol yr Ysbryd, er nad oedd efe ei hunan yn ddim amgen nac aderyn ysglyfaethus. Esa. 46. 11. Pa gynnifer sydd o'r rhai a gyfrannogant o'r doniau hyn, nad ydynt byth yn ystyried yr Awdwr o honynt;—ond yn offrymu i'w rhwydi eu hunain, gan edrych arnynt eu hunain fel y ffynhonau o'u holl ddoethineb a'u galluoedd rhagorach! Ond nid yw mor ryfedd fod doniau yr Ysbryd

yn llywodraethiad y byd yn cael eu dirmygu, pan y mac ei holl waith o barth yr eglwys yn cael ei waradwyddo yn amlwg!

2. Nyni a allwn ychwanegu y rhinweddau moesol hyny a weinyddir i rai personau, i gyflawni amcanion neilldaol. Felly y daeth efe ar Gedëon a Jephthah, i'w cymhwyso hwy i waredu ei bobl oddi tan ormes eu gelynion, Barn. 6. 34. a 11. 29. Dywedasid o'r blaen, eu bod yn wŷr cedyrn nerthol: ond y dyfodiad yma o eiddo yr Ysbryd arnynt hwy, a ddynodai ei waith yn cyffroi eu dewder, ac yn cryfhau eu meddyliau yn erbyn perygl; ac efe a wnelai hyn trwy argraffiad mor effeithiol o'i allu, fel y sicrheid eu meddyliau hwy eu hunain am eu galwad, ac y gallai eraill gaufod presenoldeb Duw gyd a hwy; am ba achos y dywedir fod Ysbryd Duw wedi eu gwisgo hwy, am eu bod yn cael eu twymno eu hunain, ac yn adnabyddus i eraill trwy ei ddoniau ef.

3. Mae genym lawer o esamplau o'i waith ef yn ychwanegu at ddoniau y meddwl, trwy y rhai y cymhwysai efe ddynion at eu dyledswyddau, nerth corfforol hefyd, pan fyddai hyny yn angenrheidiol. Y cyfryw oedd nerth Samson; yr oedd ei nerth corfforol ef yn oruwch-naturiol: phan y defnyddiai ei fawr nerth, dywedid fod Ysbryd yr Arglwydd yn dyfod yn rymmus arno ef, neu yn gweithredu yn rymmus ynddo ef; ac efe a roddai y nerth yma iddo ef mewn ffordd o ordinäad, gan drefnu tyfiant ei wallt fel gwystl o honi, ac felly, pan dorwyd ei wallt, efe a gollodd y ddawn ei hun dros dymhor. Barn. 14. 6. a 15. 14.

4. Cyfrenid doniau dëallawl i rai dynion hefyd; felly y doniodd efe Bezaleel ac Aholïab â doethineb ac â medr yn mhob rhyw gywreinwaith, er adeiladu a harddu y tabernacl; Exod. 31. 2, 3. Pa un a oedd Bezaleel wedi ymroddi i astudio y cyfryw gelfyddydau o'r blaen, sydd ansicr; ond y mae yn ddigon eglur fod ei ddoniau presenol yn or-

uwch-naturiol. Yr oedd Ysbryd Duw yn nerthu ei alluoedd naturiol i amgyffred y pethau cywrain hyny, ac yn ei wneuthur yn fedrus i'w gwneuthur a'u cywreinio yn ol trefniad Duw ei hunan. Ac fel hyn, aethum yn fyr trwy oruchwyliaethau yr Ysbryd dan yr Hen Destament, ac ni cheisiais gasglu yn nghyd ei holl waith dan sylw; canys yna, rhaid fuasai ymholi i bob peth oedd yn ganmoladwy yn yr hen eglwys; oblegyd hebddo ef, marwolaeth, a thywyllwch, a phechod, yw pob peth; ond mae y crybwyllion uchod yn ddigonol i brofi fod hod a ffyniant yr eglwys yn ymddibynu yn hollol ar ei weithrediadau ef. Oddiwrtho ef y daeth gair addewid, y ddawn o broffwydoliaeth, y datguddiad a'r sefydliad o holl ordinhadau addoliad dwyfol; a'r holl ddoniau a'r galluoedd hyny a dderbyniai neb un er rheoli, noddi, a gwaredu yr eglwys; ac os hyn oedd ansawdd pethau dan yr Hen Destament, gellir casglu oddiwrth hyny, pa fodd y mae dan y Newydd, prif ragoriaeth yr hwn, yn nesaf at ddyfodiad Crist, yw y tywalltiad o'r Ysbryd yn helaethach nac o'r blaen; ac eto mae rhai dynion yn tybied nad yw ef na'i waith o nemmawr bwys i ni; ac er ein bod yn canfod pa beth bynnag sydd dda, hyd yn nod dan yr Hen Destament yn cael ei brïodoli iddo ef, y mae yn anhawdd perswadio rhai ei fod ef yn *parau* i wneuthur unrhyw ddaioni yn bresenol:—mor wrthwynebol ydyw meddyliau Duw â'r eiddo dynion yn y pethau hyn, pan na byddo ein meddyliau ni wedi eu caethiwo i ufuddod ffydd.

PEN. II.

Goruchwyliaeth gyffredinol yr Ysbryd Glân gyda golwg ar y Grëadigaeth Newydd

Nyni a awn rhagom yn bresenol at y brif ran o'n gwaith, sef Goruchwyliaeth yr Ysbryd mewn perthynas i'r Efengyl,

neu Gröedigaeth Newydd o bob peth, yn, a thrwy Iesu Grist; ac y mae hyn yn teilyngu ein ymholiad mwyaf dyfal, yn gymmaint ag nad oes egwyddor bwysicach yn perthyn i'r grefydd Gristionogol. Mae yr athrawiaeth o fod ac undod Duw, yn gyfredin i ni a holl ddynolryw: yr oedd athrawiaeth y Drindod yn adnabyddus i'r rhai oll a fwynhäent ddatguddiad Dwyfol, hyd yn nod dan yr Hen Destament: cnawdoliaeth Mab Duw oedd addawedig a dysgwyliedig er pan ddaethai pechod gyntaf i'r byd: ond, y mae gweinidogaeth yr Ysbryd yn perthynu mor arbenig i'r Testament Newydd, fel y dywedai yr Efengylydd wrth ymadroddi am hyn, "Canys etto nid oedd yr Ysbryd Glân wedi ei roddi o herwydd na ogoneddasid yr Iesu etto," Ioan 7. 39; ac ni wyddai dysgyblion Ioan gymmaint a bod Ysbryd Glân, Act. 19. 2. Mae y ddau ddywediad uchod yn golygu ei oruchwyliaeth hon: canys nid y pryd hyny yr oedd efe yn dechreu bod, ac nid oeddynt hwythau yn anhysbys o'i fodoliaeth ef. Gan hyny, er cymhell dyfalwch yn yr ymholiad yma, myfi a gynnygiaf rai ystyriaethau ychwanegol.

1. Rhagorfraint fawr, a rhagoriaeth goruchel cyflwr yr eglwys dan oruchwyliaeth yr efengyl, yw tywalltiad helaeth o'r Ysbryd Glân. Dyfodiad Crist yn y cnawd, oedd addewid fawr yr Hen Destament; ond yr oedd ei ddyfodiad ef i fod y cyfryw, ag i roddi terfyn ar yr ansawdd hono ar yr eglwys, yn mha un y dysgwylid ei ddyfodiad ef; eithr yr addewid hon am yr Ysbryd oedd i fod yn sylfaen cyflwr eglwysig arall, ac yn foddion ei barhâd. Gan hyny, od oes genym un ymdeimlad yn achos yr efengyl ei hunan, ystyriwn y pethau hyn.

2. Gelwir gweinidogaeth yr Efengyl, trwy yr hon y'n hadgenhedlir, yn Weinidogaeth yr Ysbryd, 2 Cor. 3. 6; oblegid ei bresenoldeb addawedig gyda hi, ac mewn gwrth gyferbyniad i "weinidogaeth y ddeddf," yn yr hon yr oedd llawer o ordinhadau addoliad, a seremoniau gogoneddus; a'r neb na's gŵyr fwy am Weinidogaeth yr Efengyl na'r hyn a gynnwysir mewn sylw ar lythyren y sefydliadau,

ni's gŵyr ddim am dani. Nid ydym yn dywedyd hyn, fel pe byddem yn ymhoni i ryw ysbrydoliaeth annghyffredinol yn yr oes bresenol,—ond y mae y fath bresenoldeb o eiddo Ysbryd Duw gyda gweinidogaeth yr Efengyl yn ei gynnorthwy, ei gyfraniad o ddoniau a galluoedd, arweiniad a chyfarwyddyd, heb yr hyn nid yw ond llwyr ddi fudd.

3. Nid yw addewid a dawn yr Ysbryd dan yr efengyl yn cael ei gwneyd i ryw fath o bersonau yn unig, ond i'r holl gredinwyr, fel y byddo eu hamgylchiadau yn gofyn. Mynai y Pabyddion gyfyngu yr addewid yma i'w Pab a'i Gynghoriaid; ond y mae yn eiddo cyffredin yr holl gredinwyr yn eu sefyllfeydd amrywiol, yr holl eglwysi yn ol eu trefniadau, a'r holl weinidogion yn eu swydd. Mae yn wir fod ei weithrediadau anarferol, y rhai oeddynt angenrheidiol er gosod sylfaen yr eglwys, wedi pallu; ond y mae holl waith ei ras yn cael ei ddwyn yn mlaen y pryd hwn mor drwyadl ag ydoedd ar ddydd y Pentecost; ac felly y mae ei gyfraniad o ddoniau er adeiladaeth yr eglwys, Eph. 4. 10, &c. Gan hyny, y mae addef gwaith yr Ysbryd, yn brif ran o'r brofles hono i'r hon y gelwir yr holl gredinwyr.

4. Fe'n dysgir i weddïo am i Dduw roddi ei Ysbryd Sanctaidd i ni, fel y'n galluoger trwy ei gymmhorth ef i fyw i Dduw. Archai ein Iachawdwr ni i fod yn daer yn ein gweddïau am dano, ac i'n calonogi at hyny, efe a addawai y byddai i ni lwyddo; "Pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r nef yr Ysbryd Glân i'r rhai a ofyno ganddo?" Luc. 11. 9—13. Gan hyny, efe yw testun mawr ein gweddïau; ac y mae yr addewid neillduol hòno o eiddo ein Harglwydd, y byddai iddo ei anfon ef fel Dyddanydd, i fod yn gyfarwyddor i weddïau yr eglwys yn mhob oes. Ac nid oes un eglwys yn y byd wedi dirywio cymmaint, fel na chanfyddir yn eu gwasanaeth cyhoedd dystiolaethau o'r hyn oedd eu ffydd a'u hymarferiad, mewn gweddio am yr Ysbryd.

5. Rhaid ail nodi yr hyn a grybwyllwyd o'r blaen yma,

sef addewid ddifrifol yr Arglwydd Iesu, ychydig cyn iddo adael y byd hwn: ac fel yr oedd efe yn cadarnhau ei Destament y pryd hyny, efe a adawodd ei Ysbryd, fel ei gymmun-rodd fawr i'w ddysgyblion. A hyn oedd y gwystl mawr o'u hetifeddiaeth ddyfodol, ar yr hyn yr oeddynt hwy i fyw yn y byd yma. O fel y llawenychai rhai pe y gallent gael ond crair unrhyw beth a fuasai yn perthynu i Grist, er na byddai o unrhyw lesäad iddynt hwy! Pa gynnifer o'r rhai a elwir yn Gristionogion, a ymffrostiant mewn rhyw rith ddarnau o'i groes ef! Mae cariad wedi ei gamarfer gan goel grefydd yn gorwedd wrth wraidd y gwaŵedd yma; hwy a fynnent gofleidio unrhyw beth a adawsid iddynt gan eu Gwaredwr croeshoeliedig; eithr ni's gadawodd efe y cyfryw bethau iddynt eriöed; ac ni's darfu iddo ef eriöed fendithio a sancteiddio y cyfryw bethau i amcanion cyssegredig. Ond hyn a dystiolaethir yn amlwg yn yr efengyl, ddarfod iddo, pan oedd ei galon yn gorlifaw o gariad at ei ddysgyblion, a phan oedd yn rhagolygu eu cyflwr a'u profedigaeth yn y byd, addaw rhoddi yr Ysbryd iddynt, i aros gyda hwy yn dragywydd. Gan hyny, yn ol fel y prisiwn ni ef, y dylid mesur ein parch i gariad a doethineb y Gwaredwr bendigedig. Ac mewn gwirionedd, yn ei air a'i Ysbryd yn unig y gallwn ni ei anrhydeddu neu ei ddirmygu ef; y mae efe yn anfeidrol ardderchog yn ei berson ei hun; fel na's gall dim o'r eiddom ni effeithio dim arno ef; ond y mae efe yn profi ein ffydd, ein cariad, a'n hufudd-dod, yn ein hymddygiadau at y pethau hyn.

Ac os ystyriwn ni yr addewid hon o'r Ysbryd o ran y dybenion o honi, nyni a ganfyddwn ei fod ef yn cael ei addaw fel yr unig achos, ac Awdwr pob daioni a fwynheir genym yn y byd hwn; canys nid oes un daioni yn cael ei gyfranmu i ni, un cysur yn cael ei roddi ynom, nac un daioni yn cael ei goledd genym tuag at Dduw, ond a weithredir yn effeithiol ganddo ef yn unig.

Y gwaith mawr, trwy yr hwn yr amcanai Duw ymogon-

eddu yn y byd hwn, oedd y grëedigaeth newydd; yr hon gan hyny sydd raid ei bod yn cynnwys y datguddiad perffeithiaf o honaw ef ei hunan; canys oddiwrth yr amlygiad yma y mae gogoniant Duw i ddeillio. Am hyny y mae yr Arglwydd Iesu Grist yn ei gyfrwngwriaeth, yn ddelw y Duw anweledig, yn ddysglaerdeb ei ogoniant ef, ac yn wir lun ei berson ef, am fod holl briodoliaethau gogoneddus y natur Ddwyfol yn cael eu hamlygu ynddo a thrwyddo ef, yn anfeidrol ragorach nac yr oeddynt yn y grëedigaeth gyntaf. Ac yma yn neillduol, y mae Duw wedi ei ddatguddio ei hun fel Tri yn Un. Mae dirgelwch gogoneddus y Drindod Sanctaidd, yn cael ei amlygu yn odidog yn y grëedigaeth newydd; nid cymmaint trwy ryw osodiadau pennodol, a thrwy amlygiad o gyd weithrediadau y Personau Dwyfol, y naill tuag at y llall, a'u gweithrediadau gwahaniaethol tuag attom ni. A gwneir hyn, nid er mwyn llanw ein meddyliau â rhyw syniadau sychion am Dduw, ond er mwyn ein dysgu pa fodd i roddi ein hymddiried ynddo ef, i ufuddhau a byw iddo ef, ac i feddu cymmundeb âg ef hyd oni ddelom i'r mwynâad o honaw.

Mae tri pheth yn ymgymyg i'n crediniaeth yn y grëedigaeth newydd yma. 1. Y lluniaethiad goruchel o honi, yr hyn a briodolir yn wastadol i gynghor a gras y Tad. A chan i'r Mab gymeryd arno wneuthur yr hyn a luniaethasid gan y Tad, yr oedd lluaws o weithredoedd o eiddo y Tad tuag at y Mab, megis, ei anfon, ei roddi, a'i osod ef: parottoi corff iddo, ei gynnal, ei wobrwyo, a rhoddi pobl iddo ef; y rhai ar gyfrif yr awdurdod, y cariad, a'r doethineb a weithredir yuddynt, a berthynant i'r Tad, er fod y cyflawniad gweithredol o honynt yn perthynu yn bennaf i Berson arall. Yn y pethau hyn, y mae Person y Tad yn cael ei ddwyn i'n sylw, i'w adnabod a'i addoli.

2. Priodolir dwyn y lluniaethiad uchod i weithrediad i'r Mab; yr hwn a ymrwymodd i gyflawni yn ei Berson ei hun yr holl waith a drefnasid iddo ef gan ddoethineb a

chynghor y Tad. Ac yn y gweithrediadau Dwyfol hyn y datguddir Person y Mab i ni yn wrthddrych i'w anrhydeddu genym, megis yr ydym yn anrhydeddu y Tad.

3. Prïodolir y cymhwysiad a'r perffeithiad o'r lluniaethiad goruchel, i'r Ysbryd Glan. Efe bïoedd cyflawni yr hyn oll oedd i'w wneuthur mewn perthynas i Berson y Mab, neu i feibion dynion, er perffeithiad cynghor y Tad, a gwaith y Mab, yn nghymhwysiad neillduol y naill a'r llall i'w dybenion pennodol. Trwy hyn y'i gwneir yn adnabyddus i ni, a thrwy hyn y cyfarwyddir ein ffydd. Ac fel hyn, y mae Duw yn y gwaith mawr hwn, yn peri i'w holl ogoniant fyned heibio i ni, fel yr adnabyddom, ac yr addolom ef yn gywir. A pha beth yw gwaith neillduol yr Ysbryd, nyni a awn rhagom i ddangos, allan o law.

PEN III.

Gwaith yr Ysbryd Glan ar natur ddynol Crist, Pen y grëedigaeth Newydd.

Mae goruchwyliaeth a gwaith yr Ysbryd yn y Grëedigaeth Newydd yn dwyn perthynas yn gyntaf â *Phen yr Eglwys*, Iesu Grist; ac yn ail, â'r *Aelodau* o'i gorff dirgeledig ef. Gan hyny y mae yn gweddu i ni ymofyn yn y lle blaenaf, pa rai ydynt y gweithrediadau hyny o'r rhai yr oedd Person Crist yn ei natur ddynol yn wrthddrych union-gyrchol?

Yn gyntaf. Yr oedd ffurfiad a chenhedliad gwyrthiol corff Crist yn nghroth y Wyryf fendigedig, yn waith neillduol yr Ysbryd Glan. Mae yn wir fod y lluniaethiad o hyny yn cael ei bïodoli i'r Tad gan Grist ei hunan; "corff a gymhwysaist i mi;" hyny yw, yn nghynghor a chariad tragwyddol y Tad: ac o ran y cymeriad gwirfoddol o'r ddynoliaeth, fe'i prïodolir i'r Mab ei hunan, yr hwn gan fod y plant yn gyfrannogion o gig a gwaed, a fu yntau yn gyfrannog o'r un pethau. Ond gwaith

neillduol yr Ysbryd Glan oedd yr effeithioliad Dwyfol yn y peth hyn, Matt. 1. 18. "Wedi dyweddïo Mair ei fam ef â Joseph, cyn eu dyfod hwy yn nghyd, hi a gafwyd yn feichiog o'r Ysbryd Glân." Adn. 20 "Yr hyn a genhedlwyd ynddi, sydd o'r Ysbryd Glan."—Luc. 1. 35. "A'r angel a attebodd ac a ddywedodd wrthi, Yr Ysbryd Glan a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gysgoda di; am hyny hefyd y peth sanctaidd a enir o honot ti, a elwir yn Fab Duw." Yr oedd y weithred yma o eiddo yr Ysbryd Glan, yn weithred o grëu; nid fel y weithred grëawl gyntaf mae yn wir, yr hon a gynnyrchai ddefnydd pob peth o ddim; ond cyffelyb i'r gweithredoedd crëawl canlynol, trwy y rhai y gwnelid o ddefnydd parotöedig eisoes, bethau i fod yr hyn nid oeddynt o'r blaen. Felly y ffurfiwyd dyn o bridd y ddaiar; ac y gwnaed gwraig o asen a gymerasid allan o'r dyn: a'r un modd y bu wrth ffurfio corff Crist, er ei wneuthur trwy allu anfeidrol, eto fe'i gwnaed o sylwedd y Wyryf feudigaid. Ac yr oedd hyn yn angenrheidiol, (1.) Ar gyfrif yr addewid gyntaf, Y byddai i Had y wraig yssigo pen y sarff; canys yr oedd y Gair i gael ei wneuthur yn gnawd, a'i wneuthur o wraig. (2.) Yr oedd hyn yn angenrheidiol hefyd er cwblhau yr addewidion a wnaethpwyd i Abraham, ac i Dafydd: canys yr oedd y Messiah i ddyfod o'u lwynau hwy; yr oedd efe i gymeryd "had Abraham," ac i'w wneuthur "o had Dafydd yn ol y cnawd." (3.) Er cadarnhau y gwirioniedd yma, mae dau o'r Efengylwyr wedi rhoddi ei àchyddiaeth i ni, yr hyn ni buasai yn wirioneddol nac i'r pwrpas, pe na buasai wedi ei wneuthur o sylwedd y Wyryf. (4.) Mae ein holl gyfathrach àg ef, trwy yr hyn y'i cymhwysid i fod yn Waredwr i ni, yn ymddibynu ar hyn. Canys, pe na buasai ef yn gyfrannog o'n natur ni, ni buasai sail i gyfrif yr hyn a wnaeth ac a ddioddefodd ef i ni, (Rhuf. 8. 3.) eithr cyfrifir y pethau hyn i ni, pan na's gellid eu cyfrif i angelion, naturiaeth y rhai ni's cymeródd. Heb. 2. 16. Ac oddiwrth hyn nyni a allwn gasglu,

1. Na's gellid dywedyd am Grist ar y cyfrif yma, hyd yn nod gyda golwg ar ei natur ddynol, ei fod ef yn "Fab i'r Ysbryd Glan;" er ei fod ef yn llauw lle tad naturiol iddo ef; canys y mae y datguddiad o berthynas fabaidd, yn deilliaw oddiar berffaith genhedliad yn unig, ac nid oddiar bob rhyw effaith a gynnyrchir gan ei achos. Pan ennynir un tân gan y llall, ni ddywedir ei fod yn fab y llall; llawer llai pan adeilado dyn dŷ, y dywedwn mai ei fab yw y tŷ a adeiladodd efe. Gan hyny, nid oedd unrhyw berthynas rhwng Person yr Ysbryd a natur ddynol Crist amgen nag sydd rhwng Creawdwr a chrëadur.

2. Bod y weithred yma o eiddo yr Ysbryd yn ffurfio corff Crist, yn gwahaniaethu oddiwrth weithred y Mab yn cymeryd y natur ddynol i undeb personol âg ef ei hunan. Nid gweithred o grëedigaeth oedd yr olaf, ond o gariad a doethineb annhraethadwy; yn cymeryd y natur a gymhwysid felly iddo, i fod yn eiddo ei hunan yn y fan y'i ffurfid, ac felly attal ymfodoliad unigol y natur hóno wrthi ei hunan.

3. Gan fod cenhedliad Crist yn y groth, yn effaith gweithred grëawl, ni's gwnaed hyny yn raddawl ac mewn rhyw yspaid o amser; ond fe i perffeithwyd yn y fan. Canys er y gellir prïodoli graddiaeth ac yspaid i weithredoedd crëawl o eiddo galiu anfeidrol (megis y crëwyd y byd mewn chwe diwrnod) eto cynnyrchid pob rhan ag oedd yn wrthddrych gweithred grëawl neilliduol, yn ddïattreg. Felly yr oedd ffurfiad corff Crist, er iddo gynnyddu yn y groth wedi hyny hyd yr enedigaeth. Ac fel y mae yn debyg i'r cenhedliad yma gymeryd lle yn ddïoed ar gyfarchiad yr angel, felly yr oedd yn angenrheidiol na byddai dim o natur ddynol Crist yn bod o honi ei hunan cyn ei huniad â Mab Duw; canys ar fynyd ei ffurfiad, "y Gair a wnaethpwyd yn gnawd," a Mab Duw "a wnaethpwyd o wraig."

Mae yn ofynol i ni ystyried yn nesaf, pa fodd y prïodol-

ir cenhedliad Crist i'r Ysbryd Glan, ac i'r Forwyn: "Morwyn a fydd feichiog." Esa. 7. 14.—"Ti a feichiogi yn dy groth, ac a esgori ar fab." Luc 1. 31. Ac eto, dywedir yn yr hen gredo hwnw, a elwir yn gyffredin "Credo yr apostolion," ei gael o'r Yspryd Glan, ac yn unig "A aned o Fair Forwyn." Dylem sylwi, fod y gwaith yma yn cael ei brïodoli i'r Ysbryd Glan, fel yr achos effeithiol, yr hwn trwy ei allu a gynnyrchai yr effaith; ac i'r Forwyn Fair, fel yr achos goddefol a defnyddiol, canys ffurfiwyd ei gorff ef o'i sylwedd hi. Ac yr oedd hyn wedi ei dyweddïad â Joseph. (1.) Yr oedd hi oddi tan orchudd ei dyweddïad âg ef, i ddcrbyn amddiffyniad i'w diniweidrwydd. (2.) Trefnodd Duw un i ofalu am dani hi a'i phlentyn yn ei febyd:—a thrwy hyny, (3.) Yr oedd ein Iachawdwr i gael ei ryddhau oddiwrth y cyfrifiad o'i fod o enedigaeth annghyfreithlawn, hyd oni roddai dystiolaeth trwy ei wyrthiau ei hun o'i genhedliad gwyrthiol. (4.) Fel y byddai ganddo un, ar gyfrif yr hwn y gellid cofrestru ei âchyddiaeth, er amlygu cyflawniad yr addewid i Abraham ac i Dafydd: oblegid ni pharheid y llinach yn gyfreithlawn trwy onid y fam yn unig. O herwydd hyny y dyru Matthew âchyddiaeth Joseph i ni, â'r hwn yr oedd ei fam wedi ei dyweddïo yn gyfreithlawn; ac er fod Luc yn rhoddi ei linach naturiol trwy hynafion y Forwyn, eto nid enwai hi, namyn crybwyll eu dyweddïad yn unig. Efe a ddechreua gyda'i thad Eli, neu *Heli*.

Gwnaed corff Crist trwy ei grëad gwyrthiol yn drigle gymhwys i'w enaid sanctaidd. Heblaw llwgr cyffredinol ein natur, mae gogwyddiad neillduol ei gyfansoddiad ei hunan, gan bob un o honom ni i ymryson â hwy. Ac am hyny y mae un yn ducddol i ddigofaint, arall i wammalrwydd, y trydydd i chwantachrwydd, a'r llall i seguryd. Ond gan fod corff Crist yn berffaith bur, nid oedd un tuedd yn ei gyfansoddiad ef i ogwyddo yn y radd leiaf oddiwrth sancteiddrwydd perffaith. Yr oedd cyssonedd eithaf ei dymher naturiol ef, yn gwneuthur cariad, hynawsedd, add-

fwynder, amynedd, llarieidd-dra, a daioni yn naturiol iddo ef, fel un na's meddai gymhwysder at un rhyw ysgogiadau o dueddiad gwahanol. Am hyny hefyd, er cymmeryd o honaw arno ei hunan y gwendidau perthynol i'r natur ddynol, eto ni chymerodd yr un o'n gwendidau neillduol ni, y rhai ydynt yn glynu wrthym trwy ddrygedd ein cyfansoddiadau. Efe a gymerodd arno ei hunan y nwydau anianol hyny a berthynant i'n meddyliau ni, y rhai a allant fod yn foddion o drallod, megis gofyd a galar; a'r gwendidau anianol hyny ydynt yn ofidus i'r corff, megys newyn, syched, blinder, a phoen; ond yr oedd efe yn hollol rydd oddiwrth ein annhymerau a'n anhwylderau corfforol ni.

Yn ail. Megys yr oedd natur ddynol Crist wedi ei ffurfio yn wyrthiol, yr oedd hi wedi ei sancteiddio hefyd o'i chenhedliad, a'i llanw â gras yn ol ei chymhwysder. Gan nad oedd wedi ei chenhedlu trwy genhedliad naturiol, nid oedd wedi cyfrannogi o'r pechod gwreiddiol o Adda; ond yr oedd yn hollol ddiniweid megys yr oedd Adda yn y dydd y'i crewyd. Heblaw hyny, yr oedd wedi ei doniaw â phob gras mewn modd neillduol gan yr Ysbryd.—"Yna y daw allan wïalen o gyff Jesse, a blaguryn a dyf o'i wraidd ef; ac Yspryd yr Arglwydd a orphwys arno ef; Yspryd doethineb a deall, Yspryd cynghor a chadernid, Yspryd gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd; ac a wna ei ddëall ef yn fywiog yn ofn yr Arglwydd." Esa. 11. 1—3. Gwaith sancteiddhäol cyntaf yr Ysbryd yn y groth, yw yr hyn a olygir yn benaf yn yr addewid yma. Yr oedd enaid Crist o'r fynyd gyntaf y'i dygwyd i fod, yn gymhwys ddeiliad ei lon'd o ras fel ei drigias gwastadol; er fod yr ymarferiad o honaw yn cael ei attal mewn mesur, hyd oni chymhwysid galluoedd y corff i hyny.

Yn drydydd. Yr oedd yr Ysbryd yn dwyn y gwaith yma yn mlaen;—ac yma mae yn rhaid i ni sylwi ar ddau beth: (1.) Yr oedd Crist fel dyn yn ymarfer pob gras trwy alluoedd rhesymol ei enaid, ei ddeall, ei ewyllys, a'i serch-

iadau; canys fel dyn yr oedd efe yn gweithredu gras. Nid oedd ei natur Ddwyfol ef yn llaw lle enaid dynol, ac nid oedd yn gweithredu y gweithredoedd a gyflawnai efe yn ddigyfrwng: ond gan ei fod ef yn ddyn perffaith, ei enaid rhesymol oedd egwyddor union-gyrchol ei holl weithrediadau moesol.—Yn yr arferiad o'r galluoedd yma, yr oedd efe yn cynnydda fel dynion eraill, yr hwn gynnydd a ddylynid gan gynnydd mewn gras hefyd.—"A'r bachgen a gynnyddodd," Luc 2. 40, 52; hyny yw mewn corffolaeth, "ac a gryfhaodd yn yr Ysbryd," neu yn ngalluoedd y meddwl. Yr oedd efe yn llawn, ac yn llenw yn barhaus o raddau newyddion o ddoethineb, fel yr oedd galluoedd rhesymol ei feddwl yn cael eu cynhwyso i'w derbyn; a gwaith neillduol yr Ysbryd Glan oedd y cynnydd yma. (2.) Yr oedd cynhwysder yn ei natur ddynol i gael cyflwyniad o wrthddrychau newyddion i'w syiw, am y rhai ni's gwyddai ddim o'r blaen; ac y mae hyn mor anysgaredig oddiwrth y natur ddynol fel y cyfryw, ag yw llinder neu newyn; ond nid yw yn gamwedd neu ddiffyg beius. Mae anwybodaeth am unrhyw beth y dylai un ei adnabod, yn ddrwg moesol; ac ni's gellir priodoli hyny byth i Grist; ond fel mai anwybodaeth o ryw bethau yn unig yw hyn, nid yw hyny namyn gwadiad o hollwybodaeth anfeidrol, yr hyn nid yw yn anngkyson â sancteiddrwydd uchaf y natur ddynol—Am hyny y dywedai ein Harglwydd am dano ei hunan na's gwyddai i ddydd ac awr diwedd pob peth; ac y dywedir yr apostol am dano, iddo ddysgu ufudd-dod trwy ddyoddefiadau. Yn nghynddrychiad pethau o newydd i'w natur ddynol, yr oedd ei ddoethineb gwrthddrychol yn cynnyddu; ac mewn profedigaethau newyddion, efe a ddysgai yn brofiadol ymarferiad gras o newydd; a hyn oedd gwaith parhaus yr Ysbryd, yr hwn oedd yn trigo ynddo ef "heb fesur."

Yn bedwerydd. Fe'i henwiniwyd gan yr Ysbryd Glan â'r galluoedd anarferol hyny oeddynt angenrheidiol er cyflawniad ei swydd.—"Ysbryd yr Arglwydd Duw sydd ar-

naf; o herwydd yr Arglwydd a'm henneiniodd i efengylu i'r rhai llariaidd; efe a'm hanfonodd i rwymo y rhai yssig eu calon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sydd yn rhwym." Esa. 61. 1. Swydd broffwydoliaethol Crist a olygir yma, drwy yr hon y dysgai efe ddynion yn natur ei swyddau eraill. Cymhwysid ef i'r gwaith yma trwy enneiniad yr Yspryd; ac ar ei fedydd efe a dderbyniodd y gwystl gweledig, trwy yr hwn y'i cadarnheid ef ei hunan yn ei alwad, ac y tystid i eraill am wirionedd ei alwad i'r swydd broffwydoliaethol gan Dduw. Yna y disgynodd Yspryd Duw fel colomen, ac y daeth arno ef: "Ac wele lef o'r nefoedd yn dywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Trwy hyn y rhoddid sel fawr y nef ar ei swyddogaeth, Ioan 6. 27. Ac yn awr efe a ymaflai yn drwyadl yn ei weinidogaeth gyhoeddus. Yn achlysurol yn unig yr amlygasid presenoldeb Duw gydag ef, megis pan y llanwai ddynion â syndod wrth ymresymu â'r Doctoriaid yn y deml; ac er iddo gyflawni llawer o weithredoedd anrhyfredinol, ond odid, yn ystod ei oes anrhyboedd, eto ni's doniasid ef yn gyflawn i'w waith hyd amser ei fedydd. Ar y pryd hwn, yr oedd efe "yn gyflawn o'r Ysbryd Glan;" yr oedd efe yn llenwi yn barhaus o'r blaen; ond y pryd hwn yr oedd efe "yn gyflawn o'r Ysbryd Glan," yn feddiannol ar yr holl ddoniau ysbrydol hyny oeddynt angenrheidiol arno: a chyda golwg ar hyn y dywedai yr Efengylwr am dano, "Oblegid nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi iddo ef yr Yspryd." Ioan 3. 34. "I bob un o honom y rhoed gras, yn ol mesur dawn Crist;" ond rhoddwyd yr Ysbryd i'r Arglwydd Iesu Grist yn anfesuredig, "Oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef;" fel y byddai efe yn blaenori yn mhob peth.

Yn bummed. Trwy nerth yr Ysbryd Glan y gwnaeth efe y gweithredoedd gwyrthiol hyny, trwy y rhai y cadarnheid ei weinidogaeth ef. Am ba achos y dywedir fod Iesu

o Nazareth yn wr profedig gan Dduw, trwy nerthoedd a rhyfeddodau, ac arwyddion, y rhai a wnaeth Duw trwyddo ef. Felly pan fwriai efe allan gythreuliaid, trwy "fŷs Duw," hyny yw, trwy allu anfeidrol Duw, yr hwn a weithredid drwy yr Ysbryd Glan; ac am hyny, pan briodolai yr Iuddewon ei wyrthiau ef i Beelzebub, efe a ddywedai eu bod hwy yn cablu yr Ysbryd Glan, gweithredoedd yr hwn oeddynt.

Yn chweched. Trwyddo ef y'i cyfarwyddid, y'i cysurid, ac y'i cynhelid yn holl yrfa ei weinidogaeth, ei demtasiynau, a'i ddyoddefiadau. Gall ychydig engrheifftiau fod yn ddigonol. Yn fuan wedi ei fedydd, efe a arweinid gan yr Ysbryd i'r anialwch i ddechreu ei ymrysonfa a'r diafol. Trwy hyn yr elai efe i mewn i'w weinidogaeth. Trwy ei gynnorthwy ef y'i cludwyd ef yn fuddugawl trwy ei demtasiynau, ac y cafodd fuddugoliaeth drwyadl ar ei wrthwynebwr, yr hwn a geisiai trwy bob moddion ei wrthwynebu a'i attal ef yn ei waith. Wedi gorphen y demtasiwn, efe a ddychwelodd o'r anialwch, i bregethu yr efengyl, "yn nerth yr Yspryd;" ac am hyny yn ei bregeth gyntaf yn Nazareth, efe a gymmerth yn destun y geiriau hyny o eiddo y proffwyd Esaiah,—"Yspryd yr Arglwydd sydd arnaf fi, o herwydd iddo fy enneinio i; i bregethu i'r tlodion yr anfonodd fi, &c." Ac megis y dechreuodd efe ei weinidogaeth fel hyn yn nerth yr Ysbryd, efe a amlygai ddoethineb a gras parhaus, er synedigaeth pawb, gan gau safnau ei elynion. Trwyddo ef y'i dyddenid yn ei holl yrfa, o'i dechreu i'r diwedd.

Yn seithfed. Efe a'i hoffrymodd ei hun i Dduw trwy yr Ysbryd tragywyddol. Heb. 9. 14. Ni's gall y rhai a edrychant ar y tu allan i angau Crist yn unig, ganfod dim ynddo ond dyoddefaint. Cymerodd yr Iuddewon ef, a chyd a'r milwyr, hwy a'i fflangellasant ac a'i lladdasant ef; ond yr hyn a deilynga yr ystyriaeth benaf genym ni mewn cyssylltiad â'i angau ef, yw ei waith yn ei offrym-

mu ei hun yn aberth i Dduw, i wneuthur iawn dros bechaduriaid; a hyn a wnaeth efe trwy yr Ysbryd tragywyddol; lle y gallwn sylwi ar yr hyn a ganlyn:—

1. Efe a'i sancteiddiodd, neu a'i neillduodd ei hun i Dduw, i fod yn aberth. "Er eu mwyn hwy yr wyf yn fy sancteiddio fy hun," Ioan 17. 9. Yr oedd efe yn berffaith sanctaidd cyn hyn, o ran purdeb natur, ond yma sonir am ei waith yn ei sancteiddio ei hun, fel y neillduid yr offrwm a fyddai i'w aberthu gynt, i'r perwyl hyny yn gyntaf. Dyma ei weithred offeiriadol gyntaf, a hyn a wnaeth efe trwy nerthol weithrediad yr Ysbryd tragywyddol.

2. Efe a aeth i'r ardd o'i fodd, yr hyn oedd yn cyfatteb i ddygiad yr aberth at ddrws y babell, yn ol y gyfraith; canys yno y darfu iddo ef, nid yn unig ei roddi ei hun i fynu i ddwylaw ei elynion; ond y dechreuodd efe hefyd yn weithredol ar y gwaith o'i offrymmu ei hun i fynu i Dduw yn ei ing, "pan offrymmai efe weddïau a deisyfiadau."

3. Yn yr hyn oll a ganlynodd, efe a'i hoffrymmodd ei hun i Dduw trwy y gweithrediadau hyny o eiddo yr Ysbryd Glan ynddo ef, yr hyn a'i dilynodd ef hyd y diwedd; ac ar y rhai hyn yr ymddibynai effeithioldeb ei iawn ef. Gan hyny, nyni a allwn ymholi, pa beth a allai y grasusau hyny fod.—

1. Cariad at ddynolryw:—Crybwyllir hyn yn fynych pan sonir am offrymiad Crist. "Yr hwn a'm carodd I, ac a'i rhoddes ei hun drosof fi." Cariad a thosturi yw y gras cyntaf a ofynir mewn Archoffeiriad. Yr oedd cariad yn enaid sanctaidd yr Arglwydd Iesu wedi ymddyrchafu mewn modd annhraethadwy y pryd hyny, a'i gryfder angerddol a'i cynhaliai ef dan ei holl ddyoddefiadau. Megis nad oedd Jacob gan ei fawr gariad at Rahel, yn edrych ond yn fach ar saith mlynedd o wasanaeth am dani, felly Crist, "a ddïoddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd," er mwyn y llawenydd o achub ei etholedigion.

2. Yr hyn a'i cynhyrfai ef yn benaf yn y cwbl oedd, ei

gariad annhraethol ef at ogoniant Duw.—At hyn yr amcanai efe. 1. Yr amlygiad o gyfiawnder, sancteiddrwydd, a thostedd Duw yn erbyn pechod; adferu gogoniant Duw, yr hwn a ymddangosai fel wedi ei gymmylu gan bechod; i wneyd iawn i gyfiawnder Duw dros bechod—i fod yn gymmod dros anwiredd, er dangos cyfiawnder Duw: ac efe a ddaeth i wneuthur hyn yn ngwresowgrwydd ei enaid; "Wele fi yn dyfod," eb efe, "da genyf wneuthur dy ewyllys, O! fy Nuw; a'th gyfraith sydd o fewn fy nghalon;" a phan oedd efe yn ymbarottoi i ddyoddef, efe a ddywedai, "Mi a chwennychais yn fawr fwytta y pasc hwn gyda chwi, cyn dyoddef o honof;" ac ar achlysur arall, "Y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef, ac mor gyfyng yw arnaf hyd oni orphenwyf!" 2. Bwriadai Iesu Grist roddi ei ras a'i gariad mewn gweithrediad.—Efe a wyddai mai dyma y fordd i agoryd trysorau gras a chariad, fel y'u tywelltid ar bechaduriaid er gogoniant tragywyddol Duw. Y sêl a'r cariad yma, yr hwn a weithredid yn nghalon Crist trwy yr Ysbryd tragywyddol, oedd y peth, trwy yr hwn yn benaf yr offrymmai efe ei hun i fynu i Dduw.

3. Ei ymostyngiad sanctaidd, a'i ufudd-dod i ewyllys Duw, grasau oeddynt yn awr ar lawn weithrediad, oedd rau arbenig o'i offrymiad ef o honaw ei hunan. "Efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ïe, angau y groes;" ac, "er ei fod yn Fab, efe a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddyoddefodd:" hyny yw, efe a brofodd ufudd-dod trwy ei ddyoddefaint. Mae yn wir ei fod ef yn ufuddhau i Dduw yn wastadol; ond y pryd hwn y deuai efe at y prawf mawr o'i ufudd-dod, gyda golwg ar y gorchymyn neilltuol hwnw o eiddo y Tad, sef, "bod iddo roddi ei einioes i lawr." Dyma y weithred uchaf o ufudddod oedd yn ddichonadwy, am ba achos yr amlygai Duw y boddlonrwydd mwyaf ynddi. Gweithredid yr ymostyngiad sanctaidd yma ynddo ef trwy yr Ysbryd tragywyddol,

ac am hyny, trwyddo ef yr offrymmodd efe ei hun i Dduw.

4. I hyn hefyd y perthyna y ffydd hono, yr hon a weithredai efe y pryd hwn ar Dduw a'i addewidion; ac yr oedd hon yn dwyn perthynas, Yn 1, Ag ef ei hunan; y'i cynhelid, ac y'i dygid trwy ei waith i derfyniad dedwydd; "Myfi a roddaf fy ymddiried ynddo," Heb. 2. 12. Mae yn wir i ymosodiadau arswydus gael eu gwneuthur arno, hyd oni waeddodd efe, "Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaist?" Ond wedi y cwbl, ei ffydd ef a orchfygodd. Salm 92. 9—11. (2.) Yr oedd a fyno y ffydd hon o'i eiddo á'r cyfammod. "Gwaed y cyfammod" oedd y gwaed a dywalltai efe y pryd hwn; ac efe a dywelltid dros yr Eglwys, fel y gweinyddid bendithion y cyfammod i'w bobl;—gyda golwg ar yr hyn yr oedd efe yn gweithredu ffydd, fel y mae yn ymddangos yn amlwg oddiwrth ei weddi, Ioan 17.

Y gweithrediadau grasol yma o eiddo enaid Crist, oedd y moddion, trwy ba rai yr oedd efe yn yn ei angau, yr hwn oedd dreisgar o ran yr offerynau o honaw, a chosbawl, o ran dedfryd y ddeddf, yn ei offrymmu ei hun yn wirfoddol yn aberth dros bechod; y rhai hyn hefyd, a wnaethpwyd trwy urddas ei Berson ef, yn effeithiol a buddugol, a hebddynt ni buasai ei angau yn aberth. Trwy hyn yr oedd ei offrwm ef yn cael ei wneuthur yn aberth o arogl peraidd i Dduw.—Yr oedd Duw wedi cael y fath foddâad trwyadl yn y gweithredoedd gogoneddus hyny o ras ac ufudd-dod, fel yr aroglai efe "arogl esmwyth," neu arogl o orphwysdra tuag at ddynolryw. Yr oedd y boddâad a gafodd efe yn ufudd-dod Crist, yn fwy na'r anfoddâad a gawsai efe yn anufudd-dod Adda.

Yn wythfed. Yr oedd i'r Ysbryd ei waith neillduol tuag at Grist, tra yr yr oedd efe yn sefyllfa y meirwon. Efe a orchymynai ei ysbryd sanctaidd i ddwylaw ei Dad, yr hwn a ymrwymai i'w gadw ef yn angau, ac i ddangos llwybr y bywyd iddo drachefn. Yr oedd ei gorff sanctaidd

ef yn y bedd yn parau i fod dan ofal neillduol Ysbryd Duw; ac felly y cyflawnid yr addewid fawr hono, na adewid ei enaid ef yn uffern, ac na's goddefid i'r Sanct weled llygredigaeth. *Corff* Crist a elwir yma *y Sanct;* yr oedd efe wedi ei wneuthur yn beth sanctaidd trwy ei genhedlliad yn y groth trwy nerth yr Ysbryd Glan; ac fe'i gwahaniaethir oddiwrth ei enaid; ac a gyferbynir gan Pedr i gorff marw Dafydd, yr hwn a welodd lygredigaeth, Act. 2. 29. Cedwid sylwedd sanctaidd ei gorff ef yn ddi lwgr trwy nerth yr Ysbryd, heb i ddim o'r cyfnewidiadau a berthynant i gyrff meirw eraill gyfhwrdd âg ef.

Yn nawfed. Yr oedd gan yr Ysbryd waith neillduol yn ei adgyfodiad ef; efe a farwolaethwyd yn y cnawd, ac a fywhawyd yn yr Ysbryd. 1 Pedr 3. 18, &c. I'r un perwyl hefyd yn haddysgir gan yr apostol. "Ond os Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu o feirw sydd yn trigo ynoch chwi, yr hwn a gyfododd Grist o feirw, a fywiocâ hefyd eich cyrff marwol chwi, Rhuf. 8. 11. Ac mewn man arall y mae efe yn gweddïo, ar i'r Ephesiaid trwy waith yr Ysbryd gael profi cadernid y gallu hwnw trwy yr hwn y cyfododd efe Grist o feirw, Ephes. 1. 17. A dywedid fod yr amlygiad a wnaethid o'i fod ef yn Fab Duw trwy ei adgyfodiad, "yn ol Yspryd sancteiddiad," neu yr Ysbryd sanctaidd, Rhuf. 1. 4. Hyn hefyd yw meddwl yr ymadrodd hwnw, "A gyfiawnhawd yn yr Yspryd." 1 Tim. 3. 16. Ymddangosodd Duw yn y cnawd trwy ei ymgnawdoliad ef; a chyfiawnhawyd ef yn yr Ysbryd, trwy amlygiad o'i ryddäad oddiwrth ddedfryd angau, yn ei adgyfodiad o feirw trwy nerthol weithrediad Ysbryd Duw.

Yn ddegfed. Gogoneddai yr Ysbryd Glan y natur ddynol, ac a'i gwnai yn gymhwys i'w thrigfa dragywyddol ar ddeheulaw Duw, ac yn gynllun o ogoneddiad cyrff yr holl gredinwyr. Yr hwn a wnaethai ei natur ef yn sanctaidd ar y dechreu, a'i gwnelai yn ogoneddus yn awr; ac megis y'n cydffurfir ni âg ef yn ein heneidiau yma; felly y mae

efe yn ei gorff gogoneddus, yn gynllun o'r holl ogoniant hwnw, yr hwn a dderbyniwn ni yn ein cyrff marwol trwy yr unrhyw Ysbryd. Phil. 3. 21.

Mae gwaith arall o eiddo yr Ysbryd, nid yn union-gyrchol ar Berson Crist, ond ar ei ran ef; sef dwyn tystiolaeth iddo ef, mai Mab Duw yw efe. Da y gwyddys y modd y gwaradwyddid ein Harglwydd pan oedd efe yma yn y byd hwn, a thrwy y fath angau cywilyddus y'i hanfonid o honaw. Ac oddiyma y deilliodd ymrysonfa fawr rhwng uffern a nefoedd. Haerai y byd yn gyffredinol mai twyllwr oedd efe, a gosbid yn gyfiawn am ei weithredoedd drygionus: ar y llaw arall, dewisodd yntau ddeuddeg o apostolion, i ddwyn tystiolaeth i sancteiddrwydd ei ymarweddiad, purdeb ei athrawiaeth, a chyflawniad y proffwydoliaethau am dano ef: ond pa fodd y gallai tystiolaeth deuddeg o ddynion tlodion, pa mor onest bynnag a fyddont, lwyddo yn erbyn pleidleisiad gwrthwynebol byd cyfan? Gan hyny, ymddiriedwyd y gwaith o ddwyn tystiolaeth i Grist, iddo Ef, yr hwn sydd uwchlaw pawb, a'r hwn a ddichon beri i'w dystiolaeth ffynu; "ond pan ddel y Dyddanydd. efe a dystiolactha am danaf fi." Ioan 15. 26. Am hyny y dadleuai yr apostolion eu cyd-dystiolaeth hwythau, "Nyni ydym ei dystion ef o'r pethau hyn, a'r Yspryd Glân hefyd," Act. 5. 32. A'i ddull ef o ddwyn tystiolaeth, oedd "trwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd, a doniau." Heb. 2. 4. Yr amcan mawr trwy hyn oll, oedd dwyn tystiolaeth i berson yr Iesu, mai efe oedd Mab Duw mewn gwirionedd; addefedig, a dyrchafedig ganddo ef, ac fel hyn, yn nghyd a'r nerth effeithiol oedd yn cydfyned â'r efengyl, y darostyngwyd y cyffredinolrwydd o ddynolryw i ufudd-dod ffydd.

Nyni a allem gael ein harwain trwy yr ystyriaethau hyn, i'r wybodaeth hono am Iesu Grist sydd mor angenrheidiol, mor ddefnyddiol, ac yn cael ei chanmol gymmaint yn yr Ysgrythyrau; ac nid yw yr esgeulusdra hollawl o'r wybodaeth hon, yn fwy niweidiol i eneidiau

dynion, nac ydyw ei dysgu trwy foddion aunghyfreithlawn, megis yr arferiad o ddelwau yn mysg y Pabyddion; canys, heblaw eu bod yn cael eu gwahardd gan Dduw i'r cyfryw berwyllon, ac wedi eu melldithio â diffrwythder o ran unrhyw ddybenion buddiol,—nid oes un cymhwysder yndddynt hwy eu hunain, namyn i genhedlu dychymygion isel a chnawdol mewn meddyliau ofergoelus. Adnabod Crist "yn ol y cnawd," ydyw hyn ar y gorau. Ond y mae gogoniant ei natur ddynol ef yn gymmwysedig yn unig yn y gweinyddiadau godidog anmhraethol hyn o Ysbryd Duw iddo ef, a'i werthrediadau nerthol ynddo ef. Arddangosir hyn yn nrych yr efengyl, a thra yr ydym ninnau yn edrych arno trwy ffydd, fe'n cyfnewidir i'r unrhyw ddelw, gan yr unrhyw Ysbryd.

Ond, os gwneir defaydd priodol o'r ystyriaethau a grybwyllwyd, hwy a'n harweiniant i wybodaeth ysbrydol o Grist; ac nyni a ddylem ei adnabod ef fel hyn: (1.) Fel y carom ni ef, â chariad pur digymmysg. Mae yn wir mai Person Crist fel Duw-ddyn, ydyw gwrthddrych priodol ac eithaf cin cariad: ond y mae ystyriaeth fanol ar ei naturiaethau gwahanol a'u rhagoriaethau, yn effeithiol i ennyn cin cariad tuag atto ef. "Y mae efe yn wyn ac yn wridog; yn rhagori ar ddeng mil;" hyny yw, y mae efe yn berffaith yn mhrydferthwch grasusau yr Ysbryd Glan, yr hyn sydd yn ei wneyd yn anmhraethol hawddgar. Gan *hyny*, a fynech di ddwyn Crist yn y fath fodd o flaen dy serchiadau, fel y byddo dy gariad yn ddiffuant, ac heb gael ei wastraffu ar gau wrthddrych, creädur dy ddychymygion dy hunan?—Ystyria pa beth a ddywedwyd am dano ef:—undeb gogoneddus ei ddwy natur yn yr un Person,—gogoniant digrëedig ei natur Ddwyfol,—a'r perffeithrwydd o ras oedd yn preswylio yn ei natur ddynol; ac os gelli, ac os ydwyt yn ymhyfrydu ynddo ef, ac yn ei gâru ef ar y cyfrifon yma, mae dy gariad yn ddiffuant ac yn ysbrydol. (2.) Dylem adnabod Crist nes

llafurio am fod yn gyddfurf ag ef: ac y mae y cyddfurfiad yma yn gymmwysedig mewn cyfrannogiad o'r grasusau, o'r rhai y mae cyffawnder yn preswylio ynddo ef: ac ni's gallwn ymestyn yn iawn at hyn, ond trwy adnabyddiaeth o waith yr Ysbryd ar ei natur ddynol ef. Fel hyn, nyni a roisom ddarluniad byr o waith yr Ysbryd yn ac ar Berson Crist, Pen yr eglwys: yn nesaf, rhaid i ni ystyried ei waith ef yn parottoi corff dirgeledig iddo ef, yn ei weithrediadau grasol ar etholedigion Duw.

PEN. IV.

Gwaith cyffredinol yr Ysbryd ar aelodau y Corff dirgeledig o'r hwn y mae Crist yn Ben.

Yr ydym wedi bod yn ystyried gwaith yr Ysbryd yn gosod sylfaen Eglwys y Testament Newydd, yn ei orucheyliaethau tuag at Grist, ei Phen. Efe yw *carreg sylfaen* yr adeilad yma, a *saith llygaid* yn gerfiedig arno, neu wedi ei lanw â pherffeithrwydd trwyadl o holl ddoniau a grasusau yr Ysbryd. Zech. 3. 9. A'r un llaw ag a osododd y sylfaen hon, sydd yn gorphen yr adeilad hefyd. Yr un Ysbryd ag a roddwyd iddo ef, "nid wrth fesur," sydd yn rhoddi gras i bob un o honom ninnau "yn ol mesur dawn Crist." Yr hwn a barottodd, a sancteiddiodd, ac a ogoneddodd natur ddynol Pen yr Eglwys, a gymerodd arno barottoi, sancteiddio, a gogoneddu ei gorff dirgeledig, neu yr holl etholedigion a roddwyd iddo ef gan y Tad. Ac mewn perthynas i hyn, nyni a allwn wneyd y rhag-sylwadau a ganlyn:—

1. Gan mai gwaith perffeithiawl ydyw y gwaith hwn o eiddo yr Ysbryd, ac nid gwaith gwreiddiol, mae yn cynnwys tybiaeth angenrheidiol o gariad, gras, a bwriad tragywyddol y Tad, a holl gyfryngdod Iesu Grist; canys ei waith arbenig ef ydyw effeithioli y pethau hyn at eneidiau yr etholedigion, er mawl gogoniant gras Duw. Yn y gredigaeth gyntaf, ymddangosai Duw fel un yn am-

canu yn benaf at ogoneddiad priodoliaethau hanfodol ei natur; ei allu, ei ddaioni, a'i ddoethineb;—ond yn y gredigaeth newydd amcana Duw wneyd amlygiad neillduol o bob Person yn wahaniaethol yn ei weithrediadau neillduol; a gwneyd datguddiad cyflawn o drefn y Drindod sanctaidd, mewn goleu llawer rhagorach nac a feddid dan yr Hen Destament. Nyni a ganfyddwn weithrediadau bywiog ffydd yn yr hen saint gynt, yn eu dynesiadau at Dduw; ond am ddyfodfa oleu at y Tad,—trwy y Mab,—yn yr Ysbryd, Ephes. 2. 18. (yn yr hyn y mae bywyd ein cymmundeb â Duw yn gynnwysedig) ni chlywn ddim son am dano. Gan hyny, y mae Duw yn dangos yn eglur, fod sylfaen y cyfan wedi ei osod yn nghynghor y Tad; y cyflawniad o'r cynghor sydd trwy gyfryngdod y Mab, gan fod Duw yn bwriadu i bawb gael eu dwyn i'w anrhydeddu ef fel y maent yn anrhydeddu y Tad; ac y mae cymhwysiad gwirioneddol y cwbl at eneidiau dynion i fod trwy yr Ysbryd, fel y'u gwneler yn gyfrannogion o'r gras a ragluniwyd yn nghynghor y Tad, ac a barottowyd yn nghyfryngdod y Mab; ac yn hyn y mae yr Ysbryd Glan i gael ei ogoneddu, fel y byddo iddo ef yn nghyd a'r Tad a'r Mab, gael ei adnabod, ei fawrygu a'i addoli.

2. Yn ol natur a threfn y gwaith hwn o eiddo Duw, y mae yn bod, mai wedi i'r Mab ymgnawdoli, a chyflawni yr hyn y cymerasai arno ei wneuthur yn ei Berson ei hun, y mae yr addewid fawr am berffeithiad gwaith yr iachawdwriaeth, yn golygu anfoniad yr Ysbryd Glan i gyflawni yr hyn y cymerasai yntau arno ei wneuthur. Wedi i'n Harglwydd esgyn i'r Nefoedd, dywedai yr Apostol Pedr wrthym,—"Wedi ei ddyrchafu ef trwy ddeheulaw Duw, ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Ysbryd Glan;" hyny yw, efe a dderbyniodd yr hyn oedd yn yr addewid. Nid y pryd hyny y rhoisid yr addewid ei hun gyntaf iddo; canys efe a'i derbyniasai yn y cyfammod, pan ymgymerodd efe a'r gwaith o brynu dyn; ac nid eiddo ei hunan y'i derbyniodd hi ychwaith, can-s

yr oedd efe yn gyflawn o'r Ysbryd Glan er pan ymgnawdolodd; ond efe a dderbyniodd y fendith addawedig fel y gallai efe dywallt ei Ysbryd ar ei ddysgyblion, fel y dywaid yr apostol yma,—"Wedi iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Yspryd Glan, efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awrhon yn ei weled ac yn ei glywed," hyny yw, yn ei weithrediadau gwyrth iol a'i effeithiau.

Yma y gorwedda sylfaen yr eglwys Gristionogol. Galwasai ein Harglwydd Iesu Grist ei apostolion at y gwaith mawr o adeiladu ei eglwys, a lledaenu ei efengyl yn y byd; at yr hyn yr oedd yn eglur eu bod yn ddyntt eu hunain yn ddiffygiol o bob cymhwysderau angenrheidiol: ond pa beth bynnag oedd yn ddiffygiol mewn doethineb, ymadrodd, neu wroldeb, efe a addawai ei wneyd i fynu; a thrwy yr Ysbryd Glân yn unig y gwnai efe hyn; ar gymmhorth yr hwn yr oedd holl lwyddiant eu gweinidogaeth yn ymddibynu. Am hyny, pan oedd efe ar ei gadael hwy wedi ci adgyfodiad, efe a archai iddynt eistedd yn llonydd, heb wneuthur dim yn y gwaith cyhoeddus o adeiladu ei eglwys ef, hyd oni chyflawnid yr addewid am yr Ysbryd iddynt mewn gwirionedd. "Efe a orchymynodd iddynt nad ymadawent o Jerusalem, eithr disgwyl am addewid y Tad." "Chwi a dderbyniwch nerth yr Yspryd Glân wedi y delo efe arnoch: ac a fyddwch dystion i mi yn Jerusalem, ac yn holl Judea, a Samaria, ac hyd eithaf y ddaear." Act. 1. 4, 8. Yn yr addewid yma y sylfaenodd efe yr eglwys ei hunan, a thrwyddi yr adeiladodd efe hi, ac ar y bach yma y mae ei holl bwysau yn troi hyd heddyw. Cymerer yr addewid hon ymaith, ac wele ddiwedd ar eglwys Crist:—dim goruchwyliaeth yr Ysbryd, dim eglwys. Byddai cystal i'r hwn a fynai ysgaru yr Ysbryd oddiwrth y gair, losgi ei Fibl. Ni wna llythyren noeth y Testament Newydd, ddim mwy tuag at gynyrchu ffydd ac ufudd-dod yn encidiau dynion, nac y mae llythyren yr Hen Destament yn ei wneyd yn mysg yr

Iuddewon: ond bendigedig fyddo Duw, yr hwn a gylymodd y pethau hyn yn nghyd yn rhwymyn y cyfammod tragywyddol! Mae breiniaeth Crist yn ysbrydol, ac o ran ei hegwyddorion bywhäol, yn anweledig. Os gosodwn ein meddyliau i graffu ar drefn allanol yn unig, nyni a gollwn gyfodiad a nerth y cytan. Nid unrhyw ordinäad allanol weledig gan ddynion, er bod hyny yn angenrheidiol hefyd, ond y gweinyddiad o'i Ysbryd gan Grist, sydd yn rhoddi bod, bywyd, a llwyddiant i'r weinidogaeth; ac os oes neb mor ffol a dysgwyl cymmhorth yn y gwaith hebddo ef, neu y cyfryw lwyddiant yn eu llafur ar a gymeradwyer gan Dduw, nid ydynt namyn twyllo eu heneidiau eu hunain a'r eiddo eraill. Gan hyny, bwried dynion eu hunain i'r drefn a fynnont, neu sefydlant y ffurfiau o addoliad a farnont hwy yn fwyaf cymhwys, os gwadant waith yr Ysbryd, nid oes eglwys yn eu plith.

3. Yr Ysbryd Glân sydd yn gwneyd y diffyg o bresenoldeb corfforol Crist i fynu. Am hyny y'i gelwid gan rai o'r hen dadau yn "Ficar Crist," un a gynnrychiola ei Berson ef, ac a gyflawna ei waith addawedig. Pan oedd Crist yn gadael y byd, efe a orchymynodd i'w ddysgyblion bregethu yr efengyl, a dysgyblu y byd; ac er calondid iddynt, efe a addawodd fod yn bresenol gyda hwynt, a hyny tra y pregethid ei efengyl ef yn y byd:—"Wele, yr wyf fi gyda chwi bob amser, hyd ddiwedd y byd," neu gwbl hâd pob peth; ond yn y fan wedi iddo lefaru fel hyn, "efe a ddyrchafwyd i fynu, a chwmmwl a'i derbyniodd efallan o'u golwg hwynt." Pa le yn awr y mae y cyflawniad o'r addewid hon? neu o'r addewid hono a wnaethpwyd i'r eglwys ei hunan, "Canys lle y mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw I, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt?" I hyn yr attebaf, fod yr addewidion hyn yn cael eu cyflawni yn berffaith trwy ei waith yn anfon yr Ysbryd Glân; ynddo, a thrwyddo ef, y mae efe yn bresenol gyd a'i ddysgyblion yn eu gweinidogaeth ac yn eu cynnulliadau. Mae efe yn cynnrychioli Person, ac yn gwneyd i fynu y diffyg o bres-

enoldeb corfforol Crist yn y fath fodd, fel y mae bod yr eglwys, llwyddiant y weinidogaeth, ac adeiladaeth y cyfan, yn ymddibynu yn hollawl ar ei bresenoldeb ef. Yn awr pwy a fedd ryw radd o gariad at Grist, nad yw yn meddwl y byddai presenoldeb corfforol Crist o fantais annhraethol iddo ef?—ac felly y buasai yn ddïammeu pe buasai y cyfryw beth wedi ei drefnu yn noethineb a chariad Duw; ond nid felly y mae; ac fe'n dysgir ni i ddysgwyl mwy o fantais oddiwrth ei bresenoldeb ysbrydol ef gyda ni trwy yr Ysbryd Glan: "Buddiol yw i chwi." Felly gan hyny, y mae yn ddyledus arnom ni ymholi pa ryw fri ydym ni yn ei roddi arno ef, a pha lesäad ydym ni yn ei gael trwyddo ef: canys onid ydym yn derbyn gras gwirioneddol o'r presenoldeb yma o eiddo Crist gyda ni, ni all ein bod yn derbyn dim llesäad oddiwrtho ef; canys nid yw efe gyda neb yn awr ond trwy ei Ysbryd; a hyn a ganfyddir ryw ddiwrnod gan y rhai sydd a'u proffes yn cael ei gwneyd i fynu o'r fath annghysonderau syfrdanaidd ag yr honant barch i Iesu Grist, eto yn cablu ei Ysbryd ef yn ei holl weithrediadau.

4. Megis y mae efe yn cynnrychioli Person, ac yn llanw lle Crist; felly y mae efe yn gwneuthur pa beth bynnag yr ymrwymasai Crist i'w wneuthur; canys megis nad oedd gwaith y Mab yr eiddo ei hun, ond yn hytrach yr eiddo y Tad, yr hwn a'i hanfonodd ef,—felly gwaith yr Ysbryd, nid yr eiddo ei hun ydyw; ond yn hytrach yr eiddo y Mab, gan yr hwn y'i hanfonwyd. "Pan ddel efe, sef Yspryd y gwirionedd, efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd." Ioan 16. 13—15. Mae efe yn dyfod i ddwyn gwirionedd i eglurder, nid i osod i fynu ryw oruchwyliaeth newydd o wirionedd wahanol i'r hyn a gyhoeddasai Crist ei hunan: ond i adeiladu ar y sylfaen a osodasai efe. Nyni a allwn brofi pob rhyw Ysbryd wrth y rheol hon, pa un a fydd efe oddiwrth Dduw. Yr Ysbryd hwnw a gymero arno ddatguddio unrhyw beth gwrthwyneb i, neu annghyson â'r gair datgudd-iedig; yr hwn a ddysgo unrhyw beth newydd, o'r eiddo ei hunan, yn amgen nac sydd wedi ei ddatguddio eisoes yn

yr Ysgrythyr Lân, nid yw o Dduw.—"Ni lefara o hono ei hun;" nid o hono ei hun yn unig y llefara efe; ni's datguddia unrhyw wirionedd arall, ni's cyfrana unrhyw ras arall, ond sydd yn, o, a thrwy Grist: ac ychwanegir, mai "pa bethau bynnag a glywo a lefara efe;" hyny yw, holl gynghor y Tad a'r Mab am iachawdwriaeth yr Eglwys; ac fe ddywedir ei fod ef yn ei glywed, nid fel pe na buasai efe yn Berson Dwyfol, cyd gyfrannogol yn nghynghorion y Tad a'r Mab, ond crybwyllir y weithred allanol o *glywed* fel yr *arwydd* o'i wybodaeth anfeidrol ef, nid y *moddion* o honi. Ac à hyn y cyssylltir ei waith mawr ef, "Efe a'm gogonedda i;" ac fe ddylai y sawl a fyddont yn gweddïo am ei gymmhorth yn eu swydd yn yr eglwys, gofio hyn yn wastadol: efe a roddir iddynt hwy, fel y rhoddont hwythau ogoniant i Grist; yma ymhelaethir ar y drefn drwy yr hon y mae yr Ysbryd yn gogoneddu Crist; "Efe a gymer o'r eiddo fi ac a'i mynega i i chwi." Yr eiddo, neu bethau Crist, ydynt ei "ei ras a'i i wirionedd;" dywedir ei fod wedi derbyn y pethau hyn, nid l fel pe na buasai yn eu meddu o'r blaen: ond am eu bod yn bethau Crist mewn modd arbennig; ac ychwanegir, "Ac a'i i mynega i chwi." Efe a ddangosai ei wirionedd i'r apostolion trwy datguddiad digyfrwng; gan eu galluogi yn anffaeledig i ddeall a datgan holl gynghor Duw; ac y mae efe yn parhau i ddangos gwirionedd Crist trwy ei air ysgrifenedig a phregethedig i'r holl gredinwyr; gan ein haddysgu ynddo, a goleuo ein meddyliau i ddeall meddwl Duw yn ysbrydol ynddo; efe a ddangosodd ei ras, trwy dywallt ei rasusau sancteiddhaol, a'i ddoniau anarferol ar y dysgyblion cyntaf; ac y mae efe yn parhau eto i ddangos ei ras ef i gredinwyr, trwy ei gyfrannu iddynt mewn sancteiddhad, cysur, a doniau ysbrydol.

Nyni a gawn y rheswm am yr honiad yma yn y geiriau canlynol, "Yr holl bethau sydd eiddo y Tad, ydynt eiddof fi; o herwydd hyn y dywedais, mai o'r eiddof fi y cymmer, ac a'i mynega i chwi." Y pethau i'w mynegi i ni, ac i'n [illegible] a hwynt, ydynt eiddo y Tad ar y dechreu; efe yw

y ffynhonell neillduol o honynt oll; ei gariad, ei ddoethineb, ei ddaioni, ei gynghor, a'i ewyllys ef yw y prif achos o honynt. Gwneir hwy yn eiddo y Mab ar gyfrif ei gyfrwngwriaeth; canys trwy hyny y'u parottowyd, ac y'u neillduwyd i ni; ac yna y maent yn cael eu cyfrannu i ni yn weithredol trwy yr Ysbryd Glan:—"Efe a gymmer o'r eiddof fi ac a'i mynega i chwi." Nid yw efe yn eu cyfrannu i ni yn ddigyfrwng oddi wrth y Tad. Nid ydym yn derbyn unrhyw ras oddiwrtho, nac yn dychwelyd unrhyw foliant iddo ef yn y modd hyny. Nid oes dim a wnelom ni â'r Tad yn ddigyfrwng. Trwy y Mab yn unig y mae i ni ddyfodfa atto ef; a thrwy y Mab yn unig y mae efe yn rhoddi o'i ras i ni. Gyd ag ef, fel Trysorydd mawr y pethau nefol, y mae pob gras a thrugaredd wedi eu hymddiried. Gan hyny y mae yr Ysbryd Glan yn eu rhoddi i ni, fel y maent yn ffrwythau cyfryngdod Crist, ac nid yn unig fel effeithiau haelioni Dwyfol y Tad. Fel hyny y mae efe yn llanw y diffyg o bresenoldeb Iesu Grist, ac yn perffeithio y gwaith sydd ganddo ef i'w gwblhau yn y byd; fel y mae pa beth bynnag a wneir ganddo ef yr un a phe y'u gwnelid yn ddigyfrwng gan Grist yn ei Berson ei hun; ac felly y cwblheir ei addewidion i'r credinwyr.

Ac y mae hyn yn ein dysgu ni am y ffordd a'r dull o'n cymmundeb â Duw trwy yr efengyl. Person y Tad yw ffynhonell pob gras a gogoniant; ond nid yn ddigyfrwng oddiwrtho ef y'n cyfrennir i ni; eithr efe a roddes bob peth i ddwylaw y Mab yr hwn y mae efe yn ei garu. Efe a wnaeth flordd i'w cyfrannu i ni, ac y mae yn eu rhoddi i ni trwy yr Ysbryd. Megis y mae disgyniad Duw tuag attom ni mewn cariad a gras, yn gyfan-gwbl trwy waith yr Ysbryd arnom ni; felly y mae ein holl esgyniad ni tuag atto ef yn dechreu yn yr un man. Ac y mae yn rhaid i ni sylwi yn fanol ar y pethau hyn, os mynwn ni i'n ffydd, ein cariad, a'n hufudd-dod, fod yn efengylaidd. Gwae broffeswyr yr Efengyl, y rhai a dybiant fod yr hyn oll a feddant hwy i ymwneyd â Duw, yn gynnwysedig yn eu hymlyniad

wrth rinwedd moesol! O anwybodaeth a didduwiaeth trwyadl y tardda y dychymmyg hwnw, nad oes dan yr efengyl ddim cymmundeb rhwng Duw â ni, ond trwy ddeddfau, gorchymynion, ac addewidion o'i du ef; ac ufudd-dod cyflawnedig yn ein nerth ein hunain o'n tu ninnau. Gadawer i'r rhai ydynt wedi blino ar Gristionogaeth, ac yn amcanu troi at Baganiaeth, farnu felly; ond y mae ein cymdeithas ni gyd a'r Tad, a chyd a'i Fab ef trwy yr Ysbryd. Gan hyny, y mae o'r pwys mwyaf i ni ymofyn gyd a'r difrifoldeb dwysaf am ddylanwadau addawedig yr Ysbryd Glan.

5. Fel mai yr Ysbryd Glan yw Ysbryd y gras, a'r achos effeithiol union-gyrchol o holl weithrediadau grasol Duw ar ddynion, pa le bynnag y sonir am un o honynt hwy, dylid golygu y cyfryw fel rhan o waith yr Ysbryd, er na's enwir mo honaw yn bendant. Nid ydwyf yn deall pa beth a olyga rhai wrth siarad am rinwedd moesol; maent fel pe'd amcanent at ryw beth sydd yn eu gallu hwy eu hunain, o leiaf gyda bendith ar eu hymdrechion; ond am ras, yr wyf yn meddwl yr addefa pawb nai o'r Ysbryd Glan yn unig y mae. Pa un bynnag a olygom ni wrth ras, ai ffafr rad Duw tuag attom ni, neu ei rad weithrediadau effeithiol ynom, yr Ysbryd yw yr Awdwr o ras yn yr ystyr gyntaf o ran y cymhwysiad o honaw, ac yn yr ail, o ran y gweithrediad ei hunan. Gan hyny, rhaid i ni gymeryd hyn yn ganiattâol;—Pa le bynnag y crybwyllir am weithrediadau grasol o eiddo Duw tuag at ddynion, yr Ysbryd Glan a olygir yn bennaf.

6. Dylid ystyried hefyd, am ba beth bynnag a wna yr Ysbryd, ei fod yn ei wneûthur yn ol ei ewyllys ei hun: ac y mae llawer o bethau pwysig yn ymddibynu ar hyn. (1.) Mae ewyllys a hyfrydwch yr Ysbryd Glan yn yr holl ras y mae efe yn ei gyfrannu i ni. Nid rhyw offeryn neu was yw efe, i drefnu yr hyn na's medda awdurdod arno, neu gyfran ynddo; ond yn mhob peth, y mae efe yn gweithredu yn ol ei ewyllys ei hunan. Gan hyny nyni a ddylem gyd-

nabod ei gariad a'i garedigrwydd ef yn yr hyn yr ydym yn ei dderbyn, cystal a'r ciddo y Tad a'r Mab. (2.) Nid yw efe fel rhyw weithredydd naturiol, yn cgnïo hyd eithaf ei allu, neu fel pe na's gallai wneuthur ychwaneg nac a wna yn ei holl weithrediadau; ond y mae efe yn dwyn ei holl waith yn mlaen wrth ei ewyllys a'i ddoethineb ei hun; ac am hyny pan ddywedir fod rhyw rai yn "gwrthwynebu yr Ysbryd Glan," nid ydys i ddeall y gallant wneyd hyny yn hollawl, ond yn unig gyda golwg ar ryw ffordd, rhyw, neu radd o'i weithrediadau. Gall dynion wrthsefyll y moddion a ddefnyddia efe; ond ni's gallant ei wrthwynebu ef o ran y dyben a amcana efe; canys Duw yw efe, a "phwy a wrthwynebodd ei ewyllys ef?" Gan hyny, y mae yn ofynol i ni ystyried at ba beth y tuedda y moddion a ddefnyddia efe yn eu natur eu hunain, a pha beth a amcenir ganddo ef yn y defnyddiad o honynt. Gellir gwrthwynebu a rhwystro y cyntaf; ond nid yr olaf. Nid yw efe yn amcanu weithiau, trwy y gair, yr hwn yn ei natur ei hun a duedda i argyhoeddiad pechadur, namyn eu caledu, Esa. 6. 9, 10; ac efe a all weithredu mor rymmus pan y myno, fel ag i symmud pob gwrthwynebiad. Gyda golwg ar weinidogaeth y gair, gall dynion ei wrthwynebu, a gwrthod ei gynghor ef yn eu herbyn ei hunain: ond, pan amlygo efe ei allu yn, a thrwy y gair, i grëu calon newydd, ac agoryd llygaid deillion, y mae efe yn symmud yr egwyddor o wrthwynebiad yn y fath fodd, fel na's galler ei wrthwynebu mwy. (3.) Oddiyma hefyd nyni a allwn gasglu, y dichon i'w weithredoedd ef fod o amryfal rywiau a graddau. Mae rhai o weithrediadau yr Ysbryd yn berffaith yn eu rhyw, a gall dynion gael eu gwneuthur yn gyfrannogion o honynt yn yr hyn oll a amcenir drwyddynt, ac eto fod heb ddim gras cadwedigol wedi ei weithredu ynddynt, y cyfryw ydynt ei weithredoedd o olcuad, argyhoeddiad, &c. Gall fod gwaith yr Ysbryd ar feddyliau dynion, ac eto heb eu sancteiddio a'u dychwelyd at Dduw. Ac fel hyn hefyd, lle y mae efe yn gweithio yr un peth yn encidiau dynion,

megis yn eu hadenedigaeth, y mae yn ei wneuthur trwy amrywiol foddion, ac yn ei ddwyn yn mlaen mewn amrywiol raddau, o ran grymmusiad ei hegwyddor, a chynnydd ei ffrwythau o sancteiddrwydd; a hyn a bair y gwahaniaeth mawr hwnw o ran goleuni, sancteiddrwydd, a ffrwythlonrwydd, a ganfyddwn ni yn y credinwyr. Mae yr Ysbryd Glan yn gweithio yn hyn oll yn ol ei ewyllys ei hun; ac nid wrth unrhyw rëol amgen na'i ddoethineb anfeidrol ei hunan.

Ond gellir dywedyd, Os ydyw pob gras ynom ni yn cael ei briodoli i'r Ysbryd Glan, yna nid oes un angen i ni arfer ein hymdrechiadau ein hunain, na thrafferthu dim yn nghylch cynnydd sancteiddrwydd, neu ddyledswyddau ufudd-dod. Pa beth gan hyny a wasanaetha holl orchymynion, bygythion, ac annogaethau yr Ysgrythyrau? I hyn yr attebaf,—

1. Dychymyged dynion y canlyniadau a fynont, eto, mai Ysbryd Duw yw Awdwr yr hyn oll sydd yn dda ysbrydol ynom ni, sydd wirionedd na's gallwn ei roi i fynu, oddieithr ein bod yn amcanu ymadael â'n Biblau hefyd; canys fe 'n dysgir ynddynt hwy, nad oes ynom ni, hyny yw, yn ein cnawd ni, ddim da yn trigo; nad ydym yn alluog o honom ein hunain i feddwl dim megis ag y dylem; "ond ein digonedd ni sydd o Dduw," yr hwn sydd yn abl i beri i bob gras fod yn helaeth tuag attom ni. Byddai addef fod dim daioni ysbrydol ynom ni ond a weithir ynom gan Ysbryd Duw, yn dymchwelyd gras yr Efengyl. Gan hyny, y mae yn amlwg na's gellir casglu dim oddiyma, ond yr hyn sydd dda a defnyddiol i eneidiau dynion; canys ni all dim yn amgenach ddeillio o'r gwirionedd.

2. Anwybodaeth anfeiliaidd mewn dyn a bair iddo ddadleu oddiwrth weithrediadau effeithiol yr Ysbryd, y gallwn ni fod yn ddïoglyd yn y cyflawniad o'n dyledswyddau ein hunain. Mae y neb na's gwyr fod Duw wedi addaw gweithio ynom yn ffordd ei ras, yr hyn a ofyn efe oddi wrthym yn ffordd ein dyledswydd, naill ai heb ddar-

llen ei Feibl erïoed, neu heb ei gredu; neu, gellir dywedyd am dano na's gweddïodd efe erïoed, neu na's cymerodd efe un sylw erïoed o'r hyn y gweddïai am dano. Pagan, ac nid Cristion, yw yr hwn nid yw yn gweddïo ar i Dduw weithio ynddo yr hyn y mae efe yn ei ofyn ganddo. Hyn a wyddom, y dylem ni gydsynio gyda diwydrwydd a difrifoldeb â'r hyn a gais Duw genym, ac ni a wyddom hefyd am ba beth bynnag a addawodd Duw, y cyflawna efe ei hunan ynom ni; a'n dyledswydd ni ydyw credu y gwna efe felly; ac nid yw dychymygu fod annghyssondeb yn y pethau hyn, yn ddim amgen na phrïodoli ffolineb i Dduw.

3. Os ydyw y pethau hyn yn gwrthwynebu eu gilydd, y mae hyny yn cael ei achosi, naill ai drwy fod natur dyn yn annghyfaddas i fod yn ddeiliad gorchymyn Duw; neu am nad oes arni eisiau y cynmhorth a addewir; ond y mae y ddwy dybiaeth yna yn gau, a gwageddol. Mae yr Ysbryd Glan yn gweithio ynom ni yn y fath fodd, fel y mae efe yn gweithio drwom ni, a bod yr hyn a wneir ynom yn cael ei wneyd genym:—ein dyledswydd ni yw ymroddi i ufuddhau i'w orchymynion ef; a'i waith ef yw ein galluogi ni i'w cyflawni.

4. Gall yr hwn a fyddo yn meithrin esgeulusdra ar gyfrif cynnorthwy addawedig yr Ysbryd, olygu hyny fel prawf sicr nad oes iddo ef un gyfran yn nghynnwys yr addewid; canys pa le bynnag y byddo efe yn gweini ei gynnorthwyon, y mae efe yn gyffredin yn parottoi yr enaid i'w derbyn, trwy ei wneyd yn ddiwyd yn y ddyledswydd; a chan mai yn a thrwy alluoedd ein meddyliau ni ein hunain y mae efe yn gweithredu, y mae yn ynfydrwydd, ac yn wrthddywediad di synwyr i ddyn ddweyd na's gwna efe ddim am fod yr Ysbryd yn gwneyd y cwbl; canys lle nid yw efe yn gwneuthur dim, nid yw yr Ysbryd yn gwneuthur dim, oddieithr yn rhoddiad yr hedyn, neu yr egwyddor gyntaf o ras yn y dyn; am yr hyn yr ymdrinwn eto.

5. Mewn perthynas i raddau gras, y maent yn brïodol i gredinwyr, y rhai ydynt wedi eu doniaw â galluoedd i

gyflawni y dyledswyddau hyny, ar y rhai yr ymddibyna cynnydd sancteiddrwydd yn gyffredin;—canys er nad oes yr un gras, na gradd o ras mewn credinwyr, ond yr hyn a weithredir ynddynt gan yr Ysbryd, eto yn y cyffredin, y mae cynnydd gras yn ymddibynu ar yr iawn ddefnyddiad o ras a dderbyniwyd, mewn ymarferiad dyfal â'r holl ddyledswyddau o ufudd-dod hyny a ofynir genym ni:—ïe, e debygid, nad oes dim mwy afresymol yn y byd, nac yw i ddyn fod yn ddïog mewn dyledswyddau crefyddol (ar y rhai y mae ei feithriniad ysbrydol, yr hyn sydd o'r pwys mwyaf er lles tragywyddol ei enaid, yn ymddibynu,) dan ymesgusodi yn effeithiolrwydd cynnorthwyon yr Ysbryd, heb y rhai ni's gall efe wneuthur dim, a'r rhai ni's medda, ac ni's gall eu meddu, tra fyddo efe heb wneuthur dim.

Gan hyny, dyma sail ein hymarferiad o ffydd tuag atto ef mewn modd neillduol, a hyny hefyd mewn gweddi a mawl. Ei natur Ddwyfol yw y rheşwm rhëolaidd dros ein gwaith yn rhoddi addoliad crefyddol iddo ef; ond ei fod ef yn gweithredu tuag attom ni yn ol penarglwyddiaeth ei ewyllys ei hun, yw y rheswm neillduol am ein gwaith yn cyfeirio ein deisyfiadau ato ef yn bersonol; ac fe'n bedyddir yn ei enw ef hefyd.

Yr oedd yn angenrheidiol gwneuthur yr holl rag-sylwadau hyn, er mwyn cael gradd o olwg i fewn i natur ei weithrediadau ef; ac yn awr yr ydym wedi agor y ffordd i ystyried ei waith ef yn ngalwad, adeiladaeth, a dygiad yr Eglwys yn mlaen hyd berffeithrwydd.

LLYFR III.

GWAITH YR YSBRYD GLAN YN Y GREEDIGAETH NEWYDD TRWY ADGENHEDLIAD.

PEN. I.

Y Grëedigaeth Newydd yn cael ei gorphen.—Ail-enedigaeth yn perthyn yn neilldnol i weithredoedd yr Ysbryd Glân.

Yr ydym wedi sylwi eisoes ar waith yr Ysbryd yn ffurfiad corff naturiol Crist. Hyn oedd dechreuad y Grëedigaeth Newydd,—sylfaen yr oruchwyliaeth efengylaidd: ond nid hyn oedd y cwbl oedd ganddo ef i'w wneuthur; yr oedd efe i barottôi ei gorff dirgeledig ef hefyd, ac felly i berffeithio y grëedigaeth newydd. Megis yr oedd yn yr hen grëedigaeth, felly y mae yn y newydd. Yr oedd tywyllwch a marwolaeth ar bob peth yn ei gyflwr cyntaf;—nid oedd dim bywyd neu egwyddor o fywyd ynddo, nac unrhyw duedd ato ychwaith. Efe a ymsymmudai uwch ben y defnydd cynhwynol yn y cyflwr yma, gan gyfranu egwyddor o fywyd i bob peth trwy yr hyn y'u bywioceid. Ac yn gyffelyb hefyd y mae yn y grëedigaeth newydd:—yr oedd tywyllwch a marwolaeth ysbrydol yn toi holl ddynolryw trwy bechod; nid oedd y radd leiaf o egwyddor bywyd ysbrydol mewn un dyn byw, na'r duedd leiaf tuag at hyny. Yn wyneb yr ansawdd yma ar bethau, y mae yr Ysbryd Glan wedi ymgymeryd â'r gorchwyl o grëu byd newydd, nefoedd newydd, a daear newydd, lle y cartrefa Cyfiawnder; ac y mae efe yn dechreu ar y gwaith yma drwy gyfranu egwyddor o fywyd ysbrydol i eneidiau yr etholedig, y rhai ydynt y defnyddiau amcanedig gan Dduw i

wneuthur y gwaith yma arnynt. Ac y mae yn cyflawni hyn trwy adenedigaeth, fel y cawn ni ddangos rhagllaw,

Yn gyntaf. Y mae Adenedigaeth yn cael ei brïodoli i'r Ysbryd Glan bob amser yn yr Ysgrythyr Lân. "Yr Iesu a ddywedodd wrth Nicodemus, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw. Nicodemus a ddywedodd wrtho, Pa fodd y dichon dyn ei eni, ac efe yn hen? a ddichon efe fyned i groth ei fam eilwaith a'i eni? Iesu a attebodd, ac a ddywedodd, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddieithr geni dyn o ddwfr ac o'r Yspryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw. Yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd; a'r hyn a aned o'r Yspryd sydd yspryd." Ioan 3. 3—6. Hen athraw dysgedig yn yr eglwys Iuddewig oedd yr hwn a ddysgai ein Iachawdwr bendigedig yn y geiriau hyn; yr hwn ar yr ystyriaeth o wyrthiau yr Iesu a benderfynasai fod Duw gyd ag ef, ac a ddaethai i ymofyn ag ef am deyrnas Dduw. —Gan y gwyddai yr Arglwydd Iesu, fod ein ffydd, ein hufudd-dod, a'n cymeradwyaeth yn ymddibynu ar ein hadenedigaeth, efe a'i hysbysa o'r angenrheidrwydd am hyny, ar yr hyn y synai efe yn fawr yn y dechreu. Yna y dysgai yr Arglwydd ef am natur ailenedigaeth, yr hyn a ddarlunia efe trwy ei achos a'i effaith. Am yr achos o honaw, efe a ddywaid ei fod yn cael ei wneuthur trwy ddwfr a'r Ysbryd; trwy yr Ysbryd, fel y prif achos effeithiol; a thrwy ddwfr, fel yr arwydd o honaw, yn sêl ddechreuol y cyfammod: yr athrawiaeth am ba un oedd yn cael ei phregethu yn eu plith y pryd hyny gan Ioan Fedyddiwr; neu yn hyttrach, yr un peth a amcenir trwy y ddau ymadrodd; gan fod yr Ysbryd yn cael ei dŵarlunio trwy ddwfr, ac wedi ei addaw yn aml dan y gyffelybiaeth hono.

Gan hyny, yr Ysbryd Glan yw yr achos effeithiol o'r gwaith yma; am hyny y dywedir am yr hwn y'i gweithredir ynddo, ei fod yn cael ei eni o'r Ysbryd, adn. 8; ac y mae geiriau i'r un perwyl hefyd yn pen. 1. 13. "Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys

gwr, eithr o Dduw." Ymwrthodir yn hollol â'r moddion anianol a chnawdol, o waed, cnawd, ac ewyllys gwr, yn y peth yma, a phriodolir yr holl achos o'r enedigaeth newydd yma i Dduw yn unig. Canys cyferbynir y pethau hyn yma, ac oddiar debygolrwydd y cyfnewidiad ysbrydol hwn i genhedliad naturiol, y'i gelwir Adgenhedliad. Mae yr unrhyw gyfeiriad a gwrthgyfeiriad yn cael ei arferyd yn adn. 6; hefyd, "Yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd, a'r hyn a aned o'r Yspryd sydd yspryd; bod, crëadur, a bywyd ysbrydol, newydd. Mewn man arall fe'i gelwir bywhau, gyda golwg ar y cyflwr yn yr hwn yr oedd dynion cyn i'r gwaith yma gael ei wneuthur arnynt, Eph. 2. 1, 5. "Yr Yspryd sydd yn bywhau." Ioan 6. 63. Honir yr un gwirionedd hefyd yn Tit. 3. 4—6. "Eithr pan ymddangosodd daioni a chariad Duw ein Hachubwr tuag at ddyn, nid o weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethom ni, eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nyni, trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glan; yr hwn a dywalltodd efe arnom ni yn helaeth, trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr." Mae yr hyn a grybwyllasom ni lawer gwaith yn cyfarfod yn y modd mwyaf pennodol yma, sef bod pob person yn y Drindod fendigedig yn gweithredu eu cyfran wahaniaethol yn ngwaith ein Iachawdwriaeth. Ffynhonell y cwbl yw, daioni a chariad Duw, sef y Tad; yr achos haeddiannol o gymhwysiad y daioni a'r cariad hwnw attom ni, yw Iesu Grist ein Hiachawdwr, yn ei holl gyfryngwriaeth; a'r achos union-gyrchol, o weinyddiad cariad y Tad, trwy gyfryngdod y Mab, yw yr Ysbryd Glan: ac y mae efe yn gweneuthur hyn trwy adnewyddu ein natur; trwy olchiad yr adenedigaeth, yn yr hon y'n purir oddiwrth ein pechodau, ac y'n sancteiddir i Dduw. Caniattêir y gwirionedd mawr yma, mai yr Ysbryd Glan yw Awdwr ein hailenedigaeth, mewn geiriau o leiaf, yn gyffredinol gan y rhai oll a ymhonant mewn sobrwydd Cristionogol. Ei bod wedi cael ei ddirmygu gan eraill yw yr achlysur o'r amddiffyniad yma o'r gwirionedd. Ni wiw dysgwyl i mi

ymdrin yn ymarferol â holl athrawiaeth ailenedigaeth yma; mae eraill wedi ymdrin â hi felly eisoes; fy amcan presenol I, yn unig yw dangos cadernid egwyddorion sylfaenol y gwirionedd am y gweithredoedd hyny o eiddo yr Ysbryd, y rhai a wrthwynebir mor lym yn bresenol:—a gellir crynhoi fy sylwadau ar y testyn hwn i'r pennau canlynol:—

1. Er fod y gwaith o adenedigaeth wedi ei wneuthur ar rai personau o foreu oes y byd, a bod yr athrawiaeth yma ar gael yn yr Hen Destament,—eto nid oedd y datguddiad o honi ond tywyll, mewn cydmariaeth â'r goleuni a'r prawf yn yr hwn yr ymddengys drwy yr efengyl. Mae hyn yn eglur oddiwrth ymddiddan Crist â Nicodemus: canys pan grybwyllodd efe yr athrawiaeth wrtho ef, efe a synodd, ac mewn rhyfeddod efe a ddywedodd, "Pa fodd y dichon y pethau hyn fod?" Ond y mae atteb yr Iesu yn dangos y gallasai efe fod wedi cyrhaedd adnabyddiaeth well o honi o'r Ysgrythyr. "A wyt ti," eb efe, "yn ddysgawdwr yn Israel, ac ni's gwyddost y pethau hyn?" A wyt ti yn cymeryd arnat ddysgu eraill am eu cyflwr a'u dyledswydd, ac yn anwybodus dy hunan am y fath athrawiaeth fawr a sylfaenol, yr hon y gallesit ei dysgu o'r Ysgrythyr? Canys pe na's gallasai wneyd hyny, ni's gallasai fod un achos cyfiawn i'w feio am ei anwybodaeth: nid yw bod yn anwybodus o'r hyn ni's datguddiodd Duw yn fai. Gan hyny yr oedd yr athrawiaeth hon yn gynnwysedig yn yr Hen Destament; cynnwysid hi yn yr addewidion, sef y byddai i Dduw enwaedu calonnau ei bobl—y byddai iddo ef gymeryd ymaith y galon garreg, a rhoddi calon dyner o gig yn ei lle: ac mewn amrywiol ffyrdd eraill y'i datguddid.

Ond eto, nyni a welwn ei bod yn cael ei dysgu mor dywyll, fel yr oedd un o brif athrawon y bobl, heb wybod dim am dani. Dadleua rhai mae yn wir nad yw y geiriau yn arwyddocâu dim chwaneg na diwygiad buchedd; ond yr oedd Nicodemus yn deall yr angenrheidrwydd am ddiwygiad buchedd yn eithaf, os oedd ef erïoed wedi darllen Moses

a'r Prophwydi;—a byddai tybied bod yr Arglwydd yn crybwyll wrtho am beth yr oedd efe yn eithaf hysbys o'i natur ond o dan enw newydd na chlywsai efe erioed o'r blaen, ac yna yn cymeryd mantais i'w gyhuddo ef o anwybodaeth yn ddychymmyg cableddus: ac ni's gwn I pa fodd y dichon y rhai hyny ydynt yn edrych ar ailenedigaeth fel rhyw ymadrodd cyffelybiaethol am welläad buchedd yn unig, ymryddhau oddiwrth yr euogrwydd o'r cyfryw ddychymmyg; canys os nad yw yn cynnwys dim mwy na dyfod yn ddyn moesol newydd, fel yr hoffant ddweyd, peth yr oedd yr holl fyd, Iuddewon a Chenhedloedd yn ei ddëall, yna yr oedd Crist can belled o fwrw golau eglurach ar y matter trwy yr hyn a ddysgai efe am ailenedigaeth, fel yr oedd efe yn ei fwrw i dywyllwch mwy nac y'u claddesid ynddo erioed gan yr athrawon Iuddewig na'r philosophi Cenhedlig; canys er fod yr Efengyl yn dysgu holl ddyledswyddau moesoldeb gyda mwy o fanylrwydd, ac yn annog i ymarferiad o honynt drwy gymhelliadau annghydmarol uwch na dim a adwaenid o'r blaen; eto os na olygid dim mwy yn yr hyn a ddywedir am enedigaeth newydd, na'r ymarferiad â dyledswyddau moesol, mae yr athrawiaeth yn dywell iawn ac anhawdd ei deall. Os na olygid gwaith o eiddo yr Ysbryd Glan ar eneidiau dynion yn ysgrifenadau y Testament Newydd, na dim mwy na diwygiad buchedd, yna rhaid i ni addef eu bod yn fwy tywyll nac unrhyw ysgrifenadau eraill; fel y beiddiodd rhai gyhoeddi i'r byd am epistolau Paul;* ond cyhyd ag y caffom ni gydnabyddiaeth dynion eu bod yn wirioned, ac mewn rhyw ystyr yn

* Ond pa beth a ddywedasai ein hawdwr teilwng am gableddau aeddfedach, a haerllugrwydd perffeithiach rhai yn y dyddiau hyn? Sicrheir ni am eglwyswr urddasol, yr hwn pan wesgid yn galed arno â rhai o resyma . yr apostol Paul, a ddywedai yn lled boethlyd, "Buasai yn well i'r eglwys pe buasai St. Paul heb ysgrifenu ilinell o'i epistolion erioed." A rhyw ddiwinydd philosophaidd tra adnabyddus, a feiddiodd gyhuddo ein hapostol o dwyll resymmaeth! A ryfeddem ni bellach pe cyhuddid Iesu Grist o'i hunan a chamgymeriad, neu hyd yn nod o bechod?—Y Parch. G. Burder.

air Duw, ni lyswn ddadleu bod yr hyn a arwyddoceir ynddynt yn cael ei osod allan yn eglur a phrïodol.

Yr oedd ailenedigaeth, a'r athrawiaeth am hyny hefyd dan yr Hen Destament. Yr oedd holl etholedigion Duw yn eu hamryfal oesoedd, yn cael eu hadgenhedlu gan Ysbryd Duw; ond yn yr ehangiad hwnw o ras a gwirionedd dan yr Efengyl, yr hyn a ddaeth trwy Iesu Grist, megis y mae mwy o bersonau yn cael eu gwneyd yn gyfrannogion o honaw dan y Newydd na than yr Hen, felly y mae natur y gwaith ei hunan yn cael ei egluro a'i ddatguddio yn amlycach:—a chan mai dyma feddygyniaeth dufewnol fawr ein natur afiachus, yr hon y daeth Meddyg eneidiau i'w hiachau, un o'r pethau cyntaf a bregethai efe oedd yr athrawiaeth am hyn. Efe a ddynoethai archoll ein natur, ac a ddangosai y dystryw yr arweiniai ni iddo, fel y gwypem ac y byddem ddïolchgar am ei wellâad. Am hyny, nid oes un athrawiaeth yn cael ei datguddio yn fwy cyflawn ac eglur yn yr Efengyl; a ffrwyth drwg oddiar lygredd ein natur yw, bod y gwaith mawr a sanctaidd yma yn cael ei ddirmygu a'i wadu, yn erbyn y fath oleuni a phrawf cyflawn o'i wirionedd.

Yr ail. Yr un gwaith yw ailenedigaeth o ran ei ryw, a thrwy nerth yr un Ysbryd y'i gweithredir yn yr holl rai adgenhedledig o ddechreuad y byd hyd ei ddiwedd. Mae yn wir fod amrywiaeth mawr yn y cymhwysiad o'r moddion allanol a ddefnyddir ynddo; ac nad ellir cyfyngu y dull at unrhyw rëol bennodol; ond yn gyffredin, y mae Duw yn defnyddio y gair pregethedig, yr hwn am hyny a elwir "had anilygredig." Ond weithiau fe gynnyrchir y gwaith mawr yma hebddo, megis ar fabanod: a phryd arall y mae dynion yn cael eu galw mewn modd goruwch naturiol, megis y galwyd Paul; ond yn fynychaf, trwy yr arferiad o foddion cyffredin, y rhai a osodwyd ac a sancteiddiwyd gan Dduw i'r dyben hyny.

Mae gwahaniaeth mawr hefyd yn yr adnabyddiaeth o'r gwaith ei hunan, gan y rhai y'i gweithir ynddynt; canys

ynddo ei hun y mae yn guddiedig a dirgeledig; ac i'w ganfod trwy ei effeithiau yn unig, Ioan 3. 8. Mae hyn yn cael ei wneuthur yn hysbys yn nghydwybodau a meddyliau rhai trwy arwyddion anffaeledig. Gwyddai Paul fod Crist wedi ei "ddatguddio" a'i "ffurfio" ynddo ef. Am hyny y dywaid efe, "Od oes neb yn Nghrist, y mae efe yn grëadur newydd;" hyny ydyw, y mae efe wedi ei ail eni; pa un bynnag a wyddant hwy eu bod neu beidio; ac y mae llawer yn y tywyllwch am eu cyflwr eu hunain eu holl ddyddiau; maent yn "ofni yr Arglwydd," ac "yn gwrando ar lais ei was ef," eto "yn rhodio mewn tywyllwch ac heb lewyrch iddynt."

Ac y mae amrywiaeth mawr yn nghynnydd y crëadur newydd, neu yn nygiad y gwaith yma yn mlaen rhyngddo a pherffeithrwydd. Mae rhai yn gwneuthur cynnydd tra mawr a chyflym, eraill yn cynnyddu yn raddol, ac heb ddwyn namyn ychydig o ffrwyth; eto y mae y gwaith ei hunan yn ei natur ei hun, yr un a'r unrhyw. Nid oedd etholedigion Duw dan yr Hen Destament yn cael eu hail-eni un ffordd, a'r rhai dan y Testament Newydd ffordd arall. Nid oedd y rhai a ddychwelid mewn modd gwyrthiol fel Paul; neu y rhai a dderbyniasant ddoniau gwyrthiol ar eu trëedigaeth, megis llaweroedd o'r cyn gristionogion, yn cael eu hail eni yn wahanol i gredinwyr ein hoes ni. Nid oedd y gweithrediadau gwyrthiol hyny o eiddo yr Ysbryd, yn un rhan o'r gwaith o ail enedigaeth; canys bu llawer yn ddeiliaid y gweithrediadau hyny, y rhai na's adgenhedlwyd erïoed: ac y mae llaweroedd wedi eu hadgenhedlu, na chyfrannogasant erïoed o ddoniau gwyrthiol; ac effaith anwybodaeth i'r eithaf yw bod neb yn haeru fod yr Ysbryd Glan yn gweithredu yn wyrthiol mewn ail enedigaeth gynt; ond mewn ffordd resymol yn unig yn bresenol, gan dywys ein deall wrth rëolau rheswm; canys pwy bynnag a adgenhedlwyd erïoed, fe'u hadgenhedlwyd trwy yr unrhyw effaith o eiddo yr Ysbryd Glan ar eu heneidiau. Gwelir hyn yn eglurach os ystyriwn ni, (1.) Bod cyflwr

pob dyn fel rhai dïadgenhedledig yr unrhyw yn hollol; nid yw y naill ddyn yn fwy dïadgenhedledig na'r llall. Mae gwahanol raddau o ddrygioni yn y rhai dïadgenhedledig: ond nid oes gwahaniaeth yn eu cyflwr. Maent oll wedi ymddyeithrio oddiwrth Dduw yn gyffelyb, ac oll yn gyffelyb dan ei felldith ef. Gan hyny mae yn rhaid mai yr un gwaith o ran ei natur, a wareda ddynion o'r cyflwr yma, ac a'u symmudo o farwolaeth i fywyd. (2.) Mae y cyflwr i'r hwn y dygir dynion trwy ail enedigaeth yr un; ac ni's gall fod graddau yn perthynu iddo, fel y byddai y naill yn fwy adgenedledig na'r llall. Y mae pob un a anwyd o Dduw yn gyd-radd yn hyny, er y dichon fod un yn brydferthach nac arall, drwy fod delw ei Dad nefol wedi ei hargraffu yn eglurach, er nad yn gywirach arno ef. E ddichon y naill gristion fod yn fwy sancteiddiedig na'r llall; ond ni all y naill fod yn fwy adgenhedledig na'r llall. (3.) Mae yr achos effeithiol o'r gwaith hwn, y gras a'r gallu trwy yr hwn y'i gwneir, yn nghyd a'r dull tufewnol o gyfrannu y gras hwnw, yr unrhyw.—Dyma y mesurydd, at yr hwn y mae yn rhaid dwyn pawb. Gall dynion ymgodi yn uchel, a dirmygu y gwaith hwn o eiddo yr Ysbryd: neu osod dychymmyg o'r ciddynt eu hunain i fynu yn ei le; ond rhaid eu profi wrth hwn, pa un bynnag a fynnont hwy hyny ai peidio; ac nid oes dim llai yn ymddibynu ar eu cyfrannogiad o'r enedigaeth newydd yma, na'u derbyniad i deyrnas Dduw; a chymerent hwy arnynt yr hyn a fynnont, yr unig reswm pa ham y mae neb yn dirmygu yr enedigaeth newydd, yw eu bod yn casau buchedd newydd. Ni's gall yr hwn ni fynai fyw i Dduw, garu clywed son am eni o Dduw; ond nyni a ymholwn â'r Ysgrythyrau, pa beth a ddysgir i ni am hyny, ac a geisiwn ddangos yr hyn nid yw, er y cam honir ei bod; ac yna yr hyn ydyw mewn gwirionedd.

Yn gyntaf. Nid yw ail enedigaeth yn gynnwysedig mewn bod yn gyfrannog o'r ordinäad o fedydd. Dyma y cwbl a ganiattâ rhai i hyn, gan gau gras Crist allan yn llwyr.—

Ceisiwn ddangos yn ol llaw oferedd yr ynfydrwydd rhyfygus yma, a ddychymygwyd i gefnogi dynion yn eu pechodau, a chuddio rhagddynt yr angenrheidrwydd am ail enedigaeth, a dychweliad at yr Arglwydd. Yn bresenol e wasnaetha y rhesymau canlynol i'w symmud o'n ffordd.

Nid yw ail enedigaeth yn gymmwysedig yn y pethau hyny nad ydynt namyn arwyddion allanol o honaw yn unig; neu ar y goreu, moddion ordeiniedig i'w weithredu drwyddynt; canys y mae natur pethau yn dra gwahanol oddiwrth y moddion a'r gwystlon o honynt, y fath ag yw bedydd. Mae yr apostol Pedr wedi cymeryd hyn dan sylw yn 1 Pedr 3. 21. "Cyffelybiaeth cyfattebol i'r hwn sydd yr awrhon yn cin hachub ninnau, sef bedydd; nid bwrw ymaith fudreddi y cnawd, eithr ymatteb cydwybod dda tuag at Dduw, trwy adgyfodiad Iesu Grist." Nid yw y gweinyddiad allanol o'r ordinäad hon, yn cyrhaedd yn mhellach na golchiad ymaith fudreddi y cnawd; ond y mae yn arwyddocâu ymatteb cydwybod dda;—cydwybod wedi ei phuro oddiwrth bechod, a'i bywhau trwy rinwedd adgyfodiad Crist i ufudd-dod sanctaidd. Mae yr apostol Paul hefyd yn gwahaniaethu yn amlwg rhwng yr ordinhadau allanol ag adgenhedliad: "Yn Nghrist Iesu nid dichon enwaediad ddim, na dienwaediad, ond creädur newydd." Gal. 6. 15. Wrth enwaediad y golygai efe holl drefniad yr ordinhadau Moesenaidd; ac wrth ddienwaediad, y cyfrannogiad o'r holl ordinhadau efengylaidd yn mysg y cenhedloedd proffesedig; ond efe a wahaniaethai y greedigaeth newydd oddiwrth y naill a'r llall; fel peth y gallent fod hebddo, ac os hebddo, y byddent yn llwyr amddifaid o iachawdwriaeth. Drachefn; pe buasai bedydd yn adenedigaeth, yna buasai pawb bedyddiedig o angenrheidrwydd yn ail-anedig; ond nyni a wyddom nad felly y mae. Er angrhaifft, yr oedd Simeon y Swynwr wedi ei fedyddio gan Phylip yr efangylydd, eto nid oedd efe wedi ei ail eni; canys dywedir am dano ef, "Nid oes i ti na rhan na chyfran yn y gorchwyl hwn; canys nid yw

dy galon di yn uniawn ger bron Duw;" a thrachefn dywedir, ei fod ef "mewn bustl chwerwder, a rhwymedigaeth anwiredd;" y fath ddarluniad yn ddiau nid yw yn gweddu i un wedi ei ail eni.

Yn ail. Nid yw ail enedigaeth yn gynnwysedig mewn diwygiad moesol ar y fuchedd. Tybiwn fod y cyfryw ddiwygiad yn dra ehang, tybiwn fod y dyn wedi ei gyfnewid o fod yn flysig ac annghymedrol i fod yn gymhedrol; o fod yn draws i fod yn gyfiawn; o fod yn falch a nwydwyllt i fod yn ostyngedig a llariaidd. Tybiwn fod y cyfnewidiad yma yn gywir yn ol rhëolau y moesolion manylaf; tybier hefyd ei fod yn cael ei gynnyrchu trwy bregethiad yr Efengyl; eto nid yw hyn oll, a hyn oll yn nghyd a bedydd, a phroffes o ffydd ac edifeirwch, yn gwneyd i fynu ail enedigaeth, neu yn ei gynnwys.

Ond y mae yn rhaid i ni arafu yma. Mae y gosodiad yma o'r eiddom, nid yn unig yn cael ei wadu; ond yn cael ei wawdio gan laweroedd, a phwy bynnag a'i hamddiffyno, a elwir yn elyn i foesoldeb a rhinwedd.—Pa un a ydym ni yn gwrthwynebu moesoldeb, neu yn ei gau allan drwy hyn neu ryw athrawiaeth arall, e farna ac fe dystiolaetha Crist ar ol hyn; a phe byddai yr addefiad o'r gwirionedd yn unol â'u meddyliau, gellid appelio am benderfyniad yn hyn at eu cydwybodau hwy eu hunain; ond gan nad yw yn gweddu i ni ymddiried dim i'r farn hono, oddieithr i ni gael rhyw sicrwydd rhagorach am ei rhyddäad oddiwrth egwyddorion llygredig a rhagfarn nac a feddwn, nyni a adawn i'r byd farnu am ein hathrawiaeth yn bresenol wrth ei ffrwythau, gan eu cydmaru â'r eiddo y rhai a'i gwadant. Yn y cyfamser yr ydym yn tystio nad ydym ni yn amcanu dim gyda golwg ar rinwedd a moesoldeb, namyn eu gwelliant trwy eu seilio ar y sail briodol, neu eu himpio yn yr unig gŷff o'r hwn y gallant gael maeth i gynnyddu er gogoniânt Duw a daioni dynion; ac ni'n hysgogir yn yr amcan hwn gan ddadwrdd nac athrod dynion anwybodus neu ddïegwyddor. Ac mewn perthynas i'r gosodiad dan

sylw, bydded i'r rhai a'i gwaradwyddant geisio atteb y rhesymau canlynol cyn bod yn rhŷ hyderus o lwyddiant.

Os oes mewn ail enedigaeth egwyddor ysbrydol, newydd, wirioneddol yn cael ei rhoddi yn yr enaid, yna nid yw y cwbl yn gynnwysedig mewn diwygiad ar y fuchedd yn unig, pa mor fanol bynnag y byddo hyny. Cyn y byddo i ni brofi a chadarnhau yr haeriad yma, sylwer, 1. Bod y diwygiad buchedd yma, yr hwn y dywedwn ni nad ail enedigaeth yw, yn ddyledswydd anhebgorol ar bob dyn;—2. Bod yr egwyddor a ddarluniwyd o'r blaen, yn cynnyrchu y diwygiad yma yn anffaeledig;—gan hyny, yn 3ydd, y mae y gwahaniaeth yn dyfod i hyn,—Yr ydym ni yn dywedyd fod ail enedigaeth yn gynnwysedig mewn *adnewyddiad ysbrydol ar ein natur*;—a'n Sosiniaid diweddar a ddywedant ei fod yn gynnwysedig mewn *diwygiad moesol ar y fuchedd*. Yn awr, gan ein bod ni yn addef y bydd i'r adnewyddiad ysbrydol yma ar ein natur, gynnyrchu y diwygiad moesol ar y fuchedd yn anffaeledig, felly, os addefant hwythau fod y diwygiad moesol yma ar y fuchedd yn deillio oddiar adnewyddiad ysbrydol ein natur, yna bydd ein gwahaniaeth yn hyn ar ben.

Mae yr Ysgrythyr yn tystiolaethu yn ddigon helaeth ac eglur, bod yn yr ail enedigaeth egwyddor ysbrydol newydd, yr hon sydd o gynnyrchiad yr Ysbryd Glân:—"Od oes neb yn Nghrist, y mae efe yn grëadur newydd." 2 Cor. 5. 17. Cynnyrchir hyn yn yr enaid trwy weithred grëadwriaethol o eiddo gallu Duw, neu nid yw yn grëadur; ac fe'i harddodir at alluoedd yr enaid, neu nid yw yn grëadur newydd. Rhaid ei fod yn rhywbeth meddiannol ar fodoliaeth o'r eiddo ei hunan yn yr enaid, neu ni's gall fod na newydd na chrëadur; ac fe dystiolaethir yn ddigon eglur yn yr Ysgrythyrau, ei fod yn cael ei gynnyrchu trwy weithred grëadwriaethol nerth anfeidrol, Eph. 2. 10. Salm 51. 10. Egwyddor ysbrydol ydyw, a weithredir ynom gan Ysbryd Duw. "Nage," medd rhyw un, "nid yw crëadur newydd ddim amgen na dyn wedi ei gyfnewid." Gwir, er

hyny y mae y cyfnewidiad hwn yn dufewnol hefyd; "ydyw, yn nhueddiadau y meddwl;"—ond fe barir hyny trwy roddiad gwirioneddol o egwyddor newydd o fywyd ysbrydol yn y dyn. "Na, yr unig beth a arwyddoceir, yw ymarweddiad newydd;—cyffelybiaethol yw yr ymadrodd; —dyn moesol, wedi cyfnewid ei ymarweddiad yw crëadur newydd; canys os oedd efe yn ddyn moesol yn wastadol, yna yr oedd efe yn grëadur newydd yn wastadol." Dyma efengyl wych, yn dymchwelyd pechod gwreiddiol a gras ein Harglwydd Iesu Grist ar unwaith! Mae yn sicr genyf na ddysgwyd yr athrawiaeth hon gan y tadau, o'r rhai yr ymffrostia rhai yn fawr; a'r dull yma o droi pob rhyw ymadroddion Ysgrythyrol am bethau ysbrydol i gyffelybiaethau, yw y ffordd i droi y cwbl yn ffug-chwedl; neu, o leiaf, i wneuthur yr efengyl y dull tywyllaf o ddysgu gwirioneddpethau, o un dull a arferwyd erïoed yn y byd. Can hyny, nid yw y crëadur newydd yn gynnwysedig mewn rhyw gylch newydd o weithrediadau, ond mewn galluoedd wedi eu hadnewyddu, a thueddiadau newyddion, gallu, a chymhwysder i'w hymarfer. Am hyny y'n gelwir "duwiol anian," 2 Pedr 1. 4. Nid natur Duw, yw y (Theia Phosis) *natur ddwyfol* yma, o'r hon ni's gallwn ni fod yn gyfrannogion yn ein personau ein hunain: eto natur ydyw,—egwyddor gweithrediad, a hono yn ddwyfol neu ysbrydol; egwyddor sanctaidd reddfol, a weithredir ynom gan Dduw, ac yn dwyn ei ddelw ef ynddi.

Mae yr hyn oll a olygwn ni wrth hyn yn cael ei osod allan yn Eph. 4. 22—24, "Dodi o honoch heibio, o ran yr ymarweddiad cyntaf, yr hen ddyn, yr hwn sydd lygredig yn ol y chwantau tywyllodrus; ac ymadnewyddu yn ysbryd eich meddwl; a gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grëwyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Dyna ddarluniad manol o'r gwaith o ail eni. Gosodir sylfaen y gwaith yn ein bod wedi ymadnewyddu yn ysbryd ein meddwl; neu wedi ein newidio trwy adnewyddiad ein meddwl, Rhuf. 12. 2. Gelwir yr egwyddor

ei hun, yr hon a roddir ynom ni, *y dyn newydd*, am ei bod yn gynnwysedig mewn cyfnewidiad trwyadl ar yr enaid, yn gymmaint a'i bod yn egwyddor pob rhyw weithrediadau moesol ac ysbrydol; ac fe'i golygir yn wrth-gyferbyniol i'r *hen ddyn*, neu lygredigaeth ein natur, fel y mae yn egwyddor ein holl weithrediadau. Rhuf. 6. 6. Nid yr ymarweddiad llygredig, ond yr egwyddor a'r gwreiddyn o honaw; canys fe'i gwahaniaethir oddi wrth ymarweddiad dynion; ac fe elwir yr anian newydd yma, yn ddyn newydd, am mai cynnyrchiad gallu Duw trwy grëedigaeth newydd ydyw. Amcan gweithred grëedigol yw cynnyrchu peth yn ddisymmwth. Pa ryw barottöadau bynnag a ddichon fod erddo, mae cynnyrchiad bod newydd trwy grëedigaeth, yn ddisymmwth. Gan hyny, ni's gall fod hyn yn gynnwysedig mewn diwygiad ar y fuchedd yn unig. "Gwaith Duw ydym ni, wedi ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da."—Mae yn rhaid wrth waith Duw ynom ni, cyn dim o'n gweithredoedd da ni tuag atto ef; canys cyn y gallom ni eu cyflawni, rhaid ein creu iddynt, neu ein galluogi mewn modd ysbrydol i'w cyflawni. Trachefn, dywedir fod y dyn newydd yma yn cael "ei greu mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Mae hyn yn cyfeirio at grëedigaeth dyn mewn diniweidrwydd; efe a wnaed yn nelw Duw. Nid oedd y ddelw ddwyfol hon yn gynnwysedig mewn diwygiad buchedd, canys yr oedd efe yn feddiannol ar ddelw Duw, cyn cyflawni unrhyw weithred dda oll. Yr oedd yn gynnwysedig yn uniondeb ei holl enaid, a'i alluogrwydd i gyflawni yr ufudd-dod a ofynid ganddo. Felly, gan hyny, y rhaid i ninnau gael ein hadgenhedlu cyn y cymera diwygiad efengylaidd le yn y fuchedd, er ein cymhwyso i fuchedd newydd, yn ol ewyllys Duw.

Ac felly y dywaid ein Hiachawdwr ei hun hefyd, "Nid yw pren da yn dwyn ffrwyth drwg, na phren drwg yn dwyn ffrwyth da." Luc 6. 43. Mae y ffrwyth yn dilyn natur y pren; ac ni's gellir cyfnewid natur y ffrwyth, ond

trwy gyfnewid natur y pren. Nid yw pob diwygiad ar y fuchedd ddim amgen na'r ffrwyth; ond y mae cyfnewidiad ein natur i'w ragflaenu. Mae yr Ysgrythyrau yn gwahaniaethu yn wastadol rhwng y gras o ail enedigaeth, a'r ufudd-dod, neu y sancteiddrwydd hwnw sydd yn effaith o honaw. Trefn Duw, yw glanhau ein natur yn gyntaf,—cymeryd y galon garreg ymaith, a rhoddi calon o gig yn ei lle; ysgrifenu y gyfraith yn ein calonau, a rhoddi ei Ysbryd ynom; ac yna yr effaith a'r canlyniad yw, y bydd i ni rodio yn ei ddeddfau, a chadw ei farnedigaethau ef i'w gwneuthur hwynt; hyny yw, diwygio ein bucheddau, a rhoddi ufudd-dod i Dduw. Gan hyny, y mae y pethau hyn yn cael eu gwahaniaethu fel achosion ac effeithiau. Rhuf. 6. 3—6. Col. 3. 1, 5.

Yn mhellach, Fe ddarlunir y gwaith hwn, fel yn gynnwysedig yn sancteiddiad yr ysbryd oll, a'r enaid a'r corff, 1 Thes. 5. 23; ac os hyn yw y peth a olyga rhai dynion wrth ddiwygiad buchedd, a rhinwedd moesol, e debygid yn ddïau y teilyngent fri mawr am eu heglurdeb yn dysgu pethau ysbrydol; canys pwy ni's mawrygai hwynt am y fath ddarluniad o foesoldeb? sef, mai sancteiddiad holl ysbryd, enaid, a chorff credadyn trwy yr Ysbryd Glan ydyw?—ond, mewn gwirionedd, nid oes yn yr Ysgrythyrau un darluniad o ail enedigaeth, yn ei natur, ei achosion, na'i effeithiau, nid oes enw yn cael ei roddi arno, nac addewid yn cael ei wneuthur o honaw; na dim yn cael ei ddweyd am y moddion neu y gallu trwy yr hwn y'i gweithredir, ond yr hyn sydd yn llwyr annghyson â'r dychymmyg Morganaidd ëofn yma, yr hwn sydd yn llwyr wrthwyneb i ogoniant gras Iesu Grist.

Mae yn eglur fod y dychymyg gwageddol yma yn deillio oddiar wadiad o bechod gwreiddiol; canys onid yw dyn yn llygredig wreiddiol, mae yn eglur nad oes arno eisiau adnewyddiad ysbrydol. Digon yw, bod iddo drwy gyfnewidiad buchedd ymwrthod ag arferiad o bechu, a diwygio yn ei ymarweddiad;—ond, fel y dangoswyd yn

barod, ac y profir eto yn fwy cyflawn, fod tywyllwch cynhwynol ein meddyliau yn cael ei chwalu yn yr adenedigaeth, a goleuni ysbrydol yn cael ei ddwyn i fewn, cyndynrwydd ein hewyllysiau yn cael ei symmudaw, egwyddor newydd o fywyd yn cael ei rhoddi yn y dyn, ac anhwyldeb ein serchiadau yn cael ei feddyginiaethu,—felly y mae golygiad croes i hyn, yr hwn befyd sydd yn llwyr wrthwyneb i'r Ysgrythyrau, i ffydd yr hen eglwys yn moreuddydd Cristionogaeth, a phrofiad yr holl gredinwyr, heb ddim i'w gefnogi ond anwybodaeth a hyfdra hunan dybus.

Yn drydydd. Nid ydyw gwaith yr Ysbryd yn yr adenedigaeth yn gynnwysedig mewn rhyw ber-lewygfeydd gwyllt-grefyddawl, llesmeiriau a bloeddiadau, na dim o'r fath. Gall fod rhai trueiniaid twylledig a disynwyr yn honni y fath beth; ond camdystiolaeth yw ein bod ni yn cefnogi y cyfryw ddychymygion, neu yn dysgu dynion i'w dysgwyl tra y maent yn esgeuluso sancteiddrwydd; fel y mae ein hysgrifeniadau a'n pregethau yn tystio yn ddigonol. Gan hyny, gyda golwg ar y peth yma, sylwn, Bod yr Ysbryd yn gyffredin yn amlygu ei allu yn yr arferiad o foddion; a'i fod ef yn gweithio ar ddynion yn gyson â'u naturiaethau. Nid yw efe yn dyfod arnynt mewn rhyw lesmeiriau anfoddawg, gan ddefnyddio galluoedd eu meddyliau fel y dirdyna ysbryd aflan gyrff rhai cythreulig; ond y mae ei holl waith ef yn rhesymol, ac yn hawdd rhoddi cyfrif am dano gan bawb a gredant yr Ysgrythyrau, ac a dderbyniasant Ysbryd y gwirionedd, yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn. Mae yn wir na's gellir amgyffred effeithiad yr Ysbryd yn mwyäad ein heneidiau, mwy nac y gellir amgyffred unrhyw weithred arall o eiddo nerth crëadwriaethol; canys, megis yr ydym ni yn clywed swn y gwynt, ond heb wybod o ba le y mae efe yn dyfod, nac i ba le y mae efe yn myned, felly y mae pob un a aned o'r Ysbryd:—ond hyn sydd sicr, nad yw efe yn gwneuthur dim ond yr hyn sydd wedi ei drefnu a'i ddatguddio yn y

gair ysgrifenedig, ac nid yw efe yn gosod unrhyw orfodaeth ar alluoedd ein heneidiau, ond yn gweithio ynddynt a thrwyddynt yn gyfaddas i'w natur. Eto, fe gyfrifwyd llawer o ddynion adgenhedledig gan y byd, fel gwallgofiaid, penboethiaid, ac ynfydion ofergoelus. Felly y cyfrifai tywysogion y llu y proffwyd a ddaethai i enneinio Jehu; ac felly y cyfrifid yr Iesu gan ei geraint pan ddechreuodd efe bregethu yr efengyl; felly hefyd y barnai Festus am Paul, &c.—Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, fe ymddengys——

Y dylai pregethwyr a gwrandawwyr yr efengyl ddwys ystyried gwaith yr Ysbryd mewn ail enedigaeth. Am y rhai cyntaf, y maent hwy dan rwymedigaeth neilldnol i ystyried hyn, yn gymmaint a'u bod hwy yn cael eu defnyddio yn y gwaith ei hunan, gan Ysbryd Duw, fel offerynau i'w gwblhau. Am hyny yr oedd yr apostol Paul yn ei alw ei hun yn dad:—"Canys pe byddai i chwi ddeng mil o athrawon yn Nghrist, er hyny nid oes i chwi nemmawr o dadau, canys myfi a'ch cenhedlais chwi yn Nghrist Iesu trwy yr efengyl." 1 Cor. 4. 15. Efe a fuasai yn offeryn eu dychweliad, ac felly yr oedd efe yn dad ysbrydol iddynt. Felly, wrth son am Onesimus, efe a'i galwai ei fab, yr hwn a genhedlasai efe yn ei rwymau.

Y mae yn ddigon eglur mai dyledswydd gweinidogion y gair yw bod yn hyddysg ar eu gwaith; ac y mae bod yn fedrus ysbrydol yn athrawiaeth ail enedigaeth, o ran ei natur, ei hachosion, ei heffeithiau, a'i phrofiadau, yn un prif ran o arlwy gweinidog i'w swydd, heb yr hyn ni's gall efe iawn gyflawnu y gair, na'i ddangos ei hun yn weithiwr difefl. Eto, prin y gellir dychymygu â pha fath gynddaredd ysbryd, ac â pha ryw ymadroddion gwawdus y siaradir am yr holl waith yma, ac y'i gwaradwyddir! Cyhuddir rhai a lafuriant yn y gwaith yma o geisio perswadio y bobl fod ymchweliad at Dduw yn rhywbeth blin-faith a diddarfod, ac ail enedigaeth yn rhywbeth a'r fath oruchwyliaethau dirgelaidd yn perthyn iddo, nes llanw penau

dynion â heigiau o ofnau coel grefyddol, ac ofnau yn nghylch y graddau priodol o alar duwiol, a'r arwyddion diamheuol o ostyngeiddrwydd trwyadl. Pe gellid cyhuddo rhyw bersonau o gyfeiliornad mewn gosod rhëolau yn y pethau hyn na's awdurdodir gan yr Ysgrythyrau, ni byddai yn anweddus eu gwrth-atteb; ond y mae yn eglur fod yr ymadroddion hyn wedi eu bwriadu i waradwyddo gair Duw ei hunan; ac y mae yn rhaid i mi addef, fy mod I yn credu y bydd i'r dirywiad hwn oddiwrth wirionedd, a gallu crefydd, a'r gwaradwydd a fwrir ar ras Crist, fod yn argoelio yn ofidus nychdod i holl ansawdd yr Eglwys ddiwygiedig yn ein plith, oddieithr ein diwygio oddiwrth y cyfryw ddrygau mewn pryd!—ond yr hyn a honnaf, yw, ei bod yn ddyledswydd anhebgorol ar holl weinidogion yr efengyl, i ymgydnabod yn dda â natur y gwaith yma; heb yr hyn ni's gallant gyflawni un ran o'u swydd yn gymhwys. Os ydyw pawb sydd yn gwrandaw arnynt wedi eu geni yn "feirw mewn camweddau a phechodau," ac os ydynt hwythau yn offerynau a drefnwyd gan Dduw er eu hadgenhedliad, ynfydrwydd, o'r hwn y bydd raid rhoddi cyfrif ar ol hyn, fydd esgeuluso gwneuthur ymchwyl dŷfal i'r gwaith mawr yma; ac y mae anwybodaeth am hyn, neu esgeulusdra yn ei gylch, yn nghyd a'r diffyg o brofiad o honaw yn eneidiau y gweinidogion eu hunain, yn un prif achos o fod y weinidogaeth mor ddifywyd, ac anfuddiol yn ein plith.

Hefyd, y mae yn ddyledswydd ar bawb sydd yn gwrandaw pregethiad y gair i ymholi i hyn. Wrth y cyfryw y dywedai yr apostol, "Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn ffydd; holwch eich hunain. Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, sef bod Iesu Grist ynoch, oddieithr i chwi fod yn anughymmeradwy?" 2 Cor. 13. 5. Y mae yn ddyledswydd ar bob proffeswr crefydd wrtho ei hunan, i ymholi pa beth o waith Ysbryd Duw a fu ar ei galon ef; ac ni feiddia neb eu lluddias i hyn, ond y sawl a fynent eu harwain yn eu tywyllwch i ddistryw.

Mae yr athrawiaeth am hyn wedi ei datguddio yn gyflawn i ni; ac y mae mor angenrheidiol i ni ddeall ei natur, a'n cyfrannogaeth ninnau yn y gras hwn, fel nas gallwn fod yn esgeulus yn nghylch y peth hyn heb fod yn euog o'r ynfydrwydd mwyaf. Heblaw hyny, y mae perygl mawr i ddynion gael eu twyllo yn y peth hwn, canys dyma y pegwn ar yr hwn y mae eu cyflwr tragywyddol yn troi; ac y mae yn ddigon sier fod llawer yn eu twyllo eu hunain yn nghylch y peth yma; canys y mae yn amlwg eu bod yn byw dan un o'r ddau gyfeiliornad yma;—naill ai Y gall dynion fyned i'r nefoedd heb eu hail eni; neu, Y gall dynion gael eu hail eni, a byw mewn pechod wedi hyny.

PEN. II.

Gweithredoedd yr Ysbryd Glân, yn rhagbarottöawl i ail enedigaeth.

Gyda golwg ar y gwaith o ail eni, wrth ei ystyried yn *gadarnhäol*, nyni a allwn sylwi, Fod yn gyffredin ryw weithrediadau parottöawl ar eneidiau dynion yn rhagflaenorol iddo; ond eto, nid yw ail enedigaeth yn gynnwysedig ynddynt hwy, ac ni's gellir ei wneyd allan o honynt.

Yn gyntaf. Mae rhyw bethau yn ofynol oddiwrthym ni mewn ffordd o ddyledswydd, y rhai ydynt o fewn cylch ein galluoedd naturiol, fel nad oes dim ond rhagfarn llygredig, ac ymarfer mewn pechu, a geidw ddynion rhag ymarfer â hwy:—a'r rhai hyn ydynt, 1. Ymwneuthuriad allanol â gweinidogaeth gair Duw, a moddion eraill o ras. "Ffydd sydd yn dyfod trwy glywed, a chlywed trwy air Duw." Gwrandawiad y gair yw y moddion cyffredin trwy yr hwn y cenhedlir ffydd. Mae hyn yn ddyledus ar bawb yn ngwlad efengyl; ac y maent yn alluog i wneyd

hyn cystal ag unrhyw weithred naturiol arall; a phan y mae dynion yn gommedd gwneuthur hyn, gan ddirmygu y gair o bell, mae hyny yn cael ei achlysuro trwy esgeulusdra hollol, diogelwch cnawdol, a dirmyg ar Dduw, am yr hyn y rhaid iddynt roddi cyfrif eto i Dduw mewn barn.

2. Ymröad meddwl astud yn moddion gras i ddëall ac i dderbyn y pethau a draddodir fel meddwl ac ewyllys Duw. I'r perwyl yma y rhoddes Duw reswm i ddynion, fel y'u dyfnyddiont yn y cyflawniad o'u dyledswydd tuag atto ef, yn ol yr Ysgrythyrau; ac nid oes dim yn hyn tu hwnt i rym ein galluoedd rhesymol, yn gynnorthwyedig trwy y cynnorthwyon hyny â'r rhai y mae Duw yn doniaw y cyffredin o ddynolryw; a mawr ydynt y manteision a ellir ei gyrhaedd trwy hyny. Mae dynion wrth ddyfal ddefnyddio eu galluoedd naturiol, mewn ymarferiad á phethau ysbrydol yn ol y datguddiad allanol o honynt yn y gair, yn cyrhaedd manteision mawrion trwy hyny yn gyffredin, ac yn tra rhagori ar y rhai a fyddont eu cydraddolion yn mhob ystyr arall, fel yr oedd Paul, wedi ei ddwyn i fynu dan addysg Gamaliel. Pe byddai dynion mor ddiwyd yn eu hymdrechion am wybodaeth mewn pethau ysbrydol, ag ydynt am ragori yn y gwyddion a'r celfion, byddai yn llawer gwell gyda llawer nac yw hi. Yr esgeulusdra o'r ddyledswydd yma yw y prif achlysur o dragywyddol ddystryw lluoedd i'r rhai y pregethir yr Efengyl.—"Hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni, am fod eu gweithredoedd hwy yn ddrwg." Da y gwyr dynion nad ydynt hwy yn gwneyd mwy nac a allent, ac a ddylent ei wneuthur, pan yn ymwneyd yn astud â'r gair:—mae pob esgusodion o analluogrwydd yn mhell oddiwrthynt. Ni's gallant lai na gwybod, ac fe'u gorfodir eto i addef, mai eu segurdod melldigedig eu hunain, eu cnawdolrwydd, eu cariad at y byd, eu cariad at bechod, a'u diystyrwch ar Dduw, a'u lluddiasant i wneuthur dyfal ymarferiad á moddion dychweliad; ac udfäau oblegid hyn, a wna i fynu ran fawr o'u cri ofnadwy yn y diwedd.

Mae yn wir, na's gall dynion drwy yr ymarferiad dyfalaf â moddion allanol, o honynt eu hunain gyrhaedd ail enedigaeth, heb weithred tufewnol neillduol o eiddo yr Ysbryd ar eu henеidiau; ond yn y cyffredin y mae Duw yn cyfarfod â'r rhai ydynt yn dyfal ymwneyd â'r weinidogaeth allanol o'r moddion o honi. Yn y cyffredin, meddaf, mewn cydmariaeth i'r rhai ydynt arferol o ddirmygu ac esgeulso y moddion. Mae yn wir ei fod weithiau yn myned allan o'i lwybr, megis, i ddwyn Saul erlidgar adref atto ei hunan; ond yn y cyffredin, y mae efe yn gweinyddu ei ras yn mysg y rhai ydynt yn ymwneyd â'r moddion o hono; canys trwy hyny y mae efe yn gogoneddu ei air, ac yn dangos ei gymeradwyaeth o'n hymostyngiad a'n hufudd-dod i'w sefydliadau ef.

Yn ail. Y mae rhyw effeithiau tufewnol neillduol, yn cael eu gweithredu ar enediau dynion, o'r rhai y mae y gair a bregethir yn achos offerynol, a'r rhai yn gyffredin ydynt yn rhagffaenu adenedigaeth; a'r rhai hyn ydynt Oleuad,—Argyhoeddiad,—a Diwygiad; y cyntaf a berthyna i'r meddwl yn unig; yr ail, i'r meddwl, y gydwybod, a'r serchiadau; a'r trydydd, yr ymarweddiad.

1. Goleuad. Mae cymmaint o oleuni neu wybodaeth ar a feddwn ni am bethau ysbrydol, yn dyfod dan y darluniad yma. Y mae goleuni sydd yn deillio yn unig oddiar ddyfal ymarferiad o'n galluoedd naturiol mewn ymdrech i ddeall athrawiaethau datguddiad dwyfol; ac y mae y goleuni yma yn oleuni a ychwanegir at amgyffredion cynhwynol y meddwl dynol, yr hwn heb ddatguddiad dwyfol ni's gallasai byth ddirnad am bethau ysbrydol; a'r achos pa ham y mae càn lleied yn ymdrechu i gyrhaedd y wybodaeth yma, yw gelyniaeth gnawdol eu meddyliau at y pethau ydynt wedi eu datguddio.—Trachefn: y mae goleuni, yr hwn sydd o gymmyrchiad neillduol yr Ysbryd Glan ar y meddwl trwy y gair; a'r hwn sydd yn ychwanegu llawer at yr hyn sydd wir naturiol yn unig, canys y mae yn egluro y pethau hyn iddo. Am hyny y dywedir am rai, eu bod yn

adnabod ffordd cyfiawnder; hyny yw, yr oeddynt yn amgyffred athrawiaeth yr efengyl yn eglur, fel y ffordd, yr unig ffordd, ffordd cyfiawnder Duw i bechaduriaid. Mae y goleuni yma yn ychwanegu cydsynied cryfach â'r gwirionedd, nac a ellir ei gyrhaeddyd trwy rym rheswm anianol. Am hyny y dywedir weithiau am y rhai a gawsant eu goleuo fel hyn, eu bod yn credu, pan nad yw eu ffydd yn ddim amgenach na chydsynied noeth â'r athrawiaethau a ddatguddir. Felly Simon, Act. 8. 12; a llawer o'r Iuddewon, Ioan 2. 23. Trachefn, y mae yn ychwanegu rhyw fath o lawenydd iddynt. Mae y rhai hyn yn derbyn y gair gyda llawenydd; gan lawenychu yn ei oleuni am dymhor; eto heb wreiddyn ynddynt eu hunain. Mae weithiau yn ychwanegu amrywiaeth mawr o ddoniau; a pha le bynnag yr iawn ddefnyddir y goleuni yma, trwy lafur, y mae yn effeithio yn rhyfeddol ar y meddwl, ac yn dyrchafu ei olygiadau ar bethau ysbrydol; ond y mae hyn oll yn fyr o fod yn ail enedigaeth, ac nid yw hyny yn gyssylltiedig o angenrheidrwydd â hyn. Mae llawer wedi eu goleuo fel hyn, eto heb eu dychwelyd erioed; ond yn nhrefn natur y mae hyn yn rhagflaenorol i ddychweliad, ac yn barottöad mawr i hyny; canys y mae gras achubol yn dyfod i fewn i'r enaid trwy oleuni.

2. Mae argyhoeddiad o bechod, yn effaith arall a gyn nyrchir trwy y gair yn flaenorol i wir ddychweliad. A hyn a ddarlunir gan yr apostol, "Os prophwyda pawb, a dyfod o un di gred, neu annysgedig i mewn, cfe a argyhoeddir gan bawb, a fernir gan bawb: ac felly y gwneir dirgelion ei galon ef yn amlwg; ac felly, gan syrthio ar ei wyneb, cfe a addola Dduw," 1 Cor. 14. 24, 25. Mae hyn yn ei ystyr gyffredinol yn cynnwys, Yn gyntaf, Rhyw deimlad trallodus o enogrwydd pechod, yn wyneb y ddeddf, bygythion, a barnedigaethau Duw. Mae y pethau a gymerid yn ysgafn, ac a wawdid o'r blaen, yn awr yn dyfod yn faich ar yr enaid; a thrwy hyny y mae meddyliau dynion yn cael eu [illegible] gan ofnau o amrywiol raddau; ac nid yd-

ys yn haeru fod y graddau hyn oll yn angenrheidiol: ond yr ydys yn ceisio eu darlunio fel y maent yn cymeryd lle yn gyffredin, er esmwythäad a chyfarwyddyd i'r rhai ydynt yn cael eu hamgylchynu â hwy. Yn ail. Trallod, neu ofid am bechod a gyflawnwyd, am ei fod wedi myned heibio, ac yn ddi alw yn ol, yr hyn yw y prif reswm am y dyfarniad, neu y tristwch deddfol yma; y "tristwch y byd" hwn, yr hwn sydd yn dwyn dynion i gaethiwed, dan ofn. Yn drydydd, Ymostyngiad am bechod, yr hyn yw gwaith tristwch ac ofn yn gweithredu mewn cyffesu, ymprydio, gweddïo, a'r cyffelyb, dyma wir natur ymostyngiad deddfol;—ac yn olaf, Oddicithr bod yr enaid wedi ei lyncu i fynu i anobaith, ni's gall na bydd yn llawn o ddymuniadau, ymofyniadau, a chynlluniadau gyda golwg ar waredigaeth o'r cyflwr yma.

3. Mae diwygiad buchedd yn dilyn hyn yn aml, megis y darlunir yn hanes yr "Yspryd aflan" yn gadael ei dŷ dros dymhor, ac yn dychwelyd iddo drachefn, pan "y mae yn ei gael wedi ei ysgubo a'i drwsio." Felly hefyd yr oedd yr apostol Pedr yn son am ryw rai, wedi dïanc dros amser oddiwrth halogedigaeth y byd, trwy adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Iesu Grist, yn cael eu rhwystro drachefn a'u gorchfygu.

Gall yr holl bethau hyn gael eu gweithredu yn meddyliau dynion, ac eto eu bod heb eu hail eni erïoed; ac er eu bod yn bethau da ynddynt eu hunain, ac yn effeithiau o diriondeb Duw, eto, gallant, nid yn unig fod yn llwyr ddifudd i ni; ond gallant gael eu camarfer er niwed mawr i ni; ac er ychwanegu ein heuogrwydd; yr hyn a achlysurir un o'r ffyrdd yma; nid yw rhai yn gofalu am ddefnyddio y goleuni a'r argyhoeddiad yma i'w berwyl a'i amcan priodol, yr hyn yw, eu tynu o'u hunan hyder, a'u cyfarwyddo at Grist;—lle ni's gofalir am hyn, mae y pethau a nodwyd yn gwywo ac yn diflannu yn ddïarwybod. Mewn eraill, maent yn cael eu gorchfygu gan rym eu chwantau, a llymder y demtasiwn; maent yn cael eu pechu ymaith, ac yn gadael

yr enaid mewn cyflwr llawer gwaeth nac y'u cawsant ynddo. Trachefn y mae eraill yn gorphwys yn y pethau hyn, fel pe cynnwysent yr oll o waith Duw tuag attynt, yn enwedig, lle y maent yn achlysuro diwygiad lled rymmus yn y fuchedd, ac ymwneuthuriad lled gyson âg addoliad crefyddol; ond y mae hyn oll i'w briodoli i'r camddefnyddiad o'r pethau hyn gan feddyliau cnawdol; yn eu natur eu hunain, y maent hwy yn bethau da, ac yn parottoi y meddwl i dderbyn gras Duw.

Yn drydydd. Yr holl bethau hyn a weithredir trwy offerynoldeb y gair, ond a gynnyrchir trwy nerth Ysbryd Duw. Nid effeithia y gair ei hunan, wrth ei ddarlunio o flaen meddyliau dynion, felly arnynt. Er cadarnäad o hyn, ystyrier pregethiad y proffwydi; Iesu Grist ei hunan; a'r aptostolion: ac yn ein mysg ni ein hunain, mae llawer oedd yn eistedd dan yr efengyl eu holl ddyddiau, heb deimlo dim o'r effeithiau hyn, tra mae eraill yn teimlo yn wirioneddol, yn cael eu hargyhoeddi a'u dychwelyd. Gan hyny, gweinidogaeth yr Ysbryd, yn, a thrwy y gair sydd yn cynnyrchu yr effeithiau hyn. Mae yn wir fod un wrthddadl led bwysig yn erbyn priodoli y gwaith hwn i'r Ysbryd Glan; canys os gall yr holl bethau hyn gael eu gweithredu yn meddyliau dynion, y rhai er hyny ydynt yn ol o ras Duw, pa fodd y gellir meddwl mai efe yw Awdwr y gwaith hwn? A briodolwn ni iddo ef waith gwán, ac anmherffaith? neu a dybiwn ni ei fod ef yn rhoi i fynu yr hyn a ddechreuodd?

I hyn yr attebaf, Y mae gwir ddychweliad yn canlyn yr effeithiau hyn mewn llawer; ac felly mae y gweithrediadau parottöawl hyn yn agoryd y ffordd i ddwyn bywyd ysbrydol newydd i mewn; fel y maent mewn gwirionedd yn perthynu i waith sydd berffaith yn ei ryw; a pha le bynnag y maent yn fyr o hyn, mae hyny yn cael ei achosi, nid gan un diffyg neu anmherffeithrwydd yn y gweithrediadau, ond gan bechodau dynion. Er egluräad, sylwn, Fod tuedd mewn argyhoeddiad o bechod at ddychweliad dyn at Dduw;

a lle ni chyrhaeddir y dyben hwn, achlysurir hyny gan gyndynrwydd ac anufudd-dod y meddwl. Mae Duw yn gweled yn dda symmudaw y gwrthwynebiad gweithredawl yma o rai, gan hyny mae yn amlwg mai o'i ras penarglwyddiaethol ef y'i symmudir o'r rhai a achubir; ond i bechodau dynion y rhaid ei briodoli lle mae yn aros. Heblaw hyny, mae yr Ysbryd Glan yn weithiwr rhydd; y mae efe yn gweithio pan, ac fel y myno ei hunan. Ac y mae ei holl weithrediadau ef yn cyfiawni y dyben amcanedig ganddo ef yn anffaeledig; yr hwn yn y rhai hyn, yw, bod i ddynion gael eu goleuo, eu darostwng, a'u diwygio; yn yr hyn nid yw yn methu. Fel hyn y mae efe yn gweled yn dda gymeryd y ddeddf i'w law, a dwyn yr enaid i gaethiwed drwyddi, fel y'i cyffröer i ymofyn am waredigaeth; ac am hyny y'i gelwir, "Yspryd caethiwed i beri ofn." Y gwaith yma sydd yn gwneyd i fynu y trydydd math tir yn nammeg yr hauwr. Mae yn derbyn yr had, ac yn egino yn obeithiol hyd onid yw gofalon y byd hwn a theretasiynau, yn ei dagu a'i ddystrywio. Ac yn awr, gan fod y fath gyffelybrwydd rhwng hyn ag ail enedigaeth, fel na's gall y byd, na'r eglwys yn amal wahaniaethu rhyngddynt, mae o bwys mawr i'r rhai sydd ag enw crefyddwyr arnynt, ymholi a brofasant hwy unrhyw waith angenach ar eu hencidiau erioed ai peidio?—canys er fod y gwaith yma yn waith da, oni bydd i ddynion gyrhaedd mwy na hyn, fe'u collir byth. Gan hyny myfi a grybwyllef rai anghraifftiau o bethau na's gall y gwaith yma, er ei ddwyn rhagddo i'w radd eithaf, ei gyfiawni, fel y gallnoger dynion i ffurfio barn am danynt eu hunain pa fodd y mae gyda hwy.

1. Gellir sylwi, (in bod ni wedi cyfleu holl effeithiau y gwaith yma yn y meddwl, y gydwybod, y serchiadau, a'r ymarweddiad; ond y mae yr *Ewyllys*, cynneddf lywodraethol yr enaid, heb ei hadnewyddu ganddo; ac am hyny, y mae grym pechod yn aros. Mae yn wir fod yr ewyllys yn cyfarfod â llawer o bigiadau oddiwrth oleuni y meddwl, ac adfyfyriadau y gydwybod; fel na's gall bechu gyd a'r

un rhyddid a diogelweh ag y bu gynt. Gall ei wanc awchus i bechu gael ei attal mewn mesur mawr gan ddychryniadau yr Arglwydd ar un llaw, neu y gobaith am fywyd tragywyddol ar y llaw arall; ond eto, y mae tuedd yr ewyllys ei hunan at bechod, a hyny yn baraus.

2. Nid ydyw effeithiau y gwaith yma ar yr enaid yn cyrhaedd mor bell ag i beri i'r meddwl ymhyfrydu, ac ymfoddâu yn natur ysbrydol, ac ardderchawgrwydd y pethau a ddatguddir iddo, Mae golcuni achubol gwirioneddol, yn rhoddi y fath amgyffred union-gyrchol i'r meddwl, i mewn i bethau ysbrydol, fel y maent yn eu natur eu hunain yn ei foddiaw a'i ddigoni: fel y mae yn cael ei fwrw i'w delw, ac yn ymorphwyso ynddynt; ond am y gwaith a fu dan sylw genym, nid yw hwnw yn cyrhaedd cân belled a hyn; e ddichon y bydd i'r golcuni hwnw, beri i'r sawl â'i meddo hoffi yr efengyl oblegid ei heffeithiau buddiol, ond ni ddwru iddo y fath olwg ysbrydol i fewn i ddirgelweh gras Duw trwy Grist Iesu, fel y cailo yr enaid yn yr olwg gyntaf arno, ei ddwyn i'w ryfeddu, ei gymeradwyo, a chael cysur ac adnewyddiad ysbrydol ynddo.

3. Mae y gwaith yma yn cyrhaedd y gydwybod hefyd; eto, nid yw yn "pure y gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw." Mae yn wir ei fod yn peri ei bod yn fwy bywiog a pharod i geryddu pechod nac o'r blaen; eto ni'n gweithir y gydwybod drwy hyn, i gasau pechod o'i herwydd ei hunan yn y fath fodd, fel ag i gyfarwyddo yr enaid at waed Crist yn barhaus am lanâad.

4 Mae y gwaith yma yn effeithio yn fawr ar y serchiadau; ond nid ydyw yn eu sefydlu nac yn eu llenwi. Mae yn ofynol i'n serchiadau ni fod wedi eu sefydlu ar bethau nefol, ac fe wneir hyny à hwy trwy wir râs. Nid yw y llawenydd, yr ofnau, y gobeithion, a'r trallodion, a gynnyrchir drwy y gwaith dan sylw, namyn ansier ac ansefydlog. Weithiau y maent fel afon yn barod i orlifo dros ei chenlenydd; bryd arall "fel dyfroedd yn pallu," heb un

dyferyn yn dyfod o honynt. Weithiau, y maent yn boethion, yna yn oer; weithiau yn nefoedd i gyd, yna yn ddaiar i gyd: ond, y mae gwir ras yn sefydlu y serchiadau; e ddichon fod amrywiaeth mawr o ran eu hymarferiad; ond y mae eu gogwydd gwastadol at bethau ysbrydol. Nid yw y gwaith y buom ni yn ei grybwyll yn llanw y serchiadau ychwaith; mae pethau ysbrydol yn dyfod fel mintai o ddyeithriaid i Westdy i lettya, y rhai a gymerant lawer o le, ac a ymddangosant fel pe na byddai neb yn tŷ ond hwy eu hunain; felly y mae goleuni ac argyhoeddiad yn dyfod ac yn llettya yn y meddwl a'r serchiadau, fel pe y'u meddiannent yn drylwyr, ond wedi y cwbl, y maent yn gadael lle tawel yn y tŷ i'r byd, a phechod, a hunan. Ond i'r gwrthwyneb, y mae gwir ras yn llanw y serchiadau â phethau ysbrydol. Nid yw yn gommedd lle i bethau cyfreithlawn, megis perthynasau, a mwynderau, yn unig fel y maent yn naturiol, ac yn eu lle priodol, yn ddarostyngedig i Dduw; ond, os mynant fod yn gnawdol, afrëolaidd, neu oruchaf, y mae yn eu troi dros y drws yn y fán.

5. Mae y gwaith yma yn cael ei ddwyn yn mlaen can belled mewn diwygiad yn aml, fel y mae yn cymeryd arno holl ffurf duwioldeb: ond y mae yn ddiffygiol yma hefyd, am y cyd saif â phechodau llywodraethol o anwybodaeth. Nid ydyw yn arwain i gasâu pob pechod fel pechod, nac i ddymuniad am gydffurfiad cyffredinol â Christ; ond gedy bechodau mawrion yn ddi sylw yn aml. Heblaw hyny, nid ydyw y diwygiad yma ar y fuchedd yn gyffredinol, yn aml, ac yn cyrhaedd pob rhyw bechodau adnabyddus, oddieithr dros dymhor, tra mae yr enaid yn erlyn ar ol hunan-gyfiawnder yn ddyfal. Pan laeso effeithiau argraffiadau cyntaf, myn y chwant ryw ffordd neillduol i ymdori allan. Yn mhellach; mae ymarweddiad y cyfryw rai yn sier o fod yn wywedig a nychlyd:—mae oerfelgarwch, cariad at y byd, a diogelwch cnawdol, yn ennill tir arnynt beunydd. Am hyny, er y dichon iddynt trwy ymattaliad oddiwrth lygredigaethau amlwg, fod heb ymollwng dan eu har-

glwyddiaeth yn hollawl, nid ydynt yn ddim amgen nac ysgerbydau yn eu hymddiddan a'u rhodiad crefyddol; bydolion sychion, di nodd, a difudd; ond lle y mae enaid wedi ei ddoniaw â gras oddifewn, mae mewn cyflwr o gynnydd paraus. Y cyfryw un a â rhagddo o nerth i nerth, o ras i ras, o ogoniant i ogoniant, ac a fydd yn dirf ac iraidd yn ei henaint. Nyni a allwn ddysgu trwy y pethau hyn, i wahaniaethu rhwng y gwaith rhag-barottoawl a grybwyllwyd, a gwir ddychweliad cadwedigol at Dduw.

PEN. III.

Llygredigaeth y meddwl trwy bechod.

Yr ydwyf yn gobeithio ein bod wedi agor y ffordd yn amlwg i ystyriaeth ddyledus o waith mawr yr Ysbryd mewn ail enedigaeth; trwy yr hyn y mae efe yn ffurfio aelodau corff dirgeledig Crist, ac yn parottoi meini bywiol er adeiladaeth teml, yn yr hon y preswylia y Duw byw.

Mae dau fath o ddynion, o ran eu cyflwr rhyngddynt a Duw, yr hyn a gynnwysa bawb sydd yn y byd, canys y mae holl ddynolryw, naill ai wedi eu hail eni, neu heb eu hail eni. Drachefn, y mae yn eglur fod holl ddynolryw yn cael eu geni mewn cyflwr diadgenhedledig. Tystiolaethir hyn mor bennodol gan yr Arglwydd Iesu, (Ioan 3. 3, &c.) fel na's gellir ei wadu. Yn awr, gan mai gwaredigaeth dynion o'r cyflwr hwn yw ail enedigaeth, ni's gallwn ddirnad yn mha beth y mae yn gynnwysedig, heb olrhain y cyflwr o'r hwn y mae yn ein gwaredu; am hyny, nyni a ymholaethwn ar hyn, gan chwilio i mewn i ansawdd natur gwympiedig, wedi colli gras Duw, yr hwn oedd ynddi ar y dechreu.

Wrth ddarlunio natur lygredig dyn, y mae yr Ysgrythyrau yn ymdrin yn benaf â'r tri pheth canlynol:—(1.) Llygredigaeth y meddwl; yr hyn a eilw yn Dywyllwch, a Dallineb. (2.) Llygredigaeth yr ewyllys a'r serchiadau, yr hwn

a ddarlunir trwy wendid, neu analluogrwydd, a chyndyn-rwydd. (3.) Wrth yr enw cyffredinol o Farwolaeth, yr hyn a gynnwysa ddarluniad o gyflwr yr holl enaid.

Mae pob dyn wrth natur mewn cyflwr o dywyllwch a dallineb, gyda golwg ar Dduw, a phethau ysbrydol. Dichon fod dynion mewn pethau eraill yn ddoethion, dysgedig, a medrus; ond mewn pethau ysbrydol, y maent yn dywyll, yn ddeillion, ac anwybodus. Mae yn wir fod hyn yn beth na's gall y byd oddef clywed son am dano. Meddylia y byd mai rhyw ddyfais o eiddo dynion gweiniaid yw hyn, er duo rhai doethach na hwy eu hunain. Ar y cyfryw achlysur y gofynai y Phariseaid yn wawdus i'r Arglwydd ei hunan, "A ydym ninnau hefyd yn ddeillion?" Ond efe a'u hysbysai, na byddai i'w ymhoniad o wybodaeth, namyn ychwanegu eu heuogrwydd; ac, er eu holl ymffrost, na chlywsent hwy lais Duw un amser, ac na's gwelsent ei wedd ef.

Mae rhai yn dra hoff o siarad llawer am gryfder ein galluoedd meddyliol, fel pe na buasent wedi gwaelu mewn un modd; fel pe byddai yr holl anfantais berthynol i'n natur trwy ddyfodiad pechod i fewn, yn gynnwysedig yn annhrefn ein serchiadau,—y rhai ydynt yn barod i wrthryfela yn erbyn goleuni pur y meddwl; ond nid yw yn rhyw orchwyl anhawdd profi llwgr meddyliau dynion wrth natur, a'u hanalluogrwydd i ddirnad pethau ysbrydol, yn y fath fodd, fel na allai y balchaf o honynt ddychwelyd atteb sylweddol i'r prawf; ac yn hyn, nid ydym yn dadleu dros ddim ond athrawiaeth hysbys yr hen Eglwys, fel y'i cynnwysir yn ysgrifeniadau y tadau dysgedicaf; a phenderfyniadau cynghorau yn erbyn y Morganiaid, y rhai a adnewyddir drachefn yn ein plith ni, gan fath o Arminiaid Sosiniaidd.

I'r perwyl yma, gallwn ystyried tystiolaethau yr Ysgrythyr yn gyntaf:—"Y bobl oeddynt yn eistedd mewn tywyllwch, a welsant oleuni mawr, ac i'r rhai a eisteddent yn nro a chysgod angau, y cyfododd goleuni iddynt." Math. 4. 16. Cyn i oleuni yr efengyl dywynu arnynt, yr

oeddynt yn eistedd mewn tywyllwch; neu yn byw dan ei awdurdod;—ac yn yr unrhyw ystyr, pan oedd Crist yn pregethu yr Efengyl, yr oedd y goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch; a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred, neu nid oedd yn rhoddi lle i oleuni y Gwirionedd; Ioan 1. 5. Y commissiwn a roddes efe i Paul pan anfonodd efe ef i bregethu yr Efengyl, oedd, I agoryd llygaid dynion, ac i'w troi o dywyllwch i oleuni, Act. 26. 18. Ac felly y llefarai yr apostol wrth yr Ephesiaid yn pen. 5. 8. "Canys yr oeddych chwi gynt yn dywyllwch; ond yr awrhon goleuni ydych yn yr Arglwydd;" ac wrth y Colossiaid drachefn, yn pen. 1. 13:—"Yr hwn a'n gwaredodd ni allan o feddiant y tywyllwch;" megis hefyd y dywed yr apostol Pedr, yn ei Epistol cyntaf, pen. 2. 9:—"Yr hwn a'ch galwodd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef." Ac y mae yr apostol Paul y n cyffelybu tywyllwch y cyflwr diadgenhediedig yma i'r tywyllwch oedd yn y dechreu cyn creu goleuni, pan oedd 'tywyllwch ar wyneb y dyfnder,' Gen. 1. 2. Nid oedd un creädur yn meddu y gynneddf o olwg; yr oedd tywyllwch yn sylweddol ac o angenrheidrwydd yn mhob peth; ac nid oedd goleuni i weled dim wrtho; ond yr oedd pob peth, mewn ystyr wrthddrychawl, wedi ei rwymo mewn tywyllwch. Pan oedd anian yn y cyflwr yma, rhyngodd bodd i Dduw, trwy weithred o'i hollalluawgrwydd, greu goleuni. "Duw a ddywedodd, Bydded goleuni,—a goleuni a fu:"—ac felly y mae yn y greedigaeth newydd; "Duw, yr hwn a orchymynodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch, yw yr hwn a lewyrchodd yn ein calonnau, i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist." 2 Cor. 4. 6. Y mae tywyllwch ysbrydol ar bob dyn, hyd oni byddo i Dduw trwy effeithioldeb yr Ysbryd, lewyrchu iddynt, neu greu goleuni ynddynt.

Er egluräad, mae yn ofynol i ni ystyried, yn gyntaf, Natur y tywyllwch yma; ac yn ail, Ei allu yn meddyliau dynion.

Yn gyntaf. Mae yr ymadrodd *tywyllwch* yn allegawl, ac wedi ei fenthyca oddiwrth dywyllwch naturiol. Gŵyr pawb pa beth yw tywyllwch naturiol; gwyddant mai yr hyn sydd yn lluddias dynion rhag pob rhyw weithrediadau rhëolaidd, a gyfarwyddir gan synïadau allanol, ydyw. Felly y mae dynion pan na's meddant oleuni i weled ynddo, fel yr Aiphtiaid yn yspaid y tri diwrnod tywyllwch a orchuddiai eu tir, yn meddu llygad â'r hwn y gwelir; eto, gan na's meddent oleuni, "ni welai neb eu gilydd, ac ni chododd neb o'i le." Mae tywyllwch hefyd a achlysurir trwy ddallineb dynion, y rhai a anwyd yn ddeillion, neu a wnaed felly trwy ryw ddamwain. Felly y tarawodd yr angel y Sodomiaid â dallineb; a Phaul, y swynwr:—Pa mor ddysglaer bynnag y tywyno yr haul, nid yw namyn un nos baraus gyd a'r dall.

Fel hyn hefyd y mae gyda golwg ar dywyllwch ysbrydol: canys y mae tywyllwch *ar* ddynion, ac y mae tywyllwch *mewn* dynion. Y cyntaf sydd gynnwysedig mewn diffyg o'r moddion hyny, trwy rhai y gallent gael eu goleuo,—gair Duw, a'r pregethiad o honaw.

Gwaith Ysbryd Duw ydyw gwasgaru y tywyllwch yma; a hyn a wna efe trwy anfon gair yr Efengyl i unrhyw le fel y gwelo efe yn dda;—canys nid yw yr efengyl yn cael dyfodfa i unrhyw le, ac ni's attelir hi rhag unrhyw bobl, trwy ddamwain, neu ymdrechiadau dynion yn unig; ond fe'i trefnir yn ol ewyllys penarglwyddiaethol yr Ysbryd. Efe sydd yn cymhwyso ac yn anfon ei phregethwyr; ac yn eu cyfleu i'r llëoedd y mynno efe iddynt ei phregethu, naill ai trwy ddatguddiad pendant, megis cynt,—neu trwy weithrediadau dirgeledig ei ragluniaeth: ac am hyny, dylem ofalu, a gweddïo llawer am baräad o weinyddiad yr Efengyl mewn unrhyw le, a'i lledaeniad i lëoedd eraill; eto ni's dylem fod yn or-bryderus yn ei chylch; canys y mae yr Ysbryd Glan wedi cymeryd y gwaith yma arno ei hunan, ac efe a'i dwg yn mlaen yn ol cyngor Duw, a'i amcanion ef gyda golwg ar freiniaeth Crist yn y byd.

Ond, â'r tywyllwch sydd *mewn* dynion y mae a wnelom

ni yn fwyaf union-gyrchol yn bresenol, yr hyn sydd gynnwysedig yn llwgr naturiol y meddwl, gyda golwg ar bob rhyw bethau ysbrydol; canys nid ymdrinaf âg ef yn ei berthynas â phethau naturiol neu foesol; er y byddai yn hawdd profi o'r Ysgrythyr fod yr holl enaid rhesymol wedi ei wanhau trwy y Cwymp yn ei holl alluoedd; ond gwendid a llwgr y meddwl o barth pethau ysbrydol yn unig a gymerwn ni dan ystyriaeth yma yn bresenol.

O herwydd y tywyllwch hwn, y mae dynion dïadgenedledig yn analluog o honynt eu hunain, trwy eu rheswm a'u deall eu hunain, pa mor goethedig bynnag a fyddo, i ddirnad pethau ysbrydol, pan y'u cyflwyner i'w sylw trwy ddatguddiad allanol, heb nerthol weithrediad o eiddo yr Ysbryd, yn dwyn goleuni newydd cadwedigol iddynt. Cymerer yn ganiattaol fod meddwl rhyw ddyn heb ei niweidio na'i anmharu gan unrhyw ddiffyg personol; tybier ei fod yn rhydd oddiwrth unrhyw ymarferiadau drygionus, a rhagfarnau gwirioneddol; eto yn wyneb y cyhoeddiad o athrawiaeth yr Efengyl, gan feistriaid medrusaf y gynnullcidfa, gyd a'r prawf egluraf o'r gwirionedd, ni's gall o honaw ei hunan eu deall a'u derbyn mewn modd ysbrydol, heb gynnorthwy neillduol yr Ysbryd Glan. Er profi y gwirionedd yma, nyni a allwn ystyried y darluniad a gawn ni o'r meddwl ei hunan, a'i weithrediadau, yn Ephes. 4. 17, 18. "Hyn gan hyny yr wyf yn ei ddywedyd, ac yn ei dystiolaethu yn yr Arglwydd, na rodioch chwi mwyach fel y mae y cenhedloedd eraill yn rhodio yn oferedd eu meddwl; wedi tywyllu eu deall, wedi ymddieithro oddiwrth fuchedd Dduw, trwy ddallineb eu calon." Mae yn wir mai am y Cenhedloedd y soniai yr apostol yma; ond y mae efe yn son am danynt ar gyfrif yr hyn sydd gyffredinol i bob dyn wrth natur; canys nid am eu heilun-addoliaeth, a'u harferion pechadurus yr ymdrinai efe fel y meddyliodd rhai, ond am eu sefyllfa a'u cyflwr gyda golwg ar alluoedd eu hencidiau, yn yr hyn nid oes gwahaniaeth yn naturiol rhwng dynion; ac efe a ddarlunia alluoedd yr enaid trwy dri ymadrodd; y

Meddwl,—y Deall,—a'r Galon; ac y mae y tywyllwch, am yr hwn yr ydym yn son, wedi effeithio ar y pethau hyn oll.

1. Y meddwl. Dyma brif gynneddf yr enaid; yr hon sydd yn edrych allan am wrthddrychau priodol i'r ewyllys a'r serchiadau i'w derbyn a'u cofleidio. Trwy y gynneddf hon yr ydym yn cael yr amgyffredion cyntaf am bob peth, oddiar yr hyn y gwneir casgliadau i'n hymarferiad, ac e briodolir gwagedd i hyn. Maent yn rhodio yn ofered eu meddyliau. Pethau llwyr ddifudd a chwir yn ofered; am hyny y galwai yr apostol eilunod a defodau crefyddol y Cenhedloedd, "pethau ofer, pethau gweigion," &c. Yn awr, y mae yr ofered meddwl yma yn cynnwys ei duedd naturiol at bethau gweigion, a'i ansefydlogrwydd ei hunan. Mae yn ceisio arwain yr enaid i ymorphwyso a boddloni ond ar bethau ofer yn wastadol; megis pechod, y byd, pleser, a balchder y bywyd. Y pethau hyn a elwir "bwriad meddylfryd calon dyn," yr hwn sydd yn unig yn ddrwg bob amser, Gen. 6. 5. Mae yn llunio y rhai hyn, gan eu cynnyrchu yn helaeth, fel y cynnyrcha y ddaiar laswellt, neu fel y tywallt y cwmmwl y defnynau gwlaw ar y ddaiar. Ac yn hyn y mae yn anwadal, canys y mae peth ofer yn anwastad, yn ysgafn, ac ansefydlog, fel y mae y meddwl naturiol: a dygwyddodd hyn iddo, trwy golli o honaw y rhëoleidd-dra sefydlog hwnw, yn mha un y crëwyd ef. Yr oedd y dyn yn feddiannol ar yr un darfelydd, neu allu i ddychymmygu yn ei sefyllfa gynhwynol; ond yr oedd ei holl weithrediadau yn rhëolaidd y pryd hyny. Yr oedd y meddwl yn alluog i'w cyfarwyddo oll at eu dyben priodol. Duw oedd eu prif wrthddrych, a phob peth mewn trefn iddo ef. Ond, yn awr, wedi eu troi ymaith oddiwrtho ef, mae y meddwl ynddynt yn ymdroi mewn pob math o ddyryswch, ac y maent oll yn diweddu mewn siomedigaeth. Offrymant eu gwasanaeth i'r enaid, i ddwyn boddlonrwydd iddo; ac er eu bod yn cael eu gwrthod, y naill ar ol y llall, fel pethau heb fod yn atteb i'r hyn y cymerant arnynt eu bod, eto y maent yn cyfodi yn barhaus, ac yn cadw yr holl en-

aid dan siomedigaethau bythol; a hyn yw yr achos na's gall y meddwl gydsynio âg egwyddorion cyffredinol erefydd, y rhai, er hyny, ni's gall efe eu gwadu.

2. Y deall; dyma y gynneddf sydd yn yr enaid yn tywys, yn dirnad, ac yn barnu; a'r hon sydd yn arwain yr enaid i ymarferiad. Mae yn cyfarwyddo yr enaid yn y dewisiad o'r meddyl-ddrychau hyny a dderbynia gan y meddwl; ac y mae hwn yn fwy llygredig na'r meddwl ei hunan; canys po agosaf i ymarferiad y delo pethau, mwyaf tywyllwy yw grym pechod ynddynt. Dywedir fod hwn heb fod wedi "tywyllu;" a chan ei fod felly, nid yw ond oferedd haeru fod cyfaddasrwydd ynddo i ddirnad pethau ysbrydol heb ei oleuo â goleuni goruwch-naturiol. Mae goleuni dan oruchwyliaeth yr efengyl yn tywynu, neu yn bwrw rhai o'i belydr ei hunan ar y deall tywyll yma: ond nid ydyw yn ei dderbyn ef; Ioan 1. 5.

3. Y Galon. Dyma egwyddor ymarferol gweithrediad, ac felly cynnwysa yr *ewyllys* hefyd. Derbynir goleuni gan y meddwl; cymhwysir ef gan y deall, a defnyddir ef gan y galon. Dywed yr apostol fod "dallineb" ar hon:—nid anwybodaeth yn unig yw hyn: ond gwrthwynebiad cyndyn i oleuni ac argyhoeddiad; a chaledrwydd anmhlygedig, yr hyn sydd yn peri iddi wrthod argrafiadau y gwirionedd dwyfol.

Ar y cyfrifon hyn y dywedir fod dynion yn *dywyllwch*. Gall fod graddau mewn diffyg moesol; ond pan y'i dynodir yn y cynswth o honaw, fel yma, mae yn arwyddocau ei fod yn drwyadl a chyflawn. Nid oes dim mwy o duedd mewn dynion anianol i dderbyn gwybodaeth gadwedigol, nac sydd mewn tywyllwch ei hunan i dderbyn goleuni; ac am hyny, pan fyddo Duw yn gweled yn dda roddi i ni ddawn newydd i ddeall pethau ysbrydol, dywedir ei fod ef yn rhoddi *meddwl* newydd i ni, oblegyd llwyr anallugrwydd ein meddyliau naturiol ni i'w derbyn, 1 Ioan 5. 20. Bostied dynion gwcigion faint a fynont o gryfder eu cyn-

neddfau rhesymol, dyma eu cyflwr wrth natur, yn ol barn yr hwn sydd yn aros yn dragywydd.

Ac ni byddai yn anmrhïodol i ni ymdroi ychydig, ac ystyried yr egluräad ymarferol y mae yr holl fyd yn ei roddi i ni ar y testyn hwn, mewn pethynas i amrywiaeth y meddwl; canys dyma ffynhonell yr holl offeredd â'r hwn y mae y byd wedi ei lenwi. Offeredd yw pob peth a welwn ac a glywwn:—offeredd yw y cyfan sydd yn gwneyd y fath derfysg yn y byd.—Mae rhyw fath o wagedd a ddygir gan ddynion i bethau ydynt yn bod mewn gwirionedd, ac ydynt ynddynt eu hunain yn dda ac yn ddefnyddiol, neu, o leiaf, yn ddiniwed. Ac fel hyn y maent hwy yn llygru eu triglëoedd, eu masnach, eu cyfoeth, eu gallu, &c., maent yn cyssylltu gwageddau annifeiriol â hwynt, yr hyn sydd yn eu gwneuthur yn ffiaidd a dirmygedig. Ond, heblaw hyn, y maent yn dychymygu llawer o bethau, o bwrpas i gynnal a meithrin gwagedd. Y fath ydynt seremonïau coeg-rodresgar mewn ymarferiadau crefyddol, fel yr eiddo Eglwys Rhufain, heb gymhwysder ynddynt i ddim namyn arlwyo gwledd i feddyliau ofer;—ac o'r cyfryw bethau y mae chwareuyddiaethau, dawns-gymmanfäoedd, a'r holl dorf o ddigrifwch cnawdol; y rhai nid ydynt ddim amgen na chwareu-fyrddau i wagedd ac offeredd weithredu arnynt. Mae y meddwl dynol yn hollol ofer, ac yn groth ffrwythlawn cynnyrchion gwrthun. Mae y byd yn bresenol yn agos i chwe mil o flwyddi o oed, ac eto nid yw yn ddim nes i waelod ei ffynnonau o wagedd, nac ydoedd y dydd cyntaf y daeth pechod i'r byd. Mae pechodau newyddion, drwg arferion newyddion, a gwageddau newyddion yn ymddangos yn barhaus; ac nid oes un ffordd i'w hattal, ond trwy ddylanwadau adnewyddol yr Ysbryd Glan. Gall y byd gyfnewid ei ddrychfëydd, ac ymwisgo mewn ymarferiadau newyddion, eto dan lywodraeth gwagedd y bydd efe yn hollawl, tra fyddo offeredd naturiol heb ei feddygyniaethu yn ffynnu yn y meddwl.

Drachefn: y mae yn ddyledswydd arbenig ar bob cred-

adyn i wylio ar y gweddillion o'r oferedd yma ynddynt hwy eu hunain. Nid yw yr anhwyldeb yma yn cael ei lwyr iachau ar unwaith o'n natur; ond y mae gwir Gristionogion yn teimlo ei effeithiau yn llymion ynddynt eu hunain; ac am hyny maent yn eu cael eu hunain yn anseffydlog mewn dyledswyddau sanctaidd. Mor barod yw y meddwl i grwydro ynddynt, ac i groesawi syniadau ffol ac ofer! Mor barod yw i wyro oddiwrth bob rhyw benderfyniad daionus! Y mae hyn oll yn tarddu oddiar weddillion anfeddygyniaethol ein hoferedd naturiol. Effaith alarus arall o hono yw, ei fod yn arwain proffeswyr yr Efengyl i gydffurfiad annghyfreithlawn â'r byd, yn ei ddefodau, ei wisg, a'i ymarweddiad; fel y mae yn anhawdd ar lawer amgylchiad, i wahaniaethu rhyngddynt â'r byd. Yn mhellach; mae yn ei amlygu ei hun mewn dychymygion gweigion, trwy y rhai y mae yn ddirgelaidd, yn "rhagddarbod dros y cnawd;" ac oni roddir attalfa buan ar y rhai hyn, hwy a gynnyddant i'r fath ormodedd fel yr anurddir yr holl enaid yn ddirfawr. Gan hyny, y mae yn ddyledswydd bwysig ar bob Cristion i fod ar wyliadwriaeth ddyfal er gwrthwynebu yr anhwyldeb gwreiddiol hwn.

Yn ail. Wedi ystyried natur y tywyllwch hwn, nyni a allwn fyned rhagom i ystyried yr *effeithiau* a briodolir iddo, o ran tueddfryd y meddwl yn y cyflwr hwn, a'i weithrediadau gyda golwg ar bethau ysbrydol.

1. O ran ei dueddiadau, y mae mor gyndyn a llygredig, fel y mae "wedi ymddieithro oddiwrth fuchedd Duw." Dywedir am ddynion diadgenhedledig, eu bod yn ddieithriaid, a gelynion mewn meddwl, trwy weithredoedd drwg." Oddiwrth Dduw y mae pob bywyd. Y bywyd anianyddol, a feddwn ni fel pob creadur byw arall, sydd oddiwrtho ef; ac yn enwedig y bywyd hwnw a feddwn trwy undeb yr enaid rhesymol a'r corff; ond bywyd neillduedig i Dduw, yw yr hyn a olygir yma. Y bywyd y mae Duw yn ei ofyn genym ni, fel y rhyngom ei fodd ef yma, ac y mwynhaom

ef ar ol hyn:—bywyd o ffydd ac ufudd-dod trwy Iesu Grist: y bywyd hwnw, o'r hwn y mae Duw yn Awdwr; y bywyd hwnw, drwy yr hwn y mae Duw yn byw ynom drwy ei Ysbryd. Y bywyd, i'r hwn y mae yr efengyl yn ddeddf a rhëol; a bywyd, yr hwn y mae ei holl ffrwyth yn sanctciddrwydd, ac ufudd-dod efengylaidd. Bywyd na bydd marw byth: bywyd tragywyddol ydyw.

Mae y meddwl cnawdol wedi ymddieithrio oddiwrth y bywyd yma; nid oes ynddo un duedd atto; ond y mae yn llawn yr holl enaid â chasineb atto; ac y mae hyn yn ymddangos yn ei anmharodrwydd i dderbyn addysg am y pethau a berthynant i'r bywyd hwn. Am hyny y mae dynion yn hwyr-drwm o galon i gredu; yn clywed yn drwm, ac yn anmhen i amgyffred y pethau a glywant. Felly y mae pawb gyda golwg ar yr hyn nid ydynt yn ei garu; ac am hyny hefyd, y maent yn dewis unrhyw fywyd, neu fuchedd, o flaen y fuchedd hon. Y dewisiad cyntaf a wneir gan feddwl anianol, yw bywyd o bechod a phleser cnawdyn hyn y mae yn ymhyfrydu, ac nid ymadawai â hyn byth o'i fodd. Ond, os y'i gorfodir i'w roddi i fynu, gan gystuddiau, neu argyhoeddiadau, yna efe a ddewisa ac a fawryga fuchedd foesol, bywyd yn, trwy, a than y ddeddf; er na lesâ hwn ddim yn y diwedd, mwy na'r llall y'i gorfodwyd i'w adael. Ni's gall ddwyn y meddyliau am y bywyd ysbrydol yma; nac y dychymygion am dano yn drwsgl, y darluniad o honaw yn aneëalladwy, a'r ymarferiad o honaw yn flolineb ffiaidd, neu ofergoel diangenrhaid.

2. Mae yn weddus i ni ystyried gallu y meddwl hefyd, gyda golwg ar bethau ysbrydol: ac mewn gair, nid yw hyn yn ddim oll; canys ni ddichon meddwl dyn anianol, pa faint bynnag a goethor, ac a gynheller arno, dderbyn pethau ysbrydol mewn modd ysbrydol, oddieithr ei adnewyddu gan yr Ysbryd Glan. Mae yr apostol yn tystiolaethu hyn yn eglur, 1 Cor. 2. 14. "Eithr dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw; canys flolineb ydynt ganddo ef; ac ni's gall eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt."

Yr hyn y sonir am dano, *yw y dyn anianol;* ac y mae yr ymadrodd hwn yn cael ei ddefnyddio yn yr Ysgrythyr yn wrth-gyferbyniol i *ysbrydol;* a'r eglurâad a roddai yr apostol Judas ar yr ymadrodd oedd, "heb fod yr Ysbryd ganddynt."—Un yn meddu yr hyn oll a ellir ei gael oddiwrth yr Adda cyntaf, yw y dyn anianol;—wedi ei ddoniaw âg enaid rhesymol. Ceisia rhai haeru, mai y neb a olygir wrth y dyn anianol, yw, dyn wedi ymroddi i bleserau cnawdol, a serchiadau anifeilaidd; heb eu llywodraethu gan gyfarwyddiadau rheswm. Ond y mae yn amlwg fod yr apostol yn dosbarthu holl ddynolryw i anianol ac ysbrydol. Yr hwn nid yw ddyn ysbrydol, pa mor resymol bynnag y meddylio ei fod, neu y myuno i'r byd gredu ei fod, nid yw, namyn dyn anianol. Mae tybied fod rhyw gyflwr canol, yn ddiuystriol i amcan yr holl bregeth yma o eiddo yr apostol. Heblaw hyny, dyma yr enw gorau, ac esmwythaf a roddwyd erioed yn yr Ysgrythyr ar ddynion diadgenhedledig; ac nid oes un rheswm i ni feddwl mai y rhyw waethaf o honynt a ddynodir trwy yr enw. Mae y geiriau yn cynnwys tybiaeth o gynnygiad o ryw bethau i'r dyn anianol yma, a'r pethau hyn ydynt "y pethau sydd o Ysbryd Duw;"—"Doethineb Duw mewn dirgelweh;"—"y pethau a rad roddwyd i ni gan Dduw;"—"meddwl Crist;"—ac "Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio."—Mae yr hyn a gadarnheir am y dyn anianol yn cael ei ddywedyd yn ddiystyg, "Nid yw yn derbyn;"—"ac ni's gall eu gwybod." Gwadir gallu i'w derbyn, ac addefir ewyllys i'w gwrthod, yn yr hacriad yma. Ond, er mwyn rhyddau y cyhuddiad yma oddiwrth wrthddadleuon, sylwer, nad ystyr fythyrenol athrawiaethau, yn unig a olygir. Er esampl, y mae bod Iesu Grist wedi ei groeshoelio yn osodiad y gallai unrhyw ddyn anianol ei ddeall, a chydsynio âg ef, ac y gellid dywedyd ei fod yn ei dderbyn: a gellir dysgu holl athrawiaethau yr Efengyl mewn gosodiadau, y rhai y gallai dyn anianol eu deall eu hystyr; ond gwadir y dichon iddo ef ddeccpin y pethau eu hunain; o'r y mae

gwahaniaeth mawr rhwng bod y meddwl yn derbyn athrawiaethau o ran barn am danynt, a derbyn y pethau a ddysgir ynddynt yn wirioneddol.

Mae yn ofynol er ein derbyniad o bethau ysbrydol yn wirioneddol, ein bod yn eu derbyn yn yr olwg arnynt yn hollol gydffurf â doethineb a sancteiddrwydd Duw. Y rheswm pa ham na dderbyniai dynion Grist croeshoeliedig, fel y'i pregethir yn yr Efengyl, yw am nad ydynt yn gweled cyssondeb yn yr athrawiaeth am dano â phriodoliaethau y Goruchaf; ac ni's gallant ei derbyn hyd oni's gwelant argraffiad o nerth, a doethineb dwyfol ynddi.

Mae yn angenrheidiol hefyd, i ni ganfod cyfaddasrwydd pethau yr Ysbryd i'r dybenion mawrion y'u hamcanwyd iddynt; oddieithr i ni weled hyn yn amlwg, ni's gallwn nam-yn eu barnu yn wendid a ffolineb. Y dybenion hyn ydynt ogoniant Duw, a'n gwaredigaeth ni o gyflwr pechadurus a thruenus, a'n symmudiad i gyflwr o ras a gogoniant; ac oddieithr i ni ganfod eu cyfaddasrwydd i gyrhaedd yr amcanion hyn, ni's gallwn eu derbyn yn gymhwys.

Rhaid i ni sylwi, fod dau fath o gymhwysder, neu allu i dderbyn neu adnabod pethau ysbrydol yn y meddwl dynol. 1. Gallu naturiol, yr hwn sydd gynnwysedig yn nghyfaddasrwydd cynneddfau yr enaid i'w derbyn yn y ffordd y'u cynnygir i ni. Cynnwysir addefiad tybiol o hyn yn holl annogaethau, addewidion, addysgiadau a bygythion yr Efengyl; canys yn ofer y'u cyhoeddid i ni pe na's meddem feddyliau rhesymol i amgyffred eu hystyr a'u pwysfawredd. Nid oes neb yn dadleu fod dynion yn eu dychweliad at Dduw, fel prennau neu feini, heb feddu deall: pe y cyfryw fyddem o ran cynneddfau ein natur, ni byddai yn gweddu i ddoethineb Duw ddefnyddio y moddion a rag-grybwyllwyd, i gwblhau y gwaith hwnw. Haera rhai fod genym allu ynom ein hunain i gwblhau pa beth bynnag a ofynir genym fel dyledswydd. Os wrth y gallu hwn y golygant fod ein meddyliau yn gyfaddas o ran eu galluoedd naturiol, i'r cyfryw orchwylion, e addefir hyny

yn rhwydd ; ond os wrth hyny y golygent hwy y cyfryw allu gweithredgar, ag sydd o honaw ei hunan yn abl i atteb i orchymynion Duw mewn modd prïodol, y maent yn gwadu llygriad ein natur, ac yn gwneuthur gras Crist yn ofer. 2. Y mae, neu e all fod yn y meddwl allu i ddirnad pethau ysbrydol, yr hwn y dichon iddo ei roddi mewn gweithrediad yn y fan pan y'u cynnygier i'w sylw ; yr un modd ac y gall gwr sydd yn meddu llygaid i weled, amgyffred gwrthddrychau gweledig pan y'u doder ger ei fron. Rhaid i'r gallu hwn fod yn ysbrydol a goruwchnaturiol.

Dyru yr apostol ddau reswm dros yr haeriad a eglurwyd uchod : y cyntaf, wedi ei gymeryd oddiwrth natur y pethau eu hunain gyda golwg ar y meddwl, yw, mai ffolineb ydynt. Ynddynt eu hunain, Doethineb Duw ydynt ; doethineb Duw mewn dirgelwch ; neu gyflawnder o ddoethineb ddwfn a rhyfeddol. Ond i'r dyn anianol, ffolineb ydynt ; nid yn unig er eu bod yn ddoethineb Duw ; ond am mai doethineb Duw ydynt ; canys y mae synied y cnawd yn elyniaeth yn erbyn Duw. Yr hyn sydd wan ac anmherthynasol, neu annghyfaddas i gyrhaedd y dyben mewn golwg, a gyfrifir yn ffolineb ; neu yr hyn sydd yn annymunol o'i gydmaru â phethau craill ; neu yn annewisadwy ar yr ammodau y'i cynnygid : ac y mae pethau ysbrydol yn ymddangos yn ffolineb i'r dyn anianol ar un neu yr oll o'r pethau uchod : yr hyn a eglurwn drwy rai anghreifftiau.

Eu bod felly i'r hen philosophyddion dysgedig gynt, sydd amlwg oddiwrth dystiolaeth yr apostol, 1 Cor. 1. 22—28 ; ac oddiwrth hanes oesoedd cyntaf yr Eglwys. Pe buasai pethau ysbrydol wedi eu cyfaddasu i feddyliau dynion anianol, yna buasai y rhai oeddynt wedi diwyllio eu meddyliau orau, ac oeddynt wedi eu dyrchafu i'r ymarferiad uchaf o'u galluoedd rhesymol yn cofleidio yr efengyl yn llawer rhwyddach [illegible] a'r anllythyrenog ; canys yr ydym yn gweled [illegible] mai y doeth, y dysgedig,

a'r dysgedig, sydd yn cofleidio gwelliadau gwerthfawr mewn pethau naturiol gyntaf; ond yn hollol i'r gwrthwyneb y mae yn hyn.—Dynion doethion, synhwyrol, a dysgedig y byd a gyfodasant y gwrthwynebiad mwyaf i bethau ysbrydol; a hyny yn ol eu haddefiad eu hunain, am eu bod yn ffolineb yn eu golwg hwy; a hwy a'u gwrthwynebent gyda gwarth a dirmyg i'r eithaf, fel y meddylient y teilyngai ffol-bethau gael eu trin.

Mae llawer yn gwrthod prif ddirgeledigaethau yr Efengyl fel ffol bethau, am eu bod yn meddwl mai pethau gau ydynt; er nad oes ganddynt un rheswm gwirioneddol i'w cyfrif yn dywyllodrus am eu bod yn meddwl mai ffolineb ydynt; ac y maent yn haeru eu bod yn dwyllodrus, yn unig fel cocid dros eu barnu yn ffolineb. Pa beth bynnag a berthyna i ymgnawdoliaeth Mab Duw, yr iawn a wnaeth efe dros bechod, cyfrifiad o'i gyflawnder ef, a gweithrediadau effeithiol ei ras ef, fe'u gwrthodir gan lawer am eu bod yn eu barnu yn dwyllodrus, a'r hyn a'u tuedda i benderfynu hyny yw, am eu bod yn eu cyfrif yn ffolineb, heb gyfaddasrwydd ynddynt i'w hegwyddorion rhesymol hwy.

Mae llaweroedd yn eu gwawdio yn ddi gel, ac yn eu diystyru fel y syniadau gwaradwyddusaf yn y byd. A phroffwydwyd am y cyfryw ymddygiad yn yr amser gynt, megis y crybwylla yr apostol, 2 Pedr 3. 3, 4. Mae y byd yn heigio o watwarwyr pethau ysbrydol, fel pethau annghyfaddas i'w derbyn gan ysbrydoedd rhesymol, am eu bod mor ffol; ond rhagfyneg wyd y pethau hyn, fel na'n trallodid, ac na'n siglid yn ein meddyliau: ie, y mae Atheistiaeth rhai yn foddion o gadarnäad ffydd eraill.

Nid yw nemmawr gwell gyda rhai, na's beiddiant wrthwynebu yr Efengyl yn amlwg, gan eu bod yn proffesu cred ac ufudd-dod iddi; ac y maent yn tra dyrchafu cymmaint o honi ag sydd yn gynnwysedig mewn cadarnäad a gwelliant ar egwyddorion moesol deddf natur; dangosant mor gyson â rheswm ydynt; a pha ymadroddion cyson â hwy a ganfyddir yn ngwaith yr hen athronyddion; ond

am y pethau hyny a berthynant yn fwy union-gyrchol i'r Efengyl, ac a amlygir i ni trwy ddatguddiad goruwchnaturiol yn unig, megis swyddau Crist, gweinidogaeth yr Ysbryd, yn nghyd a'r grasau a'r dyledswyddau hyny y rhai ydynt yn drwyadl efengylaidd,—ffolineb yw y pethau hyn yn eu golwg hwy, a'u pregethu nid yw ddim amgen yn eu cyfrif hwy na ffregawd ragrithiawl a ffol; ac y mae rhai, nad ânt càn belled a'r mynach hwnw yn Rhufain, yr hwn a ddywedodd fod yr apostol Paul wedi syrthio i eithafion niweidiol yn y pethau hyn, a feiddiant er hyny gyhuddo ei ysgrifenadau ef o fod yn dywyll ac anhawdd eu deall, yn unig am ei fod ef yn ymdrin â'r dirgeledigaethau ysbrydol hyn.

Mae y canlyniad o weinidogaeth yr Efengyl yn profi fod ei phethau ysbrydol hi yn ffolineb yn nghyfrif y rhan fwyaf; canys fel y cyfryw y maent yn eu gwrthod. Tybier fod gwr da ei gymeriad, yn myned at ei gymmydogion, a chyda difrifoldeb mawr yn eu sicrâu, y gallent trwy ryw drefn benmodol, ychwanegu eu golud bydol yn fawr, hyd oni ragorent mewn cyfoeth ar frenhinoedd; oni's dylyneut ei gynghor ef dan y cyfryw amgylchiadau, rhaid mai yr achos o hyny a fyddai eu bod yn barnu y moddion a ddarlunid yn llwyr annghyfaddas i'r dyben a gymmygid i ymestyn atto drwyddo; hyny yw, eu bod yn ffolineb:—ac fel hyn y mae pethau, gyda golwg ar ddirgeledigaethau yr Efengyl. Hysbysir i ddynion mor fawrion a gogoneddus ydynt, a'r fath effeithiau gwynfydedig a ddyiyna y derbyniad o honynt;—harddwch ac ardderchawgrwydd Crist; y rhagorfraint annrhacthadwy werthfawr o fabwysiad; yr addewidion mawr iawn a gwerthfawr; gogoniant y byd a ddaw; a'r angenrheidrwydd am sancteiddrwydd yn nghyd a'i harddwch, a bregethir iddynt, ac a wesgir at eu hystyriaethau; eto, wedi y cwbl, nyni a welwn càn lleied sydd yn ymroddi i'w derbyn; neu, o leiaf, sydd yn eu derbyn yn wirioneddol; a'r rheswm am hyny, yw, am fod y pethau hyn yn ffolineb i'w meddyliau tywyll hwy; pa beth bynnag a hacrant hwy i'r gwrthwyneb.

Fel y mae y crybwyllion uchod yn dangos pa ham na's derbynia y dyn anianol bethau yr Ysbryd, felly y mae yr apostol yn ychwanegu rheswm pa ham na's gall; a hyn a gymerir oddiwrth y dull yn yr hwn yn unig y gellir eu derbyn i fuddioldeb, a'r hyn ni's gall efe ei gyrhaeddyd;—"yn ysbrydol y bernir hwynt." Mae y dyn anianol, trwy oleuni naturiol yn dirnad pethau naturiol; adwaenir pethau dyn gan ysbryd dyn;—a'r dyn ysbrydol trwy oleuni ysbrydol, sydd yn amgyffred pethau ysbrydol; canys nid edwyn neb bethau Duw, ond Ysbryd Duw, a'r neb yr eglurodd yr Ysbryd hwynt iddo. Mae yr apostol yn haeru na's medd y dyn anianol y gallu hwn, a hyny a brofir ganddo ef, (1.) Am mai gwaith yr Ysbryd yw doniaw dynion â'r gallu yma; yr hyn a fyddai yn ddïangenrhaid pe y'i meddent wrth natur, ac yn (2.) Mae y goleuni ei hunan, trwy yr hwn yn unig y gellir adnabod pethau ysbrydol, yn cael ei grëu ynom trwy nerth hollalluog, 2 Cor. 4. 6.

Oddiwrth y rhag-sylwadau uchod, mae yn amlwg fod yn y dyn anianol, anallu naturiol a moesol, trwy yr hyn ni's gall efe dderbyn pethau Duw; mae y cyntaf yn effeithio yn union-gyrchol ar y meddwl, a'r olaf ar yr ewyllys a'r serchiadau; trwy y cyntaf, ni's gall efe eu derbyn o ddiffyg goleuni; a thrwy yr olaf, ni's myn, am eu bod yn ffolineb. (1.) Mae anallu naturiol yn y dyn, trwy lygriad galluoedd y meddwl, trwy yr hyn y mae y dyn anianol yn hollawl analluawg i ddirnad pethau ysbrydol mewn modd cadwedigol, heb adnewyddiad neillduol yr Ysbryd Glan;—ac eto nid oes un esgus dros y pechod o'u gwrthod; canys er fod hyn mewn rhan yn gosbedigaeth, ac yn gwneyd i fynu ran o'n trueni, ein pechod yw hefyd;—trueni ein personau, a phechod ein naturiaethau ydyw; ac ni's gall un dyn ddadleu ei bechod fel esgus am unrhyw bechod arall.—Mae yr anallu yma yn naturiol, am ei fod yn gynnwysedig mewn diffyg o alluoedd yn y meddwl dynol ar y dechreu; ac y mae hyn yn gyson a'r hyn a ddywedasom o'r blaen am allu naturiol ein cynneddfau; yr anallu hwn yw eu difuddiad o hyn gyda golwg ar bethau ysbrydol.

(2.) Y mae anallu moesol hefyd, o herwydd yr hyn ni's mŷn y meddwl byth dderbyn pethau ysbrydol, ond y'u gwrthoda beunydd; a hyny o herwydd llygredigaethau amrywiol. a rhagfarnau, y rhai ydynt wedi gwreiddio yn ddyfnion ynddynt, ac yn peri iddynt gyfrif pethau ysbrydol yn ffolineb. O herwydd pa ham, ni bydd i un dyn gael ei gollfarnu yn y dydd diweddaf yn unig ar gyfrif ei anallu naturiol; ond bydd i bawb y pregethwyd yr Efengyl iddynt, gael eu hargyhoeddi o fod eu meddyliau yn ymroddgar yn y gwrthodiad o honi o gariad at hunan, pechod, a'r byd. Ac felly y dywedai ein Iachawdwr wrth yr Iuddewon, "Ni ddichon neb ddyfod attaf fi, oddieithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynnu, ef:" y fath yw eu hanallu naturiol, fel na's gallant; ac eto mewn man arall, efe a ddywaid wrthynt, "Ni fynwch chwi ddyfod attaf fi fel y caffoch fywyd!" Nid gallu neu anallu eu meddyliau oedd y peth dan sylw yma, ond cyndynrwydd eu hewyllysiau a'u serchiadau, am yr hyn y bernir dynion yn y dydd diweddaf; "A hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni: canys yr oedd eu gweithredoedd hwy yn ddrwg." O ganlyniad, gan fod yr ewyllys a'r serchiadau yn fwy llygredig na'r deall, nid oes neb mewn gwirionedd yn gosod ei feddwl ar waith i dderbyn pethau Duw byd eithaf ei allu. Ni's gwna dyn y defnydd priodol o'i alluoedd naturiol i gyflawni ei ddyledswydd tuag at Dduw.

Mae yn gweddu i ni eto ystyried gallu ac effeithiolrwydd y tywyllwch hwn i gadw y dyn anianol yn llawn gelyniaeth yn wastadol at Dduw a'r Efengyl: ac i'r perwyl yma rhaid i ni ystyried rhai tystiolaethau Ysgrythyrol.

Dywedir yn Col. 1. 13, fel hyn, "Yr hwn a'n gwaredodd ni allan o feddiant y tywyllwch:" mae y gair *ezosias* yn arwyddocáu awdurdod, neu lywodraeth;—yr hyn sydd yn dwyn y rheolaeth. Am hyny y gelwir pechodau dynion yn "weithredoedd y tywyllwch;" nid yn unig y cyfryw ag a gyflawnir yn gyffredin yn y tywyllwch; ond y cyfryw

ag y mae tywyllwch meddyliau dynion yn eu tueddu i'w cyflawni, ac yn eu cynnyrchu yn naturiol. Gelwir hyn mewn man arall, "meddiant Satan;" canys nid tywyllwch tufewnol y meddwl yn unig a olygir, ond yr holl gyfluwr o dywyllwch, yn nghyd a'r holl gefnogaeth a roddir iddo gan Satan a'r byd; eto crynhoir y cwbl i'r tywyllwch tufewnol yma; canys ni fedd Satan un gallu nac awdurdod ar ddynion ond trwy y tywyllwch hwnw; trwy hyn yn unig y mae yn gweithredu yn effeithiol yn mhlant anufuddod; trwy hyn y mae efe yn eu hudo a'u llygru; ac ni's medda un ffordd i galedu eu meddyliau yn erbyn yr Efengyl, ond trwy gynnyddu y tywyllwch hwn ynddynt. Gellir gweled pcth o allu y tywyllwch hwn yn yr anghreifftiau canlynol:—

1. Mae yn llanw y meddwl â gelyniaeth yn erbyn Duw a'i holl bethau. "A chwithau oeddych elynion mewn meddwl." Col. 1. 21. "Syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw; canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw; oblegid ni's gall chwaith." Rhuf. 8. 7. Y mae Duw ynddo ei hunan yn anfeidrol dda a dymunol; "Canys pa faint yw ei ddaioni ef, a pha faint ei degwch ef!" Nid oes dim ynddo ef, ond yr hyn sydd gyfaddas i gyffroi a diwallu serchiadau yr enaid. Efe yw unig hyfrydwch, gorphwysdra, a digonolrwydd y rhai a'i badwaenant ef. Pa fodd gan hyny y mae meddyliau dynion yn cael eu llanw â gelyniaeth yn ei erbyn ef?—Mae gelyniaeth yn erbyn yr hwn sydd berffaith, ac anfeidrol ddaioni, yn ymddangos yn anughysen â serchiadau dynol: ond y mae yn tarddu oddiar y tywyllwch yma, yr hyn yw llygredigaeth ein natur ni.

Mae yr elyniaeth yma yn sicr o weithredu, naill ai yn dufewnol, neu yn allanol, hyd yn nod ar y rhai a eisteddant dan bregethiad y gair, hyd oni ennillir hwy yn effeithiol gan orchfygol ras.—A pha mor gywir bynnag y gall eu bod wedi eu dysgu yn athrawiaethol mewn syniadau am Dduw, eto yn y cynhwysiad o honynt attynt eu hunain,

y maent "bob amser yn cyfeiliorni yn eu calonau." Mae yr holl syniadau ymarferol sydd ganddynt am Dduw, yn tueddu i bellâu eu calonau oddiwrtho, naill a'i mewn diystyrwch arno, neu trwy efn anmrhrïodol. Maent yn tybied fod Duw fel hwy eu hunain, neu, o leiaf, y bydd iddo eu cymeradwyo hwynt, er byw o honym yn eu pechodau! Yn awr y mae hyn yn ffrwyth yr elyniaeth uchaf yn erbyn Duw, er ei wisgo à rhith y synied uchelaf am ei ddaioni ef: canys, megis mai camwedd erchyll eilun-addolwyr yw, eu bod yn darlunio y Duwdod ar lun dynion a bwystfilod, —felly y mae yn bechod mwy ysgeler, meddwl am dano ef ei fod mor debyg i ddynion anifeiliaid, ag y cymeradwyai efe hwynt yn eu pechodau: a lle na byddo y cyfeiliornad yma yn gwreiddio, bydd i'r tywyllwch yma yn meddyliau dynion ar y llaw arall, ddarlunio Duw megis oll yn dân, ac yn llidiawgrwydd aunghymmodlawn, ac anhydrin.

Trachefn: mae y tywyllwch yma yn llanw y meddwl â gelyniaeth yn erbyn holl ffyrdd Duw; canys fel y mae y meddwl anianol, neu "synied y cnawd" yn elyniaeth yn erbyn Duw, felly, "nid yw ddarostyngedig i'w ddeddf ef;" y mae yn casâu yr holl ffordd a'r gwaith o fyw iddo ef trwy y dallineb yma; ac yn cyfrif holl rëol a mesur y bywyd hwn yn ffolineb.

2. Mae y tywyllwch hwn yn llanw y meddwl âg ewyllysiau neu chwantau ydynt yn union-gyrchol yn ngwrthwyneb i ewyllys Duw. Sonir am THELEMATA DINAGION ewyllysiau, neu chwantau y meddwl, Ephes. 2. 3; hyny yw, ei dueddiadau cyffredinol at wrthddrychau cnawdol; synied pethau daiarol y mae, ac am hyn y dywedir fod y meddwl yn "gnawdol." Nid yw yn blasu ar, nac yn cymeradwyo dim ond sydd gnawdol ac ofer. Mae holl ddychymygion y meddwl ar waith yn wastadol, yn arlwy gwrthddrychau anianol i'r archwaeth gnawdol wageddol yma; ac am hyny y mae holl fwriad meddylfryd y galon yn unig yn ddrygionus bob amser. Dyma ansawdd meddwl tyw-

yll; mae ei ewyllys cnawdol yn annog meddyliau ofer, "am bethau y cnawd y maent yn syniaw;" ac y mae gogwydd neillduol y meddylfryd yn sicr o gyfatteb i oruchafiaeth unrhyw chwant neillduol yn y galon neu y meddwl.

3. Mae yn llanw y meddwl â rhagfarn yn erbyn pethau ysbrydol, megis y'u darlunir yn yr efengyl, ac nid oes ganddo na goleuni na gallu i'w ryddhau ei hunan o'r rhagfarnau hyn.—Ac nid rhan fechan o'i lwgr sydd yn gynnwysedig yn ei barodrwydd i'w cofleidio, a'i ymlyniad cyndyn wrthynt. Gellir crybwyll rhai o'r rhagfarnau hyn.

(1.) Mae y meddwl oddiar y tywyllwch sydd ynddo, yn golygu pethau ysbrydol yn annghysson â gwir foddlonrwydd, a digonolrwydd meddwl. Dyma bethau y mae pob dyn yn eu dyfal geisio trwy fil o ffyrdd amrywiol; ac y mae y rhai hyn yn casglu oddiar y profion bychain o bleser a gawsant eisioes, eu bod ar y ffordd o ddedwyddwch; am ba achos ni fynant er dim ymadael a'r cychwyniadau gobeithiol hyn.—"Yn maint dy ffordd yr ymflinaist; ac ni ddywedaist, Nid oes obaith: cefaist fywyd dy law; am hyny ni chlefychaist," Esa. 57. 10. Maent weithiau yn barod i lesmeirio wrth erlyn eu chwantau, gan y siomedigaethau y maent yn ei gael ynddynt, neu y drygau ydynt yn eu dilyn; ond ni roddant yr erlyniaeth i fynu; ni ddywedant, "Nid oes obaith;" a'r rheswm yw, "Cawsant fywyd eu llaw," mae rhyw beth neu gilydd yn dyfod i fewn yn feunyddiol oddiwrth eu galwedigaethau, eu cyfeillion, neu eu dysgwyliadau, sydd yn cadw eu gobaith yn fyw, ac yn eu gwneyd yn anewyllysgar i gyfnewid eu cyflwr presenol. Nid ydynt yn ei gael y goreu; eto nid ydynt yn meddwl y gall fod ei well. Pe gallent hwy fwynhau mwy o ddigrifwch, golud, iechyd, ac anrhydedd; gwrthddrychau cyfaddasach i'w dymuniadau anianol, yna, meddyliant y byddai yn well nac ydyw; ond ni's gallant feddwl yn barchus am ddim a wahaniactha oddi wrth y pethau hyn yn ei holl ryw. Yn wyneb yr ansawdd meddwl yma y mae bendithion ysbrydol yr Efengyl yn cael eu cynnyg.

Ar yr olwg gyntaf y maent yn barnu na's bydd i'r pethau hyn gefnogi eu pleserau cnawdol hwy; ac y maent yn barnu yn gywir; ni's cymeradwyant, ac ni's cynnorthwyant chwantau dynion. Ac nid yw yn anhawdd iddynt weled, os unwaith y caiff awdurdod yr Efengyl ddyfodfa i'r enaid, y bydd iddi groeshoelio eu serchiadau llygredig; canys hyny yw ei hamcan addefedig. Mae yn gadael i ddynion fwynhau eu cyfoeth a'u henw da os bydd wedi ei ennill yn gyfreithlawn, oddieithr ar ryw amgylchiadau anarferol; ond y mae yn gwahardd y camddefnyddiad o honynt, ac yn torri y cynghair sydd rhwng y meddwl a'r pethau hyn. Ni's gwiw edrych arnynt mwyach fel y daioni pennaf, neu fel defnydd digonolrwydd i'r meddwl; ond rhaid iddynt roddi lle i bethau ysbrydol a thragywyddol. Yn awr, y mae hyn yn ddirgelaidd yn pellâu y meddwl anianol, ac y mae rhagfarn yn cael ei gyfodi yn erbyn yr Efengyl, fel peth yn bygwth amddifadu yr enaid o'i holl fwynderau presenol; canys ni's gall ddirnad ardderchawgrwydd pethau nefol, gan rym y tywyllwch hwn, ac o ganlyniad, feddu cariad prïodol tuag attynt. A thrwy hyn y mae y rhagfarn yma yn dyfod yn anorchfygol; nid ydynt yn derbyn, ni's gallant, ac ni's mynant dderbyn y pethau hyny ydynt yn hollawl annghyson a'u golygiadau cnawdol.

(2.) Mae y meddwl trwy y tywyllwch hwn wedi ei lanw â rhagfarn yn erbyn dirgelwch yr Efengyl. Megis na's gall dynion anianol dderbyn, felly hefyd y maent yn dirmygu doethineb Duw ynddi, ac yn edrych ar ei hathrawiaethau fel syniadau gwcigion ac annealladwy;—a hwn yw y rhagfarn trwy yr hwn y mae y tywyllwch yma yn ffynnu yn meddyliau dynion ydynt ar bob golygiad arall yn ddynion gwybodus a dysgedig; fel hyn y gwnaeth yn mhob oes, ac nid mewn un oes yn fwy na'r bresenol. Mae doethineb ysbrydol Duw yn yr Efengyl yn ymddangos i'r dynion doethaf yn y byd, tra y maent dan lywodraeth y tywyllwch hwn, yn benboethlyd, dychymygol, a ffolaidd.

Profi hyn yw amcan yr apostol, 1 Cor. pen. 1. a 2; canys y mae efe yn honi yn gadarn mai doethineb Duw mewn dirgelwch yw athrawiaeth yr Efengyl; na's gellir dirnad y doethineb yma gan ddoethion a dysgedigion y byd hwn, y rhai ni's derbyniasant Ysbryd Crist; ac, o ganlyniad, fod ei phethau yn wendid a ffolineb ganddynt hwy; ac y mae yr hyn sydd ffol yn ddirmygedig; ïe, ffolineb yw unig wrthddrych gwawd; ac am hyny y gwelwn fod rhai yn diystyru purdeb, symledd, a holl ddirgelwch yr Efengyl gyd a'r dirmyg mwyaf, er preffesu eu bod yn ei chredu;—ond gellir gwneyd sylw neillduol ar rai pethau er egluro natur y rhagfarn yma.

Mae dau fath o bethau yn cael eu datguddio yn yr Efengyl. Yn gyntaf, Y pethau ydynt eiddi ei hunan yn unig, y rhai ni's gellir canfod eu hol yn neddf na goleuni natur. O'r rhyw yma y mae yr holl bethau am gariad Duw yn Nghrist Iesu; dirgelwch ei gnawdoliaeth a'i gyfryngdod ef; goruchwyliaeth yr Ysbryd; ein mabwysiad, cyfiawnäad, a sancteiddäad; mewn gair, pob peth a berthyn i bwrcas a chymhwysiad iachawdwriaeth. Y pethau hyn ydynt yn perthynu i'r efengyl mewn modd arbenig.

Y mae pethau eraill hefyd yn yr Efengyl, y rhai y mae eu sail yn neddf a goleuni natur; megis pob rhyw ddyledswyddau moesol. Mae y pethau hyn yn adnabyddus mewn rhan trwy oleuni natur; mae dynion yn alluog i ffurfio barn am eu gweithredoedd, pa un fyddont a'i da ynte drwg, cyni'r Efengyl gael ei phregethu iddynt; ond y mae y gair yn ein cyfarwyddo i iawn gyflawniad o'n dyledswydd, oddiar iawn egwyddor, wrth iawn rëol, ac i iawn ddyben. A thrwy y gair hefyd y mae anian newydd yn cael ei rhoddi ynddynt, a'u dyledswyddau moesol yn cael eu troi yn ufudd-dod efengylaidd.

O ganlyniad, dyma yw trefn Efengyl; yn gyntaf oll, y mae yn datguddio ei dirgeledigaethau ei hunan yn sylfaen ffydd ac ufudd-dod; y mae yn eu gosod yn y meddwl, a thrwy hyny yn cyffurfio yr holl enaid â hwy; ac yna y

mae yn impio pob rhyw ddyledswydd o ufudd-dod moesol ar y cyfl yma o ffydd yn Nghrist. Dyma y drefn a ddylynai yr apostol Paul yn ei holl epistolau; efe a ddarluniai ddirgeledigaethau ffydd, y rhai ydynt yn hanfodol i'r Efengyl, ac yna disgynai at y dyledswyddau moesol hyny a rëolir ganddynt hwy.

Ond, y mae y rhagfarn y soniwn ni am dano, yn dymchwelyd trefn y pethau hyn. Mae y rhai ydynt dan ei ddylanwad, yn sefydlu eu meddyliau yn mlaenaf ac yn bennaf ar y pethau hyny ydynt a'u sail yn ngoleuni natur. Or rhai hyn y maent yn gwneuthur y sylfaen, tra na's caniattâ yr Efengyl iddynt fod namyn yr oruwch adeiladaeth angenrheidiol ar y sylfaen; a chan henderfynu rhoddi y blaenoriaeth i ddyledswyddau moesol, maent yn ymddwyn yn ddirmygus tuag at athrawiaethau arbenig yr Efengyl, fel pe na byddent o bwys mewn cydmariaeth; ac er mwyn gochel y drafferth o chwilo iddynt, y maent yn eu gwrthod ar unwaith, fel pethau annëalladwy a dïangenrhaid; neu ynte, trwy roddi traws esboniad arnynt, ac felly dirymu yr ysbryd, a gwyr droi y dirgelwch o honynt, y maent yn eu dirdynu at eu syniadau isel a chnawdol eu hunain. Mynent eu dymchwelyd oll i'w goleuni eu hunain, fel rhai; i reswm, fel eraill; neu i philosophi, fel y lleill; ac felly, gan ddyrchafu moesoldeb uwchlaw gras yr Efengyl, y maent ar unwaith yn gwrthod yr Efengyl, ac yn dystrywio Moesoldeb; canys wrth gymeryd moesoldeb oddiar ei sylfaen briodol, y mae yn disgyn i'r dom, o'r hyn y mae ymarweddiad y cyfryw ddynion yn brawf cryf.

Yn gyffelyb yr ydoedd yn yr hen amser. Fel hyn y dywedai Duw am Ephraim, "Myfi a ysgrifenais iddo bethau mawrion fy nghyfraith; ond megis dyeithr-beth y cyfrifwyd hwynt." Y gyfraith oedd unig gyfrwng Duw i hysbysu ei feddwl a'i ewyllys i'r bobl hyny, fel y mae ei holl gynhor yn cael ei ddatguddio i ni yn yr Efengyl; efe a ysgrifenodd y pethau hyny iddynt hwy,—a'u gwnaeth yn amlwg a hawdd eu deall; ond wedi y cwbl, fe'u cyfrif-

id ganddynt hwy, fel y cyfrifir yr Efengyl yn awr, megis rhyw beth dyeithr, ac estronaidd i'w meddyliau. Hwy a sylwant ar yr hyn sydd yn perthynu i'w natur, da neu ddrwg moesol; ond y mae doethineb guddiedig Duw yn yr Efengyl, yn ddyeithr-beth.

Ymddengys gallu y tywyllwch yma yn mhellach, wrth ystyried natur, a defnyddioldeb y meddwl, yr hon yw y gynneddf ar yr hon yr effeithia. Gellir golygu y meddwl, naill ai fel y mae yn wybodaethol, neu fel y mae yn yr ymarferiad o honaw, yn troi yr ewyllys i gyflawni ei weithrediadau moesol ac ysbrydol. O ganlyniad, ni's gall yr ewyllys na'r serchiadau ddymuno neu lynu wrth unrhyw ddaioni, ond a gyflwynir iddynt gan y meddwl, ac yn ol fel y'i cyflwynir. Ni's gall yr ewyllys ddewis, na'r serchiadau lynu wrth, y daioni hwnw na byddo y meddwl yn gallu ei ganfod. Y meddwl yw llygad yr enaid, ac os bydd y llygad hwn yn ddrwg, bydd yr holl enaid yn llawn tywyllwch. Megys na's gall yr enaid trwy unrhyw gynneddf arall dderbyn a chofleidio y daioni hwn na's gallo y meddwl ei ganfod; felly, pan fyddo y meddwl yn cael ei dwyllo, a'i gaethiwo dan allu rhagfarn, ni's gall yr ewyllys a'r serchiadau ochel croesawi y drwg hwnw â'r hwn y cydsynia y meddwl yn gyfeiliornus. Lle mae y meddwl yn ddiras, fel ag y mae yn galw y da yn ddrwg, a'r drwg yn dda; bydd y galon, y serchiadau, a'r ymarweddiad yn gyd-ffurfiol â hyny; a chan hyny, y mae twyll y meddwl yn cael ei ddarlunio yn yr Ysgrythyrau yn gyffredin, fel egwyddor neu gyn-sail pob pechod.

A dyma ddarluniad byr o ansawdd y meddwl dynol tra yn ddïadgenedledig, gyda golwg ar bethau Duw; ac oddiwrth hyn yr ydym yn casglu, ei fod mor llygredig, fel na's gall ddeall, derbyn, a chofleidio pethau ysbrydol, mewn dull ysbrydol, achubol, a phriodol, yn wyneb y cyhoeddiad o bethau ysbrydol yn mhregethiad yr Efengyl, heb weithrediad tufewnol, goruwchnaturiol, ac effeithiol yr Ysbryd Glan.

PEN. IV.

Bywyd a marwolaeth, naturiol ac ysbrydol, yn cael eu cydmaru.

Darluniad ysgrythyrol arall o ddynion diadgenedledig yw, eu bod yn feirw ysbrydol; ac am hyny y canlyniad yr un modd yw, bod augenrheidrwydd am waith tumewnol effeithiol, gan yr Ysbryd Glan ar encidiau dynion, i'w gwaredu o'r cyflwr hwn trwy adenedigaeth; ac y mae hyn yn golygu eu hewyllysiau a'u serchiadau yn bennaf, megis yr oedd y tywyllwch a ddarluniwyd o'r blaen, yn golygu eu deall. Y mae bywyd ysbrydol, trwy yr hyn y mae dynion yn byw i Dduw; ond gan eu bod yn amddifaid o, a dyeithriaid i hyn, y maent yn feirw ysbrydol; ac felly y mae yr Ysgrythyrau yn tystio am bawb diadgenedledig, o ran, mewn geiriau pendant, ac o ran, mewn ymadroddion eraill i'r un perwyl. O'r rhyw gyntaf, y mae y tystiolaethau yn amrywiol a phennodol; Eph. 2. 1, 5. "A chwithau a fywhaodd efe, pan oeddych feirw mewn camweddau, &c." Col. 2. 13. "A chwithau pan oeddych feirw mewn camweddau." 2 Cor. 5. 14. "Os bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb;" ac fe sicrheir yr un peth yr ail ffordd, pan y gelwir adferiad dyn drwy ras Crist yn fywhau, neu roddi bywyd newydd ynddynt; canys y mae hyn yn cynnwys tybiaeth o'n bod yn feirw.

Marwolaeth ysbrydol a elwir felly yn allegawl oddiwrth ei gyffelybrwydd i farwolaeth naturiol. Gan hyny efallai y byddai yn fuddiol i ni ystyried natur bywyd a marwolaeth naturiol, mewn cyfeiriad at yr hyn y darlunir sefyllfa dynion diadgenedledig fel hyn.

Wrth fywyd yr ydym yn deall yn gyffredin, weithrediad egwyddor fywiol ar sylwedd a fyddo i'w fywhau trwy rinwedd eu huniad; ac y mae hyn yn cynnwys, (1.) Egwyddor bywyd ei hunan, yr hon mewn dyn, yw yr enaid rhesymol; "Duw a anadlodd yn ei ffroenau ef anadl cin-

oes, a'r dyn a aeth yn enaid byw." Wedi Hunio ei gorff ef o bridd y ddaear, efe a grëai enaid bywiol iddo ar wahan ac yna a'i rhoddes yn y sylwedd parottoëdig i'w dderbyn; ac megis y gwnaeth efe fel hyn yn nghrëedigaeth y rhyw ddynol ar y cyntaf, y mae efe yn parâu i wneuthur yr un modd yn nhrefn ei ragluniaeth gyffredinol er paräad y rhyw; canys wedi iddo ordeinio parottöad y corff trwy genhedliad, y mae efe yn dodi yr enaid byw, yr anadl einioes ynddo yn y fan. (2.) Gweithrediad bywiocäol yr egwyddor hon ar y sylwedd a fyddo i'w fywhau, yn, a thrwy rinwedd undeb. Trwy hyn y mae yr holl ddyn yn myned yn enaid byw, yn un weh ei fywhau ag egwyddor fywiol a'i gyfaddasu at holl weithrediadau bywyd naturiol.—— (3.) Gweithredoedd y bywyd naturiol hwn, megis gweithrediadau y synhwyrau, ysgogiadau yr aelodau, derbyniad ymborth, a'r cyffelyb. Y rhai hyn ydynt weithredoedd bywyd fel bywyd; anysgaredig oddiwrtho, ac amcanedig i'w ddiogelu. Mae hefyd fath o weithrediadau bywyd, ag ydynt yn deillio oddiar natur arbenig yr egwyddor fywiol hon; megis gweithrediadau rhesymol gwirfoddol y deall a'r ewyllys.

Ac oddiyma nyni a allwn weled yn mha beth y mae marwolaeth naturiol yn gynnwysedig; cynnwysa (1.) Ysgariad yr enaid oddiwrth y corff. (2.) Attaliad ar bob gweithrediadau bywiol; canys y mae yr undeb hwnw, oddiar yr hwn y maent yn deillio wedi ei ddattod: ac yn (3.) Fel canlyniad i hyn, y mae yn y corff wendid ac anmgbyfaddasrwydd at bob gweithrediadau bywiol; canys nid yw y corff yn alluog i'w cyflawni mwyach.

Yn gyntaf. Nid oes un egwyddor o fywyd ysbrydol yn y rhai ydynt yn ddïadgenedledig; na dim gallu i fyw i Dduw, neu gyflawni unrhyw ddyledswydd gymeradwy. Y mae gyda hwynt, o ran holl weithrediadau bywyd ysbrydol, fel y mae gyda y corff o ran gweithrediadau bywyd naturiol, wedi yr ymadawo yr enaid o honaw. Pa beth bynnag a wnelo dynion, oddieithr eu doniaw âg egwyddor

fywiol o ras, ni's gallant gyflawni un weithred ysbrydol fywiol. "Synied y cnawd nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw, ac ni's gall ychwaith." Rhuf. 8. 7. Felly, gan hyny "Y rhai sydd yn y cnawd, ni allant ryngu bodd Duw," adn. 8. Ein Harglwydd a ddywedai, "Ni allaf fi fy hun neb ddyfod attaf fi, oddieithr i'r Tad ei dynu ef." Ac felly y darlunir yr un peth yn allegawl, pan gydnabyddir dynion anianol i breman dŵr; ac y sicrheir na's gallant dduwyn ffrwythau da, oddieithr newid eu natur. Nid oes un gallu mewn dynion wrth natur, yn unig yn wyneb y darluniad o'u dyledswydd, ac anmi gweithau i'w cyflawni yn ddyledswydd a'r cymhelliadau cyfiddasaf i gredu, gwybod, ac ymlynu, neu wneuthur dim mewn modd cymeradwy i Dduw, heb anian newydd rasol i'w gallugogi i wneuthur hyny. Gwaeddadleusir, fod hyn yn gwneuthur pob cyngheiriau yn anfuddiol. I hyn yr attebaf, 1. Nid oes dim yn cfynol yn argyhoeddyniad meddwl at ddyledswydd, ond ei bod yn gyfaddas iddo, a bod y gwrthddrych yr ymofynir am gredu arno yn gyfaddas i ddenfyn cydsyniadau priodol. Y mae cyngheiriau yn addas i ddenfyn synnwyr i gymeryd yr eithafion o fyddi neu ddedwyddwch; ac y mae gallu yn eneidiau yn gyfaddas i gael gwaredigaeth rhag dwyddyn. (2.) Mae cyngheiriau hyn, yn gorfod eu dyledswydd yn gymmaint, nid oes gallu:—nid yw bodd a allwn, ond pa beth a ddylem ni ei wneyd. (3.) Fe rymgosi bodd i Dduw wneuthur y pethau hyn yn feddiant i gyflawni eu hewyllys tuwyddynt; ac efe a'n trefnodd i'r perwyl hyny am eu bod yn meddu cyfaddasrwydd i'n gallu ni i wneyd a gwneuthur ni.

Gwrthddadleusir yn nhelfach, Os yw dynion yn amddifaid o bob gallu i fyw i Dduw, a yw yn gyfiawn eiddym fod yn euogfeinion marwolaeth dragywyddol, yn unig am beidio gwneuthur yr hyn ni's gall yn ei wneuthur? I hyn yr attebaf, (1.) Pechod dynion yw eu hanallu. Dygwyd ni i'r cyflwr yma trwy bechod ein rhieni cyntaf, holl genynyniadau yr hwn yw eu pechod a'n euogni ni, Rhuf. 5. 12. Fe ôyngyddasai yr anallu yma i ni bod o achos gan ...

rhyw euogrwydd perthynol i ni mewn gwirionedd, yn ol deddf crëadigaeth, buasai yr amgylchiad yn dra gwahanol. (2.) Mae gan ddynion allu mewn amryw bethau perthynol i ufudd-dod ac iachawdwriaeth, i gydsynio â meddwl ac ewyllys Duw, yr hyn y maent yn ei esgeuluso yn wirfoddol, ac y mae hyn yn unig yn ddigon i gyfiawnhau eu tragywyddol ddinystr. 3. Nid oes un dyn mor analluog i wneyd dim dros Dduw, fel na's gall efe wneyd unrhyw beth yn ei erbyn ef. Nid oes un gorchymyn na's gall efe roddi ei ewyllys ar waith i anufuddhau iddo. Dyma y darluniad ysgrythyrol o'r hyn a gyfrifir gan rai fel ffolineb am yr hyn y rhaid i'r Arglwydd Crist, atteb, ac nid nyni; a'r dydd a benderfyna pa le mae y bai yn gorphwys.

Yn ail. Mae yn y farwolaeth yma lwyr attaliad ar bob gweithredoedd bywiol. A'r diffyg gallu yma yw yr achos na's gall dynion anianol gyflawni un weithred fywiol o ufudd-dod ysbrydol. Am hyny y mae eu holl weithredoedd yn "weithredoedd meirwon;" nid ydynt yn deillio oddiar egwyddor o fywyd; maent yn anfuddiol fel pethau meirwon; ac yn diweddu mewn marwolaeth dragywyddol.

Nyni a allwn ystyried yn bresenol, pa fodd y mae y bywyd ysbrydol yn cael ei gyfrannu i ni. Mae y ffynnonell wreiddiol o honaw gyda Duw. "Gyda thi y mae ffynnon bywyd." Ac am hyny y dywedir fod ein "bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw;" ac y mae yn gwahaniaethu oddi wrth bob rhyw fywyd arall, o herwydd fod y cyflawnder o hono wedi ei gyfranu i Grist fel Cyfryngwr; ac o'i gyflawnder ef y derbyniasom ni y bywyd hwn. Am hyny y dywedir mai efe yw ein bywyd ni, ac nid nyni sydd yn byw cymmaint, ond Crist yn byw ynom ni.

Gan fod ffynnonell y bywyd yma yn Nuw, a'r cyflawnder o honaw wedi ei drysori erom ni yn Nghrist; y mae efe yn cyfrannu yr egwyddor a'r gallu o hono i ni trwy yr Ysbryd Glan, yn ol, ac i amcanion y cyfammod newydd;—canys hyn yw yr addewid o honaw, y bydd i Dduw yn

gyntaf ysgrifenu ei gyfraith yn ein calonau, ac yna, y rhodiwn ninnau yn ei ddeddfau ef; hyny yw, y mae yn rhaid i'r egwyddor o fywyd flaenori pob gweithredoedd bywiol. Lle nad yw hon, ni's gellir cyflawni un weithred o ufudd-dod yn y fath fodd ag y byddo yn weithred bywyd Duw. Mae dywedyd bod genym ni ddigonedd o honom ein hunain, gymmaint ag i feddwl meddwl da;—a bod genym un gallu na chymhwysder o honom ein hunain wrth natur, i wneuthur dim fel y dylem, yr un peth a dymchwelyd yr Efengyl, a ffydd yr Eglwys yn mhob oes.

Yn drydydd. Nid oes unrhyw dueddiad yn gogwyddo at fywyd ysbrydol, yn y cyflwr hwn o farwolaeth ysbrydol: nid oes dim o'r fath mewn ysgerbwd marw tuag at fywyd naturiol. Adfywiwyd corff marw Lazarus, trwy ddwyn ei enaid yn ol iddo; ond nid oedd ynddo ef ei hunan y duedd leiaf i weithredu at fywyd. Y mae yn gymhwys yr un modd gyd ag enaid marw mewn camweddau a phechodau. Mae ynddo ryw allu o draw, mae yn ei natur gynneddfau, y rhai ydynt yn gymhwys i weithredu arnynt gan Ysbryd Duw; ond nid yw yn meddu gallu union-gyrchol i'w dueddu at weithredoedd ysbrydol; a'r rheswm yw, oblegid fod llwgr naturiol yn nglyn âg ef, fel rhyw reddf anorchfygol yn ei dueddu at ddrwg yn wastadol; â'r hyn y mae y duedd leiaf at yr hyn sydd dda ysbrydol, yn annghysson. Mae yn yr enaid, yn ol iaith yr Ysgrythyr, "gorph pechodau y cnawd;" yr hwn oni's symmudir trwy enwaediad ysbrydol, trwy rinwedd angau Crist, a orwedda yn farw i dragywyddoldeb. Gan hyny, y mae ynom ni yr hyn a ellir ei fywhau a'i achub; a hyn yw yr oll a feddwn ni wrth natur i ymffrostio o honaw. Er fod dyn wedi myned trwy bechod yn debyg i'r anifeiliaid a ddyfethir, yn ffol ac anifeilaidd o ran meddwl a serchiadau; eto nid yw felly yn hollawl; y mae yn meddu yr enaid byw hwnw, a'r cynneddfau deallawl hyny, yr hwn oedd dan argraff cyfiawnder ar y dechreu, ac sydd yn gymhwys i dderbyn delw Duw drachefn trwy Iesu Grist.

PEN. V.

Natur, Achosion, a Moddion Ail enedigaeth.

Anwybodaeth am sefyllfa wirioneddol dyn fel y mae yn llygredig, yw y prif achos o'r holl gamgymeriadau hen a diweddar, yn nghylch ailenedigaeth: gan hyny, nyni a sylwasom ar hyny càn belled ag yr oedd yn angenrheidiol i'n hamcan presenol, ac yn ddigonol i'n harwain yn ein hymofyniad mewn perthynas i waith yr Ysbryd yn ein rhyddàad oddiwrth y llwgr hwnw.

Mae yn amlwg na's gellir gwaredu y rhai a fyddont byw a marw yn y cyflwr yma. Nid ces dim a addefir yn fwy cyffredinol yn mysg y rhai a gymerant arnynt yn ddifrifol eu bod yn Gristionogion, na'r gwirionedd hwnw, na's gellir gwaredu un o gyflwr o drueni, heb eu waredu o gyflwr o bechod; canys os gellir ein gwaredu heb adnewyddu ein natur, nid oedd un angenrheidrwydd am grëu pob peth o newydd trwy Iesu Grist; ac os gellir ein hachub ni dan yr holl ddrygau a achlysurwyd gan y cwymp, yna bu Crist farw yn ofer. Heblaw hyny, y mae yn annghysson a natur Duw, ei sancteiddrwydd, ei gyfiawnder, a'i wirionedd; mae yn annghysson a'r ddeddf a'r efengyl, ac yn anmhossibl yn natur y peth ei hunan, bod i'r cyfryw rai gael etifeddu gogoniant, a gorphwysfa gyda Duw. Gan hyny, y mae gwaredigaeth o'r cyflwr yma, yn anhebgorol angenrheidiol i'n gwneuthur ni yn gymmwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.

Rhaid i'r waredigaeth yma gael ei gweithredu trwy ailenedigaeth; ac y mae tystiolaeth ein Iachawdwr yn bendant ar hyn; "Oddieithr geni dyn drachefn (neu oddiuchod) ni ddichon efe weled teyrnas Dduw." Ioan 3. 3. Yn mha ystyr bynnag y golygir teyrnas Dduw yn y geiriau hyn, pa un bynnag a'i o ras yma, ynte o ogoniant ar ol hyn; fe atteba y naill fel y llall i'n perwyl presenol. Ni's

gall dyn feddu rhan ynddi, heb ei ail eni; a chan fod y penderfyniad yma yn hollawl, a diammodol; felly hefyd y mae yn gyffredinol, yn cynnwys ynddo bob un o feibion Adda oll; ac er y gall dynion feddu cam olygiad ar ailenedigaeth, eto, càn belled ag yr wyf fi yn dëall, y mae pob Cristionogion yn cyduno mai moddion ein gwaredigaeth o gyflwr o bechod ydyw, yn hytrach na'n gwaredigaeth ei hunan.

Yr Ysbryd Glan yw Awdwr union-gyrchol y gwaith hwn, ac addefir hyn yn lled gyffredin hefyd; nid oes dim yn cael ei addef yn fwy cyffredin, mewn geiriau o leiaf, na bod holl etholedigion Duw yn cael eu sancteiddio gan yr Ysbryd Glan; ac y mae yn ddïau mai dechreuad ein sancteiddïad yw ailenedigaeth. Mae yr Ysgrythyrau yn dra phendant yn eu tystiolaethau i'r perwyl yma. Yr un peth ag a alwai yr Iachawdwr, "Geni drachefn," yn Ioan 3. 3., a alwai efe "Geni o'r Ysbryd," yn adn. 5, 6; canys "yr Ysbryd sydd yn bywhau;" a Duw a'n hachubodd ni yn ol ei drugaredd, "trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glan." Wedi cael addefiad o hyn, rhaid i ni fyned rhagom i ymholi yn nghylch dull a natur y gwaith hwn; canys y mae ei natur yn ymddibynnu ar ddull yr Ysbryd yn ei weithredu. Yr wyf yn addef fod llawer o ymryson wedi bod yn nghylch hyn gynt; a phrin y dïangodd y gwirionedd am hyn rhag gwrthwynebiad cyhoeddus mewn unrhyw oes i'r eglwys; ond ni's cafodd ei ddirmygu a'i warthruddo a'r fath analluogrwydd ac anwybodaeth, ag y gwneir yn bresenol gan rai yn ein plith ni. Dysgai hen ysgrifenwyr yr Eglwys, y rhai a dreiddiasant i'r gwirionedd yma ddyfalaf a mwyaf llwyddiannus, megis Awstin, Hilary, Prosper, a Fulgentius, yr unrhyw athrawiaeth o ran ei sylwedd ag a bregethwyd yn ein plith ni er y Diwygiad; a'r hyn a elwir gan rai yn eu hanwybodaeth yn newydd-beth; a'r cwbl a ddarluniwyd yn ardderchog gan Awstin yn ei gyffesiadau, lle y darlunia efe brofiad y gwirionedd a ddysgasai efe yn ei enaid

ei hunan. Gallaswn ddilyn ol eu traed yn hyn, oni buasai fod cymmaint o ddadleuon wedi eu cyfodi yn nghylch y dull priodol o esbonio eu geiriau; fel y byddai olrhain y gwirionedd trwy gymmaint o ddyryswch, yn debyg o'm harwain yn rhy bell oddiwrth fy mhrif amcan. Ein prif ymofyniad yn bresenol, sydd yn nghylch y gwaith ei hunan; ac y mae yn ofynol i ni ymdrin â hyn yn nacäcol ac yn gadarnhäol.

Yn gyntaf. Nid ydyw gwaith Ysbryd Duw mewn ailenedigaeth, yn gynnwysedig yn unig mewn darbwylliad moesol, hyny yw, y cyfryw ddarbwylliad ag a allai fod, neu a allai beidio bod yn effeithiol; er, mewn dull priodol o lefaru, mai yr unig beth a ellir ei alw yn ddarbwylliad yw yr hyn y mae dyn yn cael ei lwyr berswadio drwyddo. Offeryn yr annogaeth foesol yma yw gair Duw, yr hwn a gynnwysir yn yr Ysgrythyr Lan; canys trwy y gair hwn y'n gorchymynir ac y'n perswadir i droi at Dduw; a'r prif lwybr trwy yr hwn y cymhwysir y moddion yma, yw gweinidogaeth yr eglwys. Dyma y moddion cyffredin a ddefnyddir gan Dduw i ail eni rhai mewn oedran; ac y mae yn ddigonol yn mhob ystyr, ynddo ei hunan fel moddion allanol.

Gyda golwg ar effeithioldeb y gwaith moesol yma, rhaid i ni sylwi, yn (1.) Bod y meddwl yn cael ei ddysgu mewn gwybodaeth o ewyllys Duw yn gyntaf, yn nefnyddiad y moddion yma er tröedigaeth dynion. Heb hyn, ni's gall fod lle i rym perswadiol y gair i weithredu; canys y mae hyny yn gynnwysedig mewn dwyn y meddwl i deimlo yn ei achos ei hun, mewn rhyw beth adnabyddus eisoes. (2.) Y mae effeithioldeb perswadiol grymmus yn ngweinidogaeth y gair i annog y meddwl i gydsyniad âg ef. Er anghraifft; tybier fod dyn wedi ei argyhoeddi trwy air Duw o'i gyflwr pechadurus ei hunan; o'i berygl ar y cyfrif hwnw, ac o'r ffordd trwy yr hon y gallai, ac y dylai efe droi at Dduw,—y mae yn ngorchymynion, addewidion, a bygythion y gair, gymhelliadau grymmus a dadleuon

nerthol, er troi ei feddwl i ymofyn am waredigaeth. Mae rhai yn wir nad ydynt yn prisio ynddynt, ond gan eu gwawdio, ydynt yn byw ac yn marw mewn gwrthryfel yn erbyn y goleuni; ond nid yw hyn yn un prawf nad ydyw y cymhelliadau hyn yn rymmus ynddynt eu hunain, er eu bod yn annigonol o honynt eu hunain, oddieithr pan, ac fel y mynno yr Ysbryd Glan eu defnyddio yn unig; ac y mae eu heffeithioldeb i'r dyben amcanedig yn deillio oddiar y pethau canlynol:—

1. Oddiar sicrwydd o'r gwirionedd a gyhoeddir yn yr Efengyl, nad rhyw gyfrwys chwedl mo honaw. Lle na's addefir hyn, ni's gall fod effeithiolrwydd perswadiol ynddo; ond lle yr addefir, y mae gogwydd yn y meddwl at y pethau eu hunain, i'r hyn y'i perswadir, ac fel hyn gellir priodoli holl effeithioldeb y gair i wirionedd a ffyddlondeb Duw ei hunan.

2. Ymwneir âg ewyllysiau a serchiadau dynion yn y pethau y cydsynir â hwy felly; ar un llaw, fel y maent yn dda, ac o ganlyniad yn deilwng o'u herlyn a'u hennill; ac ar y llaw arall, fel y maent yn ddrwg, ac felly i'w gochelyd. Canys cymhellir hyn at ystyriaethau dynion; bod cydffurfio âg ewyllys Duw yn ol y datguddiad a wneir o hono yn yr Efengyl, yn fuddiol iddynt ar bob golygiad, ac yn sicr o gael ei ddilyn â heddwch presenol, ac â gogoniant dyfodol. Ar y llaw arall, dywedir wrthynt fod pechod yn anfri mawr i'n natur, ac yn ddystrywiol i'n heneidiau; a bod parhau ynddo, gan wrthod yr Efengyl, yn ffol, afresymmol, a dinystriol. Mae yn rhaid i bob dyn rhesymol farnu y dylai pethau ysbrydol gael y blaen ar bethau naturiol, a phethau tragywyddol ar bethau amserol; a chan fod y pethau hyn wedi eu trefnu yn y fath fodd gan ddaioni a doethineb anfeidrol, mae yn ddïau y rhaid fod tuedd ynddynt i effeithio ar ewyllysiau, a chyffröi serchiadau dynion; ac fel hyn, gellir priodoli effeithioldeb y gair i awdurdod Duw; canys y gorchymynion, y bygythion, a'r addewidion hyn, ydynt eiddo yr hwn a feddai hawl i'w rhoddi, a grym i'w heffeithioli.

3. Fe ychwanegir llawer at yr effeithioldeb drwy y dull y defnyddir y cymhelliadau hyn yn mhregethiad y gair. Mae rhai pregethwyr trwy rym areithyddiaeth, yn cyfeirio at y nwydau trwy resymmau darbwyllog, wedi eu gwisgo mewn iaith ddillynaidd, yn gwneuthur argraffiadau dwysion ar feddyliau eu gwrandawwyr; ac yma y golyga rhai fod prif effeithioldeb y weinidogaeth yn gorwedd; ond nid yw hyn o nemmawr o bwys gyda myfi; canys ymwrthodai yr apostol â hyn yn hollawl;—"A'm hymadrodd, a'm pregeth i, ni bu mewn geiriau denu o ddoethineb ddynol, ond yn eglurhad yr Ysbryd a nerth."

4. Gan hyny, nid ydym yn barnu fod cymhelliadau y gair yn cael eu gadael ar weithrediad naturiol yn unig, yn ol cymhwysder y sawl a fyddo yn ei draddodi; ond yr ydym yn barnu ei fod hefyd yn cael ei fendithio gan Dduw, a'i ddilyn â nerth yr Ysbryd Glan, er peri iddo gynnyrchu ei effeithiau priodol ar eneidiau dynion; yn unig, nad ydys yn golygu dylanwad yr Ysbryd yn y darluniad yma, yn cyrhaedd yn mhellach nac i gymhelliadau, dadlyddiaethau, rhesymau, ac ystyriaethau, a osodir o flaen y meddwl fel ag i ddylanwadu yr ewyllys a'r serchiadau.

Yn awr, mewn perthynas i'r holl waith yma, yr ydwyf yn dadleu fod Ysbryd Duw yn gwneuthur defnydd o honaw, yn nychweliad pawb mewn oedran, naill ai trwy y y gair a bregethir, neu trwy gymhwysiad ryw ffordd arall o oleuni a gwirioneddau at y meddwl, wedi ei gael o'r gair; canys trwy y cymhelliadau darbwylledig a gynnwysa y gair, yr effeithir ar ein meddyliau, ac y gweithredir ar ein heneidiau yn y fath fodd, fel y mae dychweliad at Dduw yn ymddangos ein rhesymol wasanaeth; ond yr ydym ni yn dadleu hefyd, nad yw holl waith yr Ysbryd yn cin tröedigaeth yn gynnwysedig yn hyn; ond bod gwaith anianyddol gwirioneddol o'r ciddo ef, trwy yr hyn y mae efe yn rhoddi egwyddor rasol o fywyd ysbydol, yn eneidiau yr holl rai a adgenhedlir yn wirioneddol; a hyny a brofwn trwy y rhesymmau a ganlyn:—

1. Os yn unig trwy gynnyg gwrthddrychau i sylw dyn-

ion, a'u cymhell trwy resymmau i sylwi arnynt, y gweithreda yr Ysbryd Glan ar ddynion; yna wedi y cwbl, y mae ewyllys dyn yn aros yn llwyr ddïofal pa un a wna efe ai derbyn ai peidio; ac yn wir, dyma y cwbl a ddadleua rhai drosto. Mae yn ddïau, er y gras a weinyddir fel hyn i ni, y medda yr ewyllys allu i'w wrthod, ac i barhau mewn pechod: ond cyfeiliornad yw dadleu na's gweithredir unrhyw ras ynom, ond a cllir ei wrthod felly; canys y mae hyny yr un peth a phrïodoli holl ogoniant ein hadenedigaeth i ni ein hunain, ac nid i Dduw; oblegid ar y dybiaeth yma, nid yw y weithred hono o eiddo ein hewyllysiau, trwy yr hon yr ydym yn dychwelyd at Dduw, yn ddim amgen na gweithred o'r eiddom ein hunain, ac nid o'r eiddo gras Duw. Heblaw hyny, yn ol y golygiad hwn, er bwriad Duw a phwrcas Crist, byddai yn hollawl ansicr pa un a ddychwelai un dyn trwy y byd at Dduw byth a'i peidio; yr hyn sydd annghysson a chyfammod Duw âg Iesu Grist. Mae yn wrthwyneb hefyd i dystiolaethau eglur yr Ysgrythyrau, yn y rhai y prïodolir dychweliad gweithredol i'r gras hwn, megis yn Phil. 2. 13. "Canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef." Mae y weithred o ewyllysio o weithrediad Duw; ac er mai nyni ein hunain sydd yn ewyllysio; eto efe sydd yn gwneuthur i ni ewyllysio a gweithredu, o'i ewyllys da ef.

2. Nid yw y perswadiaeth moesol yma yn doniaw yr cuaid âg unrhyw nerth goruwch-naturiol; canys yn gymmaint ag mai drwy gymhelliadau ac annogaethau yn unig y gweithreda, ni's gall namyn tynu y nerth a feddwn allan, gan ryddhau y meddwl oddiwrth ragfarnau a rhwystrau moesol craill; nid yw, ac ni's gall fod yn cyfrannu nerth ysbrydol tufewnol; a bydd yn rhaid i'r sawl a addefo fod y cyfryw nerth ysbrydol yn cael ei gyfrannu i ni, addef hefyd fod rhyw waith o eiddo Ysbryd Duw yn cael ei ddwyn yn mlaen arnom, amgenach nac a cllid ei gymmyrchu drwy y cymhelliadau hyn.

3. Mae yn wir fod rhai yn cymeryd arnynt addef fod gras yn ngweinidogaeth y gair, yn gweithio yn wirionedd-

ol ac effeithiol, yn enwedig trwy oleuo a chyffroi y meddwl, a'r serchiadau; ac os ar hyn, y bydd i'r ewyllys weithredu mewn dewis yr hyn sydd dda, yna y mae y gras a weinyddir fel hyn, yn cyduno â'r ewyllys, ac yn ei gynnorthwyo i berffeithio ei weithred, ac felly y mae yr holl waith o ras. Felly y dadleuai yr hanner Morganiaid, ac felly y gwna eraill eto. Ond, nid yw hyn mewn effaith yn ddim amgen na dymchwelyd yr oll o ras ein Harglwydd Iesu Grist, a'i wneuthur yn ddifudd; canys y mae yn prïodoli yr anrhydedd o'i ddychweliad i ddyn ei hunan, gan mai ei ewyllys ei hunan a olyga efe y prif achos o hono. Mae y golygiad yma yn gwneuthur i ddyn ei genhedlu ei hun o newydd, neu, ei eni drachefn o hono ei hunan: peri iddo ei hunan ragori ar eraill, trwy yr hyn na's derbyniodd erioed.

Nid hyn yw y cyfan a ofynir genym ni pan fyddwn yn gweddïo am ras effeithiol i ni ein hunain neu i eraill. Ac yn wir, rhaid mai rhyw un claiar iawn yn y peth hwn yw y neb na byddo yn gofyn gan Dduw yn ei weddi, ddim mwy na bod iddo ei berswadio ef neu eraill i gredu ac ufuddhau. Arferai eglwys Dduw weddïo yn wastadol ar fod i Dduw weithredu y pethau hyn ynom ni; ac y mae y rhai ydynt yn meddu gwir deimlad yn achos y pethau hyn, yn gweddïo beunydd ar fod i Dduw eu gweithredu yn effeithiol yn eu calonnau; ar fod iddo roddi ffydd iddynt, a'i chynnyddu ynddynt; a bod iddo yn yr holl bethau hyn weithio ynddynt yn ol galluog nerth ei gadernid ef, ewyllysio a gweithredu, yn ol ei ewyllys da ef. Gwesgid y ddadl hon yn ddwys gan y Tadau ar y Pelagiaid gynt; ac nid oes un Pelagiad yn y byd yr hwn a weddïodd yn ddifrifol am gymhorth dwyfol, dan deimlad o'i angen am hyny, na byddai ei weddi yn gwrth daro ei broffes. Yn wir, y mae yn ymddygiad o'r fath ffolaf i un barhau i weddïo am yr hyn sydd yn ei feddiant eisoes; ac nid yw yn ddim amgen na gwatwariaeth ar Dduw, i ddynion weddïo arno ef am wneuthur iddynt, yr hyn a allant hwy ei wneuthur drostynt eu hunain, a'r hyn ni's gallai Duw ei wneuthur

erddynt, ond yn unig fel y dewisant hwy ei wneuthur erddynt eu hunain.

4. Nid yw y darbwylliad moesol yma, lle y mae ei hunan, yn gyfaddas i gynnyrchu y gwaith o ail enedigaeth yn y rhai ydynt mewn gwirionedd yn y cyflwr anianol a ddarluniasom o'r blaen. Ni's gall y cymhelliadau cryfaf lwyddo gyd a'r fath rai i gael ganddynt eu dychwelyd eu hunain, mwy nag y gall rhesymau beri i ddyn dall weled, neu i'r marw gyfodi o'i fedd;—gan hyny, rhaid gwrth brofi yr holl ddarluniad a roddwyd o'r blaen o'r Ysgrythyrau, o gyflwr natur syrthiedig, cyn y gellir golygu y gras hwn o ddarbwylliad moesol yn ddigonol er ail enedigaeth.

Myfi a af rhagof yn bresenol i ddangos yn gadarnhäol, yn mha beth y mae gwaith yr Ysbryd mewn ail enedigaeth, yn gynnwysedig.

Mae mewn adgenhedliad, nid yn unig weithrediad moesol, ond gweithrediad anianyddol digyfrwng o eiddo yr Ysbryd; fel y tystiolaethir yn Eph. 1. 19, 20. "Fel y gwypom beth yw rhagorol fawredd ei nerth ef tuag attom ni y rhai ym yn credu, yn ol gweithrediad nerth ei gadernid ef, yr hon a weithredodd efe yn Nghrist, pan y cyfododd ef o feirw." Priodolir rhagorol fawredd i'r nerth hwn, gyda golwg ar yr effaith a gynnyrchir drwyddo. Mae gallu Duw ynddo ei hunan yr un mor fawr at bob gweithred; yn anfeidrol; ond y mae rhai effeithiau yn fwy nac ereill; ac o'r cyfryw y mae gwneuthur dynion yn gredinwyr; a phriodolir gweithrediad neillduol i'r gallu yma o eiddo Duw, yr hwn y dywedir ei fod o ran ei natur yr un rhyw a'r gallu a amlygwyd yn adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw.—Mae gwaith Duw tuag at gredinwyr yn gynnwysedig yn ngweithrediad ei allu dwyfol trwy effeithioldeb tufewnol gwirioneddol. Felly dywedir fod Duw "yn cyflawni holl foddlonrwydd ei ddaioni, a gwaith ffydd, yn nerthol;"—ac felly, mae gwaith gras yn cael ei ddarlunio yn wastadol trwy eiriau a ddynodant effeithiolrwydd tufewnol diffuant, megis creu, bywhau, ffurfio, rhoddi calon

newydd, &c. Mae y gweithrediad tufewnol hwn o eiddo yr Ysbryd Glan yn anffaeledig, fuddugoliaethus, anwrthwynebol, neu yn effeithiol hyd y diwedd bob amser; ond y mae gradd effeithiolrwydd gras, a'r dyben i'w gyrhaedd drwyddo, yn cael ei osod gan ewyllys Duw. Ac y mae y dyben amcanedig ganddo ef yn sicr o gael ei gyflawni; neu, fe weithreda y gras yma yr hyn a amcanwyd iddo ei weithredu gan Dduw yn effeithiol; canys pwy a ddichon attal ei weithrediadau ef? Mae llawer o ysgogiadau grasol hyd yn nod yn nghalonau credinwyr, y rhai a wrthwynebir mor bell, fel nad ydynt yn cyrhaedd yr effaith hwnw y mae tuedd yn eu natur eu hunain atto; ond y maent yn effeithiol can belled ag y'u hamcanid yn mwriad Duw. Pa le bynnag y byddo Ysbryd Duw yn rhoddi ei allu ar waith i adgenhedlu, y mae yn symmud pob rhwystrau, ac yn cynnyrchu yr effaith amcanedig yn anffaeledig. Gan fod y gosodiad yma yn dwyn perthynas bwysig â gogoniant gras Duw; ac yn cael ei wrthwynebu yn arbennig gan gefnogwyr ewyllys rhydd; gan hyny y mae yn ofynol i ni ei egluro a'i gadarnhau. Am hyny, yr ydym yn dywedyd,

1. Bod gweithrediadau gallu dwyfol yn gyfaddasedig i'n natur ni; ein meddyliau, ein hewyllysiau, a'n serchiadau. Y mae efe yn ein tynu â "rheffynau dynol;" ac fe ddarlunir y gwaith ei hunan, trwy berswadio, a denu: nid oes dim ynddo mwy anghydnaws a'n cynneddfau, nac sydd mewn darbwylliaeth, neu berswadiaeth lwyddiannus.

2. Nid yw efe yn meddiannu yr enaid âg unrhyw argraffiadau gorwyllttaidd; ac nid yw efe yn gweithredu arnom ni yn hollol yr un modd ag y gweithredai efe *trwy ysbrydiaeth prophwydoliaethol* anghyffredinol yn yr amser gynt, pan nad oedd cyrff a meddyliau dynion, namyn offerynau goddefol yn unig; ond, y mae efe yn gweithredu ar feddyliau dynion yn a thrwy eu gweithrediad naturiol eu hunain, dan ddylanwad ddigyffwng o'i allu ef.

3. Gan hyny, nid yw efe yn cynnyg treisio yr ewyllys.

Nis gellir gorfodi y gynneddf hon; wrth geisio ei gorfodi yr ydys yn ei dystrywio. Y mae gweithred dufewnol, ddirgelaidd, hollalluog gan nerth yr Ysbryd Glan, yn gweithio ynom ni *ewyllysio dychwelyd at* Dduw; ac felly yn gweithio ar ein hewyllysiau yn y fath fodd, fel y maent hwythau yn gweithredu eu hunain hefyd, a hyny yn berffaith rydd. Mae yr Ysbryd Glan gan ddiogelu *rhyddid ein hewyllysiau*, ac yn yr arferiad o hono, yn gweithredu ein hadenedigaeth, a'n dychweliad at Dduw yn effeithiol. Profaf y gwirionedd yma drwy dystiolaethau eglur o'r Ysgrythyr, a rhesymau cynnwysedig ynddynt, neu gasgledig oddiwrthynt.

Yn gyntaf, Dywedir yn bendant am dröedigaeth pechadur at Dduw, ac yn enwedig y weithred o gredu, ei fod o Dduw, i'w weithredu ynom, ac i'w roddi i ni, ganddo ef. Mae yr Ysgrythyr yn tystio, nid yn unig bod Duw yn rhoddi gallu i ni i gredu, neu y cyfryw allu ag y gallom ni wneuthur defnydd o honaw os mynwn, ond dywedir fod ffydd, edifeirwch, a dychweliad, eu hunain, yn waith Duw. Fel hyn y dywedir yn Phil. 1. 29. "Canys i chwi y rhoddwyd, bod i chwi er Crist, nid yn unig gredu ynddo ef, ond dioddef erddo ef." Mae credu yn Nghrist yn arwyddocâu ffydd gadwedigol ei hunan. Rhoddir hyn i ni;—a pha fodd y'i rhoddir? Trwy nerth Duw yn "gweithio ynom ni ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef," adn. 13. Ein ffydd yw ein dyfodiad at Grist; ac y mae Crist ei hun yn dywedyd am hyny fel hyn, Ioan 6. 65, "Ni ddichon neb ddyfod attaf fi, oni bydd wedi ei roddi iddo oddiwrth fy Nhad." Yr ydym yn llwyr amddifaid o allu i'r perwyl hwnw ynom ein hunain; "na ddichon neb ddyfod attaf fi;" pa faint bynnag o dueddrwydd neu barodrwydd a fyddo mewn dynion, neu pa gymhelliadau bynnag a aller eu defnyddio gyda hwy, eto ni's dichon un dyn o hono ei hunan gredu, ac ni's gall ddyfod at Grist, oddieithr bod ffydd ei hunan yn cael ei rhoddi iddo; hyny yw, yn cael ei gweithredu yndde trwy ras y Tad. Honnir

hyn drachefn yn naccäol ac yn gadarnhäol, yn Eph. 2. 8, "Trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd, a hyny nid o honoch eich hunain, rhodd Duw ydyw." Gwahaniaethir ein gallu ni a rhodd Duw yma. Os o honom ein hunain y mae, yna nid rhodd Duw ydyw: os rhodd Duw, yna nid o honom ein hunain y mae. Yr un modd, dywedir fod Duw yn rhoddi edifeirwch i ni, 2 Tim. 2. 25. Hyn yw y cwbl yr ydym ni yn dadleu drosto. Mae Duw trwy ragorol fawredd ei nerth yn gweithredu ffydd ac edifeirwch ynom ni; fel nad ydynt ddim amgen nag effeithiau ei ras ef; ac y mae ei weithrediad ynom ni yn cynnyrchu yr effaith amcanedig yn anffaeledig, oblegyd mai ffydd ei hunan y mae efe yn ei weithredu, ac nid yn unig gallu i gredu, yr hwn y gallwn ei ddefnyddio neu beidio, fel y mynom.

Yn ail. Megis y mae Duw yn gweithio ynom ffydd ac edifeirwch, felly y mae y ffordd drwy yr hon y mae efe yn gweithredu, yn brawf amlwg ei fod yn gwneuthur hyn oll drwy nerth annorchfygol yn ei effeithiolrwydd; canys y mae efe yn symmud pob rhwystrau a gwrthwynebiadau; "Yr Arglwydd dy Dduw a enwaeda dy galon i garu yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, er mwyn cael o honot fyw." Yr un peth yw enwaedu y galon a "diosg corff pechodau y cnawd;" hyny yw, dychweliad at Dduw. Rhoddi "calon i wybod, llygaid i weled, a chlustiau i glywed," ydyw hyn; hyny yw, goleuni ac ufudd-dod ysbrydol, trwy symmud pob rhwystrau. Gwaith digyfrwng Ysbryd Duw yw hyn. Ni ddarfu i un dyn erïoed enwaedu ei galon ei hun. Ni ddichon un dyn ddywedyd ei fod wedi dechreu gwneuthur hyn trwy rym ei ewyllys ei hunan, ac yna bod Duw wedi ei gynnorthwyo ef â'i ras drachefn. Fel yr oedd enwaediad allanol ar gorff plentyn yn weithred un arall, ac nid eiddo y plentyn ei hunan, yr hwn oedd yn oddefol, ac yn yr hwn yr oedd yr effaith yn unig,—felly hefyd y mae yn yr enwaediad ysbrydol yma: gweithred Duw ydyw; a chan mai y dallineb, a'r cyndynrwydd mewn pechod sydd ynom wrth natur, sydd yn lluddias ein dych-

weliad at Dduw, trwy yr enwaediad yma fe'u cymerir ymaith; a pha fodd y gwrthwynebai y galon waith gras pan y mae y pethau a'i gwrthwynebent wedi ei symmud ymaith yn effeithiol?

Ystyriwn hefyd y tystiolaethau cyfredol a ganlyn:—Ezec. 36. 26. "A rhoddaf i chwi galon newydd, yspryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi; a thynnaf y galon garreg o'ch cnawd chwi, ac mi a roddaf i chwi galon gig." At yr hon y gellir chwanegu Jer. 24. 7. "Rhoddaf hefyd iddynt galon i'm hadnabod, mai yr Arglwydd ydwyf; a hwy a fyddant yn bobl i mi, a minnau a fyddaf yn Dduw iddynt hwy." Yr un modd hefyd Esa. 44. 3—5. "Tywalltaf ddyfroedd ar y sychedig, a ffrydiau ar y sychdir: tywalltaf fy Yspryd ar dy had, a'm bendith ar dy hiliogaeth;—Hefyd Jer. 31. 33. "Myfi a roddaf fy nghyfraith o'u mewn hwynt, ac a'i hysgrifenaf hi yn eu calonau hwynt."

Yr hyn y llefarir am dano yn yr addewidion hyn yw y galon, neu yr holl enaid rhesymol; ac fe'i darlunir yn garregog. Mae ein calonau ni wrth natur, gyda golwg ar fyw i Dduw, neu ei ofni ef, fel y garreg; a phwy na's medd ryw brawf o hyn, trwy y gweddillion o honi sydd eto yn aros ynddo ef? Ac y mae dau beth yn gynnwysedig yn yr ymadrodd yma:—(1.) *Annghyfaddasrwydd* at unrhyw weithredoedd ysbrydol. Pa beth bynnag arall a all y galon ei wneuthur mewn pethau naturiol neu wladol, ni's gall wneuthur dim mwy yn y gwaith mawr o fyw i Dduw, na charreg. (2.) Gwrthwynebiad cyndyn, anmhlygiedig i ras Duw; ac am hyny y'i darlunir trwy y gyffelybiaeth yma mewn gwrth-gyferbyniad i hyblygrwydd calon o gig. Y mae Duw yn dweyd y cymera efe y galon yma, y gwendid a'r gelyniaeth yma, ymaith. Nid yw efe yn dywedyd yr ymdrecha efe i'w thynu ymaith; neu, yr arfera efe y moddion a'r moddion i'w thynu ymaith; neu y perswadia ac y cynnorthwya efe ddynion i'w thynu ymaith; ond, y bydd iddo yn bendant a hollol, ei thynu ymaith ei

hunan. Gan hyny, y mae yr hyn a addawa Duw yma, yn ei weithrediad yn anwrthwynebol, ac yn ei effeithioldeb yn anffaeledig.

Ac megis y darlunir yr hyn y mae Duw yn ei gymeryd oddiarnom, felly hefyd y darlunir yr hyn a ddyru i ni yn y geiriau hyn, sef calon newydd, ac ysbryd newydd; a darlunir y budd a ddeillia drwy hyny hefyd; canys y mae y rhai a feddant y galon newydd yma, trwyddi yn ofni yr Arglwydd, ac yn rhodio yn ei ffyrdd ef. Gan hyny, rhaid fod yn y galon newydd yma, egwyddor o ufudd-dod sanctaidd, crëad yr hyn ynom yw ein dychweliad atto ef: canys efe a'n dychwel ni, a ni a ddychwelir; a pha fodd y rhoddir y galon newydd hon iddynt? Fel hyn y dywed yr Arglwydd, "A rhoddaf i chwi galon newydd, ysbryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi; a thrachefn, yn fwy eglur, "Myfi a ysgrifenaf fy nghyfreithiau yn eu calonnau;" gan gyfeirio at y llechau cerrig, ar y rhai yr oedd llythyren y gyfraith wedi eu cerfio; ac felly y mae Duw yn ysgrifenu y gyfraith, sef y sylwedd o honi yn ein calonnau; ac y mae efe yn gwneuthur hyn trwy weithredu egwyddor o ufudd-dod a chariad yn ein calonnau.

Dadl arall a gymerir oddiwrth gyflwr dynion wrth natur; ac os ydyw mewn gwirionedd y cyfryw ag y'i darluniasom o'r blaen, yn ddïau ni's gall neb fod mor ansynhwyrol â dychymygu y gellid ei wellâu, trwy gymhorth ystyriaeth resymol yn unig. Gan hyny, nyni a ymofynwn pa beth yw y gras hwnw, trwy yr hwn y'n gwaredir oddiwrtho.

1. Fe'i gelwir bywhau. Yr ydym ni wrth natur yn feirw mewn camweddau a phechodau; ac yn ein gwaredigaeth o'r cyflwr yma, dywedir ein bod yn cael ein bywhau; er bod yn feirw, i glywed llef Mab Duw a byw. Mae yn anmhosibl i'r cyfryw waith gael ei weithredu arnom ond trwy roddiad effeithiol egwyddor o fywyd ysbrydol ynom. Ceisia rhai osgoi hyn, gan ddywedyd, "Nid yw yr holl ymadroddion hyn namyn cyffelybiaethol;" ac yn wir, da yw, os nad yw yr holl efengyl yn gyffelybiaeth i'r rhai hyn; ond

os nad oes ynom ni wrth natur anallu i gyflawni holl weithredoedd bywyd ysbrydol, fel y mae dyn marw at holl weithredoedd bywyd naturiol;—os nad oes cymmaint o allu Duw yn angenrheidiol er ein gwaredigaeth o'r cyflwr hwnw, ag sydd angenrheidiol er adgyfodi corff marw, gallant ddywedyd cystal, nad yw yr Ysgrythyr yn llefaru yn eirwir, a'i bod yn llefaru yn gyffelybiaethol: ond, nyni a brofasom o'r blaen, mai trwy nerth holialluog y gweithredir hyn; a pha beth a olyga ein gwrthddadleuwyr wrth gyfodi o feirw? ai darbwylliad ein meddyliau trwy gymhelliadau rhesymol?—Pwy erioed a glywodd am y fath ymadrodd anaddas, oni chymmwysa fwy na hyny? Pa beth a feddyliai yr ysgrifenwyr sanctaidd wrth alw y gwaith yma yn fywhau dynion, y rhai oeddynt yn feirw mewn pechodau, trwy ragorol fawredd nerth Duw, oddieithr eu bod yn amcanu trwy swn geiriau di arwyddocäad, ein troi heibio rhag iawn ddëall yr hyna a mcenid? A da yw, os nad oes rhai o'r meddwl hwnw.

2. Y gwaith a wneir ei hunan, yw AIL ENEDIGAETH. Profais o'r blaen fod hyn yn gymmwysedig mewn egwyddor fywiol, newydd, ysbrydol, o ras, wedi ei dodi yn yr enaid gan yr Ysbryd Glan, trwy yr hyn y galluogir y rhai a'i meddant, i gyflawni gweithredoedd ysbrydol bywiol, o ffydd ac ufudd-dod. Mae yn wir fod rhai yn llwyr wadu pob cyfiwr o ras; ac ar y cyfryw dybiaeth nid yw y dyn yn gredadyn yn ddim hwy nac y byddo ei ffydd mewn ymarferiad gweithredol; ond y mae yn eglur y byddai i hyn ddymchwelyd y cyfammod gras, yn nghyd a'i holl ras. Mae craill mewn modd pendant yn gwadu unrhyw reddf rasol, o roddiad goruwch-naturiol, ond yn addef y cyfryw a gymmyrchir trwy weithrediadau mynych gras. Ond, y mae yr Ysgrythyr yn rhoddi darluniad arall o'r gwaith yma o ail enedigaeth i ni; canys y mae yn gymmwysedig mewn adnewyddu delw Duw ynom ni. "Ac ymadnewyddu yn ysbryd eich meddwl; a gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawn-

der a gwir sancteiddrwydd. "Addefir yn gyffredinol fod Adda yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd yn meddu gallu goruwch naturiol i fyw i Dduw yn reddf arhosol ynddo, ac yn ei alluogi i gyflawni ei holl orchymynion ef; ac mai dyma oedd delw Duw ynddo ef. Collwyd hyn trwy y Cwymp. Y mae mewn ail enedigaeth adnewyddu y ddelw Ddwyfol hon, ac fe'i hadnewyddir trwy weithred grëadwriaethol nerth hollalluog, "yr hwn yn ol Duw," neu, yn ol ei gyffelybrwydd, "a grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Gan hyny, y mae hyn yn cynnwys ynddo blaniad egwyddor newydd o fywyd ysbrydol, yr hyn a elwir ysbryd;—"Yr hyn a aned o'r Yspryd sydd yspryd." Ysbryd Duw yw yr un y'u ganwyd o honaw, a'r hyn a enir felly sydd ysbryd,—nid galluoedd anianol ein heneidiau; (y rhai hyn a grëwyd unwaith, a anwyd unwaith, ond nid mwy nac unwaith,) ond egwyddor newydd o ufudd-dod ysbrydol, drwy yr hyn yr ydym yn byw i Dduw; ac y mae hyn o gynnyrchiad gweithrediad digyfrwng yr Ysbryd.

Ymddengys hyn yn eglurach, os ystyriwn ni gynneddfau yr enaid ar wahan, a pha beth ydyw gwaith yr Ysbryd ar bob un o honynt.

1. Cynneddf arweiniol yr enaid yw y Meddwl, neu y deall. Y mae hwn wedi ei lygru trwy y Cwymp; ond y mae y llwgr yma yn cael ei symmud trwy adenedigaeth; fel yr ydym yn dyfod i weled pethau ysbrydol mewn modd ysbrydol, fel y gallom gael adnabyddiaeth gadwedigol o Dduw a'i ewyllys, megis y'i datguddir yn, a thrwy Iesu Grist; ac am hyny y dywedir ei fod ef yn rhoddi i ni feddwl, neu ddeall, 1 Ioan 5. 20: Ac ni a wyddom ddyfod Mab Duw, ac efe a roes i ni feddwl, fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir; yr hyn a wna efe trwy ei Ysbryd. Mae dyn wedi myned drwy bechod fel yr anifeiliaid a ddifethir, y rhai nid oes ddeall ganddynt. Ni's collodd dynion eu rheswm anianol yn hollol; y mae yn parhau (er wedi ei aumharu) gyd a'r rhydd arferiad o honaw mewn

pethau anianol; ond y mae wedi ei golli o ran y defnyddiad neillduol o hono yn y wybodaeth o Dduw; "nid dëallgar hwynt i wneuthur daioni." Mae wedi ei lygru, nid cymmaint yn egwyddor ei weithrediad ag o barth ei wrthddrych prïodol. Am hyny, er na's golygir wrth roddi deall, grëu y gynneddf hono o newydd, eto y mae y cyfryw waith grasol, fel na's gallwn adnabod Duw yn iawn heb yr oruchwylaeth hon ar y deall, mwy na phe byddem heb ddeall genym. Gan hyny, wrth roddi i ni feddwl, y golygir peri i'n meddyliau ddeall yn gadwedigol; yr hyn a ddarlunir gan yr apostol fel y canlyn. "Ar i Dduw ein Harglwydd Iesu Grist, Tad y gogoniant, roddi i chwi Yspryd doethineb a datguddiad trwy ei adnabod ef: wedi goleuo llygaid eich meddyliau; fel y gwypoch beth yw gobaith ei alwedigaeth ef." Wrth y datguddiad a grybwyllir yma y golygir ein galluogi ni i ddirnad yr hyn sydd ddatguddiedig; ac nid rhoddi datguddiadau newyddion; ac fe brofir hyn yn mhellach trwy yr hyn a ddywedir yn ddarluniadol o honaw; "wedi goleuo llygaid eich meddyliau." Sonir yma am lygad yn y meddwl, neu y dëall—wrth yr hyn y golygir y gallu naturiol sydd ynddo i ddirnad pethau ysbrydol: ond, e ddywedir weithiau, fod y llygad hwn wedi myned yn ddall, weithiau ei fod yn dywyllwch, weithiau ei fod yn gauedig. Gwaith Ysbryd y gras yw agor y llygad hwn; a hyny yw, symmudiad effeithiol y llwgr a ddarluniasom o'r blaen, o'n meddwl; a pha fodd y'n gwneir yn gyfrannogion o hyn? Rhodd Duw ydyw; canys efe sydd "yn rhoddi i ni ysbryd doethineb a datguddiad i'r perwyl hyny; efe sydd yn rhoddi "calon i'w adnabod ef."

Gelwir hyn hefyd yn adnewyddu ein meddyliau; ac ymadnewyddu yn ysbryd eich meddwl, "yr hyn sydd yr un peth ac "adnewyddu mewn gwybodaeth." Ac y mae rhyw rym traws newidiol yn perthyn i'r adnewyddiad yma, i gyfnewid yr holl enaid i ansawdd ufudd tuag at Dduw. Yn awr y mae y gwaith hwn o adnewyddu, yn cael ei

briodoli mewn modd arbenig i'r Ysbryd Glan, Tit. 3. 5. "Adnewyddiad yr Yspryd Glan." Am hyny y dywedir fod Duw fel hyn yn cyfranu goleuni i'w meddyliau, trwy yr hwn y canfyddwn y gwrthddrychau a ddarlunir o'n blaen yn yr Efengyl, er budd a chadwedigaeth i'n heneidiau; "Duw, yr hwn a orchymynodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch, a lewyrchodd yn ein calonnau ni, i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist." Pe na buasai Duw yn gweithredu dim ar feddyliau dynion heblaw trwy gynnygiad allanol o'r gwirionedd iddynt, i ba berwyl y crybwyllasai yr apostol y weithred rymmus o allu creadwriaethol, trwy yr hwn y cynnyrchwyd y goleuni naturiol ar y dechreu? Mae yn anhawddd goddef y fath hunan-dyb mewn dynion, fel y gwadant fod gweithred Duw yn ngoleuad ysbrydol ein meddyliau, o'r un natur a'r weithred, trwy yr hon y creodd efe y goleuni ar y dechreu; ac am fod yr effaith a gynnyrchir yn cael ei alw Goleuni, y mae y weithred ei hunan yn cael ei darlunio trwy lewyrchu; a'r goleuni a gyfrennir felly, yw "gwybodaeth gogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist;" hyny yw, fel y mae Duw wedi ei ddatguddio yn Nghrist, trwy yr Efengyl.

2. Gyda golwg yn benaf ar yr EWYLLYS a'i lwgr wrth natur, y dywedir ein bod yn feirw mewn pechod. Yma y mae eisteddle y cyndynrwydd neillduol hwnw, yr hyn sydd yn peri nad yw, ac na's gall y diadgenhedledig ymddwyn i fynu hyd at y goleuni a fedd efe mewn ufudd-dod. Ond, yn ein dychweliad at Dduw, y mae y gynneddf hon yn cael ei hadnewyddu trwy blaniad effeithiol egwyddor o fywyd ysbrydol yn yr enaid, a llwodraethir ysgogiadau yr ewyllys mwyach, trwy ei ddylanwad grymmus ef. Pe na's byddai felly, yna gellid priodoli yr holl ogoniant o'n dychweliad i ni ein hunain; a byddem ni yn gwneuthur rhagor rhyngom ein hunain ag eraill. Ac ni's gallai bwriad Duw mewn perthynas i ddychweliad neb fod yn sicr, gan y gallai yr ewyllys fod yn annychweledig wedi y cwbl,

os y'i gadewid yn anmhenderfynol. Ac ni's gallai fod anffaeledigrwydd trwyadl yn addewidion Duw am y torfeydd a gredant; gan y dichon na's gwna i neb, pe buasai hyny yn ymddibynnu ar ryddid anmhenderfynol eu hewyllysiau; ac yna rhaid fuasai, o angenrheidrwydd, fod Iachawdwriaeth o'r hwn sydd yn ewyllysio, ac o'r hwn sydd yn rhedeg, ac nid o Dduw, yr hwn sydd yn trugarhau wrth y neb y mynno; a thrwy y cyfryw olygiad, parir fod holl effeithioldeb gras Duw yn ymddibynnu ar ewyllysiau dynion. Gan hyny, rhaid fod y cyfryw waith gan yr Ysbryd ar ein hewyllysiau ni, ag a feddyginiaetho eu llwgr am yr hwn y soniasom o'r blaen, gan ein rhyddhau o'r cyflwr o farwolaeth ysbrydol, a pheri i ni fyw i Dduw.

3. Yn gyffelyb hefyd, plennir cariad cryf yn y SERCHIADAU, yr hwn a bair i'r enaid lynu wrth Dduw a'i ffyrdd, gyda hyfrydwch. Mae hyn yn symmud yr elyniaeth a ddarluniwyd o'r blaen, "Yr Arglwydd a enwaeda dy galon—i garu yr Arglwydd dy Dduw." Mae yr enwaediad yma yn gynnwysedig mewn "dïosg corff pechodau y cnawd." Y mae efe yn croeshoelio y cnawd yn nghyd a'i wyniau a'i chwantau. Mae rhai dynion yn tueddu i feddwl fod holl lwgr ein natur ni yn gynnwysedig yn llygriad ein nwydau, neu ein serchiadau. Dangoswyd ffolineb y dyb yma o'r blaen; eto nid ydys yn gwadu fod y serchiadau yn dra llygredig; fel mai trwyddynt hwy yn benaf y mae y meddwl a'r ewyllys yn gweithredu yn ol eu gogwydd gyndyn a llygredig hwy; ond yn enwaediad y galon, y mae y nwydau llygredig hyn yn cael eu croeshoelio trwy yr Ysbryd; y mae efe yn tynu yr elyniaeth, a'r tueddiadau llygredig o honynt, yn wirioneddol, er nad yn berffaith; ac yn eu llanw yn eu lle, a chariad a hyfrydwch ysbrydol sanctaidd; heb newid bod cin serchiadau; ond eu sancteiddio a'u cyfarwyddo trwy yr egwyddor o oleuni achubol, a'u hunaw a'u gwrthddrychau priodol.

Oddiwrth y cyfan mae yn ymddangos mai gwaith Ys-

bryd Duw yw ein hailenedigaeth, ac nid unrhyw weithred o'r eiddom ein hunain. Ac y mae yr Ysgrythyr yn eglur ar y pen yma; canys gan grybwyll y gwaith yma gyda golwg ar ei awdwr, y mae yn ei briodoli yn benderfynol i Dduw. 1 Pedr 1. 3. "Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn yn ol ei fawr drugaredd a'n hadgenhedlodd ni." Iago 1. 18. "O'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyni trwy air y gwirioneedd," neu yn ol y Saesoneg, "O'i ewyllys ei hun y cenhedlodd efe ni," &c. Ac ar y llaw arall, y mae yn cau allan ewyllys dyn rhag meddu un cyfrannogiad gweithredol yn hyn: 1 Pedr 1. 23. "Wedi eich ail eni, nid o had llygredig, eithr anllygredig, trwy air Duw." Ioan 1. 13. "Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gwr, ond o Dduw." Gan hyny, y mae yn ddyledus i'r rhai a ddadleuant dros gyfrannogiad gweithredol ewyllys dyn yn ei adenedigaeth, ddwyn rhyw dystiolaethau o'r Ysgrythyr lle y'i priodolir iddo, fel effaith ei iawn ddefnyddiad. Pa le y dywedir fod dyn wedi ei genhedlu ei hunan?—ac os addefir, pa beth bynnag a all ein gallu neu ein dyledswydd ni fod yn hyn, eto bod yr ymadroddion yma yn dynodi gweithred o eiddo Duw, ac nid o'r eiddom ni, yna, y mae sylwedd yr hyn a ddadleuwn drosto wedi ei ganiattâu. Mae yn wir fod Duw yn gorchymyn i ni enwaedu ein calonnau, a gwneyd i ni ein hunain galonnau newyddion; ond ein dyledswydd, nid ein gallu, a ddarlunia efe yn y cyfryw ymadroddion; canys y mae efe ei hunan yn addaw gweithio ynom ni, yr hyn a ofyna efe genym: ac y mae y gallu hwnw a feddwn ac a ddefnyddiwn yn nghynnydd y gwaith yma mewn sancteiddâad a phurdeb, yn deillio oddiar yr egwyddor dufewnol hono, a dderbyniasom yn yr ail enedigaeth; ac i hyn oll, dylem weddïo am yr Ysbryd Glan yn ol esiampl dynion duwiol gynt.

PEN. VI.

Dull dychweliad yn cael ei egluro trwy annghraifft yn hanes Awstin.

Megis nad oes yn mysg holl athrawiaethau yr Efengyl yr un a wrthwynebir gyda mwy o lymder a dichell, na'r athrawiaeth am ail enedigaeth trwy yr Ysbryd Glan; felly prin y mae dim a ddirmygir yn fwy na bod i ryw un brofi-esu ei brofiad o'r gwaith yma, neu ddatgan y dull y'i dygid yn mlaen arnynt hwy eu hunain. Mae hyd yn nod y cry-bwylliad o hyn yn waradwyddus yn mysg rhai a'i galwant eu hunain yn Gristionogion; a dadleu cyfrannogiad o'r gras hwn, yw y ffordd i ddyn i golli ei gymeradwyaeth gyda rhai a fynnent gael eu cyfrif yn ddoeth a synhwyrol iawn. Ac nid rhyw arferiad newydd ydyw hyn; ond y mae yn ymddangos ei bod wedi dechreu yn moreu amser, ac nid oedd gelyniaeth Cain yn erbyn Abel namyn cangen o'r duedd falchaidd a chyndyn yma. Mae Ismael hefyd wedi ei nodi fel annghraifft neu gynnyrchiolydd o'r holl rai hyny, dan broffes allanol o wir grefydd, a wawdiant y rhai gan eu bod megis Isaac, yn blant yr addewid, a broffesant brofiad o'i grym tufewnol; a gellid olrhain yr un fath ym-ddygiadau mewn oesau dylynol. Am hyny, pan oedd Awstin dduwiol ar ddechreu gwneuthur cyffesiad o'i bech-odau mwyaf, gan amcanu drwy hyny fawrygu gras Duw yn ei ddychweliad, efe a ymbarotöai erbyn y dirmyg dis-gwyliedig yma:—

Fel hyn y dywedai efe, "Gwawdied dynion beilchion, a fynnont arnaf, y rhai ni's bwriwyd i lawr yn gadwedigol, ac ni's drylliwyd crioed genyt ti fy Nuw: eto mi a gyffesaf fy nghywilydd er dy fawl di."* Gan hyny ni's dylem ei gymeryd yn chwith, os bydd i'r un gwirionedd, yr un ym-arferiad, a'r un proffes o hono, gy farfod a'r un fath driniaeth

**Augustine's Confessions, book 4. chap. 1.*

eto. Ond er ei wawdio gan y rhai ni's darostyngwyd erioed am bechod, ac ni's gwaredwyd trwy ras, mae yn rhaid addef gwaith sanctaidd Ysbryd Duw, a chyffesu y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu.

Nyni a ymdrinasom eisoes mewn perthynas i lwgr gwreiddiol; ond gellir ychwanegu rhai sylwadau eto gyda golwg ar ei effeithiau; yr hyn a'n cynnorthwya yn well i ddeall y ffordd drwy ba un y mae yr Ysbryd Glan yn ei symmud a'i feddygyniaethu; ac, nyni a allwn sylwi,—

1. Fod egwyddor lygredig pechod yn ein natur ni yn dechreu gweithio yn hynod o gynnar ar yr einioes. "O'r groth yr ymddieithriodd y rhai annuwiol; o'r bru y cyfeiliornasant." Salm 58. 3. Nid yw ond ofer dadleu mai rhai anfad ac ysgeler mewn drygioni a olygir yma; canys y mae pob dyn yn gyffelyb o ran eu cyflwr moesol o'r bru, i ba eithafion bynnag y dichon i ddynion redeg wedi hyny. Nid yw plant yn alluog i siarad càn gynted ag y'u ganer, eto dywedir yma eu bod yn cyfeiliorni, neu yn dywedyd celwydd. Gan hyny, gweithredoedd gwyrdraws natur lygredig mewn mebyd, a olygir; canys y mae pob peth sydd afrëolaidd;—nad yw yn ateb i ddeddf ein crëadigaeth, yn gyfeiliornad; ac yn mysg amryw o annghraifftiau a gasglwyd gan Awstin o'r cyfryw weithrediadau afrëolaidd o eiddo anian yn ei chyflwr mabaidd, y mae un yn dra noddedig;—"O radd i radd, dechreuais ganfod pa le yr oeddwn, a theimlwn ynof ryw ddymuniadau i allu datgan fy ewyllys i'r rhai oeddynt alluog i'w gwblhau; ond ni's gallwn: am hyny y gwingwn ac yr wylwn yn erwin; a phan nad ufuddheid i mi, naill ai am nad oeddid yn fy neall, neu am y buasai yr hyn a chwennychwn yn niweidiol i mi; yna y'm llenwid â digofaint at fy rhïeni, neu y rhai a'm magent, ac yr ymdrechwn i'w taro, neu eu niweidio hyd ag y gallwn; gan ymddïal arnynt trwy wylo a bloeddio." Llyfr 1. pen. 6—7. Mae y cyfryw gynhyrfiadau afreolaidd ar y meddwl, yr ewyllys, a'r blys a welir yn ymddangos mewn

mabandod,—yn nghyd a'r digter a'r hunan-ymddïal bach sydd yn cael ei amlygu ganddynt pan y'u siommir, pan na byddo pawb o'u hamgylch yn ymddwyn yn ol eu tueddiadau hwy, yn deillio oddiar wyrni ein natur, ac yn effeithiau y reddf lygredig hono o bechod â'r hon y mae wedi ei meddiannu yn drwyadl. Nid fel hyn y crëodd Duw ein natur ar y dechreu: mewn cyflwr gwaeth na'r eiddo crëaduriaid eraill; yn rhai ieuanc pa rai ni's gwelir dim o'r cyfryw anhwylderau; ond yn y rhai y mae cydffurfiad rheolaidd a'u greddfau anianol yn ffynnu; ac fel y mae marwolaeth torfeydd o fabanod yn profi cyfrifiad pechod iddynt, felly y mae y gweithrediadau afreolaidd hyn, yn profi fod pechod yn trigo ynddynt.

2. Mae yr egwyddor drofäaus hon yn gweithredu yn eglurach a mwy llwyddiannus, gyda chynnydd ein galluoedd naturiol, a grym aelodau ein cyrff. "Gwagedd yw mebyd ac ieuenctyd." "Mewn mebyd ac ieuenctyd, mae y meddwl yn ymegnïo yn mhob rhyw weithredoedd gweigion, dychymygion ffolion, chwantau afrywiog, a geudeb mewn geiriau. Mae llyfr cyntaf Cyffesiadau Awstin yn esboniad rhagorol ar y testyn uchod; yn yr hwn y darlunir mewn cwynfanau tristion, wagedd ieuenctyd, a'r euogrwydd a dynir gan ddynion arnynt eu hunain trwy hyny. Gall rhyw rai feddwl efallai, nad oes dim drwg moesol yn y diniweidrwydd plentynaidd yma. Ond yr oedd y gwr da uchod o feddwl gwahanol. "Nid diniweidrwydd yw hyn," eb efe, "ond yr un egwyddor ac ansawdd meddwl, wedi ei ddwyn yn mlaen i oedran addfedach, ac achlysuron pwysicach, a ymddygant ar bechodau mwy." A phwy sydd yn feddiannol ar barch difrifol i Dduw, ac wedi ei argyhoeddi yn eglur o bechod, yr hwn nid yw yn cofio y cyfryw weithrediadau yn ei febyd, gyda chywilydd!

3. Mae yr afrëoleidd-derau cyffredinol hyn yn cael eu dilyn gan bechodau gweithredol; y cyfryw ag sydd yn erbyn goleuni natur, archiadau eich cydwybodau, a dylanwad y syniadau hyny am ddrwg a da moesol, sydd yn

anysgaredig oddiwrth alluoedd ein meddyliau. Yn mysg y pethau hyn, nyni a allwn grybwyll *celwydd* yn neillduol. Trwy gelwydd yr hudwyd ein natur i bechu gyntaf oll, ac y mae math o gelwydd yn mhob pechod. Ac y mae hwn yn bechod y mae ieuenctyd yn dra thueddol iddo. Mor fynych y llithrir plant i'r pechod yma ar bob rhyw achlysur lleiaf! ac mor fynych y ceisiant, trwy gelwydd rhagfwriadol, guddio eu beiau, fel y dihangont rhag cosbedigaeth! Cwynai y gwr sanctaidd uchod yn dost, o herwydd y drwg hwn ynddo ei hunan. "Nid oeddwn yn gweled O Dduw, i'r fath geubwll o ffieidd-dra y'm bwriasid oddi ger dy fron di; canys pa beth oedd ffieiddiach na myfi, pan y twyllwn athrawon a rhïeni â chelwyddau afrifol, oddiar gariad ar chwarae, a hoffder mewn gwagedd?" Gellid meddwl fod y Salmydd yn myfyrio ar y pechod yma sydd mor dueddol i ieuenctyd, pan weddïai efe gan ddywedyd, "Tyn oddiwrthyf ffordd y celwydd." O'r un natur y mae mân-ladrattaeth hefyd, i'r hyn y mae plant yn dra thueddol, sef cymeryd o eiddo eu rhieni, neu eu goruchwylwyr, yr hyn a fyddo yn waharddedig. "Ysbeiliant dad neu fam, a dywedant, Nid yw hyn gamwedd." Diar. 28. 24. Ac felly y dywedai Awstin, y byddai efe yn arfer lladratta oddiar ei rïeni weithiau, naill ai i borthi ei flysiau ei hunan, neu i'w rhoddi i'w gymdeithion.

4. Mae pechod yn ennill tir mewn dynion fel y maent yn cynnyddu mewn oedran. Mae trachwant yn ymgryfhau fel y mae dyddiau un yn ychwanegu, ac yn cynnyddu yn ei lymder fel y mae dynion yn dyfod yn fwy galluog i'w wasanaethu, fel y mae ei offerynau yn nghynneddfau yr enaid, peiriannau y synhwyrau, ac aelodau y corff yn dyfod o ddydd i ddydd yn fwy gwasanaethgar iddo, ac yn fwy tueddol i gydffurfio a'i ysgogiadau. Heblaw hyny, y mae gwrthddrychau y chwant yn lluosogi hefyd fel y mae y dyn yn cynnyddu; a themtasiynau yn cynnyddu gyda negeseuon y bywyd hwn: ond yn enwedig trwy yr esiampl ddrwg a gair yn ymarweddiad llygredig y byd yn gyffred-

inol: ac o herwydd hyn oll, y mae llaweroedd o ieuenctyd yn cael eu goddiweddyd gan ryw bechod gweithredol ysgeler, y naill ffordd neu y llall; ac i ras attaliol yn unig yr ydym yn ddyledus am na baent oll felly.—Am hyny y dywedai yr apostol; "Ond chwantau ieuenctyd ffo oddiwrthynt;" sef y cyfryw chwantau ydynt yn gweithio yn effeithiol, ac yn ffynnu yn rymmus mewn ieuenctyd, oni's darostyngir trwy ras Duw; a than ddwys ystyriaeth o hyn y gweddïai Dafydd ar Dduw gan ddywedyd, "Na chofia bechodau fy ieuenctyd;" a mynych y mae adgoffäad o bechodau ieuenctyd yn flinder i rai mewn henaint. Fel hyn y cyffesai Awstin yn helaeth, iddo gwympo i bechodau mawrion, megis puteindra ac aflendid, yn yr hwn laid y'i daliwyd yn hir; ac efe a ychwanega y rheswm canlynol am ei gydnabyddiaeth ostyngedig; "Yr wyf yn tystiolaethu y pethau hyn O fy Nuw, nid i ti, ond ger dy fron i'm cyd ryw, pwy bynnag o honynt y dichon i'm hysgrifenadau hyn ddisgyn i'w dwylaw. Ac i ba ddiben? Onid fel y gallo pob un a ddarlleno y pethau hyn, ystyried o ba ryw ddyfnderoedd mawrion yr ydym i lefain arnat ti." Y canlyniad o fod dynion yn cwympo i'r cyfryw bechodau mawrion yw, fod Duw yn cymeryd achlysur oddiwrth hyny weithiau, i ddeffröi eu cydwybodau â dwys ystyriaeth, nid o'r pechod hwnw yn unig, ond o'u pechodau eraill hefyd. Ac fel hyn y mae y Meddyg mawr yn troi gwenwyn yn feddyginiaeth; ac yn gwneuthur i ddynion, fel yr Iuddewon gynt, waeddi allan, "Ha wyr frodyr, beth a wnawn ni fel y byddom gadwedig?" Gydag eraill, nid yw namyn agoriad drws i ddilyn pechod yn mhellach; y rhai wedi unwaith dorri dros y terfynau, a ruthraut trwy yr holl weddill rhwystrau, ac a redant i bob rhyw ormod rhysedd; ac i'r pellder mwyaf oddiwrth Dduw, ag y byddo yn bossibl eu gwaredu trwy ras. Canys,

5. Y mae gyrfa arferol o bechu yn diweddu gyda llawer, "y rhai wedi diddarbodi, a ymroisant i drythyllwch, i gyflawni pob aflendid yn un chwant,' Mae ymarferiad mewn

pechod yn dwyn y teimlad o honaw ymaith; dull y byd yn dwyn ei gywilydd ymaith, a chariad atto yn gwneuthur dynion yn awyddus i'w ddilyn. A hyn hefyd a bair fod cynnifer o gylchoedd amrywiaethol o bechaduriaid yn y byd, fel y mae eithafion y naill megys pe cyfiawnhaent afreoleidd-dra tawelach eraill; ïe, y mae y rhai nad ydyw eu cyflwr ger bron Duw yn well na eraill, nid yn unig yn barod i synu ar y cyfryw eithafion; ond yn eu gwir ffieiddio hefyd. Nid yw y gwahaniaeth yma yn deillio oddiar natur, yr hon sydd mor lygredig yn y naill ddyn a'r llall, ond oddiar ras attaliol Duw, trwy yr hwn y mae efe yn cadw rhai o fewn rhyw derfynau pennodedig dros y rhai ni's gollyngir hwynt i fyned; tra y mae efe yn goddef eraill i ddisgyn dan y fath gyd-gyfarfyddiad o chwantau a themtasiynau, fel y maent yn myned rhagddynt i bob rhyw ddrygau. Heblaw hyny, y mae tueddiadau neillduol i ryw bechodau, y rhai a gryfheir yn ol tymheredd y corff; ac y mae rhai yn fwy carostyngedig i demtasiynau oddiwrth eu hamgylchiadau allanol, tra mae eraill yn cael eu hyrddio i bob rhyw ysgelerder. Mae hen ddyn pechod yr un yn mhawb wrth natur; o ras Duw y deillia y gwahaniaeth.— Mae efe yn dirgel ddarparu tymher natur well i rai, gan eu gwneuthur yn hynaws a thirion, a'u cadw rhag ymhyfrydu mewn syniadau trythyll; ac y mae yn arwain eraill trwy yr addysg a dderbyniant, eu galwedigaethau, a'u cylchoedd cymdeithasol yn y byd, i ffyrdd annghyson âg anlladrwydd amlwg, yr hyn a wrth bwysa eu tueddiadau yn fawr. Darlunir hyn yn ardderchog gan Awstin;— "Caraf di, O Dduw, a diolchaf i ti, oblegyd ti a faddeuaist fy ngweithredoedd drwg i mi. I'th ras a'th drugaredd di yr ydwyf yn ei briodoli, dy fod wedi peri i'm pechodau doddi ymaith fel iâ, ac am yr holl ddrygau na's cyflawnais, dy ras di a barodd na's gwneuthum. Canys pa beth na's gwnaethwn I, yr hwn oeddwn yn caru drygioni er ei fwyn ei hunan! Yr wyf yn cydnabod fod y cyfan wedi eu maddeu i mi: y drygau a wneuthum, a'r rhai y'm cadwyd

trwy dy arweiniad di rhag eu gwneuthur. Pwy, gan ystyried ei wendid ei hun, a faidd briodoli ei ddiweirdeb neu ei ddiniweidrwydd i'w nerth ei hun, fel y gallo dy garu di yn llai, megis pe byddai arno ef lai o angen dy drugaredd, trwy yr hon yr ydwyt ti yn maddeu pechodau y rhai a ddychwelir attat ti? Canys na fydded i'r hwn a elwyd genyt ti, a chan glywed dy lais a ochelodd y drygau a gyffesais, fy ngwaradwyddo I, yr hwn a mi yn glaf a iachawyd gan y Meddyg hwnw a drugarhaodd wrtho ef, ac a'i cadwodd rhag bod yn glaf, neu rhag bod mor glaf." E ddichon y darluniad byr yma o weithrediadau natur lygredig, nes ei myned i'r pellder mwyaf oddiwrth Dduw ag y gellid ei dychwelyd o honaw, fod yn gymhorth mewn rhan i amlygu gwaith ei ras ef tuag attom; trefn yr hwn a ystyriwn ni yn bresenol.

1. Y mae yn aros eto tan ludw ein natur lygredig, ychydig wreichion o dân nefol, yr hwn sydd gynnwysedig yn yr ymsyniadau hyny o ddrwg a da, o wobr a chosb, o bresenoldeb y Duw ollwybodol, o gymhorth i'w gael oddiwrtho, yn nghyd ag ofn ei nerth pan gyffröer ei ddigofaint ef: a pha le bynnag y byddo mantais i dderbyn addysg oddiwrth weinidogion, y gair, athrawon, neu rieni, y mae y syniadau hyn yn cael eu bywiogi a'u cynnyddu. Mae y syniadau hyn yn cael eu cyffröi gan Dduw mewn rhai ieuainc yn aml, fel y maent yn peri iddynt sylwi mewn mesur arno, ac ymwneyd ag ef, gan hyny ni's gellir eu hystyried fel effeithiau natur yn unig. Gall llawer gofio y cyfryw ymweliadau dwyfol â hwy yn eu hieuenctyd. Ac ar hyn y dywaid Awstin y byddai efe yn gweddïo yn daer ar Dduw fel ei amddiffynwr, pan fyddai efe yn ofni cael ei guro yn yr Ysgol; ac yn crybwyll rhai addysgiadau cyffredinol hefyd a dderbyniasai efe o'r Gair; ac o'r unrhyw egwyddorion, pan y'i goddiweddwyd gan gystudd trwm, ac y taer ddymunai am gael ei fedyddio, fel y gallai fyned i'r nefoedd debygasai efe; canys gan nad oedd ei dad yn Gristion y pryd hyny, ni's bedyddiasid ef yn ei febyd. Mae

yr argraffiadau hyn yn gwisgo ymaith gyd a'r rhan fwyaf fel gydag yntau, y rhai drachefn ydynt yn syrthio i amryw bechodau ysgeler; ond y mae Ysbryd Duw trwy y pethau hyn, yn hau yr egwyddorion grasol hyny yn nghalonnau rhai, y rhai y mae efe ei hunan yn eu meithrin yn raddol hyd berffeithrwydd.

2. Mae Duw yn gweithio ar ddynion trwy foddion allanol, gan beri iddynt ddwys ystyried eu pellder oddiwrtho, a'u perygl o ddisgyn dan ei lidiawgrwydd ef. Mae agos yn annghredadwy, oni bai fod profion beunyddiol yn ei sicrhau, y modd y bydd dynion fyw dan y Gair, y modd yr ymarferant â ffurf o son am Dduw, a chyflawni dyledswyddau crefyddol, eto heb ddyfod i feddwl yn ddifrifol, wastadol am dano ef, neu i ofalu am gwbl hau ei ewyllys ef! Gan hyny, y mae Duw yn dechreu yma, fel y'u gwaredo oddiwrth awdurdod drwyadl oferedd. Mae yn sefydlu yn eu meddyliau, syniadau dianwadal am dano ei hunan, drwy y naill foddion neu y llall; megis,

(1.) Trwy ryw farnedigaethau disymmwth a dychrynllyd, trwy ba rai y datguddir ei ddigofaint yn erbyn pechod. Felly yr effeithiwyd ar Waldo, pan darawwyd ei gydymaith oedd yn cyd rodio âg ef yn y meusydd, yn farw; yr hyn a fu yn achlysur o'i ddychweliad ef. Felly y darluniai y Salmydd feddyliau dynion pan y'u goddiweddid gan dymhestl ar y môr, anghraifft o'r hyn a gawn ni yn hanes y morwyr oeddynt yn y llong gyda Jonah:—felly hefyd y Pharaoh hwnw, yr hwn un diwrnod a waeddai, "Pwy yw yr Arglwydd, fel y gwrandawn I ar ei lais ef?" wedi ei frawychu gan daranau a mellt drannoeth, a floeddiai, gweddïwch ar yr Arglwydd (canys digon yw hyn) na byddo taranau Duw na chenllysg;" ac y mae y rhan fwyaf o ddynion yn teimlo y cyfryw argraffiadau oddiwrth allu Duw, ar y naill amser neu y llall.

(2.) Trwy gystuddiau personol. Mae cystudd yn llefaru digofaint yn naturiol; a digofaint yn golygu pechodau; cennad Duw i alw pechod i gof yw cystudd. Amser ys-

tyriaeth yw amser adfyd; ac, oddieithr bod dynion wedi ymgaledu yn ddirfawr, ni's gallant lai nac ystyried pwy sydd yn anfon cystudd, ac i ba ddyben y'i hanfonir.

(3.) Trwy waredigaethau nodedig, fel y bu gyda Naaman y Syriad. Mae gwaredigaethau annysgwyliadwy o beryglon dirfawr, yn effeithio yn ddwys ar feddyliau dynion, gan eu hargyhoeddi o allu a daioni Duw; ac y mae hyn yn peri iddynt gydnabod eu hanheilyngdod eu hunain o'r hyn a dderbyniasent, a rhyw effeithiau tymhorol o ddiolchgarwch ac ymostyngiad i'r ewyllys dwyfol.

(4.) Darfu i sylw ar ymarweddiad rhai eraill, achlysuro i rai ymofyn i'r achosion a'r dyben o'r cyfryw ymarweddiad lawer gwaith; ac y mae hyn yn eu tueddu hwy i ymdebygu iddynt.

(5.) Pregethiad neu ddarlleniad gair Duw yw y prif foddion o hyn; dyma y moddion a ddefnyddia yr Ysbryd Glan yn nechreuad y gwaith yma; trwy y ddeddf y mae dynion yn cael eu hargyhoeddi o bechod.

Yn awr, prin y mae un o'r anghraifftiau hyn o ofal Duw am eneidiau dynion, y rhai a amcana efe eu dychwelyd, na's dyru y gwr duwiol a grybwyllasom fel annghraifft yn barod, ddarluniad o honynt yn ei brofiad ei hunan; gan ddangos hefyd trwy ba foddion y'u hattelid, ac y'u gwnelid yn affwyddiannus. Y cyfryw oeddynt y rhybuddion a roesai Duw iddo trwy gynghorion ei fam; y cyfryw oeddynt yr argyhoeddiadau a gafodd efe drwy ei gystudd ei hunan, a thrwy farwolaeth cyfaill a chydymaith hoff ganddo; ac efe a briodolai affwyddiant yr holl ymrysoniadau hyny, i'w ddallineb naturiol, llygredigaeth ei natur, effaith cyfeillach ddrwg, a dull y byd yn y gwledydd y trigai efe ynddynt; ond byddai yn rhy faith i ni i roddi yma y darluniad manol a ddyru efe o'r pethau hyn, er eu bod oll yn dra theilwng o ystyriaeth; canys rhaid i mi addef nad oes yn ol yn fy marn I neb o'n Duwinyddion i'w cystadlu ag ef mewn sylw manol ar weithrediadau dirgelaidd Ysbryd Duw ar feddyliau dynion tuag at, ac yn eu hargyhoeddiad;

a phrin y darfu i neb olrhain llwybr y sarff, neu weithrediad pechod gwreiddiol yn nghalonnau dynion, yn nghyd a'r effeithioliad a roddir i hyny trwy demtasiwn, neu amryfal achlysuron bywyd, yn debyg iddo ef. Ac efe a ddarluniai gyda manylrwydd rhyfeddol hefyd, y ffyrdd, drwy ba rai y mae twyll pechod yn ceisio osgoi gwaith gras, a'i wrth weithredu, pan y dechreuo gymeryd meddiant o amddiffynfeydd pechod yn y galon. Ac ni's darfu i neb ddarlunio yn fwy grymmus, nerth gras buddugoliaethol, yn nghyda dull ei weithrediad a'i ffyniant: a'r holl bethau hyn trwy arweiniad yr Ysbryd daionus, a sylw ar y gair, a eglurir yn ei brofiad ef ei hunan.

Pan y mae Ysbryd Duw yn galw dynion i wybodaeth achubol o Dduw, y mae yr Ysbryd Glan yn eu hargyhoeddi o bechod. Mewn perthynas i natur yr argyhoeddiad yma yn gyffredinol, mae yn gynnwysedig mewn sefydlu meddwl ofer pechadur ar iawn ystyriaeth o bechod; ac mewn argraffu iawn deimlad o bechod ar feddwl diogel y pechadur, a nawsweiddio ei serchiadau, fel y byddont yn gyfaddas i'w olygiadau. Mae y rhybuddion a grybwyllwyd yn flaenorol yn gyffelyb i floeddiadau a roddir ar ddyn mewn trym-gwsg;—y mae efe yn cyffröi, ac yn cyfodi i fynu; ond wedi ei lethu gan ddylanwad cwsg, y mae efe yn gorwedd i lawr i orphwyso drachefn, fel y mae Awstin yn ei ddarlunio; ond y mae y gwaith yma o argyhoeddiad yn aros, ac ni's gall dynion ymryddhau oddiwrtho.

Gwaith mawr yw sefydlu meddwl ofer dyn diadgenhedledig ar iawn ystyriaeth o bechod; canys y mae tywyllwch ac oferedd ei feddwl am ei droi oddiwrtho o hyd. Yr ydym beunydd yn gweled yr oferedd yma yn ein plant, ein gweinidogion, a'n perthynasau; mor anhawdd, mor anmhossibl yw sefydlu eu meddyliau ar iawn ystyriaeth o bechod! ni ffynna na rhesymau nac annogaethau:—ac y mae "y cryf arfog" yn defnyddio ei holl beiriannau i gadw ei eiddo mewn heddwch, ac attal y gwaith hwn; ond y mae Ysbryd Duw yn sefydlu y meddwl mewn ystyriaeth o bechod; y

mae efe yn argyhoeddi dynion, ac yn trefnu eu pechod o flaen eu llygaid, fel y bydd raid iddynt edrych arno i ba le bynnag y tröant. Ac felly y dywedai Dafydd, fod ei bechod ger ei fron ef yn wastad. Hwy a fynnent daflu eu pechodau o'r tu ol i'w cefnau, ac ymryddhau oddiwrth y meddwl am danynt; ond y mae saethau Duw yn glynu ynddynt.

Ac megis y mae y meddwl fel hyn yn cael ei sefydlu ar yr ystyriaeth o bechod, felly y mae yn rhaid argraffu teimlad o bechod ar y meddwl, neu y gydwybod, hefyd. Ychydig a wasanaetha myfyrdod noeth ar bechod yn unig. Mae yr Ysgrythyr yn darlunio y gwaith yma o argyhoeddiad, fel pe y'i cynnwysid yn benaf mewn teimlad o bechod, trallod, gofid, ofn dystryw, a'r cyffelyb; A'r Ysbryd Glan yw yr achos effeithiol o hyn oll. Efe yn unig sydd yn gwneuthur pob moddion yn effeithiol i'r perwyl yma; canys heb ei ddylanwad union-gyrchol ef, nyni a allwn wrandaw y gyfraith (trwy yr hon y mae adnabod pechod) yn cael ei phregethu ar hyd ein hoes, ac heb ein heffeithio mewn un modd ganddi.

Ac y mae yn deilwng o'n sylw wrth fyned heibio yma, fod Duw yn ei ragluniaeth sanctaidd, yn goruwch-rëoli amgylchiadau allanol y rhai y mae efe yn bwriadu eu galw mewn modd nodedig i'r perwyl hyny. Gwna eu tueddiadau a'u bwriadau; ïe, eu siommedigaethau o'u bwriadau; lleoedd eu preswylfod, eu perthynasau, a'u holl gyssylltiadau mewn bywyd, yn wasanaethgar i'r amcan goruchel yma. Felly y mae Awstin mewn modd arbenig yn helaeth yn ei adfyfyrdodau ar Ragluniaeth Duw yn ei gludo ef o Carthage i Rufain, ac oddi yno i Milan, lle y clybu efe Ambrose yn pregethu; yr hyn a fu yn foddion i'w argyhoeddi ef; ac yn ei holl draethawd ar hyn, efe a ddangosa mewn modd tra godidog ar y naill law, amrywiaeth ei gynlluniau ei hunan, y rhai oeddynt yn wyr-draws yn awl; ac ar y llaw arall, arweiniad gwastadol Rhagluniaeth Ddwyfol yn gweithio yn rymmus trwy bob am-

gylchiad tuag at y dyben bendigedig a amcenid erddo ef. "Tydi (eb efe) yr hwn yw fy ngobaith yn uhir y rhai byw, fel y'm symmudid o'r naill wlad i'r llall, er iachawdwriaeth fy enaid, a gymhwysaist symbylau attaf yn Carthage, fel y'm gyrrid oddiyno, ac a osodaist ddeuiadau i mi yn Rhufain, fel tynnid yno; a hyn a wnaethost trwy ddynion ydynt yn caru bywyd marw mewn pechod; yma yn gwneuthur pethau ysgeler; ac yna yn addaw pethau dymunol i feddyliau ofer, tra yr oeddit ti er uniom a gwellhau fy ffyrdd, yn gwneuthur defnydd dirgelaidd o'u cyndynrwydd hwy a'r eiddof finnau."

Mae yn rhaid addef fod llawer yn colli holl effeithiolrwydd y cyfryw argraffiadau a'r rhai hyn, ac yn myned yn fwy anfad mewn pechod nac erïoed. Felly y dywedai Awstin, ei fod ef, ar ol mogu llawer o argyhoeddiadau, wedi myned mor war-galed, fel, erbyn ei ddwyn i glefyd, yn yr hwn y meddyliai y byddai farw, ac y disgynai i uffern, nad oedd yndda mor dymuniad hwnw am drugaredd a gwaredigaeth, yr hwn a deimlasai lawer o flynyddoedd o'r blaen mewn peryglon llai; ac fe achlusurir y cyndynrwydd yma trwy amrywiol foddion. Yn y rhan fwyaf, y mae yn effaith grym eu chwantau eu hunain; canys yn gymmaint a bod y rhai hyn yn cael eu hattal yn unig, ac nid eu darostwng, y maent yn ymnerthu wrth eu cròni, ac yn gorlifo dros bob argyhoeddiadau. Un diwrnod y maent fel pe gorweddent yn uffern, gan ddychryniadau argyhoeddiadau; a'r diwrnod nesaf, y maent yn carlamu tuag yno yn eu pechodau; ond y mae y gwrthgiliad yma yn cael eu gefnogi yn effeithiol gan eraill yn aml; megis, weithiau, gan y rhai a gymerant arnynt fod yn athrawon ysbrydol, a dysgu dynion am yr hyn ni's dysgasent eu hunain erïoed; y rhai a iachânt eu briwiau yn ysgafn, gan eu troi o'r ffordd. Felly y bu gydag Awstin, yr hwn wedi dechreu ceisio yr Arglwydd, a gwympodd i gymdeithas a chyfeiliornad y Manicheaid, yr hyn a attaliodd ei holl argyhoeddiadau. Mae eraill yn cael eu niweidio gan eu cymdeithion ofer, y

rhai a ymdrechant yn y fan, gyd a'r taerni mwyaf, a than rith cyfeillgarwch, i'w tynu yn ol i'r byd. Ac y mae y gwr duwiol uchod yn tystio gyd a'r fath daerni yr ymdrechai rhai o'i gymdeithion ef ei hudo i'r chwareuyddiaethau a'r cyfarfodydd ofer yn Rhufain. Heblaw hyny y mae y braw fydd yn dal meddyliau dynion dan argyhoeddiadau, yn dueddol i wisgo ymaith, wedi i'r enaid ymgynnefino mewn mesur âg ef; eto heb weled unrhyw niweid yn debyg o ddilyn hyny.

Mewn rhai, y mae yr Ysbryd Glan yn gweled yn dda ddwyn yr argyhoeddiadau yma yn mlaen i derfyniad dedwydd; ac yn y cyfryw amgylchiad, y mae ymrysonfa fawr yn cymeryd lle rhwng eu llygredigaethau a'u hargyhoeddiadau, yn enwedig yn y rhai a ymgynnefinasant â buchedd o bechu, neu â rhyw chwant llywodraethol; canys pan y mae y ddeddf yn dyfod gyda grym at y gydwybod, y mae hi yn gofyn ymadawiad hollawl â phob pechod, dan berygl dinystr tragwyddol i'r enaid. Trwy hyn y mae pechod yn cael ei gyffroi a'i annog; ac y mae yr enaid yn dechreu canfod ei analluogrwydd i ymladd â'r hyn y meddyliai o'r blaen ei fod dan ei awdurdod ef yn hollawl. Felly y mae pechod yn cymeryd achlysur trwy y gorchymyn i weithio pob trachwant mewn dynion; ac y mae y sawl a'u tybiant eu hunain yn fyw, yn canfod yn bresenol mai pechod sydd yn fyw, a'u bod hwy eu hunain yn feirw. Rhuf. 3. 7.

Eto, fe gynnyrcha yr argyhoeddiadau hyn rai ymdrechion ac addewidion i ddiwygio. Mae hyn yn annocheladwy, er heddychu y ddeddf, yr hon a archai iddo wneuthur hyn neu farw; ond ni pharhâ y cyfryw ymdrechiadau yn gyffredin, ddim hwy nac hyd yr achlysur nesaf o bechod neu demtasiwn; mae y fantais, neu yr annogaeth leiaf a roddir allu tufewnol pechod, yn gwawdio y cyfryw benderfyniadau oll, a'r enaid yn ymollwng dan awdurdod ei hen ywydd. Felly yr adroddai Awstin ei brofiad ei hunan, wedi i argyhoeddiadau mawrion, a chyn ei lwyr argyhoeddiad. Nid oeddwn wedi fy rhwymo gan unrhyw gadwaen heb-

law fy ewyllys haiarnaidd fy hunan. Cadwai y gelyn fy ewyllys yn ei feddiant ei hun yn ddïogel, ac o honaw y gwnai y gadwaen â'r hon hon y'm rhwymai; canys o'r ewyllys trofäaus y mae chwant anughyfreithlawn yn cael ei genhedlu; a thrwy fynych ymostwng i'r chwant yma, y mae arferiad yn cael ei ffurfio; ac ymarferiad heb ei gwrthwynebu sydd yn dyfod yn fath o angenrheidrwydd; trwy yr hyn megys cadwaen gydiedig o amryw dorchrwyau, y'm daliai yn dŷn mewn caethiwed blin;" ac yna efe a ddengys mor wanaidd a di-fywyd oedd ei ymdrechiadau i ddiwygio: "Yr oedd y pwn o leserau bydol, yn fy nghadw i lawr yn ddymunol, fel y cedwir dynion yn eu cwsg; a'r meddyliau â'r rhai yr amcanwn ymestyn attat ti, oeddynt fel ysgogiadau gweiniaid y rhai a fynnent ddeffröi o'u cwsg, ond a orchfygir gan syrthni, ac a ddisgynant yn ol i'w cwsg blaenorol;" ac efe a addefai, er na's gallai, gan rym ei argyhoeddiadau, lai na gweddïo am gael ei ryddhau oddiwrth awdurdod pechod, eto trwy ffyniant y gallu hwnw ynddo, yr oedd rhyw ddirgel ddymuniad ynddo, am gael peidio ymadael â'r pechod y gweddïai yn ei erbyn.—"Gweddïais arnat ti am ddiweirdeb; a dywedais, Dyro i mi ddiweirdeb, ond na ddyro hyny eto; canys yr oeddwn yn ofni i ti fy ngwrando yn rhŷ fuan, a'm gwellâu oddiwrth yr anhwylderau o drachwant yn y fan, yr hwn y mynwn ei borthi yn hytrach na'i ddifoddi."

Mae yr ymdrechiadau hyn yn cyfodi yn fynych i gythryblaeth a chyffyngder mawr; canys o dipyn i beth, y mae yr enaid yn cael ei ddarnio a'i rwygo rhwng gallu llygredigaeth a grym dychryn argyhoeddiad; ac achlysurir hyn trwy adnewyddiad argyhoeddiadau blaenorol, a thrwy ymweithiad sanctaidd egwyddor o fywyd a nerth ysbrydol yn yr ewyllys, â natur yr hwn y mae yr enaid eto yn ddieithr. Y modd hyny y bu gyd ag Awstin, tra yr oedd efe eto yn ngafael grym pechod, ac yn barod, ar bob temtasiwn, i ddychwelyd yn ol i'w drofëydd blaenorol, efe a glybu Politianus yn achlysurol yn darlunio argyhoeddiad dau bendefig enwog, y rhai yn y fan a adawsant

y byd, ac a ymroisant yn hollawl i wasanaeth Duw. Rhyngodd bodd i Dduw wneuthur defnydd o hyn i'w ddeffröi ef yn fwy, ac hyd yn hod i'w synu. Sylwedd yr hyn a ddywedai efe yw, "Fod Duw wedi gweled bod yn dda trwy yr ymadroddion hyny o eiddo Politianus, ei ddwyn i'w ystyried ei hunan, gan beri iddo weled ei ddrygioni ei hunan, nes ydoedd wedi ei gythryblu a'i ddyrysu ynddo ei hunan yn arswydus."

Mae yr effaith yma, meddaf, yn deillio oddiar gyfrannogiad o egwyddor ddirgelaidd o ras i'r ewyllys; yr hon gan ei bod wedi ei hamcanu i lywodraethu yn yr enaid, a ddechreua ei hymryson yn effeithiol, i fwrw pechod o'r orsedd; mae yr ysbryd yn awr yn dechreu "chwennychu yn erbyn y cnawd," gan amcanu at fuddugoliaeth drwyadl. Yr oedd ymryson rhwng y gydwybod a'r ewyllys, yn ngwyneb yr argyhoeddiad noeth yn unig; ond y mae yr ymrysonfa yn awr yn yr ewyllys ei hunan; canys y mae gras yn gwrthwynebu y tueddiadau greddfol hyny i bechod, y rhai o'r blaen oeddynt yn llywodraethu yn yr enaid. Felly yr ydoedd gydag Awstin:—"Nid ocdd yr ewyllys newydd oedd yn dechreu ynof, trwy yr hwn y mynaswn dy garu di, O fy Nuw, yn allnog eto i ddarostwng fy ewyllys blaenorol, yr hwn a gadarnhasid trwy hir barhäad. Felly yr oedd fy nau ewyllys, un yn hen, a'r llall yn newydd; un yn gnawdol, a'r llall yn ysbrydol, yn ymryson a'u gilydd, ac yn rhwygo fy enaid gan anughydfod. Dyma y pryd y deallais trwy brofiad, pa beth yw bod y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr ysbryd, a'r ysbryd yn erbyn y cnawd. Yr oeddwn I fy hunan ar y ddau du; ond yn fwy ar du yr hyn a gymeradwywn ynof fy hunan, na'r hyn a gollfarnwn. Nid oeddwn yn fwy o du yr hyn a gollfarnwn, oblegyd fy mod gan fynychaf yn goddef yn anewyllysgar, yr hyn yr oeddwn yn ei wneuthur yn ewyllysgar."

Yn y terfysg enaid yma, y mae Duw yn ei dawelu yn aml trwy ryw air cyfaddas o'r gwirionedd yn mhregethiad yr efengyl, neu trwy ryw foddion eraill. Yn nghanol yr

ystorm yma, y mae efe yn dyfod ac yn dywedyd "Gostega, dystawa," gan ddilyn y gair a'r fath ddylanwad grasol, a ddarostyngo rym pechod, ac a wnelo y meddwl yn dawel mewn llawn benderfyniad i'w roddi i fynu am byth. Fel hyn y bu gydag ef, pan yr oedd fel un wedi gorphwyllo yn dyoddef dychryniadau yr Arglwydd, weithiau yn gweddïo, weithiau yn wylo, weithiau wrtho ei hunan, weithiau gyd a'i gyfeillion, weithiau yn rhodio, weithiau yn gorwedd ar y ddaiar, y'i rhybuddid mewn modd anarferol i gymeryd llyfr i fynu a darllen; y llyfr oedd yn nesaf atto, oedd Epistol yr apostol Paul at y Rhufeiniaid; yr hwn wedi ei gymeryd i fynu a agorodd efe; a'r lle yr agorodd efe gyntaf arno oedd,—"Rhodiwn yn weddus, megis wrth liw dydd; nid mewn cyfeddach a meddwdod, nid mewn cydorwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynnen a chenfigen. Eithr gwisgwch am danoch yr Arglwydd Iesu Grist, ac na wnewch rag-ddarbod dros y cnawd er mwyn cyflawni ei chwantau ef." Yn y fan, wedi darllen o honaw y geiriau hyn, rhoddwyd terfyn ar yr ymrysonfa gythryblus yn ei feddwl. Teimlai ei holl enaid trwy rym anfeidrol ras, yn cael ei ddarostwng i ewyllys Duw, a'i sefydlu mewn penderfyniad i lynu wrtho ef, ac ymwrthod â phob pechod, gan feddu sicrwydd digonol y llwyddai efe yn hyny trwy Iesu Grist. Efe a adroddai hyn yn ddïoed i'w gyfaill yn gyntaf, ac wedi hyny i'w fam, yr hyn a fu yn achlysur o argyhoeddiad i un, ac o lawenydd annhraethadwy i'r llall. Dyma i chwi derfyniad yr hanes yn ei eiriau ef ei hun:—"Wedi darllen yr adnodau hyn ni's mynnwn ddarllen dim yn chwaneg, ac nid oedd eisiau i mi wneyd y pryd hyny; canys ar derfyn yr ymadrodd, fföodd holl dywyllwch fy amheuon ymaith, fel pe buasai ffrydlif o dangnefedd neu ddïogelwch wedi ei dywallt i'm calon: a chan nodi y lle a'm bys, neu ryw arwydd arall, myfi a'i cauais, ac â wyneb pryd tawel adroddais yr hyn a wnaed i Alipius. Ar yr hyn y mynegai yntau hefyd, pa beth oedd ar waith ynddo yntau, o'r hyn yr oeddwn I yn anwybodus. Efe a ddy-

munai gael gweled yr hyn a ddarllenaswn; yr hwn pan y'i dangosais iddo, a ddarllenodd efe yn mhellach nac y darllenaswn I; ac ni's gwyddwn I pa beth oedd y canlyniad; ond hyn ydoedd,—"Yr hwn sydd wan yn y ffydd, derbyniwch:"—yr hyn a gymhwysai efe atto ei hunan, gan ei adrodd i mi; wedi ei gadarnhau gan y cyngor yma, gyda bwriad dïysgog, a thra gweddus i'w foes-weddau ef, yn yr hyn y rhagorai efe gymmaint arnaf fi gynt, efe a unwyd â mi yn ddïoed. Ar hyn nyni a aethom at fy mam, ac a fynegasom iddi yr hyn a wnaethid, a hithau a lawenychodd: darluniasom y dull o honaw, a'r modd y'i gwnaethid, a hithau a lawenychai, a orfoleddai, ac a'th foliannai di O Dduw, yr hwn wyt abl i wneuthur erddom ni fwy nac a allwn ni ei ofyn na'i amgyffred." Ac e gofrestrai y gwr sanctaidd y pethau hyn er darostwng ymchwydd balchder, medd efe. Gwelwn yn esiampl Alipius mor amrywiaethol y mae Duw yn gweled bod yn dda gario ei waith yn mlaen mewn dynion; gan ddwyn rhai trwy argyhoeddiadau cryfion a chyfyngderau dwysion, cyn y deuant i dangnefedd; ac arwain eraill yn esmwyth, heb unrhyw gyffro gweledig i adnabyddiaeth gadwedigol o honaw ei hun trwy IesuGrist.

Peth arall sydd yn cyfarfod â dynion dan y gwaith hwn o argyhoeddiad, yw ofn ac arswyd am eu cyflwr tragywyddol: canys,

(1.) Gan fod argyhoeddiad o bechod yn gyffredin trwy y ddeddf, y mae yn cael ei ddilyn yn fynych â theimlad ac âg amgyffrediad dwys o'r perygl tragywyddol, i'r hwn y mae yr enaid yn agored ar gyfrif euogrwydd pechod; canys y mae y ddeddf yn dyfod yn ei holl rym ar y gydwybod. Gall dynion fod yn hannerog iawn yn eu hufudd-dod i'r ddeddf, ond ni bydd y ddeddf yn hannerog yn ei hymddygiad tuag attynt hwy. Y mae hi, nid yn unig yn argyhoeddi trwy ei goleuni, ond yn collfarnu trwy ei hawdurdod hefyd, ac, hyd yn nod, yn lladd y pechadur. Rhuf. 7. 9.

(2.) Mae yr amgyffrediad yma yn gyffredin yn achlys-

uro teimladau cyffröus a dyryslawn yn y meddwl, megys gofid a chywilydd. Mewn cywilydd yr amlygodd argyhoeddiad o bechod ei hunan yn gyntaf, ac y mae gofid yn ei ganlyn yn wastadol. Mae ofn digofaint tragywyddol hefyd yn gyffredin; ac y mae hyn yn cadw yr enaid mewn caethiwed, ac yn ddilynedig gan drallod. Mae y pechadur a argyhoeddir felly, yn credu bod bygythiad y ddeddf yn wirioneddol, ac yn crynu rhagddo; ac fe ddylynir hyny â rhyw ymholion cythryblus ac anfoddedig am waredigaeth o'r wasgfa bresennol, a thrueni dyfodol.—"Pa beth a wnawn ni?" Pa beth a wnawn ni fel y byddom cadwedig? yw ymholiad di orphwys y cyfryw bersonau. Act. 16.

(3.) Mae hyn yn sicr o yru yr enaid at lawer o ddyledswyddau; megis gweddïo, ymattal oddiwrth bechod, ac ymdrechiadau at gyfnewidiad cyffredinol ar yr ymarweddiad.

(4.) Nid ydym yn prïodoli yr effeithiau hyn i weithrediadau nwydau dynion yn unig, oddiar yr ystyriaeth resymmol o'u cyflwr, canys gellir gosod y pethau hyn o flaen dynion yn y fath fodd, fel na's gallont lai na'u hystyried, a'r canlyniadau a ddilyno hyny, eto heb gael cu trin yn ddwys ganddynt; am hyny y dywedwn bod y ddeddf yn cael ei ddilyn â rhinwedd dirgelaidd oddiwrth Dduw, a elwir "Ysbryd caethiwed," Rhuf. 8. 15., yr hyn sydd yn peri fod ystyriaeth o'r felldith yn argraffedig ar y meddwl, ac yn ei lanw weithiau âg ofn ac arswyd, ïe, â dychryn ac âg anobaith.

(5.) Canfyddir sylwedd y pethau hyn yn gyffredin yn y rhai a ddychwelir mewn cynyd o oedran, ag ydynt yn gyfaddas i dderbyn argraffiadau oddiwrth weinidogaethau allanol, ac yn enwedigol, yn y rhai a aethant rhagddynt yn mhell mewn pechod amlwg; ond ni's gellir pennodi unrhyw rëol neu fesur neillduol o honynt, fel yn hanfodol angenrheidiol cyn dychweliad: canys nid dyledswyddau yw gofid a dychryn, ond yn unig cu bod yn fynych yn dilyn argyhoeddiad o bechod, yr hwn sydd yn ddyled-

swydd; nid ydynt yn perthynu i orchymyn y ddeddf, ond i'w melldith; nid ydynt yn rhan o'i gofynion, ond o'i chosb. Y mae gofid efengylaidd wedi credu, yn ddyledswydd;—ond am y gofid deddfol yma, o'flaith melldith y ddeddf, ac nid ei gorchymyn, ydyw. Sylwer hefyd, bod Duw yn gweithredu yn benarglwyddiaethol yn hyn oll, ac yn ymdrin âg eneidiau dynion mewn awrywiaeth annrhaethadwy o ffyrdd. Y mae efe yn arwain rhai heibio i byrth Marwolaeth ac Uffern, i orphwys yn ei gariad; ac yn gwneuthur llwybrau eraill yn eglur a hyrwydd; mae rhai yn crwydro yn hir mewn tywyllwch, pan y mae Crist yn cael ei ffurfio mewn eneidiau rhai eraill yn yr ymweliad grasol cyntaf.

(6.) Ond, er nad oes rhyw radd bendant o'r caulyniadau hyn o argyhoeddiad yn cael ei osod fel yn angenrheidiol i ragflaenu dychweliad, eto y mae dau beth felly yn gyffredinol; (1.) Y fath argyhoeddiad o bechod, hyny yw, o gyflwr o bechod, o yrfa o bechod, ac o bechodau gweithredol, a ddygo yr enaid i lwyr benderfynu, ei fod trwy hyny yn wrthddrych melldith y ddeddf, a digofaint Duw;—o leiaf, fel hyn y mae Duw yn "cydgau dan bechod," bob un y cymera drugaredd arno; canys rhaid yw cau pob genau, a gwneuthur pawb yn euog ger bron Duw;—a heb hyn ni ddarfu neb erioed, ac ni's gwna neb byth, gredu yn Nghrist; canys nid yw efe yn galw neb atto, ond y rhai ydynt i ryw fesur yn hollol flinedig neu sychedig, neu yn ceisio gwaredigaeth. (2.) Amgyffred priodol, a barn benderfynol, nad oes un flordd o fewn dyfais dyn ei hunan i'w chael allan, neu ei allu i rodio ynddi: nac unrhyw fforddd arall o dreftiad Duw ei hunan, a ddichon waredu yr enaid o'r cyflwr y mae ynddo, ond yn unig yr hon a ddarlunir yn yr Efengyl gan Iesu Grist.

(7.) Dyledswydd y dyn a argyhoeddwyd fel hyn, yw ymofyn am, a derbyn y datguddiad o Iesu Grist, a chyfiawnder Duw ynddo ef. Efe a ddylai addef uniondeb deddfryd y ddeddf dau yr hon y dyoddefa; a chyfiawnhau Duw yn ei sancteiddrwydd, pa beth bynnag a fyddo y can-

lyniad iddo ei hunan. Ni's dylai gredu yn fyrbwyll bob rhyw beth a gynnygir fel moddion gwaredigaeth; canys y mae ofnau ac ofergoelion dynion yn cyflwyno gau ffyrdd yn aml yn yr amgylchiad yma. Mae bywyd ac enaid Pabyddiaeth yn gymmwysedig mewn dyfeisiau i dawelu cydwybodau euog; megys yr offeren, penydiau, ymattaliadau, a'r cyffelyb. Yn wir, y mae deddf sanctaidd Duw ei hunan yn ymddangos i gydwybodau anianol fel pe cynnwysai dybiaeth o fod rhyw fath o gyfiawnder deddfol yn gyrhaeddadwy trwy welliant buchedd. Mae yn wir nad oes gwir ddychweliad heb ymestyniad diffuant at ufuddod; ond y mae twyll yn y pethau hyn oll, gyda golwg ar y dyben yr ymestynir ato; oblegid os bydd i ni bwyso ar unrhyw welliant buchedd i'r perwyl hyny, fe'i ceir fel corsen wedi torri, ac e dylla drwy y llaw a bwyso arni. Canys er fod y ddeddf yn gofyn ymattaliad oddiwrth bechod, a diwygiad buchedd bob amser, nid yw byth yn ei osod allan fel peth a ddichon waredu enaid oddiwrth euogrwydd y byddo tano eisoes; ac os tueddir y meddwl i dderbyn ei hammodau i'r perwyl hyny, ni's gall namyn cau y dyn dan ei melldith.

Mae yn ddyledswydd hefyd ar bechaduriaid argyhoeddedig i ochelyd temtasiynau rhwydawl; fel pe na's byddent wedi cyrhaeddyd gradd ddigonawl o ofid ac ymostyngiad; canys fel y sylwasom, nid oes unrhyw raddau pennodol wedi eu trefnu yn y ddeddf na'r efengyl. Mae eraill yn meddwl nad yw y sawl a geisiasant eu perswadio hwy i gredu, yn gwybod y fath bechaduriaid mawrion ydynt hwy; eto hwy a wyddant fod Crist yn galw y pechaduriaid mwyaf, ac yr ydym yn gwneyd cam a'i ras ef os tybiwn y byddai i'r pechodau mwyaf ei wneuthur yn ofer i'r sawl a ddelo ato ef.

Mae dychweliad pechadur yn cael ei gwblhau trwy genhedliad a gweithrediad ffydd yn Nuw trwy Iesu Grist; ac nyni a ystyriwn hyn mor fyr ac eglur ag y gallwn.

(1.) Gwaith neillduol yr efengyl yw hyn, ac oedd efe

hefyd, er pan roddwyd yr addewid gyntaf. Y gyfraith a ddaeth trwy Moses, ond y gras a'r gwirionedd trwy Iesu Grist. (2.) Y mae yn angenrheidiol i'r perwyl yma, fod yr efengyl, hyny yw, yr athrawiaeth o honi am brynedigaeth, cyfiawnder, ac iachawdwriaeth trwy Iesu Grist, yn cael ei chyhoeddi a'i gwneuthur yn amlwg i bechaduriaid. (3.) Dilynir cyhoeddiad yr Efengyl â datguddiad o ewyllys Duw, gyda golwg ar ffydd ac ufudd-dod. "Hyn yw gwaith Duw," y gwaith a ofyna efe, "gredu o honom yn yr hwn a anfonodd efe:"—ac y mae yr efengyl yn ein dysgu i wasgu y gorchymyn hwn, i gredu yn Nghrist, at gydwybodau dynion, trwy ddangos yr ysgelerder dirfawr sydd yn perthynu i'r pechod o annghrediniaeth; canys y mae yn cynnwys gwrthodiad o dystiolaeth Duw am Iesu Grist, yr hyn sydd yr un peth a'i wneuthur ef yn gelwyddog; ac y mae yn ddirmyg ar ei gariad a'i ras at bechaduriaid colledig, yr hyn yw y traha mwyaf a ellir ei gynnyg ar y Mawrhydi Dwyfol. (4.) Yn nghyhoeddiad yr efengyl, fe osodir Crist allan mewn modd neillduol, megys wedi ei groeshoelio a'i ddyrchafu i fod yn wrthddrych neillduol ein ffydd, ac y mae y cyhoeddiad yma o Grist, yn cynnwys gwahoddiad ar bob pechadur argyhoeddedig i ddyfod atto ef am fywyd ac iachawdwriaeth—(5.) Dywedir hefyd pa beth yw y dyben o osod Crist allan fel hyn, a'i gynnyg i ystyriaeth y pechadur, a hyny yw, i'w "gwared oddiwrth eu pechodau," neu, "oddiwrth y digofaint sydd ar ddyfod." Cyhoedda yr Efengyl, fod ffordd wedi ei gadael eto, drwy yr hon y gallant ddïanc rhag melldith y ddeddf; mai trwy yr Iawn a wnaed gan Iesu Grist i gyfiawnder Duw y mae hon; ac mai ei ewyllys ef yw, bod i ni ei derbyn ac ymostwng iddi. (6.) Addawir hefyd, y bydd i bechaduriaid argyhoeddedig ar eu crediniaeth yn Nghrist, dderbyn maddeuant a chyfiawnhäad, trwy gyfrifiad iddynt hwy o'r hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd Crist yn eu lle. (7.) Fel y llwydder gyda dynion i dderbyn Crist, llenwir yr efengyl â rhesymmau, gwahoddiadau, annogaethau, ac addewidion,

wedi eu bwriadu i amlygu a datgan cariad, gras, a ffyddlondeb Duw yn hyn.—(8.) Yn mysg yr amrywiol ffyrdd hyn trwy ba rai y mae Duw yn datgan ei feddwl a'i ewyllys, y mae yn fynych yn peri i ryw air, addewid, neu ymadrodd neilltuol, lynu yn meddwl pechadur, fel yn yr anngrhaifft a grybwyllasom o'r blaen. Trwy hyn y cyffröir yr enaid gyntaf i weithredu y ffydd â'r hon y'i doniwyd; ac fel hyn y mae dynion yn cael eu harwain i orphwysfa, heddweh a chysur. (9.) Y mae y gweithrediad yma o ffydd yn Nghrist yn cael ei dilyn âg ymwneuthuriad trwyadl y galon â phob ufudd-dod sanctaidd, yn nghyd ag ymadawiad â phob pechod adnabyddus, gan gynnyrchu o angenrheidrwydd gyfnewidiad a diwygiad trwyadl ar y fuchedd. Gan hyny, ofer ac ynfyd yw gwaradwyddiadau rhai, y rhai gan fyw mewn halogedigaeth a bydolrwydd, a feiant ar craill am bregethu cyfiawnhad trwy ffydd, gan haeru eu bod trwy hyny yn cau sancteiddrwydd allan. Ond y mae y rhai a feiant hwy fel hyn, yn dysgu yn unfryd, Mai ofer yw y ffydd nad yw yn puro y galon ac yn diwygio y fuchedd, nad yw yn wirioneddol, ond mai marw yw, ac y bydd i encidiau dynion gael eu twyllo yn dragywyddol os ymddiriedant ynddi. Maent hefyd yn gwasgu yr angenrheidrwydd anhebgorol am sancteiddrwydd cyffredinol ar egwyddorion diogelweh, ac â dadleuon gwell na'r rhai a honnir gan y sawl a'u cyhoeddant hwynt ar gam ac mewn anwybodaeth. (10.) Yr oedd y rhai a ddychwelid at Dduw fel hyn yn yr amserau gynt, ar eu proffes o hyny yn cael eu derbyn i gymdeithas yr eglwys, ac i gyfrannogiad o'i dirgeledigaethau, a chan mai dyma y ffordd arferol y'u dygid i gymdeithas y ffyddloniaid, yr oedd yn foddion effeithiol i beri cariad angerddol yn eu plith hwy oll, ar gyfrif eu cyd gyfrannogiad yn ngras ein Harglwydd Iesu Grist.*

* Crybwyllaf yma hanes derbyniad Victorinus, athronydd Platonaidd i gymmundeb eglwysig, fel y'i hadroddwyd i Awstin gan Simplicianus.

"Pan ddaeth yr amser yr oedd efe i wneuthur proffes o'i ffydd, yr hyn

A dyma yr ail waith mawr o ciddo Ysbryd Duw yn y Grëedigaeth Newydd. Dyma ddarluniad crynöawl o'i ddull yn ffurfio aelodau o gorff dirgeledig Crist:—ond y mae yr holl athrawiaeth yma yn cael ei gwawdio yn awr gan rai yn ein mysg, er y gwyhyddir mai dyma oedd athrawiaeth wastadol esgobion dysgeidiccaf Eglwys Lœgr. Ac fel y mae yr athrawiaeth wedi ei goganu, y mae pob profiad o honi yn cael ei gyhoeddi yn ben-boethni ac ynfydrwydd. Er rhagflaenu balchder yr yspryd ffiaidd yma, yn mhrofiad Awstin; oblegyd fel y mae rhai o watworwyr yr athrawiaeth hon wedi ymchwyddo mewn tyb fawr am eu rhagoriaeth eu hunain, a dirmyg ar bawb a'u gwrthwynebant, eto ped ymchwyddent nes ymdorri ar eu traws, fel y llyffant yn y chwedl, ni's llwyddent byth a'u mawrygwyr hoffaf i gael ganddynt gredu eu bod yn gyfartal mewn ffraethder, gras, a dysgeidiaeth, a'r gwr enwog hwnw, yr hwn oedd mor nodedig fel amddiffynwr y gwirionedd, a goleuni yr oes yr oedd yn byw ynddi.

yr arferent ei wneuthur yn Rhufain mewn rhyw ffurf bendant o eiriau, wedi eu dysgu yn y cof, y rhai a draddodid o le uchel yn ngwydd y ffyddloniaid; cynnygiai yr henuriaid i Victorinus gael gwneuthur ei broffes yn gyfrinachol, yr hyn oedd yn fath o dynerwch a ganiattëid i rai gwyl weithian; ond efe a ddewisai yn hytrach gael gwneuthur proffes o ffydd ei iachawdwriaeth o flaen yr holl gynnulleidfa: gan ei fod wedi proffesu yr hyn a ddysgasai efe mewn rhethreg yn y modd mwyaf cyhoeddus, er nad trefn iachawdwriaeth ydoedd hyny. Pa faint llai gan hyny y dylai efe ofni cyhoeddi dy air sanctaidd di ger bron dy braidd gostyngedig ac addfwyn; yr hwn nid arswydai draddodi ei arcithiau ei hunan o flaen torfäoedd afrëolaidd! Gan hyny, cèn gynted ag yr esgymodd efe i wneuthur ei gyffes, pob un a'i hadwaenai, (a phwy na's adwaenai efe?) a'i henwai wrth y nesaf atto mewn dull llon gyfarchialol: a chlywid y gair *Victorinus* yn cael ei swnio trwy y gynnulleidfa, y rhai oeddynt yn barod i orfoleddu yn yr olwg arno; ond dystawai pawb yn y fan fel y gallent ei glywed ef. Yna efe a adroddai ei gyffes o'r wir ffydd, gydag ëofndra tra chanmoladwy; a phawb oedd yn bresenol a ewyllysient ei gofleidio yn eu calonnau; yr hyn befyd a wnaethant trwy gariad a llawenydd: canys y rhai hyn oeddynt y breichiau a'r rhai y cofleidient ef." Gellir dysgu llawer am drefn, dysgyblaeth, a chariad gwresog y cyn-gristionogion, yn eu cymdeithasau eglwysig oddiwrth y dernyn yma.

LLYFR IV.

NATUR SANCTEIDDAAD, A SANCTEIDDRWYDD EFENGYLAIDD YN CAEL EI EGLURO.

PENNOD I.

Adenedigaeth yn cael ei ddwyn yn mlaen trwy santeiddäad.

Yn adenedigaeth a dychweliad etholedigion Duw yr hwn a ddarluniais o'r blaen, y cynnwysa yr ail ran o waith yr Ysbryd Glan yn y Grëedigaeth Newydd.—Ac nid dechreu y gwaith yma yn unig y mae efe; ond y mae efe yn ei barhau, ac yn ei ddwyn yn mlaen hyd berffeithrwydd, yn eu sancteiddäad; natur ac effeithiau yr hyn yr ydym i'w ystyried yn awr.

Yn y bummed bennod o'i epistol cyntaf at y Thessaloniaid, wedi eu hannog at amryw ddyledswyddau efengylaidd pwysig, mae yr apostol yn terfynu â gweddi fywiog drostynt hwy, adn. 23., "A gwir Dduw y tangnefedd a'ch sancteiddio yn gwbl oll; a chadwer eich yspryd oll, a'ch enaid, a'ch corph, yn ddïargyhoedd yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist." Y rheswm am hyn yw, am fod yr holl rasusau a'r dyledswyddau a ofynai efe yn perthyn i'w sancteiddäad; yr hyn er ei fod yn ddyledswydd arnynt hwy, nid oedd yn hollol yn eu gallu hwy eu hunain, ond yn waith Duw arnynt,—gan hyny, efe a weddïai ar i Dduw eu sancteiddio hwy fel hyn yn gwbl oll, fel y cyd-ffurfient â'i orchymynion ef; ac efe a'u sicrhai y cyflawnid hyn, trwy grybwyll ffyddlondeb Duw, adn. 24; "Ffyddlawn yw yr hwn a'ch galwodd; yr hwn hefyd a'i gwna." Ac fel nad oedd y sicräad yma yn deillio oddiar ddim neillduol ynddynt hwy, ond oddiar ffyddlondeb Duw, y mae yn perthynu i'r un graddau i bawb a alwyd neu a

elwir yn effeithiol: hwynt hwy oll a sancteiddir yn drwyadl yn anffaeledig, ac a gedwir yn ddiargyhoedd hyd ddyfodiad Crist.

Dywedir yma mai awdwr sancteiddäad yw Duw. Efe yw y ffynnonell dragywyddol o bob sancteiddrwydd; nid oes dim mewn un crëadur, ond yr hyn sydd yn deillio yn ddigyfrwng oddiwrtho ef; ac am hyny y dywedir mor benderfynol mai Duw ei hunan yw yr Awdwr o hono; os na's gwneir y gwaith hwn gan Dduw, ni's gellir ei wneuthur gan neb arall; gan hyny rhaid ei weithredu gan Dduw ei hunan. Y mae efe yn ei wneuthur o hono ei hunan, sef o'i ras; trwyddo ei hunan, sef trwy ei allu ei hun; ac erddo ei hunan, sef ei ogoniant ei hun: a hyny mewn modd neillduol dan y golygiad o'i fod yn "Dduw y tangnefedd."

Prïodolir y teitl yma i Dduw yn fynych; a dywedir ei fod yn ein sancteiddio ni fel Duw y tangnefedd, oblegyd fod ein sancteiddäad yn ffrwyth ac effaith y tangnefedd hwnw âg ef ei hunan, yr hwn a wnaeth efe erddom ni trwy Iesu Grist; canys heb olygu y cymmod yma, ni's sancteiddiai efe nyni mwy na'r angelion cwympiedig dros y rhai ni's gwnaed iawn neu gymmod. Yn mhellach; trwy sancteiddiad ein natur a'n personau, y mae Duw yn cadw yr heddwch hwnw âg ef ei hun mewn gweithrediad; canys yn y dyledswyddau a'r ffrwythau o honaw, y mae yr holl weithrediadau hyny tuag atto ef, a ofynir mewn cyffwr o dangnefedd a chyfeillgarwch, yn gymwysedig. Sancteiddrwydd sydd yn cadw profiad o heddwch a Duw yn yr enaid, ac yn attal y rhwygiadau ysbrydol hyny a achlysurid gan y gweddillion o'n gelyniaeth; ac yma fe ddywedir ei fod ef yn ein sancteiddio ni *yn gwbl oll*, hyny yw, y mae ein holl natur yn ddeiliad y gwaith yma, ac nid rhyw un gymmeddf o honi; ac fe'i dygir yn mlaen hyd oni's cwblheir, ac oni's perffeithir. Cymmwysir y ddau feddyl-ddrych yma yn y geiriau a grybwyllwyd yn barod; canys fe ddarlunir yma yn bendant fod ein holl natur, ein hysbrydoedd, ein beneidiau, a'n cyrff yn ddeiliaid y gwaith yma o sancteidd-

äad; a'r dyben o'r cwbl yw, ein cadw yn ddïargyhoedd yn nhangnefedd Duw hyd ddyfodiad Crist.

Gwaith Duw trwy ei Ysbryd ar ein holl ysbryd, yw sancteiddiad, megys y'i darlunir yma; yn deillio o'r cymmod a wnaethpwyd drosom ni gan Iesu Grist, trwy yr hyn, wedi ein cyfnewid i'w gyffelybiaeth ef, y'n cedwir yn drwyadl mewn heddwch â Duw, ac y'n dïogelir yn ddïargyhoedd, neu mewn cyflwr o gymeradwyaeth grasol gyd ag ef hyd y diwedd.

Rhaid i ni ystyried yn ddyfal natur y gwaith hwn, a'i effaith; sef ein sancteiddiad, yn nghyd a'r angenrheidrwydd am hyny. Mae pwysfawredd y gwirionedd ei hunan, a'r gwrthwynebiad a wneir iddo, yn peri bod hyn yn dra angenrheidrol; yn wir ein prif ddyledswydd yn y byd hwn yw adnabod yn gymhwys, pa beth yw bod yn wir sanctaidd.

Mae yn ofynol i ni rag-nodi un peth, sef, Bod yr Ysgrythyr yn son am ddau fath o sancteiddiad, Y cyntaf sydd yn gyffredinol i bersonau a phethau, yn eu cyssegriad neilldnol i wasanaeth Duw. Fel hyn y sancteiddid yr offeiriaid a'r Lefiaid, y tabernacl a'r deml; ond am y llall yr ymdrinwn ni yn bresenol, yn yr hwn y mae y neilldnad yma, nid y peth cyntaf a wneir, ond yr effaith o honaw. Mae hwn yn wirioneddol a thufewnol, trwy gyfrannogiad o egwyddor sanctaidd.

Mae y sancteiddiad yma o eiddo yr Ysbryd, yn gyssylltiedig neilldnol â, ac yn gyfyngedig i wirionedd a gras yr Efengyl; canys planniad yr Efengyl yn ein heneidiau yw sancteiddrwydd. Am hyny y'i gelwir yn Eph. 4. 24. Osiotes tes Aletheias *gwir sancteiddrwydd*, neu sancteiddrwydd y gwirionedd;—yr hwn a genhedlir trwy yr Efengyl, ac sydd yn gynnwysedig mewn cydffurfiad â hi. Fel hyn y gweddiai ein Iachawdwr dros ei ddysgyblion, gan ddywedyd, "Sancteiddia hwynt yn, neu drwy dy wirionedd, dy air sydd wirionedd." Ioan 17. 17. Dyma yr unig wirionedd a'n rhyddha oddiwrth bechod a'r ddeddf, i

gyflawnder mewn sancteiddrwydd.—Nid yw yn perthynu i natur nac i'r ddeddf. Mae natur yn hollol lygredig a gwrthwyneb iddo. Gwir yw fod y ddeddf wedi ei rhoddi trwy Moses i ryw amcanion neillduol; ond trwy Iesu Grist y daeth pob gras a gwirionedd. Ni bu, nid oes, ac ni bydd byth, y gronyn lleiaf o sancteiddrwydd yn y byd, ond yr hyn gan lifeirio oddiwrth Iesu Grist, a gyfrenir gan yr Ysbryd, yn ol gwirionedd ac addewid yr Efengyl. E ddichon fod rhyw beth tebyg o ran gweithrediadau ac effeithiau allanol; rhyw beth yn gwisgo ei arwydd luniau, nad yw namyn ffrwyth ymdrechiadau dynion eu hunain, dan rym eu hargyhoeddiadau; ond nid sancteiddrwydd yw hyn, ac nid yw o'r un natur ag ef, er fod dynion yn dra thueddol i'w twyllo eu hunain a'r cyfyw beth. Ac mewn gwirionedd, nid oes dim o fewn holl ddirgelwch duwioldeb, na cheisia natur lygredig ei ffuantu, o'i choron uchaf, (yr hon yw person Crist, wedi ymddangos yn y cnawd) hyd yr effaith isclaf o'i ras. Mynent nad yw yr Arglwydd Crist yn ei holl berson namym dyn yn unig:—yn ei ufudd-dod a'i ddyoddefaint, namyn esampl yn unig; ei fod yn ei athrawiaeth i'w gyfyngu o fewn cylch dirnadaeth rheswm anianol; ac nad yw y sancteiddrwydd y mae efe yn ei gyfrannu trwy ei Ysbryd, namyn rhinwedd moesol. Ond y mae y dychymmygion isel a chnawdol yma, yn dra anheilwng o ras Crist a gogoniant yr Efengyl. Rhinwedd moesol yw y peth gorau yn mysg dynion o'r eiddynt eu hunain; mae yn tra rhagori mewn teilyngdod ar holl anrhydedd, elw, a phleserau y byd, ac y mae yn deilwng o ystyriaeth, yr addysgiadau a roddwyd mewn perthynas iddi, a'r canmoliaeth a roddwyd i'w hardderchawgrwydd a'i dymunoldeb gan ddoethion paganaidd, y rhai er hyny a addefent yn rhwydd fod rhyw beth eto ynddi na's gallent ddim ond ei ryfeddu a'i fawrygu heb ei ddirnad; a rhoddwyd amryw anngrheifftiau nodedig o'r ymarferiad o honi yn mucheddau llawerocdd o honynt, esamplau y rhai, mewn cyflawnder, dirwest, ac amynedd yn mhob amgylchiad, ydynt

yn cyfodi i fynu yn bresenol er cywilydd i laweroedd a'u galwant eu hunain yn Gristionogion, ac a gyfodant i'w condemnio yn y dydd diweddaf. Ond, y mae tybied mai y rhinwedd moesol yma, pa mor ardderchog bynnag a fyddo, yw y gwir sancteiddrwydd hwnw y mae credinwyr yn ei dderbyn trwy Ysbryd Crist yn ddiraddiad a darostyngiad ar ras Crist, ac yn tueddu i beri i ddynion esgeuluso ymofyn am ran ynddo. A hyn sydd yn peri fod llawer dan rith parchu sancteiddrwydd yn dirmygu yr hyn sydd felly mewn gwirionedd, gan eu boddio eu hunain âg enw gwag, neu ysgerbwd gwywedig o rinwedd, is a gwaelach, fel y gwelir yn eu hymarweddiad yn eglur, na chyfiawnder y paganiaid: a dylai hyn ein cyffro i fod yn fwy astud yn ein hymofynion yn nghylch ei wir natur, fel na byddo i ni ein twyllo ein hunain â gau ymddangosiadau i'n dystryw.

2. Ein dyledswydd yw ymofyn i natur sancteiddrwydd efengylaidd, gan fod dirgelwch ynddo annirnadol i lygaid doethineb anianol. Nyni a allwn ddywedyd am hyn fel y dywedodd Job am ddoethineb;—"O ba le y daw doethineb? a pha le y mae mangre deall? canys hi a guddiwyd oddiwrth lygaid pob dyn byw."—"Colledigaeth a marwolaeth sydd yn dywedyd, Ni a glywsom â'u clustiau son am dani hi. Duw sydd yn deall ei ffordd hi, ac efe a edwyn ei lle hi.—Ac wrth ddyn efe a ddywedodd, Wele, ofn yr Arglwydd, hyny ydyw doethineb, a chilio oddiwrth ddrwg sydd ddeall." Hon yw y ddoethineb hòno y mae ei ffyrdd a'i thrigias yn guddiedig oddiwrth reswm anianol, a deall dynion, am hyny nid yw yn rhyfedd yn y byd ei bod yn cael ei gwawdio fel rhyw wag dyb ben-boeth. Ac felly y mae yn dygwyddo yn aml, fel yn mysg y Phariseaid gynt, mai y rhai mwyaf zelog dros gyfiawnder deddfol, y rhai a rodiant mewn ymarferiad dyfal o'u dyledswyddau, ydynt y gelynion mwyaf annghymmodlawn i wir sancteiddrwydd efengylaidd. Nid ydynt hwy yn ei adnabod, ac am hyny y maent yn ei gasâu; maent wedi colleidio rhyw beth arall yn ei le, ac am hyny yn dirmygu ac yn erlid y gwirionedd.

3. Mae credinwyr eu hunain yn ddycithr iawn i hyn yn aml, naill ai o ran eu dirnadaeth o'i wir natur, ei achosion, a'i effeithiau, neu o leiaf, o'u cyfrannogiad eu hunain yndo. Megis na's gwyddom ni o honom ein hunain y pethau a weithir ynom ni gan Ysbryd Duw; felly anfynych yr ydym yn rhoddi y sylw a ddylem i'r addysg a rydd efe i ni ynddynt. E ddichon ymddangos yn dywyll mae yn wir, gan fod yr holl gredinwyr yn cael eu sancteiddio, eu bod hwy heb ddeall yr hyn sydd yn cael ei weithredu, ac yn aros ynddynt eu hunain; Ond och! leied a adwaenom ni o honom ein hunain; o ba beth yr ydym, ac o ba le y mae ein galluoedd naturiol, a'n cynneddfau! Mor ychydig a wyddom ni am ein heneidiau hyn! A'r ychydig a wyddom, trwy eu gweithrediadau yn unig y'i gwyddom. Gan hyny, pa ryfedd yw, ein bod gymmaint yn y tywyllwch am y natur newydd yma, yr hon sydd oddi uchod, ac a'r hon ni's medda ein rheswm anianol unrhyw gydnabyddiaeth? Mae yn newydd; mae yn rhyfedd, mae yn waith goruwch-naturiol; a thrwy ddatguddiad goruwch-naturiol yn unig y'i hadwaenir.

4. Dylem ystyried hefyd nad yw sancteiddrwydd yn gyfyngedig i'r fuchedd hon; ond y mae yn ymestyn drosodd i dragywyddoldeb a gogoniant. Ni's gall angau ei ddystrywio, na'u hamddifadu o honaw. Mae yn wir fod ei weithrediadau yn ddarfodedig, ond y mae ei ffrwyth yn parâu yn dragywydd yn ei wobrwy. Mae y rhai ydynt yn meirw yn yr Arglwydd yn gorphwys oddiwrth eu llafur a'u gweithredoedd yn eu canlyn hwynt. Nid yw Duw yn anghyfiawn fel yr annghofio lafur eu cariad. Ni chaiff y ffrwyth lleiaf o sancteiddrwydd, cymmaint a rhoddi cwpanaid o ddwfr oer i ddysgyblion Crist, beidio a bod mewn coffa tragywyddol. Ni chollir dim; ond cesglir yr holl friwion, ac fe'u cedwir yn ddïogel byth. Dïeir pob peth arall yn y byd hwn, pa mor deg bynnag y byddo, fel gwair a soft; pan y bydd y gwanaf a'r dirgelaf o ffrwythau sancteiddrwydd yn cael eu casglu fel aur ac arian i drysor

Duw. Nac ofned unrhyw enaid y collir dim o'i lafur yn nyledswyddau sancteiddrwydd, yn yr ymdrechfa fwyaf dirgelaidd am burdeb oddifewn, a ffrwythlondeb oddiallan mewn marweiddiad pechod, gwrthwynebiad temtasiynau mewn hunan-ymwadiad,—yr hyn oll a wyddoch chwi, a'r hyn ni's gwyddoch, a elwir drosodd, ac a barhâ yn dragywyddol yn ei wobrwy.

Ond nid hyn yw y cyfan. Fe erys sancteiddrwydd yn dragywydd yn ei hegwyddor. Mae yn wir y bydd rhai doniau yn darfod, gan y byddant yn ddiangenrhaid mewn cyflwr o ogoneddiad; ac fe dderfydd rhai grasusau o ran ryw weithrediadau neillduol, megys ffydd a gobaith, can belled ag y perthynant i bethau dyfodol ac anweledig; ond yr holl rasusau hyny, yn y rhai y mae sancteiddrwydd yn gynnwysedig, a arosant yn dragywydd yn eu natur bresenol, wedi eu coethi hyd berffeithrwydd. Yn ein gwybodaeth o honynt, yr ydym yn cael yr olygfa benaf a feddwn o'n cyflwr tragywyddol mewn gogoniant; ac y mae hyn yn sail sicr o gysur, ac yn rhan o'n llawenydd penaf yn y byd hwn. Onid yw yn ddefnydd llawenydd annrhaethol, feddwl y bydd i'r cyrff gwaelion hyn, wedi eu gwneuthur yn ysglyfaeth i angau, y pridd, a'r pryfaid, a llygredigaeth, gael eu hadferu i fywyd ac anfarwoldeb; eu rhyddhau oddiwrth gystudd, gwendid, a blinder, a'u doniaw â rhagoriaethau cyffelyb i gorff gogoneddus Crist; yr hyn ni's gallwn ei ddeall eto? Onid yw yn llawenydd annrhaethadwy i ni feddwl y bydd i'r eneidiau hyn gael eu gwaredu oddiwrth eu holl dywyllwch, anwadalwch, a dyeithriwch i bethau ysbrydol? Ond nid hyn yw y cwbl; ein grasusau llesg a barheir, a burir, ac a berffeithir.—Y cariad â'r hwn yr ydym yn awr yn glynu wrth Dduw fel ein daioni pennaf, a'r ffydd, trwy yr hon y'n hunir â Christ, fel ein Pen tragywyddol; yr hyfrydwch hwnw yn ffyrdd Duw a'i ordinhadau, trwy yr hwn y mwynheir ei bresenoldeb ef; y serchawgrwydd hwnw a feddwn at bawb yn y rhai y gwelwn ddelw Crist; yn nghyd a'r egwyddor drwyadl hono o

fywyd ysbrydol, sydd ynom yn bresenol, a burir, a berffeithir, ac a fwynheir i ogoniant. Y sancteiddrwydd hwnw a gyrhaeddwn ni yma, y tueddiadau, a'r gogwyddiadau meddwl hyny, y galluoedd a'r doniau hyny i ufuddhau i Dduw, ac ymlynu wrtho, y rhai ydynt yr awrhon yn ymryson a phwys eu gwendid a'u hanmherffeithrwydd eu hunain, a berffeithir yn ogoneddus i fod yn reddfau dïanwadal, i weithredu ein heneidiau yn annghyfnewidiol yn y mwynäad o Dduw; ac y mae hyn hefyd yn dangos i ni o'r fath bwys i'w i ni fod yn hyddysg yn athrawiaeth sancteiddäad, ac uwchlaw y cwbl, i fod yn feddiannol ar y sancteiddrwydd yma mewn gwirionedd

5. Y mae gogoniant ysbrydol a nefol ynddo yn y byd hwn. Am hyny y dywedir fod yr Eglwys, merch y Brenin, "oll yn ogoneddus o fewn;" gelwir ei haddurniad tufewnol á grasusau yr Ysbryd, yn Ogoniant; a chynnydd credinwyr i ogoniant mewn sancteiddrwydd, a elwir "cyfnewid o ogoniant i ogoniant;"--o un gradd o ras gogoneddus i radd arall. Megys mai hyn, yn nesaf i brydferthwch cyfiawnder Crist wedi ei wisgo am danom, yw ein hunig brydferthwch yn ngolwg Duw, felly y mae gogoniant gwir ysbrydol ynddo; blaen-ffrwyth y nefoedd ydyw; pelydryn o oleuni tragywyddol; egwyddor o fywyd tragywyddol, a natur drwyadl y cariad hwnw, trwy yr hwn y glynwn wrth Dduw yn dragywyddol.

6. Dyma yr hyn y mae Duw yn ei ofyn yn anesgusadwy oddiwrthym ni; ac yn wir dyma y cwbl y mae efe yn ei ofyn genym, canys y mae yn cynnwys holl ddyled dyn; ac y mae hyny yn ddïau yn peri ei fod yn angenrheidiol i ni wybod pa beth ydyw, ac ymofyn yn ddifrifol am gael cyfrannogi o hono; canys pa was, yn meddu rhyw deimlad o'i berthynas a'i ddyledswydd, os gwyddai nad yw ei feistr yn gofyn ond un peth ganddo, nid ymdrecha i ymgyfnabod a'r peth hyny, a'i gyflawni!

Ond ni's dylem ar un cyfrif dybied fod Duw yn gofyn y sancteiddrwydd yma genym, fel y gwnelom iawn drwy

hyny dros ein pechodau; er fod yr egwyddor hon wedi gwreiddio yn ddwfn yn ein natur, a bod yn ffynhonell ofergoelion rhyfeddol yn mysg Paganiaid a Phabyddion; ac ni's gofynir hyn, fel y byddo yn gyfiawnder er ein cyfiawnäad rhagllaw; canys fe'n cyfiawnheir yn rhad, "trwy ras, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist," ac nid trwy weithredoedd:—ac nid yw yn ofynol ychwaith, fel y byddo i ni drwy hyny deilyngu bywyd; canys nid yw yr hyn oll a allwn ni ei wneuthur, yn ddim mwy na'n dyledswydd, ac ni's gallwn gyflawni hono, ond trwy ras; ac am fywyd tragywyddol, rhad rodd Duw ydyw, ac nid gwobrwy o ddyled. Llawer llai y gofynir sancteiddrwydd, fel trwy wneuthur mwy na'n dyledswydd, y gallom orhaeddu dim ar ran eraill; yn ol cyfeiliornad Eglwys Rhufain, yn yr hyn y maent yn rhagori ar holl Phariseaeth yr Iuddewon.

Mae yn wir fod rheswm anianol yn penderfynu, os nad yw yr hyn a ofyna Duw yn angenrheidiol ar un o'r cyfrifon hyn, nad yw yn angenrheidiol ar un cyfrif; ac ni's gall ddirnad pa ham y dylid cyflawni gweithredoedd da, oddi eithr eu bod ar ryw gyfrif yn haeddedigol; canys nid yw yn prisio yn awdurdodaeth ei orchymyn; na'r angenrheidrwydd am adnewyddiad ei ddelw ef ynom ni, er cael cymmundeb âg ef yma, a mwynäad o hono mewn gogoniant; nac yn ei ddoethineb yn trefnu ufudd-dod sanctaidd, fel y moddion i amlygu ein diolchgarwch iddo, ac i'w ogoneddu ef yn y byd; ond y mae y goleuni achubol cyntaf a dywynno i'n heneidiau trwy yr efengyl, yn dechreu ein di dwyllo yn hyn; ac nid oes prawf amlycach o'n bod wedi derbyn bedydd efengylaidd i ysbryd yr efengyl, na chyd flurfiad trwyadl ein meddyliau â doethineb Duw yndd.

7. Ond, heblaw gorchymyn Duw, nyni a ddylem ystyried yr addewidion gwerthfawr a wnaeth efe i gyflawni y gwaith da hwn ynom. Da y gwyr yr hwn sydd yn ei ofyn genym, nad ydym yn ei feddu ynom ein hunain. Yn awr y mae Duw wedi amlhau ei addewidion i'r perwyl yma:—Efe a ddywedodd, "Myfi a dynaf ymaith y galon

garreg, ac a roddaf i chwi, galon o gig,—calon newydd a roddaf i chwi,—ac ysbryd newydd a roddaf o'ch mewn chwi,—mi a ysgrifenaf fy nghyfraith yn eich calon,—mi a roddaf fy ofn yn eich calon,—ac a baraf i chwi rodio yn fy neddfau, a chadw fy marnedigaethau." Jer. 31. 33, &c.—Mae yr oll o'n sancteiddäad yn gynnwysedig yn yr addewidion hyn. Cael ein glanhau oddi wrth halogrwydd pechod, cael calon ogwyddedig bob amser i ofni Duw, ac i redio yn ei ffyrdd ef yn ol hyny, yw cael ein sancteiddio, neu fod yn sanctaidd; ac y mae Duw wedi addaw yn bendant, wneuthur hyn oll ynom ni.

Ac yn y fan yma, nyni a allwn droi ychydig o'r ffordd i ystyried pa sylw a ddylai fod genym ar y gorchymyn yma ar un llaw, a'r addewid ar y llaw arall; ar ein dyledswydd ein hunain, ac ar ras Duw. Mynnai rhai ysgaru y pethau hyn fel pethau annghysson. Tybiant hwy nad yw gorchymyn yn gadael lle i addewid; a meddyliant fod addewid yn cymeryd ymaith rym awdurdodol gorchymyn. Os ein dyledswydd yw bod yn sanctaidd, nid oes le wedi ei adael i ras; ac os effaith gras yw sancteiddrwydd, yna nid oes le i ddyledswydd; ond ffrwyth doethineb y cnawd yw yr holl ymresymiadau yma; mae "y doethineb sydd oddiuchod" yn dysgu pethau amgenach i ni. Mae yn wir fod dyledswydd a gras yn wrthwynebol y naill i'r llall mewn cyfiawnäad, gan eu bod yn llwyr annghysson: "Os o weithredoedd, nid yw o ras mwyach; ac os o ras, nid o weithredoedd mwyach:" ond nid yw ein dyledswydd ni a gras Duw, yn cael eu darlunio yn wrthwynebol i'w gilydd yn un mân yn ein sancteiddäad; canys y mae y naill yn tybied y llall. Ac nid allwn gyflawni ein dyledswydd yn hyn heb ras Duw; ac nid yw Duw yn rhoddi ei ras i un dyben arall, ond fel y cyflawnom ein dyledswydd yn iawn. Gall yr hwn a wado naill ai bod Duw yn gorchymyn i ni fod yn sanctaidd mewn ffordd o ddyledswydd, neu yn addaw gweithredu sancteiddrwydd ynom mewn ffordd o ras, wrthod yr holl Feibl gyd a'r un prïodoldeb. Gan hyny, os mynwn fod

yn sanctaidd, mae yn rhaid i ni werthfawrogi y ddau beth hyn, y naill cystal a'r llall. Pan yn edrych ar y *gorchymyn*, dylai ein cydwybodau deimlo ei awdurdod, fel gorchymyn Duw; canys ufudd-dod yw sancteiddrwydd, ac y mae ufudd-dod yn golygu awdurdod y gorchymyn. Rhaid i ni hefyd weled a deall rhesymoldeb a dymunoldeb y gorchymyn. Mae ein gwasanaeth yn rhesymol wasanaeth; ac o gadw ei orchymynion, y mae gwobr lawer; ac am hyny yr ydym yn ymhyfrydu ynddo fel y mae yn sanctaidd, yn gyfiawn ac yn dda, oblegyd fod y pethau a ofyna yn uniawn, yn esmwyth, ac yn hyfryd i'r anian newydd; ac nyni a fyddwn yn iawn olygu yr *addewid*, pan yn (1) Y byddom yn rhodio dan deimlad gwastadol o'n hanalluogrwydd i gydffurfio â'r gorchymyn o ran dim cymhwysder ynom ein hunain; canys "ein digonedd ni sydd o Dduw." (2.) Pan fyddom yn mawrygu y gras a arlwyodd gymhorth ac ymwared i ni. (3.) Pan fyddom yn rhoddi ffydd ar weithrediad mewn gweddi a dysgwyliad wrth yr addewid, am gyflenwadau o ras i bob ufudd-dod sanctaidd. (4.) Pan fyddo ein llygaid arni mewn modd neillduol yn wyneb temtasiynau neillduol, a dyledswyddau arbenig, pan ar y cyfryw achlysuron, na byddom yn ein boddloni ein hunain ar ryw sylw cyffredinol ar yr addewid, ond yn gweithredu ffydd arni mewn modd neillduol am gymhorth.

8. I ddyfod yn nes i'n prif amcan, yr ydwyf yn tystio mai yr Ysbryd Glan yw Sancteiddydd uniongyrchol yr holl gredinwyr, ac Awdwr eu holl sancteiddrwydd. Tybiaf nad rhaid i mi ymdroi i gadarnhau y gosodiad yma; canys profais o'r blaen mai efe yw Cyfranydd union-gyrchol pob gras dwyfol, ac heblaw hyny, y mae hyn yn cael ei addef mor gyffredinol, mai yr Ysbryd Glan yw Sancteiddydd holl etholedigion Duw, fel megis nad amheuir y gwirionedd, ni raid i ni geisio ei brofi yn mhellach.

PENNOD II.

Sancteiddäad yn waith cynnyddol.

Wedi ystyried amryw bethau yn dwyn perthynas a sancteiddäad yn gyffredinol, myfi a gynnygiaf yn y lle nesaf roddi darluniad o honaw, ac yna ei egluro yn fwy neillduol.

Gwaith digyfrwng Ysbryd Duw ar eneidiau y credinwyr yw sancteiddäad, yn puro eu natur oddiwrth halogrwydd pechod, yn adnewyddu delw Duw ynddynt, a thrwy hyny yn eu galluogi oddiar egwyddor ysbrydol a greddfol o ras, i ufuddhau i Dduw, yn ol amcan y cyfammod newydd, trwy rinwedd bywyd a marwolaeth Iesu Grist.

Cymeraf i fynu y darluniad cyffredinol yma, ac yn yr ystyriaeth o'i rannau, ceisiaf ddarlunio natur ac effeithiau gwirioneddol y gwaith hwn, yn enwedig yn yr hyn y ceisir ei wadu a'i wrth brofi.

Profwyd o'r blaen mai gwaith Ysbryd Duw ydoedd, a'i fod yn waith gwirioneddol, tufewnol, a grymmus, yn, ac ar eneidiau credinwyr, ac y mae yn gwahaniaethu oddiwrth ailenedigaeth yn bennaf ar gyfrif y dull o'i weithrediad. Mae ailenedigaeth yn cael ei wneuthur yn ddisymmwth, ac yn gynnwysedig mewn un weithred grëadwriaethol; o herwydd pa ham ni's gall fod graddau ynddo; nid yw y naill yn cael ei aileni yn fwy na'r llall; ond, y mae sancteiddäad yn gynnyddol, ac yn goddef graddiaeth; gall un fod wedi ei sancteiddio yn fwy na'r llall, yr hwn er hyny sydd wedi ei sancteiddio yn wirioneddol. Fe'i dechreuir ar unwaith, ac fe'i dygir yn mlaen yn raddol.

Fe'n hannogir i gynnyddu mewn sancteiddrwydd yn aml yn yr Ysgrythyrau, ac fe addawir hyny i ni; felly y llefarai yr apostol Pedr, (2 Pedr 3. 18.) "Na chwympwch oddiwrth eich sicrwydd eich hun, eithr cynnyddwch mewn gras a gwybodaeth ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist." Nid digon yw, bod i ni beidio dirywio yn ein cyf-

lwr ysbrydol, ond gofynir i ni ymdrechu am wellau, a chynnyddu mewn gras; a chanmolir hyn yn fawr yn y Thessaloniaid, (2 Thess. 1. 3.) sef mawr gynnydd eu ffydd, ac ychwanegiad eu cariad: a gelwir hyn, "cynnyddu gan gynnydd Duw," (Col. 2. 19.) neu y cynnydd hwnw mewn sancteiddrwydd, a ofynir, a dderbynir, ac a gymeradwyir gan Dduw.

Nid yw gwaith sancteiddäad yn ei ddechreuad, namyn cyffelyb i fwrw had i'r ddaiar, yr hwn ond cael ei feithrin, y mae yn ei natur wreiddio, a tharddu a dwyn ffrwyth. Felly y mae gyda had Duw, yr egwyddor o sancteiddrwydd; mae yn fach ar y dechreu; ond pan y'i derbynir i galonau hawddgar a da, y rhai a wnaethpwyd felly gan Ysbryd Duw, a'i fagu a'i feithrin yno, y mae yn gwreiddio ac yn dwyn ffrwyth; ac y mae y ddau beth hyn, y planiad cyntaf, a'r cynnydd, o'r Ysbryd; yr hwn a ddechreuodd y gwaith da hwn, a'i gorphen hyd ddydd Crist; ac y mae efe yn gwneuthur hyn ddwy ffordd.

Yn gyntaf. Trwy nerthu a chynnyddu y grasusau hyny a dderbyniasom ac a ddefnyddiasom. Mae rhai grasusau y rhai nid yw eu hymarferiad yn ymddibynu ar unrhyw achlysuron allanol, ond ydynt yn angenrheidiol anhebgorol, i'r radd leiaf o fywyd duwiol, a hyny mewn ymarferiad gweithredol; ac o'r cyfryw y mae ffydd a chariad. Y mae graddau yn perthynu i'r grasusau hyn, ac o ganlyniad gellir eu cynnyddu. Darllenwn am ychydig ffydd, a ffydd fawr: am ffydd wan, a ffydd gref; y naill a'r llall yn gywir, ac yr un mewn sylwedd, ond yn gwahaniaethu mewn graddau. Y mae hefyd gariad gwresog, a chariad sydd mewn cydmariaeth yn oer. Felly gan hyny, mae y grasusau hyn yn cael eu cynnyddu yn raddol, yn ugwaith y sancteiddäad. Felly y gweddïai y dysgyblion ar i'r Gwaredwr ychwanegu eu ffydd hwynt;—ychwanegu at ei goleuni, lluosogi ei gweithrediadau, a'i gwneuthur yn gref yn erbyn pob rhuthriadau; a gweddïai yr apostol dros yr Ephesiaid, ar iddynt hwy fod wedi eu gwreiddio a'u

seilio mewn cariad; hyny yw, bod iddynt trwy gynnydd eu cariad, gael eu sefydlu yn fwy yn holl ddyledswyddau eu proffes. Y mae yr Ysbryd Glan yn cryfhau y grasau hyn;—

1. Trwy eu cyffroi i weithredu yn fynych. Mae tuedd mewn ymarferiad i'w cynnyddu a'u meithrin; ac y mae Ysbryd Duw yn eu cyffroi i weithrediad trwy gyflwyno eu gwrthddrychau priodol iddynt yn brydlawn, yn neillduol yn mhregethiad y gair, ac ordinhadau addoliad dwyfol, eraill. Wrth fod Duw yn Nghrist, addewidion y cyfammod, a gwrthddrychau priodol eraill i gyffroi gweithrediad ffydd a chariad, yn cael eu cyflwyno ger bron ein hystyriaethau, y mae y grasau hyn yn cael eu tynu i weithrediad. Dyma un budd arbenig a ennillwn ni oddiwrth weinidogaeth y gair; ac yr ydym yn camgymeryd yn ddirfawr os ydym yn meddwl nad ydym yn cael dim llesäad oddiwrth y gwirionedd, yn mhellach na'r hyn a gadwom o honaw yn ein cof, (er y dylem lafurio am hyny hefyd,) y'nac ein budd pennaf ni yn gynnwysedig yn hyn, bod i ffydd, cariad, a grasusau eraill, gael eu cyffroi i'w hymarweddiad priodol: heb yr hyn y byddai iddynt nychu a gwywo; ond trwy hyn fe'u cedwir yn fyw; ac fel hyn y mae yr Ysbryd Glan yn cymeryd o'r eiddo Crist, ac yn ei fynegi i ni, ac yn "dwyn ar gof" yr hyn a lefarodd efe. Yma y gorwedd elw cuddiedig y credinwyr dan yr Efengyl, o'r hyn y dichon eu bod hwy eu hunain yn anhysbys. Trwy y moddion yma y mae miloedd o weithrediadau ffydd a chariad yn cael eu tynu allan; y grasusau hyny eu hunain yn cael eu nerthu; ac o ganlyniad sancteiddrwydd yn cael ei gynnyddu. Y mae efe yn gwneuthur hyny yn wirioneddol a thafewnol. Gelwir yr holl rasusau yn "ffrwythau yr Ysbryd," efe sydd yn eu dwyn hwynt allan o'r cyff a blannodd efe yn y galon; ac ni's gallwn ni roddi un gras ar weithrediad heb ei weithrediad effeithiol ef yn hyny; "Duw sydd yn gweithio ynom ni ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef." Mae yr Ysbryd yn preswylio yn y credinwyr, yn cynhyrfu eu

grasusau yn effeithiol i ymarferiad mynych, ac felly yn eu cynnyddu a'u cryfhau; ac am hyny, nyni a ddylem fod yn hynod o ofalus na thristäom yr Ysbryd daionus hwn, ac felly ei annog ef i attal ei gynnorthwyon grasol oddiwrthym.

2. Mae yr Ysbryd Glan yn dwyn y gwaith o sancteiddäad yn mlaen trwy lanw credinwyr â phrofiad o wirionedd, gwirfodoldeb, ac ardderchawgrwydd y pethau a gredir. Profiad yw ymborth pob gras, ar yr hyn y cynnydda ac y ffynna. Mae pob prawf a gaffo ffydd o gariad a gras dwyfol, yn ychwanegu at ei maint a'i grym. Ac o herwydd hyn y mae Duw yn ymliw â'r eglwys, yn nghylch gwendid ei ffydd, wedi cymmaint o brofiad o'i allu a'i ffyddlondeb:—"Oni wybuoch? oni chlywsoch? Pa ham y dywedwch, Cuddiwyd fy ffordd oddiwrth yr Arglwydd, a'm barn a aeth heibio i'm Duw?" Ac y mae yr apostol yn cadarnhau fod y cysuron a dderbyniasai efe yn brofiadol oddiwrth Dduw, yn ei alluogi i gyflawni ei ddyledswydd tuag at eraill mewn trallod;—canys felly yr ydym yn profi, neu mewn gwirionedd yn cymeradwo "daionus a chymeradwy, a pherffaith ewyllys Duw," gan lawn ymfoddloni ynddo. Mor fynych y mae Dafydd yn calonogi ei ffydd ei hun a'r eiddo eraill, drwy goffâu ei brofiad blaenorol! yr hyn hefyd a ddadleuid gan Grist ei hunan yn ei gyfyngder mawr. Yr Ysbryd Glan sydd yn rhoddi ein holl brofiadau ysbrydol i ni; ei swydd ef yw gweinyddu cysur, fel Dyddanydd mawr yr eglwys; ac y mae yn ei weinyddu, trwy roddi profiad ysbrydol, bywiog, i credinwyr o wirfodoldeb, a grym y pethau a gredir. Ni's gwn am unrhyw gyfryngau eraill o gysur ysbrydol, ac nid yw hwn byth yn pallu. Rhodder prawf i'r enaid o gariad a gras Duw yn Nghrist Iesu, a bydded ei gyflwr yr hyn a fyddo, ni's gall wrthod ei ddyddanu, a thrwy hyn y mae efe yn tywallt cariad Duw ar led yn ein calonau, trwy yr hyn y meithrinir ac y cynnyddir pob gras.

3. Y mae efe yn gwneuthur hyn trwy weithredu yn ddi-

gyfrwng, gynnydd gwirioneddol ar y grasusau hyn ynom ni; megis y crëodd efe hwynt ar y dechreu, felly y mae efe yn eu cynnyddu, a thrwy hyn y gwneir y llesg fel Dafydd; y rhai yr oedd eu grasusau yn weiniaid, eu ffydd yn egwan, a'u cariad yn llesg, yn dyfod trwy eu llenwi o'r Ysbryd, yn gryfion a heinyf.

Yn ail. Y mae grasusau eraill, ymarferiad y rhai sydd yn fwy achlysurol:—nid rhaid eu bod hwy mewn ymarferiad gweithredol yn barhaus, megys y mae ffydd a chariad i fod. Gyda golwg ar y rhai hyn, y mae sancteiddrwydd yn cael ei gynnyddu trwy ychwanegu y naill at y llall, nes y'n dygir ar lawer achlysur i'w rhoddi oll ar weithrediad; ac y mae rhagluniaeth ddoeth Duw yn gwneuthur ei holl berthynasau, cystuddiau, profedigaethau, a phob rhyw amgylchiadau yn wasnaethgar i'r dyben yma. Ac y mae hyn cael ei orchymyn i ni,—"A hyn yma hefyd, gan roddi cwbl ddiwydrwydd, chwanegwch at eich ffydd, rinwedd; ac at rinwedd wybodaeth; ac at wybodaeth, gymedroldeb; ac at gymedroldeb, amynedd; ac at amynedd, dduwioldeb; ac at dduwioldeb, garedigrwydd brawdol; ac at garedigrwydd brawdol, gariad." 2 Pedr 1. 5—7. I'r perwyl yma y rhoddwyd yr holl addewidion, ac y mae anian dduwiol yn cael ei chyfrannu. Ond, a wna hyny y tro? neu, A oes dim yn ychwaneg yn ofynol oddiwrthym ni i'r dyben hyny? Oes, medd yr apostol, y mae yn ofynol i ni roddi cwbl ddiwydrwydd i chwanegu y naill ras at y llall, fel y byddo achlysur yn gofyn. Yr amcan yma sydd i holl gystuddiau yr eglwys; am hyny y dywedai yr apostol Iago, "Cyfrifwch yn bob llawenydd, fy mrodyr, pan syrthioch mewn amryw brofedigaethau, gan wybod fod profiad eich ffydd chwi yn gweithredu amynedd: ond caffed amynedd ei pherffaith waith; fel y byddoch berffaith a chyfan, heb ddiffygio mewn dim." Mae ein holl brofedigaethau dan lywyddiaeth Crist, trwy ei Ysbryd; ac y maent wedi eu hamcanu i'r perwyl yma, fel y byddo i ffydd gael ei hymarfer, ac amynedd ei rhoi ar waith, a'r naill ras gael ei ych-

wanegu at y llall. Yn wyneb yr amgylchiad yma, y mae efe yn ein coffáu yn effeithiol o'n dyledswydd, a pha rasusau a ddylai gael eu rhoddi mewn gweithrediad. Nyni a allwn deimlo tuedd i ymddadleu ynom ein hunain, pa un oreu ai gweithredu ffydd, ynte digaloni; ai ymarfer amynedd dan brofedigaethau parhaus, ynte ceisio gwaredigaeth mewn ffordd afreölaidd; yna Efe a bair i ni glywed llais o'n hol yn dywedyd, "Dyma y ffordd, rhodiwch ynddi, pan bwysoch ar y llaw ddehau, neu pan bwysoch ar y llaw aswy." Pan fyddom ni ar ddyrysu, yn methu gwybod pa beth i'w wneyd, ac yn barod hwyrach, i ymgynghori â chig a gwaed, efe a lefara wrthym yn effeithiol, gan ddywedyd "Nage nid hon yna, ond hon yw y ffordd sef gweithredu ffydd amynedd, ac ymostyngiad i Dduw." Ac yn awr, gwaith yr Ysbryd yw hyn, yr hwn sydd nid yn unig yn rhoddi natur yn yr adenedigaeth a all gynnyddu, ond hefyd yn cyfranna er ei chynnydd mewn gwirionedd. "Myfi yr Arglwydd a'i dyfrhaf ar bob monent;" a'r Ysbryd yw y dwfr bywiol hwn. Mae Duw Dad wedi cymeryd arno ei hunan ofal y winllan hon: "Myfi yr Arglwydd a'i cadwaf nos a dydd." Yr Arglwydd Crist yw Ffynhonell yr holl gyflawnder o bob arlwyon; a'r Ysbryd yw yr achos effeithiol, trwy yr hwn y'u cyfrennir i ni oddiwrtho ef. A hyn yw y rheswm pa ham y mae unrhyw ras yn cael ei gadw yn fyw am fynyd; ei fod byth yn gweithredu mewn unrhyw ddyledswydd, neu ei fod yn derbyn y radd leiaf o gynnydd ar unrhyw bryd. Gyda golwg ar hyn oll y dywedai yr apostol, "Byw ydwyf, eto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi." Y mae bywyd ysbrydol yn ei holl weithredoedd, yn deillio yn ddigyfrwng o Grist.

Nid oes neb a fedd ryw gymmaint o wir ras, na's gall yr Ysbryd trwy ei ofal am dano, a'i gyflenwadau iddo, ei ddïogelu, a'i ryddhau oddiwrth bob gwrthwynebiadau, gan ei gynnyddu i'w gyflawn faintioli, a hyd berffeithrwydd;—gan hyny, "cyfodwch i fynu y dwylaw a lacsasant, a'r gliniau a ymollyngasant;" y mae a wnelom a'r un na's dryllia gorsen yssig, ac na's diffydd lin yn mygu;—ac ar

y llaw arall, ni's derbyniodd neb erïoed gymmaint o ras fel ag y gallo ei gadw am un foment, neu ei roddi ar weithrediad unwaith heb dderbyn cynnorthwyon parâus yr Ysbryd; canys hebddo ef ni's gallwn ni wneuthur dim. Am ba achos y mae Duw wedi trefnu goruchwyliaeth ei ras i grediuwyr yn y fath fodd, fel, tra y maent oll yn byw ar gynnorthwyon ei Ysbryd, na's gallant gael achos ar un llaw i lesgau, nac ar y llaw arall i ymogoneddu ynddynt eu hunain; rhoddi sylfaen ffydd i bawb, heb roddi achlysur o ryfyg i neb.

Terfynaf fy sylwadau ar hyn, gydag ystyriaeth o'r gyffelybiaeth a ddefnyddir mor fynych yn yr Ysgrythyr i ddarlunio cynnydd graddol gras a sancteiddrwydd; sef tyfiant prennau a phlanhigion. "Byddaf fel gwlith i Israel; efe a flodeua fel y lili, ac a leda ei wraidd megis Libanus. Ei geinciau a gerddant, a bydd ei degwch fel yr olewydden, a'i arogl fel Libanus." Hos. 14. 5, 6. "Tywalltaf fy Ysbryd ar dy had, a'm bendith ar dy hiliogaeth, a hwy a dyfant megis yn mysg glaswellt, fel helyg wrth ffrydiau dyfroedd." Esa. 44. $\frac{1}{3}$, 4.

(1.) Mae egwyddor tyfiant y prennau a'r planwydd hyn ynddynt eu hunain. Nid yw eu tyfiant yn deilliaw yn ddigyfrwng o gynnorthwy allanol, ond o'u rhinwedd hadawl eu hunain. Fel hyn y mae gyda chynnydd sancteiddrwydd: y mae iddo wreiddyn, had, neu egwyddor tyfiant yn yr enaid. Had anfarwol yw pob gras, ac y mae yn cynnwys ynddo egwyddor gynnyddol fywiol:—nid gras yw yr hyn ni's medda fywyd, ac egwyddor neu allu tyfawl ynddo ei hun; ac am hyny pa ddyledswyddau bynnag a gyflawno dynion, dan gyfarwyddyd goleuni anianol, os na byddant yn deillio oddiar egwyddor o fywyd ysbrydol yn y galon, nid ffrwythau sancteiddrwydd ydynt. (2.) Rhaid dyfrhau pren, neu blanhigyn oddiuchod, neu ni's ffynna trwy rym ei allu hadawl ei hunan; ond os daw sychder, efe a wywa ac a nycha Am hyny y mae Duw yn priodoli y twfiant yma i'w ddwfräad ei hunan. "Byddaf fel

gwlith," ac "Tywalltaf ddyfroedd," yw yr achos neillduol o honaw; ac y mae Duw yn gwneuthur hyn trwy gynnorthwyon neillduol ei Ysbryd. (3.) Y mae tyfiant prennau a phlanhigion yn ddirgelaidd, ac heb fod i'w ganfod namyn yn ei effeithiau yn unig; ni's gall y llygad craffaf a dyfalaf ganfod nemmawr o'i ysgogiad; ac yn gyffelyb y mae yn nghynnydd sancteiddrwydd. Ni's gellir ei ganfod yn uniongyrchol gan y rhai y byddo ynddynt, neu gan eraill a fyddont yn sylwi arno, oddieithr trwy ei ffrwythau a'i effeithiau. Mae rhai yn wir, yn enwedig ar amserau, yn cynnyddu ac yn ffynnu yn amlwg, gan dyfu "fel helyg wrth ffrydiau dyfroedd:" er fod eu tyfiant ynddo ei hunan yn annghanfyddadwy, eto y mae yn eglur eu bod wedi tyfu. Felly y dylai pawb o honom fod: ac megis yr haera rhai fod planhigion yn tyfu trwy ryw ruthriadau disymmwth, ac achlysurol (yr hyn a ellir ei ganfod weithiau yn agoriad blagur a blodau) felly y mae cynnydd credinwyr yn gynnwysedig gan mwyaf mewn rhyw weithrediadau bywiog o eiddo gras ar ryw achlysuron arbennig, megys ffydd, cariad, gostyngeiddrwydd, haelfrydedd, &c. Trachefn, y mae prennau a phlanhigion yn meddu egwyddor o fywyd ynddynt, ond mor wywedig ac anffrwythlawn fel mai prin y gellwch ganfod fod bywyd ynddynt; ac felly y mae gyda gormod o gredinwyr: maent oll yn brennau wedi eu plannu yn ngardd Duw; rhai o honynt ydynt yn mynedrhagddynt yn gynnyddfawr, ac eraill yn nychu dros dymhor; ond y mae tyfiant y goreu yn ddirgel iawn.

Gan hyny, mae yn eglur fod sancteiddäad yn waith cynnyddol. Ni's cwblheir ynom ar unwaith fel ailenedigaeth, ac nid oes unrhyw raddau a gyrhaeddo yn rhoddi terfyn ar ei gynnydd. Gellir rhoddi terfyn i lifiant afon a borther yn ddi dor o ffynnon o ddwfr bywiol, cyn iddi gyrhaedd y môr, mor hawdd a rhoddi terfyn ar gynnydd gras hyd oni chyrhaeddo ogoniant: canys y mae llwybr y cyfiawn fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwy fwy hyd ganol dydd. Gellir cymmylu goleuni y boreu dros yspaid, eto ni phalla

nes cyrhaedd perffeithrwydd; felly hefyd y mae gyda llwybr y rhai a arweinir gan yr Ysbryd; ac fel y mae doethineb, amynedd, a gallu yr Ysbryd yn annrhaethol yn hyn, felly y maent yn cael eu mawrygu yn wastadol gan y rhai ydynt dan ei driniaethau grasol ef. Pwy a wnaeth unrhyw sylw manol ar ei galon ei hunan, a gweithrediadau gras o'i mewn i'w dwyn i'w gradd a'i mesur presenol o sancteiddrwydd, nad yw yn mawrygu gofal gwyliadwrus, a gweithrediadau galluog Ysbryd Duw! Nid yw yr egwyddor o sancteiddrwydd, fel y mae ynom ni, namyn llesg a di nerth am mai ynom ni y mae hi; ond y mae efe yn dïogelu ac yn meithrin hon, fel na's gorchfyger gan lygredigaethau a themtasiynau. Yn mhlith holl weithredoedd gogoneddus Duw, yn nesaf i brynedigaeth drwy Iesu Grist, bydd fy enaid yn mawrygu y gwaith hwn o eiddo yr Ysbryd, yn dïogelu yr egwyddor o sancteiddrwydd ynom ni, fel gwreichionen o dan byw yn nghanol y cefnfor, yn erbyn yr holl lygredigaethau a'r profedigaethau trwy y rhai y'i gwrthwynebir. Mae llawer o adwyon yn cael eu gwneuthur yn ngyrfa ein hufudd-dod gan ruthriadau pechodau gweithredol; ond y mae efe yn cau'r adwyon hyn, gan feddygyniaethu ein gwrthgiliadau, ac adgyweirio ein dirywiadau. Ac y mae yr hwn nad yw yn dal sylw manol ar foddion dïogeliad ei fywyd ysbrydol, yn colli llawer o ddyddanwch y bywyd hwnw; ac nid rhan fechan o'n pechod a'n ffoledd yw bod yn esgeulus yn hyn.

Mae pob credadyn wedi ei argyhoeddi o hyn i ryw fesur yn ddïau, trwy Ysgrythyr a phrofiad; ac nid oes dim yn yr hyn y gallant ei ddysgu yn amlyccach nac yn ngweithrediad eu meddyliau mewn gweddi. "Ysbryd gras a gweddïau," sydd yn eu galluogi hwy i weddïo, y mae efe yn darlunio ac yn dynodi yr hyn a weithreda efe ynddynt fel Ysbryd sancteiddiad, a phe byddai i ni ddoeth ystyried ei weithrediad yn ein calonnau mewn gweddi, nyni a allem ddeall cryn lawer o'i waith ar ein calonnau trwy ras. Yn awr gan hyny ymofynwn pa fodd y mae yr Ysbryd

Glan yn ein dysgu ni i weddïo? (1.) Trwy roddi golwg ysbrydol i ni i addewidion Duw, a gras y cyfammod, trwy yr hyn y'n dygir i wybod pa beth a ofynom. (2.) Trwy ein gwneuthur yn hysbys o'n hangenion, a rhoddi i ni y fath ddwys deimlad o honynt fel na's gallom oddef heb gael ymwared. (3.) Trwy gyffroi dymuniadau yn y crëadur newydd am ei ddiogeliad, ei gynnydd, a'i ymgeledd ei hunan. Attebiad i hyn yw ei holl waith o sancteiddäad; canys ei gymhwysiad effeithiol ef o'r gras a'r drugaredd sydd barottöedig yn addewidion y cyfammod trwy Grist Iesu, ydyw y cyfan; fel hyn y mae efe yn cyflenwi ein hangenion ysbrydol; ac yn dodi bywyd ac egni yn y crëadur newydd. Fel hyn y mae ein gweddïau yn fâth o dalfyriad, neu eiliad (*copy*) o waith yr Ysbryd, wedi ei roddi i ni ganddo ef ei hunan. Yn awr ystyriwch am ba beth y byddwch yn llafurio yn benaf mewn gweddi; Onid am gael gwannychu, darostwng, ac o'r diwedd lwyr ddystrywio corff pechod? Onid am i holl rasusau yr Ysbryd gael eu hadnewyddu, eu cynnyddu, a'u cryfhau beunydd? A pha beth yw hyn oll, ond bod i sancteiddrwydd gynnyddu yn raddol yn eich eneidiau, hyd oni ddelo i berffeithrwydd?

E all y bydd rhyw rai yn barod i ddywedyd, nad ydynt hwy yn cael ynddynt eu hunain, nac yn canfod ar eraill, fod y gwaith o sancteiddäad yn barhaus gynnyddol; teimlasant hwy ras yn fywioccach amser a fu, nac yn ddiweddar; a hyn a bair fod llawer yn cwyno gan eu culni, eu marweidd-dra, a'u diffrwythder; "O na byddai gyda ni fel yn y dyddiau gynt, yn nyddiau ein hieuenctyd! "Myfi a ystyriaf yr wrthddadl hon, ac a'i symmudaf mor bell, fel na's niweidio wirionedd y gosodiad sydd dan sylw, ac nas digaloner y rhai ydynt heb fod yn atteb yn gyflawn iddo.— Gan hyny sylwer, (1.) Mai un peth yw yr hyn y tuedda gras yn ei natur ei hunan iddo a'r hyn yw dull cyffredinol yr Ysbryd o weithredu; ond, mai peth arall yw yr hyn a ddichon gymeryd lle drwy anhwyldeb, afrëoleidd-dra, neu

unrhyw rwystr arall a ddichon gymeryd lle yn neiliaid y gwaith hwn. O dan yr ystyriaeth gyntaf, y mae y gwaith yn gynnyddol a ffynniannus; yn yr olaf, y mae y rhëol yn ddarostyngedig i eithriadau. Mae plentyn a feddo gyfansoddiad da, ac a gaffo ymborth priodol, yn mynedrhagddo ac yn cynnyddu; tra y dichon fod un arall, a gaffo ei anafu trwy godymmau, neu y byddo rhwystrau ac anhwylderau tufewnol ynddo, yn llesg a digynnydd. Pan y'n hadgenhedlir yr ydym fel rhai bychain newydd eni, ac yn y cyffredin, os porthir ni â "didwyll laeth y gair," nyni a "gynnyddwn trwyddo;" ond os ymollyngwn dan demtasiynau, i lygredigaethau, esgeulusdra, neu gydymffurfiad á'r byd; a yw e yn un rhyfeddod ein bod yn ddi fywyd ac yn ddi ffrwyth? Digon er cadarnhau gwirioneddyr haeriad yma yw, os nad yw y gwaith o sancteiddäad yn cael ei ddwyn yn mlaen yn raddol yn mhob un y'i dechreuir ynddo, mae hyny yn gyffredin yn cael ei achlysuro drwy ei esgeulusdra pechadurus ef ei hunan, drwy ei goleddiad o'i chwantau cnawdol, neu ei gariad at y byd drwg presenol. (2.) Un peth yw bod sancteiddrwydd yn ffynnu mewn un yn wirioneddol; peth arall yw i'r enaid fod yn wybyddus o hyny; a gellir gwahaniaethu y ddau beth hyn.

Ond cyn y nodwyf y rhesymau am hyn, y mae yn addas i mi rag grybwyll un rhybudd angenrheidiol, sef, Megys y cynnygir y rhëol hon er ymwared i'r rhai ydynt mewn terfysg yn achos eu cyflwr, nid oes i'r rhai hyny un gyfran yn ddi, y rhai a allant ddeall pa fodd y mae arnynt pan y mynnont: canys os ydynt yn coleddu unrhyw chwant llygodraethol, os ydys yn byw yn esgeulus o unrhyw ddyledswydd adnabyddus, neu yn yr ymarferiad o unrhyw ffordd dywyllodrus; os ydynt yn goddef i'r byd ddifa cynnydd mwyaf dymunol eu heneidiau, neu ffurfioldeb i fwytta bywyd eu dyledswyddau,—nid oes genyf ddim i'w gynnyg iddynt hwy, i brofi y gall sancteiddrwydd gynnyddu, er na's gallant hwy ddirnad hyny; canys yn ddiammeu ni's gall ei fod yn cynnyddu, ond dirywia fwy fwy. Rhaid

deffróì y cyfryw rai trwy lymder, fel dynion wedi cwympo i hun-glwyf marwol; rhaid eu cipio fel pentewynion o'r tân, rhag i'w diwedd fod yn dywyliwch a gofyd tragywyddol. Ond am y rhai ydynt yn rhodio gyda Duw yn ddiffuant a gostyngedig, gellir rhoi llawer o resymau i'r cyfryw er dangos y gall sancteiddrwydd fod ar gynnydd ynddynt hwy, er eu bod hwy eu hunain heb ganfod hyny; canys yn gymmaint a'i fod yn addawedig mewn cymmîser o addewidion cfengylaidd, y mae yn wrthddrych priodol ffydd, neu yn beth i'w gredu. Esboniad Duw ar y cyfammod yw ei addewidion ef; ac y mae eu cwbläad yn ymddibynu ar ffyddlondeb Duw, ac nid ar ein profiad ni o hyny. Gan hyny, lle nad ydym ni yn rhoddi tramgwydd amlwg ar y ffordd, nyni a allwn, ac a ddylem gredu eu bod yn cael eu cwblnau ynom ni, er nad ydym ni yn meddu profiad parhaus o hyny. Trachefn: Ein dyledswydd ni yw cynnyddu mewn sancteiddrwydd; ac nyni a ddylem gredu y bydd i Ddaw ein cynnorthwyo yn yr hyn a ofyna genym; a'i fod yn gwneuthur hyny pa fath bynnag yw ein teimladau presenol ni; ac y mae yr hwn a allo gredu cynnydd sancteiddrwydd ynddo ei hunan ar y seiliau yma, er na byddo yn meddu rhyw brofiad teimladwy o hyny, yn fy marn I, mor ddïogel, os nid dïogelach ei gyflwr, na'r hwn trwy weithrediad bywiog serchiadau ysbrydol, a fyddo yn fwyaf teimladwy o hyny; canys y mae yn sicr nad yw y cyfryw un yn lluddias cynnydd sancteiddrwydd ynddo ei hunan yn wirfoddol; ac nad yw mewn perygl i'w feddwl gael ei wag ddyrchafu, ac felly fyned yn ddïofal yn nghylch hyny fel craill; oblegyd tra yr ydym yn byw trwy ffydd, ac nid trwy deimlad mewn un modd, nyni a fyddwn yn ostyngedig, ac yn ofni yn wastadol: a'r cyfryw un, pan na's caufydda yndclo ei hunan brawf o'r hyn a ddymuna fwyaf, a fydd yn ofalus yn wastadol, na's gŷr hyny yn mhellach oddiwrtho.

Un rheswm am yr anhawsder yma yw, bod y gwaith ei hunan yn dra dirgelaidd, fel y crybwyllasom o'r blaen; ac

am hyny, megys y mae gwirfodoldeb a hanfod sancteiddrwydd mewn rhai, y rhai eto ni'n gallant ganfod dim o hyny ynddynt eu hunain,—felly, efe a ddichon gynnydda yn yr unrhyw ddull cyfriniol, o ran ei raddau, yn y rhai ni's gallant ei ganfod: ac am hyny, megys y mae yn nghynnydd planhigion, er ein bod yn canfod yn amlwg fod y rhai tyfadwy wedi tyfu, eto na's gallwn ganfod eu tyfiant; ac megys y dywedodd yr apostol wrthym, mai megys y mae y dyn oddi allan yn llygru, felly y mae y dyn oddi fewn yn cael ei adnewyddu o ddydd i ddydd. Mae y dyn oddiallan yn llygru trwy y nychiadau naturiol hyny, a ducdda i'w ddattodiad beunydd; eto y mae y nychiadau hyny yn anmhanfyddadwy o'r braidd weithiau; mae yn haws i ni wybod ein bod wedi gwannychu, na gwybod pa bryd, neu pa fodd. Felly y mae y mae y dyn oddi fewn yn cael ei adnewyddu trwy ras. Mae hyn yn cael ei ddwyn yn mlaen trwy y fath foddion dirgelaidd, fel y mae yn anhawdd iawn canfod ei gynnydd na'i adfeiliad; ac eto mae yr hwn sydd yn esgeulus o ymofyn i hyn, yn dra anmhenderfynol am ei rodiad gyda Duw: ni's gwyr tua pha le y mae yn ei ffordd, pa un a'i nes a'i pellach o ben ei daith nac oedd efe o'r blaen. Ysgrifenor y cyfryw ddyn yn gristion diffrwyth a digynnydd, yr hwn ni's geilw ei hun i gyfrif am ei gynnydd neu ei nychdod mewn gras.

Trachefn: E ddichon i brofedigaethau dyrus, neu lygredigaethau grymmus, gyffroi a therfysgu yr enaid cymmaint fel na's gallo ffurfio iawn farn am ei gynnydd. E all y llong ar y mor, gael ei lluchio yn y fath fodd gan y dymhestl, fel na's gall y morwyr medrusaf ganfod yn sier pa un a ydynt yn gwneuthur dim ffordd a'i peidio, tra ond odid, y maent yn cael eu cludo rhagddynt yn gyflym a llwyddiannus. Yn y cyfryw amgylchiadau, y mae gras yn gweithredu yn bennaf mewn gwrthwynebiad i'w clyn, ac felly nid yw ei gynnydd mewn ystyriaethau eraill mor eglur, efallai. Os gofynir, Pa fodd y gallwn ni wybod fod gras yn ffynnu mewn gwrthwynebiad i lygredigaethau

a phrofedigaethau? Myfi a attebaf, Mai megys y mae gwyntoedd mawrion weithiau yn wasnaethgar i ffrwythlonrwydd prennau; felly y mae llygredigaethau a phrofedigaethau i ffrwythlonrwydd gras. Mae y gwynt yn taro yn llymdost ar y pren, yn dyrysu ei ganghenau, yn chwythu ymaith ei flagur, yn ysgwyd ei wraidd, ac yn bygwth ei lwyr ddystrywio, ond trwy hyn y mae y ddaiar yn cael ei rhyddau o'i amgylch, a'r pren yn gwreiddio yn ddyfnach, yr hyn sydd yn ei wneuthur yn fwy ffrwythlawn, er na's dwg ffrwyth gweledig hyd yn mhen yspaid ar ol hyny. Mae yr enaid yn cael ei anmharu yn ddirfawr yn rhuthriadau profedigaeth a llygredigaeth arno; ond yn y cyfamser y mae efe yn lledu ei wraidd yn ddirgelaidd mewn gostyngeiddrgydd, hunan-ffieiddiad, mewn llafur ffydd a chariad gwastadol, am y gras hwnw, trwy ba un y mae sancteiddrwydd mewn gwirionedd yn cynnyddu; ac fel hyn parottoir y ffordd i ffrwythlonrwydd gweledig mewn amser a ddaw: canys y mae Duw, yr hwn yn ei anfeidrol ddoethineb sydd yn llywio holl fywyd gras trwy ei Ysbryd, yn cyfnewid ei weithrediadau yn y fath fodd, fel nad yw yn hawdd olrhain ei lwybrau. Hwyrach fod gwaith gras wedi ei amlygu ei hunan yn fawr yn y serchiadau; ac am hyny y mae rhai yn teimlo parodrwydd mawr i, a hyfrydwch mawr mewn dyledswyddau sanctaidd; canys y mae y serchiadau yn fywiog yn gyffredin yn icuenctyd proffes: ond e all yr Arglwydd weled yn dda droi ffrydiau gras i ryw gyfeiryd arall. Efe a wel fod yr ymarferiad o ostyngeiddrwydd, duwiol dristwch, ac ymrysoniadau dyfal â'r profedigaethau yn fwy angenrheidiol: gan hyny efe a drefna ei oruchwyliaethau yn y fath fodd, trwy gystuddiau, profedigaethau, neu ryw amgylchiadau yn oes y Cristion, fel y bydd iddo gael gwaith newydd i'w wneyd, ac felly y byddo i'w ras gael ei droi at orchwyl newydd. Ac yn hyn, e ddichon na chanfyddant yr un teimlad bywiog yn eu serchiadau a chynt; am ba achos y maent yn barod i benderfynu fod eu gras yn adfeiliedig, pan mewn gwirionedd

y mae y gwaith o sancteiddäad yn ffynnu, ac yn cael ei ddwyn yn mlaen yn llwyddiannus.

(3.) Addefir fod adfeiliadau mawrion ar ras a sancteiddrwydd, yn cymeryd lle mewn amryw bersonau, a hyny am dymhor maith. Mae tystiolaethau digonol o hyn yn yr Ysgrythyrau, a chadarnheir yr unrhyw yn helaeth trwy brofiadau ein hoes bresenol. Gan hyny, a ddywedwn ni nad oes gwir sancteiddrwydd lle y mae y cyfryw adfeiliadau i'w canfod? Na atto Duw! ond yn hytrach, nyni a ddylem chwilio pa fodd y mae hyn yn cymeryd lle, gan ei fod mor anghyson â'r cynnydd graddol ar sancteiddrwydd, am yr hwn y soniasom o'r blaen. Sylwer gan hyny, fod yr adfeiliadau hyn yn achlysurol, ac allan o drefn natur; anhwylderau ein cyflwr ysbrydol ydynt, wrth y rhai ni's dylid ei fesur. A ydych chwi yn farwaidd ac oeraidd mewn dyledswyddau, yn gyndyn i weithredoedd da, yn ddïofal am eich calonnau, ac yn gogwyddo at y byd? Nid yw y pethau hyn yn perthynu i'r cyflwr o sancteiddäad, ond clefydau, ac anhwyldërau yn eich cyfansoddiad ysbrydol ydynt; ac er mai gwaith yr Ysbryd Glan, fel yr achos effeithiol o honaw, yw ein cynnydd mewn sancteiddrwydd, eto y mae yn waith i ninnau hefyd mewn ffordd o ddyledswydd. Efe a rag-nododd i ni pa beth a ddysgwylia efe oddiwrthym mewn trefn i ddygiad y gwaith yn mlaen yn rheolaidd hyd berffeithrwydd, esgeulusiad o'r hyn, a bair attalfa ar ei gynnydd; ond os coleddwn ni unrhyw ymarferiadau pechadurus, yn enwedig pan fyddont yn adnabyddus, ac yn fynych, e fydd dirywiad cyffredinol. Mae aflechyd mewn unrhyw ran adfywiol o'r corff, nid yn unig yn gwannychu y rhan hòno, ond yn llygru yr holl gyfansoddiad; felly y mae meithrin unrhyw chwant neillduol, yn llygru yr holl iechyd ysbrydol, ac yn gwannychu yr enaid yn holl ddyledswyddau ufudd-dod. Heblaw hyny, y mae rhyw bethau yn ofynol oddiwrthym fel y ffynno sancteiddrwydd; megys yr arferiad dyfal o'r moddion a'r ordinhadau gosodedig i'r perwyl hyny; cyflawniad prïodol

o'r dyledswyddau gorchymynedig, yn eu tymhor cyfaddas; yn nghyd a pharodrwydd i roddi pob gras neillduol ar weithrediad yn yr amgylchiadau prïodol iddo; ac os esgeuluswn ni y pethau hyn, heb ofalu am y moddion na'r dyledswyddau, nac am roddi gras ar weithrediad prïodol, nid rhaid i ni ryfeddu os gwelwn ein hunain yn nychu ac yn adfeilio; ïe, "yn barod i farw."

Wedi amddiffyn y gosodiad yma, ychwanegaf sylw byr mewn ffordd o addysg oddiwrtho.

Os ydyw sancteiddrwydd y cyfryw waith cynnyddawl yn ei natur ei hunan; os amcan yr Ysbryd Glan yw bod iddo gynnyddu mwy fwy trwy yr arferiad o foddion, yna dylem ninnau barhau yn ein diwydrwydd i'r un dyben a bwriad. Gofynir i ni roddi cwbl ddiwydrwydd i ychwanegu neu gynnyddu gras, (2 Pedr 1. 5.) ac nid hyny yn unig, ond dangos yr un diwydrwydd hyd y diwedd, Heb. 6. 11. Os llaesu dwylaw a wnawn ni, neu esgeuluso ein dyledswydd, ni's dygir y gwaith o sancteiddäad yn mlaen yn ffordd gras. Y mae tri pheth yn peri fod rhai yn esgeuluso y ddyledswydd yma.

1. Tyb ryfygus eu bod eisoes yn berffaith. Mae rhai yn ymhonni o hyn mewn hunan-dyb falchaidd ac ynfyd, dinystriol i holl natur y ddyledswydd o sancteiddrwydd efengylaidd, yr hyn o'n tu ni sydd yn gynnwysedig yn ein cydsyniad ewyllysgar â'r gwaith grasol a ddygir yn mlaen hyd y mesur appwyntiedig i ni. Os ydyw hyn wedi ei gyrhaeddyd eisoes, dyna ben ar bob ufudd-dod efengylaidd, a dynion yn dychwelyd at y ddeddf drachefn er eu dystryw. Gwel Phil. 3. 12—14. Dyru yr apostol ddarluniad godidog o natur ein hufudd-dod yn y geiriau crybwylledig. Ymwrthodir â'r dyb o berffeithrwydd dibechod yn y fuchedd hon, fel peth annghyraeddadwy. Y dyben yr amcenir atto, yw gwynfydedigrwydd a gogoniant: a'r ffordd atto yw, parhau i ddyfal ddilyn, ymwthio ac ymestyn tuag atto: a hyny gyd a'r diwydrwydd mwyaf.

2. Tybiaeth ffol, gan ein bod mewn cyflwr o ras, na's

rhaid i ni fod mor bryderus *(solicitous)* yn bresenol, yn nghylch manylrwydd sancteiddrwydd, ag oeddym gynt, pan yn amheus am ein cyflwr. Ond, os ydyw y dyb yma yn ffynnu mewn neb, ac yn cael dylanwad arno, y mae ganddo achos dwys i ammeu, a gafodd efe ras erioed ai peidio. "Y dyb hon nid yw oddiwrth yr hwn a'n galwodd ni." Nid oes beiriant mwy effeithiol yn nwylaw Satan i'n cadw oddiwrth sancteiddrwydd, ac ni's gall un meddwl gyfodi yn y galon ddynol mwy gwrthwynebol i natur gras, am ba achos yr ymwrthodai Paul a'r cyfryw feddwl gan ei ffieiddio, Rhuf. 6. 1, 2.

3. Blinder a llesgedd, yn deillio oddiar wrthwynebiad. Mae rhai yn cael cymmaint o anhawsder yn, a gwrthwynebiad i sancteiddrwydd, oddiwrth lygredigaethau, temtasiynau, a thrafferthion y byd, fel y maent yn barod i lewygu a digaloni. Ond y mae cymmifer o annogaethau calonogawl i'r cyfryw bersonau yn yr Ysgrythyrau, fel na's amcanwn ni ymhelaethu arnynt yma.

PEN. III.

Credinwyr yn unig wrthddrychau sancteiddiaad, a deiliaid sancteiddrwydd.

Yr hyn yr ydym i ymofyn iddo yn nesaf, ydyw deiliaid personol y gwaith hwn o sancteiddiaad, neu, pa fath bersonau a wneir yn sanctaidd. Am y rhai hyn, credinwyr ydynt oll, a chredinwyr yn unig. Y rhai oll ydynt yn credu yn ddiffuant yn Nuw, trwy Iesu Grist, a sancteiddir, ac nid neb arall. Drostynt hwy, a hwy yn unig, y mae ein Iachawdwr yn gweddio am y gras hwn, "Sancteiddia hwynt trwy dy wirionedd," Ioan 17. 17; ac y mae hyn yn addcwid:—"Yr hwn sydd yn credu ynof fi, megis y dywedodd yr ysgrythyr, afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth

ef. A hyn a ddywedodd efe am yr Ysbryd, yr hwn a gai y rhai a gredent yndddo ef ei dderbyn," Ioan 7. 38, 39.

1. "Heb ffydd, amhossibl yw rhyngu bodd Duw," Heb. 11. 6. Y mae sancteiddrwydd, pa le bynnag y byddo, yn rhyngu bodd Duw; ac am hyny, y mae yn amhossibl i ni fod yn gyfranneg o sancteiddrwydd heb fod yn feddiannol ar ffydd. Yr hyn oll a rynga fodd i Dduw ynom, yw ein sancteiddrwydd, neu ryw ran o honaw; ac y mae yn gynnwysedig yn bennaf mewn gwrthwynebiad i'r hyn oll a'i hanfoddia ef. Mae yr hyn oll a orchymyna efe yn ei foddhau, a'r oll a wahardda efe yn ei anfoddhau; ac y mae ein sancteiddrwydd ninnau yn gynnwysedig mewn cyd-ffurfiad â'r naill, a gwrthwynebiad i'r llall. Gan hyny, y mae yr apostol yn dangos fod yn amhossibl i neb heblaw credinwyr feddu dim a berthyna mewn gwirionedd i'r sancteiddrwydd hwn.

2. Tystia Crist Iesu ei hunan mai trwy ffydd ynddo ef y sancteiddir dynion.—"Fel y derbyniont faddeuant pechodau, a chyfran yn mysg y rhai a sancteiddiwyd trwy y ffydd sydd ynof fi," Act. 26. 18. Pe buasai unrhyw ffordd neu foddion arall, trwy ba un y gallasai dynion gael eu gwneyd yn sanctaidd, ni buasai efe yn ei gyfyngu i'r ffydd sydd ynddo ef.

3. Ffydd yw yr achos offerynol o'i sancteiddäad. Mae Duw yn puro ein calonnau trwy ffydd, Act. 15. 9, ac nid un ffordd arall; a lle nid yw y galon yn cael ei phuro, nid oes yno ddim sancteiddrwydd. Ni's gall yr holl ddyledswyddau sydd yn y byd, beri cyfrif yn sanctaidd, yr hwn na's purwyd ei galon; ac nid all un o'r cyfryw ddyledswyddau fod yn sanctaidd eu hunain; canys "i'r rhai halogedig nid pur dim." "Ufudd-dod ffydd," yw yr holl ufudd-dod a gymeradwyir gan Dduw; o ffydd y deillia, a thrwyddi y'i bywiocceir. Felly y dywedir hefyd, "Y rhai ydych trwyddo ef wedi credu yn Nuw, gwedi puro eich eneidiau, gan ufuddhau i'r gwirionedd trwy yr Ysbryd," 1 Pedr 1. 21.

4. Mae pob gras ar y dechreu wedi ei ymddiried yn, a chyda Iesu Grist. Gan fod delw Duw wedi ei cholli yn Adda, pa ariwy bynnag a wnaed tuag at adferu hono, y mae wedi ei drysori yuddo ef fel yr ail Adda. "Rhyngodd bodd i'r Tad dïigo o bob cyflawnder yuddo ef, fel y derbyniem ni o'i gyflawnder ef, a gras am ras;" ac ni's derbyniwn ni ddim oddiwrtho ef, ond trwy rinwedd perthynas, neu undeb âg ef. "Meggys na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hunan, onid erys yn y winwydden; felly ni ellwch chwithau onid arhoswch ynof fi." Ac amlwg yw mai trwy ffydd yn unig y mae trigo yuddo ef, heb yr hyn ni's gallwn dderbyn dim oddiwrtho ef, ac o ganlyniad ni's gellir ein gwneuthur yn gyfranogion o sancteiddrwydd yn y mesur lleiaf. Gan hyny, y mae yn amlwg anwadadwy, mai credinwyr yn unig ydynt yn sancteiddiedig a phuredig.

A thrwy hyn nyni a allwn gael allan amryw gam gymeriadau niweidiol gyda golwg ar hyn, mewn barn ac ymarferiad; canys y mae rhai a fynent gario sancteiddrwydd tu hwnt i derfynau perthynas ncillduol â Christ, neu y berthynas hòno tu hwnt i'r unig rwymyn o honi, yr hwn yw ffydd: canys hwy a fynent nad yw yn ddim mwy na gonestrwydd moesol, neu rinwedd; ac felly ni's gallant ag un math o degwch, ci wadu i'r paganiaid hyny a ymestynasant tuag atto yn ol goleuni natur, a pha angen gan hyny sydd am Iesu Grist? Canmolaf rinweddau moesol, can belled ag y dylai un dyn eu canmawl, ac yr ydwyf yn sier nad oes gras yn un man lle nad ydynt hwy; eto ni's gwn pa beth a fficiddiaf yn fwy, na chynnyg gwneuthur ein sancteiddrwydd i fynu o ddim na's byddo yn ddeilliedig o Grist. Mae y cyfryw ddychymyg yn amcanu i ddïorseddu Crist o'i ogoniant, ac i ddymchwelyd yr efengyl.

Mae eraill yn myned lawer yn mhellach. Meddant ryw syniadau o dda a drwg wrth oleuni natur; gwellheir y rhai hyn, trwy argyhoeddiadau y ddeddf, a chynnyrchant effeithiau mawrion; canys lle y byddo yr enaid wedi ei argyhoeddi yn drwyadl o bechod, ni's gall lai nac ymofyn

am waredigaeth. Dwysëir yr argyhoeddiadau hyn yn ychwanegol yn ol y moddion gwybodaeth a fwynhäo dynion, neu y cyfeiliornadau a'r ofergoelion a gofleidiont. Ac o'r olaf y deillia penydiau, addunedau, ymattaliadau anorchymynedig, a chyflawniadau poenus eraill. Lle byddo y goleuni a dderbynir yn gyffredin yn ol gwirionedd, parir i ddynion ymroddi i ddiwygio yn eu hymarweddiad, i lusogi eu dyledswyddau, i ymattal oddiwrth lawer o bechodau, ac i wneuthur profïes sclog o grefydd yn y naill ffordd neu y llall. Gall y cyfryw bersonau feddu gobeithion cryfion eu bod yn sanctaidd, gallant ymddangos i'r byd fel pe baent felly, a bod yn gymeradwy yn eglwys Dduw fel y cyfryw, ac eto fod yn ddyeithriaid trwyadl i wir sancteiddrwydd efengylaidd; a'r achos pa ham, yw, eu bod wedi ei gam gymeryd yn y sylfaen; a chan eu bod, heb geisio yn gyntaf ran yn Nghrist, wedi adeiladu eu tŷ ar y tywod, efe a syrth mewn amser traïlod a chyfyngder.

Gan hyny, bydded i'r sawl ydynt wedi eu hargyhoeddi mewn mesur o'r angenrheidrwydd am sancteiddrwydd, ddoeth ystyried y pethau hyn. Hwyrach eu bod wedi bod yn llafurio yn galed mewn dyledswyddau ydynt yn perthynu iddo mewn modd arbenig; eu bod wedi gwneuthur, ac wedi goddef llawer o bethau er ei fwyn, ac e ddichon eu bod yn meddwl na's mynent er y byd fod yn mysg rhai ansanctaidd yn y dydd diweddaf. Gall mai dyma gyflwr llawer o ieuenctyd a gychwynasant ffyrdd crefydd yn ddiweddar: ac e ddichon mai felly y mae gyd ag eraill y rhai ydynt wedi bod yn dilyn ar ol cyfiawnder yn ffordd dyledswydd er's blyneddau; ond, dylid sylwi, mai anfynych iawn y mae dyledswyddau ufudd-dod yn cael eu teimlo yn fwy esmwyth a hyfryd gan y cyfryw rai nac oeddynt ar y dechreu; ond yn hytrach y maent yn myned fwy-fwy blinderog o ddydd i ddydd. Heblaw hyny, nid ydynt hwy byth yn cyrhaedd boddlonrwydd yn yr hyn a wnelont; ond y mae rhyw beth yn eisiau o hyd; ac am hyny y mae y cyfryw rai yn gwrthgilio yn aml; ond yr hyn sydd waeth eto, ni fydd yr hyn oll a wnacthant neu a

allant ei wneuthúr ar y sail yma o un cyfrif; ond derfydd am dano gyda hwy yn y dydd mawr. Os mynem ni warchawd rhag y drygau hyn,—os mynem ni gael sancteiddrwydd gwirioneddol, cynnyddol, a thragywyddol, gofalsn yn gyntaf oll am feddu perthynas ag Iesu Grist, heb yr hyn ni's gellir byth ei feddu.

A gall hyn wrthdaraw y gwaradwyddiadau a gyfodir gan rai am yr athrawiaeth o gyfiawnäad rhad trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist; canys â'r haerllugrwydd mwyaf digywilydd y cyfodir dadwrdd yn erbyn y rhai oll a amddiffynant y faith athrawiaeth, fel pe dysgent fod iachawdwriaeth yn gyrhaeddadwy trwy gyfrifiad allanol yn unig o gyfiawnder, tra fyddo y rhai a achubir felly yn aflan ac ansanctaidd, neu yn esgeulus o ddyledswyddau cyfiawnder ac ufudd-dod; canys y mae noethder haerllugrwydd y cabledd yma, yn ddigon eglur oddiwrth hyn, sef, Megys yr ydym ni yn honni fod sancteiddäad a sancteiddrwydd yn perthyn yn neilldnol i'r credinwyr cyfiawnhäol, felly yr ydym yn dysgu mor gadarn fod y cyfryw rai yn cael eu sancteiddio yn anffaeledig.

Gan fod yr holl gredinwyr, a neb ond credinwyr yn cael eu sancteiddio, y mae yn gweddu i ni ymofyn yn nesaf pa beth ynddynt a sancteiddir, neu pa beth yw deiliad y gwaith hwn; canys nid rhyw enw gwag ydyw, ac nid rhyw weithred ebrwydd a darfodedig, neu unrhyw restr o weithrediadau yw yr hyn y dadleuwn drosto. ond yr hyn sydd yn meddu bodoliaeth wirioneddol, a thrigias wastadol ynom. Deiliad y sancteiddäad yma yw holl berson y credadyn, neu natur pob credadyn yn drwyadl; ac yn awr y mae yn ofynol i ni brofi hyn.

1. Crewyd ein natur yn drwyadl ar y dechrau ar ddelw Duw. Dygai yr holl enaid dynol, yn uniondeb ei holl ailuocdd y ddelw hon arno Yr oedd y corff dynol hefyd, nid o ran ei luniad a'i wasanaeth naturiol, ond fel rhan hanfodawl o'n natur yn gyfrannogawl yn nelw Duw, trwy gyfrannogiad o gyfiawnder gwreiddiol.

2. Trwy ddyfodiad pechod i fewn, anrheithiwyd a chollwyd y ddelw Ddwyfol hon yn hollawl. Mae yr Ysgrythyr yn darlunio llygriad ein natur yn ei holl alluoedd, ein meddyliau, ewyllysiau, a serchiadau. Mae gweithrediadau cyntaf y galluoedd hyn yn ein meddyliau a'n dychymygion yn ddrygionus; am hyny y mae holl weithrediadau allanol dynion yn y cyfryw yma yn ddrygionus,—"gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch." Mae y corff hefyd yn gyfrannog yn yr holl wyrni hwn; aelodau y corff ydynt weision i aflendid ac anwiredd.

Gan mai dyma ansawdd ein holl natur, rhaid fod sancteiddäad, yn yr hyn y cynnwysir ei hadgyweiriad, yn perthynu i'r oll o honi yn yr un modd.

1. Am hyny y'i gelwir Y dyn newydd: "A gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grëwyd mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd," Ephes. 4. 24. Fel y gelwir egwyddor pechod *yr hen ddyn* am ei fod yn feddiannol ar holl alluoedd gweithredgar yr hen ddyn, felly y gelwir yr egwyddor yma o sancteiddrwydd, *y dyn newydd*, am ei fod yn feddiannol ar yr holl berson o ran ei weithrediadau a'i ddybenion priodol.

2. Mae y galon yn yr Ysgrythyrau yn cael ei chymeryd am yr holl enaid a'i holl gynheddfau; ac y mae y gwaith hwn o sancteiddäad, nid yn unig yn effeithio ar y galon; ond yn cynnwys ynddo roddi calon newydd i ni, yn ol addewid y cyfammod.

3. Gwneir crybwylliad neillduol am weithrediad y gwaith hwn ar ein heneidiau a'n cyrff, yn nghyd a'u galluoedd a'u cynneddfau ar wahan. Profais hyn yn barod, wrth ymdrin a'r gwaith o'n hadenedigaeth, yr hwn a ddygir yn mlaen i'w ddybenion priodol yn ein sancteiddäad yn unig.

4. Nid rhaid i ni fyned i ymofyn am brawf o hyn yn mhellach na'r weddi hono o eiddo yr apostol dros y Thessaloniaid, ar yr hon y sylwasom yn nechreu y Traethawd hwn, "A Duw yr heddwch a'ch sancteiddio chwi yn gwbl oll;" hyny ydyw, yn eich holl naturiaethau, neu bersonau; ac

yna y mae efe yn dosparthu ein holl natur i'r ddwy ran hanfodol, sef enaid a chorff; ac yn y cyntaf y mae efe yn ystyried, (1.) yr Ysbryd; (2.) yr Enaid. Wrth yr Ysbryd y deallir y meddwl, neu y gymeddf ddeallawl; ac wrth yr Enaid, y serchiadau, fel yr addefir yn gyffredin. Gan hyny yr oedd yr apostol yn gweddio am i'r rhai'n gael eu sancteiddio, a'u cadw yn sanctaidd yn gwbl oll; ond nid hyn yw y cwbl. Mae y corff yn rhan hanfodol o'n natur ni; a thrwy uniad cyrff a'n heneidiau y'n cyfansoddir yn personau gwahaniaethol. Dygwyd y corff yn ddeiliad o lwgr ein natur trwy gyfrannogiad, ac fe'i hystyrir fel un a'r enaid yn drwyadl yn ei weithred o gyfrannu halogrwydd gwreiddiol o rieni i'w plant. Heblaw hyny, y mae yn ddarostyngedig yn bresenol trwy y llygriad yma ar ei gyfansoddiad, i amrywiol dueddiadau atrëolaidd, y rhai ydynt yn annogaethu i bechod. Am hyn hefyd y dywedir fod pechod yn teyrnasu yn ein cyrff marwol ni; a bod ein haelodau yn weision i anrhyfiawnder. Heblaw hyny, y mae corff trwy ei gyfrannogiad yn halogrwydd a chosbedigaeth pechod, y mae y corff wedi ei wneuthur yn agored i lygredigaeth a dinystr; canys trwy bechod y daeth marwolaeth i mewn, ac nid un ffordd arall. Ar yr holl ystyriaethau hyn gan hyny, y mae yn angenrheidiol ar y llaw arall, fod y corff yn gyfrannogawl yn y gwaith hwn o sancteiddäad, a'r rhagorfraint o sancteiddrwydd:—ac felly y mae,—

(1.) Trwy gyfrannogiad; canys ein personau a sancteiddir; ac er mai ein heneidiau ydynt ddeiliaid priodol yr egwyddor o sancteiddrwydd, eto y mae ein cyrff fel rhanau hanfodol o'n natur, yn gyfrannogion o'r unrhyw hefyd.

(2.) Trwy ddylanwad neillduol o eiddo gras Duw arnynt hwy hefyd, can belled ag y mae ganddynt hwy unrhyw ddylanwad i weithrediadau moesol; canys y mae ein cyrff ni yn aelodau i Grist, ac o ganlyniad, dan ddylanwadau grasol oddiwrtho ef fel ein Pen.

(3.) Mae yr Ysbryd Glan yn preswylio ynom ni yn y gwaith o sancteiddäad, ac am hyny y dywedir fod ein cyrff

ni yn demlau i'r Ysbryd Glan, yr hwn sydd ynom ni; a thrwy hyn y mae aelodau y corff yn dyfod yn arfau a gweision cyfiawnder i sancteiddrwydd; cymhwys i'w defnyddio yn ngwasanaeth sancteiddrwydd, fel rhai wedi eu glanhau a'u sancteiddio i Dduw, a thrwy hyn y'u cymhwysir ac y'u parottoir i gael adgyfodiad dedwydd yn y dydd diweddaf, yr hyn a weithredir trwy Ysbryd Crist, yr hwn a drigai ynddynt, ac a'u sancteiddiai yn y fachedd hon.

Gan hyny, y mae y cwbl oll o'n personau yn ddeiliaid y gwaith hwn: ac yn awr, e fyddai yn dda i'r rhai a geisiant osod rhinwedd moesol yn lle sancteiddrwydd efengylaidd, ystyried a ydyw hyn oll yn perthyn i'r cyfryw rinwedd moesol; a gofaled dynion rhag eu twyllo eu hunain â rhyw waith hanerawg mewn argyhoeddiad yn unig, neu gyfnewidiad serchiadau, yn lle y sancteiddrwydd efengylaidd yma. Mynych y dywedir, a hyny yn wirioneddol, y gall dynion gael goleuo eu meddyliau, cyffroi eu serchiadau, a chyfnewid llawer ar eu bucheddau, ac eto fod yn fyr o wir sancteiddrwydd. Y prawf goreu a ellir ei wneyd o'r gwaith hwn, sydd trwy ei gyffredinolrwydd, o barth ei ddeiliad Od oes dim yn aros ynom heb ei sancteiddio, fe all pechod osod ei orsedd i fynu yn y fan hôno, a chynnal ei arglwyddiaeth yno: ond, lle mae gwaith Ysbryd Duw yn wirioneddol, pa mor anmherffaith bynnag y byddo o ran ei radd, eto y mae yn meddiannu yr holl ddyn, ac nid yw yn gadael yr afael leiaf i bechod, heb fod yn ymryson ag ef yn barhaus.

Yn olaf. Gall dynion weled oddiwrth y sylwadau hyn, mor ofer yw iddynt ddadleu eu tymherau a'u cyfansoddiadau naturiol yn esgus dros eu pechodau; canys y mae y gwir sancteiddrwydd yn cyrhaedd y corff. Mae yn wir nad yw gras yn cyfnewid y cyfansoddiad naturiol yn y fath fodd ag i wneuthur yr hwn oedd lesg ac afiachus, yn iachus a grymmus; neu i wneuthur yr hwn oedd o dymher naturiol bruddaidd, yn fywiog, neu y cyffelyb; ond ystyrier y pethau hyn yn foesol; a'r holl berson fel y mae yn egwyddor

gweithrediadau moesol, ac yn y golygiad hwnw y mae efe yn gweithredu y fath gyfnewidiad ar yr holl ddyn, fel ag i wellhau ei anhwylderau moesol pechadurus, megis nwydwylltedd, ac aunghymedrolderau, i'r rhai yr oedd dynion yn fwy tueddol na chyffredin o'r blaen trwy eu tymherau a'u cyfansoddiadau. Mewn gair, oddiwrth ei effeithioldeb ar yr oll o'n natur y gallwn ni gael y prawf sicraf o'i wirfodoldeb. Gan hyny, na haered neb nad yw gras yn cyfnewid natur dyn er esgusodi afrëoleidd-dra eu nwydau ger bron dynion, ac i'w cadw eu hunain rhag ymostwng ger bron Duw; canys er nad yw yn gwneuthur hyn yn anianyddawl, y mae yn ei wneuthur yn foesawl, fel na byddo y dymher naturiol mwyach yn eu tueddu a'u cymhell i nwydau afrëolaidd fel o'r blaen. Oni ddarfu i ras wellâu y nwydwylltedd, y balchder, y sarrugrwydd, a'r aunghymedroldeb, y mae tymherau anianawl dynion yn eu tueddu iddynt yn fwyaf neilldnol, nis gwn I pa beth a wnaeth, na pha beth a lesia lluaws o gyflawniadau allanol. Mae gras Crist yn peri i'r blaidd drigo gyd a'r oen, a'r llewpart orwedd gyd a'r myn: cyfnewidia y dymher greulonaf i addfwynder, tyneruch, a thiriondeb; esiamplau o'r hyn ydynt wedi eu lluosogi yn y byd.

PEN. IV.

Halogedigaeth pechod; yn mha beth y mae yn gynnwysedig; yn nghyda threfn puredigaeth oddiwrtho.

Nyni a awn rhagom yn bresenol i egluro yn mhellach y darluniad a roddwyd o'r blaen o sancteiddäad; a'r peth cyntaf a briodolwn ni i Ysbryd Duw yn hyn ydyw, puredigaeth ein natur oddiwrth halogrwydd pechod; ac y mae y puredigaeth hwn yn cael ei briodoli, 1. I Ysbryd Duw, yr hwn yw y prif eneithiolydd o'r cyfan. Ac i'r perwyl

yma y mae yr addewid hono, "Taenellaf arnoch ddwfr glân, fel y byddoch lân;" Ezec. 36. 25. Athrachefn yn Esa. 4. 4. Pan ddarffo i'r Arglwydd olchi budredd merched Sion, mewn yspryd barn ac mewn yspryd llosgfa. Tân a dwfr oeddynt y moddion trwy ba rai y glanheid pob peth yn gysgodol dan y ddeddf; ac fe gydmerir yr Ysbryd Glan, fel yr achos effeithiol o bob glanhäad ysbrydol i'r naill a'r llall.

2. Dywedir fod cymhwysiad o waed Grist at ein heneidiau er ein sancteiddäad gan yr Ysbryd Glan, i fod er ein glanhâd. "Carodd Crist yr eglwys, ac a'i rhoddes ei hun drosti; fel y sancteiddiai efe hi a'i glanhau." Eph, 5. 25, 26. "Yr hwn a'i rhoddes ei hun drosom, i'n prynu ni oddiwrth bob anwiredd, ac i'n puro ni iddo ei hun yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da." Tit. 2. 14. "Pa faint mwy y bydd i waed Crist, buro eich cydwybod chwi oddiwrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw.' Heb. 9. 14.

3. Lle yn hannogir i ymsancteiddio fel ein dyledswydd, fe'i darlunir dan y golyg-ddrych o ymlanhau oddiwrth bechod. "Ymolchwch, ymlanhewch." Esa. 1. 16.—"O Jerusalem, golch dy galon oddiwrth ddrygioni." Jer. 4. 14. —"Gan fod genym yr addewidion hyn, anwylyd, ymlanhawn oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac ysbryd." 2 Cor. 7. 1.

4. Yn gyfattebol i'r addewidion a'r gorchymynion hyn, ac er cadarnäad o honynt, meddwn yr ordinäad o fedydd, y moddion allanol o'n derbyniad i Grist, ac o'n proffes o'r Efengyl; y darluniad mawr o'r golchiad tufewnol o adenedigaeth. Y mae hyn yn dynodi rhoddiad ymaith yn allanol aflendid y cnawd, trwy olchiad allanol â dwfr sylweddol; a'r hyn a gyfatteba i'r gyffelybiaeth yw puredigaeth dufewnol ein heneidiau a'n cydwybodau trwy ras yr Ysbryd; hyny yw, dodi heibio gorff pechodau y cnawd. Gan hyny, yn yr egluräad ar y gangen gyntaf hon o'n sancteiddäad, nyni a ddangoswn, (1.) Bod halogrwydd ys-

brydol mewn pechod; (2.) Yn mha beth y mae yn gynnwysedig; ac yn (3.) Pa fodd y'i symmudir.

Nid rhaid i ni ymhelaethu ar y peth cyntaf. Yn yr holl ddarluniad a wneir o honaw yn yr Ysgrythyr, ni ddysgir dim mewn perthynas iddo yn fwy, na'i fod yn aflan, yn ffiaidd, a llawn o halogedigaeth. Y ffieidd-beth a gasêir gan Dduw ydyw; ac fe'i cyffelybir i waed, i glwyfau, gwelïau, gwahanglwyf, newyn, a chlefydau ffiaidd: ac nid oes unrhyw olygiad ar bechod, o'r hwn y mae credinwyr yn fwy profiadol na'r golygiad yma. Maent yn canfod mewn pechod yr hyn sydd yn eu llanw â chywilydd, hunan-ffieiddiad, a dwfn ymostyngiad enaid.—Maent yn canfod ynddo, neu ynddynt eu hunain o'i herwydd, annghyfatteb olrwydd i sancteiddrwydd Duw, ac anghyfaddasrwydd i fwynhau cymmundeb âg ef. Nid oes dim a geisir ganddynt yn daerach mewn gweddi, na glanhâd oddiwrtho trwy waed Crist; nac unrhyw addewidion yn fwy gwerthfawr yn eu golwg, na'r addewidion am buredigaeth oddiwrtho.

Yn ail. Mae yn rhaid i ni ystyried natur yr halogedigaeth yma. Fe'i cyfrifid gan rai yn euogrwydd: ac am hyny y dywedid fod pechod yn cael ei dynu ymaith pan wnelid iawn dros ei euogrwydd trwy aberthau; ond yn yr Ysgrythyr, fe ddarlunir hefyd y cyfryw halogrwydd tufewnol ag a symmudir ymaith trwy sancteiddäad gweithredol yn unig. Y mae rhai pechodau hefyd i ba rai y perthyna halogrwydd mewn modd neillduol, y rhai a elwir atfendid yn arbenig. "Gochelwch odineb," medd yr apostol; "Pob pechod a wnelo dyn, oddiallan i'w gorff y mae, ond yr hwn sydd yn godineibu sydd yn pechu yn erbyn ei gorff ei hun;" ond atfendid pob pechod o atfendid yn neillduol sydd genym ni mewn golwg.

Halogedigaeth pechod yw y pröodolder hwnw a berthyna iddo, trwy yr hyn y mae efe yn hollawl wrthwynebol i sancteiddrwydd Duw; am hyny y dywedir ei fod ef "yn lanach ei lygaid nac y gall edrych ar anwiredd;" ac am hyny y rhoddir y cynghor pwysig hwnw, "Na wnewch

attolwg, y ffeidd-beth hyn, yr hwn sydd gas genyf fi," Jer. 43. 4. Oddiar sancteiddrwydd Duw yn benaf y deillia yr ystyriaeth hono o bechod, a genhedla gywilydd o'i herwydd; am hyny y dywedir fod rhai yn gwrido, yn cywilyddio, ac wedi eu llanw â gwarthddrudd wyneb dan ystyriaeth o'r halogrwydd sydd mewn pechod.

Sancteiddrwydd Duw yw perffeithrwydd ac uniondeb anfeidrol ei natur; ac y mae efe yn amlygu ei sancteiddrwydd yn yr hyn oll a wna, yn enwedig yn ei Ddeddf, yr hon gan hyny sydd yn sanctaidd, gan ei bod yn cynnrychioli ei sancteiddrwydd ef ei hunan; ac am hyny, y mae pa beth bynnag sydd yn wrthwyneb iddi hi, yn wrthwyneb i'w sancteiddrwydd ef. Gan hyny, yr halogedigaeth pechadurus yma, yw y llygriad, yr annhrefn, a'r gwyrni cywilyddus sydd ynddo gyda golwg ar sancteiddrwydd Duw fel y'i darlunir yn y ddeddf.

Mae pechod naill ai yn wreiddiol ai yn weithredol. Pechod gwreiddiol yw annghydffurfiad greddfol ein natur â sancteiddrwydd Duw; ac yn ein pechod gweithredol, y mae ein annghydffurfiad â Duw a'i sancteiddrwydd, fel y'i gosodir allan yn ngorchymynion ei ddeddf. Gan hyny, y mae natur pob pechod yn gynnwysedig yn ei annghydffurfiad a'r rhëol. Gellir ystyried yma mewn perthynas i'r rhëol hon, (1.) Fel y mae yn cynnwys ynddi amlygiad o awdurdod Duw, yn ei gorchymynion a'i gosodiadau; ac am hyny y mae euogrwydd yn dilyn pob pechod, a'r euogrwydd hyny yn cynnyrchu ofn. Felly y dywedai Adda mewn canlyniad i'w ganwedd cyntaf, "Dy lais a glywais, ac mi a ofnais." (2.) Y mae y gyfraith yn gosod allan sancteiddrwydd Duw; am hyny y mae mewn pechod annghydffurfiad neilldnol â sancteiddrwydd Duw: a hyn yw ei ffeidd-dra; yr hyn a ddilynir yn anysgaredig â chywilydd; felly y dynodai Adda ei synied o halogrwydd ei bechod; yr oedd efe wedi ei lanw â chywilydd. Dynna drefn y pethau hyn; Duw, yr hwn yw gwrthddrych ein hufudd-dod, yw y Deddf-roddwr goruchaf; ac efe a a graffodd ei awdurdod a'i sancteiddrwydd ar ei ddeddf. Y

mae pechod gyda golwg ar ei awdurdod ef yn cael ei ddilyn âg euogrwydd; ac y mae hyn yn nghydwybod y pechadur yn cynnyrchu ofn; a chyda golwg ar sancteiddrwydd Duw, y mae yn cael ei ddilyn âg aflendid neu halogrwydd; ac y mae hyn yn cynnyrchu cywilydd. Gan hyny, dyma halogrwydd pechod, yr hwn a dynir ymaith yn ein sancteiddäad.

Ac y mae halogrwydd gwirioneddol, ond ysbrydol yn hyn; yr hyn a gydmerir i, ac a gyferbynir â phethau ydynt felly mewn ystyr anianol. "Nid yr hyn sydd yn myned i mewn i'r genau (sef bwydydd o unrhyw fath) sydd yn halogi dyn," medd ein Hiachawdwr, "ond yr hyn sydd yn dyfod allan o'r galon;" hyny ydyw, mewn modd ysbrydol, gyda golwg ar Dduw, ei ddeddf, a'i sancteiddrwydd; ac megys y dysgir euogrwydd pechod i ddynion trwy eu hofn eu hunain, felly hefyd y dysgir halogrwydd pechod iddynt trwy eu cywilydd eu hunain. Ein dysgu yn hyn yw un dyben i'r Ddeddf a'r Efengyl.—Yn athrawiaeth y ddeddf, gyda'i hawdurdodiad a'i melldith, yn nghyd a sefydliad aberthau i wneuthur iawn dros bechod, y darluniodd Duw natur euogrwydd a'r feddygyniath rhagddo. Trwy yr unrhyw ddeddf, a thrwy sefydliad amryfal ordinhadau er puredigaeth, a hefyd trwy benderfynu amryw bethau yn halogedigaethau seremoniäl, efe a amlygodd natur aflendid, a llwybr gwaredigaeth oddiwrtho. I ba ddyben yr oedd cynnifer o fwydydd a diodydd, cynnifer o anhwylderau naturiol, cynnifer o ddamweiniau allanol, megys cyffwrdd ä'r marw, a'r cyffelyb, yn cael eu hystyried yn achlysuron o aflanäad crefyddol dan y ddeddf? Onid i'n dysgu ni am halogrwydd ysbrydol pechod; ac i'r perwyl hyny, yn nghyd ag i amlygu gwaredigaeth oddiwrtho, y sefydlwyd ordinhadau y puredigaeth? y rhai gan eu bod yn allanol, a burent oddiwrth aflendid allanol: ond dysgid a rhag gysgodid pethau tufewnol ac ysbrydol trwy hyny. Ië, y mae yr halogrwydd yma mor anmysgaredig oddiwrth bechod, a chywilydd oddiwrth halogrwydd, fel pa le bynnag y byddo

teimlad o bechod, y mae hefyd deimlad o'r aflendid yma yn nghyda chywilydd. Nid oedd hyd yn nod y Paganiaid yn ddi deimlad o'r halogrwydd yma; a hyn a barai eu holl drafferthion gyd a'u puredigaethau, eu golchiadau, eu haberthau, a'u defodau cyfriniawl.

Yn bresenol y mae yn gweddu i ni ymholi i'r rhesymau pa ham y mae pechod y fath halogrwydd ar ein natur, a pha ham y mae cywilydd mor anysgaredig oddi wrtho; ac i'r perwyl yma, nyni a allwn sylwi,

(1.) Bod prydferthwch ysbrydol yr enaid yn gynnwysedig yn ei gydffurfiad a Duw. Mae gras yn teccau. Am hyny y dywedir fod Crist yn deccach na meibion dynion, a hyny, o herwydd fod gras wedi ei dywallt ar ei wefusau; ac wedi i'r eglwys gael ei haddurnaw â'i ras ef, efe a ddywedai am dani ei bod yn deg ac yn hawddgar. Yr oedd y tegwch yma ar y dechreu yn gynnwysedig yn nelw Duw ynom ni, yr hon a gynnwysai holl drefn, cyssondeb; a chymmesuredd ein natur yn eu holl gynheddfau a'u gweithrediadau. Gan hyny, y mae aflunieiddrwydd mewn pechod, neu y mae efe yn dwyn brychau, difwyniadau, a chrebychiadau ar yr enaid; a hyn yw yr aflendid a'r halogrwydd perthynol iddo.

(2.) Sancteiddrwydd yw anrhydedd ein heneidiau. Y mae yn eu gwneuthur yn wir ardderchawg; canys y mae pob rhyw anrhydedd yn gynnwysedig mewn dynesäad at yr hwn sydd yn unig ffynhonell a meddiannydd ar yr hyn a ellir ei alw yn anrhydedd. Trwy sancteiddrwydd yn unig y cyrhaeddwn ni hyn, neu trwy y ddelw Ddwyfol hòno yn mha un y'n crëwyd, ac am hyny y mae pechod yr hwn sydd yn wrthwyneb i sancteiddrwydd, yn wael ac annheilwng, yr unig beth brwnt mewn natur ydyw; am hyny y dywedir am rai pechaduriaid mawrion, eu bod wedi ymostwng hyd uffern; ac oddieithr fod dynion wedi caledu yn ddirfawr, hwy a fyddent yn deimladwy yn eu cydwybodau eu hunain o'r darostyngiad yma trwy bechod. Pan fyddo llygaid dynion yn agored i weled eu noethni eu hunain, y

maent yn gweled y fath ddiffeithder, bryntni, a ffieidd-dra mewn pechod, hyd onid ydynt fel rhai dynion dan ryw anhwyldeb atgas, na's gallant oddef yr olwg ar eu gwelïau eu hunain. Ië, ni's gall tafod draethu yr olygfa y mae enaid crediniol yn ei gael ar aflendid pechod ar gyfer sancteiddrwydd Duw.

Ac yn awr, y mae yr halogedigaeth pechadurus, cywilyddus yma, naill ai yn reddfawl ai yn weithredol. (1.) Yr hyn sydd reddfawl yn holl gynneddfau ein heneidiau wrth natur; y maent oll wedi ymlygru yn gywilyddus; ac am hyny yr ydym ni wrth natur yn hollawl aflan. (2.) Yr hyn sydd weithredol yn holl weithrediadau ein cynneddfau halogedig; canys bydded unrhyw bechod o'r natur y byddo, y mae halogrwydd ynddo. Am hyny y mae yr apostol yn ein hannog i ymlanhau oddiwrth bob halogrwydd, cnawd ac yspryd; y pechodau ydynt dufewnol ac ysprydol, megys balchder, hunan-gariad, cybydd-dod, anngbrediniaeth, ynt yn meddu halogrwydd yn nglyn â hwy mor wirioneddol a'r rhai ydynt gnawdol ac anianol; a chan belled ag y mae yr anhwyldeb yma yn ymgymmysgu â'n dyledswyddau gorau, y mae yn ein gwneuthur ni a hwythau yn aflan. "Yr ydym ni oll megis peth aflan, ac megis bratiau budron yw ein holl gyfiawnderau ni."

Mae yr aflendid hwn fel y mae yn reddfawl, yr un faint yn mhob dyn yn eu ganedigaeth i'r byd; ond gyda golwg ar bechodau gweithredawl, y mae amryfal raddau yn perthynu iddo. Pa fwyaf a fyddo pechod o ran ei natur neu ei amgylchiadau, mwyaf yw ei halogrwydd, am ba achos ni's darlunir unrhyw bechod dan gyfryw ddynodiadau o ffieiddra àg eilun-addoliaeth, yr hwn yw y pechod mwyaf. Neu, y mae mwyhäad ar y ffieidd-dra pan fyddo yr holl berson wedi ymalogi, fel trwy y pechod o odineb; ac fe'i hychwanegir trwy baräad mewn pechod hefyd, trwy yr hyn yr ychwanegir at ei halogrwydd bob dydd, yr hyn a elwir, "Ymdreiglo yn y dom."

Ni's cyffyrddais ond yn gynnil iawn yn yr holl draethawd hwn â'r ystyriaeth yma o bechod, yr hyn a ddysgir

mor fynych yn yr Ysgrythyrau, canys megys yr oedd rhyw gyfeiriad at hyn yn yr holl sefydliadau cyntaf o addoliad Dwyfol: felly y mae y gwrthodiad olaf o bechaduriaid gwrthnysig a grybwyllir yn yr Ysgrythyr, "Yr hwn sydd frwnt bydded frwnt eto;" ac mewn trefn i ddefnyddio y golygiad yma ar bechod, er cael golwg ar natur sanct-eiddrwydd, nyni a allwn sylwi ar y tri peth canlynol eto :—

(1.) Lle mae yr aflendid yma yn aros heb ei dynu ymaith, nid oes, ac ni's gall fod gwir sancteiddrwydd; canys y mae yn llwyr wrthwyneb iddo; ein hansancteiddrwydd ydyw. Addefaf, nad yw yn cael ei dynu ymaith yn berffaith o neb yn y byd hwn; ac y mae y rhai ydynt wedi eu gwir sancteiddio, yn dwys deimlo arhosiad gweddillion o honaw ynddynt; ond y mae y gwaith o'i dynu ymaith yn egwyddorol, a gwirioneddol, yr hyn sydd yn hanfodawl i sancteiddrwydd, wedi ei ddechreu, ac yn cael ei ddwyn yn mlaen, er nad hyd berffeithrwydd yn y fuchedd hon.

(2.) Oddieithr i'r aflendid yma gael ei olchi ymaith, ni's deuwn byth i fwynäad o Dduw. Nid a i mewn i'r Jerusalem Newydd ddim aflan nac yn gwneuthur ffieidd-dra. Nid yw tybied y gellid dwyn pechadur anmhuredig i fwynäad gwynfydedig o Dduw, yn ddim amgen na dymchwelyd y Ddeddf a'r Efengyl, a dywedyd fod Crist wedi marw yn ofer. Gan hyny, y mae cael tynu ymaith y pechod o'r un pwysfawrogrwydd i ni, ag iachawdwriaeth dragywyddol ein heneidiau.

(3.) Yr ydym ni yn analluog o honom ein hunain, heb gymhorth neillduol yr Ysbryd Glan, i'n rhyddau ein hunain, oddiwrth yr halogrwydd hwn. Mae yn wir ei fod yn cael ei fynych ofyn genym ni fel ein dyledswydd. Gorchymynir i ni ymolchi ac ymlanhau oddiwrth ein pechodau, a'r cyffelyb; ond nid yw yr ymadroddion yma yn dynodi gallu ynom ni ein hunain i gyflawni yr hyn a ofynir genym; ond trwyddynt fe'n dysgir, fod pa beth bynnag a weithia Duw ynom yn ffordd ei ras, yn cael ei ofyn genym mewn ffordd o ddyledswydd; ac er ei fod ef yn ei wneuthur ynom, eto

y mae efe yn ei wneuthur drwom ni hefyd; fel y mae yr un gwaith yn weithred ei Ysbryd ef, a'n hewyllysiau ninau wedi eu rhoddi ar weithrediad ganddo ef. Nid ydym yn alluog trwy unrhyw ymdrechiadau o'r eiddom ein hunain i'n glanhau ein hunain oddiwrth yr halogrwydd yma. "Os ymolchaf mewn dwfr eira," medd Job, "ac os glanhaf fy nwylaw yn lân, eto ti a'm trochi yn y pwll, a'm dillad a'm ffieiddiant." Gellir defnyddio moddion trwy yr hyn y gellid gwneyd ymddangosiad o lanhâd, ond pan ddeuir i brofi pethau yn ngwydd Duw, gwelir fod y cwbl yn ffiaidd ac aflan. Ac megys y dywedodd y proffwyd, "Pe byddai i ti ymolchi â dwfr nitr, a chymeryd i ti lawer o sebon; eto nodwyd dy anwiredd ger fy mron, medd yr Arglwydd Dduw." Metha y moddion glanäad tebycaf i fod yn effeithiol, yn ein barn ni, er eu lluosogi, ag atteb y dyben i hyn. Sonia rhai gryn lawer am olchi ymaith eu pechodau trwy ddagrau edifeirwch; ond y mae yr edifeirwch a ddarlunir yn yr ysgrythyrau o natur dra gwahanol, ac wedi ei fwriadu i ddyben gwahanol. Yr oedd gosodiadau y ddeddf yn annigonol o honynt eu hunain i'r perwyl yma; effeithient hwy i buredigaeth y cnawd oddiwrth aflendid deddfol; ac ni's gallent fyned ddim yn mhellach o honynt eu hunain, yn unig hwy a rag arwyddent yr hyn y glanheir pechod yn wirioneddol drwyddo. Mae difwyniad pechod yn rhŷ ddwfn i'w symmud trwy unrhyw ordinhadau allanol; am ba achos y darfu i Dduw, gan ymwrthod â hwy oll mewn ystyr, addaw agor ffynnon arall i'r perwyl hyny, Zech. 13. 1.

Gan hyny, gweigion a disylwedd hollol yw yr holl gynnorthwyon hyny a ddyfeisiodd yr eglwys babaidd. Maent hwy yn deimladwy o ddifwyniad pechod; ond yn anwybodus am yr unig foddion i gael ymwared oddiwrtho; ac megys yn y cyfiawnäad nid ymostyngant i gyfiawnder Duw, felly yn y sanctciddäad, gan eu bod yn ddieithr i waith Ysbryd y gras, ac i effeithioldeb gwaed Crist, y maent yn ceisio gosod i fynu eu dychymmygion eu hunain.

Felly, hwy a fynent fod holl aflendid ein natur yn cael ei olchi ymaith trwy fedydd, ac wedi cael allan lwybr mor rwydd i ymadael âg aflendid pechod gwreiddiol, mor rhwydd ag y gall dyn newid ei ddillad pan fyddont yn fudron, hwy a ddychymmygasant lawer o ffyrdd, trwy ba rai y gellir (yn ol eu tyb hwy) symmud ymaith halogrwydd pechodau gweithredol. Megys taenellu y dwfr sanctaidd, cyffesu i'r offeiriaid, penydiau, &c., y rhai y tybir eu bod yn rhyfeddol o effeithiol; ac yn wir, y drefn o gyffesiad, yw y ddyfais fwyaf effeithiol i daraw ar dueddiadau y cnawd, a amlygwyd i'r byd crïoed; canys megys nad oes dim mor gyfaddas i lesion cnawdol yr offeiriaid, nac yn dïogelu eu bri yn well-iddynt, er mor ddïofal ac anheilwng y byddo eu hymarweddiad, felly y mae yn gweddu yn hynod i syniadau y bobl, y rhai sydd ganddynt ryw beth arall i'w wneyd heblaw hir drallodi eu meddyliau yn nghylch eu pechodau; gan fod hon yn ffordd o ymryddäad mor rwydd oddiwrthynt, trwy eu gadael yn hollol ac yn ddïogel gyd a'r offeiriad, â'r hon ni's gellid cael unrhyw ddyfais arall i'w chystadlu:—ond wedi y cwbl, ni's gallant fod yn berffaith dawel yn eu cydwybodau; mae eu harchollion yn barod i dorri trwy yr holl orchuddion gwaelion hyn weithiau; ac y mae eu pechodau eto yn eu llanw â chywilydd, ac âg ofn; o herwydd pa ham, y maent yn troi at eu prif angor yn yr ystorm yma, yr ymwared a ddarparasant iddynt eu hunain mewn byd arall: a hyn sydd yn eu purdan, i'r hwn y mae yn rhaid iddynt ymddiried am ddilëad olaf eu holl ben ddyledion, a thynu ymaith yr halogrwydd pechadurus hwnw, yr hwn ni's mynnent ymadael âg ef yn y byd hwn. Ond, gan nad yw yr holl drefniad yma o burdan, yn ddim amgen na ffug chwedl ddisail, dychymmyg wedi ei osod i fynu yn erbyn sancteiddiad yr Ysbryd a gwaed Crist; felly y mae yn un o'r annogaethau cryfaf i ansancteiddrwydd, a pharäad mewn pechod, ar a gafwyd allan crïoed, neu a ellir ei defnyddio byth. Gan hyny, wedi gosod y cyfryw ddychymmygion gweigion o'r neilldu, nyni a ymholwn wir achosion ein puredigaeth.

PEN. V.

Halogedigaeth pechod yn cael ei dynu ymaith trwy Ysbryd a gwaed Crist.

Prïodolir puredigaeth pechaduriaid oddiwrth halogrwydd pechod i amryw achosion yn yr Ysgrythyrau:—I'r Ysbryd Glan, fel yr achos effeithiol;—i waed Crist, fel yr achos haeddedigaethol;—ac i ffydd, a chystudd, fel yr achosion offerynol.

1. Profwyd yn barod ein bod ni yn cael ein puro gan Ysbryd Duw, ac y mae hyny yn eglur oddiwrth natur ei waith yn ein hadeuedigaeth; canys fel y mae ffynnonell holl halogedigaeth pechod yn gorwedd yn llygriad cynneddfau ein natur, y mae efe yn eu hadnewyddu drachefn trwy ei ras. Gan hyny, cán belled ag y mae ein meddyliau, ein calonnau, a'n serchiadau yn cael eu hadnewyddu gan yr Ysbryd Glan, cán belled a hyny yr ydym wedi ein glanhau oddiwrth ein halogrwydd greddfol. Po mwyaf a feddom o oleuni achubol yn ein meddyliau, o gariad nefol yn ein serchiadau, o barodrwydd i ufuddhau yn ein calonau;—mwyaf pur a fyddwn, a glanaf oddiwrth halogrwydd pechod. Mae yr hen egwyddor o anian lygredig, yn aflan a halogedig; ond y crëadur newydd, yr egwyddor o ras, a blannwyd yn yr enaid gan yr Ysbryd Glan, sydd bur, a phuredigawl, glan, a sanctaidd.

Mae yr Ysbryd Glan yn ein puro hefyd trwy nerthu ein heneidiau â'i ras i gyflawni pob dyledswyddau sanctaidd, a gwrthwynebu pob rhyw bechodau gweithredol. Y mae efe yn cadw yr enaid yn rhydd oddiwrth halogedigaethau, neu yn bur a sanctaidd, yn ol amcan y cyfammod newydd; ond e all rhyw un fod yn barod i ofyn, pa fodd y rhyddheir yr enaid oddiwrth yr halogedigaethau hyny, â pha rai y'i halogasid cyn dechreuad y gwaith yma arno; neu y rhai yr ymhalogodd â hwy wedi hyny? canys nid oes dyn, yr

hwn ni's halogir â phechod yn fwy neu lai, tra fyddo yn y corff; ac os ydym yn cael ein halogi fel hyn, pa fodd y'n glanheir? I hyn yr attebaf, "Cyfiawn yw Duw, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddiwrth bob anughyfiawnder;" ond trwy ba foddion y gwneir hyn? "Gwaed Iesu Grist ei Fab ef, sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod." I Ioan 1. 7, &c.

II. Gan hyny, gwaed Crist yw yr achos teilyngawl o'n puredigaeth, trwy gymhwysiad neillduawl o honaw at ein heneidiau gan yr Ysbryd Glan; ac nid oes un gwirionedd yn perthynu i ddirgelwch yr efengyl a gadarnheir yn eglurach na'r gwirionedd yma. "Efe a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun." Dat. 1. 5. Efe a'i rhoddes ei hun dros ei eglwys, fel y sancteiddiai efe hi a'i glanhau, â'r olchfa ddwfr trwy y gair. Eph. 5. 26.; ac y mae hyn yn cael ei gadarnhau yn ffydd a phrofiad y credinwyr oll; canys nid dychymmygion o'r eiddynt eu hunain ydynt, ond yr hyn, gan ei fod yn seiliedig ar wirionedd ac addewidion Duw sydd yn gweinyddu profiad o ymwared ac adnewyddiad ysbrydol i'w heneidiau. Y maent yn credu hyn, yn gweddïo am hyn, ac yn cael y ffrwythau a'r effeithiau o honaw ynddynt eu hunain. Wrth "waed Crist" y golygir, gwaed yr aberth, yn nghyd a'r grym a'r effeithiolrwydd perthynol iddo; a gellir ystyried gwaed aberth, naill ai fel yr oedd yn cael ei offrymmu i Dduw i wneuthur iawn, neu fel y'i taenellid ar bethau eraill er eu glanäad. Yr oedd rhyw gymmaint o'r gwaed yn mhob aberth cymmod, i gael ei daenellu o amgylch yr allor; a thaenellid gwaed aberth mawr y cymmod, saith waith o flaen y drugareddfa: felly hefyd y dylid ystyried aberth Crist; fel yr offrymmodd efe ef i Dduw i wneuthur cymmod dros gamwedd, ac fel y'i taenellir gan yr Ysbryd ar gydwybodau credinwyr i'w puro oddiwrth weithredoedd meirwon; ac am hyny y'i gelwir, gyda golwg ar ein sancteiddäad, "Gwaed y taenelliad;" canys yr ydym ni yn derbyn "sancteiddiad yr Ysbryd i ufudd-dod, trwy daenelliad gwaed Iesu Grist."

Y mae gwaed Crist yn ei aberth, o'r un effeithiolrwydd yn bresenol yn gymhwys, ag oedd efe yr awr y tywalltwyd ef. Yr oedd yn rhaid defnyddio gwaed aberthau eraill yn ddïoed wedi ei dywallt yn wastad, canys pe buasai unwaith wedi oeri a cheulo, ni buasai o un gwasanaeth i'w offrymmu neu ei daenellu, Lef. 17. 11. Trefnid gwaed i fod yn iawn, am fod bywyd yr ysbrydoedd anifeilaidd ynddo; ond y mae gwaed aberth Crist yn gynnes yn wastadol, gan fod yr un ysbryd o fywyd a sancteiddiad yn ysgogi ynddo yn barhaus. Am hyny y dywedir fod ein ffordd o ddynesäad at Dduw drwyddo ef yn "newydd a bywiol" yn wastadol, Heb. 10. 20; ac eto y mae efe yn wastadol meggys newydd ei ladd. Gan hyny, y mae pob un a feddo gyfran wirioneddol yn ngwaed Crist fel aberth ar unrhyw bryd, yn cael puredigaeth mor wirioneddol oddiwrth halogrwydd pechod, ac a gäai hwnw gynt yn gysgodawl, a safai gerllaw yr offeiriad, ac a daenellid â'r dwfr neu y gwaed yno; canys y mae yr Ysbryd Glan yn tystiolaethu yn y modd egluraf, fod pa beth bynnag a wneiid yn ddeddfol neu gysgodol trwy yr aberthau gynt er tynu ymaith bechod, wedi eu gwneuthur oll yn wirioneddol ac ysbrydol trwy yr un aberth hwnw, a thaenelliad gwaed Crist. Trwyddo y mae perffeithiad graddol ein sancteiddäad yn cael ei ddwyn oddiamgylch, yr hyn a rag-gysgodid drwy yr aberth beunyddiol parâus. Oddiyma y mae rhinwedd glanhäol neillduol yn cael ei gyfrannu i ni trwy ordinhadau yr Efengyl, fel y tystiolaethir yn gadarnhäol yn Ephes. 5. 25—27, yr hyn hefyd a arwyddocceid trwy beri bod yr aberthau beunyddiol yn cael eu dyblu ar y Sabbath. Trwyddo y'n purir oddiwrth ein holl bechodau, mawr a bach, fel y cysgodid yn yr aberth mawr ar ddydd y cymmod; ac atto ef y mae i ni ddyfodfa wastadol ar bob rhyw achlysur yn herwydd ein halogedigaethau ysbrydol o bob rhyw. Fel hyn y mae ei waed ef o ran ei rinwedd puredigaethawl yn atteb i'r, ac yn gyflawniad o'r holl osodiadau deddfol, yn cuwedig yr ordinäad hono o ludw yr anner goch, (Num. 19.) trwy yr

hyn y gallai pob un halogedig gael ei lanhau yn union-gyrchol; a'r hwn ni's gwnelai ddefnydd o honaw, a dorrid ymaith o blith y bobl; (adn. 20.) ac yn gyffelyb y mae gyda gwaed Crist, yn ein halogedigaethau ysbrydol; am ba achos y'i gelwir yn "ffynnon wedi ei hagoryd i bechod ac i aflendid;" (Zech. 13. 1.) a'r hwn a esgeuluso wneuthur defnydd cymhwysiadol o honaw, a gollir yn ei aflendid, a hyny yn dragywyddol.

Nyni a allwn ymholi yn mhellach, Pa fodd y mae gwaed Crist yn ein glanhau ni fel hyn oddiwrth ein pechodau? a pha fodd yr ydym ni i gael ein gwneyd yn gyfrannogion o'r llesäad yma? Ar y pen cyntaf nyni a ddylem sylwi mai ysbrydol, ac nid corfforol yw yr aflendid yma. Anghydffurfiad pechod â sancteiddrwydd Duw ydyw, yr hyn sydd yn peri ei fod yn ffiaidd ganddo ef, ac yn cael ei ddilyn â chywilydd i ninnau. Ond pa le bynnag y gwneler un yn gyfrannog o rinwedd puredigawl gwaed Crist, y mae yn tynu ymaith yr holl ffieidd-dra ger bron Duw, (nid o bechod, ond o'r pechadur) fel y mae yn cael ei wneuthur megys un wedi ei olchi a'i lanhau yn drwyadl ger ei fron ef. Mae yn tynu y cywilydd ymaith o'r gydwybod hefyd, ac yn rhoddi hyfdra yn yr enaid ger bron Duw, Esa. 1. 16, 18. Salm 51. 7. Heb. 10. 19.

Mewn perthynas i'r ffordd, drwy yr hon y'n gwneir ni yn gyfrannogion o'r llesäad sydd yn deillio trwy waed Crist, ni a sylwn,

1. Yr Ysbryd Glan sydd yn dangos i ni halogrwydd pechod, a'n haflanäad ninnau trwyddo. Mae yn wir y gwneir rhyw beth o'r natur yma trwy rym cydwybod anianol, wedi ei deffroi a'i chyffroi trwy foddion allanol o argyhoeddiad; ond ni's bydd i hyn ei hunan byth ein tywys at waed Crist am lanäad. Gwaith yr Ysbryd Glan yn unig yw y cyfryw olwg argyhoeddiadol ar ei aflendid, ag a baro i ni ein ffieiddio ein hunain yn drwyadl. Dan deimlad o hyn yr oedd y publican yn sefyll o bell, fel un wedi ei doi â chywilydd, ac heb un gradd o hyder ganddo i

ddyfod yn nes. Felly hefyd y cyffesai dynion sanctaidd gynt o flaen Duw, fod arnynt gywilydd a gorchwyledd i gyfodi eu hwynebau tuag atto ef.

2. Mae yr Ysbryd Glan yn cyflwyno i'n sylw yr unig wir feddygyniaeth, unig foddion puredigaeth. Sylwyd yn barod ar y gau ffyrdd a ddefnyddiwyd i'r perwyl yma, ac y mae pob dyn yn barod i chwilio ffordd iddo ei hunan. Er fod yr unig ffynnon rinweddol er glanäad yn agos attom, ni's gallwn ei gweled hyd oni agoro yr Ysbryd Glan ein llygaid, fel yr agorodd lygaid Hagar gynt: efe yn unig a'i dengys i ni, ac a'n harweinia nimnau iddi. Rhan arbennig o'i swydd a'i waith ef, yw gogoneddu y Mab; ac y mae efe yn gwneuthur hyny trwy ddangos y cyfryw bethau i ni. Effaith arbennig Ysbryd y gras, yw cael synied gwir ysbrydol o halogrwydd pechod, a golwg rasol ar rinwedd gwaed Crist.

3. Efe sydd yn gweithio ffydd ynom, trwy yr hon y derbyniwn Grist ei hunan, ac y'n gwneir yn gyfranogion yn hyn, a holl lesion ei gyfrwngwriaeth ef. Efe yw ein iawn, trwy ffydd yn ei waed ef fel aberth; ac efe yw ein sancteiddäad ni, trwy ffydd yn ei waed ef wedi ei dacnellu; ac y mae gweithrediad neillduol ffydd ar waed Crist, yn ofynol oddiwrthym ni, er glanäad yr enaid oddiwrth bechod. Mae cydwybod wedi ei hadnewyddu gan yr Ysbryd Glan, yn canfod halogrwydd yn mhob pechod, ac ni's gwaredir oddiwrth gywilydd o'i herwydd, heb gymhwysiad neillduol o waed Crist. Mae yn dyfod trwy ffydd i'r ffynnon yma, fel y dyn claf gynt at lyn y dyfroedd iachusol, ac yn dysgwyl am yr adeg i gael ei lanhau ynddo; felly y gwaeddai Dafydd yn wyneb halogrwydd ei bechodau ysgeler, "Glanha fi àg isop, a mi a lanheir; golch fi, a byddaf wynnach na'r eira." Salm 51. 7. Cyfeiriai yna at buredigaeth y gwahanglwyfus, sefydliad yr hon ordinäad a ganfyddwn ni yn Lef. 14; neu at yr ordinäad fwy cyffredinol hòno, er glanäad oddiwrth bob attendid deddfol, à dwfr y neillduaeth, yr hwn a wneid à ffudw yr

anner goch, (Num. 19.) canys cyflawnid y ddau fath yma o buredigaeth, trwy daenellu gwaed, neu ddwfr, âg isop. Mae yn eglur, meddaf, ei fod ef yn cyfeirio at y sefydliadau hyn; ond y mae mor eglur nad dyma y pethau a olygai; canys nid oedd unrhyw buredigaeth âg isop dan y ddeddf i bersonau euog o'r cyfryw bechodau ag yr oedd ef danynt; am hyny y mae efe yn addef yn uniwedd y Salm, na's mynnai Duw "aberth ac offrwm" yn ei angylchiad ef; gan hyny, â'r hyn a arwyddocceid drwy y sefydliadau hyny yr ymwnai efe, sef gwaed Crist, trwy yr hyn y gallai efe gael ei gyfiawnhau oddiwrth yr holl bethau hyny, y rhai ni's gallasai gael ei gyfiawnhau oddiwrthynt trwy ddeddf Moses. Yn gyfielyb hefyd y mae pob credadyn yn ymwneyd mewn modd neillduol à gwaed Crist, er eu glanâad oddiwrth eu pechodau, cyn yr hyn y mae cydwybod pechod ganddynt, yn eu collfarnu am bechod, a'u llanw à chywilydd ac âg ofn.

Mae y cynhwysiad yma yn gynnwysedig mewn pedwar peth;—1. Golygiad ysbrydol ar waed Crist yn ei aberth, megys y'i gosodir allan yn addewidion yr Efengyl er ein puredigaeth. "Trowch eich wynebau attaf fi, fel y'ch achuber," medd efe; yr hyn sydd yn golygu yr oll o'n iachawdwriaeth, a'r holl foddion o honi. Ein llwybr ni i gyfrannogiad o honi, sydd trwy droi ein hwynebau atto ef; canys megys y dyrchafwyd y sarff yn y diffaethwch, felly y mae yntau wedi ei ddyrchafu yn ei aberth ar y groes; ac felly y'i darlunir i ni yn yr Efengyl. Y moddion, drwy ba un yr iacheid hwy yn yr amalwch, oedd trwy edrych ar y sarff a ddyrchafasid i fynu: yma y mae ffydd yn dechreu gweithredu, trwy olygfa ysbrydol ar waed Crist megys y'i gosodir allan yn yr Efengyl fel yr unig foddion o'n puredigaeth, a pho hwyaf yr arhosom yn y myfyrdod yma, mwyaf effeithiol fydd ein llwyddiant yn ein hymwneuthuriad âg ef. (2.) Mae ffydd yn ymorwedd yn wirioneddol ar ei waed ef am gwblhau y dyben mawr i'r hwn y'i gosodir allan; megys y gosododd Duw ef yn iawn, trwy ffydd yn ei waed

taenelledig ef. (3.) Mae ffydd yn gweithio yn hyn trwy weddi wresog, gyda golwg ar ei addewidion; oblegyd ymofynir â Duw am hyn oll gan dy Israel. Trwy hyn y mae yr enaid yn ei ddwyn ei hun yn agos i'w drugaredd ei hunan; ac fe'n hannogir i hyn yn Heb. 4. 15, 16. (4.) Ymostyngiad i, ac ymorphwysiad ar wirionedd a ffyddlondeb Duw, am ei lanäad trwy waed Crist; trwy yr hyn y'n rhyddheir oddiwrth gywilydd cythryblus, ac y cawn hyder yn ngwyddfod Duw.

4. Mae yr Ysbryd Glan yn gweinyddu rhinwedd puredigawl glanhäol gwaed Crist at ein cydwybodau, trwy yr hyn y'n gwaredir oddiwrth gywilydd, ac y cawn hyfdra tuag at Dduw; canys iddo ef y perthyna yr holl waith o gymhwyso bendithion cyfryngdod Crist at gredinwyr; ac at hyn yr ymestyna credinwyr yn eu holl weddiau taerion am buredigaeth eu heneidiau trwy daenelliad o waed Crist; y gredinïaeth o'r hyn sydd yn rhoddi iddynt heddwch a hyder yn mhresenoldeb Duw; heb yr hyn ni's meddant ddim ond gwarthrudd, a chywilydd wyneb, dan ystyriaeth o'u halogrwydd.

III. Ffydd yw yr achos offerynol o'n puredigaeth: "Gan buro eu calonnau hwy trwy ffydd," Act. 15. 9. Dau brawf anffaeledig ffydd ddiffuant yw, Ei bod oddifewn yn puro y galon, ac oddiallan, yn gweithio trwy gariad. Dyma y maen prawf, wrth ba un y dylid profi ffydd. Yr ydym ni yn "puro ein heneidiau gan ufuddhau i'r gwirionedd, trwy yr Yspryd,"—hyny yw, trwy gredu, yr hyn yw ein hufuddhod gwreiddiol i'r gwirionedd; a thrwy hyn y purir ein heneidiau. Yr un rhai yw yr anmhrediniol a'r halogedig; canys nid oes ganddynt ddim ynddynt trwy yr hyn y gallont gael eu glanhau; ac fe'n purir trwy ffydd, (1.) Am mai ffydd ei hunan yw y prif ras trwy yr hwn yr adferir ein natur i ddelw Duw, ac felly yn rhyddheir oddiwrth halogrwydd gwreiddiol. (2.) Trwy ffydd yr ydym yn derbyn rhinwedd puredigaethawl, a dylanwadau oddiwrth waed Crist, fel y cry bwyllwyd o'r blaen. Ffydd yw y gras, trwy

yr hwn yr ydym yn glynu yn barhaus wrth Grist; ac os derbyniodd y wraig a gyffyrddodd â'i wisg ef mewn ffydd, rinwedd oddiwrtho ef i iachau ei dyferlif gwaed hi, oni's derbynia y rhai ydynt yn glynu wrtho ef yn barhaus, rinwedd oddiwrtho ef er iachâad o'u hanwylderau ysbrydol? (3.) Trwy weithrediad ffydd yn bennaf, y mae y chwantau hyny ydynt yn halogi dynion, yn cael eu marweiddio a'u darostwng yn raddol. Mae ffydd yn sugno ei harlwyon o'r Ysbryd, trwy Iesu Grist; ar yr hyn yn unig y mae yr arlwyon hyn yn ymddibynnu. (4.) Y mae ffydd yn cymeryd yr holl gymhelliadau a osodir o'n blaen i gyffroi ein hegniadau eithaf[illegible] attal halogedigaethau pechod; megys cyfrannogiad o addewidion ardderchog Duw yn bresenol, a'r mwynäad dyfodol o Dduw mewn gogoniant.

IV. Priodolir puredigaeth oddiwrth bechod yr un modd i GYSTUDDIAU. Am hyny y'n gelwir Ffwrn Duw, trwy ba rai y mae efe yn tynu ymaith ein sothach. Gelwir hwy hefyd yn Dân, trwy yr hwn y profir ffyrdd a gweithredoedd dynion, yr ysir eu gwair a'u soft, ac y purir eu haur a'u harian; ac y maent yn cael eu gwneuthur yn effeithiol i hyn trwy Ysbryd Daw; canys fe'u torwyd ymaith oddiwrth felldith y cyfammod cyntaf i'r hwn y perthynai eu holl ddrygau, ac fe'u himpiwyd yn y cyfammod gras, trwy groes Crist. A phren y groes wedi ei fwrw i ddyfroedd cystuddiau, a'u gwnaeth yn iachusawl a meddygyniacthawl. Gan fod Crist yn ben y cyfammod, y mae holl gystuddiau ei bobl yn eiddo ef yn gyntaf; ac y maent oll yn tueddu i gynnyddu ein cydffurfiad âg ef mewn sancteiddrwydd; ac y maent yn cydweithredu trwy amrywiol ffyrdd i'r dyben gwynfydedig yma. (1.) Maent yn cynnwys rhyw arwyddion o anfoddlonrwydd Duw yn erbyn pechod, trwy yr hyn yr arweinir crediuwyr o newydd i sylwi ar ei ddrygedd; canys er mai effaith cariad yw cystuddiau; eto effaith cariad wedi ei gymmysgu â gofal i rag-flaenu anhwyldeb ydyw; y maent yn geryddon bob amser, pa beth bynnag arall a allont fod;—ac y mae cerydd bob amser yn golygu tros-

eddau; a'r llwybr diogelaf i ni yn mhob cystudd yw pïodoli yr achos o honaw i'n haeddiant ein hunain. Yn awr, y mae golwg ar bechod, dan ddyoddefaint, yn peri i ddynion eu fheiddio eu hunain, a chywilyddio o'i herwydd.

(2.) Mae cystuddiau yn aml yn dwyn ymaith yr hudoliaethau oddiar bob peth da crëedig trwy yr hyn y deuir y serchiadau i lynu yn anghymedrol. Mae Duw yn amcanu trwy gystudd, wywo holl flodau y byd hwn, trwy ddangos cu hanmigonolrwydd i weini ymwared. Mae hyn yn torri y gyfathrach afreolaidd sydd yn dueddol i fod rhwng ein serchiadau â hwynt, trwy yr hyn yr halogir ein meddyliau; canys y mae halogedigaeth yn nglŷn â'r gweithrediad afrëolaidd lleiaf o'r ciddo ein meddyliau ar wrthddrychau à fyddont yn bechadurus ynddynt eu hunain, neu a wneler felly drwy ein gorhoffider o honynt, tra yr ydym dan orchymyn i garu Duw â'n holl galon. (3.) Mae cystuddiau yn tynu ymaith fin y serchiadau hyny trwy y rhai y mae chwantau llygredig y cnawd a'r meddwl yn gweithredu. Maent yn firwyno y serchiadau bywiog hyny y rhai oeddynt bob amser yn barod i wasanaethu y chwant, ac yn cludo yr enaid weithiau i erlyn pechod, fel march i'r frwydr, yn llawn o gynddaredd gorphwyllog. (4.) Trwy hyn y mae Duw yn ennyn holl rasusau yr Ysbryd i ymarferiad bywiog a dyfal; a thrwy hyn y mae y gwaith o lanhau yr enaid oddiwrth halogrwydd pechod yn cael ei ddwyn yn mlaen. Amser cystudd yw y tymhor neilldnedig i weithrediad arbenig pob gras; canys ni's gall yr enaid ymgynnal na derbyn ymwared un ffordd arall. Fe'i diddyfnir oddiwrth bob cysuron craill, gan fod pob peth melus yn cael ei wneyd yn chwerw iddo; gan hyny, rhaid iddo fyw trwy ffydd, cariad, ac ymbyfrydiad yn Nuw.

Ac fel hyn, nyni a gymerasom olwg ar y rhan gyntaf o'n sancteiddiad, ar yr hyn yr ymhelaethais yn fwy, oblegid ei fod yn cael ei lwyr esgeuluso gan y rhai a fynent haeru fod sa[illegible]rwydd yn gyssylltiedig yn unig mewn ymarferiad o rinwedd moesol.

Efallai y cyfrifir yr hyn a ddywedais, yn ffrwyth penboethder crefyddol, er nad oes un rheswm am hyny ond yn unig ei fod wedi ei gymeryd o'r Ysgrythyr; ond pan fyddo dynion yn casâu yr ymarferiad o sancteiddrwydd, ofer yw ceisio eu dysgu am ei natur.

Ond ni's gwiw i mi fyned heibio i'r pethau hyn, heb wneyd rhai adfyfyriadau arnom ein hunain, a rhai ystyriaethau o'u perthynas bwysfawr â ni.

Yn gyntaf, Nyni a allwn gymeryd golwg ar ein cyflwr ein hunain wrth natur oddiyma. Byddai yn fuddiol i ni edrych yn ol iddo, ac y mae yn rheidiol i'r rhai ydynt yn ddo, gael eu dwyn i adnabyddiaeth drwyadl o hono. Y mae y gwahanglwyf ysbrydol wedi ymdaenu dros ein holl natur, yr hyn sydd yn ein gwneuthur yn ffiaidd i Dduw, ac yn peri ysgariaeth rhyngom âg ef, fel y byddai y rhai hyny gynt a fyddent yn aflan ddeddfol yn cael eu neillduo oddiwrth y gynnulleidfa, ac oddiwrth yr holl wystlon o bresenoldeb grasol Duw. Nid yw unrhyw beth a wna dynion o honynt eu hunain tuag at ymryddhau oddiwrth yr halogrwydd yma, yn gwneuthur dim ond ei guddio, heb ei symmud ymaith: ni's gwellâai Adda ei noethder, ac nid ymryddhäai oddiwrth y cywilydd o honaw trwy ei ddail ffigys. Ni fedd rhai unrhyw orchudd arall i'w halogrwydd ysbrydol, ond addurniadau allanol y cnawd, y rhai ydynt yn ei gynnyddu a'i gyhoeddi yn hytrach na'i guddio. Cuddir y ffieidd-dra mwyaf yn y byd, a'r coeg-lawenydd mwyaf. Pa beth bynnag a wnelom o honom ein hunain, nid yw ond gorchudd ar afiendid, ac nid glanäad oddiwrtho; ac os byddwn feirw yn y cyflwr hwn, heb ein glanhau, bydd yn anmhossibl i ni gael ein derbyn i wyddfod gwynfydedig y Duw sanctaidd. Gan hyny, na thwylled neb chwi â geiriau ofer, nid gwneuthur ychydig o weithredoedd da, nid proffes allanol o grefydd, a ddyru i chwi ddyfodfa hyderus at Dduw. Cywilydd a'ch gorchuddia pan fyddo yn rhy ddiweddar i gael ymwared: oddieithr cich golchi gan Ysbryd Duw yn ngwaed Crist, ni's gellwch etifeddu teyrnas

Dduw: byddwch yn olygfa arswydus i saint ac angelion, i chwi eich hunain, a'r naill i'r llall, pan barer i warth eich noethder ymddangos! Gan hyny, os mynech na's darfyddo am danoch fel creaduriaid ffiaidd ac afian, pan na's gallo eich balchder, eich gohud, eich tegwch, eich addurniadau, a'ch dyledswyddau, eich gwasanaethu mwy, edrychwch ar frys am yr unig ffordd o waredigaeth a drefnodd Duw: ond os ydych yn caru eich ffieidd-dra, os ydych yn ymfalchïo yn eich halogedigaeth, os ydych yn ymfoddloni yn eich addurniadau allanol,—nid oes feddyginiaeth wedi ei adael i chwi, rhaid y derfydd am danoch yn dragywydd!

Gan mai dyma gyflwr pawb wrth natur, os bydd neb yn barod i ofyn pa beth a wnant fel y'n glanhäer, ymdrechaf i'w cyfarwyddo i'r "ffynnon a agorwyd i bechod ac aflendid."

1. Llafuriwch am adnabyddiaeth o'ch halogrwydd pechadurus yn ei natur a'i effeithiau. Er fod yr Ysgrythyrau yn cynnwys darluniad helaeth o honaw, eto ychydig o sylw a rydd dynion iddo yn gyffredin. Hwyrach eu bod yn teimlo ychydig oddiwrth euogrwydd pechod; ond ni theimlant ddim o herwydd ei halogrwydd; os gallant hwy ddïanc rhag cyfiawnder Duw, yr hwn a gyffroisant i'w herbyn, nid ydynt yn gofalu dim am eu hannhebygolrwydd i'w sancteiddrwydd, trwy yr hyn y maent yn halogedig.

Mae yn rhaid i'r neb a fyno gael ei lanhau oddiwrth yr halogrwydd hwn, ei adwaen yn gyntaf; ac er nas gallwn wneuthur hyn yn iawn heb Ysbryd Duw, eto y mae amryw ddyledswyddau yn ofynol oddiwrthym ni; megis, (1.) I chwilio yr Ysgrythyrau. Dyma ddrych yr hwn y dylai pob dyn edrych ei hunan ynddo, a'r hwn ni's dysgo adnabod ei ffieidd-dra ei hunan yma, a fydd byw yn halogedig, a marw yn felldigedig. (2.) Mae pob un a dderbyniodd dystiolaeth yr Ysgrythyr am ei sefyllfa lygredig, os llafuria i'w chwilio ei hunan wrth y dystiolaeth, yn sier o gael golygfa helaethach arni. Mae torfeydd yn dysgu oddiar yr hyn a ddarllenant ac a wrandawant eu bod yn halogedig

wrth natur, (ac ni's gallant ei wadu,) ac eto mewn gwirionedd heb eu gweled eu hunain felly; ond pan ddygo dynion eu hencidiau i ddrych y gyfraith berffaith, ac ystyried pa fodd y mae arnynt hwy eu hunain; mor wageddol yw eu dychymygion; mor afreolaidd eu serchiadau, ac mor wyrdraws yw holl weithrediadau eu meddyliau; hwy a fyddant yn barod i waeddi fel y gwahanglwyfus gynt, "Aflan! Aflan!" (3.) Mae yn ddyledswydd ar bawb weddïo am oleuni a chyfarwyddyd yn hyn; bod dyn yn adnabod ei hunan, a gyfrifid gynt y radd uchaf o ddoethineb ddynol. Nid ymhola rhai dynion ddim iddynt eu hunain; ni's meiddia rhai, ac y mae eraill yn esgeuluso gwneyd, o wir ddïogi; ond os myn neb byth gael ei lanhau oddiwrth ei bechodau, rhaid iddo wneyd mor hyf a hyn arno ei hunan, a beiddio bod mor ddoeth a hyn; ac yn yr arferiad o'r moddion a ragnodwyd o'r blaen, gan ystyried ei dywyllwch ei hun a bradwriaeth ei galon, efe a ddylai weddïo yn daer ar fod yn wiw gan Dduw, trwy oleuni goruwchnaturiol ei Ysbryd, ei gynnorthwyo i iawn ganfod halogedigaeth ei natur. Heb hyn, ni's caiff e unrhyw amlygiadau mawrion a buddiol byth.

(2.) Rhaid i'r rhai ydynt yn wir awyddus am gael eu puro oddiwrth halogrwydd pechod ymofyn am deimlad o'i herwydd, cyfaddas i'r amlygiad a gawsant o hono. Ni's gall un dyn hyddysg yn yr Ysgrythyrau fod yn anhysbys o'r mynychrwydd a'r hwn y mae Duw yn galw ar ddynion i gywilyddio o herwydd eu pechodau.

(3.) Gwybydded y cyfryw yn ddïogel, na's gallant byth eu puro eu hunain. Mae ymdrechiadau dynion am buredigaeth oddiwrth bechod, yn sier o fod yn gyfattebol i'w hargyhoeddiadau o'i halogrwydd: ond y mae llawer yn cwympo i gamgymeriadau mawrion yn hyn, gan feddwl y gall eu galar, a'u diwygiad bucheddol wneyd hyn erddynt; ond er fod y pethau yn dda ynddynt eu hunain, maent yn cael eu camddefnyddio yn fuan, a'u troi yn foddion effeithiol i gadw dynion oddiwrth Grist; canys os ymddiriedir

mewn edifeirwch deddfol, y mae e yn sicr o gadw yr enaid oddiwrth yr edifeirwch efengylaidd hwnw, yr hwn yn unig a gymeradwyir gan Dduw: a diwygiad bucheddol yn unig os ymorphwysir ynddo, sydd yn sicr o weithredu yn wrthwyneb i geisio adnewyddu ein natur; ond cyflawner y dyledswyddau hyn y modd a fynner, y maent yn llwyr annigonol i'n glanhau ni. Ac ni chais neb yr hyn sydd wir angheuriheidiol i hyn, hyd onis llwyr argyhoeddir o'r gwirioneddau am dano.

(4.) Gan hyny, y mae yn ddyledswydd arnynt ymgydnabod â'r unig feddyginiaeth a drefnodd Duw. Un o ddybenion mawrion datguddiad Dwyfol oedd i gyfarwyddo dynion am drefn y glanhâad; ac un prif foddion a ddefnyddiodd Satan bob amser i gadw dynion yn eu gwrthgiliad oddiwrth Dduw, oedd trwy arlwy ancrif ffyrdd o buredigaeth iddynt; wedi eu cyfaddasu at ddychymygion eu meddyliau tywyll a chnol-grefyddol hwy; ac e ddylai yr ystyriaeth o fod Duw yn rhoddi pwys mawr ar hyn, ein cyffroi i fod yn dra diwyd yn ein hymchwil i'r peth; fel y mae yn eglur oddiwrth holl sefydliadau, addewidion, a gorchymynion deddf ac efengyl: heblaw hyny, mae yr anhawsder i gyrhaedd adnabyddiaeth o hyn i'w ystyried. Rhan o ddirgelwch yr Efengyl ydyw, yr hwn a gyfrifir gan reswm cnawdol yn ffolineb. Nid yn rhwydd yr addefir, na's gellir ein glanhau ni oddiwrth ein pechodau trwy un ffordd arall, ond trwy daeneiliad o'r gwaed hwnw, a dywalltwyd er's cyhyd o amser yn ol. Gan hyny y mae yn ddyledus ar ddynion ymholi i mewn i'r athrawiaeth hon, fel wedi eu sicrhau o'i gwirioned, y tyner eu meddyliau oddiwrth bob gau feddyginiaeth y'n tueddid attynt gan eu calonau twylledig eu hunain, neu ofer-goelion rhai craill.

5. Ond yn awr yr ymofyniad mawr ydyw, Pa fodd y dichon i enaid halogedig ddyfod i gael cyfran yn rhinwedd puredigaethawl gwaed Crist? I hyn yr attebaf. Y mae rhinwedd puredigaethawl gwaed Crist, yn nghyd a gweinidogaeth yr Ysbryd i'w gymhwyso yn effeithiol at ein

heneidiau, yn cael ei ddal allan yn addewidion y cyfammod, a'r unig ffordd i ddyfod yn gyfrannog o'r pethau a amlygir yn yr addewidion, yw trwy ffydd. Felly y derbyniodd Abraham yr addewidion, ac felly y mae yn rhaid i ninnau eu derbyn. Yn awr, nid yw hyn yn deillio oddiar eu bod yn cael eu cynnyg i ni, ond oddiar ein credíniaeth ni o'r hyn a gynnygir: mae holl fudd yr addewidion yn ymddibynnu yn hollawl ar ein bod yn eu "cyd-dymheru â ffydd," —yn ymorphwys ar ei gadernid a'i eirwirdeb dwyfol— gan gredu y bydd i'r pethau a addawsyd i ni gael eu cwblhau. Dyma yr unig ffordd i gyfrannogi o rinwedd glanhaol gwaed Crist. Rhoddes Duw y grym a'r effeithioldeb yma iddo trwy y cyfammod: yn addewid yr efengyl fe'i cynnygir i ni; a ffydd yn yr addewid hono yw yr unig beth a'n gwna ni yn gyfrannogion o lesäad trwyddo, ac a bair ei fod yn wir effeithiol tu ag attom ni, trwy yr hyn y'n glanheir mewn gwirionedd oddiwrth bechod.

6. Mae ffydd yn yr amgylchiad yma yn gweithio yn a thrwy weddi daer. Pan y dug Dafydd ei hunan drwy bechod i'r cyflwr hwnw, yn yr hwn y teimlai efe ei angen am buredigaeth drwyadl yn adnewyddol, mor daer y mae efe yn ei ddymuniadau ar i Dduw ei buro a'i lanhau ef drachefn. A phan fyddo unrhyw enaid yn dyfod drosodd mewn gwirionedd i ffordd Duw i'w olchi yn ngwaed Crist, ni bydd yn fwy difrifol mewn un deisyfiad nac yn hyn; ac yn a thrwy hyn y mae Crist yn cyfrannu o effeithioldeb puredigaethawl ei waed i ni.

Yn ail. Nyni a allwn gael addysg oddiyma i'r rhai ydynt wedi eu rhyddhau oddiwrth halogrwydd cyffredinol natur, trwy "olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yspryd Glan;" am y rhai y dywedai yr apostol, "Hyn a fu rhai o honoch chwi; eithr chwi a olchwyd," &c. Mae amryw ddyledswyddau yn orphwysedig ar y cyfryw rai; megis,

(1.) Hunan-ffieiddiad parhaus, yn y coffäad o'r cyflwr ofnadwy hwnw, o'r hwn y'u gwaredwyd. Mae yr ystyr-

iaeth yma yn meddu dylanwad fawr ar teddyfiau credinwyr i w gwneyd yn ostyngedig, ac yn cuddio balchder oddiwrthynt; canys beth a feddai creaduriaid o'r fath darddiad isel ac aflan, i ymffrostio ynddo? Mae Duw yn galw ei bobl i hunan-ffieiddiad, nid yn unig o herwydd y peth ydynt; ond oddiwrth yr hyn oeddynt. Felly yr ordeiniasai efe bod i'r hwn a offrymai y blaen-ffrwyth gynt, gyffesu, gan ddywedyd, "Syriad ar ddarfod am dano oedd fy nhad;" neu "Syriad, (hyny yw, Laban) oedd am ddyfetha fy nhad, yr hwn oedd yn druan unig a digymmorth, ac a ymdeithiai o un wlad i'r llall am ei fara. Pa fodd yr wyf fi yn bresenol, o drugaredd benarglwyddiaethol, yn y fath sefyllfa o lawnder a thangnefedd. A phan oedd Dafydd ar yr achlysur o'i bechod mawr a'i edifeirwch, yn cymeryd i fewn bob rhyw ystyriaethau hunan-ffieiddiawl a darostyngiadawl, dyma oedd y bennaf o honynt, "Wele mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf." Felly hefyd y mae yr apostol yn aml yn galw y saint i gofio eu cyflwr blaenorol; ac y mae pob gwir gredadyn yn teimlo yn ddwys o herwydd hyn. Pan ystyriant pa beth oedd eu cyflwr blaenorol, eu halogrwydd cyffredinol, a gwahanglwyf eu natur, y mae yn eu bwrw ar y ddaear, ac yn peri iddynt roddi eu genau yn y llwch.—Ac oddiyma y deillia eu hymostyngiadau dwysion, eu cyffesiadau di dwyll, a'u deisyfiadau taerion.

(2.) Y mae y waredigaeth ddechreuol yr hon a gafodd credinwyr oddiwrth eu llygredd gwreiddiol, yn achos o ddiolchgarwch tragwyddol. Pan lanhäodd Crist y deg gwahan gleifion, efe a amlygodd mor fawr oedd eu rhwymedigaeth i ddychwelyd ato gyda chydnabyddiaeth o'u diolchgarwch, er fod naw o honynt wedi pallu yn hyny. Mae yr ystyriaeth o hyn yn dylanwadu meddyliau credinwyr yn eu holl gyfluyniadau diolchus o fawl a gogoniant i Iesu Crist; "Iddo ef," meddynt, "yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun, iddo ef y byddo gogoniant ac awdurdod yn oes oesoedd!"

Trachefn: Nyni a dystiasom nid yn unig bod halogrwydd cyffredinol yn ein natur, ond bod halogedigaeth yn dilyn pob pechod gweithredol hefyd; ac am hyny, gall credinwyr ddysgu, (1.) I wylied yn erbyn pechod a'i holl ysgogiadau, pa mor ddirgelaidd bynnag y byddont; y maent oll yn halogi y gydwybod; ac arwydd da o enaid grasol yw, ei fod yn wyliadwrus yn erbyn pechod ar y cyfrif yma. (2.) I rodio yn ostyngedig ger bron yr Arglwydd holl ddyddiau ein bywyd. Er gwylied o honom i'r eithaf yn erbyn pechod, "nid oes dyn ni phecha." Ac am y rhai a wag-honant o berffeithrwydd yma, megys y maent yn amlygu eu hanadnabyddiaeth o Dduw, ac o honynt eu hunain, felly y maent yn cael eu gadael yn fynych i wrthbrofi eu balchder a'u hymffrost ffol, yn eglur yn ngolwg pawb: ond i ba ddyben y ceisiwn ein cuddio ein hunain oddiwrthym ein hunain, tra y mae a wnelom â Duw? Mae Duw yn gwybod, a'n heneidiau ninnau yn gwybod hefyd, ein bod yn ymlygru mwy neu lai, yn yr hyn oll a wnelom. Pwy a all ddarlunio ysgogiadau chwant yn y cnawd, gweithrediadau afrëolaidd ein serchiadau, ffolineb dychymygion ein meddyliau, ac oferedd ein geiriau, y rhai ydynt oll yn tueddu i ychwanegu ein halogedigaeth! Addefaf na's gwn fod fy enaid yn ffieiddio unrhyw ymdoriad allan o falchder dïeflig dynion, yn gymmaint a'u gwaradwyddiad o ddwys ymostyngiad pechaduriaid tlodion yn eu cyffesiadau a'u deisyfiadau. Och! bod ein natur ni yn agored i gael ei meddiannu gan y fath ddirmyg ar sanctaiddrwydd Duw, ac mor ddideimlad o'n gwaeledd ein hunain, fel na chrynem gan arswyd rhag mewn un modd i ni ddirmygu ymostyngiad iselaf pechaduriaid tlodion ger bron yr uchel Dduw! (3.) Nyni a ddylem ymegnïo yn wastadol i nychu pechod yn y gwreiddyn a'r egwyddor o honaw. Mae egwyddor pechod yn aros yn yr holl gredinwyr, er ei gwannychu yn fawr: a'r gwreiddyn o bob pechod ynom, sydd yn ein temtio, yn hudo, yn beichiogi, ac yn ymddwyn ar anwiredd; ac y mae genym yr egwyddor yma yn fwy neu lai

yn ol fel y mae yn cael ei marwhau yn fwy neu lai trwy ras; ac yn ol ei nerth, felly y ffynna mewn ymddwyn ar weithrediad halogedig pechod. Gan hyny, os mynem ni ymgadw rhag ychwanegu ein halogediguaeth, rhaid yw i ni ymosod yn erbyn hyn. Rhaid gwneyd y pren yn dda, os mynwn ni ddisgwyl ffrwyth da; rhaid cloddio y gwreiddyn drwg i fynu, os angen ffrwyth drwg a gymmyrchir. (4.) Oddiyma y gwelwn ni yn amlwg hefyd, yr angenrheidrwydd parhaus sydd arnom ni i ymwneyd yn barhaus â Iesu Grist, am rinwedd glanhâol oddiwrth ei Ysbryd ef, a thaenelliad o'i waed ef ar ein cydwybodau, i'n puro oddiwrth weithredoedd meirwon. Yr ydym ni yn ymhalogi beunydd, ac onid awn ni i'r ffynnon beunydd, nyni a fyddwn yn wahanglwyfus dresom oll yn fuan; ein cydwybodau a lenwir o weithredoedd meirwon, fel y byddwn ni yn analluog i wasanaethu y Duw byw. Pan fyddo enaid wedi ei lanw â hunan-ffieiddiad, dan ystyriaeth o'i halogrwydd ei hunan, yn ymwneyd â Christ yn barhaus am lanäad, gyda gwresawgrwydd cyfattebol i'w argyhoeddiadau; y mae yn yr agwedd y dylai fod y pryd hyny. Yr ydwyf yn sier nad oes un gwir gredadyn yn y byd yn ddieithr i'r ddyledswydd hon: a pho mwyaf dyfal y byddo neb un yuddi, mwyaf diffuant y profir fod ei ffydd, a mwyaf gostyngedig yw ei rodiad of ger bron yr Arglwydd.

PEN. VI.

Gwaith awdurdodol yr Ysbryd yn sancteiddiad credinwyr.

Nyni a awn rhagom yn awr i sylwi ar waith yr Ysbryd yn sancteiddiad credinwyr; canys y mae efe nid yn unig yn glanhau eu natur a'u personau oddiwrth halogrwydd pechod, ond y mae efe yn cyfrannu yr egwyddor fawr, barhaus, ac awdurdodol o sancteiddrwydd i'w heneidiau, trwy yr hyn y'u harweinia, ac y'u cynnorthwya mewn pob rhyw weithred o ddyledswydd berthynol i natur sancteiddrwydd.

Crynhöaf yr hyn a berthyna i'r rhan hon o'i waith yn y ddau osodiad canlynol:—

I. Y mae egwyddor oruwch naturiol, neu reddf o ras, yn cael ei gweithredu a'i chynnal yn eneidiau credinwyr gan Ysbryd Duw, trwy yr hyn y'u galluogir i fyw i Dduw, a chyflawni yr ufudd-dod a ofynir ac a gymmeradwyir ganddo ef; ac y mae hyn yn hanfodol wahaniaethol oddiwrth bob egwyddorion naturiol, deallawl, neu foesol, pa fodd bynnag y'u cynnyrchir, neu y'u gwellheir.

II. Mae yn rhaid i ni wrth weithrediad effeithiol yr Ysbryd Glan trwy ei ras, i gynnyrchu pob gweithred o ufudd-dod sanctaidd yn dufewnol ac allanol.

Yn y cyntaf o'r gosodiadau hyn, y mae pedwar peth i'w profi:—1. Bod y fath egwyddor neu reddf mewn credinwyr. 2. Ei bod yn gogwyddo yr enaid at weithredoedd sanctaidd. 3. Ei bod yn galluogi yr enaid i fyw i Dduw mewn ufudd-dod sanctaidd. 4. Ei bod yn gwahaniaethu yn hanfodol oddiwrth bob rhyw egwyddorion eraill.

1. Greddf rasol, oruwch naturiol, neu egwyddor o fywyd ysbrydol, ydyw.—Wrth y reddf hon yr wyf yn golygu rhinwedd, gallu, neu egwyddor o fywyd ysbrydol a gras, a weithredir, a grëir, neu a dywelltir i'n heneidiau, ac a ddodir yn eu holl alluoedd; yr hon a drig yn wastadol, ac a breswylia yn annghyfnewidiol ynddynt, gan fod fel gwreiddyn, neu yr achos uniongyrchol o gynnyrchu pob gweithred wir sanctaidd. Nid yw yn gynnwysedig mewn unrhyw weithredoedd unigol o ufudd-dod, er bod o honynt yn dda yn eu natur eu hunain; canys e all llawer o'r cyfryw weithredoedd gael eu cyflawni gan ddynion ansanctaidd. Yr oedd aberth Cain, ac edifeirwch Ahab, yn weithredoedd amlwg o ufudd-dod o ran y defnydd o honynt, eto nid oeddynt yn weithredoedd sancteiddrwydd o ran y ffurf o honynt. E all dynion roddi eu holl dda i borthi y tlodian, eto, heb fod yn ddim. Dichon gweithredoedd unigol fod yn brofion o sancteiddrwydd, megys gwaith Abraham yn offrymmu ei fab; ond ni's gwnant neb yn sanctaidd; ac

ni's gwna rhestr o weithredoedd neb yn sanctaidd. Ac nid yw hyn yn gynnwysedig mewn rhyw ogwydd arferol yn y meddwl at ddyledswyddau allanol o ddduwioldeb neu ufuddod; ond y mae y reddf neu yr egwyddor hon o sanctciddrwydd, y cyfryw ag sydd yn rhag flaenorol i bob gweithred o'r un rhyw; canys rhaid fod pob gweithred o wir sanctciddrwydd yn meddu rhywbeth goruwch naturiol yuddi, oddiar egwyddor dufewnol o ras. Y mae hon yn aros yn wastadol yn y rhai ydynt yn wir sanctaidd; am ba achos y maent bob amser yn sanctaidd, ac nid yn unig pan fyddont yn ymarfer á dyledswyddau sanctciddrwydd yn weithredol. Trwy hyn y'n pavottoir, y'n tueddir, ac y'n galluogir i bob rhyw ddyledswyddau o ufudd-dod, a thrwy ddylanwad yr egwyddor hon i'w gweithredoedd a'u dyledswyddau, y maent yn dyfod yn sanctaidd, ac nid un modd arall. Bod y cyfryw reddf mewn credinwyr, sydd amlwg oddiwrth yr Ysgrythyrau. Addawai Duw, gynt, enwaedu calonau ei bobl;—rhoddi calon newydd ac ysbryd newydd iddynt,—ac ysgrifenu ei gyfraith yn eu calonau. Datguddir hyn yn fwy eglur yn y Testament Newydd, Ioan 3. 6. Fe'n genir drachefn o'r Ysbryd, a'r hyn a enir yn yr enedigaeth newydd hon, sydd Ysbryd: rhyw beth yn bod ynom ni o natur ysbrydol, ac effeithioldeb ysbrydol. Rhywbeth yn aros ynom ni ydyw, ac yn gweithredu yn barhaus mewn gwrthwynebiad i'r cnawd a phechod. Fe'i gelwir, Creadur Newydd, (rhyw beth yn meddu natur creadur bywiol) a'r Duwiol Anian: a da y gwyddis mai anian yw yr egwyddor o bob gweithrediadau; a hyn yw y reddf o ras, neu yr egwyddor o sanctciddrwydd, dros yr hon y dadleuwn.

Trwy hyn y mae i ni undeb á Iesu Grist, Pen yr Eglwys, ac y'n gwneir yn aelodau o'i esgyrn, ac o'i gnawd ef, fel yr oedd Efa o Adda; yr oedd hi yn meddu yr un natur úg e, a hono wedi ei derbyn oddiwrtho ef; felly yr ydym ni o hono ef, yn gyfrannogion o'r un anian dduwiol, "canys yr hwn a gyssylltir á'r Arglwydd, sydd un Ysbryd." Gan hyny, gwelwn mor ardderchog yw y gras hwn! Y mae o'r

un rhyw a natur sanctaidd Crist, ac yn ein gwneuthur ni yn un ag ef. Pa ryw ragorfraint fawr yw hyn! Pa fath anrhydedd a diogelwch i'r enaid sydd yn ei meddu! Pa ryw ddyledswyddau a ofynir oddiar hyn! a pha fodd y dylem ni fawrygu gras a chariad Crist, trwy gyfryngdod yr hwn y'n gwneir yn gyfrannogion o honi! Dyma ein bywyd; ond ni's gallwn ni ei ddirnad yn berffaith, canys y mae wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw.

(1.) Oddiwrth hyn, nyni a allwn ddysgu peidio ymfoddloni ar unrhyw ddyledswyddau, pa mor dda bynnag y byddont ynddynt eu hunain, oddieithr bod egwyddor fywiol o sanctciddrwydd yn ein calonau. Mae ychydig weithredoedd gonest, ac ychydig ddyledswyddau defnyddiol, yn boddloni llawer i feddwl eu bod mor sanctaidd ag y byddo raid eu bod; ond y mae pob cyfryw ddyledswyddau yn wrthodedig gan Dduw, pa mor luosawg bynnag y byddont, oddieithr bod y galon wedi ei sancteddio yn mlaenaf. Gall argyhoeddiadau deddfol, dychryniadau cydwybod, a hyfforddiadau rheswm, orfodi dynion i gyflawni llawer o ddyledswyddau; ond ofer fydd y cwbl; nid yw dynion namyn llafurio yn y tan gyda hwy oddieithr bod yr enaid wedi ei barottoi a'r egwyddor hon o sancteiddrwydd

Eto, sylwer, am y dyledswyddau moesol neu grefyddol hyn, can belled ag y byddont yn dda ynddynt eu hunain, y dylent gael eu cymeradwyo a'u cefnogi yn mhob dyn. Gallant fod yn ddiffygiol yn eu hegwyddor, ac yn gyfeiliornus o ran eu dyben; ond eto ni's dylem ni ddifrio y dyledswyddau eu hunain, na bwrw rhwystr ar ffordd y cyflawniad o honynt. Nid yw y byd mewn ansawdd y gallcr hebgor gweithredoedd da dynion drwg; a byddai yn dra dymunol pe gallem weled mwy o ffrwythau rhinweddau moesol, a dyledswyddau crefydd ymarferol yn mysg dynion ansanctaidd nac a welwn: ond hyn a allwn, ac a ddylem ei wneuthur; nyni a allwn ddywedyd wrthynt (fel y dywedodd ein Harglwydd wrth y gwr ieuanc) "Y mae un peth eto yn ddiffygiol i ti," y mae arnat eisiau ffydd; neu,

y mae arnat eisiau Crist, neu, y mae arnat eisiau egwyddor ysbrydol o sancteiddrwydd effengylaidd; heb yr hyn y bydd eich holl lafur yn ofer, ac yn llwyr ddi gyfrif yn y dydd diweddaf. Ni's gallodd iawn osodiad athrawiaeth gras o fiaen dynion fod yn attaliad ar ffordd cyflawniad unrhyw ddyledswydd.

Sylwer eto. Pa le bynnag y mae yr egwyddor yma o sancteiddrwydd yn y galon, bydd yr effeithiau o honi i'w gweled yn y fuchedd; canys ei dyben mawr yw ein gallu ogi ni i gydffurfio a gras, neu Effengyl Duw, yr hon sydd yn ein dysgu i *fyw* yn sobr, yn gyfiawn ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon." Os bydd y pren yn dda, e fydd y ffrwyth yn dda hefyd: a rhagrith fiaidd yw i neb ymhoni mewn sancteiddrwydd tufewnol, tra fyddo eu bucheddau yn ddiffygiol o ffrwythau cyfiawnder.

(2.) A gallwn ganfod oddiyma pa ham y mae dynion yn ymgymyg ar gymmifer o ffyrdd anrywiol gyda golwg ar sancteiddrwydd. Cyduna pawb a broffesant Gristionogaeth, fod sancteiddrwydd yn anhepgorol angenrheidiol; ond pan y delont at yr ymarferiad o honaw, cymera y naill un gau ffordd, a'r lleill gau ffordd arall, felly mynnai rhai wneyd sancteiddrwydd o'u rhinwedd mocsol, tra y'i gwneir i fyny gan eraill o'u cyflawniadau coelgrefyddol. Ac y mae hyn oll yn tarddu o'n hanwybodaeth o wir natur sancteiddrwydd ar un llaw, a chariad at bechod ar y llaw arall. Mae natur sancteiddrwydd yn ddwfn ac yn ddirgelaidd, na's gellir ei dirnad heb gymhorth goleuni ysbrydol; ac y mae y byd yn wastad yn casau yr hyn nid yw yn ei adnabod, yn y pethau hyn. Mae cariad at bechod hefyd yn meddu dylanwad dirgelaidd ar feddyliau llawerocdd. Y maent yn ofni ac yn casau y cyfnewidiad enaid trwyadl hwnw, sydd yn tueddu at ddiwreiddiad hollawl pob pechod; ac am hyny yr ymfoddlonant ar foesoldeb, a chyflawniadau coelgrefyddol; unrhyw beth a dawela gydwybod naturiol, neu a ennilla iddynt yr enw o fod yn grefyddol.

(3.) Nyni a allwn ddysgu oddiyma, waith mor fawr ac

ardderchog yw y sancteiddäad yma; a'i fod yn fwy peth i ni i fod yn wir sanctaidd nac y meddyliodd llawer. Mae yn waith mor fawr fel y rhaid ei wneuthur gan "Dduw yr heddwch" ei hunan, trwy waed Ciist; a thrwy ddylanwad yr Ysbryd: ac nid yw yn gweddu i Ddoethineb Anfeidrol ddefnyddio gallu y fath achosion a moddion gogoneddus, er cynnyrchu rhyw effaith cyffredin.

2. Mae yr egwyddor hon o sancteiddrwydd yn *tueddu* ei deiliaid at weithredoedd o'i rhyw ei hunan; megis y mae yn meddu natur, felly hefyd y mae yn meddu priodoliaethau greddf, o'r rhai y mae hyn y penaf. Mae yn cyfeirio at ryw ddyben pennodol, ac yn gogwyddo at weithredoedd a dueddant i hyny.

Y mae i'r egwyddor hon ei dyben pennodol, a hyny yw, bod i ni fyw i Dduw. Wrth naturiaeth, yr ydym ni wedi ymddieithrio oddiwrth fuchedd Dduw; ond priodolder anysgaredig gyntaf y creadur newydd yw, ei fod yn tueddu yr enaid at weithredoedd a dyledswyddau y fuchedd hon, fel ag i ymwneyd â hwy, nid trwy gymhelliad rhyw argyhoeddiadau, neu argraffiadau allanol yn unig, ond oddiar egwyddor dufewnol ddiffuant; ac megis y mae tuedd y meddwl anianol yn llwyr wrthwyneb i bethau ysbrydol, felly y mae yr egwyddor newydd hon yn tueddu at weithredoedd da ysbrydol, yn ol meddwl Duw.

Y duedd hon yn y galon, a elwir yn yr Ysgrythyrau wrth yr enwau Ofn, Cariad, Hyfrydwch, a'r cyfryw serchiadau eraill ar a ddynodant ogwydd wastadol at eu gwrthddrychau. A hyn a olygir yn yr addewid hono yn y cyfammod, "Rhoddaf un galon iddynt i'm hofni i." Natur neu anian newydd yw y galon newydd yma, effaith cyntaf yr hon yw, ofni yr Arglwydd yn wastadol; neu duedd ysbrydol newydd yn yr enaid at ewyllys a gorchymynion yr Arglwydd. Yn gyffelyb hefyd y'i dynodir trwy gariad, yr hyn yw gogwydd yr enaid i ymhyfrydu mewn ufuddhau i Dduw, a chymdeithasu âg ef.—Fe'i darlunir yn mhellach hefyd drwy yr ymadrodd, "synied ys-

brydol," am yr hyn y dywedir mai bywyd a thangnefedd yw; hyny ydyw, gogwydd ac ymröad y meddwl at bethau ysbrydol, yw y peth, trwy yr hyn yr ydym yn byw i Dduw, ac yn mwynâu heddweh âg ef. Synied pethau daearol yr ydym ni wrth natur; ond trwy hyn fe'n dygir i roddi ein serch ar y pethau sydd uchod. Trwy rinwedd yr egwyddor rasol yma y proffesai Dafydd fod ei enaid yn glynu wrth Dduw, neu yn gogwyddo yn egnïol at yr holl ffyrdd hyny trwy ba rai y gallai fyw iddo ef, a dyfod i fwynäad o honaw. Fe'i cydmerir gan yr apostol Pedr i'n tuedd naturiol at ymborth, "Fel rhai bychain newydd eni, chwennychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynnyddoch drwyddo," yr hyn sydd yn duedd wastadol, anmewidiol. Hyn gan hyny yw y peth a olygaf. Y mae i bob anian ei thueddfryd, a'i gweithrediadau priodol. Y cyfryw anian yw yr egwyddor o sancteiddrwydd: a pha le bynnag y mae yr egwyddor hon, y mae yn tueddu yr holl enaid at weithredoedd sanctaidd—a hyny yn gyffredinol, yn wastadol, a pharhaus.

(1.) Yn gyffredinol. Y mae yma dueddfryd at bob rhyw ddyledswyddau sanctaidd heb eithriad; y mae yn cynnwys parch i holl orchymynion Duw. E all fod rhai yn fwy anhawdd i'w cyflawni, yn fwy gwrthwynebol i'n tueddiadau naturiol, neu ein llesion tymhorol nac eraill; ond os bydd egwyddor rasol oddi fewn, hi a gyd duedda yr enaid attynt oll. Fe oddef unrhyw egwyddor arall ddirgel goleddiad o ryw beth croes iddi; goddefa, naill a'i gommeddiad o ryw ddyledswydd, neu gyflawniad o ryw bechod, neu arbediad a choleddiad o ryw chwant. Fel hyn y profodd Crist y gwr ieuanc goludog a fostiai o'i ddyledswyddau, á rhyw beth oedd yn taro yn erbyn ei ddaiaroldeb, a buan y rhoddes efe ei holl gynnygion i fod yn grefyddol, i fynu. Fe'lly Naaman, yr hwn a addunedasai ufuddhau i Dduw Israel, a fynai gadw iddo ei hun yr hawl o ymgrymmu yn nhy Rimmon, er mwyn ei lesion bydol. E all credinwyr eu hunain gael eu llithio i ommeddiad gweithredol o'u dyledswyddau, a choleddiad tymhorol o serchiadau llygredig; ond am y

coleddiad bwriadol o unrhyw beth pechadurus, y mae hyny yn anghyson â'r egwyddor o sancteiddrwydd.

(2.) Mae yr egwyddor hon yn tueddu y credadyn at ddyledswyddau sanctaidd yn wastadol; mae efe yn aros yn ofn yr Arglwydd "ar hyd y dydd." Mae yn wir fod tymhorau yn y rhai y cyfarfyddwn âg anhawsderau a rhwystrau mawrion oddiwrth ein chwant a themtasiynau; ac e ddichon gweithrediadau gras fod yn llai bywiog ar rai amserau nac eraill: ond er hyny, y mae y dueddfryd sanctaidd hon yn parhau yr un yn ei natur ei hun, fel ffrwd a dardda o ffynnon fywiol, yn gweithio ei ffordd yn mlaen, er y gwrthwynebiad a'i try o'i ffordd dros yspaid. Gall dynion anianol gyffawni dyledswyddau o ufudd-dod weithiau, dan argraffiadau cryfion wedi eu cynnyrchu trwy gystuddiau, peryglon, a'r cyffelyb, ond yn dychwelyd i'w hen yrfa arferol cu hunain yn fuan; fel y morwyr, y rhai a gyfarfyddant â gwyntoedd cryfion weithiau, trwy yr hyn y tebygid eu bod yn cael eu hyrddio yn chwyrn tu a'r porthladd; ond yn y fan y mae dystarwydd yn eu dal, nid oes chwâ o wynt i'w helpu yn mlaen. Lle bynnag y byddo yr egwyddor hon, mae llifiant naturiol, megis, yn yr enaid hwnw, yr hwn sydd yn eu cludo yn mlaen yn wastadol a chysson: ac er y dichon iddynt gyfarfod â thymhestloedd a chroeswyntoedd, eto y mae y ffrwd, yr hon sydd yn naturiol, yn gweithio ei ffordd o'r diwedd, ac yn dal i dynu at ei nôd er pob rhwystrau.

(3.) Y mae hefyd yn barhäol. Ni phaid byth a gogwyddo yr enaid at weithredoedd o ufudd-dod hyd oni chyrhaeddo ddyben y cwbl o honynt yn y mwynäad o Dduw. Ffynnon o ddwfr ydyw, yn tarddu i fywyd tragywyddol; y mae yn tarddu yn ddiball, am mai dwfr bywiol ydyw; a hyny yn barhaus, hyd oni byddo y rhai y mae ynddynt, wedi eu cyflëu yn ddiogel yn y gogoniant. Fe addewir hyn yn bennodol yn y cyfammod:—Mi a osodaf fy ofn yn eu calonnau, fel na chiliont oddiwrthyf; ni chilia y sawl y mae yr ofn yma ynddynt, byth oddiwtho, oblegid

ei fod yn barhaus. Mae yn wir fod yr egwyddor ei hunan yn ymddangos fel pe byddai wedi ei mogu yn hollawl am dro, dan ymosodiad llym temtasiynau (megis yn amgylchiad Dafydd,) cto y mae ei natur anfarwol, ei pherthynas â ffyddlondeb Duw, ac â chyfryngdod Crist, y fath, fel na's llwyr ddiffoddir byth.

Rhaid addef fod yn y rhai ydynt wedi eu tueddu fel hyn at holl weithredoedd bywyd ysbrydol, weddillion o egwyddor wrthwynebol, yr hyn a elwir yn yr Ysgrythyr, yn gnawd, yn chwant, yn gorff pechod, neu y pechod sydd yn trigo ynom ni. Dadleuir hyn yn eglur gan yr apostol: "Mae y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd; a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na alloch wneuthur beth bynnag a ewyllysioch." Gal. 5. 17. Yn wir, mae yn anmhossibl i bechod a gras rëoli yn yr un galon, ar yr un pryd. Y cnawd a fedd y llywodraeth yn hollawl wrth natur, ac y mae yn gogwyddo yr enaid at bechod; ond pan ddygir gras i fewn, mae yr egwyddor hon o bechod yn cael ei gwanychu, fel na's caffo deyrnasu a'n hyrddio yn mlaen yn ddiattalfa, yn yr erlyniad ar ol ei dueddiadau aflywodraethus; eto, nid yw yn cael ei lwyr ddifeddiannu, a'i fwrw allan o'r cnaid yn y fuchedd hon. Efe a erys ac a weithia, a huda ac a demtia, fwy neu lai yn barhaus, yn ol hyny o nerth a manteision a fyddo wedi ei adael iddo: am ba achos, ni's gall yr egwyddor o ras, dueddu yr enaid yn berffaith at fuchedd Duw, fel ag na byddo yn deimladwy o wyrthwynebiad; ond y mae hyn yn perthynu yn anysgaredig i egwyddor o sancteiddrwydd, o angenrheidrwydd, bod iddi dueddu yr enaid yn gyffredinol at bob rhyw weithred o ufudd-dod sanctaidd; ac y mae y tueddiadau hyn yn oruchaf, ac yn cadw cyfeiriad yr enaid at sancteiddrwydd yn wastadol;—a'r dueddfryd rydd, ddiffuant, wirfoddol yma o eiddo y meddwl at yr hyn oll sydd dda, yn nghydag ymdrech tufewnol i dorri trwy bob gwrthwynebiad, yw y

blaen-ffrwyth, a'r prawf cgluraf o adnewyddiad ein natur gan yr Ysbryd Glan.

3. Y mae *grym* yn dilyn yr egwyddor hon o ras, cystal a thueddiad. Mae nid yn unig yn tueddu yr enaid at ufudddod sanctaidd; ond yn ei alluogi at y cyflawniadau a'r dyledswyddau perthynol i sancteiddrwydd:—Z brofwyd yn helaeth, ein bod ni wrth natur heb nerth, i gyflawni dim da ysbrydol; ond trwy y gras o sancteiddäad, y mae nerth yn cael ei roddi i ni i fyw i Dduw; "Y rhai a ddysgwyliant wrth yr Arglwydd, a adnewyddant eu nerth;" hyny yw, i ufuddhau, neu redeg gyda Duw hebl flinder; y maent yn cael nerth, ac yn eu gwaith yn rhedeg gyda Duw, yn cael ei adnewyddu, neu ei gynnyddu. Trwy yr un gras y'n "nerthir â phob nerth, yn ol ei gadernid gogoneddus ef." Yn ein dychweliad at Dduw, y rheddir i ni trwy "ei ddúwiol allu bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb:"—felly hefyd y dywedai Duw wrth yr apostol, pan oedd efe yn barod i suddo dan ei brofedigaethau, bod ei ras ef yn ddigonol iddo. Mae y credinwyr yn fyw i Dduw, yn fyw i gyfiawnder a sancteiddrwydd, meddant egwyddor o fywyd ysbrydol; a lle y mae egwyddor o fywyd ysbrydol, y mae yno allu yn ei natur, ac i'w dyben. Gan hyny nyni a ymofynwn yn mha beth y mae y gallu yma yn gymmwysedig,—pa beth ydyw yn y meddwl, pa beth yn yr ewyllys,—a pha beth yn serchiadau; ac yn

(1.) Mae y gallu hwn yn y meddwl yn gymmwysedig mewn goleuni ysbrydol, i ddirnad pethau ysbrydol mewn modd ysbrydol. Mae yr Ysbryd Glan yn y gweinyddiad cyntaf o fywyd ysbrydol, yn llewyrchu i'n calonau, i roddi i ni adnabyddiaeth o Dduw yn Nghrist: ïe, y cyfnerthiad yma ar y meddwl trwy oleuni ysbrydol, yw y weithred fwyaf arbenig o'n sancteiddäad; hyd oni's gwneler hyn, y mae llen yn aros arnom, fel na's gallwn weled i bethau ysbrydol; ond lle mae Ysbryd Duw yn dyfod gyd a'i ras sancteiddhäol, y mae rhyddid, a thrwy hyn yr ydym "ni oll âg wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd

megis mewn dryeh, ac felly yn cael cin newid i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant."

Mae yn wir nad yw yr holl gredinwyr yn cael eu doniaw â'r gallu yma i r un radd; mae rhai yn isel mewn gwybodaeth, ac mewn cydnariaeth i craill, yn anwybodus; a chedwir rhai yn y cyflwr hwnw trwy eu hesgeulusdra a'u segurdod eu hunain; ond y mae pob un sydd yn cael ei wir sancteiddio, yn cael digon o oleuni i ddëall pethau ysbrydol yr efengyl mewn modd ysbrydol: mae y credadyn gwanaf yn cael cymmaint o olwg ysbrydol i fewn i bethau Duw, ag sydd angenrheidiol i'w ffydd a'i ufuddod; canys "nyni a dderbyniasom Ysbryd Duw, fel y gwypom y pethau a rad roddwyd i ni gan Dduw." Yn unig y mae yn ddyledswydd arnynt ymdrechu yn barhaus i ddefnyddio y goleuni a dderbyniasant, yn yr arferiad o'r moddion.

(2.) Mae y gallu hwn yn yr ewyllys yn gymmwysedig yn ei rydd'id a'i allu i ddewis a chofleidio pethau ysbrydol. Mae y credinwyr yn meddu ewyllys rydd at yr hyn sydd dda ysbrydol; canys y mae yr ewyllys yn awr wedi ei rhyddau oddiwrth y cacthiwed hwnw i bechod, yr hwn yr oedd dano wrth natur; ac wedi changu arno drwy oleuni a chariad, y mae efe yn ewyllysio ac yn dewis pethau Duw yn rhydd. Y gwirioncdd, hyny yw ffydd yn yr efengyl, yw y meddion o'r rhyddäad yma; a Mab Duw trwy ei Ysbryd, yw yr achos effeithiol o hono; canys, "Os y Mab a'n rhyddlhä, yna rhyddion a fyddwn yn wir," ac os angen, ni byddwn yn rhydd, pa faint bynnag a hómo dynion o hyny.

(3.) Mae y serchiadau, y rhai wrth natur ydynt brif weision, ac arfau pechod, yn cael eu hennill drwy hyn; wasanaethu Duw. Wedi dangos fel hyn, fod gallu i ufuddod sanctaidd, yn y rhai oll ydynt yn cael eu sancteiddio, cystal a thueddfryd at hyny, nyni a ystyriwn ei ddau brif briodolder; sef parodrwydd a rhwyddineb.

1. Mae yn peri parodrwydd, drwy symmud yr holl

rwystrau hyny, â'r rhai y mae y meddwl yn ddarostyngedig i gael ei luddias gan bechod, y byd, segurud ysbrydol, ac annghrediniaeth. Ac fel hyn y mae "yr Ysbryd yn barod, er bod y cnawd yn wan." Mae y rhwystrau hyn yn eu llawn rym yn mhawb diadgenhedledig, am ba achos y maent "i bob gweithred dda yn annghymeradwy:" ac y maent mewn rhan yn dylanwadu meddyliau crediuwyr eu hunain, ac nid rhan fechan yw hyn o'u pechod a'u gofid; ond y mae y rhwystrau hyn yn cael eu symmud trwy y gallu ysbrydol yma. Mae eu grym llywodraethol yn cael ei dori drwy roddiad cyntaf yr egwyddor yma yn yr enaid, pan y parottoir y galon âg anian newydd i'r cyflawniad o bob rhyw ddyledswydd sanctaidd, ac o radd i radd y mae yn rhyddhau yr enaid oddiwrth y gweddillion o'r rhwystrau hyn; canys y mae yn gwannychu gogwydd yr enaid at bethau daiarol, fel na's meddiannont y meddwl fel cynt. Mae hefyd yn amlygu iddynt degwch a gogoniant sanctciddrwydd, a phob rhyw ddyledswydd o ufudd-dod, fel ag i dueddu y meddwl yn rymmus tuag attynt; ac yn peri i'r serchiadau lynu wrthynt gyda hyfrydwch. "Mor gu genyf dy gyfraith," medd Dafydd, "dy gyfraith yw fy hyfrydwch," a thrachefn, "Melusach yw dy air na'r mel, ac na dyferiad diliau mel."

2. Mae yn peri rhwyddineb yn y cyflawniad o'r dyledswyddau. Pa beth bynnag a wnelo dynion oddiar reddf, neu o anian, y maent yn ei wneyd yn rhwydd; a math o reddf, neu anian newydd wedi ei rhoddi yn enaid dyn, yw yr egwyddor o ras. Addefaf y bydd gwrthwynebiadau oddiwrth bechod, satan, a themtasiynau; ond eto, y mae yn natur yr egwyddor hon wneyd holl gylch ufudd-dod yn hyrwydd i ni; canys, (1.) Y mae yn peri cyfaddasrwydd rhwng ein meddyliau ni â'n dyledswyddau; mae y gyfraith wedi ei hysgrifenu yn ein calonnau, am hyny, nid yw gorchymynion Crist yn drymion; nid ydynt yn ymddangos yn faich, neu yn annghyfaddas i'r anian newydd; felly gan hyny, y mae holl ffyrdd doethineb yn hyfrydwch, a'i holl lwybrau hi yn heddweh. (2.) Y mae yn cadw y galon

mewn ymarferiad mynych o weithredoedd a dyledswyddau sanctaidd, ac yn rhoddi rhwyddineb ynddynt yn aml iddynt: mae yn peri i'r enaid ymhyfrydu i fod yn aml yn yr ymaferiad o ffydd a chariad, neu feddyliau a myfyrdodau sanctaidd yn adnewyddol. Ffynnon ydyw, yn tarddu i fynu yn barhaus, mewn ymarferiadau beunyddiol o weddïo, darllen, ac ymddiddan sanctaidd, neu, mewn gweithredoedd o drugaredd, elusen a haelioni tu ag at ddynion. Fel hyn y mae y galon yn cael ei hymarfer yn gymmaint âg iau Crist, fel y mae yn naturiol ac yn esmwyth: ac e welir trwy brofiad, mai po hwyaf yr esgeulusir rhyw ddyledswydd, anhawddaf y'i canfyddwn i'w chyflawni. (3.) Y mae yn sicrhau cymmhorth Crist a'i Ysbryd ef; am y crëadur newydd y mae Crist yn gofalu, ac iddo ef y mae efe yn cyfrannu o gynnorthwyon ei Ysbryd yn barhaus; a phan dderbynir nerth gan Grist y mae ei iau ef yn esmwyth a'i faich yn ysgafn.

Nyni a allwn trwy y pethau hyn ein chwilio ein hunain, a oes greddf neu egwyddor o sancteiddrwydd yn ein meddyliau, fel na'n twyller trwy gau ymddangosiadau

3. Dysgwn oddiwrth hyn i ochelyd cael ein twyllo gan ddoniau, pa mor ddefnyddiol bynnag a fyddont, yn nghyda phroffes deg ar hyny. Mae y pethau hyn yn myned yn dra phell yn y byd, ac y mae llawer yn eu twyllo eu hunain ac craill trwyddynt. E ddichon dynion drwy gymmhorth y doniau hyn yn unig, weddïo, a phregethu, a chyflawni llawer o ddyledswyddau, fel ag i fod yn enwog mewn proffes; ond fe all hyn oll fod heb ddim sancteiddrwydd, ac felly y maent yn dueddol i dwyllo y meddwl. Profer hwy wrth natur a phrïodoliaethau y reddf neu yr egwyddor hono o ras, sydd mewn pob gwir sancteiddrwydd, fel y dangosasom o'r blaen, ac fe welir yn fuan mor fyr o hyny a fyddant. Llawer llai y gall moesoldeb, neu rês o ddyledswyddau moesol, pan wrthynt eu hunain, hóni un hawl i'r cymeriad o sancteiddrwydd. Mae yn wir fod rhai wedi bod yn ceisio profi mai gras yw yw moesoldeb, ac mai moesoldeb yw gras, a dim yn ychwaneg. Mai yr

un peth yw bod yn ddyn sanctaidd yn ol yr efengyl, a bod yn ddyn moesol. Gan hyny, myfi a af rhagof at yr ail beth a gymmygiwyd i'w brofi, sef bod yr egwyddor rasol hon o sancteiddrwydd yn llwyr wahanol oddiwrth bob egwyddorion eraill, pa un bynnag a fyddont ai deallol, ai moesol, anianol, neu gaffaeledigol; fel y mae hefyd oddiwrth bob rhyw ras cyffredinol, o'r hwn y gall dynion fod yn gyfrannogion, heb eu sancteiddio yn wirioneddol;—ac y mae y gwahaniaeth yma i'w ganfod yn eglur.

Yn gyntaf. Oddiwrth y ffynnon neillduol o'r hon y tardda sancteiddrwydd, sef cariad etholedigol Duw. Efe a'n hetholodd ni yn Nghrist cyn seiliad y byd, fel y byddem sanctaidd. Duw a'n dewisiodd o dragywyddoldeb fel y byddem sanctaidd, hyny yw, gyd ag amcan i gyfrannu sancteiddrwydd i ni; gan hyny ei waith neillduol ef yw hyn, er cyflawniad o'i amcan neillduol.

Yn ail. Yr achos haeddedigol neillduol o'r sancteiddrwydd yma yw cyfryngdod Crist. Mae sancteiddrwydd efengylaidd wedi ei sicrhau i ni drwy y prynedigaeth gan Grist Iesu; fe'i haddewir i ni ar gyfrif ei aberth ef; canys fe'i caniatteir yn weithredol, trwy ei eiriolaeth ef ac fe'i gweinyddir drwy ei Ysbryd ef; canys efe yw yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw "yn sancteiddrwydd;" ac y mae efe felly ar amrywiol gyfrifon.

(1.) Y mae efe wedi ei wneuthur yn sancteiddrwydd i ni ar gyfrif ei swydd offeiriadol, oblegyd ein bod ni yn cael ein golchi oddiwrth ein pechodau trwy ei waed ef, yn yr offrymiad o honaw drosom, a'r cymhwysiad o honaw at ein heneidiau. (2.) Am ei fod yn llwyddiannus er sancteiddiad effeithiol ein natur ni yn y cyfraniad o'i sancteiddrwydd i ni trwy ei eiriolaeth. Ei weddi, (Ioan 17. 17.) yw ffynnon wynfydedig ein sancteiddrwydd; "Sancteiddia hwy trwy dy wirionedd; dy air sydd wirionedd." Nid oes un gras yn cael ei weithredu ynom, ei gyfrannu i ni, na'i gynnal ynom, ond mewn attebiad i eiriolaeth Crist. (3.) Efe yw y rheol a'r mesur o sancteiddrwydd i ni, a'r off-

eryn o honaw yw ei air a'i athrawiaeth. Nid cyfarwyddiadau cynhwynol golau a deddf natur yw rheol y sancteiddrwydd yma, ac nid y ddeddf ysgrifenedig ychwaith. Y mae yn rheol sancteiddrwydd gwreiddiol, ond nid yn rheol ddigonol o'r sancteiddrwydd i'r hwn y'n hadferir gan Grist; ac nid yw y naill a'r llall o'r rhai hyn yn nghyd, yn offerynau priodol i gynnyrchu sancteiddrwydd ynom ni; ond athrawiaeth yr efengyl yw y rheol gyfaddas, a'r offeryn union-gyrchol o honaw. Fy meddwl yw, fod athrawiaeth Crist yn y rhan orchymynol o honi, y cyfryw reol i'n holl ufudd-dod, fel y mae yr hyn oll a ofyna yn perthynu iddo, ac nid dim arall; ac y mae ein sancteiddrwydd yn gynnwysedig mewn cydffurfiad â hi oddiar yr ystyriaeth o'i bod yn air Crist. Nid oes dim yn perthyn i sancteiddrwydd o ran y defnydd o hono ond yr hyn o ofynir gan yr efengyl; na dim yn perthyn iddo o ran y ffurf o honaw, ond a gyflawnir genym am fod yr efengyl yn ei ofyn, ac y mae yn offeryn o honaw, am fod Duw yn gwneyd defnydd o honi fel y moddion allanol i'w gyflawni i ni. Mae egwyddorion goleuni naturiol yn ein cyfarwydde at y cyflawniad o amryw ddyledswyddau o ufudd-dod. Mae y ddeddf ysgrifenedig yn gofyn holl ddyledswyddau ufudd-dod cyhenid; ond y mae rhai dyledswyddau yn gynnwysedig mewn sancteiddrwydd efengylaidd, na'r gwyr y ddeddf ddim am danynt; megis marweiddiad pechod, duwiol dristwch, glanhau ein calonnau beunydd, cymmundeb â Duw trwy Grist, yn nghyda ffydd a chariad tuag atto ef; canys er y gall y pethau hyn fod yn wreiddiol yn gynnwysedig yn y ddeddf, fel y mae hi yn gofyn ufudd-dod hollawl i Dduw, etto nid ydynt yn gynnwysedig ynddi o ran y ffurf o honynt; ac ni's defnyddir y ddeddf i genhedlu ffydd a sancteiddrwydd ynom ni; effaith yr efengyl yn unig yw hyny. Hon sydd yn "allu Duw er iachawdwriaeth;" trwy bregethiad hon "y mae ffydd yn dyfod;" trwy wrandawiad hon "y derbyniasom yr Ysbryd;" a'r holl ufudd-dod allanol a ofynir genym ni, yw bod ein hymarweddiad "yn addas i'r efengyl."

(4.) Y mae efe wedi ei wneuthur yn sancteiddrwydd i ni, yn gymmaint a'i fod yn esampl berffaith o sancteiddrwydd i ni. Amcan Duw yn ein sancteiddiad ni yw, "fel y'n cydffurfier â delw ei Fab ef." Efe a osodir o'n blaen ni yn mhurdeb ei naturiaethau, sancteiddrwydd ei berson, gogoniant ei rasusau, diniweidrwydd a defnyddioldeb ei ymarweddiad yn y byd, fel yr esampl fawr, â'r hon y dylem gydffurfio yn mhob peth.

Addefir yn gyffredinol mai esamplau yw y dull mwyaf effeithiol i gyfrannu addysg. Ond pan, yn ychwanegol at y dylanwad yma sydd yn perthynu iddynt yn naturiol a moesol, yr ychwanegir eu gosodiad mewn modd neillduol i fod yn esamplau i ni, y mae eu grym a'u heffeithioldeb yn cael ei ychwanegu. Ac felly y mae y ddau beth yma yn cyfarfod yn yr esampl o sancteiddrwydd a roddir i ni yn mherson Crist.

Mae Iesu Grist, nid yn unig yn gynllun perffaith o sancteiddrwydd, ond yn *unig* un hefyd: nid oes un esampl berffaith o sancteiddrwydd, heblaw efe. Mae esamplau bostfawr y paganiaid yn llawn o ddiffygion, ac y mae eu hanmherffeithiau yn perthynu i esamplau gorau y saint: ond nid oedd yn ein Siampl fawr ni, yr osgöad lleiaf oddiwrth berffeithrwydd sancteiddrwydd. Mae Iesu Grist wedi ei osod i'r perwyl yma. Un dyben gan Dduw yn anfon ei Fab i ni, oedd, fel y gallai roddi esampl i ni yn ein natur ein hunain, o'r adnewyddiad hyny o'i ddelw ynom ni;—o'r ufudd-dod sanctaidd hwnw a ofyna efe genym ni. Nid oedd y natur angelaidd yn gyfaddas i hyn; canys pa esamplau a allai angelion roddi i ni, o ddïoddefgarwch mewn cystuddiau, neu ymdawelwch mewn dïoddefiadau, gan fod eu natur yn annghymwys i'r cyfryw bethau! Ac ni's gallasem gael esampl berffaith yn ein natur ein hunain, ond yn unig ynddo ef, yr hwn oedd yn sanctaidd, a difeius, a difrycheulyd, a didoledig oddiwrth bechaduriaid.

Mae effeithioldeb neillduol yn esampl Crist ragor pob esamplau gosodedig eraill, er cymhelliad i ymdebygu iddo.

Gelwir arnom yn fynych i "weled Crist," ac "i edrych arno ef;" nid yn unig am gyfiawnäad trwyddo, ond fel y cynllun mawr o sancteiddrwydd; felly trwy drefniad Duw, y mae edrych arno ef yn foddion i gynnyddu sancteiddrwydd ynom ni. "Nyni oll ag wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megis mewn drych, a gyfnewidir i'r unrhyw ddelw o ogoniant i ogoniant, megis gan Ysbryd yr Arglwydd."

Yn yr ystyriaethau hyn gan hyny, y gwnaed yr Arglwydd Crist yn sancteiddrwydd i ni; ac yn ddiau, y mae y rhan fwyaf o honom i'n beiaw yn fawr am nas gwnelem ddefnydd mwy dyfal o'r moddion yma. Ped arhosem yn fwy gwastadol yn ein myfyrdod ar Grist, ar ogoniant a phrydferthwch ei sancteiddrwydd fel ein siampl fawr, fe'n cyfnewidid yn fwy i'w ddelw a'i gyffelybrwydd ef; ond y mae llawer a'u galwant eu hunain yn Gristionogion, yn hoffi siarad am weithredoedd rhinweddol y paganiaid, ac yn barod i gymeryd y rhei'ny yn esamplau, tra nad oes ynddynt un meddwl am y gras oedd yn ein Harglwydd Iesu Grist, nac ymdrech am gydffurfio âg ef; a'r rheswm yw, am fod y rhinwedd y maent hwy yn ymgeisio atto o'r un natur a'r eiddo y paganiaid, ac nid â'r gras oedd yn Nghrist Iesu: ac nyni a ddylem ystyried yn wastadol pa fodd y gweithredom ffydd ar Grist i'r perwyl yma. Na fydded neb yn euog ymarferol o'r hyn y camgyhuddir rhai eu bod yn euog athrawiaethol o honaw. Na fydded i neb ymranu yn ngwaith ffydd, ac ymarfer eu hunain i ddim ond un hanner o honaw. Nid yw credu yn Nghrist am gyfiawnäad, ddim mwy na hanner dyledswydd ffydd. Nid yw yn cynnwys ymwneuthuriad â Christ ond yn unig fel y bu efe farw drosom, ac y gwnaeth iawn dros ein pechodau. Mae yn wir mai i'r perwyl yma y'i cyflwynir i'n sylw yn mlaenaf ac yn benaf; ond nid i hyn yn gwbl. Efe a gyflwynir i'n sylw hefyd fel ein esampl; a dychymyg melldigedig yw meddwl mai yr unig ddyben o'i fywyd a'i farwolaeth ef, oedd rhoddi cynllun o'r, a chadarnäad i'r

athrawiaeth o sancteiddrwydd a ddysgai efe.—ac, yr un modd hefyd, y mae esgeuluso ei olygu drwy ffydd fel ein esampl, yn ddrygionus a niweidiol hefyd. Gan hyny, myfyriwn lawer ar yr hyn ydoedd, a'r hyn a wnaeth efe; a pha fodd yr yr ymddygai dan bob dyledswyddau, ac yn wyneb pob profedigaeth, nes y byddo delw ei sancteiddrwydd perffaith ef yn cael ei phlanu yn ein meddyliau, ac y'n gwnelcr ninnau trwy hyn yn gyffelyb iddo ef.

5. Yr hyn sydd yn peri y gwahaniaethiad pennaf rhwng sancteiddrwydd efengylaidd â phob rhyw egwyddorion neu ddyledswyddau naturiol neu foesol, yw, bod cyflenwadau gwastadol o ras yn cael eu derbyn o Grist fel ein Pen. Ar y prawf o hyn, y mae yr holl wahaniaeth rhwng gras a moesoldeb yn ymddibynu; canys os yw y peth a eilw dynion yn Foesoldeb, yn cael ei dderbyn o Grist, trwy rinwedd ein hundeb âg ef, yna gras efengylaidd ydyw; os amgen, yna, naill ai nid yw ddim, neu y mae yn rhyw beth o natur a rhyw arall; canys nid gras ydyw.

Pa ras bynnag a gyfranno Duw i neb rhyw ddynion, y mae yn ei roddi yn, a thrwy Iesu Grist, fel Cyfryngwr. Duw ei hunan yw unig flynnonell wreiddiol pob gras a sancteiddrwydd. O'i gyflawnder ei hunan y mae yn cyfranu i'w greaduriaid, naill ai trwy ffordd natur, neu trwy ffordd gras. Yn nghreadigaeth dynolryw ar y cyntaf, e blanodd Duw ei ddelw yn y ddynoliaeth; a phe parhasem yn ein cyflwr crëadigol, buasai y ddelw hono yn cael ei throsglwyddo trwy genhedliad naturiol; ond er y cwymp, a dyfodiad pechod i'r byd, mae yn anmhosibl i neb dderbyn y ddelw hon trwy ffordd natur. Pe buasai, yna ni buasai yn angenrheidiol i bob un a enir i'r byd yma gael ei eni drachefn, fel y tystiai Crist fod. "Yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd," ac nid dim yn amgenach. Yn awr nid yw Duw yn cyfranu dim i ddynion yn ffordd ei ras, ond yn, a thrwy berson Crist. Yn yr hen grëadigaeth, gwnelid pob peth trwyddo ef; ac felly y mae yn y grëadigaeth newydd, yn y cyfodiad a'r cynhaliad o'r cwbl. Mae

Duw yn gweithio gras sanctciddiol gwirioneddol mewn credinwyr, trwy yr hyn y'n gallaogir i gredu, ac y'n gwneir yn sanctaidd; a thrwy hyn y mae efe yn eu sancteiddio fwy fwy mewn gwirionedd, fel y'u cadwer yn ddifrycheulyd hyd ddyfodiad cin Harglwydd Iesu Grist. Pa beth bynnag a weithredir mewn credinwyr gan Ysbryd Crist, fe'i gweithredir trwy rinwedd eu hundeb à pherson Crist. Trwy hyn y'n hunir à Christ, hyny yw, â'i berson ef;—"Canys yr hwn a gyssylltir à'r Arglwydd, un ysbryd yw;" a thrwy rinwedd yr undeb hwn, mae yr Ysbryd yn cyfranu pob gras i ni oddiwrth Grist, er adeiladaeth, cynhaliaeth, a sancteiddiad ychwanegol yr holl gorff dirgeledig, gan wneuthur pob aelod o honaw "yn gymhwys i gael rhan o ettifeddiaeth y saint yn y goleuni." Eyni a brofasom yn barod,—Mai yr achos effeithiol ac uniongyrchol o bob sancteiddrwydd efengylaidd, yw Ysbryd Duw:—Ei fod hefyd yn fiwyth ac effaith y cyfammod gras: ac mai yn hyn y mae delw Duw yn gynnwysedig, i'r hon yr ydym i gael cin hadnewyddu; ac oddiwrth yr hyn a fu dan sylw yn fyr fel hyn, nyni a allwn gymeryd golwg ar y gymmysgfa arswydus o anwybodaeth ac wyneb galedwch, â'r hyn yr ymrysona rhai, gan ddadleu mai yr arferiad o rinwedd moesol yw yr holl sancteiddrwydd a ofynir oddiwrthym ni yn yr Efengyl.

E ddywaid rhai mai ymarferiad rhinweddol yw y ffordd i'r nefoedd; ond ni roisant nemmawr o egluräad ar pa beth yw y rhinwedd hwn, neu yr ymarferiad rhinweddol yma, mwy na llawer o'u blaen a fuant yn trystio cryn lawer yr nghylch y peth. Mae lle i feddwl nad yw llawer yn golygu dim mwy wrth hyn, na'r ymarweddiad cywir a d'ragrith hwnw a ganfyddid yn mysg rhai o'r paganiaid, ac yn wir myfi a ddymunwn weled mwy o hyny yn mysg rhai a'u galwant eu hunain yn Gristionogion; canys yr oedd llawer o'r perhau a wnelid ganddynt hwy yn dda a definyddiol i ddynolryw; ond bydded mor fanol ac y byddo, ni's gall ei fod y sancteiddrwydd hwnw a ofynir oddiwrth-

ym yn yr Efengyl, am nad yw yn meddu dim o'r prïodolderau hyny, y rhai y profasom eu bod yn hanfodol iddo.

Ceisia rhai ddarlunio moesoldeb fel rhyw beth cyfled â deddf natur, megis y'i datguddir i ni yn yr Ysgrythyr. Dywaid y rhai hyn, fod Crefydd cyn dyfodiad pechod i'r byd, ac o dan yr Efengyl, yr un a'r unrhyw; ond ai tybed na's gwnaed unrhyw gyfnewidiad mewn crefydd trwy ymgnawdoliad a chyfryngdod Crist? Ai nid oes ychwanegiad yn ngwrthddrych ein ffydd?—Un cyfnewidiad yn egwyddorion, cynnorthwyon, a holl natur ein hufudd-dod i Dduw? Rhaid ymwrthod â holl ddirgelwch duwioldeb, os rhoddwn goel i'r cyfryw ddychymygion.

Os dywedir, nad ydys wrth son am y rhinwedd moesol yma, yn amcanu cau Iesu Grist allan, ond cynnwys ynddo barch iddo ef hefyd,—Yna myfi a ofynaf a ydynt hwy yn golygu wrtho y cyfryw feddylfryd, a'r cyfryw weithrediadau yn deillio oddiar hyny ar a feddont y priodolderau a ddarluniwyd o'r blaen, o ran eu hachosion, effeithiau, a pherthynas â Christ. Ai y rhinwedd moesol hwn yw yr hyn y'n hetholodd Duw ni iddo er tragywyddoldeb? Ai dyma yr hyn y mae efe yn ei weithio ynom ni yn ol ei gariad tragywyddol? Ai dyma yr hyn sydd yn rhoddi calon newydd i ni, a deddf Duw yn ysgrifenedig ynddi? Neu, ai egwyddor o fywyd ysbrydol ydyw, yn ein tueddu a'n galluogi i fyw i Dduw; ac yn cael ei chynnyrchu ynom drwy nerthol weithrediad yr Ysbryd Glân? Ai yr hyn a bwrcaswyd i ni gan Iesu Grist, ac am gynnydd o'r hyn y mae efe yn parhau i eiriol, ydyw hyn? Ai delw Duw ynom, ydyw, ac a ydyw ein cydffurfiad â Christ yn gynnwysedig yn hyn? Os felly y mae, yna yr holl ddadl yw, pa un ai yr Ysbryd Glan ai y dynion hyn ydynt ddoethaf, ac a wyddant orau trwy ba ymadroddion i ddarlunio pethau Duw yn fwyaf eglur a rhesymol. Ond os nad yw y rhinwedd moesol am yr hwn y soniant, yn gynnwysedig yn y pethau uchod; os gall, ac os yw yn bod hebddynt,—e ymddengys o'r diwedd nad yw yn ddim mwy

tuag at ein cymeradwyaeth ger bron Duw, na'r hyn y ewynai un o brif foes-ddysgawdwyr y byd ei fod wedi ei ganfod, pan oedd efe yn marw,—enw gwag yn unig.

PEN. VII.

Am weithredoedd a dyledswyddau sancteiddrwydd.

Yn nechreuad y bennod flaenorol rhoddasom ddau osodiad i lawr: I. Bod yn eneidiau credinwyr, egwyddor oruwch naturiol o ras, trwy yr hyn y'u galluogir i fyw i Dduw; a bod gwahaniaeth hanfodol rhwng hyn a phob egwyddor arall. Yn awr nyni a awn rhagom at yr ail osodiad, sef,—

II. Bod yn rhaid i'r Ysbryd Glan ei hun weithredu ar yr enaid mewn trefn i gynnyrchu pob gweithred o ufudddod sanctaidd, pa un bynnag ai yn dufewnol ai yn allanol.

Gellir priodoli holl weithredoedd a dyledswyddau ufudddod efengylaidd i ddau ben: 1. Y cyfryw ag a feddant ewyllys Duw mewn gorchymynion pendant yn wrthddrych eu cyflawniad. 2. Y cyfryw ag ydynt yn perthynu i'r gwaharddiadau dwyfol. Mae dyledswyddau o'r rhyw gyntaf yn, naill ai dufewnol yn unig, neu allanol hefyd. E ddichon fod gweithredoedd tufewnol o sancteiddrwydd, na's meddant unrhyw effeithiau allanol; ond nid all unrhyw ddyledswyddau neu gyflawniadau allanol fod yn un ran o sancteiddrwydd, os allanol yn unig a fyddant, ac oddieithr eu sancteiddio trwy weithrediadau tufewnol gras. Gall dau ddyn gyflawni yr un ddyledswydd, ac yn yr un dull allanol; eto gall cyflawniad y naill fod yn ddyledswydd o sancteiddrwydd efengylaidd, a'r eiddo y llall heb fod felly; megis yr ydoedd gydag Abel a Chain.

(1.) Wrth ddyledswyddau o sancteiddrwydd ydynt dufewnol yn unig, yr wyf yn golygu holl weithrediadau ffydd, gariad, a gobaith, y rhai y byddo Duw yn wrthddrych uniongyrchol iddynt, ond na's gosodir ar waith mewn un-

rhyw ddyledswyddau allanol, ac yn y pethau hyn y mae ein bywyd ysbrydol yn gymmwysedig yn benaf. Nyni a allwn fod yn helaethion mewn dyledswyddau allanol, ac eto fod yn dra estronol oddiwrth ewyllys Duw; ie, y mae dynion weithiau yn ymdrechu llawer i wneyd y diffyg hwnw i fynu, trwy luaws o'r cyfryw ddyledswyddau; ac felly maent yn meddu enw eu bod yn fyw, tra y maent yn farw.

2. Gwahaniaethir dyledswyddau allanol hefyd, o barth eu gwrthddrych a'u dyben. Duw ei hunan yw gwrthddrych a dyben rhai o honynt, megis gweddi a mawl, ac o'r natur yma y mae y rhai oll a berthynant i'r llech gyntaf. Dynion yn eu hamryfal gymeriadau a pherthynasau, ydynt wrthddrychau cyflawniad dyledswyddau eraill; ond Duw yw eu dyben. Yn awr, y mae yr holl ddyledswyddau hyn, pa un bynnag ai tufewnol yn unig, ynte allanol hefyd, yn deillio oddiar weithrediad neillduol yr Ysbryd Glan ynom; ac er mwyn gweneyd ein meddwl yn fwy eglur, nyni a allwn nodi y pethau canlynol, (1.) Bod yn mhob credadyn dueddfryd gwastadol at gyflawni pob dyledswyddau sanctaidd.

(2.) Na's gall un credadyn o honaw ei hunan, roddi yr egwyddor yma ar weithrediad, mewn unrhyw ddyledswydd dufewnol nac allanol, fel ag y byddo yn weithred sanctaidd, neu yn ddyledswydd gymeradwy gan Dduw. Gan hyny

(3.) Bod cynnorthwy, a gweithrediad tufewnol Ysbryd Duw, yn ofynol o angenrheidrwydd, i gynnyrchu pob gweithrediad sanctaidd yn ein meddyliau, yn mhob rhyw ddyledswydd.

Fel y mae yn ein bywyd naturiol gyda golwg ar ragluniaeth Duw, felly y mae yn ein bywyd ysbrydol gyda golwg ar ei ras. Efe a'n doniodd yn ngweithredoedd natur âg egwyddor fywiol, trwy yr hyn y'n cymhwysir ac y'n gallnogir i gyflawni pob rhyw weithredoedd bywiol; eto yn y cyfryw fodd fel na's gallwn wneuthur heb gydweithrediad Duw yn ei ragluniaeth alluog; canys yuddo ef yr ydym ni yn byw, yn symmud, ac yn bod; a phe gallai neb un

gyflawni unrhyw weithred o honaw ei hunan, heb unrhyw gydweithrediad dwyfol, rhaid iddo fod yr achos cyntaf, a'r unig achos o'r weithred honno, hyny ydyw, rhaid ei fod yn Greawdwr bod newydd. Yr un modd hefyd y mae gyda golwg ar ein bywyd ysbrydol. Fe roddir yr egwyddor o honaw ynom, i'n tueddu i fyw i Dduw; ac y mae y neb sydd heb yr egwyddor hon yn farw ysbrydol, ac ni's gall wneuthur dim sydd ysbrydol. Yr ymofyniad yw, Pa beth a all crediuwyr eu hunain, y rhai ydynt yn meddu egwyddor sanctaidd, ei wneuthur gyda golwg ar gyflawniad dyledswyddau, trwy rinwedd yr egwyddor honno; ac i hyn yr attebaf, na's gallant wneuthur dim da ysbrydol, heb gyd weithrediad neillduol gras Duw, mwy nac y gall dyn yn naturiol wneuthur dim yn hollol anymddibynol ar Dduw, oi allu a'i raglunaeth. Darlunir y cyfatteboliaeth yma rhwng gweithredoedd rhaglunaeth a gras yn yr ymadroddion hyny, "Canys ei waith ef ydym, wedi ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da," &c. Ephes. 2. 10. Pan oddug Duw heb peth o ddim trwy ei allu creädigawl, ni's gadawodd hwynt i'w galluoedd eu hunain; ond efe a'u ceidw ac a'u cynhalia yn eu gwyddorion eu bod a'u gweithediadau. Heb dderbyn cyflenwad parhaus oddiwrth nerth dwyfol, ymollyngai holl gyfundrefn natur i annhrefn a diddymdra. Fel hyn hefyd y mae yn y Creädigaeth Newydd. "Llafurwaith Duw ydym ni;" wedi ein llunio iddo i hunan, a'n cynhwyso i weithredoedd da, y rhai a drefnodd fel y fiordd i fyw o honom ynddi iddo ef. Ac y mae efe yn cynnal ac yn cadw y creadur newydd yma; canys efe a drengai ac a ddarfyddai am dano yn y fan heb ei allu ylawnadol ef yn barhaus; ond nid hyn yw y cwbl; y mae efe yn cynnorthwyo yn effeithiol i gyflawniad pob dyledswydd unigol, trwy gyflenwadau adnewyddol o ras. hyn a brofwn.

Yn gyntaf. Mae yr Ysgrythyr yn tystio na's gallwn ni n hunain, trwy rinwedd unrhyw nerth a dderbyniasom, neyd dim. Felly y dywedai ein Iachawdwr wrth yr

apostolion, pan oeddynt yn gredinwyr sancteiddiedig: "Hebof fi, ni ellwch chwi wneuthur dim;"—ar wahan oddiwrthyf fi, fel y dichon y gangen fod oddiwrth y winwydden. Oddieithr bod credinwyr yn derbyn dylanwadau di ball o ras oddiwrth Grist, ni's gallant wneuthur dim;—dim yn perthynu i ddwyn ffrwyth. Yn awr y mae pob gweithred o ffydd a chariad, pob ysgogiad o'r eiddo ein meddyliau neu ein serchiadau tuag at Dduw, yn rhan o'n ffrwythlonrwydd, ac felly y mae pob dyledswyddau allanol o ufudd-dod. Gan hyny, a gadael i'n Harglwydd fod yn Farnwr, ni's gall credinwyr eu hunain, heb gyflenwadau newyddion o ras, wneuthur dim da ysbrydol.

Mae yr apostol hefyd yn cadarnhau yr un gwirionedd: "A chyfryw hyder sydd genym trwy Grist ar Dduw; nid o herwydd ein bod yn ddigonol o honom ein hunain, i feddwl dim megis o honom ein hunain; eithr ein digonedd ni sydd o Dduw," 2 Cor. 3. 4, 5. Gras ardderchog yw yr un y tystiai efe ei fod yn ei weithredu, sef, ymddiried yn Nuw, yn y cyflawniad o'i weinidogaeth, ac er ei lwyddiant. Ond, gyda'i fod yn tystio hyny, ymddangosai fel pe buasai eiddigedd wedi ymaflyd ynddo, rhag ei fod fel un a honnai mewn un rhagoriaeth ynddo ei hunan; am ba achos efe a chwanegai ocheliad rhag y cyfryw dybiaeth ac a ymwadai â'r cyfryw allu neu ddigonolrwydd ynddo ei hunan;—"Nid o herwydd ein bod yn ddigonol o honom ein hunain." Ac efe a gaua allan y cyfryw ddigonolrwydd, nid yn unig i ryw gyflawniadau neu ddyledswyddau tra arbenig, ond hefyd i feddwl un meddwl da, neu ddim a duedda at ddyledswyddau ysbrydol;—canys dechreuad dyledswyddau yw yr hyn a ddynoda yr apostol wrth feddwl, gan mai ein meddyliau yw y peth cyntaf a berthyna i'n gweithrediadau. Ni's gallwn ddechreu ar unrhyw ddyledswydd o honom ein hunain; ond "ein digonedd ni sydd o Dduw;" hyny yw, yr ydym yn cael ein digonedd trwy gyflenwadau gweithredol o ras, fel y byddo yn angenrheidiol i bob dyledswydd, ac am y modd y mae Duw yn cyfranu y digonedd yma, y mae yr

apostol yn tystiolaethu yn pen 9. adn. 8. "Y mae Duw yn abl i beri i bob gras fod yn helaeth tuag attoch chwi; fel y byddoch chwi yn mhob peth, bob amser, a chenmych bob digonoldeb yn helaeth i bob gweithred dda." Mae Duw yn amlygu helaethrwydd ei ras tuag atton ni, pan y mae efe yn gweithredu digonolrwydd effeithiol ynom ni, er ein galluogi ni i ymhelaethu mewn gweithredoedd da, neu ddyledswyddau buchedd sanctaidd. Y pethau hyn ydynt effeithiau gras, ac y mae yn rhaid eu gweithredu ynom gan yr Ysbryd Glan, yr hwn yw awdwr pob gweithrediadau dwyfol.

Yn ail. Mae holl weithrediadau gras, pob cyflawniadau daionus, yn cael eu priodoli i'r Ysbryd Glan. Ac mor lusowg ydynt y tystiolaethau pennodol i'r perwyl yma yn yr Ysgrythyrau, fel na's gallwn grybwyll ond ychydig o honynt fel engrhaifft, y rhai a ellir eu trefnu dan dri phen.

(1.) Mae amryw destunau, yn y rhai y dywedir ein bod yn cael ein tywys, ein harwain, a'n cynhyrfu i weithredu, gan yr Ysbryd; ein bod yn byw yn yr Ysbryd, yn rhodio yn ol yr Ysbryd, ac yn gwneuthur pethau trwy yr Ysbryd sydd yn trigo ynom. Canys ni all fod dim yn gyffredinol yn cael ei olygu yn yr ymadroddion hyn, ond gweithrediadau yr Ysbryd Glan ar ein heneidiau; mewn ymostyngiad i'r hyn, megis yn gweithredu pan y'n cynhyrfir ganddo ef, y mae ein hufudd-dod i Dduw yn ol yr efengyl yn gynnwysedig: "Rhodiwch yn yr Ysbryd." Gal. 5. 16. Rhodio yn yr Ysbryd, yw rhodio mewn ufudd-dod i Dduw, yn ol y cyflenwadau o ras a weinyddir gan yr Ysbryd i ni; canys felly yr ychwanegir, "na chyflawnwch drachwant y cnawd." Felly y dywedir ein bod yn cael ein harwain gan yr Ysbryd, adn. 18, wrth yr hyn y golygir ein bod yn cael ein harwain ganddo ef, ac nid gan egwyddorion drygionus ein natur lygredig ein hunain: "Rhodio nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd." Rhuf. 8. 4. Rhodio yn ol y cnawd, yw bod yn cael ein cynhyrfu gan egwyddorion y pechod sydd yn preswylio ynom, i gyflawni pechodau

gweithredol. Gan hyny, rhodio yn ol yr Ysbryd, yw bod yr Ysbryd yn gweithredu ynom, er effeithio pob rhyw weithredoedd grasol; ac fe erchir i ni beidio esgeuluso ei gymhelliadau ynom, ond i gydfiurfio â hwy mewn ffordd o ddiwydrwydd a dyledswydd: gwel adn. 14, 15. Felly y gofynir i ni ymwneyd â rhyw ddyledswyddau pennodol, "trwy yr Ysbryd Glan sydd yn preswylio ynom ni," 2 Tim. 1. 14, hyny yw, trwy ei gymhorth ef.

(2.) Fe'i darlunir ef fel awdwr pob gweithrediadau grasol ynom ni: "Ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, cymmwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest." Yr holl bethau hyn a weithredir ac a gymmyrchir ynom ni gan yr Ysbryd, canys ei ffrwythau ef ydynt; ac nid yn unig yr egwyddor o honynt, ond eu holl weithrediadau, yn mhob ymarferiad o honynt, ydynt oddiwrtho ef. Felly mewn man arall, y mae efe yn ychwanegu cadarnäad cyffredinol, gan gymmwys ynddi bob rhyw angrhaifft o rasau neillduol; "Canys ffrwyth yr Ysbryd sydd yn mhob daioni, a chyfiawnder, a gwirionedd." Eph. 5. 9.

(3.) Priodolir grasau neillduol i'w ddylanwadau ef. "Canys nyni yn yr Ysbryd drwy ffydd, ydym yn disgwyl gobaith cyfiawnder." Gobaith cyfiawnder ffydd, yw y peth a obeithir am dano drwyddi. Trwy gyfiawnder ffydd, y mae yr hyn oll a ddysgwyliwn ni am dano yn y byd hwn, neu yr hwn a ddaw. Ac nid ydym yn gwneuthur hyn o honom ein hunain, ond drwy yr Ysbryd. Yr ydym yn addoli Duw, yn yr Ysbryd;—Yn caru y brodyr, yn yr Ysbryd;—Yn "puro ein heneidiau gan ufuddhau i'r gwirionedd, trwy yr Ysbryd, i frawdgarwch diragrith."

Yn drydydd. Y mae genym dystiolaethau pendant i'r gosodiad sydd ger ein bron:—"Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu, o'i ewyllys da ef." Phil. 2. 13. Mae y pethau a weithredir fel hyn, yn perthynu i'n hufudd-dod a'n hiachawdwriaeth: "Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth trwy ofn a dychryn." Mae dau

beth yn angenrheidiol i'r perwyl yma. Gallu i'r cyfryw weithrediadau; ac ymarferiad gweithredol y gallu hwnw. Mae holl waith gras yn gynnwysedig yn ngweithrediadau tufewnol ein hewyllysiau, a gweithredoedd allanol mewn dyledswyddau cyfattebol. Gan hyny, y mae hyn yn ddyledus arnom ni, i gyfiroi ac ymarfer y gras a dderbyniasom, yn, ac i'w weithrediadau priodol; ond y mae y fath ddyledswydd, fel na's gallwn o honom ein hunain ei chyflawni. Duw sydd yn gweithio ynom ni yn effeithiol, yr holl weithrediadau graesol hyny o eiddo ein hewyllysiau ni, a phob rhyw gyflawniadau sanctaidd mewn ffordd o ddyledswydd. Pob gweithred o eiddo ein hewyllysiau can belled ag y mae yn sanctaidd, sydd weithred o effeithioliad Ysbryd Duw; efe sydd yn gweithio ynom ewyllysio, sef y weithred o ewyllysio. Ac felly y golygai yr apostol pan ddywedai, "Mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll, ac nid myfi chwaith, ond gras Duw, yr hwn oedd gyda mi." 1 Cor. 15. 10. Yr oedd yn rhaid iddo ddatgan ei lafur mawr yn pregethu yr efengyl; ond rhag i neb feddwl ei fod yn priodoli rhywbeth iddo ei hun, efe a ychwanegai yn y fan,—"Nid myfi;"—na chamgymmered neb fi; nid myfi, trwy unrhyw allu o'r eiddof fy hun, ond gwnaed y cwbl ynof fi, trwy rad ras Ysbryd Duw. "Nid myfi, ond gras," yw tystiolaeth yr apostol.

PEN. VIII.

Marweiddiad pechod; ei natur, a'r achosion o hono.

Nyni a sylwasom fod dyledswyddau sancteiddrwydd o ddau ryw. (1.) Y cyfryw ag y mae ewyllys Duw mewn gorchymynion pendant yn wrthddrych iddynt; ac (2.) Y cyfryw ag a ddeilliant oddiar waharddiadau dwyfol.

Y cyntaf, am yr hyn y buom yn ymdrin, a berthyna i'r defnyddiad a'r ymarferiad o'r egwyddor o ras: *yr ail*, yr hyn a gynnygiwn i sylw yn bresenol, a berthyna i wanäad,

nychiad, a dinystriad yr egwyddor wrthwynebol o bechod ac fel y dywedir yn mhob man mai yr Ysbryd sydd yn eir; sancteiddio, fe orchymynir i ninau yn wastadol farwhau ein pechodau; canys y mae sancteiddäad yn golygu gras a roddir, ac a dderbynir yn gyffredinol; a marweiddiad yn golygu gras wedi ei ddefnyddio i ryw ddyben neillduol; ac y mae dau beth yn teilyngu ystyriaeth neillduol yn hyn. (1.) Natur y ddyledswydd ei hunan. (2.) Y dull yn mha un y'i gweithredir ynom gan yr Ysbryd Glan; ac ar y peth olaf hwn yr amcanaf aros yn benaf.

Mae yn ddigon hysbys fod y ddyledswydd olaf hon yn cael ei gofyn genym yn aml. "Marwhewch gan hyny eich aelodau y rhai sydd ar y ddaear; godineb, aflendid, gwŷn, drygchwant, a chybydd-dod, yr hon sydd eilunaddoliaeth." Col. 3. 5. Wrth yr aelodau hyn yr ydym i ddeall, nid y rhanau, neu yr aelodau o'n cyrff naturiol, fel pe byddent hwy i'w dystrywio, ond ein serchiadau cnawdol, rhai o ffrwythau pa rai a enwir, megis godineb, &c. Ac y mae y rhai hyn ar y ddaiar, hyny ydyw, y maent yn ddaiarol ac anianol. Gelwir hwynt *ein haelodau*, am fod holl egwyddor pechod, a'r ffrwd o bechod a ddeillia o honi, yn cael ei alw "corff pechod;" gyda golwg ar yr hyn y gelwir rhyw chwantau neillduol, yn aelodau. Defnyddir y serchiadau a'r chwantau hyn mor naturiol a pharod gan yr hen ddyn, neu natur lygredig, ag y defnyddia y corff ei aelodau; a'r hyn a wna y cyfeiriad yn fwy priodol yw, fod pechod trwy y chwantau hyn yn tynu aelodau y corff i'w wasanaeth, yn erbyn y cyfryw y'n rhybuddid gan yr apostol, "Na theyrnased pechod yn eich corph marwol i ufuddhau o honoch iddo yn ei chwantau," Rhuf. 6. 12; ac y mae yn dilyn y cynghor hwn eto yn adn. 19. "Megis ag y rhoddasoch eich aelodau yn weision i aflendid, ac anwiredd, felly yr awrhon rhoddwch eich aelodau yn weision i gyfiawnder."

Ac nyni a allwn ystyried tri pheth newn perthynas i'r ddyledswydd fawr hon:—1. Ei henw. 2. Ei natur. 3. Y ffyrdd a'r moddion trwy y rhai y'i cwblheir.

1. Yr enw sydd arni, sef marwhau. Defnyddir dau air yn yr iaith wreiddiol i osod hyn allan. Y cyntaf (NEKROSATE, Col. 3. 5.) yr hyn a arwydda marweiddio, distrywio, neu ddyddymmu holl rym yr anian lygredig, sydd yn tueddu at bethau daiarol, cnawdol. Mae yn arwyddo gweithred barhaus o gymeryd ymaith allu unrhyw beth hyd oni byddo farw, i ryw berwylion ac amcanion neilduol. Mae gair arall befyd i'r un perwyl (THANATOUTI, Rhuf. 8. 13.) yr hwn befyd sydd yn arwyddocau, *rhoddi i farwolaeth.*

Mae yr un ddyledswydd, gyda golwg ar angau Crist fel yr achos effeithiol o honaw, yn cael ei ddynodi trwy y gair *croeshoelio*: "Croeshoelio ein hen ddyn ni gyd ag ef, Rhuf. 6. 6. "Mi a groeshoeliwyd gyda Christ," Gal. 2. 20.— "Trwy Iesu Grist, y croeshoeliwyd y byd i mi, a minnau i'r byd." Gall yr ymadrodd yma fod yn dynodi, fod pechod yn cael ei farweiddio yn raddol, fel y byddai dyn yn marw ar y groes, ond ei brif arwyddocâad yw, y berthynas sydd rhwng y ddyledswydd hon ag angau Crist; am ba herwydd y dywedir ein bod ni a'n pechodau wedi cael ein croeshoelio gyd ag ef, oblegid ein bod ni a hwythau felly trwy rinwedd ei angau ef: ac yn hyn yr ydym ni yn wastadol yn dwyn yn ein corff nodau marwolaeth ein Harglwydd Iesu Grist: gan ddarlunio dull, ac amlygu effeithioldeb ei farwolaeth ef.

Yn ail. Nyni a ystyriwn natur y ddyledswydd hon: ac ni a allwn sylwi, 1. Fod marweiddiad pechod yn ddyledswydd rwymedig arnom bob amser. Ni's gall un dyn dan y nef ddywedyd, un amser, ei fod yn rhydd oddiwrthi: ac y mae yr hwn a ballo yn y ddyledswydd hon yn esgeulaso pob ymdrechion am sancteiddrwydd. Ac am y rhai a ymhonant mewn perffeithrwydd trwyadl, hwynt hwy yw y rhai mwyaf digywilydd o bawb yn fyw; ac nid ydynt un amser yn agor eu geneuau yn y peth yma, heb eu gwneyd eu hunain yn gelwyddog. Canys, 2. Gan fod y ddyledswydd hon yr orphwysedig arnom bennydd, mae yn rheswm diwad o baràad yr egwyddor hono o bechod yr hon

sydd i'w marweiddio. Hyn a eilw yr Ysgrythyr, "Y pech od sydd yn preswylio ynom;" "y drwg sydd yn bresenol gyda ni;" "deddf yr aelodau;" ac i hyn y prïodolir prïodoliaethau a gweithrediadau ffolineb, twyll, gwrthryfel, rhyfela, a chaethiwo.

3. Mae y pechod preswyliedig, yr hwn yw gwrthddrych y ddyledswydd hon o farwhâd, yn cynnwys, (1.) Gweiddyn, neu egwyddor pechod, yr hyn wrth natur sydd yn meddiannu ein holl alluoedd, ac yn ein gogwyddo at bob drwg: gelwir hyn yr Hen Ddyn, mewn gwrthwynebiad i'r Dyn Newydd, yr hwn yn ol Duw a grëwyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd. (2.) Tueddiad, gogwydd, a gweithrediad yr egwyddor hon, yr hon a elwir "corph pechod;—serchiadau a chwantau y cnawd;" (3.) Effeithiau, a ffrwythau y pethau hyn, sef pechodau gweithredol, trwy yr hyn yr ydym yn "gwasanaethu pechod;" ac y mae hyn naill ai yn dufewnol yn nychymmygion y galon, neu yn allanol, mewn pechodau gweithredol, fel y cyfryw a nodir gan yr apostol, Gal. 5. 19, &c. Yr holl bethau hyn yn nghyd, a wnant i fynu wrthddrych cyflawn y ddyledswydd hon o farweiddiad.

4. Mae yr egwyddor hon, ei gweithrediadau a'i heffeithiau, yn llwyr wrthwyneb i egwyddor, gweithrediadau, a ffrwythau sancteiddrwydd. (1.) Maent yn wrthwyneb yn eu hegwyddor; "canys y mae y cnawd yn chwennych yn erbyn yr ysbryd, a'r ysbryd yn erbyn y cnawd; a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd." Mae yr egwyddorion gwrthwynebol yn cynnal yr amrafael hono yn yr enaid a ddarlunir mor ragorol yn y seithfed bennod o'r epistol at y Rhufeiniaid. (2.) Y maent yn wrthwyneb i'w gilydd yn eu gweithrediadau. Chwant, neu ddymuniadau y cnawd, a dymuniadau yr ysbryd; rhodio yn ol y cnawd, a rhodio yn ol yr ysbryd; byw yn ol y cnawd, a byw yn ol yr ysbryd, ydynt oll yn wrthwynebol y naill i'r llall. Wrth "rodio yn ol y cnawd," yr wyf yn golygu, nid yn unig y cyflawniad o bechodau gweithredol, ond cydffurfiad a'r eg-

wyddor o bechod; a chaniattâu iddi yr oruchafiaeth yn y galon. "Rhodio yn ol yr ysbryd," sydd gynnwysedig yn ein bod yn ymroddi i lywodraeth ac arweiniad yr ysbryd; neu yr egwyddor o ras a blennir ynom gan Ysbryd Duw. (3.) Maent yn wrthwyneb yn eu ffrwythau a'u heffeithiau allanol. Canys fel y mae yr apostol yn crybwyll pechodau gweithredol, megis godineb a'r cyffelyb yn mhlith gweithredoedd y cnawd, (Gal. 5. 19—24,) felly yn mysg ffrwythau yr Ysbryd, efe a fyn fod grasau ymarferol, megis cariad, **llawenydd, a thangnefedd.**

5. Gan fod yr ymrysonfa gyffredinol yma rhwng gras a phechod, y mae marwhad pechod yn gynnwysedig mewn cymeryd plaid gras yn wastadol; canys gan fod trigias yr egwyddorion gwrthwynebol hyn yn, a'u gweithrediad trwy yr unrhyw alluoedd o'r enaid, fel y mae y naill yn cael ei meithrin a'i chryfhau, mae y llall o angenrheidrwydd yn cael ei gwanhau a'i nychu. Gan hyny, y mae marweiddiad pechod yn gynnwysedig o angenrheidrwydd yn y tri pheth canlynol. (1.) Mewn meithrin yr egwyddor o ras drwy bob moddion o osodiad Duw; heb yr hyn ni bydd holl ymdrechion dynion i ddarostwng eu pechodau, onid llafur ewbl ofer. (2.) Mewn rhoddi yr egwyddor o ras ar weithrediad mynych, mewn pob rhyw ddyledswyddau o ufuddod sanctaidd; canys tra y cedwir tueddiadau sanctaidd yr enaid mewn ymarferiad gwastadol a bywiog, yr atlwyddir cymhelliadau gwrthwynebol y cnawd. (3.) Mewn iawn ddefnyddiad o egwyddor a gweithrediadau gras, mewn ffordd o wrthwynebiad i egwyddor a gweithrediadau pechod. Fel y mae yr oll o ras yn wrthwyneb i'r oll o bechod, felly nid oes un chwant neillduol, heb fod gras neillduol yn barod i wneuthur gwrthwynebiad effeithiol iddo. Yn hyn y mae y dirgelwch o farwhad pechod yn gynnwysedig; mewn anwybodaeth o'r hyn y dyfeisiwyd llawer ffordd ffol; gan geisio gwrthwyneb egwyddor dufewnol lygredig â grym allanol.

6. Gelwir y ddyledswydd fawr hon Marwhad, neu roddi i farwolaeth. (1.) Oblegyd y dywedir am bechod ei fod yn byw, neu yn meddu bywyd o'r eiddo ei hun, am ei fod yn meddu tueddfryd wastadol a grymmus, a'i fod yn gweithredu yn wirioneddol at bob drwg; am hyny, y mae y gwrthwynebiad a wneir iddo er ei ddystryw yn cael ei alw Marwhad. (2.) Oblegyd yr ymröad grymmus sydd angenrheidiol yn yr ymrysonfa hon. Gellir cyffawni dyledswyddau craill y'n gelwir attynt mewn modd mwy esmwyth a thyner. Er fod yn rhaid i ni ymdrechu â thywysogaethau ac awdurdodau, yn ein hymrysonfa â themtasiynau, eto y mae yn yr ymrysonfa hon â ni ein hunain, fwy o ymladd, clwyfo, a llefain am gymmhorth; y mae teimlad dwysach o'r cyfryw orthrech ag a arferir i gymeryd bywyd gelyn marwol ymaith, nac mewn dim arall y'n gelwir i'w brofi. (3.) Am mai y dyben a amcenir yn y ddyledswydd hon, yw dinystr, fel y mae yn mhob lladd. Mae i bechod fywyd, trwy yr hwn y teyrnasa yn mhob dyn anianol. Trwy ddyfodiad gras i'r enaid, mae yn colli ei lywodraeth, ond nid ei fod; ei reolaeth, ond nid ei fywyd. Ond amcan y ddyledswydd hon yw dystryw trwyadl holl weddillion bywyd melldigedig pechod: yr amcan yw, peidio gadael i bechod fod, bywyd, na gweithrediad.

Oddiwrth hyn, mae yn eglur mai gwaith graddol yw marweiddiad pechod. Rhaid i ni fod gyd a'r gwaith hwn bob dydd, ac yn mhob dyledswydd. Ni bydd pechod farw, oddieithr ei fywhau yn wastadol. Arbedweh ef, a buan yr iach â ei archollion, ac yr adfera ei nerth. Rhaid i ni wylied yn barhaus yn erbyn gweithrediadau yr egwyddor hon o bechod; yn ein dyledswyddau, yn ein galwedigaeth, yn ein hymarweddiad, yn ein neillduaeth, yn yr hyn oll a fwynhaom, ac yn yr hyn oll a wnelom. Os byddwn esgeulus ar unrhyw achlysur, nyni a gawn ddïoddef o'r herwydd; mae pob camgymeriad, a phob esgeulusiad yn beryglus.

Gellir ofni yn gyfiawn fod natur y ddyledswydd hon yn

cael ei chamgymeryd gan laweroedd. Edrych rhai arni fel rhyw beth hawdd i'w chyflawni; ond ai heb achos y darfu i'r Ysbryd Glan ei darlunio trwy farweiddio, neu ladd? Mae yn ddiau fod y cyfryw ymadrodd yn dynodi ymrysonfa fiyrnig. E wna pob peth a allo i ddiogelu ei cinioes. Na feddylied neb y gall efe ladd pechod ag ychydig ddyrnodiau ysgafn. Yr hwn a darawo sarff unwaith, a all gael achos i chifarhau am iddo ddechreu yr amrafael, oddieithr iddo ddilyn ei ddyrnod nes ei lladd; ac felly y bydd gyd a'r hwn a gymero arno ymwneyd a phechod, oni's dilyna ef yn ddyfal hyd angau; fe adfywia pechod, a bydd yn rhaid i'r dyn farw. Trachefn: y mae egwyddor pechod *gyaom ni*, ac fe'i gelwir *nyni ein hunain*. Ni's gellir ei ladd heb deimlad poenus. Fe'i cyffelybir i dorri ymaith y llaw ddehau, a thynu ymaith y llygad dehau. Ni's gellir marweiddio chwantau a ymhonant eu bod yn ddefnyddiol a dymunol i'r cnawd, heb deimlad gofidus. Cam-gymeriad niweidiol hefyd yw gwneyd rhyw chwantau neillduol, neu lechodau gweithredol yn wrthddrychau y ddyledswydd hon. E wna llawer ymosodiad yn erbyn pechodau neillduol, ond gyd ag ychydig lwyddiant; mae pechod yn ennill y dydd arnynt, a hwythau yn gruddfan dano, a'r rheswm yw, am eu bod yn camgymeryd y gorchwyl. Nid yw ymrysoniadau â rhyw bechodau neillduol yn ddim amgenach na chydsyniad â goleuni ac âg argyhoeddiadau. Mae y marweiddiad sydd yn amcanu at sanctciddrwydd, yn golygu holl gorff pechod, y gwreiddyn a'i holl gangbenau. Y cyntaf a aflwydda, yr olaf a lwydda.

Yn drydydd, Rhaid i ni ystyried y *ffordd* yn yr hon y cyflawnir y gwaith o farweiddiad pechod. Yr Ysbryd Glan yw awdwr y gwaith hwn ynom, fel, er ei fod ein dyledswydd ni, eto trwy ei ras ef y'i cyflawnir. Fe dystir hyn yn Rhuf. 8. 13. "Os ydych yn marweiddio gweithredoedd y corff dwry yr Ysbryd, byw fyddwch." Nyni a ddylem farweiddio y cnawd: ond ni's gallwn wneuthur hyny o honom ein hunain, rhaid ei wneuthur yn, neu drwy yr Ys-

bryd. Profi hyny yw prif amcan yr apostol o'r ail adnod o'r bennod hono, hyd ddiwedd y drydedd ar ddeg. Mae yn cadarnhau, ac yn profi yn helaeth, fod teyrnasiad pechod yn meddyliau credinwyr yn cael ei wannychu, ac o'r diwedd ei ddinystrio, gan yr Ysbryd Glan, ac na's gellid gwneuthur hyn un ffordd arall. Gan fod hyn yn ddigon eglur, nid oes dim mwy i ni i'w wneyd, ond dangos y dull yn yr hwn y mae efe yn cynnyrchu yr effeithiau hyn.

I. Mae yr oll o farweiddiad pechod yn y credinwyr yn seiliedig ar breswyliad yr Ysbryd ynddynt. Mae efe yn preswylio yn mhersonau y credinwyr, fel yn ei deml. Mae efe yn symmud ac yn darostwng y llygredigaethau hyny ydynt yn gwneuthur eneidiau dynion yn annghyfaddas i'w drigias ef, sef pechod cynhenid yn ei effeithiau, fel y gallo drigo ynddynt yn unol a'i sancteiddrwydd; a chan mai dyma unig ffynhonell marweiddiad ynom ni, fel y mae yn ras, felly mae yr ystyriaeth o honi yn brif gymhelliad atti fel dyledswydd,—"Oni wyddoch chwi fod eich corff yn deml i'r Ysbryd Glan sydd ynoch, yr hwn yr ydych yn ei gael gan Dduw?" A thrachefn, "Oni wyddoch chwi mai teml Duw ydych."

II. Y mae dull gweithrediad neillduol yr ysbryd yn y gwaith hwn i'w ystyried. Yr egwyddor lygredig o bechod, sydd i'w marweiddio; ac y mae efe yn gwneuthur hyn, 1. Trwy blannu yn ein meddyliau egwyddor wrthwynebol, a thueddiadau gwrthwynebol. Ni bydd pechod farw mewn un modd ond trwy gael ei ladd; a chan mai yn raddol y mae hyn i gael ei wneuthur, rhaid i hyny gymeryd lle trwy ymdrech. Rhaid bod rhyw beth gwrthwynebol iddo ynom ni, yr hyn trwy wrthwynebiad parhaus a weithia ei ddystryw yn raddol. Fel mewn hen anhwyldeb, y mae yr afiechyd yn ymladd yn barhaus â galluoedd natur, nes y ffynno i'w dystrywio, felly y mae yn y peth yma. Yr egwyddorion gwrthwynebol yw cnawd ac ysbryd; a'u gweithrediadau gwrthwynebol sydd gynnwysedig mewn rhyfela y naill yn erbyn y llall, Gal. 5. 16. "Rhodiwch yn yr Ys-

bryd, ac na chyflawnwch drachwant y cnawd." Peidio cyflawni trachwant y cnawd, yw ei farweiddio; canys ni's gall fyw oni's cyflawnir ei drachwantau; ac y mae efe yn gwneuthur sylw helaethach ar hyn yn adn. 17. "Canys y mae y cnawd yn chwennychu yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd." Os Ysbryd Duw a olygir yma, eto ni's gall ei fod yn chwennychu yuom ni, ond trwy yr ysbryd hwnw a anwyd o hono ef. A diwedd y cwbl yw, "Y rhai sydd yn eiddo Crist, a groeshoeliasant y cnawd, yn nghyd a'i wyniau a'i chwantau;" maent wedi ei hoelio wrth y groes, lle y rhaid iddo dreugu yn fuan. Am hyny y mae efe yn terfynu ei bregeth a'r cynghor hwnw, "Os byw yr ydym yn yr Ysbryd, rhodiwn hefyd yn yr Ysbryd;" hyny yw, Os ydym wedi cin doniaw â'r egwyddor ysbrydol hon o fywyd, yna gwnawn ddefnydd o honi er dinystr a marweiddiad pechod. Cynnyddu mewn gras, a ffynnu mewn sanctciddrwydd, yw y brif ffordd i farweiddio pechod; canys po mwyaf bywiog y byddo yr egwyddor o sanctciddrwydd, gwanaf, a mwyaf nychlyd fydd egwyddor pechod. Pa fynychaf a bywioccaf fyddo gweithrediadau gras, gwanaf ac anamlaf fydd gweithrediadau pechod. Po mwyaf helaethion y byddom yn ffrwythau yr Ysbryd, lleiaf fydd a wnelom a gweithredoedd y cnawd. Dyma yr unig ffordd i ddystrywio pechod. Dygwch ddyn at y ddeddf, gwesgwch at ei ystyriaeth burdeb ei hathrawiaeth, awdurdod ei gorchymynion, llymder ei bygythion, a'r canlyniadau ofnadwy o'i throseddu, tybier ei fod yn cael ei argyhoeddi trwy hyn o ddrwg a pherygl pechod, ac o'r angenrheidrwydd i'w farweiddio,—a fydd efe yn alluog trwy hyn i gyflawni ei ddyledswydd, fel y byddo pechod farw, ac y byddo ei enaid byw? Mae yr apostol yn cin sicrhau i'r gwrthwyneb, Rhuf. 7. 8, 9. Yr holl effaith a gâ y ddeddf ar y pechod preswyliedig yn natur y dyn, fydd ei gynhyrfu, a chynnyddu ei euogrwydd. Gan hyny, dyma y ffordd gyntaf drwy yr hon y mae yr Ysbryd Glan yn cin galluogi i farweiddio pechod, trwy feithrin yr egwyddor o sanctciddrwydd yn ein heneidiau.

2. Mae yr Ysbryd Glan yn dwyn y gwaith yma yn mlaen trwy gyflenwadau gweithredol o'i ras: canys y mae yr unrhyw gynnhorthwyon dwyfol mor angenrheidiol i hyn ac i unrhyw ddyledswydd bendant o sancteiddrwydd. Felly y terfynai yr apostol ei ddarluniad o'r ymdrechfa rhwng pechod a gras, a'r geiriau daionus hyny,—"Yr wyf yn diolch i Dduw trwy Iesu Grist ein Harglwydd;" sef yr hwn sydd yn fy nghyflenwi a phob rhyw gynnorthwyon grasol yn erbyn grym pechod. Trwy bechod yn unig y mae temtasiwn yn llwyddiannus; a chyda golwg ar demtasiwn neillduol, y rhoddai Crist yr atteb hwnw i'r apostol, —"Digon i ti fy ngras I." Mae y cyflenwad gweithredol o Ysbryd Crist yn ein gallnogi i wrthsefyll ein temtasiynau, a darostwng ein llygredigaethau. Dyma y cynnorthwy ychwanegol, fel y byddo achlysur yn gofyn, dros ben ein harlwy feunyddiol, neu y gras a roddir yn brydlawn, mewn attebiad i'n cri am dano, Phil. 1. 19. Mae dysgwyl am, a thynu o'r cynnorthwyon grasol hyn, yn un brif ran o'n dyledswydd yn mywyd ffydd. Nid rhyw ddychymmygion gweigion, fel y meddylia rhai yw y pethau hyn. Os yw Crist yn ben dylanwadol i ni, os efe yw ein bywyd, os yw ein bywyd ynddo ef; oni feddwn ni ddim heblaw a dderbyniasom oddiwrtho ef, yna y dysgwyliad yma am, a'r sugniad yma o nerth ysbrydol oddiwrtho ef, yw y ffordd sydd raid i ni ei chymeryd i farweiddio pechod mewn gwirionedd. Rhaid i ni geisio y cynnorthwyon hyn yn ddyfal yn y ffyrdd a'r moddion trwy ba rai y'u cyfrennir; canys er fod yr Arglwydd Crist yn eu rhoddi yn rhad, eto fe'u cyfrennir i ni yn gyfattebol i'n diwydrwydd ni yn eu ceisio yn y ddyledswydd. Os ydym ni yn esgeulus mewn gweddi, myfyrdod, darllen, a gwrando y gair, ac ordinhadau eraill perthynol i addoliad dwyfol, ni's meddwn un sail i ddysgwyl rhyw gynnorthwyon mawrion i'r perwyl yma. Rhaid i ni hefyd fod yn helacthion yn yr ymarferad o'r grasusau hyny, ydynt yn fwyaf gwrthwynebol i'n llygredigaethau neillduol ni: canys y mae pechod a gras yn

gwneyd prawf o'u nerth mewn rhyw amgylchiadau neilldnol. Gan hyny, od oes neb yn cael ei ddarostwng yn anarferol dan awdurdod unrhyw lygredd, megys nwydwylltedd, cariad at y byd, anymddiried yn Nuw, a'r cyffelyb,—oddieithr eu bod yn ddyfal yn yr ymarferiad o'r grasau hyny ydynt yn wrthwyneb union-gyrchol i'r pechodau hyn, hwy a barhant i gael eu nychu dan rym pechod.

3. Yr Ysbryd Glan sydd yn cin cyfarwyddo i, ac yn ein cynnorthwyo yn y dyledswyddau hyny ydynt wedi eu trefnu i ni fel moddion i farweiddio pechod trwyddynt.

(1.) Mae yn angenrheidiol i fod yn gyfarwydd â natur, defnydd, a dyben y dyledswyddau hyny. O ddiffyg y wybodaeth hon, y mae pob math o ddynion wedi bod yn crwydro ar ol dychymygion ynfyd, yn nghylch y gwaith hwn, naill ai o barth ei natur, neu y moddion i'w gynnyrchu. Mae rhyw amgyffred cyffredin, fod rhyw beth o'r natur yma yn angenrheidiol, wedi deillio oddiar sylw ar nwydau afreolaidd, a bucheddau drygionus y rhan fwyaf o ddynion, yn gweddu hyd yn nod i oleuni natur, ac e wnaeth yr hen athronwyr lawer o ddefnydd o'r cyfryw wybodaeth. I'r perwyl yma y rhoisant lawer o gyfarwyddiad au yn nghylch cymedroli a darostwng nwydau afreolaidd y meddwl; ond, tra nad oedd eu darganfyddiadau o bechod yn cyfodi yn ddim uwch na r anhrefn gweithredol a ganfyddent yn y serchiadau; tra na's gwyddent hwy ddim am lygredd y meddwl ei hunan, ac heb ddim ganddynt i'w gyfodi mewn gwrthwynebiad i'r drwg a ganfyddent, heblaw ystyriaethau moesol, ni chyrhaeddasant erioed ddim o'r un rhyw a gwir farweiddiad pechod.

Os cymerwn olwg ar ymddangosiad y ddyledswydd hon yn mysg y Pabyddion, ni chanfyddwn ond sionmedigaeth hollawl yno; canys o herwydd eu dyeithrwch i'r gwir ffordd o'i chynnyrchu, hwy a ddyfeisiasant aneirif o gau ffyrdd o'r eiddynt eu hunain. Ac oddiyma y tarddodd eu penydiau a'u hymprydiau; ond wedi gwneyd y cwbl, hwy a'u canfydd-

ent yn annigonol ; ni ddystrywid pechod, ac ni heddychid y gydwybod drwyddynt. Hyn a barodd ddyfeisio y Purdan, lle y maent yn gobeithio yr unionir pob peth, wedi iddynt hwy fyned o'r byd hwn. Eto nid yw hyn yn ddigon i beri i mi gollfarnu hyd yn nod lymderau allanol yn eu lle priodol. Mae tuedd yn ein natur ni i redeg i eithafion ; wrth weled ffolineb y Pabyddion yn cyfleu marweiddiad pechod mewn ymddangosiad allanol o hono, yr ydym yn dueddol i feddwl fod pob peth o'r natur hono yn llwyr ddiangenrhaid. Ond yn wir, ni's gallaf lai nac ammau marweiddiad tufewnol y rhai hyny a foethant eu cnawd bob amser, gan gyddfurfio â'r byd, a byw mewn seguryd a choeg-ddigrifwch ; ïe, y mae yn llawn bryd i broffeswyr crefydd gyfyngu ar eu dull moethus a balchaidd o fyw, i'r hwn y mae cynnifer o honynt wedi syrthio ; ond ni wna yr hunan benydiau allanol yma, o honynt eu hunain, byth gynnyrchu yr effaith amcanedig. Am lawer o honynt, nid ydynt ond dyfeisiau dynion, ac nid appwyntiwyd mo honynt erioed gan Dduw i'r cyfryw berwyl, ac am y lleill o honynt, nid ocs dim effeithioldeb ynddynt, ond fel y maent yn ddarostyngedig i ddyledswyddau ysbrydol eraill. Felly y dyru Jerome engrhaifft onest o hyn i ni yuddo ei hun, gan ddywedyd, fod ei feddwl ef yn y chwareuyddiaethau yn Rhufain, tra yr oedd efe yn byw yn ei anialwch diffaith yn Judea ; ac fel hyn y terfyna pob ffyrdd hunan ddyfeisiol o farweiddiad. Ysbryd Duw ei hun yn unig a ddichon ein harwain ni i'r ymarferiad o'r dyledswyddau hyny trwy y rhai y gellir ei gynnyrchu.

(2.) Mae yn ofynol i'r dyledswyddau hyny gael eu cyflawni yn iawn ; mewn ffydd, ac er gogoniant Duw. Y dyledswyddau gosodedig i'r perwyl yma mewn modd arbenig, ydynt gweddi, myfyrdod, gwyliadwriaeth, ymattaliad, doethineb, neu bwyll ac ystyriaeth o barthed i demtasiynau. Nid digon yw ein bod yn ymwneyd â hwy yn gyffredinol, ond rhaid i ni eu cymhwyso at yr amgylchiad neillduol yma, gan amcanu marweiddiad pechod ynddynt a

thrwyddynt. Ni's gall un dyn a'i doeth ystyrio ei hunan, ei gyflwr, a'i demtasiynau, fod yn hollawl anadnabyddus o'i lygredigaethau neillduol. Mae yn debyg mai hyn oedd yn ngolwg Dafydd pan y dywedai, "Ymgedwais rhag fy anwiredd." Ni's gallasai wneuthur hyn pe na's adwaenasai, ac na chadwasai wyliadwriaeth ar y pechod mwyaf parod i'w amgylchu. Yn yr adnabyddiaeth yma, yr ydym i gymhwyso y dyledswyddau hyn yn fwriadol er dinystr i allu pechod;—ac fel y maent oll yn ddefnyddiol ac yn angenrheidiol, fe'u dysgir gan amgylchiadau pa rai o honynt yn neillduol, ydynt fwyaf angenrheidiol. Gweddi a myfyrdod a hóna y lle blaenaf weithiau, megis, pan fyddo ein perygl yn cyfodi yn unig o honom ein hunain; ein tueddiadau trofäus, neu ein nwydau afreolaidd ni ein hunain; weithiau gwyliadwriaeth ac ymattaliad, pan fyddo pechod yn cymeryd achlysur oddiwrth demtasiynau a thrafferthion yn y byd:—weithiau doethineb a phwyll, pan fyddo gochel temtasiynau a chyflensderau i bechod yn neillduol o angenrheidiol.

Mae yr holl ddyledswyddau hyn o'u hiawn ddefnyddio, yn gweithio ddwy ffordd tua'r dyben amcanedig. 1. Yn foesol, fel y maent yn cadael cymmorthwy. 2. Yn wirioneddol, trwy wrthwynebiad union-gyrchol i bechod, o'r hyn y deillia ymdebygoliad i sancteiddrwydd.

(1.) Mae y dyledswyddau hyn yn gweithredu yn foesol. Dodaf engraifft o hyn mewn gweddi yn unig. Gwaith cyntaf gweddi, o barthed i bechod, yw cwyn;—mae yr enaid yn tywallt ei gŵyn ger bron Duw, ac yn dangos o'i flaen ef y trallod yr achai dano o'i herwydd. Felly y dywedai Dafydd, "Gwrando arnaf, ac erglyw fi; cwynfan yr ydwyf yn fy ngweddi, a thuchan." Salm. 55. 2. Cwynfaniad galarus oedd ei weddi. Mae yn wir fod y rhan yma o weddi yn ddiystyredig gan ddynion anystyriol, ond y mae yn gymeradwy gan Dduw; ac y mae crediuwyr yn cael esmwythäad a gorphwysdra i'w henaidiau wrth gwynfau mewn gweddiau ger bron Duw;—canys gwawdied y

byd a fyno, pa beth sydd yn fwy cymeradwy gan Dduw, na gweled ei blant o gariad pur atto ef a sancteiddrwydd, oddiar ddymuniadau gwresog am gydffurfio â i feddwl a'i ewyllys ef, ac felly gyrhaedd cydffurfiad ag Iesu Grist, yn dyfod atto gyd a'u cwynion am y pellder y'u cedwir oddiwrth y pethau hyn gan rym gormesol pechod ; gan alaru o herwydd eu llesgedd, a chyfaddef yn ostyngedig yr holl ddrygau y maent yn ddarostyngedig iddynt ar gyfrif hyny! Y mae Duw yn arddelwi credinwyr fel ei blant, ac yn meddu ymysgaroedd tad tuag attynt. A da y gŵyr efe mai pechod yw eu gelyn gwaethaf, yr hwn sydd yn ymladd yn egniol yn erbyn eu heneidiau. Gan hyny, a ddioystyra efe eu cwynion ? Oni ddial efe hwynt ar y gelyn hwnw, a hyny ar frys.

Mae gweddi hefyd yn cynnwys deisyfiadau ar Dduw am gyflenwadau o ras i orchfygu pechod : nid rhaid i mi brofi hyn :—Nid oes un dyn yn gweddïo fel y dylai onid yw y deisyfiadau hyn yn gwneyd i fynu ran o'i weddi ; yn enwedig pàn fyddo y meddwl wedi ymroddi mewn modd neillduol yn yr amcan i ddystrywio pechod ; ac fe weithir y dymuniadau hyn ynom gan yr Ysbryd Glan, yr hwn yn hyn sydd yn ol ewyllys Duw yn erfyn dros y saint, ac yn dwyn y gwaith hwn o farweiddiad pechod rhagddo, canys ei waith ef yw.

(2.) Mae effeithioldeb gwirioneddol yn perthynu i'r ddyledswydd hon i'r un perwyl; a phan yr iawn ymarferir â hi, y mae yn ffynnu i wanhau a dystrywio pechod ; canys y mae tueddfryd a gogwydd yr enaid at sancteiddrwydd cyffredinol, a ffieiddiad o bob pechod yn cael ei feithrin a'i gryfhau. Nid yw credinwyr byth yn cael eu dyrchafu i amcan ysbryd uwch yn yr erlyniad o sancteiddrwydd, nac mewn gweddi; ac felly y maent yn cyfodi oddiar eu gliniau yn aml uwchlaw teimlad o unrhyw duedd at bechod. Ac O ! mor ddedwydd a fyddem pe parhai y cyfryw agwedd ysbryd yn wastadol! Ond aros yn y ddyledswydd yw y ffordd oreu i ymestyn at hyny.

(4.) Mae yr Ysbryd Glan yn dwyn y gwaith yma yn mlaen trwy gymhwyso angau Crist attom i'r perwyl hyny; ac y mae y byd yn dirmygu hyn hefyd, am nad yw yn ei ddeall: ond eto, am bwy bynnag nid yw angau Crist yn angau i'w bechod, efe a fydd farw yn ei bechodau. Fe dystir yn amlwg yn yr Ysgrythyr fod dylanwad neillduol i angau Crist er marweiddiad pechod. Trwy ei groes ef, hyny yw, ei angau ar y groes, "y'n croeshoelir ni i'r byd;" croeshoelir ein hen ddyn ni gyd ag ef, er mwyn dirymu corph pechod; hyny yw, marweiddir pechod trwy rinwedd marwolaeth Crist. Trwy yr offrymiad o'i angau, dyhuddir ein pechodau o ran yr euogrwydd o honynt, a thrwy y cymhwysiad o hono attom ni, fe'u darostyngir o ran eu grym. Canys cyfrannogaeth yn mendithion ei angau yw yr hyn a alwn ni yn gymhwysiad o hono attom ni. Dywedir fod yr hen ddyn yn cael ei groeshoelio gyda Christ ar ddau gyfrif;—(1.) O gydffurfiad. Crist yw pen y greadigaeth newydd. Pa beth bynnag a amcanai Duw erom ni ynddi, efe a'i harddangosai yn gyntaf ynddo ef, ac yr ydym ni wedi ein rhagluniaethu "i fod yr un ffurf a delw ei Fab ef" Trwy ras, fe'n gwneir "yn gydblanhigion i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef," fe'n cydffurfir a'i farwolaeth ef; ac felly yn "feirw gyda Christ." Y cydffurfiad hwn nid yw yn ein marwolaeth naturiol, canys y mae y fath beth ag y'n gwneir yn gyfrannogion o hono yn y fuchedd hon; ond bu Crist farw dros ein pechod, yr hyn oedd yr achos o hyn, ac efe a fu byw drachefn drwy allu Duw. Fe weithia Duw gyffelybiaeth i hyn yn yr holl gredinwyr. Y mae bywyd o bechod ynddynt hwy wrth natur; rhaid dystrywio y bywyd yma; rhaid i bechod farw ynom, ac i ninnau trwy hyny ddyfod yn feirw i bechod; ac megis y cyfododd efe drachefn, felly y'n bywheir ninnau i newydddeb buchedd. A'r un Ysbryd ag a weithredodd y pethau hyn yn Nghrist, a wna yr hyn sydd gyfattebol iddynt yn ei holl aelodau yn y cyflawniad o'i amcan mawr.

(2.) O ran effeithiolrwydd; mae rhinwedd yn deillio o

angau Crist er dinystr i bechod. Nid amcanwyd ei farwolaeth ef i fod yn esampl aneffeithiol; ond fe'i dylynir â gallu a'n cyddfurfia ni i'w chyffelybiaeth ei hunan; dyma ordinâad Duw i'r perwyl hyny. Trwy "gymdeithas," neu gyfrannogiad a'i "ddioddefiadau ef" yn "cyddfurfir ni a'i farwolaeth ef." Mae angau Crist wedi ei amcanu i fod yn angau i bechod, gwawdied y rhai ydynt yn feirw mewn pechod a fynont ar hyny. Pe na buasai Crist farw, ni buasai farw pechod mewn un pechadur i dragywyddoldeb.

Os gofynir, Pa fodd y mae angau Crist yn cael ei gymhwyso attom ni? neu, Pa fodd yr ymwnawn ni âg angau Crist i'r perwyl yma? Attebaf, mai trwy ffydd a chariad.

(1.) Trwy ffydd. Y ffordd i dderbyn rhinwedd o Grist, yw trwy gyffwrdd âg ef. Felly y dywedir am y wraig glaf yn yr efengyl, iddi hi gyffwrdd âg ymyl ei wisg ef, ac i rinwedd fyned allan o honaw ef i'w hiachâu. Nid ei chyffyrddiad allanol âg ef, ond ei ffydd a sugnodd rinwedd o honaw ef; canys felly y dywaid ein Iachawdwr yn ei attebiad iddi, "Ha ferch, cymmer gysur, dy ffydd a'th iachâodd;" ond i ba ddyben y cyffyrddai hi a'i wisg ef? nid oedd onid arwydd o'r cymhwysiad neillduol o rym iachâol Crist at ei henaid, neu o'i ffydd hi ynddo ef i'r perwyl hyny; canys yr oedd llawer yn ymwasgu atto ef yr un pryd, eto y wraig glaf hon yn unig a dderbyniodd rinwedd o honaw ef:—mae hyn yn arwydd-lun mawr o broffes gyffredinol ar un llaw, ac o ffydd neillduol ar y llaw arall. Mae torfeydd yn ymwasgu o ddeutu Crist mewn proffes gyffredin o ffydd, ond nid oes dim rhinwedd yn myned o honaw ef i'w hiachau hwynt; ond pan fyddo neb un, er yn dlawd ac yn mhell mewn ymddangosiad, yn cael ond y cyffyrddiad lleiaf ag ef trwy ffydd neillduol, fe iacheir yr enaid hwnw.

Ond, pa fodd y marweiddir pechod trwy hyn? Minnau a ofynaf, Pa fodd yr iachêid y rhai hyny a edrychent ar y sarff bres? Onid am mai ordinâad Duw ydoedd, yr hon a wnaid yn effeithiol gan Dduw i'r perwyl hyny? A chan

ſod angau Crist ſelly gyda golwg ar groeshoeliad pechod, pan yr edrychir arno trwy ffydd, oni bydd i rinwedd dwyſol ddyſod o hono i'r dyben hwnw? Heblaw hyny, y mae gan ffydd ei hunan, ſel y'i gweithredir ar angau Crist, effeithioldeb neillduol i ddarostwng pechod; canys tra yr ydym yn edrych arno ef trwyddi ſel mewn drych, y'n cyſnewidir i'r unrhyw ddelw. Heblaw hyny, trwy ffydd yn unig, y derbyniwn o Grist, y bendithion deilliedig o undeb ag ef. O hono ef yr ydym ni yn cael pob gras, neu nid oes y ſath beth yn y byd; a thrwy weithrediad ffydd yn benaf, yr ydym yn cael derbyn o hono. A phan y byddo yn gweithredu gyda golwg ar ei angau ef, yr ydym yn cael gras i ladd pechod, a thrwy hyny yr ydym yn marw gydag ef, yn cael ein croeshoelio gydag ef, ac yn cael ein cyd gladdu ag ef; a rhaid i'r sawl a ddirmygant y moddion yma o farweiddiad, aros dan awdurdod pechod, pa beth bynag a ddywedont hwy i'r gwrthwyneb, ac at ba ddychymygion bynnag y gallont droi am ymwared.—Yn ol ſel y byddom yn ymhelaethu yn hyn yma, y bydd ein llwyddiant. Ac e ga y sawl ydynt yn ddioſal ac esgeulus o ffydd mewn myſyrdod a gweddi, ganſod y bydd i bechod gadw ei dir, a chynnal i ſynu ei awdurdod yn yr enaid; ond, am y rhai ydynt dra chyſarwydd ag angau Crist trwy weithrediadau sanctaidd ffydd, ſe'u cyſnewidir i'w gyffelybiaeth ef, a phroſant farweiddiad pechod ynddynt eu hunain yn barhaus.

(2.) Yr ydym yn gwneuthur hyn trwy gariad. Crist wedi ei groeshoelio yw gwrthddrych mawr ein cariad; canys yn hyn y mae efe i bechaduriaid, "oll yn hawddgar." Yn angau Crist, mae ei ras anchwiliadwy, ei ymostyngiad anſeidrol, ei ddyoddeſgarwch amyneddgar, a'i allu buddugoliaethus, yn llewyrchu yn ſwyaf ysblenydd. Felly y'i portreiadir yn a thrwy yr efengyl, "wedi ei groeshoelio o flaen ein llygaid;" ac felly y'i golygir gan lygad ffydd, fel gwrthddrych priodol cariad diffuant. Mae enaid y credadyn yn glynu wrth Grist wedi ei groeshoelio, fel ag y mae mewn rhyw ystyr yn bresenol ar y groes gyd ag ef

yn wastadol; ac oddiyma y deillia cyffelybiaeth neu gyddfurfiad. Mae yn naturiol i gariad gynnyrchu cyffelybrwydd rhwng y meddwl a fyddo yn caru, a'r gwrthddrych a gerir; ac yr wyf yn sicr mai felly y mae yn y peth hyn. Bydd i feddwl wedi ei lanw o Grist wedi ei groeshoelio, gael ei gyfnewid i'w ddelw a'i gyffelybiaeth, trwy farweiddiad effeithiol.

5. Mae yr Ysbryd Glân yn dwyn y gwaith yma yn mlaen, trwy wneuthur amlygiadau gwastadol i gredinwyr o wir natur, a diwedd sicr pechod ar un llaw, a phrydferthwch, ardderchawgrwydd, a rheidiolrwydd sancteiddrwydd ar y llaw arall, yn nghyd a'r berthynas sydd rhwng Crist, yr efengyl, a'u heneidiau eu hunain â'r unrhyw. Nid am fod yr ystyriaeth resymol o'r pethau hyn yn ddigonol o hono ei hunan i farweiddio pechod; canys y mae cyndynrwydd yn y galon na's gellir ei orchfygu âg unrhyw resymu unigol: ac y mae yr argyhoeddiad o bechod a chyfiawnder, ag sydd ffynnadwy i'r perwyl yma, yn cael ei weithredu ynom gan yr Ysbryd Glân. Ioan 16. 8. Er ei fod yn gwneyd defnydd o'n synhwyrau a'n cydwybodau yn hyn, eto oni's effeithiola efe y moddion mewn modd arbenig, ni's cyflawnir y gwaith. Pan y gwelo efe yn dda wneuthur defnydd o resymau a chymhelliadau wedi eu cymeryd oddiwrth natur a diwedd pechod a sancteiddrwydd er marweiddiad pechod, hwy a fyddant yn effeithiol i rwymo yr enaid i'r ddyledswydd hon, er pob rhyw demtasiynau a fynent ei ddenu oddiwrthi.

Ac fel hyn yn fyr y darluniais waith yr Ysbryd yn SANCTEIDDIAD credinwyr. Gellid ymhelaethu ar lawer o bethau yn ychwaneg; ond yr wyf yn meddwl fod yr hyn a ddywedwyd yn ddigonol i'm pwrpas presenol. Nid wyf yn ammeu nad yw y casgliadau a wnaed oddiwrth Ysgrythyr a rheswm, yn ddigonol i'n cyfarwyddo yn yr ymarferiad o wir sancteiddrwydd efengylaidd; ac i ffynu gyda phawb sobr i ymwrthod â syniadau coegfalch y rhai hyny a farnant fod y cwbl o sancteiddrwydd efengylaidd yn gynnwysedig mewn ymarferiad o rinweddau moesol.

LLYFR V.

YR ANGENRHEIDRWYDD AM SANCTEIDDRWYDD.

PEN I.

Yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd yn cael ei ddadleu oddiwrth natur Duw.

Terfyna y taethawd hwn á sylwadau er dangos yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd, y rhesymau dros yr angenrheidrwydd hwnw, a'r prif gymhelliadau atto;—ac er ein calonogiad yn hyn; y mae y sancteiddrwydd hwn y cyfryw ag y mae pob rhyw Gristionogion yn ei addef, yn dadleu drosto, ac yn ymhoni iddo. Canys, megys y mae yr efengyl mewn modd arbenig, yn cael ei galw "y gwirionedd, neu yr athrawiaeth sydd yn ol dawioldeb," neu y cyfryw ag sydd yn meddu cyfaddasrwydd i'w chyrhaedd a'i hymarfer, ni's gall neb yn briodol, ommedd i'w hathrawiaethau gael eu profi wrth y tueddrwydd a fyddo iddynt; ond y mae llawer eto heb gyttuno yn nghylch natur y sancteiddrwydd yma, ac mewn perthynas i'r hyn a all fod yn attalfa i'w gynnydd. Y Sosiniaid a ddadleuant fod yr athrawiaeth am Iawn Crist yn dymchwelyd yr angenrheidrwydd am fuchedd sanctaidd. Y Pabyddion a ddywedant yr un modd am gyfrifiad o gyfiawnder Crist; ac y mae yr un cyhuddiad yn cael ei roddi gan eraill yn erbyn yr athrawiaeth am etholedigaeth, effeithioldeb dwyfol ras yn nychweliad pechaduriaid, a ffyddlondeb Duw yn nghadwedigaeth credinwyr mewn cyflwr o ras hyd y diwedd. Ar y llaw arall, y mae yr Ysgrythyr yn gosod sylfaen pob gwir sancteiddrwydd yn y pethau hyn, fel na's goddefa i ddim gael ei alw yn sancteiddrwydd gwirioneddol heb grediniaeth o'r pethau hyn, a phrofiad o'u dylanwad.

Gan hyny, *Yn gyntaf*, Y mae natur Duw megys y'i datguddir i ni, yn nghyd a'n hymddibyniad arno ef, y

rhwymedigaeth sydd arnom i fyw iddo, yn nghyda natur ein gwynfydedigrwydd yn y mwynäad o honaw, yn gofyn yn anhebgorol i ni fod yn sanctaidd. Mae sancteiddrwydd natur Duw yn cael ei wneuthur yn rheswm sylfaenol yn mhob rhan o'r Ysgrythyr, o'r angenrheidrwydd am sancteiddrwydd ynom ni. "Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf fi."—Ac er dangos tragywyddol uniondeb, a pharäad grym y rheswm hwn, fe'i hail grybwyllir dan oruchwyliaeth yr Efengyl,—"Eithr megys y mae yr neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd, byddwch chwithau hefyd sanctaidd ym mhob ymarweddiad; oblegid y mae yn ysgrifenedig, Byddwch sanctaidd; canys sanctaidd ydwyf fi," Lef. 11. 14. a 1 Pedr 1. 15, 16. Hysbysai Duw hwy fod ei natur ef y fath, fel na's gallai fod y fath gymmundeb rhyngddo ef a hwy, heb eu bod yn sanctaidd: "Myfi yw yr Arglwydd, yr hwn a'ch dug chwi o dir yr Aipht i fod yn Dduw i chwi: byddwch chwithau sanctaidd; canys sanctaidd ydwyf fi," Lef. 11. 45. Ni's gellir cymmal yr anrhydedd a fwriedir heb hyn. I'r perwyl yma y rhoddir y darluniad yma o'i natur i ni:—"O herwydd nid wyt ti Dduw yn cwyllysio anwiredd, a drwg ni thrig gyda thi. Ynfydion ni safant yn dy olwg; caseaist holl weithredwyr anwiredd. Dyfethi y rhai a ddywedant gelwydd: yr Arglwydd a ffieiddia y gwr gwaedlyd a'r tywyllodrus," Salm 5. 4—6. A chyfattebol i hyn yw y geiriau hyny o eiddo y prophwyd, "Ydwyt lanach dy lygaid nac y gelli edrych ar ddrwg, ac ni elli edrych ar anwiredd." Y mae efe y fath Dduw, mor bur, mor sanctaidd, fel na's gall ymhyfrydu mewn ynfydion, celwyddwyr, neu weithredwyr anwiredd; ac y mae yr apostol yn ymresymu yn yr un modd, "Bydded genym ras, trwy yr hwn y gwasnaethwn Dduw wrth ei fodd, gyda gwylder a pharchedig ofn, oblegyd ein Duw ni sydd dân ysol." Efe a scilia ei ddadl am yr angenrheidrwydd o sancteiddrwydd yn addoliad Duw, yn yr ystyriaeth o sancteiddrwydd ei natur, yr hon megys tân ysol, a ddifa ba beth bynnag a fyddo yn anghysson â hi ei hun-

an. Am ba achos, y gorchymynai Duw yn y modd mwyaf pendant, na byddai dim afiau neu ansanctaidd yn ngwersyll ei bobl, oblegyd ei bresenoldeb ef yn eu plith, yr hwn sydd ei hunan yn sanctaidd: ac efe a dystiai oni's byddent yn wyliadwrus at hyn yma, y gadawai efe hwy. E fyddai yn well i'r hwn sydd yn penderfynu peidio bod yn sanctaidd, geisio rhyw Dduw arall i'w addoli; ni's derbynir mo hono byth gyd a'n Duw ni; ac am hyny yr oedd y cenhedloedd, y rhai a ymroddent i bob halogrwydd, yn dychymygu y cyfryw dduwiau ag a fyddent ddrygionus ac aflan, fel y gallent gydffurfio â hwy yn rhwydd, a'u gwasanaethu gyda boddâad; ac y mae Duw yn tystio ei hunan am ddynion o ymarweddiad ysgeler ac anrasol, eu bod yn meddu meddyliau dirgelaidd nad yw efe yn sanctaidd; ond ei fod yn gwbl fel hwy eu hunain; pe amgen, byddai raid iddynt feddwl am ei adael ef neu adael eu pechodau. Salm 50. 21.

Ond y mae yn rhaid i ni sylwi yn ofalus, nad sancteiddrwydd Duw, a'i noeth ystyried, yn unig fel priodoledd dragwyddol yn y natur ddwyfol, yw y sail a'r cymhelliad union-gyrchol i sancteiddrwydd, ond sancteiddrwydd Duw megys y'i hamlygir i ni yn Nghrist Iesu. Dan yr ystyriaeth gyntaf, ni's gallwn ni, y rhai ydym bechaduriaid, wneyd unrhyw gasgliad oddiwrtho, ond yr eiddo Josuah: "Canys Duw sancteiddiol yw efe, Duw eiddigus yw; ni ddioddef efe eich anwireddau, na'ch pechodau." Ni's gellir defnyddio unrhyw ddadl yn rhesymol dros yr angenrheidrwydd o sancteiddrwydd, oddieithr ei bod yn cynnwys ynddi ei hun gymhelliad anogaethol i hyny. Gosod hyn allan fel peth angenrheidiol, ac ar yr un pryd fel peth anmhossibl, nid yw y ffordd debyccaf i beri cynnydd arno. Ni's dichon un creadur fod yn feddiannol ar y fath berffeithrwydd mewn sancteiddrwydd ag a gyfatteba yn berffaith i burdeb anfeidrol y natur ddwyfol, heb ymostyngiad cyfammodol;—Ond sancteiddrwydd Duw fel y mae yn Nghrist, ac fel y mae yn cael ei arddangos yn Nghrist i

ni, a ddengys i ni yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd, ac a ddyru i ni y cymhelliad prïodol i hyny. Mae rhagoriaethau gogoneddus Duw yn ymddangos yn fwy ysplenydd a thyniadol ynddo ef, nac o'u hystyried wrthynt eu hunain: fe roddir goleuni gwybodaeth gogoniant Duw i ni, yn wyneb Iesu Grist; hyny yw, fe wneir amlygiadau eglur o'i ragoriaethau gogoneddus, y rhai ydynt nid yn unig yn gyfarwyddol i sancteiddrwydd, ond hefyd yn gynnyrchiol o sancteiddrwydd. Ac yn neillduol, y mae sancteiddrwydd tanllyd Duw yn cael ei arddangos yn y fath fodd i ni yn Nghrist, fel, er nad yw yn colli dim yn y datganiad o'r angenrheidrwydd anhebgorol o sancteiddrwydd yn mhawb a nesäont atto ef, eto y mae wedi ei dymheru yn y fath fodd â gras ac ymostyngiad, ag a allo ein calonogi i ymegnïo am gydffurfio âg ef.

Ac yn nghyd ag arddangosiad o sancteiddrwydd Duw yn Nghrist, y mae datguddiad yn cael ei wneyd o'r sancteiddrwydd ynom ni a ofyna, ac a gymeradwya efe. Ar un ystyriaeth, gellir dywedyd na's gofyna ac na's derbynia Duw unrhyw sancteiddrwydd, ond a fyddo yn drwyadl berffaith; a lle bo unrhyw ball, bod y cwbl yn gollfarnedig, Iago 2. 11. Ni's gall hyn namyn dyry su enaid pechadur; —ond yn awr, fel y mae Duw yn Nghrist, trwy ei gyfryngdod ef, y mae efe yn cymeradwyo y cyfryw sancteiddrwydd ag sydd gyrhaeddadwy i ni, fel na's digalonir un dyn yn ei ymgais i'w gyrhaeddyd.

Y mae hefyd yn a thrwy Grist, allu ysbrydol o ras yn cael ei weinyddu, yr hwn a weithia y gras yma ynom ni. Gan hyny, nyni a dynwn o'r ffynnon hon, nid yn unig y rhesymau dros yr angenrheidrwydd o sancteiddrwydd, ond hefyd gymhelliadau ffyniannus i hyny.

Nyni a allwn ystyried yn mha bethau yn neillduol y mae grym y rheswm yma yn cael ei gludo i ni, neu pa rai ydynt y rhesymau pa ham y dylem ni fod yn sanctaidd am fod Duw yn sanctaidd: ac y maent y tri hyn yn bennaf.

1. Am mai yn hyn y mae ein holl gydffurfiad ni â Duw,

yr hyn yw ein rhagorfraint a'n hanrhydedd ni, yn gynnwysedig. Fe'n crëwyd ni ar y dechreu yn nelw Duw; ac yn hyn y cynnwysid gwynfydedigrwydd ein cyflwr cyntaf. Ond nyni a gollasom hyn trwy ddyfodiad pechod i fewn; ac oddieithr bod ffordd i ni i'w gyrhaeddyd drachefn, nyni a fyddwn byth yn ol o ogoniant Duw, ac yn fyr o ddyben ein crëadigaeth: ac e wneir hyn yn, a thrwy sanctteiddrwydd yn unig. Gan hyny, nid yw ond ofer i un dyn ddysgwyl rhan yn Nuw, nac mewn dim a fydd er ei lesâad tragywyddol, oni bydd yn ymestyn at gydffurfiad âg ef; canys y mae y cyfryw ddyn yn dirmygu yr holl ogoniant a amcanodd Duw iddo ei hunan yn ein crëadigaeth.

2. Y mae grym y ddadl yn deillio oddiar y berthynas a ddwg a'n cymmundeb gweithredol a Duw. Fe'n gelwir at hyn, a dylem ymgais atto yn yr oll a wnelom gyda phob dyledswydd. Oni bydd yn ein holl ddyledswyddau gymmundeb gwirioneddol â Duw, nid ydynt namym curo awyr ar antur. Ac yn awr, gan fod Duw yn sanctaidd, oni byddwn ninnau yn ol ein gradd yn sanctaidd hefyd, ni's gall hyn fod; canys ni's cymeradwya Duw unrhyw ddyledswydd oddiwrth ddynion ansanctaidd, ac ni's gogoneddir ef ynddynt; ac am hyny, y mae efe yn eu gwrthod yn bendant i'r dybenion hyny. Dyledswydd dda yw pregethu y gair, "Ond wrth yr annuwiol y dywedodd Duw, Beth sydd i ti a fynegych ar fy neddfau, gan dy fod yn casau addysg, ac yn taflu fy ngeiriau i'th ol,"—gan dy fod yn ansanctaidd? Mae gweddïo yn ddyledswydd dda; ond wrth yr halogedig y dywedodd Duw, "Pan estynoch eich dwylaw, mi a guddiaf fy llygaid rhagoch: hefyd, pan weddïoch lawer ni wrandawaf;" a'r un modd y gellid dywedyd am bob dyledswydd arall; onid ydym yn sanctaidd, fe'u collir yn dragywyddol o ran eu dybenion priodol; canys nid oes cymmundeb rhwng goleuni a thywyllwch. "Goleuni yw Duw, ac ynddo ef nid oes dywyllwch; os dywedwn fod i ni gymdeithas âg ef, a rhodio yn y tywyllwch," fel y mae pawb ansanctaidd yn gwneyd, "celwydd-

og ydym, ac nid ydym yn gwneuthur y gwirionedd; eithr os rhodiwn yn y goleuni megis y mae efe yn y goleuni, y mae i ni gymdeithas â'n gilydd; a'n cymdeithas ni yn wir sydd gyd a'r Tad, a chyd a'i Fab ef Iesu Grist." Yn awr gan hyny, pwy gan ystyried y pethau hyn, o gariad at unrhyw bechod, neu o gydffurfiad â'r byd, a gollai y budd o'r holl gyflawniadau hyny, yn y rhai ond odid y bu efe yn llafurio yn helaeth!

3. Mae yn deillio oddiar ei berthynas â'n mwynäad dyfodol o Dduw. Dyma ein dyben mawr, ac os yn ol y byddwn o'i gyrhaedd, buasai yn well i ni fyrdd o weithiau pe na's buasem erïoed; canys heb hyn, y mae trueni tragywyddol yn anocheladwy. "Heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd;" y "pur o galon" yn unig, "a welant Dduw;" a thrwy hyn yn unig y'n gwneir "yn gymhwys i gael rhan o ettifeddiaeth y saint yn y goleuni." Nid oes un dychymyg wedi ynfydu cymmaint ar ddynolryw, nac mor niweidiol iddynt, ag yw hyn, y dichon i rai heb eu sancteiddio yn y fuchedd hon, gael eu cymeryd drachefn i'r cyflwr o wynfydedigrwydd yr hwn sydd gynnwysedig mewn mwynäad o Dduw. Ni's gall un meddwl fod yn fwy gwaradwyddus i'w ogoniant ef, nac yn fwy annghysson a natur pethau:—canys ni's gallai y cyfryw bersonau ei fwynhau ef, ac ni's mynai Duw ei hunan fod yn wobrwy iddynt hwy. Ni's gall eu bod yn meddu dim trwy yr hyn yr ymlynont wrtho ef fel eu daioni penaf, ac ni's gallant weled dim ynddo ef a ddyru iddynt orphwysfa a boddlonrwydd. Gan hyny, y mae pawb ansanctaidd a ymwenceithiant iddynt eu hunain â gobaith o'r nefoedd, yn gwneuthur hyny yn unig oddiar gamsyniadau am Dduw a dedwyddwch, trwy yr hyn y maent yn eu twyllo eu hunain. Lle yw y nefoedd, yn yr hwn ni's mynant, ac ni's gallant fod; lle na's dymunir ganddynt, ac nad yw yn gymhwys iddynt. Gan hyny, nyni a welwn yr angenrheidrwydd amlwg am sancteiddrwydd, wrth ystyried natur sanctaidd Duw, yr hwn y gobeithiwn gael ei fwynhau.

Oddiwrth hyn gwelwn y fath foddion effeithiol er cyfodi rhagfarn yn erbyn gwir sancteiddrwydd, a ddyfeisiodd y rhai hyny na's adeiladant ef ar un sylfaen arall, ac nas annogant atto trwy unrhyw gymhelliad arall, onid ei fod yn meddu teilyngdod ger bron Duw;—canys, pa un bynnag a gredir ac a gydsynir a'r dychymyg yma a'i peidio, mae gwir sancteiddrwydd yn cael ei ddystrywio oddieithr cyflèu rhyw well rheswm yn anogaeth i sancteiddrwydd, na hyn. Gwrthoder y cymhelliad yma, ac nid oes angen am dano; ac yr wyf yn credu mai felly y mae gyda llaweroedd, y rhai wedi eu dysgu nad oes deilyngdod yn perthynu i weithredoedd da, a benderfynasant eu bod yn llwyr ddifudd. Cydsynier â'r cymhelliad yma, ac felly dinystrir natur gwir sancteiddrwydd, a throir ei holl rith ddyledswyddau, yn ffirwythau balchder ysbrydol, a dallineb coelgrefyddol; ond nyni a welwn fod i'r angenrheidrwydd am sancteiddrwydd seiliau eraill, cysson a gras yr efengyl.—Nid oes un cymhelliad iddo o effeithiolrwydd gwirioneddol, nad yw yn cydsino yn berffaith a'r holl athrawiaeth o rad ras Duw trwy Iesu Grist; ac nid oes yr un yn rhoddi y cefnogaeth lleiaf i hunan dyb am haeddiant o'r eiddom ni, nac yn cin tynu o ymddibyniad trwyadl ar Grist yn unig am fywyd ac iachawdwriaeth. Eto maent y cyfryw ag sydd yn ei gwneuthur mor angenrheidiol i ni fod yn sanctaidd a bod yn gyfiawn. Mae y neb a feddylio y gall foddio Duw a'i fwynhau ef heb fod yn sanctaidd, yn ei wneuthur ef yn Dduw ansanctaidd, gan roddi y gwarth mwyaf a ellid ei ddychymygu arno ef. Duw a waredo eneidiau tlodion o afael y twyll hwn! Y gwir yw, mae yn rhaid i ti adael dy bechodau neu adael dy Dduw.

Oddiyma hefyd y gwelwn y ffoledd a'r geudeb o'r cyhuddiadau trystfawr, trwy y rhai yr haerir fod gwirioneddau pwysicaf yr efengyl, yn annghyson a sancteiddrwydd, a gwrthwyneb iddo. Mae yr athrawiaeth o iawn Crist, medd y Sosiniaid, yn dinystrio pob ymgais at fuchedd sanctaidd; canys pan fyddo dynion yn credu fod Crist wedi rhoddi iawn i gyfiawnder Duw dros eu pechodau, hwy a fyddant

yn ddïofal yn eu cylch; ïe byddant byw ynddynt:—ond, fel y mae y dyb yma yn traws-newid credinwyr i anghenfilod o anniolchgarwch a ffolineb, felly y mae wedi ei adeilaċu ar y sail hon, os tynnodd Crist euogrwydd pechod ymaith, nad oes un rheswm yn natur pethau, nac yn yr Ysgrythyrau, pa ham y dylem fod yn sanctaidd, neu ymgadw rhag awdurdod a halogrwydd pechod, neu ogoneddu Duw yn y byd, yr hyn sydd gasgliad gwan, gau, ac ynfyd. Mae y Pabyddion ac eraill yn rhoddi yr un achwyniad yn erbyn yr athrawiaeth o gyfiawnäad trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist; ac fel y mae yn syn genym pan ystyriom y modd gwawdus y defnyddir yr achwyniad yma gan y Pabyddion, felly mae yn fwy syn genym feddwl am y modd cableddus y ceisia rhai yn ein mysg ni ein hunain, waradwyddo y gwirionedd yma, fel pe byddai raid i bawb a'i credont, o gaulyniad fod yn esgeulus o sancteiddrwydd a gweithredoedd da. Yn awr, er nad wyf yn gwadu y gall y cyfryw ddynion ganfod cyssylltiad tra grymmus rhwng y pethau hyn yn eu meddyliau eu hunain, gan fod egwyddor yn nghalon lygredig dyn i "droi gras Duw i drythyllwch," eto y gwirionedd sanctaidd yma, yn athrawiaethol ac ymarferol, yw yr egwyddor fawr a gynnyrcha sancteiddrwydd a ffrwythlondeb mewn ufudd-dod, fel y ceir profi yn fuan; ond yr hyn oll a ddywedaf yn bresenol yw, fod y gwrthddadleuwyr hyn yn llwyr gamgymeryd ein golygiadau am y Duw a wasanaethwn. Mae Duw yn Nghrist, yr hwn yr ydym ni yn ei wasanaethu wedi datguddio cymmaint o'i sancteiddrwydd ei hunan i ni, ac o'r peth sydd ofynol oddiwrthym ni ar y cyfrif hyny, fel y gwyddom mai ynfyd, drygionus, a chableddus, fyddai i neb feddwl rhyngu bodd iddo ef, neu ddyfod i fwynäad o hono ef, heb y sancteiddrwydd hwnw y mae efe yn ei ofyn, ac na's gall o ran ei natur ei hunan lai na'i ofyn. Dychymyg afresymol yw, meddwl fod gras, trugaredd, neu gariad y Duw hwn, yr hwn yw ein Duw ni, yn calonogi y rhai ydynt yn ei wir adnabod ef, i esgeuluso ufudd-dod sanctaidd iddo ef.

Yn mhellach, oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, gwelwn fod genym oll le i'n beiaw ein hunain am ein segurdod a'n hesgeulusdra yn y peth yma. Mae lle i ofni nad ymdrechodd neb o honom fel y dylasem i gynnyddu yn y cyffelybrwydd yma i Dduw. Pa ham yr ydym ni mor esgeulus yn yr ymestyniad at ein prif les a'n dedwyddwch? Pa ham y goddefwn i bob peth, pa ham y goddefwn i ddim, lithio ein meddyliau oddiwrth y bwriad yma? Gan hyny, fel y cyfranwyf ryw beth tuag at ddeffroi ein diwydrwydd yn hyn, crybwyllaf rai cymhelliadau a chyfarwyddiadau, fel y'n caffer yn hyn yma, yn "perffeithio sancteiddrwydd yn ofn yr Arglwydd."

Yn gyntaf, Yn ein cyffelybrwydd i Dduw y cynnwysir ardderchowgrwydd a rhagoriaeth ein natur goruwch holl grëaduriaid eraill y byd, a'n personau, uwchlaw yr eiddo dynion eraill, y rhai nid ydynt gyfrannogion o'i ddelw ef. Gyda golwg ar bethau eraill, dyma yr ardderchawgrwydd goruchelaf y dichon natur grëedig gyfrannogi o honaw. Yr oedd pethau eraill yn meddu argraffiadau allanol o'i fawredd a'i ddaioni arnynt, ond dyn yw yr unig greadur yn y byd isod a feddai gyfaddasrwydd i dderbyn delw Duw ynddo. Trwy golli delw Duw, collodd ein natur ei rhagoriaeth, ac yr ydym wedi ein darostwng mewn gradd, megis yn gydwastad a'r "anifeiliaid a ddyfethir;"—canys, er fod rhyw weddillion gweiniaid o'r ddelw yma yn aros eto ynom, mae yn ddilys fod ynom, o ran ein dyben priodol, fwy o'r natur anifeilaidd, nac o'r ddwyfol. Gan hyny, adennilliad y rhagoriaeth hwnw i'n natur, a gollasom yn ynfyd, yw ein hadferiad trwy ras Iesu Grist i'r ddelw hon. A chan fod Duw wedi dyrchafu ein natur trwy undeb ag ef ei hunan, yn mherson ei Fab, y mae yn gofyn i ni gadw ei hurddas.

Drachefn: Hyn yw y peth a ddyru y fath ragoriaeth i bersonau rhai uwchlaw eraill; "Y cyfiawn a ragora ar ei gymmydog." Nid mynych y mae felly o ran doethineb cyfoeth, neu awdurdod gwladol; nid oes dim a all gadarn-

hau y rhëol gyffredinol hon, ond cyffelybrwydd i Dduw: am hyny y gelwir y Saint yn "rhai rhagorol y ddaear;"—a pho mwyaf sanctaidd, mwyaf anrhydeddus. Dywedir am y drygionus eu bod yn ffiaidd, ac am y cyfiawn, dywedir eu bod yn werthfawr; a hyn a barodd arswyd lawer gwaith ar ysbrydoedd pechaduriaid ysgeler, oddiar ymddangosiad Duw mewn dynion sanctaidd. E all annuwiolion, wedi eu cyffroi gan eu llesion amserol, eu rhagfarnau a'u chwantau, eu gwaradwyddo a'u herlid; ond yn ddirgelaidd yn eu calonau, y maent yn arswydo rhag y cyffelybrwydd i Dduw sydd ynddynt; am ba achos, y maent weithiau yn eu harswydo, weithiau yn gwenieithio iddynt, ac weithiau yn ewyllysio pe na's byddent, fel yr ymddygant at Dduw ei hunan. Gan hyny, pa ham yr ymfliwn yn nghylch pethau eraill? Pa ham y treuliwn ein llafur yn ofer, a'n nerth am yr hyn nid yw fara? Y cyfryw ydyw pob ymdrechion am bob rhagoriaeth arall, fel yr ymddengys cyn pen hir.

Yn ail, Yn ol ein cynnydd yn y cyffelybrwydd hwn i Dduw, y bydd ein dynesäad i ogoniant. Yr ydym yn tynu bob dydd tua'n diwedd naturiol; ac onid ydym yn tynu hefyd yn nes i'n diwedd goruwch-naturiol mewn gogoniant, y mae ein cyflwr o'r fath druenusaf. Ac nid yw dynion namym eu twyllo eu hunain os ydynt yn tybied eu bod yn nesâu i ogoniant mewn amser, ac heb nesâu atto mewn gras. Mae yn rhyw arddangosiad o ogoniant dyfodol, y bydd i ni yn hyny fod yn gyffelyb, neu *gydstad âg angelion*; ond ni chynnwysa hyny namyn darluniad o un peth neillduol a berthyna i'r cyflwr hwnw: darluniad rhagorach o hono o lawer yw, y byddwn ni yn gyffelyb i Dduw; "Pan ymddangoso efe, ni a fyddwn yn gyffelyb iddo; canys ni a gawn ei weled ef fel ag y mae;" a'r ynfydrwydd mwyaf yw i neb feddwl y carant hwy yn y byd hwnw yr hyn a gaseir ganddynt yn y byd yma: mai yr hyn a ffieiddiant yn awr a fydd eu gogoniant yno:—Gweled wyneb Duw mewn cyfiawnder, a digoni a'i ddelw ef. Gan

hyny, pa fodd y gallwn ni agosâu yn ysbrydol at y gogoniant yma, yn gyfatteb'ol i'n hagosäad beunyddiol tua diwedd ein heinioes naturiol? Nid oes yr un ffordd arall i ni, ond trwy gynnyddu yn y cyffelybrwydd hyn i Dduw mewn sancteiddrwydd. Trwy hyn yn unig y'n "cyfnewidir i'w ddelw ef, o ogoniant i ogoniant:"—o un radd ogoneddus o ras i un arall, hyd oni byddo i un cyfnewidiad mawr arllwys y cwbl o ras a sancteiddrwydd mewn gogoniant tragywyddol: ac yn ein dymuniadau am y nefoedd, nid ydym yn golygu ein rhyddäad oddiwrth drallod, yn gymmaint ag oddiwrth bechod; ac nid ydym yn amcanu cymmaint yn y lle llaenaf at ddedwyddwch trwyadl, ag at sancteiddrwydd perffaith. Gan hyny, megis y dymunem dynu tua'n gorphwysfa,—megis y dymunem gael gwystlon a blaen-brawf o honi yn ein heneidiau ein hunain, dyma yr hyn y dylem ymestyn atto. Ein dyledswydd bob amser yw, "perffeithio sancteiddrwydd yn ofn yr Arglwydd." A hyn o'i ddilyn yn briodol, sydd yn cyfnewid yr enaid yn barhaus i ddelw Dduw.

Yn drydydd. Trwy ein cydffurfiad á Duw yn unig y gallwn fod yn wir ddefnyddiol yn y byd. Daioni yw Duw, a daioni a wna efe; efe yw Cynhalydd a Chymmwynaswr mawr yr holl greädigaeth: a'r rhai ydynt gyffelyb i Dduw yw yr unig rai ydynt ddefnyddiol yn y byd. Mae yn wir y gall llawer o ddaioni defnyddiol gael ei wneyd gan eraill, oddiar amryfal argyhoeddiadau, ac i amrywiol ddybenion; ond y mae rhyw falch neu arall yn eu holl gyflawniadau. Mae naill ai coelgrefydd, neu wagogoniant, neu hunanolrwydd, neu rygl'yddiant, yn ymwthio i bob peth da a wneir gan ddynion ansanctaidd, ac yn dwyn "angau i'r crochan;" fel, er y dichon fod o ryw les i ryw bersonau unigol, nad yw o un llesäad i ddaioni cyffredinol y cwbl. Yr unig un sydd yn wir ddefnyddiol, yw yr hwn sydd yn dwyn delw Duw yuddo; yr hwn sydd yn cymmrychioli Duw yn yr hyn a wna, ac heb andwyo ei gyflawniadau à gan dddybenion o'i eiddo ei hunan. Gan hyny, os mynwn gadw rhagor-

iaeth ein natur a'n personau,—os mynwn nesâu beunydd at ogoniant a gwynfydedigrwydd,—os mynwn fod o ryw fuddioldeb gwirioneddol yn y byd, ein prif ymgais a ddylai fod am gynnyddu mwy-fwy i'r cyffelybrwydd yma i Dduw, yr hyn sydd gynnwysedig yn ein sancteiddrwydd.

Efallai y gofynir, Pa beth sydd raid i ni ei wneyd, fel y cynnyddom fwy fwy i'r cyffelybrwydd yma i Dduw? Attebaf, Y mae rhai grasau y rhai ydynt yn gynnyrchiol o gyffelybrwydd, ac eraill ydynt yn arwyddoccâol, neu ddynodawl o'r cyffelybrwydd hwn.

Y rhai o'r rhyw gyntaf ydynt ffydd a chariad. Mae ffydd yn rhan o'n sancteiddrwydd, fel y mae yn ras yr Ysbryd sydd yn sancteiddio; ac yn egwyddor o'n santeiddrwydd, fel y mae yn puro y galon. Mae rhagoriaethau gogoneddus Duw yn llewyrchu yn wyneb Iesu Grist, ac yr ydym ni yn eu gweled trwy ffydd;—a'r effaith yw, "ein cyfnewid i'r unrhyw ddelw." Dyma lle mae dirgelwch mawr cynnydd sancteiddrwydd.

Mae yr un tueddiad ac effeithiolrwydd i gariad hefyd. Rhaid i'r sawl a fynno fod yn debyg i Dduw ei garu ef; a'r neb a garo Dduw yn ddiffuant, a fydd yn gyffelyb iddo ef. Mae pob agosäad at Dduw trwy gariad gwresog ac ymhyfrydiad, yn draws newidiol; ac y mae yn gweithredu trwy adfyfyriad,—mawrygiad,—a hyfrydwch mewn ufuddod.

Mae cariad yn gweithio trwy adfyfyriad. Mae yn naturioliddo fyfyrio ar ragoriaethau Duw yn Nghrist; ïe, dyma yw ei fywyd. Bydd calon wedi ei llanw â chariad Duw, yn myfyrio nos a dydd ar ei ragoriaethau gogoneddus, gan ymlawenychu ynddynt. "Cenwch i'r Arglwydd ei saint ef, a moliennwch wrth gofladwriaeth ei sancteiddrwydd ef." Ac felly y gwna cariad gyda golwg ar ei holl brïodoliaethau eraill ef. Ac e gynnyrcha hyn gyffelybrwydd ynom ni iddo ef. Cyfnewidir ein meddyliau i ddelw yr hyn y myfyriom arno; ac ymdrechwn am gael ein bucheddau wedi eu cydffurfio ag ef.

Mae cariad yn gweithio trwy fawrygiad hefyd. Dyna lais cariad, "Mor fawr yw ei ddaioni!—mor fawr yw ei brydferthwch! Mae yr enaid megis wedi ei orlenwi â'r golygiad ar ragoriaethau gogoneddus Duw yn Nghrist, heb un llwybr ganddo i ddynodi ei serchiadau ond trwy fawrygiad; a'r prydferthwch Dwyfol yma, yw y cymmesuredd sanctaidd a hawddgar hyny o ogoniant (os goddefir i mi ymadroddi mor anmhriodol) yn holl briodoliaethau Duw, y rhai ydynt oll wedi eu cyd-ddyrchafu mewn cyfattebolrwydd dymunol yn Nghrist, yr hwn yw gwrthddrych priodol cariad. Gweled sancteiddrwydd, purdeb, a chyfiawnder anfeidrol, yn nghyda chariad, daioni, a thrugaredd anfeidrol, oll yn cael eu cyd ogoneddu yn a thuag at yr un pethau a phersonau, o'r hyn ni's cair un cip olwg yn y byd hwn heb Grist,—yw yr hawddgarwch Dwyfol hwnw sydd yn sugno cariad enaid crediniol, ac yn ei lanw â mawrygiad sanctaidd; ac y mae hyn y ffordd fwyaf effeithiol i berffeithio ein cydffurfiad ag ef. Mae cariad yn peri hyfrydwch mewn ufudd-dod. Yr ydys yn ddigon hysbys o'r engrhaifft yn Jacob; ymddangosai ei saith mlynedd gwasanaeth ef yn fyr, ac o ganlyniad yn esmwyth iddo, o herwydd y cariad oedd ynddo at Rahel. Efe a wnelai gyda hyfrydwch, yr hyn ni's gwnaethai wedi'n am unrhyw gyflog;—ond y mae genym engrhaifft fwy:—Dywedai ein Harglwydd Iesu Grist, am yr holl ufudd-dod a ofynid ganddo ef, "Da genyf wneuthur dy ewyllys o Dduw, a'th gyfraith sydd o fewn fy nghalon;"—ac eto nyni a wyddom mor ofnadwy i natur oedd y pethau a wnaeth ac a ddyoddefodd efe mewn ufudd-dod i'r gyfraith hono: ond ei gariad annhraethol at Dduw a dynion, a wnai y cyfan yn hyfrydwch iddo. Oddiyma y deillia ymröad a mynychdod yn mhob rhyw gyflawniadau crefyddol, a pha le bynnag y byddo hyn, fe ffynna sancteiddrwydd, ac o ganlyniad, ninnau a gynnyddwn yn ein cydffurfiad á Duw.

Heblaw hyn: Y mae grasusau ydynt yn brofion o'n cyfrifoldebrwydd i Dduw. Y cyntaf o'r rhai hyn ydyw daioni,

tiriondeb, cariad; yn nghyda pharodrwydd i wneuthur daioni, a maddeu, a hyn tuag at bob dyn, ar bob achlysur: a dylem ystyried hyn fel y mae yn wrthwynebol i ddigofaint, cenfigen, malais, ymddïal, hunanolrwydd, y rhai ydynt oll yn llwyr wrthnaws i'r gras o sancteiddrwydd; ac yr ydwyf yn ofni nad yw hyn yn cael yr ystyriacth a weddai; canys y mae yn beth rhy gyffredin i ddynion ddadleu yn uchel dros eu tebygolrwydd i Dduw, tra y maent yn cynnrychioli y diafol yn drwyadl yn yr oll a wnelont o'r braidd. Gan hyny, os mynem ni fod yn gyffelyb i'n Tad nefol, os mynem ei arddangos ef i'r byd, rhaid i ni wneuthur hyny trwy yr ansawdd ysbryd yma, a gweithredoedd cyfattebol i hyny. Mae llawer o'n sancteiddrwydd yn gynnwysedig yn hyn. Rhaid darostwng llawer o nwydau afrëolaidd; ac attal tueddiadau cryfion i ymollwng gyda phrofedigaethau; rhaid bod yn wyliadwrus i amryw ddyledswyddau, a chadw amryfal rasusau i fynu i'w hymarferiad prïodol. Rhaid yw gwrthsefyll yr holl haid o demtasiynau, y rhai y mae eu holl rym yn gynnwysedig mewn rhith hunanofal. Pan fyddo dynion yn byw iddynt eu hunain, ac wrth eu bodd am nad ydynt yn niweidio neb, er na byddont yn gwneuthur un daioni;—pan fyddont yn ddïogel yn eu tyb eu hunain, yn hunanol, digofus, ac afrywiog; gan gyfyngu eu caredigrwydd i'w perthynasau; heb wneuthur nemmawr ddaioni, ond yr hyn y'n gorfodir i'w wneyd;—cyfrif pob cymmwynas a wneir i eraill yn golled; a meddwl mai doethineb yw bod yn ochelgar, ac annghredu angenrheidiau dyn; mewn gair, gwneuthur Hunan yn eithaf-nod eu bywyd; pa beth bynnag a all fod eu proffes, ychydig y maent yn ei gynnrychioli ar Dduw yn y byd, nac yn ei ogoneddu arno ef: ond ar y llaw arall, y mae y dyn y byddo ei natur wedi ei huniawni â gras; ac o ganlyniad, sydd yn ddyn defnyddiol, cymmwynasgar, rhydd oddiwrth ddichell, cenfigen, a hunanolrwydd, y cynnrychioliad gorau o Dduw, a allwn gael ar y ddaear.

Mae yr ansawdd calon yma yn ofynol oddiwrth y saint mewn modd arbenig. Y mae Duw ei hunan yn gweithredu tiriondeb mewn modd neillduol tuag attynt hwy. Efe yw Iachawdwr pob dyn, yn enwedig y rhai a gredant; ac fe orchymynir i ninau wneuthur da i bawb, yn enwedig y rhai sydd o deulu y ffydd. Dylem gydffurfio à Duw, nid yn unig fel y mae yn Dduw Natur, ond fel ein Tad Nefol hefyd, yr hwn sydd yn ddaionus mewn modd arbenig i holl deulu ei blant. Yn wir, pan welwyf ddynion yn dueddol i gadw hen amrafaelion ar gôf, ac yn barod i dderbyn tramgwyddiadau newyddion, yn amnghrediniol o ddiffuantrwydd eraill, y rhai a broffesant hoffder at gariad a heddweh, yn barod i gymeryd pob peth yn yr ystyr waethaf, yn afrywiog a bryntion tuag at y rhyw hyn neu y math arall o gredinwyr, ni's gallaf lai na'i olygu yn ystaen mawr ar eu proffes, pa beth bynnag arall yw.

Gwirionedd sydd ras arall o'r un natur; hyny yw, geirwirdeb a diffuantrwydd mewn geiriau. Effaith adnewyddiad o ddelw Duw yw hyn, a chynnrychioliad o honaw ef i'r byd. Nid oes amrhyw ddyledswydd yn cael ei chymhell arnom yn amlach na hyn: "O herwydd paham, gan fwrw ymaith gelwydd, dywedweh y gwir bob un wrth ei gymydog;" "gan fod yn gywir mewn cariad:"—Ac y mae yr ystyriaeth o hyn yn dra angenrheidiol i bawb sydd yn ymwneyd mewn masnach; a hyny oblegid yr anfri a fwriwyd ar fasnach trwy arferion drwg llawer oedd,—ac oblegid fod enciliad oddiwrth y gwirionedd yn debyg i ymgymmell i feddyliau masnachwyr mewn nid o ffyrdd yn ddiarwybod iddynt. "Drwg, drwg, medd y prynwr; ond pan el efe o'r neilldu, efe a ymffrostia:" a "na, da yw," medd y gwerthwr; ond wedi iddo ei werthu, efe a ymffrostia o'r fantais a wnaeth efe trwy ei eiriau. Y mae delw Satan ar y pethau hyn; ac y maent yn llwyr wrthwynebu i Dduw y gwirionedd. Rhaid i mi ddywedyd, am bob lle na's gwneir y gofal mwyaf am eirwirdeb, yn ol gwyliadwriaeth fanylaf diffuantrwydd a chariad, fod holl nodau delw Duw yno,

nid yn unig wedi eu hanmharu, ond wedi eu dilëu, a delw Satan yn eithaf amlwg; ac ni's gallwn lai na gwneuthur y sylwadau hyn fel y canlyniad mwyaf naturiol i'r prif reswm cyntaf a gynnygiais dros yr angenrheidrwydd o sancteiddrwydd.

PEN. II.

Ein hetholedigaeth dragywyddol yn achos o, a chymhelliad i sancteiddrwydd.

Bwriad tragywyddol ac annewidiol Duw yw, fod i'r rhai oll a amcanodd efe eu dwyn i ogoniant, gael eu sancteiddio yn mlaenaf. Ac fel na byddo i ni gam olygu am ein cyflwr, nac adeiladu ein gobaith ar seiliau tywodlyd, y mae efe wedi amlygu y bwriad yma i ni. Pa beth bynnag arall ydym, mewn proffes, gonestrwydd moesol, neu gymmeriad yn yr Eglwys, onid ydym yn feddiannol ar sancteiddrwydd personol, ysbrydol, ac efengylaidd, nid oes i ni un cyfrannogaeth yn y bwriad hwnw o eiddo Duw, trwy yr hyn y mae rhai wedi eu trefnu i iachawdwriaeth a gogoniant; ac ni a gadarnhawn hyn yn fyr. Efe a'n "hetholodd ni yn Nghrist cyn seiliad y byd, fel y byddem yn sanctaidd ac yn ddifcïus ger ei fron ef mewn cariad," Eph. 1. 4. Y dyben a amcanai Duw yn ei arfaeth o etholedigaeth, yw ein iachawdwriaeth dragywyddol ni; ac efe a'n dewisiodd ni fel y byddem yn sanctaidd, fel y moddion anhebgorol i gyrhaedd y dyben hyny; felly y dywedir "i Dduw o'r dechreuad eich ethol chwi i iachawdwriaeth trwy sancteiddiad yr Ysbryd," 2 Thess. 2. 13. Mae grym yr ymresymiad yma yn gynnwysedig yn y ddau beth hyn;

(1.) Bod arfaeth Duw y fath o ran ei natur, fel na chyrhaeddodd neb erïoed y dyben o ogoniant a dedwyddwch, heb y moddion o ras a sancteiddrwydd. Mae yr un arfaeth dragywyddol am y naill a'r llall; nid ordeiniodd efe neb i iachawdwriaeth, ond trwy sancteiddiad yr Ysbryd.

(2.) Gan hyny y mae yn eglur na's gallwn gael un prawf o'n cyfrannogaeth yn etholedigaeth Duw, heb sancteiddrwydd. "Y mae cadarn sail Duw yn sefyll, a chanddo y sel hon, Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef," 2 Tim. 2. 19. Yr arfaeth o etholedigaeth oedd mewn golwg gan yr apostol; ac y mae yn ei darlunio fel yr unig beth a ddïogela rhag gwrthgiliad mewn amser o brofedigaethau mawrion. Gan hyny, pa fodd y gwybyddwn ni ein bod yn gyfrannog o'r unig ddïogelwch yma rhag gwrthgiliad hollol? "Pob un sydd yn enwi enw Crist, ymadawed oddiwrth anghyfiawnder." Nid oes un ffordd arall i gael prawf o hyn, ond trwy ymadawiad oddiwrth bob anwiredd, trwy sancteiddrwydd trwyadl. Am hyny y gorchymynir i ni arfer pob diwydrwydd i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr. Y mae yn dragywyddol sicr ynddi ei hunan; ond y mae yn ddyledswydd arnom ni ci gwneyd yn sicr i ni ein hunain; a'r unig ffordd i wneuthur hyn, yw, trwy ganfod ynom ein hunain, ac iawn ymarfer y rhestr hyny o rasusau a dyledswyddau efengylaidd a ddarlunir gan yr apostol. 2 Pedr 1. 5—10.

Mae rhai yn meddwl fod y pethau hyn yn hollol i'r gwrthwyneb; canys hwy a ddywedant fod y dybiaeth o etholedigaeth bersonol gan Dduw, yn nychlyd i natur sancteiddrwydd; ac o dan y rhith yma, y siaradir yn ddrwg am yr athrawiaeth hon. "Canys," meddant, "os yw Duw o dragywyddoldeb, wedi dewis dynion i iachawdwriaeth, pa angen iddynt fod yn sanctaidd? Hwy a allant fyw yn ddïogel yn eu pechodau, a bod yn sicr na's methant y nefoedd yn y diwedd; canys ni's gellir gwrthdroi arfaeth Duw; ac onid ydynt wedi eu hethol, ofer fydd eu holl ymdrechiadau ar lwybrau ufudd-dod sanctaidd; canys ni fyddant, ac ni's gallant fod yn dragywyddol gadwedig."

Y mae yn ofynol symmud yr wrthddadl yma, nid yn unig er mwyn y rhai sydd yn ei defnyddio i gablu yn erbyn y gwirionedd, ond yn benaf er mwyn y rhai a allont deimlo ei grym fel profedigaeth. Gan hyny attebaf, gan ddy-

wedyd, Nid yw y cynghor hwn oddiwrth y sawl a'ch galwodd;—ni's dysgasant y ffordd yma o ddadlu o'r Ysgrythyr; canys yno fe'i darlunir i ni fel y ffynnoneil o bob sancteiddrwydd, gan ei gwneuthur yn gymhelliad cryf i hyny. Gan hyny, onid yw yn fwy diogel i ni lynu wrth dystiolaethau eglur yr Ysgrythyrau, y rhai a gadarnheir gan brofiad credinwyr yn gyffredinol, na gwrando ar y cyfryw wag siarad balch a chyndyn, gan y rhai a fynent lanw eu meddyliau âg anfoddäad ar Dduw a'i ffyrdd?

Heblaw hyny, nyni a ddylem, nid yn unig gredu pob datguddiad dwyfol, ond derbyn y cyfan hefyd yn y drefn y'i gosodir o'n blaen. Gan hyny, sylwn, (1.) Nid ydyw etholedigaeth, o'i hystyried ynddi ei hunan, neu gyda golwg ar ei heffeithiau, yn un rhan o ewyllys datguddiedig Duw; hyny yw, ni's datguddiwyd bod y dyn hwn neu y dyn arall wedi ei ethol, neu heb ei ethol. Gan hyny, nis gall hyn fod yn un ddadl na gwrthddadl yn nghylch dim sydd yn perthynu i ffydd ac ufudd-dod; canys nid ydym yn ei gwybod, ni's gallwn ei gwybod, a pheehod ynom fyddai ymholi iddi. Gall ymddangos i rai, fel y pren gwybodaeth i Efa,—da yn fwyd, teg i'r llygaid, a dymunol i wneyd un yn ddoeth, fel y mae pob peth gwaharddedig yn ymddangos i feddyliau cnawdol; ond ni's gall dynion gasglu un ffrwyth oddiarno ond marwolaeth. Gan hyny, pa wrthddadleuon bynnag a gyfodir yn erbyn yr arfaeth hon, fel y mae ynddi ei hunan;—pa gasgliadau bynnag a wneir oddiar y dybiaeth o fod y dyn hwn, neu nad yw, yn etholedig; y maent oll yn annghyfiawn ac afresymol; ie, yn taro yn erbyn Duw, yr hwn a drefnodd ffordd arall i ddynion i adnabod eu cyflwr, fel y dangosir yn ol llaw.

(2.) Y mae Duw yn anfon yr Efengyl i ddynion, yn ol ei arfaeth o etholedigaeth, ac er ei chwblhad effeithiol; am ba achos y mae ein Hapostol yn dywedyd ei fod ef wrth ei phregethu yn "goddef pob peth er mwyn yr etholedigion, fel y gallent hwythau gael yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist Iesu, gyda gogoniant tragywyddol." 2 Tim. 2. 10.

Felly y dywedai Duw wrtho am aros a phregethu yn Corinth, am fod iddo ef "bobl lawer yn y ddinas hono;" hyny yw, yn ei fwriad grasol.

(3.) I ba le bynnag y delo yr efengyl, y mae yn cynnyg iachawdwriaeth trwy Iesu Grist i'r rhai oll a gredant, a edifarhant, ac a ufuddhant iddo ef. Y mae yn dangos eu dyledswydd yn eglur i ddynion, ac yn addaw eu gwobrwyo mor eglur. Gan hyny, ni's gall neb, oddieithr trwy falchder anngbredimiaeth i'r eithaf, gynnyg gosod arfaeth ddirgelaidd Duw, yn erbyn ei ddyledswydd adnabyddus ei hun, a dywedyd,—"Ni's gwnaf fi nac edifarhau na chredu, nac ufuddhau, hyd oni's gwybyddwyf pa un a etholwyd fi ai peidio; canys ar hyny yr ymddibynna y cwbl yn y diwedd." Os dyma benderfyniad dyn, e all fyn'd yn nghylch rhyw beth arall, ni fedd yr Efengyl ddim i'w ddweyd neu i'w gynnyg iddo ef.

(4.) Yr unig ffordd a drefnodd Duw, trwy yr hon y gallwn ddyfod i adnabod ein hetholedigaeth, yw trwy ei ffrwythau yn ein heneidiau ni ein hunain; ac nid yw yn gyfreithlawn i ni ymholi iddi unrhyw ffordd arall. Mae y rhwymedigaeth a ddyry yr Efengyl arnom ni i gredu unrhyw beth, yn golygu trefn y pethau a fyddo i'w credu eu hunain, a threfn ein hufudd-dod ni; er engrhaifft, pan ddywedir fod Crist wedi marw dros bechaduriaid, nid oes un dyn dan rwymedigaeth union-gyrchol i gredu fod Crist wedi marw drosto ef yn neilldnol, ond, yn unig, ei fod ef wedi marw i gadw pechaduriaid, ac i agoryd ffordd iachawdwriaeth iddynt hwy,—yn mysg pa rai y câ ei hunan. Ar hyn y mae yr Efengyl yn gofyn ffydd ac ufudd-dod gan ddynion; ac y mae dynion dan rwymau i ufuddhau iddi yn hyn; ac hyd oni's gwneir hyn, nid oes un dyn dan rwymau i gredu fod Crist wedi marw drosto ef yn neilldlou. Felly hefyd y mae gyda golwg ar yr etholedigaeth yma; mae dyn yn rhwym i gredu yr athrawiaeth am etholedigaeth, oblegid ei bod wedi ei datguddio yn eglur; ond am ei etholedigaeth bersonol ei hunan, ni's gall gredu am

hyny, onid fel y gwelo Duw yn dda ddatguddio hyny iddo yn ei heffeithiau; ac ni's gall dyn yn gyffiawn ammeu neu aunghredu ei etholedigaeth ei hun hyd oni's byddo yn y fath gyffwr ag y byddo yn aumhossibl i effeithiau etholedigaeth gael eu gweithredu ynddo byth, (os oes y fath gyflwr yn y bydyma.) Canys, fel na's gall dyn tra yn ansanctaidd, feddu prawf o'i fod yn etholedig,—felly ni's gall feddu yr un nad yw yn etholedig, tra fyddo yn bossibl iddo byth gael ei wneuthur yn sanctaidd. Gan hyny, mae holl rym yr wrthddadl yma yn gorwedd yn malchder meddyliau dynion, yn gommedd ymostwng i drefn Duw yn ngoruchwyliaeth ei ras; a'i gyfarwyddyd iddynt at eu dyledswydd: ac y mae yn rhaid i ni eu gadael ar hyn; a dychwelyd at yr hyn sydd genym mewn golwg.

Fe osodir yr athrawiaeth am etholedigaeth allan yn mhob man yn yr Ysgrythyr er calondid a chysur credinwyr; ac i hyrwyddo eu ffordd mewn ufudddod a sancteiddrwydd. Eph. 1. 3—10. Rhuf 8. 28, &c.

1. Mae gras penarglwyddiaethol, a chariad grasol Duw yn hyn, yn gymhelliad o'r fath gryfaf i ni i sancteiddrwydd; canys ni's gallwn ni amlygu ein diolchgarwch iddo am hyn un ffordd, ond trwy ein hufudd-dod sanctaidd. Gan hyny, ystyriwn pa ryw rwymedigaeth y mae hyn wedi ei roi arnom ni, sef bod Duw o dragywyddoldeb, o'i ras penarglwyddiaethol yn unig, wedi ein dewis ni yn gyntaf i fywyd ac iachawdwriaeth trwy Iesu Grist, gan arfaethu yn anghyfnewidiol i'n hachub ni allan o'r dyrfa golledig o ddynolryw, oddiwrth y rhai ni's gallem beri un gwahaniaeth ynom ein hunain? Pa argaff y mae hyn yn ei adael ar ein heneidiau? Pa gasgliad ymarferol a wnawn ni oddiwrth hyn? Un a ddywaid, "Os yw Duw wedi fy newis I fel hyn, yna myfi a allaf fyw mewn pechod fel y mynwyf; bydd pob peth yn dda yn y diwedd, yr hyn yw y cwbl sydd genyf fi i ofalu yn ei gylch;" ond iaith diafol ac nid dyn yw y cyfryw ymadroddion. Efallai y bydd i'r cyfryw syniadau gael eu hergydio i feddwl credadyn, ond y mae y sawl a'u

cofleidio, ac a weithredo wrthynt, yn angenfil mor ysgeler mewn annuwioldeb, fel na's gall uffern ddangos ei waeth. Arferaf beth cofndra yn hyn. Mae yr hwn na's profodd fod iawn synied o gariad Duw yn amlygedig mewn etholedigaeth, yn meddu dylanwad galluog ac effeithiol ar eneidiau credinwyr er eu tueddu i garu Duw a chyflwyno ufudd-dod sanctaidd iddo ef, yn llwyr estronaidd i holl natur a gweithrediadau ffydd. A ellir tybied fod credinwyr y fath angenfilod diderfiad ac anniolchgar, mor ddiffygiol o ddidwylldder sanctaidd, a chariad mabaidd at Dduw, fel y byddai iddynt, yn unig o ddirmyg ar Dduw, fwrw gwenwyn i ffynnon eu holl drugareddau eu hunain? Myfi a adwaenais lawer a gwynent am na's gallent gael sicräad dyddanus o'u hetholedigaeth eu hunain; ond nid adnabum neb erïoed, y rhai wedi ei dderbyn ar lwybr prïodol, a faglid gan hyny, neu a dueddid o'r herwydd, i fyw mewn penrhyddid, ansancteiddrwydd, neu ddirmyg ar Dduw.

Heblaw hyny, fel cymhelliad i ddybenion gwahanol y mae yr athrawiaeth yma yn cael ei chynnyg yn yr Ysgrythyrau yn wastadol; ac y mae Duw ei hun yn ei ddefnyddio yn aml fel ei brif ddadl i gyffroi dynion i ufudd-dod sanctaidd, Deut. 7. 6, &c.—ac y mae tybiaeth o hyn yn cael ei ddefnyddio gan yr apostol fel cymhelliad i ufuddhau i'w gynghor gwerthfawr, "Am hyny megis etholedigion Duw, gwisgwch am danoch ymysgaroedd trugareddau, cymmwynasgarwch, gostyngeiddrwydd, addfwynder, &c. Col. 3. 12.—Mae y pethau hyn yn gweddu i etholedigion Duw, ac yn ofynol ganddynt, ar gyfrif eu cyfrannogiad o'r cariad a'r gras a fu yn llunio etholedigaeth. Ond mewn trefn i gadarnhau y gwirioneedd yma, rhoddaf engrhaifft mewn rhai grasau a dyledswyddau neillduol, neu ranau arbenig o sancteiddrwydd, y rhai y mae yr ystyriaeth yma yn dra naturiol i'w meithrin.

(1.) Gostyngeiddrwydd. Canys pa beth oeddem ni pan osododd efe ei galon arnom ni fel hyn, i'n dewis, ac i wneuthur daioni i ni dros byth? Druciniaid colledig oeddym,

yn gorwedd dan euogrwydd ein gwrthgiliad oddiwrtho ef! Pa beth a ganfu efe ynom i'w gymhell i'n dewis ni? Dim ond pechod a thrueni. Pa beth a ragwelai efe a wnelem ni o honom ein hunain mwy nag eraill, oni's gweithredai efe ynom ni trwy ei ras effeithiol? Dim, ond paräad mewn pechod a gwrthryfel i'w erbyn, a hyny am byth. Pa fodd y dylai y meddyliau am hyn gadw ein heneidiau yn wastadol mewn pob gostyngeiddrwydd a hunan-ffieiddiad!

(2.) Ymostyngiad i ewyllys penarglwyddiaethol Duw yn nhrefniad ein holl amgylchiadau. Mae hyn yn rhan arbenig o sanctciddrwydd, a galwad neillduol am dani yn y dyddiau hyn. Mae Duw wedi cymeryd pob achlysur gau ddïogelwch o'r ddaear, trwy beth y mae rhai yn ei deimlo, ac eraill yn ei ofni. Gan hyny, i ba le y trown am ddïogelwch a gorphwysfa? ni's gellir cael y fath beth, ond trwy ein rhoddi ein hunain a'n holl amgylchiadau i fynu i ewyllys penarglwyddiaethol Duw; a pha gymhelliad cryfach a gawn ni i hyny na hyn? Y weithred gyntaf o'r ewyllys Ddwyfol benarglwyddiaethol mewn perthynas i ni, oedd ein hetholiad er tragywyddoldeb, i sanctciddrwydd a dedwyddwch. Gwnaed hyn pan nad oeddym ni, pan na allasai fod genym unrhyw ddyfeisiau o'r eiddom ein hunain;—ac oni roddwn ein holl amgylchiadau tymhorol yn awr i'r un dwylaw? A all yr un ffynnon fwrw allan ddwfr melus a chwerw? A all yr un ewyllys Ddwyfol fod yn achos hunan-gynhyrfiol o'n holl wynfydedigrwydd; ac a all e wneyd yr hyn sydd yn wir niweidiol i ni? Arlwywyd gras a gogoniant ar gyfer ein personau yn ewyllys benarglwyddiaethol Duw; ac felly, onid yw yn ymddygiad tra ysgeler o annuwiol, i ni ommedd ymddiried pob peth arall i'r un llaw i'w trefnu yn ddïattalfa.

(3.) Mae cariad, tiriondeb, a goddefgarwch wrth yr holl saint, yn cael ei wneuthur yn angenrheidiol anhebgorol i ni, a ninnau yn cael ein cymhell i'r un ymddygiad trwy yr unrhyw ystyriaeth; canys os dewisiodd Duw hwy o dragywyddoldeb, oni ddylem ninnau eu caru hefyd? Pa fodd

y beiddiwn ni goledd meddyliau anngharedig, na meithrin gelyniaeth yn erbyn neb o'r rhai a ddewisodd Duw o dragywyddoldeb i ras a gogoniant? Mae y cyfryw bethau yn cymeryd lle yn rhy fynych, yn wyneb cyffröadau, a gwrthdarawiad ein llesion tymhorol; ond y mae y cyfan yn dra gwrthwyneb i'r hyn a ddylai dylanwad yr ystyriaeth o gariad Duw yn ethol, adael arnom ni. Nyni a ddylem dderbyn yr hwn a dderbyniodd Duw, ac am i Dduw ei dderbyn ef; nyni a ddylem ddewis a charu y rhai oll a ddewiswyd ac a garwyd gan Dduw. "Yr wyf yn goddef pob peth," medd yr apostol, nid er mwyn yr Iuddewon neu y Cenhedloedd; nid er mwyn y gwan neu y cryf yn y ffydd; nid er mwyn y rhai o'r ffordd yma neu y ffordd arall, ond "er mwyn yr etholedigion."—Dylai hyn rëoleiddio ein cariad, a'n cymhell yn rymmus at bob gweithred gymmwynasgar a maddeugar.

(4.) Oddiyma fe'n galluogir i ddibrisio y byd. A osododd Duw ei galon ar ryw rai o dragywyddoldeb? A ddewisodd Duw hwynt i'w gwneyd yn briodoledd iddo ei hun? A yw efe yn amcanu rhoddi ffrwythau gorau ei gariad iddynt? Os felly, pa beth a wna efe erddynt? A wna efe hwynt oll yn Freninoedd ac Amherawdwyr? A wna efe hwynt oll yn oludog ac anrhydeddus? Neu, o'r hyn lleiaf, a geidw efe hwynt rhag pob cyfyngderau a phrofedigaethau yn y byd yma? Na; nid oedd dim o'r pethau hyn yn nghalon Duw mewn perthynas iddynt; nid ydynt deilwng i'w cystadlu a'r lleiaf o'r pethau y dewisodd Duw ei eiddo i'w mwynhau. I'r gwrthwyneb, efe a drefnodd y cyffredin o'i etholedigion i gyflwr tlawd a chystuddiedig yn y byd hwn. Gan hyny, dysged y rhai ydynt dlawd a diystyr, fod yn dawel i'w cyflwr: pe gwelsai Duw yn dda i'th sefyllfa fod yn wahanol, ni buasai yn esgeuluso hyny pan oedd efe yn gweithredu tragywyddol gariad tuag attat; ac na fydded i'r rhai goludog osod eu calonnau ar olud anwadal; meddyliwch ynoch eich hunain, nad oedd gan Dduw un golwg na bri ar y pethau hyn, pan oedd efe yn

eich dewis i ras a gogoniant; ac fe gymedrola hyny eich gofal am danynt, ac a gymer eich calon oddiarnynt; yr hyn yw eich sancteiddiad.

2. Mae cariad Duw, fel y'i hamlygir mewn etholedigaeth, yn gymhelliad a chalonogiad i sancteiddrwydd, oblegid yr arlwyon cynnorthwyol o ras a allwn ni ei ddysgwyl o herwydd hyny drwy Iesu Grist. Mae yr anhawsderau a gyfarfyddwn ar ffordd sancteiddrwydd yn fawrion a lluosog. Mae Satan, pechod, a'r byd, yn ymegnio hyd yr eithaf yma; ac y mae y gorau weithiau yn cael eu dyrysu, a'u digaloni, nes y maent yn barod i lwfrhau. Rhaid cael dewrder ysbrydol da i edrych ar y llewod, y seirff, a'r maglau ydynt wedi eu gosod ar ein ffordd:—ond nid ychydig o galondid yw na phalla ffynnon gras etholiadol byth, ond y parha i weinyddu arlwyon newyddion o nerth ysbrydol ac adfywiad. Am ba achos y gallwn ymwroli i gyfodi eilwaith, wedi ein maglu; i ddal ein ffordd, pan fyddo dyrnod y brofedigaeth yn llym, ac i ddyfal barhau yn y dyledswyddau hyny, ydynt fwyaf blinedig i'r cnawd; ac y mae y sawl na's gwyddant mor angenrheidiol yw yr ystyriaeth yma er parâad cysurus mewn ufudd-dod sanctaidd, yn rhwym o fod yn ddyeithr i natur gwir sancteiddrwydd.

3. Mae y sicrwydd a dderbyniwn o hyn, na's bydd i ni lwyr ddiffygio, er pob rhyw wrthwynebiadau a gyfarfyddwn, yn tueddu i effeithio yn yr un modd. Etholedigaeth Duw a'i caiff o'r diwedd, y mae "cadarn sail Duw yn sefyll;" ei fwriad ef, yr hwn sydd yn ol etholedigaeth, sydd annewidiol; ac am hyny, y mae parâad hyd y diwedd, a pherffeithiad iachawdwriaeth y rhai oll a gynnwysir ynddi wedi ei sicrhau yn dragywyddol; ac nid oes un calondid cryfach i barhau mewn sancteiddrwydd, na'r sicrâad o derfyniad dedwydd i'r yrfa.

Meddylia rhai mai i ddiofalwch yn unig y tuedda y sicrwydd yma; ac mai bod yn wastadol mewn ofn ac ansicrwydd, yw yr unig ffordd i'n gwneyd yn wyliadwrus i sancteiddrwydd. Mae yn wir, pe na byddai gwahaniaeth

rhwng ffydd a rhyfyg, rhwng ysbryd caethiwed ac ysbryd mabwysiad, y gallai fod rhyw beth yn yr wrthddadl yma: ond, os yw natur ffydd a'r creadur newydd, gweithrediadau y naill, a thueddfryd y llall, y cyfryw ag y'u darlunir yn yr efengyl, nid yw dynion namyn amlygu eu hanwybodaeth, tra y dadleuant fod sicrwydd o gariad annewidiol Duw yn Nghrist, ar un cyfrif yn gwanhau, ond yn hytrach yn cefnogi yn dra effeithiol, ddiwydrwydd credinwyr yn mhob rhyw ddyledswyddau o ufudd-dod.

Tybier fod dyn ar ei daith; yn gwybod am dano ei hunan ei fod yn y ffordd gywir, ac y bydd e'n sicr o ddyfod i ben ei daith, wrth ganlyn arni hi, yn enwedig os cyflyma ei gamrau fel y bo achos yn gofyn,—a ddywedwch chwi y byddai hyn yn ddigon i wneyd y cyfryw ddyn yn ddiofal ac yn esgeulus, ac y byddai yn llawer gwell iddo fod wedi dyrysu, heb wybod i ba le y bydd yn myned, na pha un a gyrhaedda efe ddiwedd ei daith byth ai peidio? Mae profiad cyffredin yn cin dysgu i'r gwrthwyneb; a hefyd mor oriawg ac annefnyddiol ydynt yr ebychiadau a ddeilliant oddiar ansicrwydd mewn pethau tymhorol ac ysbrydol! Yn y cyffredin, y dyn hwnw sydd yn meddu hyder dyddanus o gariad etholedig Duw, ac o ganlyniad, o ddiwedd dedwydd ei yrfa, yr hwn sydd yn myned rhagddo yn ddyfal a gwastad yn ffyrdd sancteiddrwydd, gan gyflymu ei gerddediad fel y caffo achlysur oddiwrth brofedigaethau neu gyfleusderau.

Mae yn ymddangos oddiwrth y pethau hyn fod cariad etholiadol Duw yn gymhellydd cryf i sancteiddrwydd; ac yn profi yn ddiwrthddadl yr angenrheidrwydd anhebgorol am dano i bawb a amcanont gael mwynäad tragywyddol o Dduw;—ond, e ddywaid rhyw rai, os caniatteir hyn gyda golwg ar gredinwyr, eto ni's gall fod dim yn fwy digalon i'r annychweledig nac yw yr athrawiaeth hon am etholedigaeth: "A allant hwy wneyd unrhyw gasgliad oddiwrthi heblaw yr un a ganlyn; sef, onid ydynt yn etholedig y bydd eu holl ymdrechion yn ofer; ac os ydynt yn etholedig, yna

eu bod oll yn ddiangenrhaid?" I hyn yr attebaf, (1.) Nyni a ddangosasom eisioes fod yr athrawiaeth hon yn cael ei datguddio yn yr Ysgrythyr yn benaf oll er gwneuthur credinwyr yn hysbys o'u diogelwch, ac o ffynnon eu cysuron. Gan hyny, wedi profi ei defnyddioldeb iddynt hwy, yr ydwyf wedi gwneuthur yr hyn sydd lwyr angenrheidiol i'm hamcan presenol; ond, heblaw hyny, dangosaf ei bod yn fuddiol i eraill hefyd;—canys, (2.) Tybier fod yr athrawiaeth am etholedigaeth yn cael ei phregethu; gellir gwneuthur dau gasgliad oddiwrthi;—*Yn gyntaf*, gan fod hyn yn dwyn perthynas dragywyddol o'r fath bwysicaf â'n heneidiau, ac nad oes un ffordd i ni i fod yn sier o'n cyfrannogiad ynddi, ond trwy feddiant o'i ffrwythau, a'i heffeithiau, sef ffydd a sancteiddrwydd,—fe'n cymhellir trwy hyn, i arfer pob egni, fel trwy gyrhaeddyd y pethau hyn, y gwelom ein hetholedigaeth yn sier. Gall craill gasglu, Os ydyw y rhai a achubir wedi eu dewis i hyny er cyn sylfaeniad y byd, yna nid yw o les yn y byd i neb gredu nac ediarhau, gan y rhaid i bob peth fod, megis y'u rhagordeiniwyd. Yn awr, gofynaf, pa un o'r casgliadau yma yw y mwyaf cyfaddas i egwyddorion hunan-gariad syml, a gofal am ein cyflwr anfarwol? Nid oes dim yn sicrach nac y bydd i'r penderfyniad olaf fod yn ddinystriol os y'i dylynir; ond y mae yn ddichonadwy o leiaf ar y ffordd arall, i ddyn gael allan ei fod yn wrthddrych cariad etholiadol Duw, ac felly fod yn gadwedig; ond pa ham y dywedaf mai dichonadwy ydyw, nid oes dim yn fwysicr nac y bydd i'r hwn a ddylyno lwybr ffydd ac ufudd-dod yn ddiffuant, (yr hyn yw ffrwythau etholedigaeth) gyrhaedd gwynfydedigrwydd tragywyddol yn y diwedd. Gan hyny, y mae hyn ar bob cyfrifon, ac i bob rhyw bersonau, yn ddadl o'r fath rymmusaf dros yr angenrheidrwydd o sancteiddrwydd, ac yn gymhelliad o'r fath effeithiolaf i hyny; canys os oes y fath beth ag etholedigaeth bersonol, ac os ei ffrwythau yw sancteiddrwydd, ffydd, ac ufudd-dod, y mae yn wirionedd diwâd, na cha neb weled yr Arglwydd heb sancteiddrwydd.

PEN. III.

Sancteiddrwydd yn angenrheidiol oddiwrth Orchymynion Duw.

Nyni a brofasom yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd oddiwrth natur ac arfaeth Duw, ein dadl nesaf a gymerir oddiwrth ei orchymynion ef. Nid oes eisiau dwyn engrheifftiau o orchymynion Duw i ni i fod yn sanctaidd; canys dyma yw llais unol Deddf ac Efengyl.

Ein hymofyniad ni a ddylai fod, pa rym sydd yn y ddadl hon? neu Pa fodd y casglwn ni yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd oddiwrth orchymynion Duw? I'r dyben yma, mae yn angenrheidiol i ni ystyried natur a phriodoliaethau y gorchymynion hyn; dylem ymdrechu i gael ein meddyliau a'n cydwybodau i deimlo trwyddynt, nes ymestyn at sancteiddrwydd o'u herwydd; canys ufudd-dod yw cin sancteiddrwydd, ac y mae ufudd-dod yn wastadol yn golygu gorchymyn; nid yw gwaith dynion yn ymhoni o sancteiddrwydd, oddiar egwyddor oddifewn, heb barch i orchymynion Duw yn ei air, namyn gwneuthur Duw o honynt eu hunain, ac esgeuluso ufuddhau i'r "hwn sydd uwchlaw pawb yn Dduw bendigedig yn oesoesoedd." Gan hyny yr ydym ni yn weision i Ddaw, yn ddysgyblion i Grist, pan fyddom yn gwneuthur yr hyn a orchymynir, ac am ei fod yn cael ei orchymyn.

Ond, fel yr agorom ein ffordd yn eglurach, y mae yn rhaid i ni ragnodi y gellir ystyried gorchymynion Duw, 1. Fel y maent yn perthynu i'r Cyfammod o weithredoedd. 2. Fel y maent yn perthynu i'r Cyfammod o ras. Mae yr un pethau o ran sylwedd yn cael eu gofyn yn y naill amgylchiad a'r llall; ond y mae gwahaniaeth mawr yn y dull a'r dyben.

Canys, 1. Mae gorchymynion Duw fel y maent dan yr hen gyfammod, yn gofyn sancteiddrwydd trwyadl ynom ni gyd ar fath fanylrwydd, fel ar y diffyg lleiaf na's derbynia ddim arall a wnelom, ond a'n cyfrifa yn droseddwyr

o'r holl ddeddf. Y dyben a ofynir drwyddynt yw, fel y byddont yn gyfiawnder i ni ger bron Duw, neu fel y'n cyfiawnhäer drwy hyny, Rhuf. 10. 4, 5.

2. Ond y mae yn wahanol ar y cyfrifon hyn, gyda gorchymynion Duw dan y cyfammod newydd, neu yn yr Efengyl; canys er fod Duw yn gofyn sancteiddrwydd cyffredinol ynddynt, eto nid yn yr un dull llym a thrwy y ddeddf; fel pe pallem mewn un peth, y byddai y cwbl yn wrthodedig; ond y mae ei ofyniadau wedi eu cyd dymheru â gras a thrugaredd; fel os bydd didwyllder a chywirdeb cyffredinol gyda golwg ar ei holl orchymynion, y'i cymeradwya ar gyfrif cyfryngdod Crist; er hyny nid oes unrhyw laesiad gyda golwg ar unrhyw ddyledswydd o sancteiddrwydd, nac un tynerwch at y pechod lleiaf: mae y rhwymedigaeth at sancteiddrwydd cyffredinol mor rymmus ag ydoedd dan y ddeddf, er fod ymwared wedi ei drefnu yn wyneb ein diffyg ni, trwy ddidwyllder ar un llaw, a thrugaredd ar y llaw arall.

Nid yw gorchymynion yr efengyl yn gofyn sancteiddrwydd i'r un dyben ac y'i gofynid yn ngorchymynion y ddeddf, sef fel y'u cyfiawnheid drwy hyny; ond y mae Duw wedi trefnu cyfiawnder arall i'r perwyl hyny, yr hwn sydd yn cyflawn atteb i'r hyn a ofynai y ddeddf, a thrwy yr hyn y dyrchafodd efe anrhydedd ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd ei hun yn fwy nac erioed; ac nid yw hwn yn ddim amgen na chyfiawnder Crist yn gyfrifedig i ni; canys efe yw "diwedd y ddeddf er cyfiawnder i bob un sydd yn credu." Ond y mae Duw wedi appwyntio dybenion eraill i'n sancteiddrwydd, ac felly i'w orchymyn am dano dan yr efengyl, cyson â natur yr ufudd-dod hwnw a dderbynia efe genym ni, a'r cyfryw ag sydd gyrhaeddadwy i ni trwy rym ei ras ef.

1. Y peth cyntaf i'w ystyried yn ngorchymyn Duw ar fod o honom yn sanctaidd, yw ei *awdurdod*. Y mae yn angenrheidiol anhebgorol i ni fod yn sanctaidd, ar gyfrif awdurdod gorchymyn Duw. Pa le bynnag y byddo aw-

durdod yn gyfiawn, y mae yn dwyn i'w chanlyn rwymedigaeth i ufudd-dod: cymerer hyn ymaith, a llenwir y byd ag annhrefn. Pe na byddai awdurdod rhïeni, meistri, a swyddogion gwladol, yn rhwymo plant, gwasanaethyddion a deiliaid i ufudd-dod, syrthiai y byd i ddyryswch uffernol. Mae Duw ei hunan yn gwneyd defnydd o'r ddadl yma i argyhoeddi dynion o'r angenrheidrwydd o ufudd-dod.—"Mab a anrhydedda ei dad, a gwas ei feistr; gan hyny os ydwyf fi dad pa le mae fy anrhydedd? os ydwyf fi feistr, pa le mae fy ofn?" Os, yn mhob rhyw berthynasau neillduol, lle mae rhyw uchafiaeth, y gofynir ac y dysgwylir ufudd-dod;—onid yw yn ddyledus i mi, yr hwn a feddaf bob awdurdod?

Mae dau beth yn grymuso y rhwymedigaeth,—Yr hawl i orchymyn, a'r gallu i gyflawni yr hyn a addawir neu a fygythir; cynnwysir y ddau yn Iago 4. 12. "Un gosodwr cyfraith sydd, yr hwn a ddichon gadw a cholli."

1. Yr hwn sydd yn gorchymyn i ni fod yn sanctaidd, yw ein Deddfwr Penarglwyddiaethol; mae ei orchymyn yn deillio o awdurdod drwyadl Deddfwr Goruchaf; a lle na's cydffurfir â hyn, y mae holl awdurdod Duw yn cael ei dirmygu; felly y mae Duw yn fynych yn galw pechu yn ei erbyn ef, ei ddiystyru ef, a dirmygu ei orchymynion ef. Yma gan hyny, ni a ganfyddwn yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd, wedi ei seilio ar orchymyn Duw. Dylem gofio hyn, i ba le bynnag yr elom, a pha beth bynnag a wnelom, i gadw ein meddyliau dan ei ddylanwad yn mhob rhyw ddyledswydd, ac yn wyneb pob achlysuron i hechod. Pe byddai hyn yn ysgrifenedig ar galonnau dynion, ar eu ffyrdd, yn eu galwedigaethau, yn eu teuluoedd, eu myfyrdodau, a'u dirgelfanau, byddai sancteiddrwydd i'r Arglwydd ar eu calonnau a'u talcenau hefyd.—2. Mae yr apostol yn ein hysbysu yn mhellach, fod Duw yn alluog i ladd a bywhau; hyny yw, y mae ei awdurdod fel Deddfwr i orchymyn, yn cael ei dilyn â gallu, drwy yr hyn y gall efe dragywyddol wobrwyo yr ufudd, a chosbi yr anufudd:

canys er na's mynwn gyfyngu y geiriau i'r golygiad yma, eto yr wyf yn barnu mai gwobrwyon neu gosbedigaethau tragywyddol yw y prif beth a olygir yma.

Mae ein Iachawdwr yn Matt. 10. 28, yn son am ladd, yr hwn a wrthgyferbynir â phob drwg tymhorol, ac angau ei hunan. "Nac ofnwch y rhai a laddant y corph, ac nid allant ladd yr enaid; eithr yn hytrach ofnwch yr hwn a ddichon ddystrywio enaid a chorph yn uffern." Ac wrth y bywhau uchod y golygwn, waredigaeth oddiwrth y digofaint sydd ar ddyfod, mewn bywyd tragywyddol; a hyn sydd yn peri effeithiolder anwrthdröawl i'r gorchymyn.

Ychydig a ddylanwadir ar feddyliau dynion gan wobrwyon neu gosbedigaethau cyfreithiau dynol, canys y mae dynion yn aml yn dewis eu mwyniant presenol o'u blaen; ac y maent yn coledd rhyw ddirgel ddychymygg, na's gwna, neu na's gall gwneuthurwyr y gyfraith gyflawni y cosbedigaethau a fygythient; ond y mae hi yn llwyr wahanol yn hyn gyda golwg ar gyfreithiau Duw; gan fod y gwobrwyon a'r cosbedigaethau yn dragywyddol, ni's gellir eu gwrthbwyso âg ystyriaeth o ddim dacarol; ac ni's gallant feddu unrhyw sail arall ar gyfrif cyfnewidioldeb, anwybodaeth, gwendid, nac un rhith arall, i ddysgwyl na's cyflawnir hwy yn berffaith fanol. Mae yr addewid o fywyd tragywyddol ar un llaw, neu y bygythiad o drueni ar y llaw arall, yn sier o'n cyfarfod ni, yn ol fel y'n cair, yn sanctaidd neu ansanctaidd. Mae Duw yn gorchymyn i ni fod yn sanctaidd; ond, beth os nad ydym felly? Mor sier a bod Duw yn sanctaidd a gallueg, fe'n dennir yn dragywyddol. Beth os ufuddhawn i'r gorchymyn, a bod yn sanctaidd? Meddwn yr un sail sicr y'n dygir i fwynäad o ddedwyddwch tragywyddol.

Hwyrach y dywaid rhyw rai, fod ufuddhau i Dduw oddiar ofwg ar wobrwyon a chosbedigaethau yn ymddygiad caethwasaidd, ac nad ydyw yn gweddu i'r ysbryd rhydd a berthyna i blant Duw; ond nid yw hyna namyn dychymyg ffol. E all caethiwed ein hysbrydoedd ni ein

bunain wneuthur pob peth a wnelom yn wasaidd: ond y mae iawn ystyriaeth o fygythion ac addewidion Duw, yn brif ran o'n rhyddid. Gan hyny, os mynem ni rodio mewn ufudd-dod sanctaidd, ein dyledswydd ydyw cadw mewn cof awdurdod gorchymyn Duw yn wastadol: ac nyni a allwn gymhwyso hyn at bersonau ac amgylchiadau.

1. At bersonau.—Ystyried gwŷr mawr a phendefigaidd hyn yn neillduol, prif demtasiwn pa rai yw i ymddyrchafu a diystyru awdurdod Duw. Dosbarthai y prophwyd bechaduriaid anfad i ddau fath; y cyntaf ydynt y tlodion, a'u hynfydrwydd a'u chwantau cnawdol hwy a'u cadwai rhag parchu y gorchymyn:—"Gwrthodasant dderbyn cerydd, gwrthodasant ddychwelyd; a mi a ddywedais, Yn sicr tlodion yw y rhai hyn, ynfydion ydynt: canys nid adwaenant ffordd yr Arglwydd, na barn eu Duw." Jer. 5. 3. Ond yr oedd yma ddosbarth arall o bechaduriaid, â'r rhai yr ymwnai y prophwyd;—"Mi a af rhagof at y gwŷr mawr, ac a ymddiddanaf â hwynt; canys hwy a wybuant ffordd yr Arglwydd, a barn eu Duw." Mae gwyr mawr, ar gyfrif eu dysgeidiaeth a'u manteision eraill, wedi cyrhaedd gwybodaeth o ewyllys yr Arglwydd; neu, o leiaf, gellid meddwl eu bod: gan hyny, nid ydynt hwy yn debyg o fod yn gyndyn mewn pechod, yn unig o herwydd anwybodaeth ac ynfydrwydd: na, medd y prophwyd, y maent hwy yn cymeryd llwybr arall,—"Y rhai hyn a gyd dorrasant yr iau, ac a ddrylliasant y rhwymau." Maent fel mintai o anifeiliaid afreolaidd, y rhai wedi torri eu hiau, a redant i fynu ac i waered ar hyd y macsydd, gan fathru yr ŷd, a rhwygo y gwrychoedd, a chornio a sathru pob peth o'u blaen. Wrth dorri yr iau yma y golygir diystyru awdurdod Duw yn y gorchymyn. Am hyny, gan mai dyma brif demtasiwn y cyfryw rai, bydded i'r rhai hyny y mae dymuniad gwirioneddol ynddynt am sancteiddrwydd, wylied arnynt eu hunain yn ddyfal i gadw ystyriaeth ddyledus o awdurdod Duw ar eu meddyliau. Pan fyddoch yn uchder eich mawredd, yn nghyflawnder eich mwynderau, yn eich

galwedigaeth fwyaf dyfal, cofiwch yr hwn sydd goruwch pawb, ac ystyriwch eich bod chwi yn ddeiliaid mor hollol i'w awdurdod ef, a'r tlottaf ar y ddaear.

2. Ymdrechwn i ddwyn yn ein meddyliau ystyriaeth wastadol o awdurdod Duw yn ei orchymynion i'r holl achlysuron, lleoedd, neu gymdeithasau hyny, yn y rhai y byddwn yn dueddol i gael ein llithio yn ddiarwybod i unrhyw bechod. (1.) Dygwn hyn gyda ni i'n dirgel leoedd: canys esgeulusdra o hyn yw yr achos o'r pechodau dirgel hyny ydynt yn heigio drwy y byd yma. Mae dynion yn dueddol i feddwl eu bod yn ddigon dirgel, pan na's byddo llygad neb ond llygad Duw yn eu gweled. Ac felly y llithiwyd llawer i ynfydrwydd, yr hwn a brofodd yn ddechreuad gwrthgiliad trwyadl. Bydd arswyd awdurdod Duw yn y gorchymyn, yn sicr o'n diogelu yn gyfartal yn mhob lle, ac ar bob achlysur.—(2.) Dygwn yr ystyriaeth yma gyda ni i'n galwedigaethau. Mae y rhan fwyaf o ddynion yn dueddol i roddi eu holl fryd ar achlysuron presenol; ac â chanddynt ryw ddyben neillduol mewn golwg, i'w harfer eu hunain i'r ffyrdd i'w geisio; a thra fyddont yn ymwneyd felly, y mae llawer o bethau yn dueddol i'w llithio hwy o ffyrdd purdeb. Gan hyny, pa bryd bynag y byddoch chwi yn myned i'r achlysuron lle y gellwch ddysgwyl i demtasiynau gyfodi, gelwch i'ch cof fawredd ac awdurdod yr hwn a orchymynodd i chwi fod yn sanctaidd. (3.) Dygwch yr unrhyw ystyriaeth gyda chwi i bob rhyw gyfeillach, a chymdeithas; canys y mae gan lawer achlysuron aml i fod yn y cyfryw gymdeithasau, lle y bydd i'r anghof lleiaf o awdurdod benarglwyddiaethol Duw beri iddynt ymollwng i ymddiddanion gweigion a llygredig, nes y gwrandawont gyda phleser, ac y gwnant â hyfrydwch, y cyfryw bethau a dristaont Lân Ysbryd Duw, a haloga eu cydwybodau hwythau, ac a ddianrhydedda broffes gref-yddol.

II. Dylem ystyried gorchymyn Duw ar fod o honom yn sanctaidd, nid yn unig fel ffrwyth awdurdod, i'r hon y mae

yn rhaid i ni ymostwng; ond fel ffrwyth doethineb a daioni anfeidrol hefyd, â'r hyn y byddai yn lles mwyaf i ni gydffurfio:—ac yma fe'n harweinir i weled angenrheidrwydd neillduol am sancteiddrwydd, oddiwrth yr ystyriaeth o'r hyn sydd resymol ac uniawn, y gwrthwyneb i'r hyn a fyddai yn ymddygiad ffol ac anniolchgar, ac anweddus ar bob golygiad i greaduriaid rhesymol. Lle na's canfyddir dim ond awdurdod noeth yn unig mewn gorchymynion, edrychir arnynt fel pe golygent les y sawl a fyddo yn gorchymyn yn unig, ac nid yr eiddo y rhai a fyddont i ufuddhau, yr hyn sydd yn gwannychu egwyddor ufuddod. Ond yn awr, er y gallasai Duw, yr hwn a fedd y fath awdurdod drwyadl arnom ni, ein gadael heb un cymhelliad arall arnom i ufudd-dod, eto ni's gwnaeth; ond fe y mae efe yn gosod ei gyfraith o'n blaen fel effaith doethineb a daioni anfeidrol; felly y mae efe yn dadleu fod e holl orchymynion yn gyfiawn ac uniawn ynddynt eu hunain; yn dda a defnyddiol i ninnau; ac mai mewn cyddfurfiad â hwy y mae ein dedwyddwch presenol cystal a dyfodol: ac y mae yn eglur mai fel hyn y mae, oddiwrth bob ystyriaeth a roddom i'r matter.

1. Edrychwn ar orchymynion Duw o ran y ffurf o honynt, fel cyfraith wedi ei rhoddi i ni: ac ni a welwn ei bod yn uniawn a manteisiol i ni; ac y mae felly, oblegyd fod yr ufudd-dod a ofyna, yn gyfattebol i'r gallu a feddwn ni i ufuddhau. Gellir golygu y gorchymyn fel y dangosasom o'r blaen, naill ai fel y perthynai i'r hen gyfammod, neu y newydd. Yn y golygiad cyntaf, yr oedd y nerth o ras a dderbyniasai dyn ar y dechreu gan Dduw, dan ddeddf crëadigaeth yn ddigonol i'w alluogi i gyflawni pob ufudd-dod sanctaidd a ofynid; a'n diffyg o wneuthur hyny a ddeilliai oddiar wrthryfel gwirfoddol, ac nid oddiar unrhyw wendid ynom ni: ac yn y golygiad olaf, y mae trwy rinwedd y cyfammod gras gyflawnder o nerth ysbrydol wed ei roddi i ni trwy yr addewid, trwy yr hyn y galluogir crediuwyr i gyfatteb i'r gorchymynion i sancteiddrwydd.

Nid oes yr un credadyn yn methu yn y cyflawniad o ufudd-dod, yn unig o herwydd diffyg o nerth ysbrydol; canys y mae Duw yn rhoddi i ni bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb, trwy ei adnabod ef, yr hwn a'n galwodd ni i ogoniant a rhinwedd, 2 Pedr 1. 3.

Mae yn wir fod nerth yn cael ei gyfrannu trwy foddion neillduol, yr hyn os esgeulusir ganddynt, a bair eu bod hwythau yn fyr o honaw; ond yn yr arferiad dyfal o'r moddion, ni phalla neb o'r gallu hwnw a wna orchymynion yr Efengyl yn esmwyth ac nid yn drymion. Dywedai yr apostol yn gadarn, ac felly y gallwn ninnau ddywedyd, y gallai efe bob peth, hyny yw, yn y drefn, ac i'r dyben a ofynid yn yr Efengyl, trwy Grist, yr hwn oedd yn ei nerthu ef.

Trwy yr arlwyaeth o'r gras yma, mae y gorchymyn yn dyfod yn deg a chyfiawn, yn gyfaddas ac esmwyth i gyd-ffurfio o honom âg ef: canys ni's gall neb ommedd cyd-ffurfiad âg ef, na bydd drwy hyny yn gwrthwynebu yr anian newydd hono a blanodd Duw ynddynt; fel y mae pechu ynddynt hwy, nid yn unig yn wrthwyneb i'r ddeddf oddiallan iddynt, ond hefyd i'r hyn sydd yn eu tueddiadau hwy eu hunain, y rhai yn y cyfryw amgylchiadau a ormesir yn llym gan rym llygredigaethau a themtasiynau. Gan hyny, er fod y gorchymyn i sancteiddrwydd yn ymddangos yn drwm i rai diadgenhedledig, oblegid ei fod yn erbyn gogwydd a thueddfryd eu holl eneidiau, eto nid yw, ac ni's gall fod felly i'r rhai na's gallant fod yn esgeulus o hono heb dreisio tueddiadau y creadur newydd.

Heblaw hyny, y mae gras yn cael ei weinyddu i ni ar gyfer pob dyledswydd a gweithred sanctaidd, yn ol addewid yr efengyl. Felly y dywedodd Duw wrth Paul, fod ei ras ef yn ddigonol iddo ef; ac efe sydd yn gweithio ynom ni ewyllysio a gweithredu, o'i ewyllys da ef. Ac er nad yw y gras gweithgar yma yn meddiant ewyllysiau dynion, ond ei fod yn ymddibynu ar ffyddlondeb Duw, eto y mae yn rhaid i mi addef, pa le bynnag y'i ceisir trwy ffydd a gweddi,

na's gommeddir mo hono un amser, i unrhyw gredadyn, ond y'i donir âg ef er ei alluogi yn effeithiol i gyflawni yr holl ufudd-dod a ofynir ganddo. Gan hyny, mor gyfiawn a theg yw y gorchymyn i sancteiddrwydd! mor resymol yw i ni gydffurfio âg ef; ac mor fawr yw pechadurusrwydd a ffolineb y rhai a'i hesgeulusant! canys y mae nid yn unig awdurdod, ond doethineb a daioni Duw yn rhoddi y cyfryw orchymyn i ni, yn ein rhwymo i ufudd-dod sanctaidd.

2. Mae y gorchymyn yn uniawn, ac i'w fawrygu oblegid ei gynnwys, neu yr hyn a ofyna: nid pethau mawrion na thrymion, llawer llai, trawsion, annefnyddiol, neu niweidiol. Nid oes dim yn y sancteiddrwydd y mae y gorchymyn yn ei ofyn, ond sydd dda iddo ef yn yr hwn y mae, a defnyddiol i bawb o'i amgylch. E grybwyll yr apostol pa beth ydynt yn Phil. 4. 8. Pethau gwir, onest, cyfiawn, pur, hawddgar, a chanmoladwy ydynt; a pha ddrwg sydd yn y pethau hyn, fel y gwrthodem y gorchymyn sydd yn eu gofyn? Pa helaethaf y byddom ynddynt, gorcu fydd i'n perthynasau, ein teuluoedd, ein cymmydogion, yr holl genedl, ïe, yr holl fyd; ond o bawb, gorau fydd i ni ein hunain.

Gan hyny, y mae yn ddyledus arnom yn llc cyntaf i ymgais am sancteiddrwydd o herwydd gorchymyn yr Arglwydd. Ni's gwn pa ryw ddychymygion gweigion a all fod yn meddiannu meddyliau rhai, nad oes un angen iddynt hwy olygu y gorchymyn, neu yr addewidion a'r bygythiadau perthynol iddo, ond ufuddhau yn unig oddiar allu ac arweiniad egwyddor dufewnol; ïe, y mae rhai yn meddwl y byddai golygu y gorchymyn yn ein hufudd-dod yn llygriad ar yr ufudd-dod, gan ei wneuthur yn ddeddfol a gwasaidd: ond yr ydwyf yn gobeithio fod y tywyllwch a luddiai ddynion i ganfod y cyssondeb sydd rhwng egwyddor o ras ynom, ag awdurdod y gorchymyn arnom, wedi ei symmud oddiar bob crefyddwr diffuant. Ein bod yn golygu y gorchymyn yn yr hyn a wnelom sydd yn

gwneuthur ein cyflawniadau o ran eu ffurf, o natur ufuddod, ac nid oes un radd o sancteiddrwydd ynom, oddieithr bod sylw prïodol genym ar y gorchymyn. Mynnai rhai gymeryd goleuni natur yn rhĕol; ac nid amcana rhai at ddim uwch na'r hyn a bair iddynt gael eu cyfrif yn onest gan eu cyd-ddynion yn gyffredin; ond, rhaid i'r sawl a fynno fod yn sanctaidd mewn gwirionedd, olygu gorchymyn Duw bob amser, â'r syniadau hyny o barch a serchawgrwydd, ag a weddai feddiannu un y byddo Duw yn llefaru wrtho yn ddigyfrwng; ac er mwyn hyn, ystyriwn,

(1.) Fel y mae Duw wedi lluosogi ei orchymynion, nid yn unig er tystiolaethu ei anfeidrol gariad tuag attom, a'i ofal am danom, ond hefyd y fath berthynas dragywyddol sydd rhwng yr hyn a ofyna efe â ni. Nid rhyw un gorchymyn yn unig a roddes efe i ni; ond "llin ar lin, gorchymyn ar orchymyn." Mae pob tu dalen o'r Bibl o'r bron wedi ei lanw â gorchymynion, neu gyfarwyddiadau i sancteiddrwydd, ac nid oes unrhyw ddyledswydd neillduol, na changen o sancteiddrwydd, nad yw yn disgyn dan ryw orchymyn neillduol o eiddo Duw. Gan hyny, onid ein dyledswydd ni ydyw ystyried y gorchymynion hyn yn wastadol, a'u rhwymo wrth ein calonnau, fel na's gallo dim eu hysgaru?

(2.) Byddai yn dda i ni ystyried y gwahanol ffyrdd y mae Duw wedi eu defnyddio i gymhell y gorchymynion hyn ar ein sylw. Fe'u dilynir âg annogaethau, deisyfiadau, rhesymiadau, ymliwiadau, addewidion a bygythion, y rhai a ddefnyddir oll i sicrhau y gorchymyn ar ein meddyliau a'n cydwybodau. Gŵyr Duw mor anniben ydym ni i dderbyn yr argraffiadau prïodol o'i awdurdod ef; ac efe a wyr trwy ba ffyrdd a moddion y mae cgwyddorion ein galluoedd tufewnol yn fwyaf tebyg o gael gweithredu arnynt; ac am hyny, y mae efe yn defnyddio y peiriannau hyny i argraffu ystyriaeth o rym ei orchymyn ar ein meddyliau. Nodaf enghraifft yn unig yn yr addewidion hyny a ddefnyddir i gymhell y gorchymyn i sancteiddrwydd ar ein meddyliau.

Nid yn ofer y dywedir fod gan dduwioldeb addewid o'r bywyd sydd yr awr hon, ac o'r hwn a fydd; mae cyfeiriad neillduol yn yr holl addewidion at dduwioldeb, neu sancteiddrwydd, ac y mae yn rhoddi i bawb a'i meddant, hawl arbenig o'r holl addewidion. Dyma oedd y testyn, megis, ar yr hwn y pregethai ein Gwaredwr ei bregeth ar y mynydd; canys yr oedd yr holl fendithion a gyhoeddai efe yn gynnwysedig mewn enghreifftiau neillduol o sancteiddrwydd, yn nghyd ag addewid arbenig o fendith wedi ei chyssylltu â phob un o honynt. "Gwyn eu byd," medd efe, "y rhai pur o galon;" purdeb calon yw ffynnonell pob sancteiddrwydd; a pha ham y mae y cyfryw yn wynfydedig?—"hwy a welant Dduw:" efe a briodola yr addewid o dragywyddol fwynâad o Dduw i'r cymhwysder yma, purdeb calon. Felly hefyd y mae yn meddu addewidion am y bywyd sydd yr awrhon mewn pethau tymhorol ac ysbrydol. Mewn pethau tymhorol gallwn nodi yr enghraifft hono a ddyru y Salmydd i ni, "Gwyn ei fyd a ystyrio wrth y tlawd." Mae doeth ystyried y tlawd yn ei gyfyngder, i'w gynnorthwyo yn ol ein gallu, yn ddyledswydd dra arbenig mewn sancteiddrwydd. Ac fe ddywaid y Salmydd fod y sawl a wnelo hyn yn wynfydedig. Ond yn mha ystyr? "Yr Arglwydd a'i gwared ef yn amser adfyd: yr Arglwydd a'i ceidw ac a'i bywha; gwynfydedig fydd ar y ddaear; na ddod dithau ef i ewyllys ei elynion; yr Arglwydd a'i nertha ef ar ei glaf wely; cyweiri ei holl wely ef yn ei glefyd." Mae llawer o addewidion neillduol gyda golwg ar bethau mwyaf pwysig y bywyd hwn, wedi eu cysylltu âg iawn gyflawniad yr un ddyledswydd hon; canys y mae gan dduwioldeb "addewid o'r bywyd sydd yr awrhon." Felly hefyd y mae gyda golwg ar bethau ysbrydol: am ba achos yr oedd yr apostol Pedr, wedi adrodd cadwyn o rasusau, yn ychwanegu y sylw hwn fel cefnogaeth attynt;—"Tra fyddoch chwi yn gwneuthur y pethau hyn, ni lithrwch chwi ddim byth." Mae yr addewid o barâad mewn ufudd-dod, a diogeliad rhag pob cyfryw

lithriadau i bechod ag ydynt yn anughyson a'r cyfammod o ras, wedi ei chyssylltu â diwydrwydd mewn sancteiddrwydd; a phwy na's gwyr mor luosawg ydynt y cyfryw enughreifftiau yn yr Ysgrythyr! Gan hyny, yr ydym yn casglu y dylem ystyried, nid yn unig y gorchymyn, ond yr addewidion â pha rai y'i dylynir hefyd, fel calonogiad i'r cyflawniad llawen o'r ufudd-dod hwnw, a wneir yn angenrheidiol trwy y gorchymyn ei hunan.

Gan hyny, y mae grym y rhesymiad yma yn ymddangos yn eglur i bawb. Mae Duw wedi datguddio ei ewyllys yn bendant, gan gyfryngu ei awdurdod oruchel, a gorchymyn i ni fod yn sanctaidd, a hyny dan berygl ei anfoddlonrwydd eithaf ef; ac y mae wedi rhoddi y sicrwydd helaethaf i ni, pa beth bynnag a fyddom heb sancteiddrwydd diffuant, na's addefa efe mo honom, ac na fydd a wnelo efe â ni. Boed ein doniau, ein swyddau, ein defnyddioldeb, neu ein proffes, yr hyn a fyddo, oddieithr ein bod yn sanctaidd mewn gwirionedd, nid ydym, ni's gallwn fod, ac ni's byddwn yn gymeradwy gyda Duw.

Ac y mae yr Ysbryd Glan yn ofalus i warchod rhag twyll yn hyn, yr hyn y rhagwelai efe a ymwthiai i feddyliau dynion; a chan mai ein *ffydd* yw y sylfaen ar yr hon y gorwedda ein iachawdwriaeth, y pegwn ar yr hwn y mae ei holl bwysau yn troi,—gallai dynion fod yn dueddol i feddwl, os bydd ganddynt ffydd, y bydd pob peth yn dda, er na byddont yn sanctaidd. Gan hyny, am fod yr ymhoniad yma i ffydd yn fawr, a dynion yn dueddol i'w twyllo eu hunain, gan obeithio a dysgwyl am nefoedd er coledd eu chwantau, fe'n hysbysir yn yr Ysgrythyr yn eglur, am y ffydd hono a fyddo heb sancteiddrwydd, heb weithredoedd, heb ffrwythau, mai ofer ydyw.

PEN. IV.

Yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd yn cael ei brofi drwy waith Duw yn anfon Iesu Grist.

Mae genym resymiadau eto i'w dadleu i'r un perwyl; canys un prif amcan gan Dduw yn anfon ei Fab i'r byd

oedd, i'n hadferu i gyflwr o sancteiddrwydd, yr hwn a gollasom. "I hyn yr ymddangosodd Mab Duw fel y dattodai weithredoedd diafol," 1 Ioan 3. 8.—Ymddangosodd Duw yn ei gnawdoliaeth, mewn trefn i wneyd y gwaith oedd ganddo i'w gyflawni yn ein natur: yr hyn oedd dinystrio gweithredoedd y diafol, y penaf o ba rai oedd halogiad ein natur âg egwyddor o bechod a gelyniaeth yn erbyn Duw, ac ni's gwaredir ein natur oddiwrth hyn, ond trwy ddwyn egwyddor o sancteiddrwydd i fewn. Lle ni's gwneir hyn, nid oes creu o newydd, nac adferu pob peth, na llawn gyflawniad o yr un o ddybenion cyfryngwriaeth Crist:—ond ni a ystyriwn hyn ychydig yn fanylach.

Cyfyngir y gweinyddiad o gyfryngaeth Crist i'w dair swydd;—pa beth bynnag a wneir ganddo ef dros yr eglwys, fe'i gwneir ganddo fel offeiriad, neu fel brenin, neu fel proffwyd; ac nyni a allwn ystyried y modd y mae gan bob un o'r swyddau hyn ei dylanwad er ein sancteiddiad, fel y mae hyn yn dangos yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd i ni.

Yn gyntaf. Swydd offeiriadol Crist. Mae gweithredoedd priodol y swydd hon, sef cyflwyno aberth, ac eiriol, yn golygu Duw ei hunan yn union-gyrchol; canys un wedi ei benmodi i ymwneyd â Duw ar ran craill yw offeiriad; ac am hyny nid yw Crist trwy yr un o'r gweithredoedd offeiriadol, yn gweithio sancteiddrwydd yn union-gyrchol ynom ni: ond y mae effeithiau y gweithrediadau hyn o ddau fath, digyfrwng, a chyfryngiadol. (1.) Digyfrwng, sef y cyfryw ag a olygant Dduw ei hunan, megis iawn, cymmod, boddlonrwydd. Yn hyn y cynnwysid dyben cyntaf a phenaf cyfryngwriaeth Crist; heb yr hyn ni buasai pob peth arall ond di les; ni's gellir ein sancteiddio na'n hachub trwyddo ef, heb i bechod gael dyhuddiant, a Duw gael iawn, yn gyntaf. Ond,

(2.) Mae effeithiau cyfryngol gweithrediad offeiriadol Crist yn dwyn perthynas â ni, sef ein cyflawnâad, a'n sancteiddäad; canys y mae Duw yn cynnyrcha sancteidd-

rwydd yn yr holl gredinwyr, trwy rinwedd aberth ac eiriolaeth Iesu Grist. Efe a'i rhoddes ei hun drosom, i'n prynu ni oddiwrth bob anwiredd, ac i'n puro ni iddo ei hun yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da." Ei roddiad o hono ei hun drosom, a ddynodai ei waith yn ei offrymmu ei hun fel aberth i Dduw; ac efe a wnaeth hyn, nid yn unig fel y'n prynai oddiwrth anwiredd, oddiwrth euogrwydd a chosbedigaeth ein pechodau, ond hefyd fel y purai ni iddo ei hun, fel y'n sancteiddiai, ac y'n gwnelai yn ffrwythlon, neu awyddus i weithredoedd da. Mae ei waed ef yn puro ein cydwybodau ni oddiwrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw. Y mae puredigaeth oddiwrth bechod, yr hwn sydd gynnwysedig mewn dyhuddiad cyfreithiol oddiwrtho drwy iawn, Heb. 1. 3: ond, y mae puredigaeth pechadur, trwy effeithioldeb gwirioneddol yn ein sancteiddäad. Felly lle y dywedir fod Crist wedi ein "golchi ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun," hyny yw, yn y tywalltiad a'r offrymiad o hono drosom, Dat. 1. 5, y golygir ei fod yn ddyhuddiad i euogrwydd, a hefyd yn buredigaeth oddiwrth halogrwydd. A chan mai ein sancteiddiad ni yw un dyben mawr o'i offrymiad ef o hono ei hunan drosom ni, y mae yn anmhossibl i ni feddu y prawf lleiaf o'n bod yn meddu hawl i unrhyw ddyben arall o'i offeiriadaeth ef, heb ein bod yn gyfrannog o hyn.

Yr un dyben hefyd sydd i ail weithred offeiriadol Crist, sef ei eiriolaeth; ac y mae yn effeithiol i'r un perwyl. Mae yn wir ei fod ef yn eiriol am faddeuant pechod trwy rinwedd ei offeiriadaeth; ond nid hyn yw yr holl amcan o hono; mae efe yn eiriol hefyd am ras a chyflawnder o ddoniau yr Ysbryd, i'n gwneuthur a'n cadw yn sanctaidd, Ioan 17. 15, 17.

Yn ail,—Am swydd brophwydoliaethol Crist; ac y mae hon yn gynnwysedig o ddwy ran,—y datguddiad o Dduw yn ei enw, ei gariad, ei ras, ei ddaioni, a'i wirionedd yn ei addewidion, fel y credom ynddi; a'r datguddiad o Dduw

yn ei ewyllys a'i orchymynion, fel yr ufuddhaom iddo:—a gellir ystyried hyn ddwy ffordd, (1.) Fel y'i hanfonid mewn modd neillduol i dy Israel; ac yn (2.) Gyda golwg ar yr holl eglwys yn mhob oes.

Y cyntaf, yr hwn a gymerai i fynu lawer o'i weinidogaeth bersonol, yr hyn a gynnwysid yn y cyhoeddiad, yr egluräad, a'r amddiffyniad o'r gorchymynion dwyfol a roddasid o'r blaen; ond y rhai trwy gnawdolrwydd y bobl i'r rhai y'i rhoddid, ni's iawn ddealliid. Efe a ddatganai ysbrydolrwydd y ddeddf, gyda golwg ar ansoddion dirgelaf ein calonnau, a'r afrëolcidd-dra lleiaf yn ein nwydau a'n serchiadau. Efe a ddatguddiai wir ystyr ei gorchymynion; gan eu hamddiffyn oddiwrth y gau esponiadau a roddid arnynt yn gyffredin yn yr Eglwys yr oes hono. Felly efe a adferodd y ddeddf i'w dull coronawg cynhwynol, fel y medda yr Iuddewon draddodiad y gwnelid yn nyddiau y Messiah.

Yr ail ran o'r swydd hon, yn ei pherthynas â'r eglwys yn mhob oes (gan gynnwys gweinidogaeth yr apostolion ysbrydoledig ganddo ef) oedd yn gynnwysedig yn y dyledswyddau hyny o sancteiddrwydd y rhai, er eu bod yn meddu sail gyffredinol yn y ddeddf, nid adnabuasid byth yn eu natur neillduol, ond trwy ei ddysgeidiaeth ef. Ac am hyn y'u gelwir Gorchymyn Newydd, a Hen Orchymyn, mewn ystyriaethau gwahanol. O'r cyfryw, y mae ffydd yn Nuw trwyddo ef, cariad brawdol, hunan-ymwadiad mewn cyfodi y groes, gwneuthur da am ddrwg, a'r cyffelyb. Heblaw hyny, efe a'n dysg ni yn yr holl ordinhadau hyny a berthynant i'n sancteiddrwydd, ac a dueddant i'w feithrin.

Mae tri pheth neillduol i'w ystyried yn yr athrawiaeth o ufudd-dod a ddysgir i ni gan Grist. 1. Y mae yn gyflawn a pherffaith. Cyrhaedda y galon ei hunan, a'i holl weithrediadau dirgelaf. Nid yw ymarferiad y rhan fwyaf o ddynion yn cyrhaedd yn mhellach na gweithrediadau allanol; ond, y mae efe yn gyntaf oll yn gofyn adnewydd-

iad ein holl cneidiau i ddelw Duw. Un effaith arbenig o falehder atheistaidd dynion yw, eu bod yn ymwneyd á rhyw gyfarwyddiadau eraill yn lle cyfarwyddiadau yr Efengyl. Tröa rhai at oleuni natur, a gwasanaeth rheswm uniawn (hyny yw, yr eiddynt eu hunain) fel eu harweinydd; at yr hyn yr ychwanega rhai, gyfarwyddiadau y philosophyddion. Meddyliant fod mewn dywediad o'r eiddo Epictetus, neu Seneca, neu Arianus, (am eu bod yn fwy cydnaws a'u dychymygion hwy) fwy o fywyd a grym, nac yn ngorchymynion Crist yn yr Efengyl. Mor ddirmygedig yn ngolwg dynion, yw Iesu Grist, doethineb Duw, a Phrophwyd mawr yr Eglwys, am yr hwn y dywedai Duw, "Hwn yw fy anwyl Fab; gwrandewch arno ef!"

Tybiwn er mwyn ein Paganiaid diweddar, y rhai a haerant mai felly y mae, fod ein holl ufudd-dod yn gynnwysedig mewn moesoldeb; o ba le y'i dysgwn? Mae yn ddiau mai lle mae yr addysg egluraf, berffeithiaf, a rhyddaf oddiwrth gyfeiliornadau; lle mae y duil o ddysgu yn fwyaf gallnog ac effeithiol, a lle mae awdurdod yr athraw yn fwyaf diambeuol. Yn yr holl olygiadau hyn, gallwn ddywedyd am Grist, Pwy sydd yn dysgu fel efe? Yna yn ddiau y gallwn ddysgwyl cael ein dysgu gan Dduw, pan y'n dysgir ganddo ef.

Nid yw yr holl gyfarwyddiadau a gawn gan oleuni natur, er maint a gabolir arnynt gan ddynion myfyrgar, namyn amherffaith; canys ni chyrhaeddasant erioed mor hyn y mae bywyd sancteiddrwydd yn gynnwysedig ynddo,—sef adnewyddiad ein natur. Am hyny, y mae holl gyfarwyddiadau philosophyddion y byd, wedi bod yn aneffeithiol i adnewyddu natur un dyn erioed, pa ryw gyfnewidiad bynnag a achlysurwyd yn eu hymarweddiad trwyddynt. Ychydig iawn o gyfarwyddiadau goleuni natur ydynt yn sicr, fel y gellir eu cymeryd yn rheol anffaeledig. Mae rhai gorchymynion cyffredinol yn ddiau yn ddigon eglur, megis, bod Duw yn wrthddrych i'w garu, na's dylem niweidio ein cyd grëaduriaid, y dylai pawb

gael yr hyn fyddo ddyledus iddo; ond, ewch ychydig yn mhellach, a chwi a ganfyddwch fod prif foes-athrawon y byd, yn yndroi mewn dadleuon di derfyn yn nghylch natur rhinwedd, y dyledswyddau perthynol iddi, a rheol eu hymarferiad. Treuliodd llawer o honynt eu hoes yn y dadleuon hyn, heb ymdrechu nemmawr i arddangos eu syniadau eu hunain yn eu bucheddau; ac am yr un rheswm yr ydwyf yn credu nad yw ein moes-ddysgawdwyr presenol yn gofala nemmawr am ddim heblaw yr enw;—mae rhinwedd ei hunan wedi dyfod yn beth estronaidd a lled-chwith.

Ond, nid oes un lle i betruso yn nghylch yr hyn a orchymynir i ni gan Grist Iesu, pa un a ydyw yn rheol anffaeledig i ni ai peidio. Mae pob gorchymyn am y ddyledswydd leiaf, mor sier, ac arddangosiadol o natur y ddyledswydd honno a'r angenrheidrwydd am dani, a'r fwyaf pwysig, a'r cyfryw ag y mae y prawf egluraf iddynt oddiwrth oleuni natur. Nid oes nac anegluder na phleidgarwch yn ei orchymynion a'i gyfarwyddiadau ef; maent yn gymmesur âg ufudd-dod cyffredinol. Beiddiaf y dysgedicaf o foes-athrawon y byd i roddi engrhaifft o unrhyw ddyledswydd foesol, na's profaf ei bod yn cael ei gofyn yn fwy eglur gan Grist yn yr Efengyl, a'u cymhwyso attom trwy gymhelliadau llawer grymmusach, na dim adnabyddus iddynt hwy. Gan hyny, y mae yn ynfydrwydd cystal a drygioni i'r eithaf, i ddynion gymeryd arnynt ddysgu dyledswyddau ufudd-dod gan craill, yn hytrach na chan Grist, Prophwyd yr Eglwys!

2. Dylem ystyried dull y ddysgeidiaeth hefyd o ran ei grym a'i heffeithioldeb, i'r perwyl yma. Ac yn ngwyneb hyn hefyd, nyni a allwn ofyn, "Pwy sydd yn dysgu fel efe?" Yr oedd y cyfryw odidowgrwydd yn ei weinidogaeth bersonol ef pan oedd ar y ddaear, fel y llenwid ei holl wrandawwyr à syndod. Am hyny y dywedid, ei fod ef "yn dysgu fel un ac awdurdod ganddo, ac nid fel yr Ysgrifenyddion;"—hwy a ryfeddent at y geiriau grasol a

ddeuent allan o'i enau ef; ac hyd yn nod y swyddogion a anfonasid i'w ddal ef, a ddeuent oddiyno wedi eu meddiannu â syndod, gan ddywedyd, "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn." Eto nid hyn yw y peth sydd genyf mewn golwg; ond ei ddysgeidiaeth barhaus yn ei eglwys trwy ei air a'i Ysbryd. Mae yn rhoddi y fath rym ac effeithiolrwydd iddo, fel y mae yn ei brofi ei hunan mai o Dduw y mae beunydd. I hyn y mae profiad a bucheddau llawer oedd yn dwyn tystiolaeth yn barhaus. Y maent yn tystio, a hwy a dystiant i dragywyddoldeb am rym ei air i oleuo eu meddyliau, i ddarostwng eu chwantau, i adnewyddu eu calonnau, eu cynnorthwyo a'u cysuro yn eu profedigaethau a'u cyfyngderau, yn nghyd a'r cyffelyb effeithiau o allu a gras.

Pa fath yw y dull o ddysgu a arferir gan y moes-athraw mwyaf, a pha fath ydynt ei effeithiau? Geiriau denu, tegweh ymadrodd, wedi eu cyfansoddi yn faglau i'r serchiadau, er hyfrydu y dychymyg, ydyw addurn a bywyd y fath yma o ddysgeidiaeth; am ba achos, boddâad diflanedig, penderfyniadau ansefydlog, ac ychydig ymdrechiadau gweiniaid am ryw gyfnewidiad ar y fuchedd, yw ei heffeithiau gorau: ac mor dyner yw ei gweithrediad ar feddyliau dynion, fel y mae y pechaduriaid mwyaf ysgeler yn cael eu boddhau â hi, fel y maent yn cael hefyd yn mhregethau y rhai a weithredant yn yr un Ysbryd, ac oddi ar y cyffelyb egwyddorion.

3. Gan mai y peth olaf i'w ystyried yn y rhai y dewiswn ein rhoddi ein hunain i'w dysgeidiaeth, yw eu hawdurdod; rhaid i ni adael hyny heb ychwaneg o ddadleuaeth i gydwybodau dynion i benderfynu pa un ai awdurdod Crist, Mab Duw, ynte yr eiddo rhyw rai eraill a fawrygir ganddynt, sydd uchaf ei bri yn eu golwg; a bydded iddynt wneuthur eu dewisiad yn rhydd, ac felly hwy a addefant yn ddiragrith pa beth a fyddant yn ei wneuthur.

Yn drydydd,—Dyma un dyben mawr o awdurdod freninol Crist; canys fel y cyfryw y mae efe yn darostwng ein

gelynion, ac yn cadw ein heneidiau rhag dystryw. Ein gelynion yw y rhai a ymladdant yn erbyn diogelwch ein cyflwr ysbrydol;—ein chwantau, ein pechodau, a'n temtasiynau. Ond y mae ein Harglwydd Iesu Grist yn darostwng y rhai hyn trwy ei awdurdod freninol, gan fywhau, a chadarnhau egwyddorion ufudd-dod sanctaidd ynom trwy ei arlwyon o ras. Yn fyr, gellir crynhoi gwaith Crist fel brenin i'r penau canlynol:—Rhyddhau ei ddeiliaid:—Eu cadw yn ddiogel, gan waredu eu heneidiau rhag twyll a thrais:—Rhoddi llwyddiant iddynt, a chynnyddu eu golud:—Sefydlu tangnefedd diogel iddynt:—Peri iddynt garu eu gilydd:—Rhoddi lle dwys i les a llwyddiant ei freniniaeth yn eu holl serchiadau:—Tragwyddol wobrwyo eu hufudd-dod. Ac y mae efe yn gwneuthur yr holl bethau hyn yn bennaf trwy weithredu gras a sancteiddrwydd ynddynt, fel y gellid dangos yn hawdd. Yr wyf yn meddwl nad oes neb a amheua mai prif waith Crist tuag attom fel Pen a Brenin, yw ein gwneuthur a'n cadw yn sanctaidd. Gan hyny, nid ymdröaf yn hwy gyda hyny. Ond y mae yn briodol i ni geisio defnyddio yr ystyriaethau hyn er cadarnâad i'n dadl bresenol am yr angenrheidrwydd o sancteiddrwydd.

Yn gyntaf.—Mae yn amlwg oddiyma mor ofer yw i ddynion feddwl fod iddynt hawl yn Nghrist, neu y bydd iddynt dderbyn unrhyw lesâad oddiwrtho ef, tra yn parhau mewn cyflwr ansanctaidd. Dyma y twyll mawr trwy yr hwn y mae Satan yn dystrywio y cyffredin o ddynolryw a broffesant y grefydd Gristionogol. Mae yr Ysgrythyr yn arddangos ffordd bywyd ac iachawdwriaeth yn agored trwy Iesu Grist: ac fe addefir hyn mor bell gan y rhai a ymgyfenwant yn Gristionogion, fel na's goddefant i unrhyw ffordd arall gael ei gosod yn gyfyngrysonawl â hi; canys nid wyf yn son yma am bechaduriaid celyd, ysgeler, y rhai ni's gofalant am ddim sydd o'u blaen, ond am y cyfryw ydynt yn meddu rhyw ddymuniad cyffredinol i ddianc rhag damnedigaeth uffern, a chyrhaedd anfarwoldeb a gogon-

iant: ac y maent yn proffesu eu bod yn gwneuthur hyn trwy Iesu Grist; gan dybied fod y pethau gofynol i'r perwyl yma, a ofynir yn yr Efengyl, yn perthynu iddynt hwy cystal ag eraill, gan eu bod hwythau hefyd yn Gristionogion: ond nid ydynt yn ystyried fod rhyw ffyrdd a moddion arbenig, trwy ba rai y mae rhinwedd a lles yr hyn oll a wnaeth Crist drosom ni yn cael ei gludo i eneidiau dynion; heb yr hyn nid oes i ni un gyfran ynddynt. Os dysgwyliwn gael ein hachub gan Grist, rhaid gwneyd hyny trwy yr hyn a wnaeth efe, ac y mae yn ei wneyd drosom ni fel Offeiriad, Proffwyd, a Brenin: ond un o brif ddybenion ei holl waith yn y pethau hyn, yw ein sancteiddiad ni; ac oni's cynnyrchir hyn ynom, ni's gallwn gael llesäad tragywyddol trwy ei gyfrwngwriaeth ef.

Oddiyma gwelwn gyflwr truenus torfeydd a'u galwant eu hunain yn Gristionogion; y rhai er byw mewn pechod, a obeithiant am achubiaeth trwy yr Efengyl. Canys, (1.) Y maent yn twyllo eu heneidiau eu hunain yn druenus, gan waeddi "Heddwch, heddwch, pan y mae dinystr disymwth yn gorwedd wrth y drws." Ac yn (2.) Maent yn bwrw y dianrhydedd mwyaf a ellir ar Grist a'r Efengyl;—canys am elynion amlwg Crist, y rhai a'i gwrthodant ef fel twyllwr, a'r Efengyl fel gwag chwedl, maent wedi eu condemnio eisoes: ac ni's gall neb feddwl yn waeth am dano ef, nac am yr Efengyl ar gyfrif eu gwrthwynebiad hwy; ond am y rhai sydd yn proffesu eu bod yn addef y naill a'r llall, ac eto yn parhau i fyw mewn pechod, y maent yn ymdrechu i ddarlunio Crist fel "gweinidog pechod;" fel un a ddug oddefiad i ddynion i fyw yn eu pechodau, a'r Efengyl fel athrawiaeth penrhyddid a drygioni. Dyma beth a fwriodd anfri mawr ar Gristionogaeth, ac a fu yn attalfa fwyaf effeithiol i'w llwyddiant yn y byd. Y rhai hyn yw y rhai y cwynai yr apostol mor chwerw o'u herwydd, "Canys y mae llawer yn rhodio, am y rhai y dywedais i chwi yn fynych, ac yr ydwyf yr awrhon hefyd dan wylo yn dywedyd, mai gelynion croes Crist ydynt; diwedd

y rhai yw dystryw, duw y rhai yw eu bol, a'u gogoniant yn eu cywilydd, y rhai sydd yn synied pethau daearol." Phil. 3. 18, 19. O! gynnifer y mae y nodweddiad yma yn gweddu iddynt y dyddiau hyn! A pha beth bynnag a feddyliont o honynt eu hunain, gelynion croes Crist ydynt; ac y maent yn mathru dan eu traed "waed y cyfammod."

Yn ail, Bydded crefyddwyr mwy manol, yn dra difrifddwys yn hyn. Wedi i'r apostol sicrhau iachawdwriaeth ddiogel pob gwir gredadyn oddiwrth arfaeth annewidiol Duw, efe a chwanegai yn y fan, "A phob un sydd yn enwi enw Crist, ymadawed oddiwrth anngbyfiawnder." 2 Tim. 2. 19; gan roddi ar ddeall i ni yn eglur, na's gall neb heb sancteiddrwydd, heb ymadawiad trwyadl âg anngbyfiawnder, feddu un prawf o'i fod ef yn meddu hawl o'r cyflwr diogel hwnw. Yr ydych yn enwi enw Crist,—yn proffesu eich bod yn gyfrannogion o hono ef,—yn dysgwyl iachawdwriaeth drwyddo ef;—pa fodd yr ymwnewch chwi âg ef? Oddiwrth ba un o'i swyddau y dysgwyliwch chwi gael llesäad? Ai oddiwrth ei swydd officiriadol? A burodd ei waed ef eich cydwybodau chwi oddiwrth weithredoedd meirwon, fel y gwasnaethech y Duw byw? A lanhawyd ac a sancteiddiwyd chwi drwy ei waed ef? A brynwyd chwi oddiwrth y byd, ac oddiwrth eich ofer ymarweddiad ynddo, drwy ei officiriadaeth ef? Oni chanfyddwch yr effeithiau hyn o'i waed tywalltedig ef, ni bydd ond ofer i chwi ddysgwyl cyfrannogi o'r effeithiau craill, megis cymmod â Duw, maddeuant, cyfiawnäad, ac iachawdwriaeth. Pa le bynnag y mae officiriadaeth Crist yn effeithio mewn rhan, ymae hefyd yn effeithio yn gyfan-gwbl. Ni's caiff y sawl a ddiystyrant ei ffrwythau mewn sancteiddrwydd, gyfrannogi yn y radd leiaf o'i ffrwythau mewn cyfiawnder.

Ai oddiwrth ei swydd brophwydoliaethol y dysgwyli ymwared? Yna, a ddysgaist ti ganddo ef i "wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn gyfiawn, yn sobr, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon?" A ddysgodd

efe chwi i fod yn ostyngedig, yn addfwyn, a dioddefgar? A ddysgodd efe chwi i fod yn onest yn eich holl ymdriniaethau â'ch cyd-ddynion? Uwchlaw y cwbl, a ddysgas-och chwi ganddo ef i buro eich calonau trwy ffydd, i ddarostwng eich chwantau ysbrydol a chnawdol, i ymestyn at gydffurfiad cyffredinol â'i ddelw ef? A ydych chwi yn cael fod ei athrawiaeth ef yn effeithiol i'r dybenion yma; ac a yw eich calonnau megis wedi eu bwrw i'w ffurf hi? Os yw felly, y mae dy hawl yn mendithion ei swydd brophwydoliaethol wedi ei sicrhau i ti:—ond, os dywedi dy fod wedi clywed ci lais yn ei air yn y darlleniad a'r pregethiad o honaw, dy fod wedi dysgu llawer o ddirgeledigaethau,—wedi cyrhaedd llawer o oleuni a gwybodaeth, fel ag y gelli siarad am athrawiaethau, a chyflawni llawer o ddyledswyddau,—ond na's gelli ddywedyd fod yr effeithiau rhag-ddywededig yn cael eu gweithredu ynot trwy ei air a'i Ysbryd, nid yw ond ofer i ti ddysgwyl meddu hawl ynddo ef fel Cyfryngwr, nac unrhyw lesäad oddiwrth hyny.

Ai â swydd Freninol Crist yr ymwnei? Byddai yn dda i ti ymofyn pa fodd y mae efe yn rheoli ynot ac arnat ti. A ddarostyngodd efe dy chwantau, y gelynion hyny i'w freniniaeth, sydd yn rhyfela yn erbyn dy enaid? A nerthodd efe di â'i ras i bob ufudd-dod sanctaidd? Ac a roddaist di dy hunan i fynu i'th lywodraethu trwy ei air a'i Ysbryd, i ufuddhau iddo yn mhob peth, ac i ymddiried dy holl achosion tymhorol a thragywyddol i'w ofal, ei ffyddlondeb, a'i allu ef? Os yw felly, y mae genyt le i lawenychu, fel un sydd yn meddu cyfrannogaeth sicr yn mhethau gwynfydedig ei freniniaeth ef:—ond os yw dy chwantau gwrthryfelgar eto yn cael eu rhwysg ynot; os ydwyt yn parhau i gyflawni chwantau y meddwl a'r cnawd; os ydwyt yn rhodio yn ol helynt y byd hwn, ac nid fel deiliad ufudd o'i freniniaeth ef, "yr hon nid yw o'r byd hwn,"—na thwylla dy hunan,—ni lesâ Crist ddim i ti!

Dyma swm ein hymresymiad:—Ouid yw yr Arglwydd

Crist yn gweithredu er ein llesäad un ffordd heblaw yn a thrwy ei swyddau bendigedig o Offeiriad, Prophwyd, a Brenin; ac os effaith union-gyrchol gras Crist yn gweithredu tuag attom yn yr holl swyddau hyn yw ein sancteiddiad,—nid oes gan y rhai nad yw yr effaith yma wedi ei gynnyrchu ynddynt, un lle i addaw iddynt eu hunain ran yn Nghrist, na'r llesion dcilliedig trwy ei gyfryngaeth ef. Canys y mae gwaith dynion yn enwi enw Crist, yn proffesu eu bod yn dysgwyl am iachawdwriaeth drwyddo ef:—tra ar yr un pryd y maent yn fydol, yn feilchion, yn uchelfrydig, yn gentigenus, yn ddialgar, yn cashau dynion da, yn gybyddlyd, yn byw mewn amryfal chwantau a phleserau pechadurus, yn waradwydd i Gristionogaeth, ac yn sicr o fod yn ddinystriol i'w heneidiau hwythau eu hunain.

PEN. V.

Yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd yn cael ei brofi oddiwrth ein cyflwr ni yn y byd hwn.

Dadl arall er profi yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd, a ellir ei gyfodi oddiwrthym ni ein hunain, a'n cyflwr presenol; canys trwy hyn yn unig yr iacheir anhwylderau niweidiol ein meddyliau. Myfi a brofais yn ddigon helaeth o'r blaen fod ein natur wedi ymlygru yn drwyadl trwy bechod, ac nid ydwyf yn awr yn myned i'w ystyried fel y mae yn ein hanalluogi i fyw i Dduw, nac ychwaith yn ei berthynas â chosbedigaeth ddyfodol; ond amcanaf sylwi ar y trueni presenol a achlysurir trwyddo: canys tra fyddo meddwl dyn wedi ei feddiannu â thywyllwch, ynfydrwydd, ac anwadalwch;—yr ewyllys dan awdurdod marwolaeth ysbrydol, yn gyndyn ac anhyblyg; a'r holl serchiadau yn gnawdol a hunanol;—yr holl enaid yn cael ei hyrddio oddiwrth Dduw, ac felly allan o'i flordd, yn cael ei lanw yn barhaus â dyryswch ac âg aanhrefn. Nid yw yn annhebyg i'r darluniad a ddyru Job o'r bedd, "Tir tywyllwch fel y fagddu, a chysgod angau, a heb drefn;

lle mae y goleuni fel y tywyllwch." Pan ymroddes Solomon i gael allan achosion o'r holl wagedd a'r gorthrymder ysbryd sydd yn y byd, dyma swm yr hyn a gafodd efe allan; "Wneuthur o Dduw ddyn yn uniawn, ond hwy a chwiliasant allan lawer o ddychymygion;" hyny yw, hwy a'u bwriasant eu hunain i faglau a chyfeiliornadau yn ancirif. Yr hyn sydd bechod yn ei euogrwydd, sydd gosbedigaeth yn ei awdurdod; ie, a'r fwyaf y gall dynion fod yn ddarostyngedig iddi yn y byd hwn. Felly y mae Duw am euogrwydd rhai pechodau yn rhoddi dynion yn gosbawl i awdurdod pechodau eraill;—ac nid oes gaethiwed truenusach na bod dan awdurdod pechod. Mae hyn yn profi llwgr gwreiddiol ein natur; mae yr holl enaid wedi ei lanw â thywyllwch ac anmhrefn, a'i ddwyn dan awdurdod amrywiol chwantau a nwydau, gan gaethiwo y meddwl a'r ewyllys dan eu dylanwad, yn y caethwasanaeth ffieiddiaf. Can gynted ag y dechreuo y meddwl weithredu yn ol y gweddillion bychain o oleuni ynddo, fe'i hattelir yn y fan gan chwantau afreolaidd, a nwydau flyrnig, y rhai a dywyllant ei gyfarwyddiadau, ac a roddant daw ar ei orchymynion. Ac o herwydd hyn y mae yr holl enaid yn cael ei lanw âg ymrysoniadau llymion. Gwagedd, ynfydrwydd, anwadalwch, syniadau cnawdol, dymuniadau afreolaidd, a nwydau afionydd, ydynt yn gweithio yn ein natur lygredig.

Mor drylawn yw y byd o anmhrefn, gormes, crib-ddeiliaeth, aflendid, a'r cyffelyb anhwylderau ofnadwy! Ond och! nid ydynt namyn cynddrych anmherffaith o'r drygau ydynt yn meddyliau dynion anianol; canys fel y mae y cwbl yn dyfod o'r galon, felly nid esgorwyd mewn gweithrediad ar y filfed ran o'r hyn a ymddygwyd yno mewn dychymyg ac amcan. Mae annuwiolion "fel y môr yn dygyfor, heb allu bod yn llonydd, yr hwn y mae ei ddyfroedd yn bwrw allan dom a llaid." Mae y galon ar waith yn barhaus, yn ddiorphwys yn ei dychmygion, fel dyfroedd y môr pan fyddo yn ystormus; ac y maent oll "yn unig yn ddrygionus bob amser," yn bwrw allan dom

a llaid. Ac nid yw y rhai y gellid tybied eu bod yn meddu manteision a chyfleusdra gwell nac eraill i borthi eu chwantau, namyn cynnyddu eu hanfonyddwch eu hunain; canys fel y mae y pethau hyn yn ddrwg ynddynt eu hunain, y maent hefyd yn gospawl i'r rhai y maent yn llywodraethu ynddynt; a phe gellid agor eu mynwesau, gellid canfod wrth y terfysg a'r dychryn y maent yn byw ynddo, eu bod ar gyffiniau Uffern.

Am hyn y mae oes dyn yn llawn o drallod, siomedigaeth, gorthrymder ysbryd, ac anfoddlonrwydd di ball, yr hyn a ganfyddodd rhai o'r paganiaid callaf, ac am yr hyn y cwynent, gan geisio ymwared, ond yn llwyr ofer. Mae yr holl bethau hyn yn deillio oddiar lygredigaeth ein natur ni; ac oni's gwaredir oddiwrthynt, y maent yn sicr o ddiweddu mewn trueni tragywyddol: ac mor wir a hyny y maent yn dra gofidus yn bresenol. Mae gwir heddwch a thawelwch meddwl yn ddieithriaid i'r cyfryw eneidiau. Och! pa beth yw y llesion a'r plesерau darfodedig a ellir gael o'r byd presenol! Mor analluog yw y meddwl i gael gorphwysdra ynddynt! Maent yn diflasu yn y mwynäad o honynt: yr hyn nid yw namyn ychwanegu gwagedd presenol, ac arlwy erbyn blinder dyfodol. Gan hyny, nid oes fodd i ni ymgymeryd â gorchwyl mwy pwysig yn y byd hwn, nac ymofyn pa fodd y gellir cael iachâad o'r anhwyldeb yma. Gellir gweled fy amcan yn y sylwadau canlynol.

1. Mae yn wir fod rhai dynion o dymher naturiol fwy tawel nac eraill; nid ydynt yn cwympo i'r unrhyw ryseddo bechodau allanol ac eraill; ac nid yw eu meddyliau yn ddarostyngedig i'r unrhyw nwydau cyffrous a'r rhan fwyaf o'u cyd-ddynion. Mae y rhai hyn mewn cydmariaeth yn dangnefeddus, a defnyddiol i'w perthynasau ac eraill; ond eto y mae eu meddyliau a'u calonau yn llawn o dywyllwch ac annhrefn; canys felly mae gyda phawb wrth natur, fel y profasom, a pha leiaf cyffröus y tonnau ar y wyneb yn aml, mwyaf y dom a'r llaid a feddant yn y gwaelod yn fynych.

2. Mae addysg, argyhoeddiadau, cystuddiau, gobaith am ennill cyfiawnder o'r eiddynt eu hunain, cariad at enw da, cymdeithas â dynion da, penderfyniadau er ymgyrhaedd at ryw lesion tymhorol, yn nghydag amryw achlysuron cyffelyb, ydynt yn attalfeydd cryfion ar weithrediadau dychymygion drygionus dynion yn aml; a dichon y fuchedd allanol, gael ei chyfnewid i raddau mawrion trwyddynt.

3. Er pob peth a all gael ei effeithio trwy y moddion hyn, mae y drwg heb ei iachâu, a'r enaid eto yn aros yn ei anhwylderau a'i ddyryswch tufewnol; canys yr oedd cin hiawndrefn cyntefig yn gynnwysedig yn nhueddfryd cin meddyliau, cwyllysiau, a serchiadau, i weithrediad rheolaidd tuag at Dduw, fel eu dyben a'u gwobrwy. Tra y parhäodd dyn mewn iawn drefn tuag at Dduw, ni's gallasai fod yn amgenach ynddo ei hunan; ond, gan ein bod trwy bechod wedi cwympo oddiwrth Dduw, a cholli cin cydffurfiad ag ef, nyni a gwympasom i'r holl annhrefn a'r dyryswch a ddarluniwyd o'r blaen. Gan hyny,

4. Yr unig feddygyniaeth o'r cyfiwr hwn, sydd trwy sancteiddrwydd, trwy adnewyddu delw Duw ynom. Trwy hyn yr adferir ein heneidiau mewn rhyw fesur i'w hunion-deb dechreuol; ac heb hyn, ofer fydd pob ymgais am heddwch tufewnol, ac iawn drefn y serchiadau.—Yr enaid sanctaidd, y meddwl puredig yn unig sydd wedi ei ddwyn dan ddylanwad tueddfryd rëolaidd tuag at fwynäad o Dduw; ac am hyny, y mae dadl gymhwys, a chymhelliad cryf i sancteiddrwydd, yn deillio oddiar hyn, i bawb nad ydynt yn caru pechod a dystryw.

Ond, efallai y gwrthddadleuir yn erbyn hyn, ein bod yn addef fod gweddillion o annhrefn pechadurus mewn dynion sancteiddiedig; bod hyny yn achlysuro ymrysoniadau mawrion, ie, eu bod yn gweithio mor rymmus nes eu gwneuthur yn gaethion i ddeddf pechod: gan hyny, nad yw yn ymddangos fod y sancteiddrwydd yma yn gwella anhwylderau pechadurus cin meddyliau fel yr honwn. Ar y llaw

arall, y mae dynion, am y rhai y tybir eu bod hyd yma yn amddifaid o'r gras adnewyddol yma, yn ymddangos fel pe meddent fwy o dawelwch meddwl, a thangnefedd tufewnol; nid ydynt yn cwyno gan unrhyw ymrysonfa dufewnol; ac y maent yn cael y fath foddhad yn eu chwantau a'u pleserau, ag sydd yn eu cysuro yn erbyn trallodion y fuchedd hon.

Attcb. 1. Am yr beddwch a'r trefnusrwydd yr hona dynion ansanctaidd eu bod yn feddiannol arno, nid yw yn amgenach nac sydd yn uffern, a theyrnas y tywyllwch. Nid yw Satan wedi ymranu yn ei erbyn ei hunan, ac nid oes y fath annhrefn yn ei freniniaeth ef ag a'i dystrywia; ond y mae yn cydsefyll yn yr un dyben cyffredin sydd gan bawb ynddi, sef gwrthwynebu Duw a'r hyn oll sydd dda. Gall y cyfryw heddwch fod mewn meddwl ansanctaiddiedig: gan nad oes ynddo unrhyw egwyddor weithgar dros Dduw, mae y cwbl yn gweithio yr un ffordd, a'r un cyfeiryd i'w holl ffrydiau terfysglyd:—Nid oes yno un heddwch, ond yr heddwch drwg hwnw, drwy ba un y mae Satan, y "cryf arfog," yn cadw ei eiddo, hyd oni ddelo un cryfach nac ef arno, a'i rwymo ef; ac os tybia neb fod y dangnefedd a'r drefn hono yn ddigonol iddo ef, trwy yr hyn y byddo ei feddwl yn ei holl alluoedd yn gweithredu yn unffurf yn erbyn Duw, neu dros bechod a'r byd, heb un gwrthdarawiad, yna efe a genfydd gymmaint o hyny yn uffern pan ddelo efe yno.

2. Mae gwahaniaeth rhwng aflywodraeth a gwrthryfel. —Lle byddo aflywodraeth mewn gwlad, y mae pob llywodraeth wedi ei dirymu, a phob peth wedi ei ollwng i'r annhrefn eithaf: ond lle byddo y llywodraeth yn rymmus, fe ddichon fod gwrthryfelau yn aflonydda rhyw barthau, eto heb fod yr holl wladwriaeth yn cael ei thaflu i annhrefn trwy hyny. Felly y mae gydag enaid sanctaiddiol; gall fod gwrthryfel ynddo, ond nid annhrefn aflywodraethol. Mae gras yn cadw y llywodraeth yn y galon, fel y mae heddwch yn perthynu i holl gyflwr y dyn, er fod chwantau

a llygredigaethau yn gwrthryfela yn ei erbyn; ond am y rhai ansanctaidd, er nad oes yno wrthryfel, nid oes yno ddim ilywodraeth a threfn, a pha mor foddhaol bynnag a all cyflwr fel hyn fod gan ddynion dros dymhor, eto nid yw yn ddim amgenach nac amhrefn perffaith, gan mai gwrthdarawiad parhaus i Dduw ydyw.

3. Mae enaid y credadyn yn cael y fath foddäad yn yr ymrysonfa yma, fel nad yw ei heddwch yn cael ei aflonyddu yn gyffredin, nac un amser yn cael ei dorri yn hollol trwyddo. Mae y cyfryw un yn gwybod fod pechod yn elyn iddo; ac yn adnabyddus o'r cynnorthwyon ydynt wedi eu parottoi iddo yn erbyn ei dwyll; a chan ystyried natur a dyben yr ymrysonfa hon, y mae yn foddlawn arni. Ië, nid yw y caledi mwyaf y gall pechod ddarostwng credadyn iddo, namyn peri iddo ymarfer y grasusau hyny, yn y rhai y mae efe yn cael mwyafo foddäad; megis ymostyngiad, hunan ffieiddiad, a thaer weddiau am waredigaeth. Ac er y gall y pethau hyn ymddangos yn ofidus, eto gan fod grasusau yr Ysbryd yn cael eu dwyn i weithrediad ynddynt, y maent mor gyfaddasedig i natur y creadur newydd, fel y mae yn cael dirgel foddäad ynddynt oll; ond am y trallodau y mae eraill yn eu cyfarfod ar gyfrif pechod, maent yn deillio yn unig oddiar adfyfyrdodau chwerwon eu cydwybodau, y rhai ydynt yn rhag nodau sicr o drueni tragywyddol.

4. Mae y dyn sanctaidd wedi cael sicräad y bydd iddo ef lwyddo yn yr ymrysonfa yma, yr hyn sydd yn cadw trefn a thangnefedd dedwydd yn ei enaid. Tybier fod yr ymrysonfa yn erbyn rhyw chwant neillduol, neu demtasiwn arbenig ,meddwn sicrwydd na phallwn a chyrhaedd llwyddiant trwyadl, ond dyfal barhau yn yr arferiad o'r moddion appwyntiedig; ac am lwyddiant cyffredinol yn yr holl achos, sef na bydd i bechod lwyr ddilëu delw Duw ynom, na dystrywio ein heneidiau yn y diwedd, y mae ffyddlondeb cyfammodol Duw genym yn sicräad am hyny. Gan hyny, er y gwrthwynebiad yma, y mae tangnefedd a threfn yn

cael ei gadw yn yr enaid sancteiddiedig, trwy rym sancteiddrwydd.

Ond, fe wrthddadleuir yn mhellach, fod llawer o broffeswyr, y rhai a ymhonant i radd uchel o sancteiddrwydd, eto yn anniddig, afrywiog, ac aflonydd eu meddyliau, yn mysg eu perthynasau, ac yn byd; ïe, y mae llawer o annhrefn i'w ganfod ynddynt;—gan hyny, pa le y mae yr hagoriaeth honedig, a ddylai wneyd sancteiddrwydd mor anhebgorol i ni?

Atteb. Os oes y cyfryw, mwyaf cywilydd iddynt hwy; a rhaid iddynt ddwyn eu barnedigaeth eu hunain: canys y mae y pethau hyn yn llwyr wrthwyneb i waith sancteiddrwydd, a ffrwythau yr Ysbryd. Ac am hyny sylwaf, (1.) Fod llawer a gyfrifir yn sanctaidd heb fod felly. Er na's mynwn farnu yr un dyn yn neillduol, eto byddai yn well genyf farnu am unrhyw ddyn, nad oes gras ganddo, na barnu nad yw gras yn cyfnewid ein hanian, ac yn adnewyddu delw Duw ynom. (2.) E ddichon fod llawer o rai ydynt yn sanctaidd mewn gwirionedd, dan yr anfantais ddwbl, yn gyntaf, o fod dan y cyfryw amgylchiadau ag a dŷn allan eu gwendidau naturiol yn aml, ac yna i'w mwyhau yn ngolwg y rhai y bydd a wnelont â hwy, megis yr oedd yn achos Dafydd ei holl ddyddiau, a Hannah. Pell fyddwyf o gefnogi anhwylderau pechadurus neb; eto nid wyf yn ammeu nad yw gwendidau llaweroedd yn cael eu darlunio oddiar genfigen, a chasineb at broffes, mewn modd annhêg yn aml. (3.) Pa le bynnag y mae hâd gras a sancteiddrwydd, y mae yr holl anhwylderau pechadurus hyn yn dechreu cael eu meddyginiaethu; ac yr ydwyf yn gwasgu yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd, hyny yw, am gynydd mewn sancteiddrwydd, fel y dyger y gwaith yma yn mlaen i berffeithrwydd; ac megys y dywedir am ryw dwyllwr erwydredig, yr hwn a gymerai arno ddarlunio bucheddau dynion, a barnu eu mocsau wrth eu hwynebpryd, iddo ddywedyd am Socrates pan y'i canfu, mai dyn ysgeler a thrythyll ydoedd; y bobl, i'r rhai yr oedd ymar-

weddiad sobr a rhinweddol yr athronydd yn hysbys, a wawdient ei ffolineb; ond Socrates a'i hesgusodai, gan ddywedyd mai y cyfryw a fuasai efe, oni buasai iddo ffrwyno ei natur trwy philosophi; pa faint mwy priodol y gellir dywedyd am lawer oedd, na buasent yn enwog am ddim ond anhwylderau gofidus meddwl, oni buasai i'w beneidiau gael eu hanioni trwy rym gras a sanctеiddrwydd!

Gwelaf nad oes derfyn ar y rhesymau ydynt yn ymgynnyg i'r perwyl yma; gan hyny, myfi a adawaf lawer o rai tra phwysig o'r neilldu, ac a derfynaf y traethawd hwn âg un na's gellir ei gadael allan.

Yn ein sanctеiddrwydd mae y rhan fwyaf o'r deyrnged hono o ogoniant ac anrhydedd y mae yr Arglwydd Iesu Grist yn ei ofyn ac yn ei ddysgwyl oddiwrth ei ddysgyblion yn y byd hwn yn gynnwysedig. Mae yn ddiddadl ei fod ef yn gofyn hyn genym ni, er fod y rhan fwyaf o'r rhai a elwir yn *Gristionogion* yn byw fel pe na byddai ganddynt un amcan arall ond bwrw gwaradwydd arno ef a'i athrawiaeth; ond os ydym ni yn ddysgyblion iddo ef yn wir, efe a'n prynodd ni er gwerth; ac nid ydym eiddom ein hunain, ond yr eiddo ef; a hyny i'w ogoneddu ef mewn enaid a chorff, am eu bod yn eiddo ef. Ein hymofyniad a ddylai fod, Pa fodd y gwnawn ni hyny? a pha beth a gais efe genym i'r perwyl hyny?

Yn awr, swm y cwbl yw, bod i ni fyw yn sanctaidd iddo ef, a dyoddef yn amyneddgar drosto ef. Y mae efe yn dysgwyl y cyntaf bob amser, ac yn mhob peth; a'r olaf, ar achlysuron arbenig. Lle y telir y deyrnged hon o ogoniant iddo ef, nid yw efe yn edifarhau am ei hwrcas, na'r pris annhraethol a dalodd efe drosom ni; ïe, y mae efe yn dywedyd, "Y llinynau a syrthiodd i mi mewn lleoedd hyfryd, y mae i mi etifeddiaeth deg." Yn mysg llawer o bethau craill, ni chrybwyllwn yn bresenol ond un ffordd trwy yr hon y gogoneddwn Grist; a thrwy yr un sylw fe welir mor ddirfawr yr ydym yn ei ddianrhydeddu ef, pan yn fyr o hyny.

Trwy ddyfodiad yr Arglwydd Iesu i'r byd, efe a gyf-

lawnodd waith mawr yn ein mysg, yr hyn a ellir ei drefnu dan dri phen;—(1.) Y fuchedd a arweddodd,—(2.) Yr athrawiaeth a ddysgodd,—ac yn (3.) Yr angau a ddyoddefodd efe. Bu yn wastad, ac y mae yn bresenol, ddadl fawr yn nghylch y pethau hyn. Bu rhai yn ddi gelu, yn beio ei *fuchedd* fel yn ansanctaidd, ei *athrawiaeth* fel ffolineb, a'i *angau* fel peth a hacddasai yn gyfiawn; a'r cyfryw oedd golygiad y byd paganaidd, a'r Iuddewon annghrediniol am dano ef.—Mae eraill yn cymeradwyo y pethau hyn, gan gymeryd arnynt gredu yr hyn a ddysgir yn yr Efengyl am danynt; ond mewn gweithred a gwirionedd yn gwadu y grym a'r effeithiolrwydd a briodolir iddynt, a heb yr hyn nid ydynt o ddim gwerth; yr hyn yw dull efengylwyr cnawdol, a phob addolwyr eilun-addolgar, ofergoelus yn mysg Cristionogion.—Yn wrthwyneb i hyn, y mae yr Arglwydd Iesu yn galw ar bob gwir ddysgybl i'w ogoneddu ef, trwy dystiolaethu i'r byd ac yn ei erbyn, fod ei fuchedd yn sanctciddiaf, ei athrawiaeth yn efengylciddiaf a phuraf, a'i angau yn fwyaf effeithiol a gwerthfawr. Eithr ni's gwneir hyn oll trwy unrhyw ffordd heblaw trwy ufuddhau iddo ef mewn sanctciddrwydd, yr hyn sydd yn weledig a ffrwythlawn.

(1.) Nyni a ddylem broffesu mai ymarweddiad Crist yw ein siampl ni. Ni ddichon un dyn gymeryd arno yr enw sanctaidd *Cristion*, nad yw trwy hyny yn arwyddo yn gyntaf oll, ei fod yn cymeryd buchedd Crist yn siampl i'w dilyn. Gan hyny, pa fodd y gallwn ni roddi teyrnged o anrhydedd iddo ef yn hyn? Pa fodd y gallwn ni ddwyn tystiolaeth i sanctciddrwydd ei fuchedd ef yn erbyn cableddau y byd? a ellir gwneuthur hyn ryw ffordd heblaw trwy sanctciddrwydd calon a buchedd, trwy gydffurfiad á Duw yn ein heneidiau, a byw iddo ef mewn ufudd-dod ffrwythlawn? A ddichon dynion ddyfeisio llwybr mwy effeithiol i'w waradwyddo ef na thrwy fyw mewn pechod, trwy roi uwch bri ar y byd a'r pethau presenol nac ar dragywyddoldeb, ac eto proffesu mai ymarweddiad Crist yw eu hes-

ampl? Onid ydys trwy hyn yn dwyn tystiolaeth gyd a'r byd yn ei erbyn ef, mai ansanctaidd yn wir oedd ei ymarweddiad ef? Mae yn llawn bryd i'r cyfryw rai, ymwrthod â'r enw o Gristionogion, neu â'r fuchedd o bechod. Gan hyny, mewn cydffurfiad ag ef yn unig, yn y sancteiddrwydd yr ydym yn ymestyn atto, y gallwn ni roddi unrhyw ogoniant iddo ef ar gyfrif bod ei ymarweddiad ef yn siampl i ni.

(2.) Ni's gallwn roddi dim gogoniant iddo ef, oddieithr ein bod yn dwyn tystiolaeth i'w athrawiaeth ef,—yr hon sydd sanctaidd a nefol; ac nid oes un ffordd i wneyd hyn, ond trwy ufudd-dod sanctaidd, yn arddangos ei natur, ei dyben, a'i defnyddioldeb: ac yn wir, y mae gwahaniaeth trwyadl rhwng ufudd-dod sanctaidd credinwyr, a dim ein cyfeirir atto trwy egwyddorion a goleuni natur. Y mae yn ysbrydol, a nefol, wedi ei lanw âg egwyddorion a gweithrediadau o'r unrhyw â'r rhai y cynhelir ein cymmundeb â Duw mewn gogoniant tragywyddol trwyddynt. Ac er fod bywyd sancteiddrwydd efengylaidd wedi ei guddio oddiwrth lygaid y byd yn ei egwyddor a'i brif weithrediadau, eto y mae y fath ffrwythau gweledig o honaw bob amser ag sydd yn ddigonol i'w hargyhoeddi bod ei reol, yr hon yw athrawiaeth Crist yn unig, yn sanctaidd, doeth, a nefol!—ac fe ennillwyd torfeydd yn mhob rhyw oes i ufuddbau i'r efengyl, trwy ymarweddiad sanctaidd, ffrwythlawn, a defnyddiol y rhai a amlygasant awdurdod a phurdeb ei athrawiaeth yn y modd yma.

(3.) Mae grym ac effeithioldeb angau Crist yn ofynol heblaw i ddybenion eraill, "i'n puro ni oddiwrth bob anwiredd," ac "i buro ein cydwybodau oddiwrth weithredoedd meirw i wasanaethu y Duw byw." Mae yn wir fod y byd yn ymgyfodi i'r fath radd o falchder ac atheistiaeth weithiau, fel y dirmyga bob ymddangosiad o burdeb; ond y gwirionedd yw, oni's glanheir ni oddiwrth ein pechodau yn ngwaed Crist,—oni's purir ni oddiwrth bob anwiredd trwyddo ef, yr ydym yn fleidd-dra i Dduw, ac ni's bydd-

wn namyn gwrthddrychau ei ddigofaint ef am byth! Ond nid yw yr Arglwydd Crist yn gofyn dim mwy yn hyn gan ei ddysgyblion, na phroffesu bod ei waed ef yn eu glanhau oddiwrth bob pechod, a phrofi y gwirionedd o hyny trwy y moddion a drefnodd yr efengyl i'r perwyl hwnw. Oni's derbynir cu tystiolaeth yn hyn, os cu diystyru a wneir gan y byd, ac felly na byddo dim gogoniant amlwg yn deillio iddo ef yn hyn yn bresenol; eto y mae efe yn ymfoddloni yn hyn, gan wybod fod y dydd yn dyfod, pan y geilw efe y pethau hyn drosodd drachefn, pan fydd y gwrthodiad o'r dystiolaeth hon yn trymhau collfarn y byd annghrediniol.

Yr ydwyf yn meddwl fod prawf y ddadl olaf hon yn ddigon eglur i bawb. Hyn ydyw yn fyr: Heb y sancteiddrwydd a ofynir yn yr efengyl, nid ydym yn rhoddi dim o'r gogoniant hwnw i Grist y mae efe yn ei ofyn yn anhebgorol genym: ac os bydd dynion mor ffol a dysgwyl cyfrannogi o fendithion ei gyfryngaeth ef, tra y maent yn gommedd rhoddi iddo ef unrhyw deyrnged o ogoniant am yr hyn oll a wnaeth efe erddynt,—nyni a allwn gwynfan am eu ffolineb, ond ni's gallwn luddias eu dystryw. Y mae efe yn cin gwaredu ni yn rhad trwy ei ras, ond y mae efe yn gofyn i ni gydnabod hyny trwy briodoli y gogoniant dyledus iddo am y gwaith; ac na feddylied neb y gwneir hyny trwy eiriau yn unig, ond fe'i gwneir trwy ddylanwad ymarweddiad sanctaidd, yn datgan moliant yr hwn a'n galwodd o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef. Ië, ac ychwaneg; od ocs neb yn proffesu ei fod yn ddysgybl i Grist, ei fod yn dilyn esampl ei ymarweddiad ef, ei fod yn ufuddhau i'w athrawiaeth, ac yn gosod allan effeithiolrwydd ei farwolaeth ef, ac eto yn parhau mewn buchedd ansanctaidd; y mae y cyfryw yn fradwr twyllodrus iddo ef, ac yn rhoddi ei dystiolaeth ar du y byd yn ei erbyn ef; ac yn wir, buchcddau ysgeler Cristionogion proffesedig a ddug athrawiaeth a phersou Crist i waradwydd: ac mi a gynghorwn bawb a ddarllenant neu a glywant y pethau hyn, i astudio yr efengyl yn ddyfal, fel y caffont brawf oddiyno

o allu, gwirioncdd, a gogoniant Crist a'i ffyrdd; canys prin y bydd i'r sawl a gymero ymarweddiad dynion yn arweinydd, benderfynu pa un a ddewisa, ai bod yn Bagan, yn Fahometan, neu ynte yn Gristion; ac a feiddia y cyfryw rai, yn herwydd pa rai y mae enw Crist yn cael ei ddianrhydeddu beunydd, ddysgwyl llesäad trwyddo ef, neu drugaredd oddiwrtho ef? A feddylia dynion eto fyw mewn pechod, a mwynhau bywyd a gogoniant trwy Grist? Pwy a ddichon alaru digon uwch ben effeithiau ofnadwy y fath wallgofrwydd arswydlawn! Mae Duw yn cin dysgu ni oll i ystyried yn ddifrifol fod holl ogoniant ac anrhydedd Iesu Grist yn y byd hwn, càn belled ag y perthyna i ni, yn ymddibynu ar cin sancteiddrwydd, ac nid ar ddim arall ydym, a feddwn, neu a allwn. Gan hyny, od oes genym ddim cariad atto ef, unrhyw wreichionen o ddiolchgarwch am ei ras annhraethol, ei ymostyngiad, a'i ddyoddefiadau, yn nghyd a'r ffrwythau tragywyddol o honynt;—unrhyw awydd am iddo ef gael ei ogoneddu a'i anrhydeddu yn y byd yma,—os mynwn beidio cael ein hamlygu yn y dydd diweddaf y bradwyr casaf i'w goron a'i urddas;—os ydym yn coledd unrhyw ddysgwyliad am ras oddiwrtho, neu lesäad trwyddo ef, yma neu ar ol hyn, llafuriwn am fod yn sanctaidd yn mhob ymarweddiad, fel y gallom trwy hyny addurno ei athrawiaeth ef, gosod allan ei rinweddau a'i foliant, a chynnyddu mewn cydffurfiad àg ef, yr hwn yw y Cyntaf-anedig, a Delw y Duw anwcledig.

ARDDAWD

YN CYNNWYS DETHOLIADAU O DRAETHODAU ERAILL A YSGRIFENASID GAN Y Dr. OWEN, AR WAITH YR YSBRYD GLAN.

GWAITH YR YSBRYD GLAN MEWN GWEDDI.

Yr addewid am yr Ysbryd Glan fel Yspryd gweddi.

Mae gweithredoedd Ysbryd Duw tuag at gredinwyr naill ai yn *gyffredinol* ai yn *neilldual*: o'r hyw cyntaf y mae adenedigaeth a sancteiddiad: ac o'r olaf y mae amrywiol weithrediadau, y rhai oll sydd yn gynnwysedig mewn sancteiddiad, ydynt yn gofyn ystyriaeth *ychwanegol*: megis, *er engraifft*, y cymmorthwyon y mae efe yn eu rhoddi i ni yn ein gwelliant a'n datblygiadau; ac nid gellir gwneuthur gwaith er llwyddiant mewn unrhyw peunodol o hyn yn yr ystyr eyffredinol, nac o unrhyw weithrediad arall o'i eiddo.

Mae genym addewid erbenig i'r perwyl yma: "A chwithau af ar dy Dafydd, ac er brenswyliwyr Jerusalem, Ysbryd gras a gweddïau Zech. 12. 10. Wrth yr hyn yr oedden y golygir tywalltiad helaeth o'r Ysbryd Glan. Yr rhai yr hai'r oddyno, cedd, o'r Dafydd, a phreswylwyr Jerusalem; hyny yw, holl Eglwys Ysbrydol Duw, megis yr cymmerebiedd gan deulu Dafydd a thrigolion Jerusalem efe a elwir yn "Ysbryd Gras" gyna gelwg ar yr achos gorucheb o sanctyddiad, yr hyn yw gras Duw yn unig, neb un gelwg ar ein teilyngdod ni; ac am mai efe yw awdwr, dyniou., ac achos effeithiol pob gras ynom ni; ac am fod y rhai y i tywelltir arn, nt yn meddu gras a dafr; rda Duw; gan fod "yn gymeradwy yn yr Anwylyd.

Ac fel y mae yn cael ei dysgu fel hyn, y mae efe yn "Ysbryd *gweddïau*," hyny yw, gweddi am rus a thrugaredd: ac y mae efe felly 1.) Trwy weithio tueddiadau grasol ynom at y dyledswydd hon. Yr peiyna ni wrth natturiaeth yn llwyr wrthwyneb i hob cymdeithas a Duw; ac y mae rhyw dueddfryd ddirgelaidd ynom yn barhaus i ymbellhau o oddiwrth hob dyledswydd o gymmundeb uniongyrchol âg ef; efe yn unig a'n tuedda, ac a'n parottoa i weddïo gydag ymdeithyddiad grasol. (2.) Trwy roddi modd i ni i weddïo; eyfranu dawn i feddyliau dynion, i w galluogi er eu llesiad eu hunain ac eraill, i y narbe ei holl rasusau mewn gweddi.

Nyni a gawn ddarluniad o gwbläad y brophwydoliaeth hon yn Gal. 4. 6. "Am eich bod yn feibion yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'ch calonnau yn llefain Abba Dad." Y personau i'r rhai y'i rhoddir ydynt y credinwyr; neu, y rhai trwy ffydd a dderbyniasant y mabwysiad Efe a elwir "Ysbryd y Mab," nid yn unig am ei fod yn y lle cyntaf wedi ei roddi iddo ef, a thrwyddo ef i'r credinwyr,—ond hefyd, am ei fod yn eu galluogi hwy i ymddwyn yn addas i'w sefyllfa newydd: nid fel dicithriaid a phererinion, nid fel gweision yn unig; ond fel plant ac etifeddion Duw. "Canys ni roddes Duw i ni yspryd ofn; ond yspryd nerth, a chariad, a phwyll."—Nid "yspryd caethiwed i beri ofn," i lauw ein meddyliau á dychryn, nes ein cadw yn mhell oddiwrtho—ond ysbryd nerth, i'n galluogi i bob dyledswydd, ac yspryd cariad, i weithredu ynom y fath gariad at Duw, ac ymhyfrydiad ynddo, ag sydd yn gwneddu i blant tuag at eu tad nefol; ac yspryd meddwl sobr, difrifol, a gwyliadd. Mae y credinwyr yn cael eu galluogi trwy weithrediad effeithiol yr Ysbryd Glan, i weiddi, "*Abba* Dad." Gwrthddrych gweddi yw Duw, sef y Tad. *Abba* yw yr enw Syriaeg, neu Galdäeg am Dad, ac yr oedd mewn arferiad cyffredinol y pryd hyny yn mysg yr Iuddewon; a *pater*, Tad, oedd yr un enw yn mysg y Groegiaid, neu y Cenhedloedd; fel y dichon fod yma ryw awgrym at gyd gyfrannogaeth Iuddewon a Groegwyr yn y rhagor fraint yma; neu yn hytrach, fe allai fod dyblygiad yr enw yn arwyddo hyfdra sanctaidd, a hyder gyfeillgar cariad:—ac y mae yr Ysbryd yn ein cynnorthwyo ni i lefain fel hyn, trwy gyffroi serchiadau grasol, megis ffydd, cariad, ac ymhyfrydiad; a thrwy ein galluogi ni i ymarfer y grasusau a'r serchiadau hyny mewn gweddi.

Mae y dystiolaeth ddoublyg yma am addewid o'r Ysbryd Glan fel ysbryd gweddi, a'r cwbläad o honi i credinwyr dan y Testament Newydd, yn profi yn amlwg fod gwaith neilldiol, neu weithrediad grasol arbenig o eiddo yr Ysbryd Glan, yn ngweddïau pobl Dduw, yn eu galluogi i hyny. Gan hyny, nyni a awn rhagom yn bresenol i ddangos pa beth yw gwaith yr Ysbryd ynddynt i'r perwyl hyny.

GWAITH YR YSBRYD GYDA GOLWG AR DDEFNYDD GWEDDI.

Y peth cyntaf a briodolwn ni i'r Ysbryd yn hyn yw, ei fod yn llanw y meddwl á syniad priodol o ddefnydd gweddi, neu y peth y dylai weddio am dano; heb yr hyn ni's gall un dyn weddio megis ag y dylai. Mae tystiolaeth yr apostol yn bendant i'r perwyl yma:—"A'r un ffunud y mae yr Yspryd hefyd yn cynnorthwyo ein gwendid ni. Canys ni wyddom ni beth a weddïom, megis y dylem: eithr y mae yr Yspryd ei hun yn erfyn drosom ni âg ochenciadau anrhaethadwy." Rhuf. 8. 26.

Mae yn wir fod yr hyn oll y dylem weddio am dano yn cael ei ddarlunio yn yr Ysgrythyr, a'i gynnwys yn grynöawl yn ngweddi yr Arglwydd; ond un peth yw meddu hyn mewn llyfr, peth arall yw ei feddu yn y galon; heb yr hyn ni's gydd yn ddefnydd gweddi i ni.

Heb gynnorthwy yr Ysbryd, ni dalwn weithiau ein hargeinion ein hunain, —na'r arfwyon ar eu cyfer a ddylasnir yn : hewidion Duw,—na'r dyben priodol i'r hwn y dylem geisio yr arfwyon hyny.

I. Ysbryd Duw yn unig sydd abl i beri i ni adnabod ein HANGEN-ION.

(1.) Mae prif ddefnydd ein gweddiau ni yn dwyn perthynas a ffydd neu ymgredu iaeth; gweddiau yr apostolion, "Arglwydd ychwanega ein ffydd;" a'r rhai yn ei gyfyngder a lefai, "Arglwydd, cynhorth fy anghrediniaeth." Yr oedd yn rhaid cael hargyhoeddi o natur ac enogrwydd anghredinieth, ac o natur a defnyddioldeb ffydd; canys ni's gall cydwybod na'r gyfraith ein hargyhoeddi o ddrygioni y naill, na'n dysgu yn natur y naill: a heb hyny ni's adnabyddwn ein diffygion mwyaf, nac am ba beth y gweddiom megis ag y dylem.

(2.) Mae defnydd ein gweddi yn gofyn Ilwgr ein natur, sywyllwch ein deall, cyndynrwydd ein hewyllysiau, ein hanmoliwydd at bethau ysbrydol, a gweithredoedd ein cnawdolrwydd, yr hyn sydd yn llwddias i'r enaid gydfurfio yn llwyr ol a sancteiddrwydd Duw. Mae gan y creadurwyr lygaid neilltuol at y pethau hyn yn eu cyflwr sedau a'u gweddiau; a'u negeseuon mewn gyda Duw mewn gweddi sydd am drugaredd yn eu maddeuant, am ras yn eu symmudiad, a'r adnewyddiad benyddiol o'i ddelw yn eu heneidiau. Rhaid i mi addef na's gwn pa fodd y gall un dyn weddio heb synied o'r pethau hyn; ac ni's meddwn y wybodaeth hon o honom ein hunain. Mae natur yn ddall, ac ni's gall eu gweled; y mae yn falch, ni's myn eu haddef; yn galed ac anystyriol o honynt.

(3.) Megis y mae gyda golwg ar bechod, felly y mae gyda golwg ar Dduw, a Christ, gras, a sancteiddrwydd, a rhagorfreintiau ysbrydol. Sancteiddiad tufewnol ein holl alluoedd, ac arfwyon o ras i'r perwyl hyny, ydynt bethau y mae arnom eu hofsiau, ac y gweddiwn am danynt: ond nid oes genym ni syniadau ysbrydol am y pethau hyn, ond yr hyn a roddir i ni gan Ysbryd Duw; ac heb hyn, pa beth yw ein gweddiau, neu pa beth a arwyddocânt? E all dynion heb hyn, adrodd geiriau gweddi hyd ddiwedd y byd, heb roddi dim gogomiant i Dduw, nac elwa dim lles i'w heneidiau eu hunain.

(4.) Gyda golwg ar bethau tymmorol, ni s gwyddom o honom ein hunain, am ba beth i weddio. Pa faint bynag all fod eu syniad o honynt, a'u dymuniadau naturiol am danynt, eto pa fodd a pha bryd, dan ba ammodau, ac i ba raddau, â pha ansawdd ysbryd, a pha ymostyngiad i ewyllys Duw, y dylent gael eu gwneyd yn ddefnydd ein gweddiau.

ni's gwyddom;—"Canys pwy a wyr beth sydd dda i ddyn yn y bywyd hwn holl ddyddiau ei fywyd ofer, y rhai a dreulia efe fel cysgod?" Mae arnom eisiau ein dysgu gan Dduw yn hyn hefyd.

II. Ysbryd Duw yn unig a ddengys i ni y gras a'r drugaredd sydd wedi eu parottoi er ein hymwared yn addewidion Duw. Am yr hyn a addawodd Duw y dylem ni weddïo, ac nid am ddim arall. Ni's gall fod arnom eisiau dim nad yw Duw wedi ei addaw; ac nid yw ef wedi addaw dim, nad oes arnom ni ei eisiau. Gan hyny, y mae yn anhebgorol angenrheidiol i ni wybod pa beth a addawodd Duw; y mae efe yn adnabod ein hangenion ni yn anfeidrol well nac yr adwaenom ni hwynt ein hunain; ïe, nid adwaenom ni ddim o honynt, ond fel y gwelo efe yn dda ein dysgu; ac y mae yn haws i ni eu dysgu yn sicr o'r addewidion, na thrwy un moddion arall: ac yr ydym yn haeru mai trwy yr Ysbryd y gwneir hyny; canys nid edwyn neb bethau Duw ond trwy Ysbryd Duw; trwyddo ef yn unig y gwyddom y pethau a rad roddwyd i ni gan Dduw, sef gras, trugaredd cariad, a chymwynasgarwch yr addewidion.

III. Ysbryd Duw yn unig sydd yn dysgu credinwyr i weddïo, neu i ofyn am bethau i ddybenion prïodol neu uniawn. Fe all dynion golli holl lesiant gweddi, wrth osod iddynt eu hunain ddybenion anmhrïodol, fel y dywed yr apostol Iago am ryw rai, "Gofyn yr ydych, ac nid ydych yn derbyn, am eich bod yn gofyn ar gam, i w treulio ar eich melus chwantau," Nid oes dim mor odidog ynddo ei hunan, mor ddefnyddiol i ni, ac mor gymeradwy i Dduw, yn nefnydd gweddi, na's gellir ei lygru a'i wneyd yn ofer, trwy ei gymhwyso at gan ddybenion; a'n bod yn cael ein gwaredu gan yr Ysbryd Glan rhag hyn sydd amlwg oddiwrth y testyn dan ystyriaeth: canys gan nerthu ein gwendid, a'n dysgu pa beth a weddïom megis ag y dylem, y mae efe yn eiriol drosom "yn ol ewyllys Duw." Y mae efe yn gwneuthur hyn ynom a thrwom ni; neu, y mae efe yn ein galluogi ni i wneuthur felly. Y mae efe yn ein cyfarwyddo a'n galluogi i weddio yn ol meddwl Duw; ac am hyny, y dywedir fod Duw yn adwaen meddwl yr Ysbryd, hyny yw, ei amcan a'i ddyben yn ei ddymuniadau. Mae Duw yn adwaen hyn, hyny yw, yn ei gymeradwyo.

Mae Ysbryd Duw yn cyfarwyddo credinwyr, nid yn unig am ddefnydd, ond hefyd am ddyben eu holl ddymuniadau. Gan hyny, y mae efe yn eu harwain hwy i amcanu,

(1.) Fod i holl lwyddiant eu herfyniadau dueddu yn uniongyrchol i ogoneddu Duw. Meb ei gyfarwyddyd neillduol ef, at hunan yn unig yr ymestynem, ein lles, ein hesmwythder, a'n boddäad ein hunain.

(2.) Y mae yn eu cadw at hyn hefyd fel y byddo dyben eu holl weddïau er cynnydd sanct iddrwydd ynddynt, eu cydffurfiad á Duw, a dyfodfa nes atto ef. Pan na byddys yn amcanu at y dybenion hyn,

fe ddichon defnydd ein gweddïau fod yn dda, tra nad yw ein gweddïau eu hunain ond ffieidd-dra.

GWAITH YR YSBRYD GYDA GOLWG AR DDULL GWEDDI.

Mae yr Ysbryd Glan, heblaw arlwyo y meddwl â defnydd gweddi, yn gweithio synied prïodol, a gwerthfawrogiad dyledus o'r pethau y gweddïwn am danynt; canys e all y meddwl gael golau i ddirnad y pethau hyny, ac eto fod yr ewyllys a'r serchiadau yn farw iddynt, neu ddi afael ynddynt. E ddichon dyn gyrhaedd dawn gweddi, trwy yr hon yr adeilado eraill, ac eto bod ei enaid ef ei hunan heb dderbyn llesäad trwy hyny: ond pan y mae yr Ysbryd Glan yn cwblhau ei waith ynom fel "ysbryd gras a gweddi," y mae efe yn dwyn yr ewyllys a'r serchiadau i weithredu yn ufudd tuag at Dduw yn nefnydd gweddi; y mae yn llanw credinwyr â galar, a duwiol dristwch, i'w hymarfer yn eu gweddïau fel y byddo y defnydd yn gofyn: a dyma ffynonell y gwresawgrwydd, a'r hyfrydwch annhraethadwy, yr ymëangiadau meddwl a brofir ganddynt weithiau dan ei ddylanwadau anarferol ef. Am hyny y dywedir ei fod ef *yn erfyn* trosom ni ág ocheneidiau annrhaethadwy. Rhuf. 8. 26, 27. Mae y gair yn arwyddoccáu *cyfryngiad ychwanegol*, fel y gwna dadleuwr dros y truan a gynnrychiolir ganddo, gan ddadleu drosto yr hyn ni s gallai efe ei hunan ei ddadleu. Dywedir am danom ni yn adn. 23, ein bod yn ocheneidio, hyny yw, yn dymuno yn ddifrifol, yn ostyngedig, ac yn alarus; ac yma dywedir fod yr Ysbryd "yn erfyn drosom ag ocheneidiau," yr hyn ni s gall fod yn ddim ond ei waith ef yn gweithio ynom ni y cyfryw changiad calon, y cyfryw ddymuniad sanctaidd, goruwch naturiol am y peth y gweddïir am dano, ag na's gall unrhyw eir au eu traethu yn llawn. Ac ychwanegir, "A'r hwn sydd yn chwilio y calonnau a wyr beth yw meddwl yr Ysbryd;"—nid yw yr hyn a weithredir fel hyn yn nghalonau y credinwyr yn hysbys i neb ond Duw, "chwiliwr y calonnau." Dyma yr ansawdd meddwl y dylem dynu atti yn awyddus yn ein holl weddïau, yn enwedig mewn trallod a phrofedigaeth, pan ydym fynychaf yn fwyaf teimladwy o'n gwendidau ein hunain; ac os byddwn yn fyr o hyn, achosir y byrdra hwnw gan ein annghrediniaeth, neu ein hesgeulusdra. Yr wyf yn addef y gall fod, ac y bydd, mwy o ddifrifoldeb meddwl yn hyn y naill amser na'r llall, fel y byddo amgylchiadau allanol yn achlysuro hyny; felly yr oedd ein Gwaredwr yn ei ing yn gweddio yn ddyfalach nac arferol; nid ág ymarferiad uwch o ras; ond á bywogrwydd mwy yn ngweithrediad ei alluoedd naturiol. Ac e all fod fel hyn gyda ninnau ar ryw dymhorau neillduol; ond er hyny, ein dyledswydd ni bob amser, yw ymdrechu am yr unrhyw gynnorthwyon o eiddo yr Ysbryd, a'r unrhyw weithrediadau o eiddo gras, yn mhob cyfryw ddyledswydd.

Mae yr Ysbryd Glan hefyd yn rhoddi rhyw hyfrydwch mabaidd, sanct,

aidd i'r enaid yn Nuw, fel gwrthddrych gweddi ; ac fe gynnwysir hyn yn y darluniad hwnw a ddyru yr apostol o weddi, sef, mai llefain Abba Dad ydyw hi :—Ac y mae hyn yn cynnwys,

1. Olwg ar Dduw, megis ar orsedd gras. Dan yr ystyriaeth yma, y mae efe yn wrthddrych priodol cin holl gyfarchiadau. "Nesawn yn hyderus at orseddfainc y gras." Mae yma gyfeiriad at y drugareddfa ar yr arch, yr hon oedd yn cynnrychioli Iesu Grist. Gan hyny, Duw ar orseddfainc gras, yw Duw yn barod, trwy Iesu Grist, i weinyddu gras a thrugaredd i bechaduriaid a alwant arno. Fel hyn y mae yr Arglwydd yn dysgwyl i drugarhau, ac yn ymddyrchafu i dosturio. Heb hyn, ni's gallwn nesau atto ef â hyfrydwch, fel y gweddai i blant, gan lefain "*Abba* Dad :"—Ac Ysbryd Duw yn unig sydd yn datguddio Duw fel hyn i ni, ac yn ein galluogi ni i'w adnabod ef fel hyn,

2. Y mae adnabyddiaeth o Dduw yn ei berthynas â ni fel ein Tad, yn angenrheidiol er yr hyfrydwch yma. Nyni a allwn ddefnyddio enwau a theitlau eraill ar Dduw, ond fel Tad, y mae efe yn wrthddrych eithaf pob addoliad efengylaidd, a'n holl weddïau ; ac felly y'i darlunir gan yr apostol, "Trwy Grist, y mae i ni ddyfodfa mewn un Ysbryd at y Tad." Eph. 2. 18. Ni's gall tafod draethu, na meddwl ddychymygu, y fath dawelwch nefol, a'r fath ddyddanwch enaid gwerthfawr a gynnwysir yn y geiriau hyn. Heb iawn olygiad ar Dduw yn y berthynas yma, ni's gall neb weddïo megis ag y dylai ; ac ni's gallwn feddu y synied hwnw ond trwy yr Ysbryd Glan, yr hwn sydd "yn cyd dystiolaethu â'n hysbryd ni, ein bod yn blant i Dduw."

3. Hyfdra yn ein nesäad at orseddfainc y gras. "Am hyny frodyr, gan fod i ni ryddid i fyned i mewn i'r cyssegr trwy waed Iesu, nesawn â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd." Lle mae yspryd caethiwed i beri ofn, ni's gall fod yno hyfrydwch mewn nesäad at Dduw ; ond y mae hyn yn cael ei symmud ymaith gan ysbryd gras a gweddïau, yr hwn sydd hefyd yn ysbryd mabwysiad, yn ein galluogi i lefain "*Abba* Dad ;" a "lle mae Yspryd yr Arglwydd, yno y mae rhyddid ;" hyny yw, rhyw ollyngdod ehang, a rhyddid ymadrodd mewn gweddi,—rhyddid i ddweyd y cwbl a fyddo i'w ddweyd,—hyder o'r fath ag sydd yn cefnogi dynion i arfer rhyddid ymadrodd yn gyfattebol i'r wasgfa y byddont ynâdi. Nid wyf yn dywedyd fod credinwyr yn meddu y rhyddid yma mewn ymarferiad yn gyfattebol bob amser ; e ddichon gael ei attal gan brofedigaethau, anhwylderau ysbrydol, cuddiadau wyneb Duw, neu ein hesgeulusdra ni ein hunain o gyfïoi gras Duw ; ond y mae credinwyr yn ei feddu yn y gwreiddyn a'r egwyddor bob amser, sef pob un a dderbyniodd Ysbryd mabwysiad, ag ydynt yn cael cynnorthwyon cyffredinol yn yr arferiad o honaw.

Mae y rhyddid yma mewn gweddi, yn cynnwys hyder o gymmeradwyaeth, yr hyn a roddir i gredinwyr gan yr Ysbryd Glan; ac nid yw hyn

yn golygu attebiad i bob gofyniad neillduol, ond y mae yn gynnwysedig mewn darbwylliad sanctaidd fod Duw yn foddlawn i'w dyledswyddau, yn cymmeradwyo eu personau, ac yn ymhyfrydu yn eu dynesäad at ei orsedd. Nid ydynt yn cael eu brawychu âg ofn y bydd i Dduw ddywedyd wrthynt, "Pa beth sydd i chwi a gymerech ar fy enw yn eich geneuau?" "A ddadleu efe i'm herbyn â helaethrwydd ei gadernid?" medd Job, "Na wna, ond efe a osodai nerth ynof." Ië, y maent yn meddu sicrwydd, mai po mynychaf y byddont gyda Duw, goreu yw eu cymeradwyaeth.

4. Mae yr Ysbryd Glan yn cadw eneidiau y credinwyr a'u golwg yn ddyfal ar Iesu fel yr unig ffordd a'r moddion o gymeradwyaeth gyda Duw. Dyma y prif gyfarwyddyd i weddïo dan yr Efengyl, yr ydym i ofyn pob peth yn awr yn ei enw ef, yr hyn ni's gwnelid yn bendant dan yr Hen Destament. Trwyddo ef yn unig y mae i ni ddyfodfa at y Tad. Yr ydym yn myned i fewn i'r cyssegr sancteiddiolaf trwy ffordd newydd a bywiol, a gyssegrodd efe i ni; a lle nid yw ffydd mewn gweithrediad ymarferol i'r perwyl yma, y mae pob rhyw weddi yn ofer ac anfuddiol. Ein galluogi ni i hyn yma yw gwaith yr Ysbryd Glan. Y mae hyn yn cael ei weithredu mewn modd arbenig ganddo ef fel "Ysbryd y Mab;" ac y mae credinwyr yn cael profiad peraidd o hyn ynddynt eu hunain. Ac nid oes dim yn gadael chwaeth mwy dymunol ar eu heneidiau na phan fyddont wedi cael cadw eu calonnau a'u meddyliau yn gynnes yn yr ymarferiad o ffydd yn Nghrist, y Cyfryngwr, yn eu gweddïau.

DEFNYDD.

Os ydym yn gwybod y pethau hyn, gwyn ein byd os gwnawn hwynt. Gellir casglu oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, fod dwy ddyledswydd yn orphwysedig arnom.

1. Nyni a ddylem ogoneddu Duw yn barhaus am y rhagor-fraint fawr hon o "Ysbryd gras a gweddi;" canys dyma y prif foddion o'n holl ymwneyd â Duw; ac heb hwn y mae dynion yn crwydro yn y tywyllwch, heb wybod pa fodd i ymwneyd â Duw. Mae holl waith ffydd yn cael ei enwi oddiwrth y ddyledswydd o weddïo; canys dywedir, "Pwy bynnag a alwo ar enw yr Arglwydd, cadwedig fydd." Rhuf. 10. 13. Ni's gall calon ddychymygu y fath drysorau o drugaredd a gynnwysir yn y rhagor-fraint fawr hon, o feddu gallu a rhyddid i fyned at Dduw bob amser. Dyma ymwared, arfau a nodded yr eglwys yn mhob amgylchiad.

Mae yn destyn moliant neillduol fod y rhagor-fraint hon yn cael ei chyfranu mewn gradd helaethach dan yr Efengyl na than y Ddeddf; ac y mae y sawl a fu dan y ddeddf a'i chaethiwed, ond a dderbyniodd Ysbryd y mabwysiad, yn gwybod y gwahaniaeth, ac efe a fydd yn ddiolchgar. Mae y rhagor-fraint hon, yr hon gynt ni pherthynai ond i ychydig, yn awr yn agored i dorfeydd mawrion, sef, "pawb ar sydd yn galw ar enw ein Harglwydd Iesu Grist yn mhob man, o'r eiddynt hwy a ninnau."

Yn mhob cynnulleidfa o fynydd Sion trwy y byd, y mae gweddiau a derfyniadau yn cael eu hoffrymu i Dduw, trwy nerthol weithrediad yr Ysbryd. Mal. 1. 11., ac yn hyn y mae holl ogoniant ein haddoliad yn gorwedd: cymerwch hyn ymaith, ac yna y mae y cwbl yn ddirmygus, yn farw, ac yn gnawdol. Galluogir pob teulu wrthynt eu hunain i weddïo yn yr Ysbryd. Y mae efe yr un i grediuwyr dros yr holl fyd, yn eu hystafelloedd dirgel, neu yn eu carcharau. Pa le bynnag y maent, y maent "oll yn cael dyfodfa trwy un Yspryd at y Tad," ac y mae Duw yn disgwyl teyrnged o ogoniant am y golud yma o ras.

2. Ein dyledswydd yw defnyddio y rhodd yma o'r Ysbryd A rad roddir modd i ni i weddïo yn wastadol gan yr Ysbryd Glan, pa ham ynte nad ydym yn gweddïo yn wastadol, yn ddirgelaidd, mewn teuluoedd, neu fel y byddo cyfleusderau yn ymgynnyg i ni? Mae gweddi y fath ddyledswydd ryfedd, fel y mae pob gras yn cael ei weithredu, pob pechod ei wrthwynebu, a phob bendith ei hennill ynddi; y mae ein holl ufudd dod yn dwyn perthynas â hi, a llawer o'n dedwyddweh presenol a dyfodol yn ymddibynu arni. Da y gŵyr pobl Dduw pa anhawsderau, a digalondid sydd yn cyfodi yn ei herbyn, mor wrthnaws iddi ydyw natur lygredig, a'r fath rwystrau mawrion sydd yn fynych ar ein ffordd i ymwneyd â hi; ond i'n cynnorthwyo dan ein mynych wendidau, i roddi i ni ryddid a hyder yn ein dyfodfa at yr orseddfainc; i'n galluogi i lefain megis plant, *Abba*, Dad, mae yr Ysbryd Glan wedi ei roddi i ni. Gan hyny, pwy a all ddarlunio y pechod a'r ffolineb o esgeuluso gweddi? Pa fodd y mae yn tristáu yr Ysbryd, ac yn niweidio ein heneidiau ni ein hunain! A allwn ni dreulio diwrnod ar ol diwrnod yn esgeuluso cyfleusderau ac achlysuron i weddïo? Pa fodd yr attebwn ni y dirmyg yma ar gynnorthwy grasol yr Ysbryd? A ydyw dynion anianol yn arfer byw heb weddïo? Och! ni's gwyddant hwy pa fodd i weddïo, a gwneyd y gwaith yn hyfrydweh i'r dyn oddi mewn: byw yn ddiweddi, sydd dra phechadurus. Yr ydwyf yn annog at y ddyledswydd hon o weddïo yn ddwysach, oblegid fod profedigaethau a pheryglon yr amser presenol yn galw am hyny yn arbenig. Pe byddai i ni siarad llai, a gweddio mwy, e fyddai pethau yn well nag ydynt yn y byd. Dyledswydd y rhai a dderbyniasant y ddawn hon, yw ei meithrin, ei chyffroi, a'i defnyddio. Fe'i rhoddwyd yn rhad; ond, fe ddylid ei chadw yn ofalus. Talent effengylaidd ydyw, wedi ei rhoddi i farchnatta â hi, ac felly i'w chynnyddu;—ac y mae hyn i'w wneyd,

(1.) Trwy ddwys ystyriaeth o honom ein hunain, a sylw manol ar ein calonnau ein hunain, a'n cyflwr ysbrydol ein hunain. Mae ein calonnau mor dwyllodrus, cyfnewidiadau ein teimladau mor amrywiol, a'r temtasiynau a ruthrant arnom mor llymion, fel y cawn ni lawn ddigon o waith dros ein holl ddyddiau i chwilio i'n cyflwr ein hunain. Rhan o waith yr Ysbryd yw ein cynnorthwyo ni yn hyn; ac os esgeuluswn ni ein dyledswydd tuag atto ef yn hyn, pa fodd y gallwn ni ddysgwyl parâad o'i gyn-

nerthwyon ef i ni? Mae yr hwn sydd yn gweddio heb iawn ystyriaeth o ddechreuad y brofedigaeth, gweithrediadau twyllodrus y pechod tufewnol, ymchwyddiadau rhyw lygredigaethau neilltuol, yn ngwyd a'r achlysuron a roddes fantais iddynt, dan orfod i weddio ar antur, ac ymdrechu ar amcan, fel un yn curo awyr; ond am y sawl a fydd yn ofalus fel hyn mewn hunan ymchwil a barn, efe a feidda ddefnydd priodol gweddi y nbarod yn wastad, fel y bydd efe yn abl i lauw ei enaid â rhesymau, ac efe a fynna nid yn unig yn y ddawn, ond hefyd yn nerth a bywyd y ddyledswydd hon.

(2.) Dyfal chwilio yr Ysgrythyrau:—Dyma y drych yn yr hwn y gallwn gael yr olwg orau arnom ein hunain, oblegyd ei fod yn cynnwys darluniad o'r hyn ydym, ac o'r hyn a ddylem fod: o'r hyn ydym ynom ein hunain, a'r hyn ydym drwy ras Duw; pa beth yw ein teimladau, ein gweithrediadau, a'n ffrydd, a pha beth yw eu diffyg yn ei olwg ef;—ac ni's gellir rhoddi gwell addysg i ni am ba beth y dylem weddio, na pha fodd i weddio:—A phwy a fu ar unrhyw bryd o'r bron yn darllen yr Ysgrythyrau gyda pharch i Dduw ac ymostyngiad cydwybod iddo ef, na's datguddiwyd rhyw ddefnydd gweddi neu fawl yn effeithiol iddo! Ac y mae yn ddiamheuol nad ychydig o les a ddeilliai i Gristionogion o droi yr hyn a ddarllenont yn weddi neu fawl yn wastadol; canys trwy hyny fe gadarnheid addysgiadau yr Efengyl yn fwy effeithiol ar eu meddyliau, ac fe rwymid eu calonnau yn fwy effeithiol yn yr ymarferiad o honynt.

(3.) Myfyrdod ar ragoriaethau gogoneddus Duw. Mae yr esamplau o weddi a gawn ni yn yr Ysgrythyrau yn gyffredin yn dechreu gyda rhyw enwau neu deitlau ar Dduw; at yr hyn y mae y colladwriaeth o ryw weithredoedd grymmus o'i allu yn cael eu chwanegu yn gyffredin. Mae Duw wedi datguddio ei enw i ni i'r perwyl yma, fel y gallom alw arno wrth yr enw a addefa ac a gymera efe arno ei hun. Trwy hyn y mae parch sanctaidd, ac ofn duwiol yn cael ei gyffroi. Fe'n cyffroir i ddyfod yn hyderus at orseddfainc y gras; ar orseddfainc y gras y darluniir Duw yn Nghrist i ni: er hyny, gorseddfainc ydyw, ar yr hon y mae mawrhydi a gogoniant yn preswylio: ac fe ddylai Duw gael ei ystyried genym ni yn wastad fel un ar orseddfainc. Trwy hyn hefyd y cyffroir ffydd a hyder; canys trwy weddi yr ydym yn ymuneyd â Duw, fel ein tarian, ein craig, a'n gwobrwy. Gan hyny, rhaid fod myfyrdod mynych ar ragoriaethau sanctaidd y natur ddwyfol yn barotoad mwyaf defnyddiol i weddi.

(4.) Myfyrdod ar gyfryngdod ac offeiriadaeth Crist.—Er mwyn hyn y'i gosodir allan o'n blaen ni fel un yn aros yn barhaus yn y gweinyddiad o'i swydd offeiriadol, *Heb.* 4. 15. a 10. 19; ac y mae hyn nid yn unig yn galondid i ni i weddio, ond yn foddion hefyd i gymmydda a chryfhau y gras a'r ddawn o weddi ei hunain: canys trwy hyn y parottoir y meddwl i ymarfer mewn myfyrdod ar gyfryngaeth effeithiol yr Arglwydd Iesu Grist ar ein rhan wrth orsedd gras. Mae hyn yn meddu lle mawr yn ngweddiau

yr holl gredinwyr; ac nyni a allwn brofi trwy hyn pa un a yw ein ffydd ni yn efengylaidd neu beidio.

(5.) Mynych ymarferiad o'r ddawn hon yw y ffordd i'w gwellhau. Mae pob rhyw ddawn yn cael ei chryfhau trwy ymarferiad, a'i gwanhau trwy anymarferiad. Bu rhai yn meddu dawn gweddi i radd dda, fel ag i allu bod yn adeiladol iddynt eu hunain ac i eraill; ond trwy ei hesgeuluso yn gyhoeddus ac yn y dirgel, (yr hyn nid yw yn gyffredin heb fod rhyw ysgelerderau cyhoeddus neu ddirgelaidd yn canlyn hyny,) hwy a'i collasant yn llwyr, fel na's gallant agor eu geneuau ar unrhyw achlysur mewn gweddi. Ar y llaw arall, bydd i fynych ymarferiad â hi ei chynnyddu trwy fendith Duw ar ei osodiad ei hun. Dyma y ddeddf dragywyddol gyda golwg ar y cyfraniad o bob dawn efengylaidd; "I bob un y mae ganddo y rhoddir, ac efe a gaiff helaethrwydd, ac oddiar yr hwn nid oes ganddo y dygir, ïe, yr hyn sydd ganddo." Matt. 25. 29.

(6.) Gwresowgrwydd meddwl gwastadol yn y ddyledswydd hon.—Fe all dynion luosogi gweddïau; ond os byddant yn hwyrdrwm, marwaidd, a ffurfiol ynddynt, ni's gellir dysgwyl unrhyw lesäad ysbrydol oddiwrthynt. Mae gwresowgrwydd ac ymröad meddwl yn bywiogi ac yn changu y galluoedd, gan adael argraffiadau dwysion arnynt. Mae yr holl enaid yn cael ei fwrw i ffurf yr hyn y gweddïom am dano, a thrwy hyny fe'i parottoir i ymdrechiadau newyddion am yr unrhyw.

Gan hyny, y mae yn ddyledswydd arnom ddefnyddio y ddawn hon o weddi i'r dybenion hyny, er mwyn pa rai y'i rhad roddwyd i ni. O berthynas i ni ein hunain, y mae yn foddion bendithiol i gyffroi a bywioccàu holl rasusau yr Ysbryd, yn enwedig ffydd, cariad, a llawenydd. Mae wedi ei threfnu gan Dduw hefyd i'w defnyddio mewn cymdeithasau, teuluoedd, cynnulliadau eglwysig, ac yn achlysurol er llesäad neb rhyw un; ac y mae rhwymedigaeth arbenig ar weinidogion yr efengyl, a phennau teuluoedd i gyflawni y ddyledswydd hon:—ond, gofalwn na byddo hon yn unig: canys lle na's byddo onid dawn gweddi yn unig yn cael ei hymarfer, heb yr ymarferiad o ras yn y galon, nid yw ar y gorau ond ffurf duwioldeb, ac e gydsaif yn eithaf â phob rhyw ffieidd-dra dirgelaidd.

GWAITH YR YSBRYD FEL DYDDANYDD.

Pan adawodd ein Hiachawdwr y byd hwn yr oedd efe yn mhell o roddi i fynu ofalu am ei ddysgyblion. Efe a roddes y sierwydd mwyaf i ni ei fod yn parhau yr un gofal, cariad, a gras tuag attom, a phan roddes efe ei fywyd i lawr drosom ni:—ond fel yr oedd gwaith dyblyg eto i'w gyflawni ar ein rhan, un tuag at Dduw, a'r llall ynom ni, efe a gymerodd ffordd ddyblyg i'w gwblhau. Y gwaith tuag at Dduw oedd i gael ei gyflawni ganddo ef ei hunan yn ei natur ddynol yn y nef; a'r llall, o'r hwn y mae credinwyr yn wrthddrychau uniongyrchol, a ymddiriedwyd i'r Ysbryd Glan, a'r enw neillduol, trwy yr hwn y'i darlunir yn y gwaith hwn, yw y PARACLETE, yr

hyn a gyfieithir genym ni, "Y Dyddanydd." Gyda golwg ar drallodion y dysgyblion y'i haddawyd dan yr enw yma; a'i waith parhaus yw cynnal, a meithrin, gwaredu, a dyddanu ei eglwys yn ei holl brofedigaethau a'i chyfyngderau; ac yn hyn y mae efe yn amlygu,

1. Ei ymostyngiad annrhaethol.—Y mae efe wrth naturiaeth uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesodd. Mae yn ymostyngiad yn y Duwdod gogoneddus, i fod dim a wnelo âg unrhyw greadur. Efe a'i darostwng ei hun i edrych y pethau yn y nefoedd; pa faint mwy yn ei ymostyngiad i gyflawni y swydd o Ddyddanydd i bryfaid tlodion ar y ddaear!

2. Ei gariad anfeidrol.—Gweddïai yr apostol am bresenoldeb yr Ysbryd gyd a'r Corinthiaid, dan yr enw, "Duw y cariad a'r tangnefedd;" ac y mae y cyfrannogiad o holl gariad Duw i ni, wedi ei ymddiried i'r Ysbryd; canys y mae cariad Duw yn cael ei dywallt yn eu calonnau trwy yr Ysbryd; ac am hyny y mae yr un apostol yn bennodol yn son am gariad yr Ysbryd, gan gyssylltu â hyny holl effeithiau cyfryngdod Crist: "Yr wyf yn attolwg i chwi frodyr, er mwyn ein Harglwydd Iesu Grist, ac er cariad yr Ysbryd." Rhuf. 15. 30. Yr holl gariad y mae efe yn ei gyfrannu i chwi, ac yn ei roddi ar weithrediad ynoch chwi. Gallai fod o les mawr i ni feddwl fod cariad anfeidrol yn amlygedig yn ngwaith yr Ysbryd yn cymeryd y swydd hon; ac y mae hyn yn amlwg oddiwrth natur y gwaith ei hunan, gan fod cysur y cystuddiedig yn effaith uniongyrchol cariad. Nid oes un dyferyn o gysur neu adfywiad ysbrydol yn cael ei weinyddu gan yr Ysbryd Glan, ond a ddeillia o'i gariad anfeidrol ef.

3. Ei nerth hollalluog.—Mae yr apostol yn crybwyll hyn er cyfnerthiad credinwyr gwein'aid;—"Mwy yw yr hwn sydd ynoch chwi na'r hwn sydd yn y byd." Mae yr Ysbryd Glan, yr hwn sydd yn trigo ynddynt hwy, yn fwy a gallnoccach na Satan, yr hwn sydd yn ceisio eu dinystrio. Pwy a all ddarlunio y digalondid a'r ofnau y mae credinwyr yn ddaros tyngedig iddynt! nid oes dim ond Hollalluowgrwydd ei hunan yn ddigonol i'w rhyddhau oddiwrthynt! Pe cymerem olwg ar gyflwr yr eglwys ynddi ei hunan, ac yn y byd, mor wan yw ffydd y rhan fwyaf o gredinwyr! Mor fawr eu hofnau! mor luosawg yw defnyddiau eu digalondid! mor aml y profedigaethau, yr adfydau, a'r erledigaethau, â'r rhai y'u hamgylchynir! Gan hyny mae yn amlwg mor angenrheidiol oedd bod i'w dyddanwch gael ei ymddiried i ofal un yn meddu gallu anfeidrol.

AM BRESWYLIAD YR YSBRYD.

Y peth cyntaf, i'r hyn yr addewir y Dyddanydd i'r credinwyr, yw, fel y preswyliai ynddynt hwy. Nyni a ddylem gredu hyn yn ddiysgog, er na's gallwn ddirnad yn gyflawn pa fodd y mae. Mae lluaws mawr o addewidion yn yr Hen Destament, y byddai i Dduw roddi yr Ysbryd Glan, yn a thrwy rinwedd y cyfammod newydd. Fe'n cyfarwyddir hefyd i weddio

am yr Ysbryd Glan, ac fe'n sicrheir y bydd i Dduw ei roddi i'r sawl a'i gofynant ganddo mewn modd prïodol; ac y mae yn debyg nad oes yr un deisyfiad y mae credinwyr yn fwy taer a mynych ynddo na hwn. Y preswyliad yma yw y peth y cyfarwyddai Crist ei ddysgyblion i'w ddysgwyl yn yr addewid o honaw;—"Y mae yn aros gyda chwi, ac ynoch y bydd efe." Ioan 14. 17. Felly hefyd y tystiolaethir yn gadarnhâol am y rhai oll ydynt yn gyfrannogion o'r addewid hon, Rhuf. 8. 9. "Chwychwi nid ydych yn y cnawd ond yn yr Yspryd, od yw Yspryd Crist yn trigo ynoch;" ac yn adn. 11, "Os Yspryd yr hwn a gyfododd Iesu o feirw sydd yn trigo ynoch."

Dyma ffynnonell ei weithrediadau grasol ynom ni. Y dwfr a ddyru Crist i ni, sydd ynom ni yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol. Ioan 4. 14. Y dwfr yw yr Ysbryd Glan, ac y mae hwn ynom ni; y mae efe yn aros neu yn preswylio yn y rhai y'i rhoddwyd iddynt. Ffynnon ydyw, a ffynnon fywiol, yr hyn ni's gellir ei ddweyd am unrhyw dueddfryd rasol. Effeithiau gweithrediad yr Ysbryd yw pob tueddiadau grasol, ac nid y ffynnon ei hunan; ac fel y mae yn naturiol a hawdd i ffynnon darddu i fynu, felly y mae yn perthyn i gysur y credinwyr wybod mor hawdd yw i'r Ysbryd Glan,—ac mor barod yw efe o herwydd ei breswyliad grasol, i ddwyn ei waith grasol a sancteiddhaol yn mlaen ynddynt.

Dyma y ffynnonell a'r achos dirgeledig o'r pellder a'r gwahaniaeth annrhaethol hwnw sydd rhwng credinwyr a'r gweddill o'r byd. Ein "bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw." Medda y credinwyr fywyd gwynfydedig tra y maent yma: maent yn feirw yn y byd, ac megis meirw i'r byd: bywyd a dardda i ogoniant tragywyddol; ond nid oes dim o hyn yn ymddangos i lygaid dynion. Gwir, medd yr apostol, canys y mae wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw. Mae wedi ei guddio yn ei achosion, ei natur, ei weithrediadau, a moddion ei baraad; ond trwy y bywyd cuddiedig yma y maent yn gwahaniaethu oddiwrth y byd colledig; ac oni's caniattâ dynion fod y fath wahaniaeth rhyngddynt yn y byd yma, fe'u gorfodir i addef hyny yn y dydd olaf, pan gyhoeddir y ddedfryd "*Deuwch chwi fendigedig*," ac "*Ewch oddiwrthyf, rai melltigedig.*" Y mae gwahaniaeth yn eu gweithredoedd, yr hyn yn wir a ddylai fod yn llawer mwy nac ydyw; ond y mae gwahaniaeth llawer mwy yn y dueddfryd rasol dufewnol, drwy yr hyn y mae meddyliau dynion yn cael eu newid i ddelw Duw. Ond ni's gall hyn ddal pwysau y pellder dirfawr; y mae yn ymddibynnu yn bennaf ar breswyliad yr Ysbryd. Y gwahaniaeth mawr rhwng y ddau dŷ a adeiladodd Solomon, oedd, fod Duw yn preswylio yn y naill, ac yntau ei hunan yn y llall. Er y gall unrhyw ddau dŷ o ran eu lluniad allanol, ymddangos yn dra chyffelyb, eto os bydd y Brenin yn preswylio yn y naill, ac yspeilydd yn y llall, fe all un fod yn llys, a'r llall yn ffau, neu "ogof lladron." Gan hyny, ar y preswyliad yma o ciddo yr Ysbryd, y mae holl ragor freintiau y credinwyr, a'u holl ardderchawgrwydd ragor dynion y byd, yn ymddibynu.

AM ENNEINIAD YR YSBRYD.

Dywedir am credinwyr eu bod yn rhai enneiniog, neu wedi derbyn enneiniad oddiwrth Y Sanctaidd, 1 Ioan 2. 20; ac fe ddywaedir yn adn. 27, "Y mae yr enneiniad a dderbyniasoch ganddo ef yn aros ynoch chwi ac ni fydd arnoch eisiau i neb eich dysgu chwi am bob peth." I ddeall hyn, y mae yn ofynol i ni gofio fod pob personau a phethau a gyssegrid i Dduw dan yr Hen Destament yn cael eu henneinio ag olew. Enneiniodd, eleimiodd, ylloswydd, y cyssegr, yr ellor, a holl lestri yr addoliad dwyfol a'r cymmun: ac yr oedd y peth yn Lyn i gyd yn gyssegredig i'r addoliad; a chawsant eu cyflawnhad llawn a phriodol yn gyntaf yn nherson Iesu Grist—a'n ni, ei lod ef i fod y sanctaiddiolaf, tiymmon ac achos pob sanctaiddrwydd mewn credil, ofe a gafodd ei enwi oddiwrth Lyn; canys y Messiah yn yr Hen Destament, a Christ yn y Newydd, sydd yr un ystyr i'r Enneiniog. Yr oedd enneiniad Crist yn gymmwysedig yn benaf yn y cyflawniad llawn o'r Ysbryd dano ef, nid yn unig fesur, yn ei ddonian a'i holl rasau.

Mae credinwyr yn cael eu henneiniad yn unionsyssol oddiwrth Grist. "Y mae genych chwi enneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw," ac y mae yr enneiniad yn rhaddiad yr Ysbryd Glan idiynt hwy. Nid yr Ysbryd sydd yn eu henneinio ni, ond ofe yw yr ennaint âi lawn yn hen, nerthol, a chwn a wyddoch bob peth: —hyd yn oed eu sylfaen ar hanfodol yr elwasol; yr hyn oll sydd eisiau i chwi eu sylfaenu a'u meddianu. Ddaw mewn gwirionedd, a Chael eich achub yn sicrwydd i'r ymddiried yn Iesu Grist yr Ysbryd, trwy yr oruchwyliaeth o'r efengyl, a'ch gwneyd yn feddianol o'r

dim arall fod yn ddigonol i hyn yma. Fe all profedigaethau ddyfod fel ystorm, yr hon a ýr ddynion yn fuan o'u llochesau cnawdol gorau. Am ba achos, y gwelir yn fynych, mai y rhai ydynt barottaf i ddywedyd, pe gwadai pawb y gwirioneddi, na's gwnaent hwy, ydynt y rhai blaenaf yn wyneb profedigaethau i wneuthur hyny. Ac nid digon yw medr dynion, a'u galluoedd dadlyddol i'w diogelu rhag cael eu llithio âg ymddangosiadau teg, neu eu maglu â dichellion twyllodrus, y rhai ydynt yn gwylied i dwyllo. Ac ni's gall diffyniadau gorau cig agwaed sefyll yn ddiysgog yn erbyn hudoliaethau grymmus ar un llaw, ac erlidigaethau llymion ar y llaw arall; ond fe sicrheir credinwyr gan yr apostol, na phalla yr enneiniad yma ac na's pallant hwythau o'i herwydd.

Ac i'r perwyl yma nyni a allwn ystyried (1.) Natur y ddysgeidiaeth a gawn ni trwy yr enneiniad yma:—"Yr enneiniad a'ch dysg chwi." Nid rhyw ddysgeidiaeth athrawiaethol, allanol yn unig yw y ddysgeidiaeth hon; ond gweithrediad tufewnol effeithiol yr Ysbryd Glan. Mae yn wir ei fod ef yn defnyddio y moddion allanol o addysg trwy y gair, ac nad yw efe yn dysgu dim ond sydd yn ddatguddiedig ynddo; ond y mae efe yn rhoddi i ni ddeall fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir; ac yn agoryd ein llygaid fel y gwelom yn eglur ac yn ysbrydol y pethau rhyfedd ydynt yn y gyfraith; ac nid oes dysgeidiaeth fel yr eiddo ef;—yr un mor arhosol, yr un mor effeithiol. Pan ganfyddir pethau ysbrydol trwy yr enneiniad yma mewn modd ysbrydol, maent yn eymeryd gafael ddisigl yn meddyliau dynion. Megis y bydd i Dduw ddistrywio pob iau ormesol o herwydd enneiniad Crist, felly efe a dýr bob magl o hudoliaeth trwy enneiniad Cristionogion. Felly yr addewir mai doethineb a gwybodaeth fydd sicrwydd yr amserau dan yr efengyl. Ni rydd dim sicrwydd yn mhob rhyw amserau, ond y ddoethineb a'r wybodaeth ydynt effaith y ddysgeidiaeth yma, pan rydd Duw Ysbryd doethineb o datguddiad mewn adnabyddiaeth o honaw ei hun i ni.

(2.) Pa beth y mae efe yn ei ddysgu; a hyny yw,—"pob peth." Felly yr oedd yr addewid, y byddai i'r Ysbryd ddysgu i ni bob peth, dwyn ar gof y pethau a fynegodd Crist i ni; a'n tywys ni i bob gwirioneedd. Nid pob peth, yn hollawl a olygir, canys mewn rhan y gwyddom yn y byd hwn; ond pob peth, a phob gwirioneedd, gyda golwg ar ddyben yr addewid a'r ddysgeidiaeth yma, sef holl fywyd ffydd, a'r llawenydd a'r cysur cyssylltiedig â hyny. yn nghyd a'r cyfryw sicrwydd ag a ddiogela gredinwyr rhag pob ymgais i'w tynu i gyfeiliornad.

(3.) Mae y ddysgeidiaeth yma yn cael ei dilyn yn wastadol â chariad at y gwirioneedd yn yr hwn y'n dysgir, a phleser yn ufuddhau i'r hyn a ofyna; a dyma brif brawf yr enneiniad yma. Heb hyn, pa mor oddiog bynnag a fyddo ein syniadau, pa mor gywir bynnag ein hymadroddion, eto o ran grym a lles crefydd, nid ydým namyn cyffelyb i efydd yn seinio, neu symbal yn tincian; ond pan fyddo i'r Ysbryd Glan yn a thrwy e'

ddysgeidiaeth, anadlu i'n calonnau gariad dwyfol at, ac ymhyfrydiad yn y pethau y'n dysgir ynddynt,—pan y mae yn ein galluogi i brofi mor ddaionus yw yr Arglwydd ynddynt, gan eu gwneuthur yn felusach na'r mêl i ni, ac na dyferiad diliau mêl,—pan y mae yn eu gwneuthur yn llawenydd a hyfrydwch i ni, gan gyffroi a bywiocccáu egwyddorion ymarferol ein meddyliau i gydffurfiad â hwy mewn sanctaidd ufudd-dod, yna yr ydym wedi derbyn yr enneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw, trwy yr hyn y sanctciddir ac y sicrheir ein hencidiau hyd y diwedd.

Yr unig sylw a ychwanegaf yw, gan ein bod yn priodoli yr enneiniad hwn mewn modd neilldnol i'r Ysbryd fel Dyddanydd yr Eglwys, mae yn hawdd i ni ddirnad yn mha beth y mae y cysur a dderbyniwn ni ganddo ef yn gymmwysedig;—canys pwy a ddichon dracthu y boddhad, yr adfywiad, a'r llawenydd, sydd yn dylenwi y meddwl trwy y ddysgeidiaeth ysbrydol effeithiol, sydd yn rhoddi golwg eglur iddo ar y gwirioncdd achubol, yn ei natur a'i degwch ei hunan, gan changu y galon â chariad ato, ac ag ymhyfrydiad ynddo! Mae yn wir fod y rhan fwyaf o grediuwyr yn barod i ddyrysu weithiau gyda golwg ar eu cyffwr ysbrydol; neu yn cael eu hanhwylaso gymmaint gan brofedigaethau, fel nad ydynt yn derbyn profiad adfywiadol o'r cysuron a'r llawenydd hyny sydd yn anysgaredig oddiwrth yr enneiniad ynu: eto hyn ynddo ei hunan yw y ffynnon o'r hon y mae eu hoil adfywiadau a'n cynhaliaeth ddirgelaidd yn deillio; ac y maent yn alluog i ddcall pa fodd y mae eu prif lawenydd a u cysuron dan eu trallodau trymaf i'w holrhain i'w hadnabyddiaeth ysbrydol o ddirgeledigaethau gras a chariad dwyfol yn Nghrist, yn nghyd a'r hyfrydwch a'r boddhad annrhaethadwy hyny y maent yn ei gael ynddynt, trwy yr hyn y mae eu hewyllysiau yn cael eu rhwymo mewn diauwadalwch anorchfygol yn eu dewisiad; ac nid ychydig o gysur sydd mewn iawn amgyffrediad o'r urddas ysbrydol sydd yn gyssylltiedig â hyn; canys pan gyfarfyddant â'r trallod a'r dirmyg mwyaf yn y byd hwn, y mae profiad o'u cymeradwyaeth gyda Duw, fel rhai wedi eu gwneyd yn freninoedd ac yn offeiriaid iddo ef, yn gweinydda cysur iddynt, na's gwyr y byd am ddim o'i fath, a'r cyfryw na's gallant hwythau ei ddarlunio.

YR YSBRYD YN SEL.

Effaith arall o eiddo yr Ysbryd Glan fel Dyddanydd yr Eglwys yw, mai trwyddo ef y mae credinwyr yn cael eu SELIO: "Yr hwn a'n heneiniodd ni yw Duw, yr hwn hefyd a'n seliodd ni," 2 Cor. I. 21, 22. A pha fodd y gwneir hyn, y mae yr un apostol yn tystio; "Yn yr hwn hefyd wedi i chwi gredu, y'ch seliwyd, trwy Lan Yspryd yr addewid." Eph. I 13. a phen. 4. 30. "Na thristewch Lan Yspryd Duw, trwy yr hwn y'ch seliwyd hyd ddydd pryuedigaeth." Yn y lle cyntaf dywedir yn bennodol ein bod ni wedi ein selio â'r Ysbryd, trwy yr hyn y dynodir yr Ysbryd ei hunan fel y sêl hon, ac nid dim o'i weithrediadau, megis y dywedir yn bennodol hefyd am dano ef, ei fod yn ernes ein hetifeddiaeth. Yn yr

olaf, y geiriau ydynt, (En o esphragisthete) "Yn yr hwn; ' yn, a thrwy dderbyn yr hwn, "y'ch seliwyd." Gan hyny, nid unrhyw weithred neillduol o eiddo yr Ysbryd, ond effaith neillduol o'r rhoddiad o hono i ni a olygir, debygid, yn y geiriau hyn.

Yr esponiad cyffredin ar y selio hwn a gymerir oddiwrth natur a defnydd selio yn mysg dynion; swm yr hwn yw hyn.—Gellir ystyried selio fel gweithred naturiol neu foesol; hyny yw, gyda golwg ar y weithred o selio fel gweithred; neu, gyda golwg ar ei defnydd a'i dyben. Yn y ffordd gyntaf rhoddiad yr argraff neu y ddelw sydd ar y sêl, ar y peth seliedig ydyw: ac felly dylai seliad yr Ysbryd fod yn gynnwysedig mewn rhoddi ei ddelw ei hun i'r enaid, a'i waith yn selio a fyddai yr un a'n sancteiddiad ni. Mae dyben a defnydd selio yn mysg dynion yn ddeublyg. (1.) I roddi sicrwydd am gyflawniad gweithredoedd, ewyllysiau, &c.: ac fel hyn gellir dywedyd ein bod yn cael ein selio pan fyddo addewidion Duw yn cael eu cadarnhau i'n heneidiau, a phan y'n sicrheir o honynt gan yr Ysbryd Glan; ond y gwirionedd yw, mai selio addewidion Duw a fyddai hyn, ac nid credinwyr; ond am bersonau ac nid addewidion y dywedir eu selio. (2.) Er diogeliad yr hyn a selir. Fel hyn y selir pethau gwerthfawr, fel y'n cadwer yn ddiogel: ac felly y gallu hwnw a ddefnyddia yr Ysbryd Glan er diogeliad credinwyr yw yr hyn a olygir; ac yn y golygiad yma y dywedir eu bod wedi eu "selio hyd ddydd prynedigaeth."

Ymhelaethir ar hyn yn aml, ac y mae yr hyn a ddywedir yn gyffredin i'r perwyl yma, yn dda a buddiol o ran y sylwedd o hono: ond ni's gallaf fi gydsynio yn y deongliad yma; canys nid ydwyf wedi fy moddloni fod y fath gyfeiriad yma at selio yn mysg dynion ag a feddylir yn gyffredinol, ac os oes, gan fod cynnifer o ystyriaethau o selio, y mae yn anhawdd penderfynu pa un a olygir; ac os cymerweh chwi fwy nac un i fewn, yna priodolir y gwabanol effeithiau i'r Ysbryd Glan dan y gyffelybiaeth o Selio; ac felly ni's gallwn byth wybod pa beth yw yr un weithred a rhagorfraint bennodol hono a olygir. Heblaw hyny, yr holl bethau a briodolir i'r selio yma yn gyffredin, ydynt weithredoedau, neu effeithiau yr Ysbryd Glan arnom ni; tra na's dywedir fod yr Ysbryd Glan yn ein selio trwyddo, neu ag ef: efe yw sel Duw i ni.

Megis y mae ein holl ragorfreintiau ysbrydol yn cael eu gweinyddu i ni trwy Grist, felly y maent yn gynnwysedig yn ein cyfrannogiad o'r cyflawnder hwnw o honynt sydd ynddo ef: ac fel y maent yn deillio o'n hundeb ag ef, felly eu prif ddyben yw cydffurfiad âg ef: ac ynddo ef, yn yr hwn y mae pob peth yn amlwg, y gallwn ni ddysgu natur y pethau hyny, o'r rhai, mewn mesur llai, a llawer dywyllweh, y'n gwneir ni yn gyfrannogion. Felly y dysgwn ein henneiniad ynddo ef; ac felly y mae yn rhaid i ni ymofyn i natur ein seliad yn ei seliad ef; canys megis ag y dywedir, mai yr hwn a'n seliodd ni yw Duw; felly y dywedir, yn bennodol am dano ef, "Hwn a seliodd Duw Dad," Ioan 6. 27. Ac os gallwn

ni ddysgu yn gywir pa fodd y seliwyd Crist, nyni a allwn ddysgu pa fodd y'n selir ninnau.

Seliad Crist gan ei Dad, yw y cyfraniad o'r Ysbryd Glan yn ei holl gyflawnder iddo ef, gan ei awdurdodi i, ac amlygu ei ddwyfol allu mewn gweithrediad yn holl weithrediadau a dyledswyddau ei swydd, er prawf o bresenoldeb Duw gydag ef, a'i gymeradwyaeth o hono ef; canys fe brofwyd yn eglur tuwy nerthol weithrediadau yr Ysbryd Glan ynddo a thrwyddo ei fod ef wedi ei alw a'i ordeinio gan Dduw, a'i arddelwi a'i gymeradwyo ganddo ef. Am hyny yr oedd pechod y rhai a ddirmygent y sêl hon o eiddo Duw yn anfaddeuol; canys ni fyn, ac ni's gall Duw roddi tystiolaeth fwy o'i gymeradwyaeth i neb un, na thrwy sêl fawr ei Ysbryd, ac fe roddwyd hyn i Grist yn y cyflawnder o hono. Efe a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu, yn ol Ysbryd sancteiddiad. Rhuf. 1. 4: ac efe a gyflawnhawyd yn yr Ysbryd, neu, fe brofwyd trwy ei allu ef, fod Duw gyd ag ef, 1 Tim. 3. 16 —Fel hyn y seliodd Duw Bon yr Eglwys â'r Ysbryd Glan; ac yn hyn y gallwn ni ddysgu oran pa fodd y selir yr aelodau.

Gan hyny, seliad credinwyr gan Dduw, yw ei waith grasol yn rhoddi yr Ysbryd Glan iddynt, i weithredu ei allu dwyfol ynddynt hwy yn y fath fodd, ag i'w galluogi hwy yn holl ddyledswyddau eu galwediguetli sanctaidd, gan roddi prawf o'u cymeradwyaeth gydag ef, iddynt hwy, ac i eraill, a'u nodi fel etifeddion iachawdwriaeth dragywyddol. Effeithiau y seliad hwn yw, gweithrediadau grasol yr Ysbryd yn ac ar credinwyr; ond y seliad ei hunan yw y rhoddiad o'r Ysbryd iddynt hwy. Er egluro natur y rhagorfraint hon yn mhellach, nyni a allwn sylwi,

Pan clwir rhyw rai yn effeithiol, eu bod ar yr un pryd yn cael eu dwyn i lawer o berthynasau newyddion,—â Duw ei hunan fel ei blant,—âg Iesu Grist, fel ei aelodau,—â saint ac angelion fel teulu Duw; fe'u gelwir hefyd at wasanaeth a dyledswyddau newyddion, am y rhai ni's gwyddent hwy ddim o'r blaen. Mewn gair, maent yn cael eu dwyn i fyd newydd: yr hwn a wneed trwy y gweddigaeth newydd; ac ar ba law bynnag yr edrychant maent yn gorfod dywedyd, "Yr hen bethau a aethant heibio, wele, gwnaethpwyd pob peth o newydd." Pa fodd yr ymddygant yn gymhwys yn y cyflwr yma, gan gyfatteb i'r sefyllfa sanctaidd yn yr hon y'u gosodwyd? Ni's gall neb wneuthur hyn o honaw ei hun, canys pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?

Gan hyny y mae Duw yn eu harddelwi yn y cyflwr yma, gan roddi ei Ysbryd Sanctaidd i'w cymhwyso i'w perthynasau, i'w galluogi i'w dyledswyddau, i roddi eu hegwyddorion newyddion ar weithrediad, ac yn mhob modd i gyflawni y gwaith y'n galwyd atto; y mae efe yn rhoddi Ysbryd nerth, a chariad, a meddwl uniawn iddynt, ac felly y mae Duw yn eu selio hwy:— canys,

Fel hyn y mae efe yn rhoddi ei dystiolaeth iddynt hwy, eu bod hwy yn

eiddo ef, yn arddelwedig ganddo ef, a chymeradwy gyd ag ef,—ei feibion, neu eu blant ef; yr hyn yw ei sêl: canys pe na buasent y cyfryw, ni roisai efe ei Ysbryd iddynt hwy: ac yn hyn y cynnwysir y dystiolaeth fwyaf y mae Duw yn ei roddi, a'r unig sêl y mae efe yn ei osod ar neb yn y byd hwn. Hyn a brofai yr apostol Pedr, Act. 15. 8, 9; canys ar y ddadlyddiaeth hóno, pa un a gymeradwyai Duw y credinwyr hyny, y rhai ni's cyflawnent ddefodau Moses, efe a brofai ei fod yn eu cymeradwyo, trwy iddo "ddwyn tystiolaeth" iddynt;—a pha fodd y gwnaeth efe hyny? "Trwy roddi iddynt yr Ysbryd Glan;" a hyny nid trwy weithrediadau gwyrthiol yn unig, ond trwy ei weithrediadau grasol, "gan buro eu calonau trwy ffydd!"

Trwy hyn y mae efe yn rhoddi i gredinwyr sicrhad o'u perthynas ag ef, o'u rhan ynddo ef, o'i gariad a'i ffafr iddynt. Meddylid yn gyffredin mai y seliad yma yw yr hyn sydd yn rhoddi sicrwydd i gredinwyr; ac felly y mae; er fod llawer wedi camsynied am y ffordd trwy ba un y mae yn gwneyd hyny; ac am hyny ni's gallodd neb ddarlunio natur arbenig y weithred hóno o eiddo yr Ysbryd trwy ba un y mae efe yn ein selio, oddiar yr hyn y deillia y cyfryw sicrwydd. Ond y gwirionedd yw, nad unrhyw weithred o eiddo yr Ysbryd ynom ni yw sail ein sicrwydd, ond rhoddiad yr Ysbryd i ni. Ac y mae hyn yn cael ei ddatgan yn eglur gan yr apostol, —"Wrth hyn y gwyddom ei fod ef yn aros ynom, sef o'r Yspryd a roddes efe i ni." 1 Ioan 3. 24. A thrachefn, yn pen. 4. 13, "Wrth hyn y gwyddom ein bod yn trigo ynddo ef, ac yntau ynom ninnau, am ddarfod iddo roddi i ni o'i Ysbryd." Dyma y prawf mawr, sail fawr y sicrwydd a feddwn, o fod Duw wedi ein cymeryd i undeb agos ac anwyl ag ef ei hunan, oblegid ei fod ef wedi rhoddi ei Ysbryd i ni,—y rhodd nefol fawr hóno na's dyru i neb arall:—ac yn wir ar y pegwn yma y mae yr holl sicrwydd a all y credinwyr gyrhaeddyd yn gorphwys. Os ydyw Ysbryd Duw yn trigo ynom, eiddo ef ydym; ond, "od oes neb heb Ysbryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef."

Trwy hyn y mae Duw yn eu dangos i'r byd: y mae yn eu nodi yn eiddo iddo ei hun; fel na's gall y byd lai na chymeryd sylw o honynt. Lle y gesyd Duw ei sêl, fe gynnyrchir y fath effeithiau, ag a dynant sylw y byd. Er fod y byd wedi ei ddallu trwy ragfarn, a than ddylanwad gelyniaeth yn erbyn pethau ysbrydol, eto ni's gall lai na gweled y fath gyfnewidiad a wneir yn y rhai y mae Duw yn eu selio fel hyn, a pha fodd y maent yn gwahaniaethu oddiwrth ddynion eraill trwy ddoniau a grasau yr Ysbryd, y rhai a gaseir ganddynt hwy; ac y mae hyn yn cadw i fynu yr elyniaeth sydd rhwng y ddau had yn y byd: canys y mae gwaith Duw yn selio credinwyr yn dangos ei gymeradwyaeth neillduol ef o honynt, yr hyn sydd yn llanw calonnau y rhai ydynt o ysbryd Cain, â chasineb ac âg ymddïal. Fe ellir tawelu pob achos arall o amrafael, ond yr amrafael yma yn nghylch sêl Duw, ni's gellir byth ei liniaru; a'r canlyniad yw, na's gall y rhai a seliwyd fel hyn, lai nac ymneillduo oddiwrth y rhan fwyaf o'r byd, trwy yr hyn y mae yn eglurach fyth i bwy y maent yn perthynu.

Trwy hyn y mae Duw yn selio credinwyr hyd ddydd prynedigaeth, neu iachawdwriaeth dragywyddol; canys y mae yr Ysbryd a roddwyd iddynt fel hyn, megis y dangosasom eisoes, i aros ynddynt yn dragywydd, fel "ffynnon o ddwfr ynddynt, yn tarddu i fywyd tragywyddol."

YR YSBRYD YN ERNES.

Dywedir fod yr Ysbryd Glan yn *ernes*. Nid unrhyw weithred o eiddo yr Ysbryd ynom neu arnom; ond efe ei hunan yw yr ernes. Dynodir hyn yn mhob lle y'i crybwyllir, 2 Cor. 1. 22.—"ernes yr Yspryd:" yr ernes hôno, yr hou yw yr Ysbryd, neu yr Ysbryd fel ernes. Ac yn Eph. 1. 14, dywedir yn bendant mai yr Ysbryd Glan yw "ernes ein hetifeddiaeth." Mae Duw yn rhoddi ei Ysbryd sanctaidd i breswylio ynom ac i drigo gyda ni fel ernes ein hetifeddiaeth ddyfodol.

Cyfeirir yn yr enw yma ar yr Ysbryd at ddyben cyffredinol ernes neu wystl; sef rhoddi sicrwydd o rywbeth sydd yn ddyfodol. Mae Duw yn ei ras penarglwyddiaethol a'i haelioni yn rhoddi ei Ysbryd Sanctaidd i gredinwyr, a chyda hyny yn gadael iddynt wybod ei fod yn rhoddi hyny iddynt yn awr, gan fwriadu rhoddi llawer chwaneg iddynt yn ei amser appwyntiedig, sef cu holl etifeddiaeth: ac yna nyni a geisiwn ddangos yn fyr pa fodd y mae yr Ysbryd yn ernes o'r etifeddiaeth hóno.

Crist, yn ei berson ei hunan yw etifedd pob peth; felly y'i trefnwyd gan Dduw, ac am hyny y mae yr holl etifeddiaeth yn eiddo trwyadl iddo ei hunan. Yr oedd dyn trwy ei bechod wedi torri ymaith ei hawl i holl ddybenion ei greadigaeth, ar y ddaear ac yn y nef. Angau ac uffern yw yr oll y medd dynolryw hawl iddynt mewn canlyniad: ond er hyny nid ydoedd yr holl bethau daionus a ddarparasai Duw i'w bwrw ymaith;—yr oedd yn rhaid darparu etifedd iddynt. Pan gollodd dyn ei hawl, ni's attafaelodd Duw yn yr holl etifeddiaeth â dwylaw cyfiawnder i'w dystrywio; ond efe a'i cyflëodd oll yn ei Fab. Yr oedd yr etifeddiaeth hon o ran ein hawl ni o honi wedi ei fforffedu; ac o'n rhan ni, rhaid ei phrynu cyn y gellir ein gwneyd ni yn gyfrannogion o honi. Gan hyny yr oedd yr yr Arglwydd Crist, yr hwn a feddai hawl yn ei berson ei hun i'r cwbl, i'w phrynu oddi tan y fforffetiad, a phwreasu y meddiant o honi i ni; ac am hyny y'i gelwir *y pwreas*, neu y meddiant pwreasol, ac fel hyn y daeth ef i fod yn Ymddiriedolwr mawr i'r holl eglwys, ac y trosglwyddwyd cu hawl hwy i'r etifeddiaeth hon iddo ef. Gan hyny, ni's gall un dyn feddu unrhyw hawl iddi, ond trwy ran yn Nghrist, ac undeb âg ef.

Y ffordd trwy yr hon y deuwn ni i gael rhan yn Nghrist, a thrwy hyny hawl i'r etifeddiaeth, sydd trwy gyfrannogiad o Ysbryd Crist; canys trwy Ysbryd y Mabwysiad, Ysbryd y Mab, y'n gwneir ni yn blant; "Os plant," medd yr apostol, "etifeddion hefyd, sef etifeddion i Dduw, a chyd etifeddion â Christ."

Wrth hyn y mae yn eglur pa fodd y mae yr Ysbryd Sanctaidd hwn yn dyfod yn ernes ein hetifeddiaeth ni; canys trwyddo ef, hyny yw, trwy y

cymmundeb o hono ef i ni, y'n gwneir ni yn gyd etifeddion â Christ, yr hyn sydd yn rhoddi i ni ein hawl a'n teitl, trwy yr hyn y mae ein natur megis yn cael ei gosod yn y trosglwyddiad o'r etifeddiaeth fawr a chyflawn o ras a gogoniant: ac y mae efe i fod yn ernes hyd bryniad y pwreas; canys e ddichon dyn wedi ennill teitl da i etifeddiacth, fod yn hir cyn cael derbyniad i feddiant gweithredol o honi, ac efallai y bydd raid iddo ymryson â llawer o gyfyngderau yn y cyfamser. Felly y mae yn y peth yma. Mae ernes yr Ysbryd a roddir i ni, trwy yr hyn yr ydym yn dyfod yn gyd-etifeddion â Christ, Ysbryd yr hwn sydd ynom, yn diogelu ein hawl o'r etifeddiaeth: ond y mae genym ni lawer o brofedigaethau ysbrydol i ymryson â hwy, ac heblaw hyny y mae ein cyrph yn ddarostyngedig i farwolaeth a llygredigaeth, cyn y gallwn ni ddyfod i gyflawn feddiant o honi. Gan hyny, pa ernes bynag a allwn ni ei fwynhau, ni's gallwn gyrhaedd meddiant gweithredol o'r holl etifeddiaeth, hyd nes byddo ein heneidiau wedi eu gwaredu oddiwrth bob pechod a themtasiynau, a'n cyrph hefyd wedi eu rhyddhau o lwch y bedd; a hyn a elwir mewn modd arbenig "prynedigaeth y corph."

Yr un modd hefyd y dywedir ein bod yn derbyn blaenffrwyth yr Ysbryd, Rhuf. 8. 23; hyny yw, yr Ysbryd ei hunan. fel dechreuad gwystl o ogoniant dyfodol. Mae'r apostol yn ymdrin am ryddâad yr holl greädigaeth o'i chyflwr presenol o gaethiwed; gyda golwg ar yr hyn y dywaid nad yw credinwyr eu hunain eto wedi derbyn gwaredigaeth gyflawn, ond eu bod yn ocheneidio am ei chyflawniad perffaith: etto, medd efe, yr ydym yn meddu ei dechreuad, y blaenffrwyth o honi, yn y gweinyddiad o'r Ysbryd i ni; "canys lle y mae Ysbryd Duw yno y mae rhyddid;" ac er nad ydym eto yn gyfaddas i dderbyn y rhyddid cyflawn a pherffaith sydd wedi ei ddarparu i blant Duw, tra yr ydym yn y byd hwn yn ymladd â gweddillion pechod, eto lle mae Ysbryd Duw, yr ydym yno yn meddu y blaenffrwyth o'r cyflawnder hwnw o'n prynedigaeth, y mae yno ryddid, yn y dechreuad gwirioneddol o honaw, a chysur sicr, am y bydd iddo gael ei berffeithio yn yr amser gosodedig.

Dyma rai o'r llesion a'r rhagorfreintiau ysbrydol y mae y credinwyr yn fwynhau oddiwrth yr Ysbryd Glan fel Dyddanydd: a gallwn sylwi, (1.) Bod yr holl ragorfreintiau efengylaidd a fwynheir gan gredinwyr yn y byd hwn, yn cyfarfod yn mherson yr Ysbryd Glan. Efe yw yr addewid fawr a wnaeth Crist i'w ddysgyblion, y gymmun-rodd fawr a addawodd efe iddynt. Yr hyn a roddes y Tad iddo ef wedi iddo ef gyflawni ei holl ewyllys ef oedd yr Ysbryd Glan, i'w gyfrannu ganddo ef i'r eglwys. Efe a dderbyniodd hyn gan y Tad, fel cyflawniad ei wobrwy, trwy yr hyn y gwelodd efe o lafur ei enaid ac y'i diwallwyd. Ac y mae efe yn rhoddi yr Ysbryd hwn yn awr i gredinwyr, ac ni's gall tafod draethu y llesion a dderbyniant hwy trwy hyny. Trwy hyn y'n henneinir ac y'n selir,—trwy hyn y maent yn derbyn ernes a blaenffrwyth anfarwoldeb a gogoniant. Mewn gair, trwy hyn y'n dygir i gyd gyfrannogi â Christ ei hunan

yn ei holl anrhydedd a'i ogoniant. Fel hyn y gwneir eu cyflwr yn anrhydeddus, diogel, a dedwydd; ac y sicrheir yr holl etifeddiaeth iddynt yn annewidiol. Gan hyny, y mae pob rhagorfraint arall yn gynnwysedig yn yr un ragorfraint yma, o dderbyn yr Ysbryd. (2.) Ni's gall dim un ffordd, neu beth, neu gyffelybiaeth, ddarlunio mawredd y rhagorfraint hon. Enneinio ydyw, selio ydyw, ernes a blaenffrwyth ydyw;—ie, pob peth, trwy yr hyn y gellir darlunio neu roddi awgrym i ni o gariad Duw a diogelwch dedwydd ein cyflwr;—canys pa wystl mwy a allwn ni **o**i gael o ffafr Duw,—pa urddas mwy a allwn ni ei fwynhau,—pa sicrwydd mwy a allwn ni ei feddu o ogoniant dyfodol, na bod Duw yn rhoddi ei Ysbryd sanctaidd i ni? Ac (3.) Oddiyma hefyd y gwelir yn eglur mor dra ewyllysgar yw efe fod i etifeddion yr addewid dderbyn cysur cryf yn eu holl wasgfeuon, pan fyddont yn ffoi am noddfa at y gobaith a osodwyd o'u blaen.

Y CYMHWYSIAD.

"Na thristewch Lan Ysbryd Duw." Ystyriwch pwy yw, pa beth a wnaeth efe eroch chwi, mor angenrheidiol i chwi yw ei arhosiad gyda chwi; a chofiwch mai gweithredydd rhydd, anfeidrol ddoeth, a sanctaidd yw efe yn yr hyn oll a wnelo,—yr hwn a ddaeth attoch yn rhydd, ac a all gilio oddiwrthych,—gan hyny, na thristewch ef.

Priodolir tristwch i'r Ysbryd Glan yma yn allegawl, er rhoddi y cyfryw ddirnadaeth o bethau i ni ag a allwn ni ei dderbyn. Defnyddir yr hyn a all yn gyffawn dristau dyn da, a'r hyn a wna y cyfryw pan y'i tristeir yn ddiachos, er darlunio cin cyflwr ni gyda golwg ar yr Ysbryd Glan, pan y dywedir ei fod ef yn cael ei dristau genym ni. A thristwch, yn yr ystyr a amcenir yma yw trallod meddwl yn deillio oddiar amgyffred o annghared igrwydd anhaeddiannol,—o siommedigaethau annysgwyliadwy, ar gyfrif rhyw berthynas agos yn y rhai y'n tristeir ganddynt. Ac oddiwrth hyn nyni a allwn ganfod pa beth yw yr hyn y'n rhybuddir rhagddo pan y gorchymynir i ni ochelyd tristau yr Ysbryd Glan. Oblegid,

1. Rhaid fod annghared igrwydd yn yr hyn a wnelom. Y mae i bechod ei amrywiol olygddrychau tuag at Dduw,—o enogrwydd, halogrwydd, a'r cyffelyb; ond y mae ei dristau yn dynodi annghared igrwydd, neu ddiffyg o gariad, cyfattebol i'r tystiolaethau a dderbyniasom ni o'i gariad cf tuag attom ni. Ysbryd cariad yw efe;—ie, "Cariad yw." Ffrwythau ei gariad yw ei holl weithrediadau tuag attom ac ynom ni; mae cin holl lawenydd a'n cysuron ni yn deillio oddiar synied o gariad Duw, a weinyddir yn ffordd anwyl cariad i'n henecidiau. Mae hyn yn gofyn adchweliad o gariad, ac ymhyfrydiad mewn pob rhyw ddyledswyddau o'n tu ninnau. A phan yn lle hyny, y byddwn ni trwy cin hesgeulusdra a'n diofalwch, neu ryw ffordd arall yn cwympo i'r pethau hyny a gascir ganddo cf, y mae efe yn sylwi ar yr annghared igrwydd a'r anniolchgarwch sydd yn hyny, ac am hyny y dywedir ei fod ef yn cael ei dristau genym.

2. Siommedigaeth mewn dysgwyliad. Mae siommedigaeth, a llefaru,

yn briodol, yn llwyr annghyson â rhagwelediad a hollwybodaeth Ysbryd Duw: ond fe'n siommir pan fyddo pethau yn dygwydd yn wrthwyneb i ddysgwyliadau, ac i'r moddion a ddefnyddid er eu cyflawniad; a phan na's byddo y moddion a ddefnyddia Duw tuag attom ni, yn cynnyrchu yr effaith priodol iddynt, o herwydd ein pechodau ni, y mae Duw yn llefaru am dano ei hunan fel un wedi cael ei siommi: ac y mae siommedigaeth yn peri tristwch; megis pan fyddo tad wedi defnyddio pob moddion er addysg plentyn, a threulio llawer o'i etifeddiaeth ar hyny, os bydd i hwnw wedi'n trwy afradlonrwydd neu segurdod, siommi ei ddysgwyliad, y mae hyny yn ei lanw â thristwch. Mae Ysbryd Duw wedi gwneuthur pethau mawrion erom ni, ac y mae y cwbl a wnaeth yn tueddu i feithrin cynnydd mewn sancteiddrwydd, goleuni, a chariad; a lle nad ydynt yn cael yr effaith priodol, y mae yno siommedigaeth sydd yn peri tristwch.

3. Mae gafael yr Ysbryd Glan ynom ni yn cyduno i beri iddo dristau; canys fe'n tristeir gan y rhai y teimlwn yr afael fwyaf ynddynt,—y rhai y byddom yn eu caru, neu i'r rhai y byddom yn perthynu. Nyni a awn heibio i gamymddygiadau rhai craill heb y cyfryw drallod. Y mae yr Ysbryd Glan wedi cymeryd arno y swydd o Ddyddanydd, ac yn sefyll yn y berthynas hòno â ni; a'i gariad tuag attom yn barod. Am hyny y mae ganddo y fath afael ynom ni, fel y dywedir ei fod ef yn cael ei dristau â'n pechodau ni, pan nad yw felly gan bechodau rhai eraill, â'r rhai nid yw yn sefyll mewn perthynas neillduol.

Fe ellir dywedyd ein bod yn tristau yr Ysbryd (1.) Pan na's dylanwadir ni trwy ei gariad a'i gymmwynasgarwch i atteb i'w feddwl a'i ewyllys ef mewn pob ufudd-dod sanctaidd, yn nghyda llawenydd, cariad, a hyfrydwch. Y mae efe yn teilyngu hyn ar ein dwylaw ni, ac yn dysgwyl hyn oddiwrthym; ond pan y'i hesgeulusir, pan fyddom yn ymwneyd â dyledswyddau â meddwl anfoddog, neu âg agwedd gaethwasaidd, fe ddywedir ein bod yn ei dristau ef.

(2.) Pan fyddom yn colli y teimlad a'r argraff o'r trugareddau nodedig a dderbyniasom ganddo ef,—pan yr annghofiom y gras, y tiriondeb, a'r ymostyngiad a amlygodd yr Ysbryd Glan yn ei breswyliad ynom ni, a'i weinyddiad o gariad a gras Duw i ni, gellir dywedyd yn gymhwys ein bod yn ei dristau ef.

(3.) Mae rhyw bechodau, y rhai ydynt yn ei dristau ef mewn modd arbenig; am ba rai yr ymdrinia yr apostol yn 1 Cor. 3. 15—20, a gellid meddwl wrth gyssylltiad y geiriau, ei fod e yn golygu ymddiddanion llygredig, y rhai ydynt bob amser yn tueddu i beri ymarweddiad llygredig yn bechod o'r natur yma, Ephes. 4. 29, 30.

Pan fyddo rhyw rai yn parhau yn y ffyrdd hyny trwy y rhai ei tristeir, fe ddywedir ei fod yn cael ei ofidio; felly y dywedid am ryw rai gynt, eu bod yn wrthryfelgar, a gofidio o honynt ei Ysbryd Sanctaidd ef, am hyny y trodd efe yn elyn iddynt, ac yr ymladdodd yn eu herbyn, Esa. 63. 10.

Dyma ddull mynediad y pethau hyn yn mlaen. Os bydd i'r rhai y mae genym ni afael ynddynt, megis plant, neu berthynasau eraill, gwympo i ffyrdd drygionus, fe'n tristeir ar y cyntaf: ac y mae y tristwch hwn yn cael ei ddilyn a thosturi, yn nghydag ymdrech difrifol i'w hadferu; ond os, er ein holl ymdrechiadau y byddant hwy yn ymgyndynu yn eu ffyrdd eildynus, yna yr ydym yn gofidio o'u herwydd, ac y mae digter yn cael ei chwanegu at ein tristwch a'n trallod blaenorol. Eto, pan y mae pethau fel hyn, nid ydym yn ymattal rhag ceisio eu gwellau dros dymhor, ond oni's llwydda hyny, yna yr ydym yn penderfynu nad ymwnawn â hwy mwy, ond eu gadael iddynt eu hunain; ac fel hyn y mae gyda golwg ar ymdriniaethau yr Ysbryd â ni; a gwae fydd i ni pan ymadawo efe â ni! Felly pan na's mynnai yr hen fyd gael ei ddwyn i edifeirwch trwy oruchwyliaeth Ysbryd Crist yn mhregethiad Noah, 1 Pedr 3. 19, 20. Dywed odd Duw, "Nid ymrysona fy Ysbryd i â dyn yn dragywydd," Gen. 6. 3 —Y mae yr attaliad ar ei weithrediadau ef yn cynnwys tri pheth;— 1. Symmudiad hollol o foddion gras, o ran pob ffordd o ddatguddio meddwl Duw, neu o ran effeithiolrwydd y gair, hyd yn nod lle y parheir y weinidogaeth allanol o honaw, fel "gan glywed y clywant, ond na's deallant;"—canys trwy y gair y mae efe yn ymryson â dynion. 2. Attal pob cerddon a ddeilliai oddiar amcan grasol i'w hiachau a'u hadferu. 3. Eu rhoddi i fynu iddynt eu hunain, neu eu gadael i'w ffyrdd eu hunain.

Mae yn ddyledus arnom ni ystyried y pethau hyn. Ein doethineb a'n dyledswydd ni yw ystyried ffyrdd, a graddau ymadawiad yr Ysbryd oddi wrth bechaduriaid eildyn, cystal ag o'i agosâad ef attom ni mewn cariad a gras. Nid oedd Dafydd pan bechodd yn ofni dim yn fwy, na bod i Dduw gymeryd ei Ysbryd Sanctaidd oddiwrtho; ac e ddylai yr ofn yma ein cynhyrfu ninnau i'r gwyliadwriaeth mwyaf yn erbyn pechod;-canys pe na's byddai iddo ein llwyr adael ni, yr hyn gyda golwg ar wir gredinwyr a fyddai yn wrthwyneb i natur, addewid, a gras y cyfammod newydd, eto efe a all encilio oddiwrthym o ran ei bresenoldeb yn y fath fodd, fel ag y gallom dreulio gweddill ein dyddiau mewn tywyllwch a thrallod. Gan hyny, "yr hwn sydd yn sefyll edryched na syrthio."

Gochelwn ddechreuad cyntaf yr yrfa, a ddarluniwyd. A gaed ynom ni unrhyw ddrygau o'r fath ag a dristaent yr Ysbryd?—os ydym yn caru ein hencidiau, gochelwn ei ofidio ef trwy aros ynddynt. A drstawyd ef trwy ein hesgeulusdra o ddyledswyddau,—trwy ein coleddiad o unrhyw chwant' neu trwy ein cyddfurfiad â'r byd? na fydded i'n parâad yn yr unrhyw droi ei dristwch yn gythruddiant. Cofiwch, tra nad yw ond wedi ei dristau, y mae efe yn parhau i arlwy i ni bob moddion prïodol er ein hadferiad, efe a wna hyny hefyd hyd yn nod pan yn cael ei ofidio, ond â'r fath gymmysgedd o ddigofaint ag a bair i ni wybod mai drwg a chwerw oedd y peth a wnaethom; ond, os oes neb wedi myned yn mhellach, a pharhau i'w hir ofidio ef, gan wrthod ei addysgiadau pan y'u dylynid efallai â chys-

tuddiau llymion, neu wasgfaeon tufewnol; O ymgynhyrfed y cyfryw eneidiau i ymaflyd ynddo, canys y mae efe yn barod i ymadael, a hyny am byth efallai! A da y gwnawn fod yn ystyried cyflwr truenus y rhai a lwyr adawwyd fel hyn ganddo ef. Pan y gwelom ddyn a fu mewn llawnder, wedi ei ddwyn i gyfyngder dirfawr, i geisio ei fara o ddrws i ddrws mewn carpiau, y mae yr olygfa yn un drist, er y gwyddom iddo ddwyn y trueni hwn arno ei hunan trwy afradlonrwydd; ond mor alarus yw meddwl am ddyn a fu unwaith yn meddu goleuni mawr, yn gwneyd proffes odidog, wedi ei addurno â doniau defnyddiol, ac yn uchel ei fri ar gyfrif hyny,—yn awr wedi ei yspeilio o'i holl addurniadau, wedi colli goleuni, a bywyd, a doniau, a phroffes, ac yn gorwedd fel cangen wywedig ar domen y byd! —Ac e welir fod y trueni yn fwy eto, pan ystyriom fod Ysbryd Duw, nid yn unig wedi ymadael oddi wrtho, ond wedi dyfod yn elyn iddo, ac yn ymladd yn ei erbyn, trwy yr hyn y mae efe wedi ei nodi i ddinystr anocheladwy.

AR DDONIAU YSBRYDOL.

Yr ail ran o *weinidogaeth yr Ysbryd* er adeiladaeth yr eglwys, sydd gynnwysedig yn ei *weinyddiad o ddoniau ysbrydol* i'w haelodau, fel y byddo eu lleoedd a'u sefyllfeydd yn galw. Trwy ei waith o ras achubol y mae efe yn gwneuthur yr holl etholedigion yn feini bywiol: a thrwy ei weinyddiad o ddoniau ysbrydol, y mae efe yn adeiladu y meini hyny yn deml i'r Duw byw breswylio ynddi:—y mae efe yn eu huno yn un corff dirgeledig dan yr Arglwydd Crist, fel *pen dylanwadol* trwy ffydd a chariad; ac y mae yn eu huno fel corff cymdeithasol dano ef fel *pen awdurdodol*, trwy ddoniau a galluoedd ysbrydol. Mae eu natur yr un a'r unrhyw, trwy ras; ond y mae eu defnydd yn amrywiol trwy ddoniau. Y mae pob un yn rhan o gorff Crist, trwy yr un Ysbryd bywiaccäol o ras: ond y mae un yn *llygad*, arall yn *llaw*, arall yn *draed* yn y corff, trwy rinwedd doniau arbenig: —"Canys i bob un o honom y rhoddwyd gras, yn ol mesur dawn Crist." Eph. 4. 7.

Mae yn wir am y doniau hyn, nad grasusau achubol, sancteiddhaol ydynt, ac nid oedd y doniau gwyrthiol rhyfeddaf, gyfryw ychwaith; eto, nid ydynt i'w diystyru:—"nerthoedd y byd a ddaw" ydynt, trwy y rhai y mae breiniaeth Crist i'w chadw a'i chynnyddu; ac er nad ydynt ras eto y maent y moddion, trwy ba rai y mae pob gras yn cael ei genhedlu a'i roi ar weithredoedd, ac am hyny fe'u crybwyllir yn yr Ysgrythyrau yn aml fel rhagorfraint neilldual i'r Testament Newydd, ac fe'n hannogir yn ddifrifol i'w chwennych, yn enwedig y cyfryw ag a fyddont yn fwyaf tueddol i adeiladaeth. 1 Cor. 12. 31.

Mae yr addewid arbenig o weinyddiad y doniau hyn yn Salm 68. 18. "Dyrchefaist i'r uchelder, caethgludaist gaethiwed: derbyniaist roddion i ddynion;" ac fe gynhwysir y geiriau hyn gan yr apostol at y gweinyddiad hyny o ddoniau ysbrydol oddiwrth Grist, trwy y rhai y sylfaenwyd ac yr

adeiladwyd yr eglwys, Eph. 4. 8. Ac megis y rhagfynegid yn y Salm y byddai i Grist *dderbyn rhoddion*, hyny yw, *i'w cyfrannu i ddynion*, felly y bu, trwy iddo *dderbyn yr Ysbryd*, yr hwn yw yr Awdwr uniongyrchol o honynt oll, fel y dywaid Pedr, Act 2. 33. "Am hyny, wedi ei ddyrchafu ef trwy ddeheulaw Duw, ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Ysbryd Glan, efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awrhon yn ei weled ac yn ei glywed;" sef y doniau gwyrthiol a roisid i'r apostolion ar ddydd y Pentecost.

Enw cyffredinol y rhoddion hyn yw DONATA, *rhoddion* neu *ddoniau*, hyny yw, effeithiau rhad ac anhaeddiannol haelioni Dwyfol: a elwir am hyny "Dawn Duw," Ioan 4. 10;—"Dawn yr Ysbryd Glan," Act. 10. 45; —"Dawn Crist." Eph. 4. 7. "Rhodd nefol." Heb. 6. 4; yr holl ymadroddion uchod ydynt yn cyd ddangos rhadlonrwydd y gweinyddiad o honynt ar ran y Tad, y Mab, a'r Ysbryd.

Gyda golwg ar eu natur neillduol, fe'u gelwir "doniau ysbrydol," 1 Cor. 14. 1. a 12. 31. Nid cynnysgaeddiadau naturiol neu foesol mo honynt, ond ysbrydol; yr Ysbryd Glan yw eu hawdwr, ysbrydol yw eu natur, a phethau ysbrydol yw y gwrthddyrchau á pha rai yr ymwnant.

Gyda golwg ar y dull o'u cyfrannu, fe'u gelwir yn Heb. 2. 4, "Doniau," neu gyfraniadau "yr Yspryd Glan," am eu bod yn amrywiol, heb fod yn cael eu cyfrannu ar unrhyw bryd i un person; ond eu cyfrannu yn amrywiol i ddynion er lleshad yr eglwys, "Pe yr holl gorph fyddai lygad, pa le y byddai y clywed?' &c. 1 Cor. 12. 16, &c,

SWYDDAU A DONIAU ANNGHYFFREDOL.

Mae pedwar peth yn gwneyd i fynu swyddog annghyffredinol yn eglwys Dduw;—1. Galwad annghyffredinol i swydd, y fath na's gall neb arall gael trwy un rhyw ddeddf na chyfansoddiad yn y byd;—2. Gallu annghyffredinol wedi ei roddi i'r cyfryw bersonau a alwyd felly, i'w gallnogi i gyflawni y dyledswyddau y'n gelwir attynt.—3. Doniau annghyffredinol i ddefnyddio y gallu hwnw.—4. Gorchwyl annghyffredinol o ran ei gylch a'i fesur, yn gofyn zel, llafur, a hunan ymwadiad annghyffredinol. Rhaid i'r holl bethau hyn gyd gyfarfod yn y swyddau hyny a alwn ni Annghyffredinol.

Fel hyn yr oedd hi gyd a'r *apostolion*, y *prophwydi*, a'r *efengylwyr* ar y dechreu: yr oeddynt hwy yn swyddogion annghyffredinol, 1 Cor. 12. 28. ac Eph. 4. 11. Yr oedd hefyd rai wedi eu cynnysgaeddu á doniau gwyrthiol, i *iachau*, i *lefaru á thafodau;* ac heblaw y rhai hyn, yr oedd *prophwydi* hefyd yn meddu *gweinidogaeth annghyffredinol dros amser* yn yr eglwys, Eph. 4. 11. Ac fe ddarlunir eu gweinidogaeth hwy yn Act. 13. 1. Gosodid y rhai hyn yn yr ail radd o swyddwyr, yn nesaf i'r apostolion, a rhyngddynt hwy a'r efengylwyr. Yr oeddynt hwy yn derbyn *datguddiadau diyyfrwng* oddiwrth yr Ysbryd Glan mewn pethau yn perthynu i ddyled-

swydd bresenol yr eglwys, fel yn Act 13. 2. Rhagfynegent amgylchiadau dyfodol hefyd; fel Agabus, Act. 21. 10, 11. Caniattaodd Iesu Grist y swyddogion hyn i'w eglwys am dymhor, pan y'i planwyd gyntaf, a gwaith yr Ysbryd Glan oedd eu holl gyfaddasiad hwy â doniau ysbrydol i'w swydd, Yr oeddwn wedi amcanu dangos mor wag yw ymhoniad rhai i fath o olyniad i'r swyddogion hyn, y rhai ni's meddant na galwad, na doniau, na gorchwylion annghyffredinol, ond ydynt yn dewis cymeryd iddynt eu hunain awdurdod annghyffredinol ar eglwysi a dysgyblion Crist, y fath nad ymhonodd efengylwyr, na phrophwydi. nac apostolion ynddi erioed; ond y mae yr awdurdod grybwylledig yn danwydd cyfaddas i feddyliau uchelfrydig y *Diotrephiaid*, ac yn ol amgylchiadau presenol, y mae yn wasanaethgar i chwantau llygredig dynion: am hyny nid yw yn rhyfedd bod rhai yn ymhoni o'r uchafiaeth hon, ac yn dra awyddus yn ei cheisio, er na chawsant erioed alwad i'r weinidogaeth na'u doniaw erddi:—ond y mae yn rhaid i ni ddychwelyd at yr ystyriaeth o ddoniau ysbrydol annghyffredinol.

Yr oedd y rhai hyn o ddau fath:—*Yn gyntaf*, Y cyfryw a dra ragorent ar holl alluoedd meddyliau dynion:—megys y doniau gwyrthiol, i iachau, a'r cyffelyb. Nid oedd y rhai hyn yn gynnwysedig mewn unrhyw alluoedd oeddynt yn arosol yn wastadol yn y personau a'u meddent: ond yr oeddynt yn effaith dylanwad uniongyrchol ac annghyffredinol ar eu meddyliau: ac yr oedd pob rhyw swyddogion annghyffredinol yn meddu y doniau hyn.

Yn ail,—Y cyfryw ag oeddynt yn gynnwysedig mewn defnyddiad annghyffredinol o alluoedd meddyliau dynion; megys *doethineb, gwybodaeth*, ymadrodd, &c. A phan gynnysgaeddid rhyw rai â'r rhai hyn, megis yr apostolion, a'r efengylwyr, nid oeddynt yn gwahaniaethu ond mewn gradd yn unig oddiwrth ddoniau cyffredinol, y rhai ydynt yn parhau eto. Fe grybwyllir yr holl ddoniau hyn, o'r ddau fath a nodwyd yn yr un fan gan yr apostol, 1 Cor. 12. 7—11. "Eithr egluräad yr Yspryd a roddir i bob un er lleshad; canys i un trwy yr Yspryd y rhoddir ymadrodd *doethineb*, ac i arall ymadrodd *gwybodaeth*, trwy yr un Yspryd; ac i arall, *ffydd* trwy yr un Yspryd, ac i arall *ddawn i iachau*, trwy yr un Yspryd; ac i arall *wneuthur gwyrthiau;* ac i arall *broplwydoliaeth*; ac i arall *wahaniaeth ysprydoedd;* ac i arall, *amryw dafodau;* ac i arall *gyfieithiad tafodau;* a'r holl bethau hyn y mae yr un a'r unrhyw Yspryd yn eu gweithredu, gan rannu i bob un o'r neilldu megys y mae yn ewyllysio."

Yr oedd y naw rhyw yma o ddoniau yn blodeuo yn oes gyntaf yr eglwys, a hyn oedd bywyd ei gweinidogaeth annghyffredinol. Nid oedd unrhyw *amser gosodedig* i'r doniau hyn i derfynu. Y rhai a berthynent yn neilldual i'r apostolion, oeddynt i gyfoesi â hwynt; ac ni bu neb ar ol eu marwolaeth hwy yn meddu swydd, awdurdod, na doniau apostolaidd. Gellid dywedyd yr un modd am yr efengylwyr: ac ni's meddwn un dystiolaeth

ddiamheuol fod unrhyw ddoniau gwir wyrthiol, ac yn mhob modd uwchlaw galluoedd dynol, ar ol terfyn einioes y tô hwnw a welsent Grist yn y cnawd, ac a ymddiddanasent ag ef, neu y rhai a dderbyniasent yr Ysbryd Glan trwy eu gweinidogaeth hwy. Hwyrach y gallai Duw ar ryw achlysuron dros yspaid meithach, amlygu ei allu mewn rhyw weithrediadau gwyrthiol; ac efe a all fod yn gwneuthur hyny eto weithiau; ond y mae yn ddiamau fod coel grefydd yr oesoedd dylynol, trwy yr hyn y dyfeisid ac y cyhoeddid gwyrthiau afrifol, gau ac ynfyd, wedi bod yn dra niweidiol i'r efengyl, ac agoryd y ffordd i dwyllo Cristionogion â chyfeiliornadau di-ddiwedd; ond, er fod yr holl ddoniau a gweithrediadau hyn wedi darfod mewn rhyw ystyr, rhai o honynt yn hollol, ac eraill o ran dull eu gweinyddiad, a gradd eu godidawgrwydd; eto can belled ag yr oedd adeiladaeth yr eglwys yn gyssylltiedig â hwy, yr oedd, ac y mae rhyw beth cyfattebol iddynt i'w cael yn barhaus yn yr eglwys. Yr hwn a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a roddes rai hefyd yn *fugeiliaid ac yn athrawon;* ac megys y cymhwysodd efe y rhai cyntaf trwy ddoniau annghyffredinol, can belled ag y mae dim o'r fath yn angenrheidiol er adeiladaeth barhaus yr eglwys, efe a gynnysgaedda yr olaf â'r unrhyw.

DONIAU CYFFREDINOL.

Gelwir y rhai hyn yn *gyffredinol*, nid am eu bod yn gyffredinol hollol i bawb, neu am nad oes bri uchel i'w roddi arnynt; ond wrth yr enw yma y'u gwahaniaethir oddiwrth y rhai a grybwyllwyd eisoes, y rhai oeddynt yn tra rhagori ar holl alluoedd dynion; ac am eu bod yn parhau yn sefyllfa gyffredinol yr eglwys, ac i fod felly hyd ddiwedd amser.

Cyfeiriasom eisoes at Eph. 4. 7, &c., lle y darlunir ar un golwg sefydliad, llesâad, a pharäad y weinidogaeth Gristionogol yn eglur a chyflawn; ac amcan y traethawd hwn yw dangos fod y ddawn o'r weinidogaeth, a'r gweinidogion, y swydd a'r rhai a'i cyflawnent, yn ffrwyth tra arbenig o awdurdod gyfryngol Crist, yn nghyd a'i gariad at, a'i ofal am yr eglwys; a'r rhai hyny, am ba rai y sonia yr apostol, "*Eithr i bob un o honom,*" ydynt y swyddogion, neu y gweinidogion a roddir wedi hyny. Iddynt hwy "*y rhoed gras;*"—nid gras sancteiddhäol a olygir yma, ond cyfrannogiad o ffafr rasol gyda golwg ar ryw ddyben neilldiol. Y mae yr ymddiried yma wedi ei gyflwyno i ni mewn ffordd o ras, a hyny "yn ol mesur dawn Crist,"—fel y gwelo efe yn dda fesur y ddawn.

Efe a roddes rai, adn. 11. Dyma sylfaen pob trefn, awdurdod, ac addoliad eglwysig, mai dawn Crist yw gwreiddyn y weinidogaeth. Pe na buasai wedi ei rhoddi felly ganddo ef, ni buasai yn gyfreithlawn i neb o feibion dynion sefydlu y fath swydd;—ac am hyny y mae cyfodi swyddogion yn yr eglwys na's ordeiniwyd ganddo ef, yn weithred o wrthwynebiad i'w awdurdod, a dirmyg ar ei ofal a'i haelfrydedd ef; a phe goddefid prawf wrth y rheol hon, (fel y bydd un dydd, pa un bynnag a fyno dynion

ai peidio) prin y byddai rhai enwau mawr yn yr eglwys yn bresenol yn ablŷi gadw eu sefyllfa; tybiai Pabau, Cardinaliaid, Archesgobion, Esgobion taleithiol, Archddiaconiaid, Rhaglawiaid, ac ni's gwn pa gynnyrchion anweddaidd eraill o gyssylltiad anmhriodol rhwng balchder gwladol, a llygredigaeth eglwysig, eu bod yn cael eu trin yn arw wrth y rheol hon; ond felly y rhaid iddi fod yn y diwedd, a hyny yn anocheladwy. Mae godidowgrwydd y ddawn yma yn ymddangos wrth ystyried y gogoniant cyssylltiedig â'r rhoddiad o honi. Fe'i rhoddwyd gan Grist, pan "ddyrchafodd efe i'r uchelder, gan gaethgludo caethiwed," adn. 8. Mae y geiriau wedi eu cymeryd o Salm 68. 17, yn yr hwn ymadrodd y cyfeirir at ymddangosiad gogoneddus Duw ar Sinai, i roddi ei ddeddf;—y pryd hyny caethgludodd Duw gaethiwed, yn ninystr Pharaoh a'r Aiphtiaid, y rhai a gadwasent ei bobl ef mewn caethiwed creulawn yn hir;—ond fe gymhwysir y geiriau at Grist, yr hwn a esgynodd yn ogoneddus "goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth," adn. 10; wedi gorchfygu Satan a'i holl alluoedd yn effeithiol. Y pryd hyny efe a "dderbyniodd roddion *i ddynion*," neu "*yn nyn*,"—yn y *natur ddynol*, fel y gellid cyfeithu y geiriau Hebraeg. Derbyniodd Crist y rhoddion hyn yn y natur ddynol, i'w rhoddi i eraill. Yn awr i ba ddyben y gwnaed yr holl barottöadau gogoneddus hyn? onid i arddangos mawredd y ddawn a roddai efe, a gogoniant y gwaith a wnelai; yr hyn oedd, arlwyo yr Eglwys a Gweinidogion, a'r Gweinidogion â doniau er cyflawni eu swydd a'u dyledswydd; ac e welir un diwrnod, fod mwy o ogoniant ac ardderchawgrwydd, mewn rhoddi un gweinidog tlawd i gynnulleidfa, trwy ei addurno â doniau ysbrydol i gyflawni ei swydd, nac yn urddiad rhwysgfawr mil o Babau, Cardinaliaid, &c, &c.

Efe a roddes roddion. Rhodd Crist yw y weinidogaeth; a'i bywyd yw y doniau ysbrydol a berthynant iddi, ac ydynt yn anysgaredig oddiwrth y bod o honi. Nid yw gweinidogaeth heb ddoniau, yn weinidogaeth o roddiad Crist; ac nid yw gosod y fath weinidogaeth i fynu, namyn diystyru Crist, gwrthdaro dybenion y weinidogaeth, a thwyllo eneidiau dynion. Nid yw sefyllfa gweinidogaeth, yr hon y gellir ei chadw i fynu trwy ffurfiau allanol, a gosodiadau dynol yn unig, heb dderbyn doniau gan Grist, yn ddim amgen na diystyru ei awdurdod a'i ofal ef. Amcan mawr y weinidogaeth yw "perffeithiad y saint,—adeilad corph Crist;" ond ni's gellir gwneyd hyn heb ddoniau ysbrydol; gan hyny gwawd-weinidogaeth yw un amddifad o hyn ac nid ordinäad Crist.

Y mae godidowgrwydd y ddawn hon i'w chanfod hefyd yn *amrywiaeth* y swyddi a'r swyddogion a osododd Crist. Efe a wyddai y byddai dau ryw gyflwr i'r Eglwys;—Y cyntaf, ar ei *sylfaeniad*, pan fyddai ymosodiad annghyffredinol i gael ei wneyd ar deyrnas Satan yn y byd, a phan y byddai i ffurf a rheol newydd o addoliad gael ei sylfaenu dros wyneb yr holl ddaear. I'r perwyl yma efe a roddes apostolion, prophwydi, ac efeng-

yiwyr. Yr oedd yn angenrheidiol i'r rhai hyn gael eu galwad a'u hawdurdod oddiwrth Grist, cyn pob trefniad ac awdurdod yn yr Eglwys; canys yr oedd bodoliaeth yr Eglwys yn ymddibynu ar eu hawl hwy o'u swydd; ond ni's gall un dyn ymhoni i'r hawl hon, heb ei derbyn gan Grist; a'r hyn a wnaed ar y dechreu ganddynt hwy yn bersonol, a wneir yn bresenol trwy eu gair a'u hathrawiaeth; canys y mae yr Eglwys yn cael ei hadeiladu "ar sail yr apostolion a'r prophwydi; ac Iesu Grist ei hun yn ben conglfaen."

Y mae hefyd sail ansawdd i'r Eglwys yn ei *hadeiladaeth*, yr hyn sydd i'w ddwyn yn mlaen yn ol y rheolau rhoddedig gan Grist ei hunan yn y gweinyddiad arferol o osodiadau yr efengyl. I'r perwyl yma y rhoddes Crist swyddogion, bugeiliaid, ac athrawon cyffredinol, y rhai oeddynt i gael eu hordeinio yn ol ei gyfarwyddyd ef yn mhob Eglwys, Act. 14. 23, 24. Ond, gan fod swyddogion anngheffredinol wedi eu rhoddi gan Grist trwy ei alwad a'i gyfraniad o awdurdod iddynt hwy yn ddigyfrwng; nid yw yn ymddangos pa fodd y mae efe yn rhoddi y swyddogion cyffredinol hyn iddi. I hyn yr attebaf, ddarfod iddo wneuthur hyny ar y dechreu, a'i fod ef yn parhau i wneuthur hyny trwy ddeddf a rheol yr efengyl yn mha un yr appwyntiodd efe y weinidogaeth i fod yn ei Eglwys yn barhaus. Onid oes ordiniad i'r perwyl yma wedi ei gosod gan Grist, neu os ydyw ei grym wedi darfod yn bresenol, yna rhaid i ni addef nad yw yr holl swydd ond trawsfeddiant: ond os rhoddes efe fugeiliaid ac athrawon i'w Eglwys, i barau ynddi hyd oni byddo ei holl saint yn mhob oes wedi dyfod yn "wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist," Ephes. 4. 12; ac addaw o hono fod gyda hwy bob amser hyd ddiwedd y byd, Matt. 28. 18, 20; os ordeiniodd yr apostolion henuriaid yn mhob dinas, Act. 14 23. Tit. 1. 5, y rhai a wnelid yn olygwyr neu esgobion y praidd gan yr Ysbryd Glan, Act. 20. 28; ac os yw credinwyr yn rhwym o ufuddhau iddynt hwy, Heb. 13. 7, 17; yna y mae y sylfaen hon yn sefyll yn ddiysgog fel ordeiniadau y nefoedd; a chan nad oes un crybwylliad yn yr Ysgrythyrau am unrhyw gyflwr ar yr Eglwys yn yr hwn y gall, neu y dylai dysgyblion Crist fyw heb hyfforddiant y gweinidogion, y mae yn ofer dychymygu y dichon unrhyw ddiffyg mewn dynion eraill, nac unrhyw wrthgiliad ar eglwysi gweledig, eu hamgyfaddasu i gyfodi gweinidogaeth reolaidd arnynt. Nid yw meddwl gan fod Eglwys Rhufain a'i hymlynwyr trwy eu gwrthgiliad wedi colli gweinidogaeth efengylaidd o'u plith; am hyny nad oes gan eraill, at y rhai y daeth gair Duw, ac y bu yn effeithiol er eu hiachawdwriaeth, hawl ddigonol o'r gair i ufuddhau i orchymynion Crist, neu na's byddo iddo ef gymeradwyo y cyfryw ufuddodau ganddynt, yn deilwng o neb ond y sawl a wnânt fasnach o grefydd er elw personol iddynt eu hunain.

Mae Iesu Grist yn parhau y swydd hon, trwy roddi doniau a chymhwysderau ysbrydol i ddynion i'w gallluogi i gyflawniei dyledswyddau

Mae yn wir nad yw doniau ysbrydol o honynt eu hunain yn gwneuthur un dyn yn weinidog; eto ni's gall un dyn fod yn weinidog yn ol meddwl Crist. hebddynt. Gan hyny, a chymeryd yn ganiattaol baräad y sefydliad, pe byddai i Grist ar unrhyw le, ballu a chyfrannu doniau ysbrydol, yma, ac yn y fan hòno, rhaid i'r weinidogaeth ei hunan ballu. Nid yw cyfodi gweinidogaeth trwy rym ffurf a defodau allanol, heb ddoniau er adeiladaeth yr Eglwys, yn ddim amgenach na naddu cyff â bwyill, a'i osod i fynu yn ddelw i'w addoli. Nid yw gwneuthur dyn yn weinidog, yr hwn ni's gall wneuthur dim o waith neillduol y weinidogaeth,—dim tuag at yr unig ddyben o honi yn yr Eglwys, yn ddim amgen na gosod ysgerbwd marw i fynu, ei rwymo wrth bawl, a dysgwyl iddo wneuthur ein gwasanaeth.

Mae Iesu Grist yn parhau y swydd hon trwy roddi awdurdod i'w Eglwys yn mhob oes, i alw a neillduo i waith y weinidogaeth, y rhai a gymhwysodd efe â doniau i'r gwaith. Nid awdurdod dra arglwyddiaethol yw hon yn yr Eglwys: ond y mae yn gynnwysedig mewn hawl a chymhwysder i weithredu yn y peth hyn mewn ufudd-dod i orchymynion Crist. Gan hyny nid yw gweithred yr Eglwys namyn y moddion gosodedig i gludo awdurdod a swydd oddiwrth Grist i'r personau a elwir i hyny. Nid yw yr Eglwys yn rhoddi iddynt unrhyw awdurdod o'r eiddi ei hunan, neu arosedig ynddi ei hunan, ond yn unig mewn ufudd-dod i Grist, y maent yn trosglwyddo yr awdurdod o honaw ef i'r personau a elwir felly. Felly y maent yn dyfod yn weinidogion i Grist, ac nid i'r esgobion, neu yr eglwysi neu ddynion; gan ddal eu swydd oddiwrth Grist yn unig, wrth ddeddf a rhëol yr efengyl; fel y mae pwy bynnag a'u dirmygo hwy, yn ei ddirmygu yntau hefyd ynddynt hwy. Mynai rhai fod gweinidogion yr efengyl yn derbyn eu holl awdurdod oddiwrth y bobl a'u dewisant; a rhai, oddiwrth yr esgobion a'u hordeiniant; ond nid yw hyn namyn eu gwneuthur yn weinidogion dynion, a gosod meistri eraill rhyngddynt a Christ.

Nid oes gan yr Eglwys un awdurdod i alw neb i swydd y weinidogaeth, lle na byddo Crist wedi myned o'i blaen yn neillduad y dyn hwnw trwy ei gynnysgaeddu â doniau ysbrydol; canys os yw holl awdurdod y weinidogaeth o Grist, ac nid yw efe byth yn ei rhoddi ond lle y cynnysgaeddo â doniau gweinidogaethol, yna nid yw galw neb at unrhyw waith i'r hyn nid yw wedi ei ddoniaw yn flaenorawl, yn ddim amgen na'i neillduo, a gweithredu yn ol ein hawdurdod ein hunain.

Y drefn yn mha un y gall Eglwys alw unrhyw berson i swydd y weinidogaeth yn eu plith ac arnynt, yw trwy eu cydymostyngiad difrifol iddo yn yr Arglwydd, o ran holl awdurdodau a dyledswyddau eu swydd, yr hyn a sicräant trwy eu hetholiad o honaw ef.

Mae y byd wedi ei lanw â dadleuon yn nghylch y drefn allanol yma o alw dynion i'r weinidogaeth; ond pa drefn bynnag a gymeradwyir, oddi-

eithr bod sylw ar y pethau a grybwyllwyd yn flaenorol ni bydd na grym nac awdurdod yn yr alwad; ar y llaw arall, caniattawn fod awdurdod y weinidogaeth yn ymddibynu ar osodiad Crist; ei fod ef yn galw dynion i'r swydd hon trwy eu cynnysgaeddu â doniau ysbrydol; ac nad yw gweithrediad yr Eglwys yn hyn namyn y moddion moesol gosodedig i gyfrannu awdurdod swyddol trwyddo o Grist, i'r cyfryw bersonau,—yna nid rhaid ymryson llawer yn nghylch y dull allanol.

Gellid profi hyn yn helaeth o wirionedd o oleuni natur, na's dylai neb ymosod ar Eglwys heb eu cydsynied; pan ystyriom fod ei holl waith i ymgydnabod â'u deall, eu barnau, eu hewyllysiau, a'u serchiadau; ac y dylai hyn gael ei wneyd yn ol eu dewisiad hwy eu hunain, fel y tystir yn yr Ysgrythyrau, Num. 8. 9, 10. Act. 1. 23, 26. Act. 6. 35. Act. 14. 23. Ac ni's gellir gwadu yn deg, bod y drefn hon yn cael eu dilyn yn fanol yn y cyn-eglwysi.

Mae yr Arglwydd yn parhau i gynnysgaeddu ei Eglwys â dawn y weinidogaeth, trwy yr ordinäad ddifrifol o neillduad y rhai a elwir fel hyn, trwy ympryd, gweddi, ac arddodiad dwylaw, Act. 14. 23. pen. 13. 2. 1 Tim. 4 14. Trwy y moddion hyn, meddaf, y mae yr Arglwydd Crist yn parhau i ddywedyd ei fod yn cyfrif dynion yn ffyddlawn, ac yn eu dodi yn y weinidogaeth.

Swm y peth a haerwn yw hyn; bod gan yr Ysbryd waith neillduol yn mharottoad gweinidogion cymhwys y Testament Newydd er adeiladaeth yr Eglwys; a'i fod ef yn amlygu ei allu a'i awdurdod yn y cyfranniad o ddoniau ysbrydol, heb gyfranmogiad o'r hyn ni's gall un dyn yn gyfiawn, feddu rhan na chyfran yn y weinidogaeth hon.

Mae Iesu Grist wedi addaw bod gyda'i Eglwys hyd ddiwedd y byd; a'r presenoldeb hwn o'i ciddo, sydd yn gwneuthur yr Eglwys yn gynnullcidfa hanfodol wahaniaethol oddiwrth bob rhyw gymdeithasau a chynnulliadau dynol eraill. Ffurfier dynion wrth y rheol a fynnech, a hónont eu hawdurdod ar y sail a ddewisont, eto os na bydd Crist yn bresenol gyda hwy nid ydynt yn Eglwys, ac ni's gall yr holl alluoedd dan y nef eu gwneuthur felly, Matt. 18. 20. Dat. 21. 3.

Y presenoldeb addawedig yma o ciddo Crist, sydd trwy ei Ysbryd. Nid am ei *bresenoldeb hanfodol*, gyda golwg ar anfeidroldeb ei natur Ddwyfol, yr ydym yn son yma; ac nid ei ddynoliaeth chwaith a olygid: canys lle yr addawai y presenoldeb hwn i'w ddysgyblion, efe a ddywedai wrthynt hefyd fod yn rhaid iddo ef ymadael â hwynt; ar yr hyn y'u llanwyd â thrallod, hyd oni ddeallasant y byddai efe yn sicr o gyflawni ei addewid o fod yn bresenol gyda hwynt; a phwy, neu ba beth ydoedd yr hyn a wnelai i fynu y diffyg o'i bresenoldeb corphorol ef; sef ei Yspryd Sanctaidd, yr hwn a anfonai efe yn ei enw a'i le, i wneuthur iddynt ac erddynt yr hyn oedd ganddo ef i'w wneuthur iddynt ac erddynt eto. Gwel Ioan 14. 26, &c. a 15. 6, &c.

Fe sicrheir y presenoldeb yma o eiddo yr Ysbryd i'r Eglwys trwy gyfammod tragywyddol annewidiol:—"A minnau, dyma fy nghyfammod â hwynt, medd yr Arglwydd; Fy Yspryd yr hwn sydd arnat, a'm geiriau y rhai a osodais yn dy enau, ni chiliant o'th enau, nac o enau dy had, nac o enau had dy had, medd yr Arglwydd, o hyn allan byth." Esa. 59. 21. Dyma gyfammod Duw â'i eglwys efengylaidd, yr hon a gyfodid pan ddenai y Gwaredwr i Sion, ac i'r rhai a dröent oddiwrth anwiredd yn Jacob, adn. 20; ac fel y mae paräad y gair i'r Eglwys yn mhob oes yn cael ei sicrâu yn yr addewid hon, heb yr hyn y darfyddai am dani, felly hefyd y mae presenoldeb yr Ysbryd yn cael ei sicrhâu iddi, heb yr hyn y darfyddai perthynas gyfammodol Duw â hi, ac ni byddai Eglwys, nac ordinäad, nac addoliad cymeradwy.

Am hyn y mae yr efengyl yn cael ei galw "Gweinidogaeth yr Yspryd;" a'i gweinidogion yn "Weinidogion yr Ysbryd," 2 Cor. 3. 6; canys trwy gynnorthwyon yr Yspryd yn unig y cynnorthwyir neb un i gyflawni gweinidogaeth yr efengyl, a'i hordinadau yn ol meddwl Duw, ac er adeiladaeth yr Eglwys; a hefyd, trwy weinidogaeth yr efengyl y mae yr Ysbryd ei hun yn cael ei roddi i ddysgyblion Crist yn mhob oes. Gal. 3. 2.

Y dyben mawr i'r hyn y mae yr Ysbryd yn cael ei addaw a'i roddi fel hyn dan yr efengyl yw, er cadw yr Eglwys yn y byd. Y mae Duw wedi addaw y bydd i freniniaeth Crist barhau hyd ddiwedd amser; a rhaid i hyn fod yn waith Duw neu yn waith dynion; ac os ydyw o Ddaw, rhaid ei fod trwy y rhoddiad o'i Ysbryd:—ac fel y mae yr Eglwys yn disgyn dan ystyriaeth ddeublyg (ei ffurf *dufewnol* ac *allanol*) y mae y cyutaf fel y dangosasom trwy ei waith yn cyfrannu gras effeithiol i'r etholedigion, a'r olaf trwy gyfrannu doniau i'w swyddogion a'i gweinidogion; ac i'w holl aelodau, yn ol eu lle a'u cyfaddasrwydd.

Fe arhonir y cyfryw gyfraniad o ddoniau i weinidogion cyffredinol yr Eglwys yn mhob oes, yn eglur mewn amryw rannau o'r Ysgrythyrau sanctaidd. Darlunir natur y gwaith hwn yn nammeg y talentau, Matt. 25. 13—31, lle y cynnrychiolir ansawdd yr Eglwys o esgyniad Crist hyd ei ailddyfodiad. Yn y tymhor hwn, y mae amgylchiadau ei freniniaeth, gofal ei Eglwys, a lledaeniad ei efengyl, wedi ei ymddiried i'w weision; ac i'r perwyl hyny y maent wedi eu cynnysgaeddu âg amryw dalentau; y lleiaf o ba rai sydd yn ddigonol i annog ei pherchen i'w defnyddio. Y talentau hyn ydynt y doniau, â pha rai y mae Crist trwy ei Ysbryd yn cynnysgaeddu ei weinidogion er gwasanaeth yr Eglwys.

Yn gyffelyb hefyd y dywedir, Rhuf. 12. 4—8. "Ac megis y mae genym aelodau lawer mewn un corph, ac nad oes gan yr holl aelodau yr un swydd; felly ninnau, a ni yn llawer, ydym un corph yn Nghrist, a phob un yn aelodau i'w gilydd. A chan fod i ni amryw ddoniau yn ol y gras a roddwyd i ni, pa un bynag a'i prophwydoliaeth, &c. &c." Mae yn eglur oddiwrth y geiriau hyn, mai am adeiladaeth yr Eglwys, yr hyn sydd angen

cheidiol yn mhob oes a chyflwr, yr oedd yr apostol yn sôn;—mai cawyddor pob gweinidogaeth yndi yw doniau, we ii eu derbyn oddiwrth Grist drwy ei Ysbryd;—a bod y doniau hyn yn eu cynnysgaeddu nid yn unig â chymhwysder i'w dyledswydd, ond hefyd â'r rheol a'r mesur at bob gwasanaeth i'w gyflawni yn yr Eglwys. Y mae pob un i ymddwyn yn ei swydd yn ol ei ddawn, ac nid mewn un modd arall.

Ac fel mai er cyflawniad swyddau cfengylaidd y mae y doniau hyn yn cael eu cyfranu, y maent yn anhebgorol angenrheidiol i'r perwyl hyny. Mae y gweinyddiadau hyn o nat. eu natur, eu defnydd, eu harwyddocâad, a'u heffeithiolrwydd, yn ysbrydol;—gan hyny trwy ddoniau ysbrydol yr unig y gellir eu cyflawni. Am yr hyn y mae y pethau hyn yn hyw a marw yn nghyd: lle nad ywy naill ni's gall y llall fod. Yr ydym yn dadlcu y canlyniad hefyd, bod yn rhaid yn chi dyddiau ni. Mae yr Ysbryd Glan yn parhau i gyfranu doniau ysbrydol i'r gweinidogion hyny ydynt yn cael eu galw i'r swydd yn ol ei ewyllys ei; ac nid yw y gwrthwynebiad a wneir i hyn yn awdwyr anmuwiol yn haeddu sylw. Appelwn at brofiad y gwir eglwysi ei hun;—Oni chawsant hwy brofiad o'r gweinyddiad yma? Onid ydynt hwy yn canfod presenoldeb yr Ysbryd ei hunan trwy ei amrywiol ddawnion yn y rhai y dynir yn gweinyddu ddydynt mewn pethau ysbrydol? Oni chawsant i hawl o fod Crist yn llefaru ynddynt trwy ei Ysbryd. gan wneuthur y gair yn nerthol i'w holl ddylonion priodol?—A gellir dadlcu profiad y rhai a ddarbyniasant y doniau hyn hefyd, o'r cynmothwy i'r rhai ol a fynasant yn yr ymarferiad o honynt. Yn wir, y mae erchyllder synied gwrthwynebol yn anfoddhaol yn mysg y rhai a broffesant Gristionogaeth: a bod i neb ymlonni eu bod yn ddigonol o honynt eu hunain i wneuthuroaeth yr efengyl, trwy eu gallu-oedd naturiol neu eu cyfleusdcldiadau, heb ddim iau neilduol yr Ysbryd Glan, nid yw yn ddim amgenach nac ymwrthod a'r holl egwyddorion Crist i'w Eglwys, neu y paradoxol hereticaidd hyn oll.

Ac e ymddengys eyn hir, pa le bynnag y byddo doniau yr Ysbryd Glan yn cael eu cau o'r weinidogaeth, bod yr Ysbryd Glan, a Christ ei hunan yn cael ei gau allan yno, bod gwir adeiladaeth yr Eglwys ar ben, ac na bydd gan yr efengyl un rhyw wir neges yno mwyach!

Nyni a ddylem ddangos yn awr pa rai ydynt y doniau hyny trwy ba rai y mae yr Ysbryd Glan yn cymhwyso dynion i weinidogaeth yr efengyl; a pha fodd y gellir eu cyrnaedd a'u defnyddio.

Yn gyntaf, Pa rai ydynt y doniau drwy ba rai y cymhwysir dynion i'r weinidogaeth?

Dyledswydd fawr gyntaf y weinidogaeth yw, cyfranu athrawiaeth yr efengyl; am hyny y mae hyn yn cael ei rodd yn siars i holl weinidogion yr efengyl, Act. 20. 28. 1 Pedr. 5. 2. 1 Tim. 1. 3. Pen. 5. 17. a 4. 13—16. &c.; canys hyn yw y prif foddion a drefnwyd gan Grist er adeiladaeth ei eglwys,—trwy yr hyn y cynnyrchir ac y diogelir bywyd ysbrydol: ac y mae tri pheth yn ofynol gyda golwg ar y ddyledswydd hon:—

1. *Doethineb, gwybodaeth, a deall yn nirgeledigaethau yr efengyl.* Meddylia rhai fod hyn yn beth a gyrhaeddir yn dra hawdd,—nid oes dim mwy yn ofynol i hyn nac i ryw gelfyddyd neu wybodaeth arall; a da fyddai pe cymerai rhai gymmaint o drafferth i gyraedd y wybodaeth hon ag y maent i ddysgu pethau craill, y rhai ni fyddant o nemmawr o fudd-ioldeb. Meddylir bod y defnyddiad achlysurol o ychydig lyfrau yn ddigonol i wneyd dyn yn ddigon doeth i fod yn weinidog; ac nid ychydig sydd wedi cymeryd arnynt fod yn athrawon cyhoeddus, y rhai yn lled brin a dderbynid yn ddysgyblion canolig mewn eglwys drefnus; ond y mae mwy yn perthynu i'r ddoethineb yma nac y mae llawer yn ei feddwl.—Ac y mae yn debyg ped ystyrid ei natur yn briodol, na ruthrai rhai ddim i'r gwaith hwnw fel y gwnant. Cynnwysa y fath ddirnadaeth o ystyr ac amcan yr Ysgrythyr,—y fath gydnabyddiaeth â chyfandrefn o wirioneddau athrawiaethol, yn eu deilliad, eu tueddiad, a'u defnydd,—y fath hyrwydd der meddwl i farnu pethau ysbrydol, a'u cydmaru y naill â'r llall, ag a alluoga ddynion i ddysgu craill yn ffordd bywyd, ffydd, ac ufudd-dod. Yn awr, dawn neilltuol yr Ysbryd Glan yw hyn:—Efe sydd yn rhoddi *ymadrodd doethineb*, 1 Cor. 12. 8., a lle nad yw hyn, yr un peth fyddai edrych am y byw yn mhlith y meirw, ac edrych am weinidogaeth; ac y mae yn ddilys am bawb eraill a gymerant arnynt fod yn bregethwyr y gair, y twyllant eu heneidiau eu hunain yn y diwedd, fel y maent yn y cyfamser yn twyllo eraill.

2. *Medrusrwydd i iawn gyfrannu y gair*, sydd hefyd yn hanfodol i weinidogaeth yr efengyl, ac yn ddawn neilltuol o eiddo yr Ysbryd. "Bydd ddyfal i'th osod dy hun yn brofedig gan Dduw, yn weithiwr difeil, yn iawn gyfrannu gair y gwirionedd." 2 Tim. 2. 15. Mae y ddau ran gyntaf o'r testyn uchod yn ymddibynnu ar yr olaf. Os mynai gweinidog fod yn "brofedig" neu gymeradwy gan Dduw; os mynai fod yn y dydd olaf, yn weithiwr na's rhaid iddo gywilyddio; rhaid iddo ofalu am iawn gyfrannu gair y gwirionedd a ymddiriedwyd i'w ofal; yr hyn yw gwneyd fel y gwna goruchwyliwr doeth, gan gymeryd o'r ystorfeydd mawrion o wirioneddau sydd yn yr Ysgrythyrau; a thorri o honaw, megis, gyfrau gyfaddas i amryfal amgylchiadau y gwahanol aelodau o'r teulu, heb hyn, nid yw rhyw gwrs cyffredin o bregethu, heb wahaniaethu personau a gwirioneddau, pa faint bynnag a orcurir arno â thelcidrwydd areithyddiaeth, ond gwaith cywilyddus yn nhŷ Dduw! Y mae amryw bethau yn ofynol er peri y medrusrwydd yma. (1.) Barn gywir am gyflwr y rhai y gweinyddir y gair iddynt. Rhaid i'r gweinidog adnabod cyflwr ei bobl;—pa un ai rhai bychain, ai gwyr ieuainc, ai tadau fyddont;—pa un yn marn cariad, a ddychwelwyd hwy at Dduw ai naddo,—pa beth yw eu rhwystrau a'u temtasiynau,—pa fath eu cynnydd neu eu nychdod. (2.) Cydnabyddiaeth â gweithrediadau dwyfol ras ar galonnau dynion. Nid oes dim yn fwy angenrheidiol na hyn, er nad oes dim yn fwy diystyrllyd. Mae yr hwn sydd annghydnabyddus â gweithrediadau cyffredinol gras fel un yn ymladd ar

antur wrth bregethu y gair, neu fel dyn yn curo awyr! Mae yn wir y dichon Duw gyflawni gair o wirionedd a lefarwyd megis ar antur, âg effaith rasol briodol at un;—fel y dywed Iesu y gyllell yn ei fwa ar antur, a darawodd frenin Israel rhwng cyssylltiadau y llurig; ond yn gyffredin, nid yw y dyn nas gwyr pa fodd i annedu, yn debyg o darawo y cyssylltiad. (3.) Cydnabyddiaeth â natur profedigaeth; yn nghyd a'r rhwystrau arbenig i ffydd i ac ufuddodd i'r rhai y mae gwrandawwyr yr efengyl yn agored, sydd hefyd yn angenrheidiol. (4.) Iawn ddeall natur anhwylderau ysbrydol, yn nghyd a'r feddyginiaeth briodol rhagddynt; heb yr hyn y llawenychir calon y drygionus yn aml, ac y llenwir y cyfiawn â thristwch. Ni's gall dynion na's deallant y pethau hyn iawn gyflawni y gair; ac y mae yn alaeth meddwl pa mor gyfeiliorus yw y gwaith a wneir gan rai wrth bregetha y gair o ddiffyg y wybodaeth hon; ie, fel y collir yr holl ddawn o ran ei grym a'i bendith!

3. Mae *dawn ymadrodd* yn perthyn i weinidogaeth yr efengyl. Cyfrifai yr apostol hyn yn mysg doniau yr Ysbryd. 1 Cor. 1. 5. 2 Cor. 8. 5.; ac efe a ddymunai weddiau yr eglwys, ar fod i'r ddawn yma aros a chynnyddu yndde ef ei hun, Eph. 6. 19. Nid yw y drwg ymadrodd yma yn gymmwysedig mewn rhyw hyawdledd ymadrodd naturiol, (yr hyn sydd yn fagl weithiau i'r sawl a'i meddant, a gofid i'r gwrandawwyr,) nac mewn medrusrwydd areithyddol i addurno pregeth â gwychder ymadrodd, llawer llai mewn hyfdra llygredig yn mlaen gethiad yr efengyl, trwy goeg ymadroddion, neu ffraethebau cnawdol; ond y mae yn gymmwysedig yn (1.) mewn rhyddid, neu agoriad drws ymadrodd i draethu y gwirionedd; y fath ag y sonia yr apostol am dano yn 2 Cor. 6. 11, "Ein genau ni a agorwyd wrthych chwi, O Gorinthiaid, ein calon ni a changwyd!" Mae ysbryd chang, rhydd, yn nghyda medrusrwydd ymadrodd cyfaddas i'r peth dan sylw, yn perthynu i'r ddawn hon. (2.) Eofndra ac ymddiried.—Pan fyddo Ysbryd Duw yn ngbanol cyfyngderau a gwrthwynebiadau yn nerthu meddyliau gweinidogion, fel y cyflawnont eu gwaith yn rhwydd, gan ystyried cennadwri pwy a gyhoeddir ganddynt, y mae yr hyfdra crybwylledig yn perthyn i'r ddawn ymadrodd yma. (3.) Felly hefyd y mae sobrwydd ymadrodd yn gweddu i fawrhydi sanctaidd Crist, a'r traddodiad o'r gwirionedd. Mae yr hwn a lefaro, i "lefaru megis geiriau Duw." 1 Pedr 4. 11. Nid yn unig pregethu gwirionedd Duw a dim arall, ond gwneuthur hyny gyda sobrwydd ac ymadrodd iachus. (4.) I hyn hefyd y perthyna yr *awdurdod* hyny, sydd yn dilyn traddodiad y gair, pan y'i pregethir gyda'r cymhwysderau ysbrydol hyn; canys y mae yr holl bethau hyn yn angenrheidiol fel y byddo i'r gwrandawwyr dderbyn yr efengyl, nid fel gair dyn, ond fel y mae yn wir yn air Duw!

Yr ail dosbarth o ddyledswyddau gweinidogaethol a berthynant i addoliad Duw; sef y rhan hono o'r weinidogaeth, i ba un y mae Duw yn wrthddrych uniongyrchol; ac y mae yr addoliad yma yn cynnwys amrywiol weithrediadau, yn ol amrywiaeth ordinhadau Crist, ac amgylch-

iadau yr eglwys. O'r rhai hyn *gweddi* yw y benaf, wrth yr hyn yr ydym yn deall, cyffesiadau, deisyfiadau, a diolchiadau; naill ai wrthynt eu hunain, neu yn yr arferiad o ordinadau eraill, megis y Sacramentau. Mac gogoniant Duw yn gyssylltiedig mewn modd arbenig â'r ddyledswydd gynnwys fawr hon; ac y mae y cyflawniad o honi yn ymddibynu, naill ai ar alluoedd naturiol dynion, neu ar gynnorthwyon yr Ysbryd Glan. Os tybiwn ei bod yn ymddibynnu ar alluoedd dynion heb ddim o gynnorthwy yr Ysbryd, yr ydys yn ei gau allan oddiwrth y pethau hyny y'i haddawwyd iddynt yn benaf gan Grist. Mae y rhai na's derbyniasant y ddawn yma yn llwyr annghymwys i waith y weinidogaeth. Mewn pethau gwladol fe gyfrifid yn annghyssondeb annioddefol galw dyn i gyflawni dyledswydd, y byddai y cyflawniad o honi yn ymddibynu yn hollawl ar ryw gymhwysder neilldnol na's meddai efe ddim o honaw: ac e welir ryw ddydd, lod y cyfryw ymddygiad mewn pethau crefyddol mor annghysson; ïe, a llawer mwy.

Yn drydydd. Mae *rheoli* yr eglwys yn perthyn i'w gweinidogion. Gosododd Duw reol yn yr eglwys, yr hon a ymddiriedwyd i'w gweinidogion, y rhai ydynt ei harweinwyr, ei llywodraethwyr, a'i goruchwylwyr, Rhuf. 12. 8. 1 Cor. 12. 28. 1 Tim. 5. 17. 1 Thess. 5. 12. Heb. 13. 17. Mae y llywodraeth hon yn *ysbrydol*, ac nid yw mewn un modd yn gyssylltiedig â gweinyddiad awdurdodau y byd hwn. Perthyna i freiniaeth Crist, yr hon nid yw o'r byd hwn: ac amcan y llywodraeth hon yn unig yw adeiladaeth yr eglwys,—cymwydd ffydd ac ufudd-dod ei holl aelodau, marweiddiad pechod, ffrwythlonrwydd mewn gweithredoedd da, cysur credinwyr, ac adferiad gwrthgilwyr. Ac oddiyma y gwelwn pa beth yw natur y cymhwysderau a'r medr lyny sydd ofynol yn y rhai a weinyddant y llywodraeth hon; ac yr ydym yn dadleu mai dawn neillduol yr Ysbryd Glan ydyw hyn. Pe na buasai namyn hyddysgrwydd yn y gyfraith wladol ac eglwysig, (cydnabyddiaeth â threfniadau llysoedd daiarol, yn gweithredu trwy wysiadau, gorfodaethau, a charchariadau cyfreithiawl,) buaswn yn addef yn rhwydd na buasai angen am unrhyw ddawn neillduol o eiddo yr Ysbryd Glan; ond gan fod ei natur o'r fath a ddarluniwyd mae yn anmhossibl ei gweinyddu yn gymhwys heb gymnorthwy dwyfol. Yr Ysbryd Glan sydd yn gwneuthur henuriaid yr eglwys yn oruchwylwyr neu esgobion, Act. 20. 28; ac y mae efe yn cymhwyso dynion i'r swyddi y'u geilw iddynt, trwy ddoniau cyfaddas.

Y mae doniau hefyd sydd yn perthynu i ddyledswyddau yn unig, y rhai a gyfrennir i *holl* aelodau yr eglwys mewn amrywiaeth graddau mawr, yn ol eu lleoedd a'u sefyllfeydd. Mae Ysbryd y gras yn bywhau, yn adfywio, ac yn uno holl gorph yr eglwys yn, ac â Iesu Grist; ac yn donio ei holl aelodau â chymhwysderau ysbrydol er eu hadeiladaeth. Mae ar bob un eisiau y rhai hyn ar ei gyfrif ei hun, ac y maent yn angenrheidiol ar y rhan fwyaf o ddynion er cyflawniad eu dyledswyddau perthynasol; megis mewn teuluoedd, er addoli Duw ac addysgu plant a gweinidogion.

Felly hefyd y mae ar bob aelod o eglwys eisiau rhyw ddawn ysbrydol i'w gymhwyso i lanw ei le ynddi. 1 Pedr 4. 10. Dylai credinwyr rybuddio eu gilydd, cynghori eu gilydd, ac adeiladu y naill y llall yn eu sanctteiddiolaf ffydd; a'r duffyg o'r doniau ysbrydol a grybwyllwyd yw yr achos o'r fath esgeuluadra o'r dyledswyddau hyny, fel mai prin y clywir son am danynt yn mysg y rhan fwyaf o Gristionogion. Er hyny, bendigedig fyddo Duw, yr ydym yn meddu profion o barâad y weinidogaeth hon o eiddo yr Ysbryd yn ngalluoedd rhagorol llawer o Gristionogion annghyoedd. Yr wyf yn addef eu bod wedi eu camarfer gan laweroedd, chwyddwyd rhai i fynu ganddynt, ac eraill a'u defnyddiasant mewn dull afreolaidd (yr hyn hefyd a fu i'r cyn eglwysi); eto dewiswn drefn, ysbryd, ac ymarferiad yr eglwysi a blannwyd gan yr apostolion, gyd a'u holl anghyfleusderau, yn hytrach na thangnefedd cnawdol eraill yn eu dirywiad amlwg oddiwrth yr holl bethau hyny.

Yn olaf, nyni a ymofynwn pa fodd y dichon dynion gyrhaedd cyfrannogaeth o'r doniau hyn, pa un bynnag fyddont ai gweinidogaethol ai personol. Ac ar hyn gallwn sylwi, nad ydynt yn cael eu cyfrannu trwy ryw ysbrydoliad disymmwth a goruwchnaturiol, fel y doniau gwyrthiol i'r apostolion, a'r cyn Gristionogion. Mae yr oruchwyliaeth hono o eiddo yr Ysbryd wedi darfod er ys talm; a gellir ammeu fod y sawl a ymhoua o'r cyfryw yn bresenol dan ddylanwad penboethdra twylledig. Trachefn; nid yw y doniau hyn yn hollol gyraeddedig trwy ein diwydrwydd ni eu hunain yn yr ymarferiad o'r moddion, yn annymddibynol ar ewyllys penarglwyddiaethol yr Ysbryd Glan; canys y mae efe yn eu cyfrannu i bob un fel y gwelo efe yn dda; ac am hyny y gweiwn yr effeithiau gwahanol a gynnyrchir ar bersonau a ymwnant â'r unrhyw fyfyrdodau ac ymdrechiadau;—addurnir rhai â doniau godidog,—prin y cyrhaedda eraill ddim sydd yn ddefnyddiol,—a rhai a'u diystyrant yn hollawl. Gan hyny y mae gweithrediad uniongyrchol o eiddo yr Ysbryd Glan yn nghyfranniad y doniau ysbrydol hyn, na's gellir rhoddi un cyfrif am dano wrth fesurau galluoedd naturiol, a diwydrwydd; ac eto, sylwer, eu bod yn gyffredinol i'w cyrhaeddyd a'u cynnyddu trwy yr arferiad priodol o foddion cyfaddas, megis y mae gras ei hunan hefyd; ac o'r cyfryw, y mae yn ofynol yn gyntaf oll, barotoad cnaid trwy ostyngeiddrwydd, addfwynder, a hyddysgrwydd. Nid holl gan yr Ysbryd gyfrannu ei ddoniau neilluol i ddynion beilchion, hunan-dybus, ydynt wedi gwag ymchwyddo yn eu meddyliau cnawdol: a'r un modd y gellir dywedyd am dueddiadau llygredig a drygionus eraill a berthynant i'r meddwl, trwy yr hyn y u cauir allan, ïe, wedi eu derbyn mewn mesur unwaith. Mae gweddi hefyd yn un o'r prif foddion i'w cyrhaeddyd. I hyn y cyfarwyddai yr apostol ei frodyr, pan y'u cynghorai i chwennych y doniau goreu; canys trwy weddi yn unig yr amlygir y chwennychiad yma. Mae diwydrwydd yn y pethau y mae y doniau hyn yn perthynu iddynt, yn angenrheidiol hefyd; wrth yr hyn y golygaf yn arbenig, fyfyrdod yn ngair Duw, yn nghyd ag arferiad o'r moddion i gyrhaedd gwybodaeth o'i feddwl ynddo; canys yn

y llwybr yma yn gyffredin y mae yr Ysbryd Glan yn dyfod i fewn, ac yn cyfrannu ei gymmhorth i ddodrefnu y meddwl â'r doniau ysbrydol hyn. Y mae cynnydd y doniau hyn yn ymddibynu ar y defnyddiad ffyddlawn o honynt. Masnach yw yr unig ffordd i chwanegu talentau; a'r ymarferiad o'r doniau hyn yw y ffordd i'w cynnyddu. Pob hyn, gwywant yn gyntaf, ac yna, derfydd am danynt! Trwy esgeulusdra, fe'u collir bob dydd; y naill mewn rhan, ac creill yn hollawl; ac mewn rhai can belled, nes dirmygu, casau, a chablu yr hyn a dderbyniasant eu hunain. Yn olaf, y mae galluoedd naturiol dynion, yn nghyda hyawdledd, &c. f, a barn, wedi eu coethi drwy ddarllen, dysgeidiaeth, ac efrydiaeth ddyfal, yn ehangu ac yn addurnaw y doniau hyn lle y'u derbyniwyd.

AR YR ACHOSION, Y FFYRDD, A'R MODDION O DDEALL MEDDWL DUW YN YR YSGRYTHYRAU.

Ein hymofyniad presenol yw, *Pa fodd y gallwn ni gyrhaedd dirnadaeth gywir o feddwl Duw yn yr Ysgrythyrau, mewn gwrthwynebiad i anwybodaeth, cyfeiliornadau, camgymeriadau, a phob gau syniadau, fel ag i gyfiawni yn briodol yr holl ddyledswyddau a ofynir i ni ynddynt?*

Mewn attebiad i'r ymofyniad yma, ystyriaf yn gyntaf y prif achos effeithiol; ac yn ail, yr holl foddion, tufewnol ac allanol, a drefnwyd gan Dduw i r perwyl hyny.

Am y cyntaf,—*Ysbryd Duw yn unig ydyw;* canys y mae gwaith neilldnol o eiddo yr Ysbryd ar feddyliau dynion, yn gweinyddu doethineb, goleuni, a deall ysbrydol iddynt, sydd angenrheidiol er iawn ddirnad meddwl Duw yn ei air. Nid ydym wrth hyn yn golygu unrhyw ysbrydoliaeth brophwydoliaethol newydd neu ddigyfrwng, ac nid ydym i ymddibynu ar ddeongliad awdurdodol unrhyw eglwys; nid ydym ychwaith yn credu y gallwn trwy yr arferiad o'n rheswm naturiol, pa faint bynnag o gynnorthwyon allanol a gaffom, gyrhaeddyd y wybodaeth hon; ond yr ydym yn credu fod yr Ysbryd yn gweithredu yn neilldnol i *oleuo* ein meddyliau mewn modd *goruwch*-naturiol, a thrwy hyn yn unig y gallwn gyrhaedd i "bob golud sicrwydd deall. i gydnabyddiaeth dirgelwch Duw."

Mae yr hyn a haerwn yma yn gynnwysedig yn ngweddi y Salmydd, Salm. 119. 18. "Datguddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di." Y mae pethau rhyfedd yn nghyfraith Duw, sef y datguddiad Ysgrythyrol o ewyllys Duw,—pethau y mae y fath argraff o ddoethineb a gallu dwyfol arnynt, fel y maent yn wrthddrychau teilwng o'n synedigaeth, ac y mae yn ddyledswydd arnom edrych ar y pethau hyn, a'u deall. Nid ydym yn alluog o honom ein hunain i wneuthur hyn heb gymhorth dwyfol: am hyny y gwedd'iai y Salmydd ar i Dduw agor ei lygaid, eu datguddio, neu eu dadlenu. Y mae goleuni sanctaidd yn y gair,

ond y mae y fath orchudd ar lygaid dynion fel na's gallant ei weled yn iawn ; a gwaith neillduol yr Ysbryd Glan yw symmud y gorchudd yma.

Fe welir meddwl y Salmydd yn eglurach os ystyriwn ni y gweinyddiad o'r gras am yr hwn y gweddïai, i craill ;—"Yna yr agorodd efe eu deall hwynt, fel y deallent yr Ysgrythyrau," Luc 24. 55. Gwaith hollawl ddiangenrhaid, os credwn ni rai dynion! Ond nid oedd Crist yn meddwl hyny. Yr oedd y gwirioneddau am dano ef wedi eu datguddio yn y gyfraith, y prophwydi, a'r Salmau,—adn. 44. Darllenid y rhai hyn yn feunyddiol, ac y mae yn dra thebyg fod y personau a olygid yma, yn dra hyddysg yn llythyren yr Ysgrythyrau hyny ; eto ni's gallent iawn ddeall y pethau rhyfedd hyn, hyd oni agorodd Crist eu meddyliau.

Y mae ymadrodd arall tra nodedig i'r perwyl yma yn Eph. 1. 17, &c. "Ar i Dduw ein Harglwydd Iesu Grist, Tad y gogoniant, roddi i chwi Yspryd doethineb a datguddiad, trwy ei adnabod ef ; wedi goleuo llygaid eich meddyliau," &c. Pe credai dynion yr hyn a ddangosir yn y geiriau hyn, ni byddai raid i ni ddadleu yr achos yn mhellach ; canys y mae yr ymadroddion, â pha rai y gosodir y gwirionedd allan yma, yn rymmusach i ddeall ysbrydol, nac yr un a allem ni eu dyfeisio.

Nid am ryw ddatguddiad *newydd*, *digyfrwng*, ac *allanol*, y gweddïir yma. Ni's annogir y credinwyr i edrych am y cyfryw ddatguddiad fel eu harweinydd, ond y mae datguddiad *tufewnol*, trwy yr hyn y'n gallnogir i ddirnad pethau ydynt wedi eu datguddio yn y gair eisoes ; ac y mae yr Ysbryd Glan yn cael ei alw yma yn "Ysbryd datguddiad," am mai efe yw yr awdwr, a phrif achos effeithiol o hono ; felly yn y rhoddiad o honaw i Grist ei hunan, efe a elwir yn "Ysbryd doethineb a deall, Ysbryd gwybodaeth, yr hwn a wnai ei ddeall yn fywiog yn ofn yr Arglwydd." Esa. 11. 2, 3.

Yr hyn a elwir dan yr enw cyffredin o "bethau rhyfedd," gan y Salmydd, a ddarlunir gan yr apostol fel gobaith galwedigaeth Duw, golud gogoniant ei etifeddiaeth ef yn y saint, a rhagorol fawredd ei nerth ef yn y credinwyr. Dyma y pethau rhyfedd a osodir o'n blaen ni yn yr Ysgrythyrau ; ac ni's gallwn eu deall ond fel y'n datguddir i ni : a'r rheswm pa ham y mae rhai yn meddwl fod mor hawdd eu dirnad yw, am nad ydynt hwy yn meddwl fod dim mawr, rhyfedd, neu ogoneddus ynddynt. Gan hyny y maent yn caru eu llygru a'u diraddio, fel y byddont yn gyfaddas i'w syniadau cnawdol ac isel hwy. Dyma yr egwyddor sydd yn gweithio yn effeithiol drwy yr holl athrawiaeth Sosinaidd.

Gyda golwg ar yr holl bethau hyn y gweddïai yr apostol ar i'r Ephesiaid gael eu gwybod. Dywedir am y dyn anianol na's gall efe eu gwybod. 1 Cor. 2. 14. Hyny ydyw, drwy y defnyddiad o foddion allanol yn unig ; ond y mae yr apostol yn gweddïo gyda dwysder tra neillduol, ar iddynt gael eu gallnogi i'w deall. Ond pa ham yr arferai y fath daerni dwys? Onid oedd yr Ephesiaid yn ddynion *rhesymol?* Hwyrach eu bod mor ddoethed a dysgedig a neb yn ein dyddiau ni. Act. 19. 19. Eto, fel y deallent feddwl Duw yn yr Ysgrythyrau yn iawn, yr

oedd yn ofynol i lygaid eu deall gael eu goleuo, a bod i Ysbryd doethineb a deall gael ei roddi iddynt i'r perwyl hyny.

I'r un perwyl hefyd yr addawai ein Harglwydd yr Ysbryd Glan i gredinwyr, Ioan 16. 13. "Pan ddel Yspryd y gwirionedd, efe a'ch tywys i bob gwirionedd." Y mae efe yn Ysbryd y gwirionedd, nid yn unig fel y mae efe yn wirionedd dwyfol, tragywyddol ynddo ei hunan; ond am mai efe sydd yn datguddio pob gwirionedd dwyfol goruwch-naturiol i'w eglwys. Nid *pob gwirionedd*, yn hollol ac anmhenodol felly a olygir megis gwirionedd anianyddol, gwladyddol, a hanesyddol; ond dirgeledigaethau breiniaeth yr efengyl,—cynger Duw am iachawdwriaeth yr eglwys trwy Iesu Grist, yn nghyd a'u ffydd a'u hufudd-dod; efe a addawir i'w dysgu yn ngwybodaeth o'r gwirioneddau a ddatguddiwyd yn allanol yn y gair, mewn modd ysbrydol; ac nid i'r apostolion, neu y prophwydi cyntaf yn unig yr oedd yr addewid yma; canys yr oedd arhosiad yr Ysbryd i fod yn yr eglwys yn dragywydd, Ioan 14. 16; ac yr oedd Crist yn dymuno fod i'r rhai a gredent ynddo ef trwy ymadrodd ei apostolion, gael yr hyn y gweddïai am dano iddynt hwy, Ioan 17. 20. Yr un peth hefyd a olygir yn yr addewid hono, y byddant hwy oll wedi eu dysgu gan Dduw, yr hyn a gadarnheir am yr holl gredinwyr eto, 1 Ioan 2. 20, 27. "Y mae gennych chwi enneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw, a chwi a wyddoch bob peth: y mae yr un enneiniad yn eich dysgu chwi am bob peth." Mae yn ddiau mai yr Ysbryd Glan a'i waith a olygir wrth yr *enneiniad* yma,—gan gyfeirio at enneiniad y breiniaedd a'r offeiriaid gynt; a dywedir am gredinwyr, y rhai ydynt yn gyfrannogion o'r enneiniad tufewnol, yn noniau a grasusau yr Ysbryd Glan, eu bod yn freiniaedd ac offeiriaid i Dduw. Effaith y gwaith hwn yw, (1.) Eu bod hwy yn gwybod pob peth. (2.) Nad oes arnynt eisiau dysgu o neb hwynt. Maent yn gwybod pob peth sydd yn angenrheidiol i'w huniad â Christ, a'u harosiad ynddo ef. Pa fodd bynnag, gallant hwy gamgymmeryd mewn ychydig bethau lled ddibwys; neu nad oes ganddynt ond gwybodaeth anmherffaith o ryw ganghenau o'r athrawiaeth: eto yn mhob peth, angenrheidiol iddynt eu credu i gyfiawnder, a'u cyffesu i iachawdwriaeth, hwy a gant wybod ewyllys a meddwl Duw yn ddigyfeiliorn, megis y mae wedi ei datguddio yn ei air; a'r prif ddyben o roddi y wybodaeth hon iddynt yw, fel y'u dyogelid rhag y cyfeiliornadau a'r hudolwyr a ellir eu dysgwyl.

Dywedir hefyd, "Nid rhaid iddynt ddysgu o neb hwy;" hyny yw, yn y pethau a rag gryhwyllwyd, o ran y wybodaeth ddechreuol o honynt, a sylwedd y pethau eu hunain; eto y mae graddau pellach o wybodaeth, at yr hyn y dylai Cristionogion ymestyn, Heb. 6. 1. Ond y prif beth yw, nad rhaid iddynt ddysgu o neb hwy fel ag y byddo raid iddynt ymddibynnu ar oleuni ac *awdurdod* eu haddysg hwy. E ddichon eraill fod yn "gydweithwyr i'w llawenydd," ond ni all neb fod yn arglwyddiaethu ar eu ffydd; nid oes arnynt eisiau y cyfryw ddysgeidiaeth, oblegyd yr enneiniaid yr hwn a dderbyniasant.

Yn nesaf sylwaf yn unig pa *sierwydd* a all y dyn a ddysgwyd fel hyn yn y gwirionedd, ei feddu mai y gwirionedd a ddysgir iddo, ac nad yw yn cael ei dwyllo yn ei syniadau o honaw ; canys ar hyn yr ymddibyna y defnyddiad o'r ddysgeidiaeth yma, yn enwedig mewn amser o brofedigaeth. Nid digon yw i ni wybod y gwirionedd, rhaid i ni feddu sierwydd ein bod yn ei wybod. Hyn yw y peth a eilw yr apostol yn "olud sierwydd deall," Col. 2. 2. Mae sierwydd meddwl mewn dysgeidiaeth arall yn ymddibynnu llawer ar *awdurdod* yr athraw ; ac felly yma :—"A gwir yw yr enneiniad, ac *nid* yw gelwydd." Gwirionedd anfaeledig ydyw ; ni's gall fod twyll yn yr hyn a ddysgir trwy yr enneiniad yma. Mae y sierwydd yma yn deillio mewn rhan oddiwrth *ddull* dysgeidiaeth yr Ysbryd, ac mewn rhan oddiwrth *brofiad* y pethau a ddysgir eu hunain. Dull ei ddysgeidiaeth yw, drwy Ysgrythyrau y gwirionedd ; ac efe a ddyru *dystiolaeth ddirgel iddd* o'r hyn a ddysga efe ;—"A'r Yspryd yw yr hwn sydd yn tystiolaethu, oblegyd yr Yspryd sydd wirionedd." 1 Ioan 5. 6. A chyda golwg ar y profiad y dywedir fod yr enneiniad trwy yr hwn y'u dysgir yn wirionedd, ac nad yw gelwydd. Mae yn anmhossibl i neb a ddysgir felly gael ei dwyllo. Y mae *gallu* arbenig yn dilyn pregethiad Duw trwy ei Ysbryd : "Wele Duw trwy ei nerth a ddyrchafa, pwy sydd yn dysgu fel efe?" Job 36. 22. Felly yr esponiai ein Iachawdwr yr addewid hono, "A phawb fyddant wedi eu dysgu gan Dduw."—"Pob un gan hyny a glywodd gan y Tad ac a ddysgodd, sydd yn dyfod attaf fi," Ioan 6. 45. Mae y fath effeithiolrwydd yn dilyn dysgeidiaeth Duw, fel y mae pob un a ddysgir felly yn sier gredu y pethau a ddysga, fel un yn meddu profiad o'u gwirionedd ynddo ei hunan ; canys yr hwn sydd yn credu, y mae ganddo dystiolaeth ynddo ei hun, 1 Ioan 5. 10. Y mae profiad yn y pethau eu hunain i synied a barn ysbrydol, Phil. 1. 9. Heb. 5. 24, yr hyn sydd yn rhoddi i'r meddwl y sierwydd mwyaf ag sydd yn bossibl iddo ei gyrhaeddyd; canys pan ganfyddo *ynddo ei hunan* allu ac effeithiolrwydd y gwirionedd yn yr hwn y'i haddysgir, ei fod yn gweithio, yn effeithio, ac yn plannu y pethau eu hunain arno, yna, medda', y mae y meddwl yn meddu y sierwydd cryfaf ar a all ei ddymuno o'i wirionedd.

Mae rhan arall o waith yr Ysbryd gyda golwg ar oleuad ein meddyliau, y dylem ei hystyried hefyd ; ac y mae hyn yn golygu yr Ysgrythyr ei hunan ; canys y mae yr Ysgrythyr wedi ei chyfaddasu yn y fath fodd fel y byddai yn ffordd foesol, neu y moddion i weinyddu datguddiadau dwyfol i feddyliau dynion. Gan hyny, yr ydym yn dadleu fod Ysbryd Sanctaidd Duw wedi parottoi a threfnu yr Ysgrythyr, fel y gall fod yn foddion digonol a pherffaith i weini i'n meddyliau ni yr adnabyddiaeth gadwedigol hono o Dduw a'i ewyllys, ag sydd yn angenrheidiol er ein galluogi i fyw iddo ef, a'n dwyn i'w fwynhau ef mewn gogoniant.!

Mae yn wir nad yw efe dlim wedi gosod ei athrawiaethau mewn unrhyw gyfundrefn fel ein Holwyddoregau, neu ein cyffesau ffydd ni, &c. : ond y maent i'w cynnull allan o hanesyddiaeth, prophwydoliaethau,

gweddïau, caniadau, ac epistolau. Gellid rhoddi llawer o resymmau digonol paham na's dylynid y cyfryw drefn; ond digon yw dywedyd, mai y ffordd a ddewisodd Duw yn ddïau yw yr oreu; am mai efe a'i trefnodd. Hyn a wyddom yn sicr, fod yr Ysbryd Glan wedi cyfansoddi yr Ysgrythyr yn y fath fodd, fel y mae meddwl Duw am bob peth a berthyn i'n ffydd a'n ufudd-dod yn ngwybodaeth o'r hyn y mae ein goleuad ysbrydol yn gynnwysedig, wedi ei ddatguddio yn eglur ynddynt. Mae yn wir fod llawer o bethau dyfnion, rhyfeddol, a dirgeledig yn gynnwysedig yn yr Ysgrythyrau—pethau ydynt yn eu natur eu hunain yn anamgyffredadwy; megis athrawiaeth y Drindod, ymgnawdoliaeth Crist, arfaeth Duw, adgyfodiad y meirw, &c.; eto fe ddarparodd yr Ysbryd Glan rhag dyoddef o honom oddiwrth ein gwendid ein hunain; canys y mae pob peth sydd angenrheidiol i ni i'w gredu am y pethau hyn wedi ei ddatguddio yn amlwg; ond y mae y neb sydd yn meddwl na's gallwn gredu *gwirionedd* dim ond yr hyn y gallwn amgyffred ei *natur*, yn dymchwelyd pob ffydd a rheswm hefyd. Heblaw hyny, y mae y radd hono o adnabyddiaeth o'r pethau hyn ag sydd gyrhaeddadwy i ni, yn ddigonol gyda golwg ar ddyben datguddiad ei hunan. Mae yn wir fod rhai pethau yn anhawdd eu deall, o herwydd y dull yn mha un y'u datguddir, megis allegau, achau, prophwydoliaethau na's cyflawnwyd eto, &c.; ond pa beth bynnag a osodir allan fel hyn mewn un lle, os bydd o bwys i ni i'w ddeall, nyni a'i cawn mewn lle arall wedi ei ddatguddio mor eglur, fel y gellir dywedyd am dano fel y dysgyblion gynt, "Wele yr wyt ti yn awr yn dywedyd yn eglur, ac nid wyt yn dywedyd yr un ddammeg;" ac os oes unrhyw ran o'r Ysgrythyr eto yn dywyll, y mae hyny er ymarferiad ein ffydd, diwydrwydd, gostyngeiddrwydd, ac ymddibynniad ar Ddduw yn ein hymchwiliadau iddynt. Rhoddes yr Ysbryd Glan hefyd gymmhorth i ni yn hyny trwy roddi i ni reol er deongliad yr Ysgrythyr, yr hon os ymdrechwn i'w dilyn yn ddiffuant, a'n ceidw rhag perygl i lygru gair Duw yn bechadurus; ïe, er methu o honom a chael allan ystyr fanol pob rhyw ymadrodd; a'r rheol hon yw *cyssondeb y ffydd*. Fe gyfarwyddir yr hwn a brophwydo, hyny yw, a ddeonglo yr Ysgrythyrau yn yr eglwys, i wneyd hyny yn ol cyssondeb y ffydd, Rhuf. 12. 6. A'r cyssondeb yma yw yr hyn a ddysgir yn eglur ac unffurf trwy yr holl Ysgrythyr fel rheol ein ffydd a'n hufudd-dod. Y mae y fath gyd berthynas rhwng gwirioneddau Dwyfol a'u gilydd, fel y mae pob un o honynt, mewn dull, yn mhob lle, os nid yn briodol, eto trwy ganlyniad a chyssylltiad; fel be byddai dyn yn methu ystyr briodol gyntaf rhyw destyn tywyll, eto tra na's derbynia unrhyw ystyr ond a ddatguddir mewn rhyw le arall, nid yw y camgymeriad yn peryglu ei ffydd neu ei ufudd-dod ef ei hun na'r eiddo arall.

Yn awr mae yn gweddu i ni ystyried Y MODDION y dylem eu defnyddio er iawn ddeall meddwl Duw yn ei Air.

Y cyntaf o'r rhai hyn yw dysal ddarllen yr Ysgrythyr, yn nghyda

dwys ystyriaeth o'r hyn a ddarllenom. Trwy hyn y mae meddyliau dynion yn cael eu dwyn i gydnabyddiaeth gyffredinol â natur ac ag amcan Llyfr Duw: y maent yn dwyn eu meddyliau i weithredu ar bethau nefol; maent yn cael golygiadau cywir ar Ddduw ac arnynt eu hunain; maent yn cael eu dwyn i ymarfer eu syniadau, er gwahaniaethu rhwng da a drwg, rhwng gwirionedd a chyfeiliornad; ac y mae Duw yn fynych yn gweled yn dda ddylanwadu eu heneidiau âg effeithiolddeb y gwirionedd Dwyfol mewn ffordd o gynghor, cerydd, addysg, neu gystur.

Ond, heblaw darllen *arwynebol*, dylid cymeryd poen i chwilio am ei wir ystyr mewn lleoedd neilldnol. Dylid astudio yr Ysgrythyrau gyda gofal a diwydrwydd, yn gyssylltiedig â'r hyn yr wyf yn golygu gofal beunyddiol am *gyssondeb* y ffydd, ymchwil i *amcan* y lle; yn nghyd a sylw ar y rhanau rhagflaenorol a dilynol. Dyma y moddion allanol cyntaf i ddysgu meddwl Duw yn ei air.

Yn yr arferiad o'r moddion hyn, ac i'w gwneuthur yn effeithiol, y mae amryw gynnorthwyon, y rhai y gellir eu galw,

1. *Ysbrydol*,—2. *Dysglybaethol*,—3. *Eglwysiy*.

Y peth cyntaf a ofynir fel moddion *ysbrydol* yw gweddi;—wresog, daer, am gynnorthwy yr Ysbryd; fel y byddo iddo oleuo ein meddyliau, a'n harwain i wybodaeth y gwirionedd. E ddylai gwerthfawrogrwydd y gras hwn i'n ffydd a'n hufudd dod, addewidion llnosawg Duw mewn perthynas iddo, yr angenrhe drwydd am dano o herwydd ein gwendid a'n tywyllwch anianol ni, ei wneuthur yn brif destyn ein gweddiau beunyddiol. Y mae hyn yn anhebgorol angenrheidiol, ac heb hyn, ni bydd pob moddion arall ond annigonol; ac nid wyf yn meddwl y bydd i neb a weddio fel hyn, byth gael ei adael dan lywodraeth unrhyw gyfeiliornad niweidiol, neu mewn anwybodaeth o unrhyw wirionedd sylfaenol. Nid oes neb yn llwyr aflwyddiannus yn eu cais i adnabod meddwl Duw, ond y rhai a wyrdröir gan eu meddyliau llygredig eu hunain;—ond ffydd, o'i hymarfer yn y ddyledswydd hon, a bar "roddi heibio bob budreddi a helaethrwydd malais," yr hyn a all ein hattal i dderbyn yr impiedig air gyd ag addfwynder, er cadwediguch ein heneidiau: hi a gynnyrcha yn ein meddyliau y cymhwysderau hyny o addfwynder a gostyngeiddrwydd, i'r rhai yr add awir dysgeidiaeth Duw; ac y mae ein Hiachawdwr wedi sicrhau i ni y bydd i'w "Dad nefol roddi yr Ysbryd i'r sawl a ofynant ganddo."

Mae gweddi daer am ddysgeidiaeth ddwyfol yn angenrheidiol mewn modd mwy arbenig ar y rhai a elwir i gyhoeddi meddwl Duw i eraill; a mawr yw y manteision a ddylynant y cyflawniad cydwybodol o'r ddyledswydd hon; o'i blaen y dymchwelir bryniau rhwystrus rhagfarnau, manteision bydol, awdurdod ddynol, a dylanwad cymdeithasau a phleidiau; canys y mae yn cynnwys penderfyniad diffuant i dderbyn meddwl Duw pa effaith bynnag a gaffo hyny ar y dyn tufewnol neu yn allanol. Ie yn ddiau y mae dyn wrth gymeryd arno ddehongli unrhyw ran o'r Ysgrythyr heb alw ar Ddduw i'w ddysgu trwy ei Ysbryd, yn ei annog ef i ddigofaint; as

ni's disgwyliwn gael allan y gwirionedd drwy neb un a ymgymerai mewn balchder fel hyn â gwaith gymmaint uwchlaw ei allu oedd; ond yma y mae esponiwr ffyddlawn yn ffoi yn mhob dyrysweh: ac ni's gall fod yn dawel ei feddwl heb hyn, ei fod wedi cyrhaedd meddwl yr Ysbryd mewn unrhyw ddatguddiad dwyfol. Pan y mae pob cynnorthwyon eraill yn methu, fel y maent yn fynych, yma y câ efe yr ymwared goreu. Mae llafur esponwyr blaenorol yn dra defnyddiol; ond y maent yn mhell o gael allan ddyfnderoedd gwythïen doethineb; ac ni's gall ein hymdrechion gorau roddi terfyn i'r sawl a'n dylynent; a'r rheswm pa ham y mae y cyffredin o esponwyr yn dilyn ol eu gilydd, oddieithr ar ambell i hynt o chwilfrydedd, yw, eu bod heb lwyr ymroddi i dywysiad yr Ysbryd Glan yn y cyflawniad dyfal o'u dyledswydd.

Moddion arall i'r un dyben yw parodrwydd i dderbyn argrffiadau o'r gwirioneddau dwyfol fel y'u datguddir i ni yn yr Ysgrythyrau. Amcan pob datguddiad dwyfol yw cynnyrchu eu delw a'u cyffelybiaeth yn ein meddyliau; ac yr ydym ni yn methu y nod, os nad hyn yw ein hamcan blaenaf wrth fyfyrio ar y Bibl. Yr unig un sydd mewn agwedd gyfaddas i ddysgu gan Dduw yw yr hwn sydd yn llwyr roddi ei feddwl, ei gydwybod, a'i serchiadau i'w llywodraethu a'u rheoli gan yr hyn a ddatguddir iddo.

Moddion arall i'r un dyben yw ufudd-dod ymarferol yn ein rhodiad ger bron Duw. Dyma y modd yn unig y cawn ni sicrwydd mai gwirionedd yn ddiau yw yr hyn a ddysgwn. Felly y dywaid ein Iachawdwr, Ioan 7. 17. "Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth, pa un ai o Dduw y mae hi." Tra byddo dynion yn boddloni ar ddysgu y gwirionedd o ran y farn ain dano, pa argyhoeddiad bynnag o'i fod felly a'i dylyna, ni's cyrhaeddant ddiysgogrwydd yn eu meddyliau, oddieithr eu bod yn ei arddangos yn eu hymarweddiad trwy wneuthur ewyllys Duw. A hyn yw yr achos pa ham yr ydym yn gweled cynnifer yn colli y wybodaeth a feddent o athrawiaeth y gwirionedd, pan unwaith yr ymollyngont i fuchedd annuwiol.

Heblaw hyny, y mae dymuniad ac ymdrech gwastadol i gynnyddu mewn gwybodaeth, a hyny yn deillio oddiar gariad at y gwirionedd a phrofiad o'i ardderchawgrwydd, yn dra defnyddiol; ïe, ac angenrheidiol i ddeall meddwl Duw yn yr Ysgrythyr. Mae rhai yn dueddol i feddwl eu bod hwy yn gwybod digon eisoes; neu, hwyrach, gymmaint ag sydd i'w wybod am bethau dwyfol. Ni's dysgwyliaf ryw ddarganfyddiadau mawrion na defnyddiol o feddwl Duw oddiwrth y cyfryw rai. Mae ansawdd calon wahanol yn ofynol oddiwrth y rhai a fynnont gael eu dysgu;— y maent hwy yn ymestyn yn mlaen yn barhaus yn yr arferiad o bob modd ion i gynnyddu yn y ddoethineb hon,—i gynnyddu mewn gras, ac yn ngwybodaeth Crist. Y mae yr ansawdd meddwl yma o dan addewid o ddwyfol ddysgeidiaeth,—"Yna yr adnabyddwn, os dilynwn adnabod yr Arglwydd," Hos. 6. 3. "Os gwaeddi ar ol gwybodaeth; os cyfodi dy lef

am ddeall: os ceisi hi fel arian, os chwili am dani fel am drysorau cuddiedig, yna y cei ddeall ofn yr Arglwydd, ac y cei wybodaeth o Dduw." Diar. 2. 3—5. Tra mae dynion yn byw gan sanctaidd fawrygu Duw, fel Duw gwiniouedd; tra maent yn mawrygu y datguddiadau chang hyny o honaw eu human a drysorodd efe yn yr Ysgrythyr; ac o dan ddwys ymsynied o fyeh-ander eu cyfiaeddiadau eu hunain, y byddont yn parhau yn amyneddgar i fyfyrio ar y gair, y maent ar y ffordd i gael eu dysgu ganddo ef, ac i ddysgu ei feddwl ef i holl ddyheniou priodol datguddiad.

Yr ail fath o teddion a alwaf *Dysgyblaethol*, am eu bod yn gynnwysedig mewn defnyddiad priodol or cellion a'r gwyddion, *(arts and sciences)* i efrydiaeth yseryti yrol; y cyntaf o ba rai yw Lyddysgrwydd yn yr ieithoedd yr y gritenwyd yr Ysgrythyran yneddynt gyntaf, canys yr oedd hyd yn nod *gelfyddyn* yr Ysgrythyran, oddiwrth yr Ysbryd Glan mewn modd neilltuol. Rhaid ad le f bod llawer o fanteision yn gyssylltiedig â darllen yr Ysgrythyran fel y'u hysgrifenwyd yn yr ieithoedd gwreiddiol. Yn ddynt hwy yn arbenig y mae y Llbl yn *gyngfa n trwy ddwyfol ysbrydoliaeth*, 2 Tim. 3 16; a'r yn *Llyfr ysgrifen ar Arglwydd*, Esa. 34. 16, mewn modd rhagorach na'r holl rhyw gyfieithiadau. Am hyny y mae hyd yn nod y geirian eu hunain fel y maent wedi eu gosod yn yr iaith hono, yn gyssegredig gan Dduw. I'r defnydd sanctaidd hwnaw: gan hyny y mae pob iod, neu lob tipyn yn bwysig; ac weithian fe ddichon fod ystyriaethau pwysig, nen ddirgelion arbenig yn gynnwysedig yn *defnyddiad* a chymhwysiad an lythyren, megis y gwelir yn nghyfnewidiad caw *Abram* a *Sarai*. Mae gryn neilltuol lefyd mewn *geiriau* ac ymadroddion yn yr ieithoedd gwreiddiol i osod allan fe ddelwedd yr Ysbryd Glan, yr hyn nis gellir ei gyfieithu fel ac i gadw y gryna yr edrychiad oh hwnaw. Gan hyny, y mae cydnabyddiaeth â'r ieithoedd hyny o ddefnydd mawr i'r rhai a elwir i ddeongli yr Ysgrythyran; ac nid ychydig o les a gafodd eglwys Duw oddiwrth lafur dynion dysgedig; er hyny nid yw y medrusrwydd yma yn ddyledswydd yn deli ei hunain, ac nis *gofynir* hi gan neb er ei mwyn ei hun yn unig ond fel y mae yn wasanaethgar i ddyben pennodol: ond gan fod swm a sylwedd yr Ysgrythyr yn cael ei gadw yn gyfan yn mhob *cyfieithiad da*, (yn mysg y rhai y mae yr eiddom ni yn rhagorol,) fe all dynion, trwy ddefnyddio y cellion a nagcyfryw eyllwyd, a thrwy arweiniad a dysgeidiaeth yr Ysbryd Glan, ddeonli yr Ysgrythyr ar y cytan yn ddefnyddiol a chywir, er adeiladaeth rhai craill; o'r hyn y gellid yn hawdd roddi amryw anghrifftiau hen a diweddar.

Heblaw hyny, y mae cydnabyddiaeth *a hanesyddiaeth, daearyddiaeth, ac amseryddiaeth*, a medrusrwydd mewn *cherymeg*, yn mysg y cynnorthwyon dysgyblaethol, y rhai a wna nacthant yn fawr er lawn ddeonliad o'r Ysgrythyran; ac e fydd pwy bynnag a gymero arno esponio rhyw gyfran led helaeth o'r Ysgrythyr yn sier o'i deinlo ei hunan yn barod i ddyrysu, onis medda ryw wybodaeth o'r cellion hyn; ond eto y mae yn rhaid gwneyd yr addefiad yma gydag eithriadau priodol; canys pa mor berffaith

bynnag y gall ein rhesymeg ni ymddangos, y mae i fod yn ddarostyngedig i ddoethineb yr Ysbryd Glan. Ei ffordd ei hun o ymresymu sydd ganddo ef bob amser, ac weithiau y mae mor arddunawl a nefawl fel na's gellir ei wisgo wrth reolau cyffredin ein celfion a'n gwyddion ni, heb wannychu ei effeithioldeb addysgiadawl, argyhoeddiadawl, a darbwyllawl.

Yn drydydd. Y mae moddion a chymmorthwyon y rhai y gellir eu galw yn *Eglwysig*, sef y cyfryw ag a arlwyir trwy weinidogaeth yr eglwys yn mhob oes.

Dadleua rhai y dylid deongli yr Ysgrythyr yn ol *traddodiad cyffredin* yn unig; ond pa faint bynnag a fostio rhai, ni's gall un dyn brofi fod ei ddeongliad o un ran o'r Ysgrythyr wedi ei roddi iddo trwy awdurdod traddodiad cyffredinol, mwy nac y gall brofi ei fod yn gyson a'r Ysgrythyr ei hunan; oddieithr addef o honom heb unrhyw brawf, mai barn rhyw ddynion a'u galwant eu hunain yn eglwys yn bresenol, oedd meddwl Crist, a'i apostolion, a phob gwir gredinwyr er y pryd hyny hyd yn awr.

Haerir hefyd fod *cydsyniad unfryd y Tadau*, neu hen Ddysgawdwyr yr eglwys i fod yn rheol deongliad yr Ysgrythyr; ond y mae yn anmhosibl i rai sydd yn annghyttunaw cymmaint a'u gilydd, fod yn rheol wirioneddol i eraill; ond y mae y dwyli ddadl o awdurdod benderfynol y Tadau mewn pethau crefyddol, wedi ei gwrthbrofi mor gyflawn fel nad rhaid i ni ymhelaethu ar hyny yma yn bresenol.

Gan hyny, yr ydym yn dal mai yr unig ddefnydd a ellir ei wneyd o *foddion eglwysig* yn deongliad yr Ysgrythyr yw y defnyddiad o'r golau a'r deall hwnw, a'r doniau hyny er gosod meddwl Duw allan yn ei air, a'r hyn y cynnysgaeddodd efe y rhai a'n blaenasant ni yn ngweinidogaeth yr efengyl: canys megis ag y darfu i Dduw ofalu yn mhob oes ar fod i athrawiaeth yr efengyl gael ei phregethu yn gyhoeddus er adeiladaeth yr eglwys, felly y darfu iddo yn mhob oes o'r braidd, i osod allan eu barn am ei feddwl yn ei air drwy *ysgrifen*. O'r rhai a ysgrifenasant esponiad yn fwriadol, *Origen* oedd y cyntaf; ac er cynnifer o ffoleddau a chamgymeriadau a anafent ei waith ef trwy fod ei feddwl wedi ei ragfeddiannu a'r athroniaeth Blatonaidd, âg ymddiried yn ei alluoedd mawrion ei hunan, ac â chwilfrydedd meddwl dychymygol; ni's digalonwyd eraill rhag ysgrifennu esponiadau ar rannau cyfain o'r Ysgrythyrau, gyda mwy o sobrwydd, a gwell llwyddiant. Y cyfryw yn mysg y Groegiaid oeddynt *Chrysostom, Theodoret, Arrctine, Oecomenius, Theophylact;* ac yn mysg y Lladinwyr, *Jerome, Ambrose, Austin,* ac eraill. Dylynid y rhai hyn gan dorfoedd mawrion mewn oesoedd diweddarach, ac yn enwedig er y Diwygiad, gyda llwyddiant mawr. Mae y rhai hyn oll yn gynnorthwyon rhagorol i iawn ddeall yr Ysgrythyr; ac y mae yn hawdd deall wrth amrywiaeth eu doniau fod yr Ysbryd Glan wedi cyfrannu iddynt fel y gwelodd ef yn dda. Yr un Ysbryd sydd yn eu gwneuthur yn ddefnyddiol yn ol cynghor ei ewyllys ei hun. Mae rhai yn dueddol wrth eu defnyddio i bwyso ar eu deall eu hunain, ac i wibio ar ol dychymygion eu meddyliau; ac y mae

efe yn gadael eraill yn *mhlisgyn y testyn*, i dreulio eu medr yn nghylch geiriau yn unig, heb eu harwain i ystyr ysbrydol y gair, yr hyn yw ei fywyd a'i allu. Mewn rhai y mae yn eu bendithio i ddyben cyflawn a phriodol, ond nid heb eu hymostyngiad i'r moddion a'r dyledswyddau ysbrydol a nodwyd o'r blaen.

E ddichon y gwrthddadleuir yn erbyn hyn, 1. Na's gall y rhai na's derbyniasant gynnorthwy dwyfol ddeall y gwirionedd a gynnwysir yn yr Ysgrythyr, ac am hyny nad ydynt i'w beio:—2. Bod yn rhaid i'r sawl a arweinir gan yr Ysbryd fod yn deall yr holl Ysgrythyr yn berffaith, heb un math o gamgymeriad: pob un o ba osodiadau sydd wrthwyneb i'r gwirionedd: canys y mae llawer, y rhai ydynt yn amlwg yn amddifaid o waith yr Ysbryd ar eu calonnau, eto wedi cyrhaedd gradd helaeth o wybodaeth o'r gwirionedd; ac y mae yn amlwg hefyd fod rhai a oleuwyd ac a sanctaiddiwyd yn wirioneddol, yn cwympo i amryw gyfeiliornadau. Atteb byr i'r gwrthddadleuon hyn a derfyna y traethawd hwn.

(1.) Mae yn yr Ysgrythyr amryw bethau ydynt yn gyffredin i ysgrifenadau eraill, megis ffeithiau hanesyddol, rhanau ymadrodd, amryfal fath o ddadlyddiaethau, &c., yr hyn bethau y geill dynion eu deall yn eithaf heb gynnorthwyon neillduol yr Ysbryd Glan.

(2.) Mae prif athrawiaethau y gwirionedd yn cael eu cyflcu yn y fath ddull eglur, fel y gall y sawl a gymero sylw diragfarn o honynt yn yr arferiad o foddion cyffredinol, eu deall, heb unrhyw waith o *oleuad cadwedigol* ar eu meddylian. Mae gosodiadau y gwirionedd mor eglur, fel mai bai a phechod dynion wedi eu doniaw a galluoedd rhesymol yw bod heb eu canfod, a chydsynio â hwy.

(3.) Wrth ystyried *gwaygedd naturiol* y meddwl dynol, a'i duedd i gyfeiliorni, fe ddylid priodoli cynmaint o gynnydd ag a wnelo mewn gwybodaeth o'r gwirionedd i Ysbryd Duw, er na byddo yn gweithredu ar y meddwl drwy weinyddu goleuni a gras achubol iddo;—canys

(4.) Nid y wybodaeth o'r gwirionedd a gyrhaeddir fel hyn, yw y goleuni hwnw yr ymofynwn yn ei gylch; ac nid yw yn cynnyrchu yr effeithiau hyny o adnewyddiad y meddwl, a'i drawsnewidiad i ddelw y pethau a wybyddir, yn nghyd a'r ffrwythau o ufudd-dod sanctaidd, ydynt annysgaredig â goleuni achubol.

I'r ail wrthddadl attebaf, gan sylwi, (1.) Fod yr addewid o'r Ysbryd i'n dysgu, ein hyfforddi, a'n tywys i bob gwirionedd, yn cyfatteb i'r dyben mawr i ba un y rhoddes Duw ei air i ni, sef, fel y byddai i ni fyw iddo ef yma yn ol ei ewyllys, ac y'n dyger ar ol hyn i ogoniant. (2.) Nad ydyw yn angenrheidiol i ni ddeall ystyr ac arwyddocâad penderfynol pob rhyw destyn o'r Ysgrythyr, neu bod i ni gyrhaedd gwybodaeth o bob peth a ddatguddir yn y Bibl; digon yw bod gwybodaeth o bob gwirionedd angenrheidiol i'r perwyl hyny yn cael ei weini i ni. (3.) Ni's llwyr ddiogelir ni trwy hyn rhag rhai camgymeriadau, mwy nac y'n diogelir rhag pob rhyw bechodau gweithredol trwy ras adnewyddol Duw yn gweithredu ar

ein hewyllysiau; ond fel y mae ewyllysiau credinwyr yn cael eu hadnewyddu trwy ras i'r fath fesur ag a'u diogelà rhag y cyfryw bechodau ag ydynt annghyson à buchedd sanctaidd yn ol trefn y cyfammod, tra y maent yn agored i lawer o wendidau a phechodau gweithredol, felly y mae eu *meddylian* yn cael eu hadnewyddu gymmaint fel ag i wybod a chydsynio â phob gwirionedd, angenrheidiol er eu *buchedd sanctaidd*, yr hyn er hyn a all fod yn cydsefyll â llawer o gamgymeriadau er eu hanfantais fawr; ond rhaid addef fod dysgeidiaeth Ysbryd Duw o bob gwirionedd, yn y datguddiad o honynt yn yr Ysgrythyr, ac yn y cynorthwy a ddyry efe i ni ddeall ei feddwl ynddynt yn y fath fodd, fel na's cyfeiliornwn am unrhyw wirionedd ysgrythyrol mewn perthynas i'n dyledswydd tuag at Dduw, ond trwy ein *pechod* cystal a'n *gwendid* ein hunain. A phe byddai i bawb sydd yn credu, ymddiosg o'u rhagfarnau, a phob rhyw argraffiadau a ddeillia oddiar lesion bydol, gan ymroddi yn ostyngedig ac yn drwyadl i ddarbyn addysg gan Dduw, nyni a allem "ymgyfarfod oll yn undeb ffydd, yn ngwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist," Ephes. 4. 13. Ac e ddichon y sylwadau hyn fod yn ddigonol i egluro gwaith yr Ysbryd Glan yn ein *goleuad*, gyda golwg ar yr achosion gwrthddrychol o hyny, neu yr Ysgrythyr Lan ei hunan.

DIWEDD.

THEOLOGY LIBRARY
CLAREMONT, CALIF.
440893

WYDDGRUG, ARGRAFFWYD GAN H. AC O. JONES.

47800

BT120 .8719 1840
Owen, John, 1616-1683.
Traethawd am yr Ysbryd Glan : yn yr hwn

BT
120
8719
840

Owen, John, 1616-1683.

Traethawd am yr Ysbryd Glan; yn yr h
ymdrinir am ei enw, ei natur, ei bersc
ei oruchwyliaeth, ei weithrediadau, a'
iau. Ac y gwneir sylwadau eglurhaol a
fynol ar ei holl waith yn yr greadigae
newydd. Wedi ei gyfieithu yn benauf c
... gan Owen Jones. Wyddgrug, Hugh ac
Jones, 1840.

viii, 408p. 17cm.

Translation of Pneumatologia; discourse concern- ing the Holy

449393